Esboniad ar yr Epistol at yr Hebreaid

D. M. Phillips, M. A., Ph. D.

GAN YR UN AWDWR.

"Dysgeidiaeth yr Epistol at yr Hebreaid."—Pris 2s. 6c. Argraffiad Llyfrgell, 3s. 6c., i fod yn barod yn niwedd Medi.

Bydd y gyfrol yn ymwneyd a holl ddysgeidiaeth yr Epistol yn y ffurf o draethodau byrion, gwahanol i'r rhai sydd yn yr Esboniad, a rhoddir copi ohoni am 2s. i holl brynwyr yr Esboniad ar yr Epistol gan yr Awdwr, ar yr amodau (1) fod yr archeb yn cael ei hanfon i'r Awdwr cyn diwedd Gorphenaf nesaf; (2) bod enw yr archebwr yn cael ei anfon ar y Coupon hwn. Gellir archebu drwy lyfrwerthwyr ond i'r amodau uchod gael eu llanw. Ni werthir y gyfrol i neb dan y pris cyhoeddedig ond i brynwyr yr Esboniad.

Enw .....

.....

B54/36



GLADSTONE LIBRARY

GWEITHIAU EREILL GAN YR UN AWDWR.

Cyhoeddedig yn Swyddfa y "Deonglwr."

1. **Athroniaeth y Meddwl.**—Pumed argraffiad, 7s. 6c. a 10s. 6c. net (allan o argraff).
2. **Egwyddor Moesol Gynghanedd.**—Chweched argraffiad, 3s. 6c. a 5s. net.
3. **Athroniaeth Anfarwoldeb.**—Pedwerydd argraffiad, 3s. 6c. a 5s. net.
4. **Esboniad ar Efengyl Matthew.**—Degfed argraffiad, 3s. 6c. a 6s. net.
5. **Esboniad ar Efengyl Marc.**—Pedwerydd argraffiad, 3s. 6c. a 5s. net.
6. **Esboniad ar Efengyl Luc.**—3s. 6c. net (allan o argraff).
7. **Esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid.**—Pumed argraffiad, 3s. net (allan o argraff).
8. **Esboniad ar Epistolau Petr.**—3s. a 5s. net.
9. **Esboniad ar Epistolau Ioan.**—Pedwerydd argraffiad, 2s. 6c. a 4s. net.
10. **Esboniad ar yr Epistolau at y Philippiaid a'r Colossiaid.**—Pedwerydd argraffiad, 2s. 6c. a 4s. net.
11. **Cofiant a Phregethau David James, Llaneurwg.**—2s. 6c. net (allan o argraff).
12. **Evan Roberts, the Great Welsh Revivalist, and his Work.**—Seventh and cheaper edition, 5s. net.
13. **Evan Roberts a'i Waith.**—3s. 6c. a 5s. net.
14. **Hau a Medi.**—Cyfrol o Bregethau gan y Parch. W. E. Prytherch, Abertawe, 3s. 6c. net.

YN Y WASG.

15. **Dysgeidiaeth yr Epistol at yr Hebreaid.**—2s. 6c. a 3s. 6c. net.

Esboniad ar yr Hebreaid.

GAN Y

PARCH. D. M. PHILLIPS, M.A., PH.D.,
TYLORSTOWN.

Ἰησοῦς Χριστὸς ἐχθὲς καὶ σήμερον ὁ αὐτὸς καὶ εἰς τοὺς αἰῶνας.
Heb. xiii. 8.

Cancelled from
Gladstone's Library
GLADSTONE'S LIBRARY

ALL RIGHTS RESERVED.

ST. DEINIOLS
HAWARDEN
LIBRARY

CAERDYDD.
ARGRAFFWYD GAN EVANS A WILLIAMS, CYF., FREDERICK STREET.
1913.

Mewn llawer rhan a modd llefarodd Duw y Tad,
Mewn pur brophwydi gynt cyn dyfod Iesu mad;
Ond yn y dyddiau hyn mireiniach yw ei iaith—
Yn llais ei Ddwyfol Fab rhagorach peth a draeth.

Gwir lun ei berson mawr yw'r Mab Anfeidrol pur,
Ei annherfynol fôd ddisgleiria ynddo'n glir.
Yr aml fydoedd mawr a greodd drwy ei nerth—
Dadblyga'r Mab yn llawn eu holl annhraethol werth.

Cynhalia'r Mab a'i air feidrolion o bob rhyw,
Trwy rin ei ryfedd waith, daeth yn etifedd Duw.
Gwnaeth buro pechod llu, gwnaeth ffordd i'w gwneyd yn wyn,
Yn uchel gyda'r Tad dyrchafwyd ef am hyn.

Rhagorach enw Crist nag enw engyl gwawl—
Gwnaeth etifeddu hwn trwy wreiddiol ddwyfol hawl;
Mae'n fwy na'r engyl mân, a'r sereiff mawr eu dawn—
Mwy na Cherubiaid Nen a'u holl alluoedd llawn.

Er iddo wisgo cnawd, a'i wneyd yn is am dro
Na'r engyl o bob gradd, sydd yn y nefol fro;
Ei demtio'n ingol ddwys, a dioddef angau du,
Ei ogoneddu wnaed uwchlaw'r angylaidd lu.

Mae'n fwy na Moses a Josuah a'u myg lwydd,
Yn fwy nag Aaron bur gyflawnai ddwyfol swydd;
Gweinyddwyr oeddynt hwy yn nhy cysgodol Duw,
Mab ar ei dy ei hun oedd safle Iesu gwiw.

Yn archoffeiriad daeth trwy annherfynol nerth—
Nerth bywyd pur ei fôd—un o anfeidrol werth.
Yng ngrym ei Ysbryd mawr haeddianol Iawn a roes,
Boddlonodd fynwes Duw wrth farw ar y Groes.

Ymddengys yn y nef, ar ran euogion byd,
A geilw arnynt oll i ffoi i'r noddfa glyd;
Fel hen enwogion ffydd, gwnawn wrando ar ei lef,
A rhoddwn creu'n hoes i enill Teyrnas Nef.

Tylorstown, Mawrth 28ain, 1913. D. M. Phillips.

CYNWYSIAD.

I. Rhagymadrodd ... ... v.—xxxii.

II. Esboniad ... ... 1—336

III. Traethodau—

1. Dadblygiad Datguddiad ... ... 9—11
2. Y Mab a'r cread ac a Duw ... ... 23—24
3. Dyn yn is ac yn uwch na'r angel ... ... 48—49
4. Pum' mawredd dyn ... ... 49—51
5. Caledwch calon ac ewyllys dyn ... ... 67—69
6. Pedair gorphwysfa Duw ... ... 90—91
7. Chwech amod cydymdeimlad ... ... 91—93
8. Dysgu ufudd-dod ... ... 111—113
9. Tri llw Duw ... ... 138—139
10. Saith amod ammhosibilrwydd adferiad ... 139—141
11. Melchisedec, Brenin Salem ... ... 164—168
12. Bywyd annherfynol ... ... 168—170
13. Deddfau Duw ac enaid dyn ... ... 182—183
14. Aberth anfeidrol yr Ysbryd Tragywyddol ... 206—209
15. Cyfamod a Thestament ... ... 209—213
16. Y tair archoffeiriadaeth ... ... 243—245
17. Y tri pherffeithiad ... ... 278—280
18. Tri chyflwr Crist ... ... 306—308
19. Y tri phechod ... ... 332—333
20. Tair perthynas pechod ... ... 333—334
21. Arch y Cyfamod a'i chynwys ... ... 334—335

GWALLAU.

Nid yw yr ychydig wallau sillebol, atalnodol a rhifnodol lithrodd i'r gyfrol yn werth eu nodi am nad ydynt yn gamarweiniol i neb a ddarllena y cysylltiadau. Ammhosibl bron yw troi allan gyfrol o faintioli hon heb i ychydig wallau argraffyddol i ddigwydd ynddi er pob gofal o eiddo yr argraffwyr.

TALFYRIADAU.

C C.	Cyn Crist.
O.C.	Oed Crist.
C.A.	Cyfieithad Awdurdodedig.
C.C.A. ..	Cyfieithad Cymreig Awdurdodedig.
MS.	Llawysgrif.
MSS. ..	Llawysgrifau.
LXX.	Cyfieithad y Deg-a-Thrigain.
H.D.	Hen Destament.
Hen Dest. ..	Hen Destament.
T.N.	Testament Newydd.
Test. Newydd	Testament Newydd.
Etc.	Ac felly yn y blaen.

Yr Epistol at yr Hebreaid.

RHAGYMADRODD.

I. Gallu, Ysgolheigdod a Chymeriad yr Awdwr.

Dim ond cawr meddyliol, a meistr y gelfyddyd o feddwl, ymresymu ac ysgrifenu allasai gyfansoddi yr Epistol hwn. Dengys ei awdwr gyfarwydd-der perffaith a'r syniadau cyfoethocaf, dyfnaf, aruchelaf ac ysbrydolaf; gesyd hwy allan mewn iaith bur, gref, gyfoethog, a hono yn llawn perseiniaeth areithyddol; ä at ei fater yn drefnus, a cheidw at drefn o'r dechreu i'r diwedd; pan ymdrinia a'r syniadau dyfnaf nid oes ol aneglurder arno, na diffyg dirnadaeth lawn ohonynt, nac amddifadrwydd o addfedrwydd barn arnynt. Rhaid ei fod nid yn unig yn un o brif feddylwyr ac ysgolheigion ei genedl, ond hefyd yn un o brif feddylwyr ac ysgolheigion y byd ar hyny o bryd. Datguddir ei fawredd meddyliol yn agoriad yr Epistol. Dengys yma hyddysgrwydd yn natguddiadau Duw i'r byd yn yr amser a fu, a dirnadaeth glir o ragoriaeth y datguddiad yng Nghrist arnynt. Ni phetrusa ddatgan ei syniadau ar berson Crist, ei berthynas a'r cread a'i ddadblygiad, ei berthynas a'r Tad ac a iachawdwriaeth rad pechaduriaid. Noda natur, safle a swydd holl angylion Duw mewn iaith fyw a diamwys heb ddangos gradd o amheuaeth am gywirdeb ei syniadau; cymhara iachawdwriaeth Sinai ag iachawdwriaeth Calfaria; desgrifia fawredd gwreiddiol dyn a bod Crist wedi cyrhaedd delfryd Duw am ddyn gyda hawsder a'n syna; dangosa yr angenrheidrwydd i'r Iesu fod yn wir ddyn i allu bod yn Archoffeiriad dros ddynion nes cario argyhoeddiad llwyr yn ein meddwl. Gwasga hanes y genedl yn yr anialwch ar ei ddarllenwyr a rhybuddia hwynt i gadw rhag yr un calongaledwch, ac anoga hwynt i ymdrechu cyrhaedd yr orphwysfa ddarparodd Duw i ddynion Trinia gymhwysderau archoffeiriad a dengys eu bod oll yn ddelfrydol yn yr Iesu; cymhella ei ddarllenwyr i ymestyn at berffeithrwydd, ac eglura ammhosibilrwydd adferiad y rhai syrthiant o fwriad. Calonoga hwynt ar sail eu gwaith yn y gorphenol a pherswadia hwynt i feithrin ffydd ac amynedd

yn y dyfodol. Dengys ragoriaeth Melchisedec ar yr archoffeiriaid yn ol urdd Aaron, a phrofa fod Crist yn perthyn i'r urdd uchaf. Esbonia amcan cysgodol yr archoffeiriadaeth Iuddewig, a'r Tabernacl a'i wasanaeth, ac eglura mai Crist, a'i dabernacl a'i wasanaeth yw y sylweddol; desgrifia ragoriaeth y Tabernacl nefol ar yr un daearol, a rhagoriaeth y cyfamod newydd ar yr hen, a chydag hyawdledd mawr olrheinia ragoriaeth aberth Crist ar yr aberthau Iuddewig, a'r ddyledswydd i nesau at Dduw trwyddo. Rhydd restr o wroniaid y ffydd fel esiampl i'r Hebreaid ac fel rhai y dylent dynu ysbrydiaeth oddiwrthynt, ac anoga hwynt i redeg yr yrfa gan edrych ar Iesu. Diwedda gyda nifer o ddyledswyddau godant o'r pethau hyn. Yn yr holl ymdriniaeth ar y pynciau yma dengys yr awdwr feistrolaeth ar y ffordd o feddwl a dirnadaeth eithriadol o bynciau dyfnaf trefn yr achub, a phynciau bywyd a buchedd. Heblaw hyny, datguddia wybodaeth ddihafal o'r Ysgrythyr Lan a medr i'w defnyddio i'w amcan. Dealla holl natur dyn, ei gyflwr gerbron Duw a'r unig ffordd i'w gadw. Gan ddyfned ac uched yr ä, mewn pynciau a olrheinia, datguddia feddwl o'r radd flaenaf. Daw nodwedd athronyddol i'r golwg yn ei feddylgarwch er mor ysgrythyrol yw ei ymdriniaeth. Yma a thraw tery ar egwyddorion dyfnaf athroniaeth y natur ddynol a natur Duw, ond cuddir y rhai hyn i raddau gan ei ddyfyniadau parhaus i brofi ei bwynt. Heblaw hyny, dengys feddiant ar gyfoeth o iaith bur a gallu i'w gosod allan yn y dull mwyaf areithyddol. Profa hyn ei ysgolheigdod diamheuol. Buasai y fath goethder caboledig yn ammhosibl i un nad oedd yn ysgolhaig addfed a galluog. Hawdd canfod hefyd, fod yr awdwr yn wr o gymeriad glan. A glendid a choethder ei iaith ym mhell i brofi hyny. Eithr ei syniadau am burdeb a pherffeithrwydd a'i ddymuniadau am i'r Hebreaid feddu cymeriad pur, ffydd gref, amynedd ysbrydol a pherffeithrwydd moesol, ddatguddia elfenau dyfnaf ei gymeriad. Dengys ei syniadau moesol ac ysbrydol y rhaid ei fod yn ddyn drigai yn agos iawn at Dduw. Dim ond un mewn cymdeithas barhaus a Duw a'i fab gai ddatguddiad ar faterion cyn ddyfned ac ysbrydoled a'r rhai geir yn yr Epistol hwn. Diau mai y datguddiad hwn o gymeriad yr awdwr gyfrifa am dderbyniad yr Epistol foreued i'r Canon Beiblaidd yn groes i un o reolau

y Canon. Ni ddengys unrhyw lyfr yn y Testament Newydd ysbrydolrwydd cyflawnach na'r Epistol hwn, a rhaid, gan hyny, fod ei awdwr yn ddyn ysbrydol.

II. Pwy oedd yr Awdwr?

Hawdd iawn oedd penderfynu gallu meddyliol, ysgolheigdod a chymeriad yr awdwr. Datguddir y rhai hyny ym mhob penod o'r Epistol. Eithr pan ddeuwn at y cwestiwn, pwy oedd yr awdwr? deuwn at un o anhawsderau mawrion yr awduraeth, yr hwn a roddodd ac a rydd y drafferth fwyaf. Cynyrchodd a chynyrcha y cwestiwn lenyddiaeth ddirfawr. Cydia y prif ysgolheigion Beiblaidd yn y mater yn y gwahanol wledydd, ac yn arbenig yn yr Almaen (*Germany*), gydag aiddgarwch haedda glod, dyfalwch deilynga edmygedd, a gonestrwydd amcan ddylai gael cymeradwyaeth. Ant at y mater o gariad at y gwaith ac awydd i gael y gwir. Eithr hyd yn hyn nid oes belydr o oleuni wedi llewyrchu ar eu hymdrech ddiledryw i'w feddiannu. Er hyny, chwiliant, a dyfal barhant gan ddisgwyl am lwyddiant. Os llwyddant, mawr fydd eu gogoniant. Deuant i feddiant o wybodaeth y bu brenhinoedd o feddylwyr a phrophwydi fel canfyddwyr ar hyd yr oesau yn fethiantwyr yn eu hymchwil am dani. Byddai taro i sicrwydd ar yr awdwr hwn, yn fwy clod ym myd duwinyddiaeth na darganfod y blaned Neptune ym myd seryddiaeth. Ei gael fyddai darganfod un daflodd berl o uchel bris i Eglwys Dduw—un osododd berthynas y Mab a Duw yn ei lle, angylion yn eu safle, ddesgrifiodd yn gywir yr Hen Oruchwyliaeth yn ei hamryfal weddau, perthynas dyn a Duw yn ei gwahanol gysylltiadau, a natur Mab Duw yn ei huchelderau a'i dyfnderau. Eithr heb ddarganfyddiad o ryw hen lawysgrifau, neu lech-argraffiadau ellir dibynu arnynt i ddadrys yr anhawsder, nid oes obaith i ysgolheigdod er ei lewder gael goleuni ar y mater. Byddai raid i'r rhai hyn fod agos cyn hyned a llawysgrif yr awdwr i allu coelio yr hyn ddywedent. Cynygir amryw farnau ar yr awduraeth ar hyd yr oesau, ond anfoddhaol ydynt ar y goreu. Dengys llawer o honynt anwybodaeth fawr, ac ereill gymysgedd anobeithiol. Ymresymir yn unochrog gan rai ac yn ddisail resymegol gan ereill. Cyll amryw olwg ar y gwir wrth geisio amddiffyn damcaniaeth a gychwynir ganddynt. Er hyny buddiol fydd rhoddi amlin-

elliad hanesyddol o'r ymdriniaeth ar yr awduraeth. Dengys hwnw y modd yr edrychai yr eglwys ar y mater ar hyd yr oesau a pha le y saif yn bresenol.

I. *Yr awduraeth ym marn yr eglwys foreuol.*—(1) *Yr Eglwys ddwyreiniol.* (*a*) *Y dwyrain ogleddol.* Agos unfrydol yw tystiolaeth yr adran hon o'r eglwys o blaid mai Paul oedd yr awdwr. Dyfyna Justin Ferthyr a anwyd yn Samaria, ohono fel eiddo Paul (140 O.C.) ac felly y gwna Methodius esgob Olympus yn Lycia, ac wedi hyny Esgob Tyrus (292 O.C.). Golygai Pamphilus, Esgob Cesarea (294 O.C.) mai Paul a'i ysgrifenodd. Edrychai cyfieithwyr y *Peshitto*, sef y cyfieithad Syriaeg o lyfrau y Test. Newydd (150 O.C.) arno fel cynyrch Paul, a golygent ef yn llyfr Canonaidd. Yr un oedd syniad Jacob, Esgob Nisibis (325 O.C.) a phriodolai Ephrem Syrus ef i Paul. Dadleuai Eusebius o Cesarea, yr hanesydd eglwysig gwych, yn gryf dros Paul, er gwybod am yr holl wrthwynebiadau. Dyna oedd syniad Archalaus o Mesopotamia (300 O.C.), a Cyril o Jerusalem (348 O.C.). Hon oedd barn Cynghor Laodicea (363 O.C.), Gregory Naziansen (370 O.C.) a Gregory Nyssa, (371 O.C.). Gellid ychwanegu lluaws ereill llai eu nod, ond nid oes eisieu. Cynrychiola yr enwau roddwyd arweinwyr yn yr adranau o'r eglwys dan sylw. (*b*) *Y dwyrain ddeheuol.* Mor fore a 180 O.C. cawn brif-athraw ysgol Gristionogol Alexandria, dinas yng ngogledd ddwyreiniol yr Aifft, yn dyweyd mai Paul oedd yr awdwr. Pantaenus oedd enw y gwr hwn, a dywedir ei fod yn alluog ac yn Gristion duwiolfrydig. Ei reswm dros nad oedd enw Paul yn gysylltiedig a'r llythyr ydoedd, mai at y cenhedloedd yr anfonwyd Paul i bregethu, ac y gallasai llythyr oddiwrtho beri tramgwydd i'r Hebreaid deimlent genfigen ato. Cefnogwyd syniad Pantaenus gan Clement o Alexandria, ei ddisgybl, a rhaid y credai yr un peth a'i athraw, neu ni chofnodai ei farn ef. Teithiodd Clement drwy lawer o'r dwyrain, yr Aifft, Groeg a'r Ital, i chwilio am wybodaeth, a diau y gwyddai am yr amheuon yng nglyn ag awduraeth yr Epistol; ond daliai at syniad Pantaenus er hyny, a dyfynai o hono fel eiddo Paul yn ddibetrus.

Tua'r flwyddyn 220 O.C. cawn farn Origen, y beirniad ysgrythyrol mawr cyntaf yn hanes yr eglwys. Dilynodd ef

Clement a Phantaenus. Yn wir Clement oedd ei athraw, a dewiswyd ef yn ben ysgol Gristionogol Alexandria gan yr Esgob Demetrius. Dysgodd athroniaeth ac Hebraeg, a medrai Roeg mor dda fel y galwyd arno i Groeg i wrthwynebu cyfeiliornad athrawiaethol. Dyn odiaeth o dduwiol oedd efe, a meddai farn glir, dysgeidiaeth ddofn ac eang, a galluoedd meddyliol o'r radd flaenaf. Saif ar ben y rhes ym mhlith y tadau mewn eangder ysgolheigdod, ac ni ddeuai neb ohonynt yn ail iddo fel beirniad ond Jerome. Hawdd gweled y parai y gwahaniaeth rhwng yr Hebreaid ac epistolau Paul iddo siglo yn ei farn am yr awduraeth ; ond ni ddywed yn bendant nad Paul oedd yr awdwr. Eithr dywed, "Os deil rhyw eglwys, gan hyny, hwn fel epistol o eiddo Paul, gadawer iddi dderbyn cymeradwyaeth am hyn, oblegid nid heb reswm y traddododd yr hynafiaid ef i lawr fel eiddo Paul." Dyfyna o hono amryw weithiau fel eiddo Paul, er canfod gwahaniaeth ynddo i'w epistolau ereill. Feallai y credai fel Clement mai Luc a'i ysgrifenodd, ond ni cheir yn ei weithiau y tybiai iddo gael ei ysgrifenu yn yr Hebraeg yn gyntaf. Meddai barch dwfn i'r syniad traddodiadol fodolai yn yr eglwysi yn ei ddyddiau, ac oblegid hyny ni allasai feddwl am ei wrthwynebu. Dichon hefyd fod ganddo resymau cryfion dros gredu mai Paul oedd yr awdwr anuniongyrchol os nad uniongyrchol. Ymddengys y daliai eglwys Alexandria ac eglwysi ereill yr Aifft at y syniad traddodiadol o ddyddiau Origen ym mlaen. Efe oedd syniad esgob Alexander (282 O.C.), Pedr esgob Alexandria tua 300 O.C., a choleddid ef gan Athanasius, y galluocaf o'r holl Alexandriaid tua 326 O.C. Afreidiol enwi rhagor gan y cynrychiola yr uchod allu a dysgeidiaeth uchaf Alexandria. Braidd na ellir dyweyd mai barn unfryd eglwys y Dwyrain o'r cychwyn oedd mai Paul oedd yr awdwr, ac felly y parhaodd ac y parha yn bresenol i raddau pell.

(1) *Eglwys y gorllewin.* (*a*) *Y gorllewin ogleddol.*—Rhaid fod yr Epistol yn wybyddus yn Rhufain yn niwedd y ganrif gyntaf, ac y golygid ef yn ysbrydoledig yn ei gyfanrwydd. Ysgrifenodd Clement o Rufain epistol cyn y flwyddyn 96 O.C. yn yr hwn y ceir o leiaf 10 o ddyfyniadau o'r Epistol at yr Hebreaid. Y mae rhai o honynt air am air fel eu ceir yn yr Hebreaid, a'r lleill yn arall-eiriad amlwg o ranau o hono.

Hefyd, ceir rhanau ynddo ydynt debyg i adnodau o'r Hen Destament, ond cred y beirniaid goreu yw, mai o'r Hebreaid eu cymerwyd. Er hyny, ni enwa Clement yr Hebreaid fel ffynhonell y dyfyniadau hyn, ac ni sonia mai Paul yw awdwr yr Epistol at yr Hebreaid. Irenaeus, esgob Lyons, yn Ffrainc, oedd y cyntaf yn eglwys y gorllewin i amheu awduraeth Baulinaidd yr Epistol, ond dywed Eusebius o Cesarea, y dyfynai Irenaeus o hono fel eiddo Paul. Ei sail dros ddweyd hyny oedd tystiolaeth Hippolytus, disgybl Irenaeus, ac nid dim o weithiau Irenaeus ei hun. Gwadai Gaius, o Rufain, tua 210 O.C. mai Paul oedd yr awdwr. Gan hyny, ceir amheuaeth am yr awduraeth yn y gorllewin tua diwedd yr ail ganrif. Ond nid hir y bu pethau cyn troi; oblegid priodola Victorinus yr Areithydd Rhufeinig ef i Paul yn 360 O.C. Dyna hefyd oedd barn Hilary o Poictiers (354 O.C.), ac Ambrose o Milan., a'r un oedd syniad Jerome, cyfieithydd y Beibl i'r Lladinaeg (404 O.C.). Tynodd y Pab Gelasiuslo Rufain, Ganon o lyfrau y Testament Newydd gyda chynorthwy 70 o esgobion yn 494 O.C., a phriodola yr Epistol i Paul yn ddibetrus; felly yn y bedwaredd a'r bumed ganrif, Paul ystyrid yr awdwr, gan yr awdurdodau eglwysig yn y gorllewin ogleddol. (*b*) *Yr gorllewin ddeheuol.* Yn y gorllewin ddeheuol gwedid awduraeth Paul foreued a thua'r flwyddyn 200 O.C. Mynai Tertullian, dyn o athrylith fawr, ond arw, mai Barnabas ysgrifenodd yr Hebreaid. Trigai ef yng ngogledd Affrig, a meddai gryn ddylanwad yn yr eglwys fel duwinydd ac amddiffynydd Cristionogaeth. Ni sonia Cyprian, Esgob Carthage, am yr Epistol at yr Hebreaid yn ei weithiau, yr hwn feddai fwy o ddylanwad na Thertullian fel gwr sefydlog ei farn, trwyadl ei ysgolheigdod, mawr ei ddoniau, uchel ei foesau, a duwiolfrydig ei ysbryd. Paham na chyffyrddai ag ef ni wyddom. Eithr trodd pethau o du awduraeth Paul yma eto. Yng Nghynghor Hippo, yng Ngogledd Affrig, yn 393 O.C., a thrydydd Cynghor Carthage 397 O.C. yn gystal a phumed Cynghor Carthage 419 O.C. derbyniwyd yr Epistol at yr Hebreaid fel eiddo Paul, a phenderfynwyd anfon i Rufain i ofyn am gadarnhad i ddatganiad y Cynghorau.*

* Augustine makes a somewhat similar admission, and in one passage distinctly enumerates fourteen epistles of Paul, placing Hebrews at

Tybir i'r Cynghorau hyn benderfynu fel y gwnaethant am fod Jerome ac Awstin rhwng dau feddwl, ac yn tueddu at awduraeth Paul. Awstin oedd un o ddynion mwyaf yr oesau ac amryfal oedd ei ddylanwadau yn eglwys Gogledd Affrig. Yr hyn barai iddo ef a Jerome fod yn ammhenderfynol oedd syniad y mwyafrif o'r eglwysi Lladinaidd yn eu dydd, ac nid eu barn bersonol. Dengys amryw o'u syniadau personol y tueddent at yr awduraeth Baulinaidd ; tra y tueddai mwyafrif yr eglwysi Lladinaidd at awduraeth Barnabas, neu Clement o Rufain. Wedi y Cynghorau uchod nid oes hanes y mater yn eglwys Gogledd Affrig.

Ychydig glywir am ei awduraeth wedi y bumed ganrif hyd nes i'r Cardinal Caietan, offeiriad Pabyddol o nod, amheu cysondeb gosodiadau Jerome a'r casgliad dynai oddiwrthynt. Eithr ni ddadleuodd y mater allan yn rhesymegol am y teimlai na ddylasai fyned yn erbyn barn yr eglwys. Credai fod ei barn i dewi pob ymresymiad dynol. Ar ol hyn darfu i Erasmus, un o ysgolheigion mwyaf Eurob ac esboniwr galluog, amheu awduraeth Paul gyda medr, a thynodd sylw mawr. Bu farw ef yn 1536, ac yng Nghynghor Trent, 1546, cadarnhawyd y farn draddodiadol mai Paul oedd awdwr yr Hebreaid er holl resymau Erasmus yn erbyn hyny. Yn y Diwygiad Protestanaidd cawn Luther yn dadleu yn aiddgar yn erbyn awduraeth Paul, ac yn priodoli yr Epistol i Apollos, a dilynwyd ef gan Melancthon. Cydunai John Calfin nad Paul oedd yr awdwr, ac awgrymai mai Luc neu Clement o Rufain a'i cyfansoddodd. Gan hyny, er gwaethaf penderfyniad Cynghor Trent agorwyd y cwestiwn eilwaith yn niwedd yr unfedganrif-ar-bymtheg, a gwelir fod arweinwyr y Diwygiad yn anffafriol i'r syniad traddodiadol yn eglwys y Gorllewin Ogleddol. Pan ddeuwn at argraffiad 1611 o'r Beibl Seisnig cawn ef yn rhestr epistolau Paul eto, er holl wrthwynebiadau y diwygwyr. Yn y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg newidia pethau yn fawr. Trinid y mater yn y ganrif hon gan ysgrif-

---

the end ; and it was doubtless through Jerome and his influence that the Councils of Hippo (393 A.D.) and Carthage (397 A.D.) begin by reckoning thirteen Epistles of Paul, and one of the same to the Hebrews, a distinction which disappears altogether at the second Council of Carthage (419 AD.), where we hear of fourteen Epistles of Paul.—*Theology of the Epistle to the Hebrews, page* 12, *George Milligan, B.D.*

enwyr anffyddol ac haner-anffyddol, y rhai a daflent yr awduraeth Baulinaidd o'r neilldu, a hyny yn fynych heb resymau digonol. Gwrthyd llawer o arweinwyr crefydd yn Lloegr mai Paul yw yr awdwr, ac yn eu plith cawn ddynion duwiolfrydig ac o ysgolheigdod a gallu diamheuol. Yng Nghymru cymerid y safle yma gan y diweddar Barchedigion J. Ogwen Jones, B.A., Owen Thomas, D.D., a'r Prif-Athraw T. C. Edwards, o'r Bala, a chymer y Parch. John Morgan Jones, Caerdydd, a'r Prif Athraw Thomas Rees, M.A., Bangor, yr un safle. Wedi gosod yr amlinelliad hanesyddol hwn gerbron, gallwn fyned at y rhesymau roddir yn erbyn awduraeth Paul a'r rhai sydd drosto.

II. *Yr awduraeth ym marn beirniaid cynwys yr Epistol.* (1) *Ei deitl.* Rhaid cydnabod wrth ddechreu ar y profion mewnol o awduraeth yr Epistol nad oes dim cymorth i'w gael oddiwrth ei *deitl.* At yr Hebreaid—Πρὸς Ἑβραίους—yn unig yw y teitl yn y MSS., a ddynodir gan y llythyrenau NAB., sef y rhai hynaf sydd ar gael. Y teitl hwn sydd yn yr holl MSS. Aifftaidd; ond yn y *Peshitto,* sef y MSS. Syriaeg, ceir "Yr Epistol at yr Hebreaid," ac "Yr Epistol at yr Hebreaid Paul yr Apostol." Mewn MSS. Groeg diweddarach ceir "Epistol Paul at yr Hebreaid." Eithr rhaid cofio mai ychwanegiadau yw y rhai hyn a wnaed gan adysgrifwyr dan ddylanwad syniad yr eglwys am yr awduraeth, ac nad oeddynt yn y MSS. hynaf. (2) *Ei iaith.* Nid yw y gwrthwynebiad i awduraeth Paul oblegid absenoldeb ei enw yn y teitl yn un cryf iawn; ond rhaid cydnabod grym yr un sylfaenir ar yr iaith. (*a*) *Geiriau.* Ceir yn yr Epistol 169 o eiriau na cheir yn yr oll o lyfrau y Testament Newydd, a llawer mwy na hyny o rai nad ydynt yn epistolau Paul. Eto, absenol yw rhai o hoff eiriau Paul megys "dirgelwch"—μυστήριον; berfau fel πληροῦν—cyflawni (*to fulfil*), δικαιοῦν—cyfiawnhau (*to justify*), a llawer o eiriau cyffelyb a hoffid gan yr Apostol, ac a ddefnyddiai bron yn ei holl epistolau. Edrychir ar hon fel dadl gref yn erbyn ei awduraeth, ond methwn a gweled ei bod yn derfynol fel y deil rhai, a hyny am bedwar rheswm. (1) Ni ysgrifenai yr Apostol ei lythyrau oll a'i law ei hun, fel y gwelir oddiwrth Gal. vi. 11. Y dybiaeth yw, y dioddefai oddiwrth ddolur llygaid a'i rhwystrai i ysgrifenu. Os felly rhaid

oedd iddo gael ysgrifenydd, a dichon yr awgrymai hwnw lawer o eiriau iddo. (2) Os tua diwedd ei oes yr ysgrifenodd yr Epistol, yr oedd ei eiriadaeth wedi cynyddu yn fawr fel y bydd hi yn hanes pob dyn gwir alluog. (3) Gwahaniaethai y pwnc yr ysgrifenai arno a rhaid oedd cael geiriau cymwys iddo. (4) Ysgrifenai at genedl wahanol i'r rhai gyferchir yn yr epistolau ereill, a chyfaddasai ei hun at ddull o feddwl y genedl. (*b*) *Brawddegau.* Mynir nad yw rhai o ddewisiol frawddegau Paul yn yr Epistol , yr hyn sydd wir, ac nid yw y mynegiadau "*Yng Nghrist,*" na "*Christ Iesu,*" ynddo, fel a geir yn y mwyafrif o'i epistolau. Ond gallai fod ganddo resymau neillduol dros gadw y cyfryw frawddegau a mynegiadau allan. Hefyd, os mai un arall ysgrifenai yr Epistol iddo, rhoddai yr Apostol ryddid i hwnw i ddefnyddio ei frawddegau ei hunan. (*c*) *Purdeb yr iaith.* Ymddengys i ni fod gormod o lawer o bwyso ar y ddadl hon. Eir i eithafion gan rai beirniaid trwy chwyddo ammhurdeb iaith Paul, a phwysleisio ei bod yn drwsgl ac anghaboledig. Pe byddem heb wybod dim am yr iaith Roeg, braidd na fyddai yn ormod credu beirniaid dinystriol am ysgolhaig mor ddwfn a Phaul. Nid yw ammhurdeb ei iaith agos cymaint ag y myn un dosbarth i ni gredu ei fod. Mewn rhai o'i epistolau ceir darnau gwir gaboledig a phur o ran iaith. Hefyd, dylid cofio, nad ysgrifenai yr oll o'i lythyrau ei hun, fel y dywedwyd o'r blaen, ac y parai cyflwr annadblygedig rhai o'i ddarllenwyr iddo ddefnyddio iaith werinol. (*d*) *Arddull areithyddol yr Epistol.* Beth bynag am yr awduraeth, cydnebydd pob dosbarth o feirniaid fod yr arddull yn uchel mewn areithyddiaeth. Gwelir fod yr awdwr yn deall rheolau areithyddiaeth, ac yn ddeheuig yn eu trin-iaeth. Anhawdd cael paragraph yn yr holl Epistol heb arwyddion o hyn. Arddull areithyddol uchel ddaw i'r golwg yng ngofyniad ei gwestiynau, yn ei frawddegau cromfachol, ac yn ei drosglwyddiadau (*Trajections*). Eithr nid oes yma areithyddiaeth uwch nag a geir yn niwedd Rhufeiniaid viii., Philippiaid ii., a Colossiaid i. Yn y ddadl hon eto yn erbyn awduraeth Paul, collir golwg ar ei fod yn gorfod cael rhai i ysgrifenu iddo. Er cydnabod gwahaniaeth sylweddol rhwng iaith yr Epistol a'r rhai gydnabyddir fel eiddo Paul, y mae y rhesymau o'r safbwynt hwn ym mhell o fod yn foddhaol heb son am fod yn derfynol. (2) *Ei syniadau.* Cam-

syniad dirfawr yw dyweyd na cheir syniadau tebyg i rai Paul yn yr Epistol hwn. Ni chyflwynir hwynt yn yr un dull, ond yr un yw y syniadau yn sylweddol. Aneffeithiol hollol fuasai gosod y syniadau allan yn yr un wedd wrth ysgrifenu at yr Hebreaid ac at y Rhufeiniaid. Nid yr un ffordd y meddyliai y ddwy genedl am bethau. Gan hyny, rhaid oedd cyfaddasu ei epistolau i'w ffordd o feddwl. Er hyny, dilyner syniadau yr Epistol at yr Hebreaid am Grist a'i berthynas a'r cread, a dyn, a'r angylion, ac a Duw, a cheir eu bod yr un ag eiddo Paul yn yr Ephesiaid, y Philippiaid a'r Colossiaid. Yr un modd am y syniad am Iawn Crist, y gyfundrefn Iuddewig, dyledswydd dynion i redeg yr yrfa a phethau cyffelyb. Gwahaniaeth ffurf o osod allan y syniadau gawn yn yr Hebreaid i epistolau Paul. Cydnebydd gwrthwynebwyr mwyaf awduraeth Paul hyn, ond dadleuant fod llawer o syniadau yma na cheir yn epistolau Paul. Heblaw hyny, cydnabyddant fod yr anger-ddoldeb teimladau ddatguddir yn yr Epistol yn debyg i eiddo Paul yn gystal a'r syniadau. (3) *Ei athrawiaeth.* Ni sonir ynddo am unoliaeth yr Iuddewon a'r cenhedloedd, a'u bod ar yr un tir gerbron Duw; ac ni enwir y cenhedloedd ynddo yn un man. Distaw ydyw ef hefyd, ar gwestiwn yr enwaediad, a chyfiawnhad trwy ffydd ac nid trwy weithredoedd. Ni thrinia athrawiaeth etholedigaeth fel yn y Rhufeiniaid, nac adgyfodiad y meirw fel yn 1 Corinthiaid. Cywir yw hyn oll; ond rhaid cofio y triniai Paul yr athrawiaethau fyddent yn ddadleuol yn yr eglwysi yr ysgrifenai atynt. Cyflwr yr eglwysi alwai am athrawiaethu ar y materion ydym wedi enwi. Gan nad oedd eisieu athrawiaethu yn eang ar y pynciau hyn i'r Hebreaid, diamcan fuasai gwneyd hyny. Galwai pethau ereill am sylw pwysicach yn eu hanes hwy oblegid eu cyflwr meddyliol, moesol, ac ysbrydol. Eto, ceir yr athrawiaethau uchod yma a thraw yn yr Epistol yn dybiedig neu yn fynegiedig. Dengys ymresymiad yr Epistol fod rhyddid i bawb nesau at Dduw trwy yr Archoffeiriad Mawr; hyny yw, tybia yr ymresymiad hyny. Digon eglur yw fod athrawiaeth cyfiawnhad trwy ffydd yn llawn ym meddwl yr awdwr yn Mhenod XI., a'r adgyfodiad hefyd. Er na thrinir adgyfodiad Crist yn yr Epistol, nodir ef yn xiii. 20, a thybir ef yn fynych. Gan mai at Iuddewon y danfonwyd y llythyr cyfaddaswyd ef i'w dull hwy o feddwl. Cyn myned at y rhesymau dros mai

Paul yw yr awdwr rhoddwn grynodeb o'r rhesymau yn erbyn hyny, fel y gall y darllenydd farnu drosto ei hun wrth ddarllen yr Epistol.

(1) Absenoldeb enw Paul wrtho ac yntau yn arfer ei roddi. (2) Dim rheswm dros ei fod yn cuddio ei enw. Pwy all sicrhau hyn heb wybod yr amgylchiadau oll? (3) Gwyddai am ddigofaint Iuddewon Palestina ato, ac o ganlyniad ni fuasai yn meddwl am ysgrifenu atynt. Hona hwn wybod holl amgylchiadau Paul eto. (4) Iaith ac arddull yr Epistol. Saif ar ben ei hun yn ei arddull ym mysg llyfrau y Testament Newydd. Oni bae hyn ni chodasai amheuaeth. (5) Ysgrifenwyd ef at ddosbarth neillduol o Hebreaid, ac nid tebyg y buasai Paul yn ysgrifenu at gylch mor gyfyng. I hyn nid oes rith o sail. Gellir dyweyd yr un peth am yr awdwr pwy bynag ydoedd. (6) Edrycha yr awdwr yn wahanol ar Grist i Paul. Archoffeiriad Mawr Duw yw ef yn yr Epistol hwn, ac nid barnwr fel yr edrychai Paul arno. Ai nid yw y pwys rydd Paul ar ei farwolaeth yn brawf y golygai ef yn archoffeiriad? Ai ni osodir ef allan fel Mab Duw ganddo yn yr epistolau a gydnabyddir fel ei eiddo? Sylwasom uchod ar athrawiaeth yr adgyfodiad a chyfiawnhad. (7) Ni allasai Paul ei ysgrifenu heb newid ei natur. Rhy wan yw hwn i ofyn am atebiad. Pwy roddai y fath reswm a sylweddolai fawredd meddyliol Paul? Hollol anghywir yw dyweyd fod syniadau croes i rai Paul yn yr Epistol fel y gwneir gan gefnogwyr y rheswm hwn. A phe gwir hyny, ni fuasai raid newid ei natur i groes-ddyweyd ei hun. (8) Dim son am i Grist farw dros bawb yn yr Epistol. Er na ddywedir hyny yn uniongyrchol ceir syniadau gynhwysant hyny ynddo. (9) Ni chymhara Paul Grist a Moses fel awdwr yr Hebreaid. Ni ofnai amgylchiadau a chyflwr meddyliol yr eglwysi ereill hyny. (10) Rhydd Paul sylw mawr i deyrnas Dduw a theyrnas y diafol, ond ni wneir hyny yma. Noda yr awdwr fod yr Hebreaid yn derbyn "teyrnas disygl," Pen. xii. 28, a dywed yn ii. 14 fod nerth y diafol wedi ei ddinystrio trwy Grist. (11) Mwy o alegoriau a chysgodau yn yr Epistol nag a geir yn eiddo Paul. Gwir; ond nodwedd meddwl y darllenwyr alwai am hyny. (12) Fod yr awdwr yn dyweyd na chlywodd Grist (ii. 1—4). Dichon mai dull o osod ei hun gyda'r darllenwyr gyfrifai am hyn. Ni chlywodd Paul ef pan ar y ddaear, er iddo ei weled a'i glywed adeg ei droedigaeth

ar y ffordd i Damascus. (12) Geiriau a brawddegau yr un ag eiddo Paul ddim yn cael eu defnyddio yn yr un ystyr ag y defnyddiai ef hwynt. Yr atebiad i hwn yw nad yr un ystyr sydd i eiriau a brawddegau i bob cenedl fel eu gilydd. Gallasai gair feddwl un peth i Rufeinwyr a pheth arall i Iuddew. (13) Ni cheir y brawddegau neillduol yng nglyn a pherffeithrwydd yn Paul ag a geir yn yr Epistol hwn. (14) Geiriau a brawddegau na cheir yn Paul. Atebwyd hwn uchod. (15) Gadawai Paul lonydd i eglwysi na sefydlwyd ganddo. (16) Byddai ef yn dadleu yn ei epistolau yn erbyn syniadau Iuddewig. Ai ni wneir hyn yn rymus yn yr Epistol hwn? (17) Edrycha yr awdwr ar y diafol fel achos marwolaeth, ond ni wna Paul hyny. Rhaid cael un anghyfarwydd ag epistolau Paul i ddwyn hwn fel rheswm. (18) Elai Paul i fewn i angen neillduol eglwys wrth ysgrifenu ati. Ai ni wna yr Epistol hwn hyny? (19) Anoga hwn ddynion i gyrhaedd perffeithrwydd, ni wna Paul hyny. Camsyniad mawr yw hyn. Gwna Paul hyny gymaint a'r Epistol hwn, ond mewn geiriau ereill. (20) Ni charia yr awdwr ym mlaen yr ymresymiad i'w bendraw cyn cymhwyso y gwirionedd fel Paul. Golyga hwn nad allai yr Apostol mawr gyfaddasu ei hun i amgylchiadau neillduol, a newid ei ddull o ymresymu. Pwy y fath feistr ag ef ar allu i ymgyfaddasu? (21) Dyfyna yr awdwr o'r LXX., tra y dilynai Paul y testyn Hebraeg, ac ni ddyfyna yn yr un modd a Phaul chwaith. Wrth ddyfynu dywed Paul "Megys y mae yn ysgrifenedig," "Megys y dywedodd Esaias," "Canys y mae Moses yn ysgrifenu," "Oblegid y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd," "Eithr y mae Esaias yn dywedyd," etc. Eithr ni ddywed yr awdwr hwn o ba le y dyfyna. Camsyniad yw hyny. Enwa Moses fel y gwna Paul yn Pen. vii. 5, a dywed pa fodd y gorchymynodd Duw iddo am y babell. Gwir mai ei ddull cyffredin yw peidio enwi a dyweyd, "Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd" (ii. 6), "Ac y mae yr Ysbryd Glan hefyd yn tystiolaethu i ni" (x. 15). (22) Byddai Paul yn arfer gwneyd cyfeiriadau personol yn ei epistolau. Nid yw yr Epistol hwn heb rai cyfeiriadau o'r fath, fel y ceir gweled eto.

Beth yw swm a sylwedd yr holl resymau hyn? Nid oes yr un o honynt o werth hanesyddol fel y gwelir. Hefyd, hollol ddi-sail yw y mwyafrif ohonynt, ac wrth chwilio a barnu yn deg drosom ein hunain ni cheir fod yr un o honynt yn

argyhoeddiadol ac yn rhai ddaliant feirniadaeth fanwl ar ol ei dilyn i'w pendraw. Cymerant yn ganiataol luaws o bethau nad oes hawl ganddynt wneyd wrth ddadleu ar fater fel hwn. Heblaw hyny, ymresymant heb gymeryd yr holl ffeithiau i'r cyfrif, ac nid oes dim yn fwy peryglus na hyny.

Eithr nid ydym i dybio fod holl feirniaid y Testament Newydd yn gwadu awduraeth Paul. Ym mhlith y rhai a'i hamddiffynant cawn rai o brif ysgolheigion yr Almaen, America a Lloegr, yn Babyddion a Phrotestaniaid—rhai nad oes gradd o amheuaeth am eu gallu, eu hysgolheigdod, cywirdeb eu hamcan, duwiolfrydedd eu hysbryd a manylwch eu hymchwiliad. Gan y rhoddir rhestr o honynt isod ni enwir hwynt yma. Ymddengys i ni fod rhai rhesymau na phwysleisiwyd ganddynt yn ddigonol, er manyled fuont. Beth bynag, ni chanfyddasom hyny yng nghwrs ein darlleniadaeth. Er enghraifft, (1) awydd angerddol Paul am achub ei gydgenedl. Wrth ddarllen y Rhufeiniaid, a chanfod yr awydd hwn ammhosibl bron yw credu y gallasai Paul atal rhag ysgrifenu epistol at eglwys Hebreaidd neillduol, neu nifer o eglwysi i roddi esboniad llawn ar Gristionogaeth yn ei pherthynas ag Iuddewiaeth. Pwy gymhwysed ag ef i wneyd hyn? (2) Yn hanes boreuol yr eglwys ni ellir cael allan fod neb ynddi fedrai ysgrifenu Epistol alluoced a hwn o safbwynt gwybodaeth fanwl o Iuddewiaeth a Christionogaeth. Hollol annigonol i lanw yr amod yma yw y rhai a gynygir yn lle Paul. Dywed Paul ei hun ei fod wedi llafurio yn helaethach na'i holl gydlafurwyr. (3) Arweinia gallu Paul i gyfaddasu ei hun at amgylchiadau yr eglwysi, ni i gredu nad yw y gwahaniaeth rhwng yr Epistol hwn a'r rhai at y Rhufeiniaid a'r Corinthiaid, yn fwy nag y gallai gwr alluoced ymgyfaddasu ato. Pwy wyr allu dyn fel hwn weithiai yn barhaus ac a fyfyriai yn gyson, y modd goreu i gyfarfod amgylchiadau neillduol? Ai nid hawsach oedd iddo ymgyfaddasu i ysgrifenu at ei genedl ei hun na'r un genedl arall? Oni chodwyd ef, oni ddysgwyd ef, ac oni wrteithiwyd ef yn arferion ei genedl a'i dull o feddwl? Gwyddai yr oll o'r gyfraith a'i hystyr, gan iddo dderbyn ei addysg wrth draed Gamaliel. Meddai wybodaeth berffeithiach ac eangach o'r ysgrythyrau a llenyddiaeth ei genedl nac o eiddo unrhyw genedl arall. Gofynai cyfaddasu ei hun i ysgrifenu at y Rhufeiniaid, y Corinthiaid, yr Ephesiaid, y Galatiaid, y Philippiaid a'r

Colossiaid ymdrech mawr a llafur caled i ddeall eu harferion meddyliol, eu dull o deimlo, a'u bywyd ymarferol. Nid oedd angen hyny i ysgrifenu at ei genedl ei hun, am y gwyddai yr oll am dani yn feddyliol, moesol a chrefyddol. (4) Rheswm cryf dros absenoldeb ei enw wrth y llythyr oedd drwg deimlad nifer mawr o'r Iuddewon ato. Hefyd at y cenhedloedd yr anfonwyd ef, ac feallai nad ewyllysiai roddi teimlad i rai o'i gyd-apostolion lafurient ym mhlith yr Iuddewon. Dichon na fuasai rhai ohonynt yn foddlon. Eithr credwn y buasai y goreu a'r galluocaf o honynt yn falch o'i waith yn ysgrifenu. Teimlent angen am ddatganiad gan un o'i allu ef ar berthynas Iuddewiaeth a Christionogaeth. Braidd na chredwn nad allent lai na'i gymhell i hyny. Eto, gallasai fod rhesymau neillduol am gadw ei enw allan nad allwn ni ddychmygu am danynt. Nid yw yr holl amgylchiadau ger ein bron. Gan hyny, ni allwn farnu yn derfynol. (5) Dylid rhoddi pwys ar syniad boreuol yr eglwys Ddwyreiniol ar mai Paul oedd yr awdwr ac ar i'r syniad ddal gafael ar y mwyafrif ynddi.

Rhesymau tuallan i gynwys yr Epistol yw y rhai hyn, ond parotoant y ffordd at y rhai geir ynddo. Cychwynwn gyda'r rhai mewnol y cydnebydd gwrthwynebwyr awduraeth Paul, fod ynddynt rym. (1) Llawer o eiriau yr un ag eiddo Paul. (2) Rhai brawddegau tebyg, megis (*a*) pen. x. 34, lle y cyfeiria yr awdwr at ei rwymau. (*b*) Ei ddymuniad am iddynt weddio drosto, xiii. 18, 19. (*c*) Yr anerchiad, xiii. 24. (3) Y cyfeiriad at fod Timotheus wedi ei ollwng yn rhydd xiii. 23. Gan fod Paul ac yntau y fath gyfeillion, cesglir mai Paul siarada yn yr adnod hon. Rhaid dyweyd fod hwn yn rheswm cryf iawn, gyda rhesymau ereill. (4) Cydnebydd pawb fod llinellau yn yr arddull red drwy yr Epistol yn debyg i eiddo Paul, er yr holl ymdrech wneir i bwysleisio yr anhebygrwydd. (5) Datguddir yr un gwres teimladol ynddo ag yn epistolau Paul. (6) Hollol gyson yw ei syniadau mawrion, a'r rhai geir yn epistolau cyfoethocaf yr Apostol. (7) Ni wahaniaetha ei athrawiaethau oddiwrthynt ond yn ymddangosiadol. Yn hanfodol nid oes wahaniaeth athrawiaethol ynddo a rhai Paul. Yr un syniadau athrawiaethol am y personau dwyfol, yr angylion, dyn a'r cread geir ynddo ag yn epistolau cyfoethocaf Paul. (8) Doethineb oedd dyfynu o'r

LXX. yn hytrach na'r testyn Hebraeg am mai y LXX. oedd mewn ymarferiad gan ysgolheigion Iuddewig ar y pryd. Buasai dyfynu o'r testyn Hebraeg yn ddyryslyd iddynt, gan y gwahaniaethai y LXX. gymaint oddiwrtho. Hefyd, os mai un arall ysgrifenai i'r Apostol, dichon fod hwnw yn fwy hyddysg yn y LXX. na'r testyn Hebraeg. Cyfrifai hyny hefyd am y gwahaniaeth yn y dull o ddyfynu y cyfeiriwyd ato o'r blaen.

Wedi pwyso yr holl resymau, rhaid i ni ddyfod i'r penderfyniad mai Paul yw yr awdwr neu rywun a ysgrifenai yn uniongyrchol dan ei ddylanwad. Gallai y tebygrwydd mawr sydd rhwng yr Epistol ag eiddo Paul godi o debygrwydd meddwl cyfaill iddo, cymdeithas fynych ag ef, edmygedd dwys ohono a darlleniad cyson o'i waith. Ond a chymeryd yr holl ffeithiau i'r cyfrif a'u barnu yn ddiduedd, Paul yw y person adnabyddus tebycaf i fod yn awdwr i'r llyfr. Wrth gymeryd y safle yma gwyddom ein bod yn gwrthwynebu rhai o'r prif awdurdodau a feddant hawl i'w barnau oddiar dir gallu ac ysgolheigdod; ond rhydd i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafar. Ni ddylai unrhyw ysgrifenydd gymeryd ei arwain yn erbyn ei argyhoeddiad dyfnaf ar ol ymchwiliad cang i'r mater. Heblaw hyny, sicr ydym fod rhesymau cryfach dros awduraeth Paul na'r un o'r personau a gynygir fel awdwr gan y beirniaid galluog y cyfeiriaf atynt. Peidio talu sylw craff i'r rhesymau hyny, yw yr achos fod cynifer wedi eu harwain i wadu yr awduraeth Baulinaidd, a dewis ereill fel awdwyr heb un rheswm hanesyddol na rhesymegol drostynt. Pell ydym o honi sicrwydd mai Paul yw yr awdwr; ond ni all neb ddarlleno y rhesymau yn ei erbyn, a drinir mewn gwaith alluoced a Rhagymadrodd dynion fel Moses Stuart, yn ei Esboniad ar yr Hebreaid, ac awdwyr ereill gymerant yr un safle, lai na thosturio wrth y rhai honant yn bendant nad efe yw yr awdwr. Fynychaf cynwysa yr honiad elfen o anffaeledigrwydd a hawl uwchraddol i farnu. Eithr ni charia pethau o'r fath argyhoeddiad i feddwl neb fedd farn annibynol ac a fyn chwilio i'r ffeithiau a barnu drosto ei hun. Hefyd, ni fedd neb hawl i farnu heb chwilio i'r holl resymau dros ac yn erbyn, a myfyrio ddwysed ag y medr arnynt a'u clorianu yn ddiduedd yn ei feddwl. Heb wneyd hyny peth gwrthun i'r eithaf yw clywed neb yn cyhoeddi barn ar fater

bwysiced a hwn. Nid oes ffeithiau hanesyddol o unrhyw werth rhesymegol dros ddadleu mai Apolos, Clement o Rufain, Silas, Barnabas, Luc, Iuddew Alexandriaidd anadnabyddus, Priscila ac Acwila, Philip y diacon, neu Ariston oedd yr awdwr. Gan hyny, nid awn drostynt.

Wele restr Holtzmann o enwau gwahanol bersonau fel awdwyr yr Epistol, gydag ychwanegiadau ati. Wrth hon gwelir ein bod mewn cwmni cryf a galluog wrth ddadleu dros awduraeth Paul.

1. **Luc :** (yn annibynol) Caifin—(dan ddylanwad Paul) Stier, Guericke, Ebrard, Delitzsch, Alexander, ym mysg duwinyddion Protestanaidd ; Hug, Dollinger, Zill, ym mysg duwinyddion Pabyddol.
2. **Clement o Rufain :** (yn annibynol) Erasmus—(dan ddylanwad Paul), Mack, Reithmayr, Langen, Bisping, ym mysg duwinyddion Pabyddol.
3. **Silas :** Mynster, Bohme, Godet.
4. **Barnabas :** I. E. Ch. Schmidt, Ullmann, Twesten, Wieseler, Volkmar, Ritschl, Grau, Thiersch, B. Weiss, A. Maier (Pabyddion), Keil, Kubel, H. Schultz, Renan, Oberbeck, de Lagarde, Zahn, Harnack. Yn Lloegr : Salmon ; ac yng Nghymru, Y Prif-Athraw T. C. Edwards, M.A., D.D., Bala.
5. **Apolos :** Luther, L. Osiander, Leclerc, Heumann, L. Muller, Lemler, Ziegler, de Wette, Bleek, Feilmoser (Pabyddion), H. A. Schott, Tholuck, Lunemann, Bunsen, Kurtz, L. Schulze, de Pressense, Hilgenfeld, Scholten, Reuss, Pfleiderer ; yn Lloegr, Alford, S. Davidson, Farrar, Moulton, ac yng Nghymru, y Parch. Owen Thomas, D.D.
6. **Iuddew Alexandriaidd Anadnabyddus :** Eichhorn, Seyffarth, Neudecker, Baumgarten-Crusius, Moll, Kostlin, Ewald, Grimm, Hausrath, Kluge, Lipsius, von Soden, Holtzmann, Menegoz, Juilicher ; ac yn Lloegr, Rendall, Dods, W. R. Smith, Westcott, Vaughan, A. B. Davidson, a Bruce. Yng Nghymru gwrthoda y diweddar Barch. J. Ogwen Jones, B.A., ac felly y Parch. J. M. Jones, Caerdydd, a'r 'rif Athraw Thomas Rees M A, Bangor, awduraeth Paul, ond ni dadleuant dros neb neillduol arall.
7. **Paul :** Storr, G. W. Meyer, Steudel, Paulus, Stein, Gelpke, Scheibel, Olshausen, Wichelhaus, Jatho, Hofmann, Volck, v. d. Heydt, Biesenthal, Holtzheuer, Laharpe, Hofstede de Groot, ym mhlith duwinyddion Protestanaidd ; y mwyafrif o'r duwinyddion Pabyddol hefyd ; yn Lloegr a'r America, Stuart, Foster, Bloomfield, Wordsworth, M'Caul, Kay, Angus, Field ; ac yng Nghymru y Parch. William Lewis, Tyllwyd.

Nid wyf wedi gweled yr esboniadau Cymreig diweddar ereill i allu nodi eu safle.

III. Awdurdod yr Epistol.

Rhoddwyd y rhesymau yn erbyn a thros awduraeth Paul deced ac eglured ag y gallem, a'r mater nesaf yw awdurdod yr Epistol. Llawer hawddach yw penderfynu hwn na'r awduraeth. Yn wir, braidd y mae yn ofynol cyffwrdd y mater gan gryfed y profion i'w awdurdod. Datguddiodd ein hymdriniaeth ar yr awduraeth foreued y cydnabyddid ei awdurdod. Edrychid arno yn gynyrch ysbrydoliaeth gan Clement o Rufain yn niwedd y ganrif gyntaf; gan Justin Ferthyr a Phantaenus yn yr ail, a cheir ef yn y cyfieithad Syriaeg tua 150 O.C.; yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif derbyniai pawb o'r tadau enwocaf ef fel llyfr ysbrydoledig. Mor bell ag y gwyddom, nid oedd eithriad yn yr eglwys ddwyreiniol gyda golwg ar ei natur ysbrydol. Yn y Gorllewin ceid rhai yn ei wrthod oblegid ni cheir ef gyda'r llyfrau Canonaidd yng Nghanon Gaius o Rufain, yn nechreu y 3edd ganrif. Ni cheir ef chwaith yng Nghanon Marcion na Chanon Muratori. Dichon mai hyn barodd i'r eglwys Ladinaidd ei wrthod am beth amser; ond dan ddylanwad Jerome, yr hwn fu am amser yn y Dwyrain, ac Awstin oedd mor dueddol i awdurdod yr eglwys ddwyreiniol, cydnabyddwyd ei ysbrydoliaeth drachefn yn niwedd y bedwaredd a dechreu y bumed ganrif, a derbyniwyd awduraeth Paul fel y dangoswyd. Gan luosoced nodweddion ysbrydol yr Epistol cydnabyddwyd ei awdurdod er na ddeuai i fyny a holl reolau y Canon Ysgrythyrol. Yn ol y rhai hyn, rhaid oedd fod enw yr awdwr wrth y llyfr, prawf mai dan ddwyfol ysbrydoliaeth yr ysgrifenodd ef, a'i fod wedi ei drosglwyddo i lawr fel ei ysgrifenwyd ef ganddo. Dyna dair rheol y Canon. Datguddiodd ysbrydoliaeth yr Epistol hwn ei hun amlyced fel nad allasai yr eglwys ddal at y rheol gyntaf, sef enw yr awdwr. Gan hyny, cawn ef gyda'r llyfrau Canonaidd yn y MSS. Groegaidd hynaf sydd ar gael, sef y rhai ddeuant i lawr o'r bedwaredd a'r bumed ganrif ac a adnabyddir wrth y llythyrenau NAB. Dichon mai absenoldeb yr enw barodd i'r eglwys Ladinaidd ei wrthod am beth amser, ond gormod oedd ei gyfoeth ysbrydol i fod ar dir gwrthodiad yn hir. Dywed Westcott yn rhagorol am ei ysbrydoliaeth:—

We acknowledge the divine authority of the Epistle, self-attested and ratified by the illuminated consciousness of the Christian Society;

we measure what would have been our loss if it had not been included in our Bible; and we confess that the wealth of spiritual power was so great in the early Church that he who was empowered to commit to writing this view of the fulness of the Truth has not by that conspicuous service left his name for the grateful reverence of later ages.—*Commentary, page lxxix.*

IV. At bwy yr ysgrifenwyd yr Epistol ac i ba Eglwys?

(I) *At bwy ei ysgrifenwyd*? Fel yr awduraeth achosodd ac achosa y cwestiwn hwn ddadleuaeth frwd. Y rheswm am hyny yw, nad oedd teitl wrth y MS. gwreiddiol yn ol y dybiaeth gyffredin. Pe buasai "At yr Hebreaid" neu deitl cyffelyb yn gysylltiedig a'r Epistol ar y dechreu ni fuasai lle i ddadleu. Pa fodd i ddyfod trwy yr anhawsder? Trwy edrych i gynwys yr Epistol ei hun. Penderfyna hyny yn bur hawdd y genedl yr anfonwyd ef ati ond dim yn rhagor. Canfyddir yn fuan mai Iuddewon o genedl y danfonwyd y llythyr atynt. Er amlyced hyn damcenir fel arall gan rai ysgolheigion diweddar. Wrth gymeryd y damcaniaethau hyn i ystyriaeth, a'r rhai yng nglyn a pha beth olygir wrth fod yr Epistol wedi ei anfon at Iuddewon, ymranant i chwech. Anfonwyd ef (1) *At Genhedloedd*. Dadleua rhai awduron yn gryf mai at genhedloedd a dim ond cenhedloedd yr anfonwyd ef. Gwastraff amser fyddai dilyn eu rhesymau am eu bod mor ddisail. Ammhosibl i neb ddarllena yr Epistol yn feddylgar a diragfarn ddyfod i'r fath gasgliad. (2) *At Iuddewon a Chenhedloedd*. I hwn nid oes sail chwaith. Ni sonir am genhedloedd yn yr Epistol o'r naill ben i'r llall. Pe buasai y darllenwyr yn gymysg fel y myn pleidwyr y ddamcaniaeth hon cawsid arwyddion digonol o hyny yn yr Epistol. (3) *At yr holl Iuddewon*. Rhaid troi y syniad hwn o'r neilldu. Pe yr holl Iuddewon olygid ni fyddai ystyr yn y cyfarwyddiadau personol geir ar ddiwedd yr Epistol. Heblaw hyny, rhai broffesent Gristionogaeth oedd yr Iuddewon hyn, ac nid oes amheuaeth am hyny yn holl gynwys y llythyr. Ni ellid dyweyd hyn am fwyafrif yr Iuddewon heb son am danynt oll. (4) *At yr holl Iuddewon Crediniol*. Gwna cynwys yr Epistol y syniad hwn eto yn ammhosibl. Dengys rhanau o hono fod y rhai hyn wedi dioddef llawer, yn dioddef ar hyny o bryd i raddau ac yn gwynebu dioddefaint. Gormod fuasai dyweyd peth fel yma am yr holl Iuddewon crediniol. (5) *At holl Iuddewon Cristionogol*

Palestina. Ni allwn dderbyn hwn er ei fod yn nes i'r gwir na'r lleill. Er hyny rhaid cyfyngu y syniad eto i gael gafael ar yr un cywir. Ymddengys yn amlwg nad oes ond un gymdeithas Iuddewig Gristionogol o flaen meddwl yr awdwr. (6) *At Iuddewon Cristionogol un ddinas*. A holl gynwys yr Epistol ddeil berthynas a'i ddarllenwyr i brofi hwn. Eglwys neillduol neu nifer o eglwysi yn yr un ddinas oedd derbynwyr yr Epistol tuhwnt i ddadl. Canfyddir eu bod mewn amgylchoedd peryglus a bod tuedd ynddynt i ddigaloni a syrthio yn ol at Iuddewiaeth.

(II) *At ba eglwys ei anfonwyd*? Daw cwestiwn arall i'n cyfarfod, sef pa ddinas y bodolai yr eglwys, neu yr eglwysi hyn ynddi? Ar hyn eto ceir amrywiaeth mawr. Enwir Colossa, Antiochia yn Syria, Cesarea Palestina, Ephesus, Berea, rhyw eglwys yn y Dwyrain, rhyw eglwys ym Mhalestina, Jerusalem, Alexandria, Rhufain. Ni roddwn y rhesymau ond dros y pedair olaf a enwyd. (1) *Jerusalem*. Delir (*a*) mai dyma'r unig eglwys hollol Iuddewig yr adeg yma. Oblegid hyn gelwid hi yn eglwys yr Hebreaid yn y blynyddoedd y tybir i'r Epistol hwn gael ei ysgrifenu. (*b*) Hi oedd yr eglwys y credai Clement o Alexandria y cyfeiriwyd yr Epistol ati. Dyma un o'i resymau ef dros mai yn Hebraeg yr ysgrifenwyd y llythyr. Ei reswm arall oedd mai yn Jerusalem y cynhelid gwasanaeth y Deml yn ei berffeithrwydd. Gan hyny perygl mawr oedd i'r Hebreaid syrthio yn ol at Iuddewiaeth. Hefyd, taflai mai at yr eglwys hon yr anfonwyd ef, oleuni ar lawer o bethau nodir yn yr Epistol. Eithr ni ddeil y ddamcaniaeth hon feirniadaeth. (*a*) Ni ellir credu na chlywodd rhai o aelodau yr eglwys hon Grist ei hun. (*b*) Eglwys dlawd oedd hi ac nid oes hanes iddi gyfranu at neb fel y dywedir i'r Hebreaid hyn wneyd. (*c*) Derbyniodd gynorthwy arianol trwy Paul, oblegid ei thlodi. (*d*) Nid yw yn debyg y dilynai yr awdwr y LXX. yn ei ddyfyniadau pe at yr eglwys yn Jerusalem yr ysgrifenai. A ei ddyfyniadau ym mhell i brofi mai yn y Roeg y gwnaeth ysgrifenu. Pe yn yr Hebraeg yr ysgrifenai sicr yw mai o'r Hebraeg y dyfynai. (*e*) Y rheswm yr ysgrifenai yr awdwr yn yr amser presenol am y gwasanaeth Iuddewig, etc., yw fod yr hanes yn bresenol iddo yn yr Ysgrythyr. (*f*) Nid son am wasanaeth y Deml

wna ef, ond un y tabernacl yn yr anialwch, felly ni all fod yn defnyddio yr amser presenol oblegid y cerid y gwasanaeth ym mlaen ar hyny o bryd yn y Deml. (*g*) Dywedir na wrthwynebodd darllenwyr yr Epistol hyd at waed. Nid oedd hyny yn wir am eglwys Jerusalem. Lladdwyd Iago a llabyddiwyd Stephan, dau aelod amlwg ynddi. (2) *Alexandria.* Rhoddir pedwar rheswm dros y syniad hwn. (*a*) Cerid gwasanaeth tebyg iawn i un y tabernacl ym mlaen yn Nheml Iuddewig Onias yn Leontopolis, ychydig filldiroedd o Alexandria, gan hyny deallai darllenwyr yr Epistol ei gynwys yng ngoleuni hyny. (*b*) Dengys iaith yr Epistol ddelw Groeg Alexandria (*c*) Ceir ynddo arwyddion o ddylanwad athroniaeth Alexandria. (*d*) Ni cheid darllenwyr allasent ddilyn y fath ymresymiad ond yn Alexandria ar hyny o bryd. Eithr ni ddeil y rhesymau hyn ystyriaeth fanwl. (*a*) Y tabernacl sydd o flaen meddwl yr awdwr ac nid y deml uchod a'i defodaeth. (*b*) Y LXX. ddarllenai yr Iuddewon siaradent Roeg ym mhob man. (*c*) Gwasgarai gwrtaith Alexandria i fanau ereill yr adeg hono, megys i Jerusalem, Ephesus, a Chorinth. (*d*) Credai yr Alexandriaid mai i Jerusalem ei ysgrifenwyd. (*e*) Nid oedd fod dylanwad Alexandria ar iaith a meddwl yr awdwr yn un prawf mai yno y bodolai yr eglwys yr ysgrifenai ef ati. (3) *Rhufain.* A pwysau beirniadaeth ddiweddar dros y syniad hwn. Tuedda prif ysgolheigion yr Almaen ato. Eu rhesymau ydynt (*a*) Ei fod yn wybyddus yno gynared a diwedd y ganrif gyntaf. (*b*) Yr edrychid arno fel eiddo Paul yr adeg hono. (*c*) Fod y dioddef mawr fu dan Nero 64 O.C. yn ateb i'r hyn ddywedir am ddioddefaint yr Hebreaid. (*d*) Y cyfeiriad at Timotheus yr hwn oedd adnabyddus i eglwys Rhufain. (*e*) Yr ymadrodd yn y cyfarchiad ar ddiwedd yr Epistol, "Y rhai o'r Ital." Delir mai Italiaid o'u gwlad oeddynt, yn anfon anerch at yr eglwys yn eu dinas enedigol. Nid yw hwn mwy na'r lleill heb lawer o anhawsderau. (*a*) Braidd y gellir sylfaenu rheswm dros y syniad ar gynarwch ymddangosiad yr Epistol yn Rhufain. (*b*) Credir i eglwys Rufain gael ei bod gan y rhai oedd yn Jerusalem adeg y Pentecost, ac a gawsant eu hachub dan weinidogaeth Petr, a delir nad yw hyny yn gyson a'r hyn ddywedir yn Pen. ii. 3, 4 am yr eglwys y danfonwyd yr Epistol ati. (*c*) At Iuddewon yr anfonwyd y llythyr, ac ni ellir credu mai dim ond Iuddewon

gyfansoddent eglwys Rhufain. Gwnaed hi i fyny o genhedloedd hefyd. (*d*) Nid yw cyflwr anadblygedig darllenwyr yr Epistol yn gyson a'r hyn ddywedir yn Rhuf. i. 8. (*e*) Yn Rhufain y bu Timotheus yn y carchar ac ni fuasai yn newydd i'r eglwys yno am ei ryddhad a nodir yn niwedd yr Epistol. (*f*) Gan mai cenhedloedd oedd mwyafrif eglwys Rhufain nid oedd perygl iddynt syrthio yn ol at Iuddewiaeth. (*g*) Os i Rufain yr ysgrifenwyd ef rhaid iddo gael ei ysgrifenu rhwng erledigaeth Claudius (50 O.C.) ac erledigaeth Nero (64 O.C.) i allu cysoni ei gynwys a'r amgylchiadau yn y ddinas. Barna rhai fod hyny yn rhy gynar. Eto, ni ellir ei osod rhwng erledigaeth Domitian (90 O.C.) ac eiddo Trajan (116 O.C.) yn ol beirniaid galluog. (*h*) Peth anffafriol i'r syniad mai at eglwys Rhufain ei ysgrifenwyd yw mai hi oedd y gyntaf i amheu ei awduraeth Baulinaidd a'i awdurdod ysbrydoledig. (4) *Rhyw eglwys ym Mhalestina neu Syria.* Tueddwn yn gryf at y syniad hwn. Ymddengys fod y gwasanaeth Iuddewig yn beth hollol gyfarwydd i'r darllenwyr, ac mai Iuddewon oeddynt y rhan fwyaf o lawer os nad yr oll. Eithr ammhosibl penderfynu pa eglwys oedd hi nac ym mha ran o'r wlad y bodolai. Fel y dangoswyd uchod, rhy gryfion yw y rhesymau yn erbyn i ni gredu mai eglwys Jerusalem oedd hi. Sefydlwyd amryw eglwysi gan yr Apostolion yn ninasoedd Palestina a Syria, ac annoethineb fyddai ceisio penderfynu i sicrwydd ym mha ddinas yr oedd hon.

V. Lle ysgrifeniad yr Epistol, ei ddyddiad, ei achlysur, a'i amcan.

(I.) *Y lle.* Amrywiol ac ammhenderfynol yw y farn ar y mater hwn eto fel y ddau flaenorol, ac ammhosibl cyrhaedd unrhyw sicrwydd hanesyddol arno ar dir ffeithiau. Ni phrofa yr Olysgrif geir yn y Beiblau ddim o blaid y rhai gredant mai o Rufain y danfonwyd ef, am mai ychwanegiad yw hi o eiddo golygwyr. Darllena hono "At yr Hebreaid yr ysgrifenwyd o'r Ital gyda Timotheus." Pe buasai yn rhan o'r ysgrif wreiddiol o'r Epistol, penderfynai y mater. Heblaw hyny, gallasai Timotheus fod yn rhyw le arall yn gystal a Rhufain yr adeg y cyfeirir ati yn yr Epistol. Hefyd ni phrofa "y mae y rhai o'r Ital yn eich hanerch" ddim am fod dau esboniad ar y geiriau yn bosibl.

Cynygir Corinth, Ephesus, Cesarea ac Alexandria. Un o'r ymresymiadau goreu dros Cesarea yw eiddo y Parch. William Lewis, Tyllwyd, yn y *"Thinker"* flynyddoedd yn ol, yr hwn ddadleua yn gryf dros awduraeth Paul, ac iddo gyfansoddi yr Epistol adeg ei garchariad yn Cesarea. Yr arlliw Alexandriaidd sydd ar iaith yr Epistol yw y prif reswm dros Alexandria ac arwyddion cyfarwydd-der ag athroniaeth y ddinas hono. Rhaid cydnabod cywirdeb hyn ond nid oedd raid i'w awdwr fod yn Alexandria ar y pryd i gyfrif am hyny. Rhaid gadael y mater hwn yn agored am nad ellir sicrhau dim yn ei gylch. Peth anheg yw sicrhau lle nad oes ond tybiaeth yn bosibl.

(II) *Y dyddiad.* Byddai cymeryd dyddiad diweddarach na 69 O.C. yn ein gosod mewn anhawsder i gyfrif am ddistawrwydd yr Epistol am ddinystr Jerusalem gymerodd le yn 70 O.C. Braidd y buasai yn bosibl i'r awdwr basio y fath drychineb heb gyfeirio ato os oedd yr eglwys yr ysgrifenai ati tufewn i Ganaan. Os i Rufain yr ysgrifenwyd ef, delir y rhaid iddo gael ei anfon rhwng dwy erledigaeth, sef naill ai rhwng eiddo Claudius (50 O.C.) ac un Nero (64 O.C.), neu rhwng eiddo Domitian (81 O.C.), ac un Trajan (116 O.C.) Gwell yw gosod ei ddyddiad o 60 i 67 O.C. I fod yn gyson a ffeithiau hanesyddol y cyfnod ni welwn fod yn bosibl priodoli dyddiad diweddarach na 70 O.C. iddo, ac ni fyddai ei osod yn gynarach na 60 yn hollol gyson a chynwys yr Epistol. Gellir casglu wrtho fod llawer o'r genhedlaeth gyntaf o Gristionogion wedi meirw. Ni wad y beirniaid mwyaf dinystriol feddant hawl i farnu, nad yw yr Epistol yn gyfansoddiad bore iawn, er y gesyd rhai o honynt ef ddiweddared ag o 80 i 100 O.C.

(III) *Yr achlysur.* Achlysurwyd ei ysgrifeniad gan gyflwr amgylchiadol, meddyliol a chrefyddol yr Hebreaid hyn. Cawsent eu hamgylchu gan bethau anfanteisiol iddynt i ddal gyda Christionogaeth a pharai hyny iddynt ddigaloni i raddau. Syrthiodd rhai o honynt, fe ddichon, i sefyllfa anobeithiol o anghrediniaeth a thueddai y goreu o honynt i laesu dwylaw. Safent yn annadblygedig o ran eu dirnadaeth o Gristionogaeth yn ei gweddau dyfnaf a mwyaf hanfodol, er cael manteision i'w gwneyd yn athrawon crefyddol. Heblaw eu cyflwr medd-

yliol, anfoddhaol oedd eu cyflwr crefyddol. O'u cymharu a'u manteision plant oeddynt pan ddylasent fod yn ddynion llawndwf.

(IV) *Yr amcan.* Yma deuwn o anialwch ansicrwydd i faes sicrwydd. Gellir dyweyd fod yr amcan yn eglur ar wyneb yr Epistol. Ymrana i ddau, sef yr athrawiaethol a'r ymarferol. (*a*) *Yr athrawiaethol.* Canfyddir yn eglur yr amcanai yr awdwr egluro i'r Hebreaid natur a safle uwchraddol Crist, ei berthynas a datguddiadau Duw, a Duw ei hun, a'r cread, a rhagluniaeth ac a iachawdwriaeth; mai efe oedd hanfod Cristionogaeth a'r unig un allai buro dynion a'u gwaredu oddiwrth bechod; amcanai ddangos natur ac amcan yr Hen Oruchwyliaeth a'i defodaeth iddynt, ac mai Crist oedd sylwedd yr holl gyfundrefn gysgodol, fod ei aberth anfeidrol wedi boddloni Duw a'i fod wedi esgyn i'r ddeheulaw i ymddangos o blaid pechadur. Yr ymdriniaeth athrawiaethol ddofn, feistrolgar hon yw sail yr holl ymdriniaeth ymarferol. Amcan y rhan hon yw dangos (1) Uwchafiaeth Crist ar bawb, fel Iachawdwr, a (2) perffeithrwydd anfeidrol yr iachawdwriaeth dragywyddol sydd ynddo. (*b*) *Yr ymarferol.* Rhaid oedd gosod y pethau a nodwyd yn glir o flaen yr Hebreaid cyn y buasai nerth yn y cymhellion ymarferol geir yn yr Epistol. Wrth sylwi ar y cymhellion hyn canfyddwn eu bod yn bedwar dosbarth; (1) Y rhai i beidio anghredu a phechu yn wirfoddol; (2) Y rhai i beidio rhoddi ffordd gyda dylanwadau allanol, megys gwawd, dirmyg, erledigaeth a'r brofedigaeth feallai i ddychwelyd at Iuddewiaeth. Rhag cael eu cario gyda'r rhai hyn anoga yr awdwr hwy i ddal gafael yn y pethau a glywsant rhag cael eu cario heibio yr angorfa (ii. 1). (3) Rhai i beidio ymollwng yn eu heneidiau. Peryglon mewnol yw y rhai hyn a ganlynant y dylanwadau allanol y cyfeiriwyd atynt, a rhai ydynt yn ffrwyth pechod y galon. Dyma y pethau barai iddynt i ymadael oddiwrth y Duw byw. (4) Rhai i ddeffro ac ymwroli i gyflawni eu dyledswyddau, glynu wrth Grist ac ymdrechu ymestyn at berffeithrwydd. Rhoddir rhesymau cedyrn dros y rhai hyn oll. Beth bynag oedd yr is-amcanion i'r Epistol y ddau beth a enwyd oedd y prif amcanion.

VI. Ei nodweddion.

(I) *Ei nodwedd ieithyddol.* Cytuna mwyafrif mawr y beirniaid mai yn y Roeg yr ysgrifenwyd yr Epistol, fel nad oes eisieu treulio amser i ymdrin a hyny. Credwn fod y rhesymau dros hyny yn bur foddhaol ar y cyfan. Daw tri pheth i'r golwg yn iaith y llyfr, sef (1) cyfoeth o eiriau ac amryw o honynt, fel y dangoswyd mewn adran flaenorol, yn rhai na cheir yn y Testament Newydd yn un man arall. Geiriau clasurol a choethedig geir ynddo hefyd. (2) Saif ar ben y rhes yn ei gywirdeb gramadegol, a dengys hyny fod ei awdwr yn Roegwr ysgolheigaidd a gofalus. (3) Yn ei areithyddiaeth ni ddaw un llyfr yn y Testament Newydd yn agos iddo a'i gymeryd yn ei gyfanrwydd. Fel y dywedwyd o'r blaen cyfyd Paul yn uchel iawn yn y nodwedd yma mewn rhai adranau o'i epistolau. Eithr ceidw yr Epistol hwn ei areithyddiaeth hyawdl o'r dechreu i'r diwedd. Yn hyn y mae ysgolheigion yn unfarn a gellir cymeryd geiriau Dr. Westcott i gynrychioli eu barn. Meddai—"*No book in the New Testament is distinguished by such brilliant eloquence and euphonius rhythm.*"

(II) *Ei nodwedd feddyliol.* Cyffyrddasom a'r nodwedd hon wrth sylwi ar allu yr awdwr, tud. 1, 2. Ceir iaith gyfoethog, ramadegol ac areithyddol weithiau heb allu meddyliol. Nid felly yma. Gellid meddwl fod yr awdwr yn gyfarwydd a phob mater o uchelderau Duwdod yn Drindod, i ddyfnderau dyndod a dynoliaeth bechadurus; datguddia wybodaeth o angylion Duw ac egwyddor fawr bodolaeth y byd a'i gwrsweithrediad; dengys ei allu i ddirnad natur Duw a natur dyn a'r berthynas foesol hanfodol rhwng Duw a dyn. Canfyddir yn yr Epistol ddirnadaeth ddofn, eang, glir o holl egwyddorion duwinyddiaeth uchelryw. Heblaw dirnadaeth o honynt, meddai yr awdwr allu i roddi mynegiant dihafal iddynt, a gosod y drefn oreu arnynt; medrai beri i'r oll wasanaethu i ganolbwynt mawr ei amcan yn ysgrifenu, sef dangos mawredd anfeidrol Crist, ei ddigonolrwydd anfeidrol a thragywyddol i bechaduriaid ym mhob amgylchiad ac ar bob adeg, a'i allu anfeidrol i foddloni Duw ar ran euog fyd. Cenfydd yr awdwr holl ystyr, natur ac amcan y gyfundrefn Iuddewig, a'r modd yr arweiniai at, ac y gwasanaethai i'r gyfundrefn Gristionogol.

(III) *Ei nodwedd foesol.* Datguddiai hon ei hun yma a thraw drwy yr Epistol. Gwelir wrtho fod dyn yn fôd moesol, cyfrifol i Dduw am ei weithredoedd. Cyffyrdda yr Epistol bron bob dyledswydd foesol ddylai dyn ei chyflawni. Dengys hyn amgyffrediad clir yr awdwr o holl egwyddorion dyfnaf moesoldeb, ac yr ystyriai gydymffurfiad a hwynt yn hanfodol bwysig i fodau feddant anfarwoldeb. Syniai fod Duw yn fod moesol perffaith a bod Crist wedi byw egwyddorion moesol i'r perffeithrwydd mwyaf.

(IV) *Ei nodwedd gyfunol.* Cyfunir yr athrawiaethol a'r ymarferol yn yr Epistol yn y modd cywreiniaf. Wedi treiddio i ddyfnder athrawiaeth, seilia yr awdwr ddyledswydd ymarferol arni. Ni saif yn hir gyda'r anfeidrol ddwfn a'r anfeidrol uchel cyn dyfod at y meidrol ymarferol a chyfarwydd. A ragored y cyfuna hwy fel na theimlwn un annaturioldeb wrth eu darllen. Gallu mawr yw hwn mewn awdwr ac arwydd o ddoethineb uchelryw. Ceir cymesuredd, a chydbwysedd neillduol yn y cyfuniad hwn drwy yr holl Epistol. Ni chyll yr awdwr ei drefn drwy y gwaith. Gesyd yr athrawiaeth yn eglur yn gyntaf, a gwasga y ddyledswydd gyfyd o honi yn ail. Fel hyn ceidw ochr yn ochr yr athrawiaethol a'r ddyledswyddol.

(V) *Ei nodwedd eglurhaol a desgrifiadol.* Egluro athrawiaethau wna yr awdwr ac nid datguddio rhai newyddion. Rhoddi gwedd newydd ar egwyddorion athrawiaethol gyhoeddwyd gan Grist a'r Apostolion a wna, ac nid cyhoeddi rhai na wyddai ei ddarllenwyr na neb arall am danynt. Rhydd esboniad mor fyw ohonynt, a desgrifia hwynt eglured a tharawiadol nes enill sylw ar unwaith. Medd allu di-ail i ganfod rhanau o'r Hen Destament at ei wasanaeth, a'u cymhwyso at y materion sydd ganddo dan ystyriaeth. Teifl oleuni ar y rhanau hyny yn y modd y gwna eu cysylltu a'r pynciau a drinia.

(VI) *Ei nodwedd ysbrydol.* Sicrha hon anfarwoldeb yr Epistol. Daw i'r golwg yn gyson, ac fel y dangoswyd, gryfed yw hi fel na fu amheuaeth yn yr eglwys foreuol am osod yr Epistol yn y Canon Ysgrythyrol, a hyny yn groes i un o'r

rheolau. Deil yr elfen hon yr Epistol yn ei werth ym mhob oes o'r byd ac ym mhob amgylchiadau a chyfnewidiadau.

(VII) *Ei nodwedd hysbyddol.* Er nad yw yn Epistol maith na manwl iawn, eto teimlir ei fod yn hysbyddol. Dywed yr holl bethau hanfodol bwysig am y pynciau a drinia.

VII. Athrawiaethau yr Epistol.

Datguddir y rhai hyn yn amlwg iawn a chan fod y Traethodau yn ymwneyd a llawer o honynt ni fydd eisieu rhagor na'u henwi. (1) *Y Trindod.* Egyr yr Epistol gyda'r Tad a'r Mab, ac ym Mhen. I. dangosir gogoniant y Mab, gydag areithyddiaeth raiadrol. Efe yw canolbwynt mawr yr Epistol, a'r Tad yw y nesaf ato. Amcan ei ddyfodiad i'r byd oedd i ddileu pechod, a'i offrymiad o hono ei hun oedd yr Iawn anfeidrol i Dduw dros bechod. Caiff yr Ysbryd Glan le amlwg yma hefyd, ac edrychir arno fel cynyrchydd yr Ysgrythyrau, yn gyfranwr doniau gwyrthiol i ddynion, yn Ysbryd y Gras ac yn un gyfrana bethau i ddynion y gallant eu gwrthod trwy anghrediniaeth. Cyfoethog odiaeth yw athrawiaeth y Trindod yn yr Epistol. (2) *Yr Ysgrythyrau.* Gwelir fod yr awdwr yn eu hystyried yn ddwyfol ac yn derfynol yn eu hawdurdod ar bob mater. (3) *Y Greadigaeth.* Ni ellid cael mynegiant eglurach ar mai Duw yw awdwr a chynhaliwr pob rhan o'r cread, ac mai Crist yw cyfrwng yr oll, nag a geir yn yr Epistol hwn. (4) *Yr angylion.* Ni cheir cynifer o bethau am yr angylion mewn unrhyw lyfr o'r Beibl. Toreithiog neillduol yw yr hyn ddywedir am danynt i benderfynu eu natur, eu safle, a'u swydd neu eu gwaith. (5) *Dyn.* Dengys yr Epistol fod dyn yn fod cyfansoddedig o gorph, enaid ac ysbryd—σῶμα, ψυχή, πνεῦμα—a'i fod yn fod moesol, cyfrifol am ei weithredoedd moesol, ac yn dragywyddol yn ei natur. (6) *Pechod.* Canfyddir yr athrawiaeth hon yn britho yr Epistol. Nid oes dim ond Iawn Crist all dynu dyn yn rhydd o'i afaelion; ac os na ryddheir yr enaid ohono marwolaeth fydd ei ddiwedd. Wrth fyw ynddo gall dyn fyned tu hwnt i allu Duw i'w achub. (7) *Perffeithrwydd trwy waith.* Eglur y dengys yr athrawiaeth hon ei hun mewn amryw fanau. Gwesgir fod cynydd ysbrydol yn dibynu ar ymestyn at berffeithrwydd; hyny yw, ar weithio

yn barhaus. Mewn gwaith y rhydd Ysbryd Duw gynorthwy. Cyffyrddir ag amryw athrawiaethau ereill llai eu pwys yn yr Epistol, ond dyma y prif rai.

VIII. Cynwys yr Epistol.

Gan fod dadansoddiad manwl o bob penod yn yr Esboniad, ni roddir ond y prif raniadau o gynwys yr Epistol yma.

Rhagarweiniad yr Awdwr, i. 1-4.

Adran I. Uwchafiaeth Crist ar yr Angylion, i.-ii.

Adran II. Uwchafiaeth Crist ar Moses a Josuah, iii.-iv.

Adran III. Uwchafiaeth Crist ar yr Archoffeiriaid Iuddewig, v.-x 18.

Adran III. (**Parhad**). Dyledswyddau yn codi o'r athrawiaethau, x. 19-xiii.

IX. Testyn yr Epistol.

Ceir yr Epistol yn gyflawn, neu yn rhanol yn y MSS. prif-lythyrenol canlynol :—

Codex Siniaticus (yn gyflawn).
Codex Alexandrinus (yn gyflawn).
Codex Vaticanus (yn anghyflawn ar ol IX. 14).
Codex Ephr. (yn anghyflawn).
Codex Clarom. (yn gyflawn).
Codex Mosqu. (yn gyflawn).
Codex Porphyr. (yn gyflawn).

Rhai ail-raddol yw y ddwy MSS. ddiweddaf. Y mae tua 300 o MSS. o'r Epistol mewn llythyren fân a llawer ohonynt yn ei gynwys yn gyflawn. Hefyd ceir ef yn gyflawn yn y mwyafrif o'r hen gyfieithadau. Cynorthwy mawr yw y MSS. a'r cyfieithiadau hyn i benderfynu cywirdeb y testyn.

X. Llenyddiaeth yr Epistol.

Llu mawr yw yr esboniadau ar yr Epistol, ond nid enwn ond y pwysicaf o honynt.

(I) *Esboniadau Seisnig gwreiddiol a chyfieithiadau.*— H. Alford's Greek Testament (1854), Dr. J. Angus', in Schaff's Popular Commentary (1883), J. A. Bengel (1835-6), John

Calfin (1883), A. B. Davidson (1882), Franz Delitzsch (1868), J. H. A. Ebrard (1853), F. W. Farrar (1883), W. Kay (1881), G. Lunemann (1882), F. D. Maurice (1846), W. F. Moulton (in Ellicott's Commentary), M. Stuart (1833), A. Thulock (1842), C. J. Vaughan (1891), B. F. Westcott (1892), The Expositor's Greek Testament.

Dau lyfr godidog yn y Saesonaeg yw eiddo y diweddar Brif-Athraw T. C. Edwards, M.A., D.D., Bala, yng nghyfres yr "Expositor's Bible," a'r gyfrol ysgrifenodd Dr. A. B. Bruce yn gyfres o erthyglau i'r "Expositor" am 1888-90. Rhai gwir dda ar y testyn gwreiddiol yw mwyafrif yr esboniadau ereill, ond nid ydynt oll yn gryf ar dduwinyddiaeth y llyfr.

(II) *Esboniadau Cymreig.*—Y cyflawnaf a'r galluocaf o'r rhai Cymreig ar yr oll o'r Epistol yw eiddo y Parchedigion John Ogwen Jones, B.A., Owen Thomas, D.D., Y Prif Athraw T. C. Edwards, D.D., John Morgan Jones, Caerdydd, T. Jones-Humphreys, a Darlithiau Esboniadol Richard Jones, Bryn'refail. Un da yw eiddo y Prif Athraw T. Rees, M.A., Coleg Bala-Bangor, ar Pen. I.—VIII.

(III) *Rhagymadrodd i'r Epistol yn y Saesonaeg.*—W. Beyschlag (1896), P. J. Cloag (1874), S. Davidson (1882), G. Salmon (1894), Erthyglau yr "Encyclopaedia Brittannica," "Hastings' Dictionary of the Bible," Cheyne's Encyclopaedia Biblica," a Geiriaduron Seisnig ereill a rhai Cymreig.

Y mae ci lenyddiaeth amrywiol yn gyfoethocach na'r un o'r Epistolau ereill, ond er hyny y mae rhyw ddyfnder ynddo nad oes neb wedi ei gyrhaedd, a bydd lle i gloddio i'w fwnfeydd am dragywyddoldeb.

PENOD I.

Nodiad.—Yn holl gorph yr Eglurhad rhoddir y Cyfieithiad Diwygiedig yn ddieithriad, a hyny mewn llythyren ddu, ac ar ben y tudalenau rhoddir y Cyfieithiad Cymreig Awdurdodedig.

Y Rhagarweiniad (i. 1-4).

I. Dadansoddiad.

I. **Perthynas y Mab a datguddiad y Tad** (adn. 1).
   (1) *Ei berthynas yn yr hen amseroedd.*
   (2) *Ei berthynas yn yr amseroedd diweddaf.*

II. **Perthynas y Mab a chreadigaeth y Tad** (adn. 2).
   (1) *Etifedd y cread.*
   (2) *Dadblygydd y cread.*

III. **Perthynas y Mab a gogoniant a hanfod y Tad** (adn. 3).
   (1) *A gogoniant y Tad.*
   (2) *A hanfod y Tad.*

IV. **Perthynas y Mab a rhagluniaeth y Tad.**
   (1) *Eangder ei berthynas.*
   (2) *Ffurf ei berthynas.*

V. **Perthynas y Mab a iachawdwriaeth y Tad** (adn. 3).
   (1) *Y gweithredydd*
   (2) *Y perffeithydd.*

VI. **Perthynas y Mab ag angylion y Tad** (adn. 4).
   (1) *Yn ei berson.*
   (2) *Yn ei enw.*

1 Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd

II. Eglurhad.

I. Perthynas y Mab a datguddiad y Tad (1).—**Ei berthynas yn yr hen amseroedd.—Duw, wedi iddo lefaru er yr hen amser wrth y tadau yn y prophwydi trwy amrywiol ranau ac mewn amrywiol ddulliau** (1).—**Duw** (ὁ Θεὸς). Dyma yr enw rhyfeddaf; efe yw yr hynaf, y mwyaf ei gynwys, y mwyaf ei gysylltiadau a'r mwyaf ei ddylanwad o bob enw mewn bod. O ba le y tarddodd yr enw? O ymwybyddiaeth Duw ei hun. Ei hunan-adnabyddiaeth ef ohono ei hun roddodd fod i'r enw. Cynwys yr enw bob rhagoriaeth anfeidrol. Efe yw ffynhonell pob daioni ac ni all ei enw lai na chynwys hyny. Llefarodd Duw wrth y byd mewn pedair ffordd yn yr hen amser, ond ni nodir ond un ohonynt yn y geiriau hyn. Llefarodd (1) drwy greadigaeth; (2) trwy ragluniaeth; (3) trwy ddyn, a (4) drwy y prophwydi. Beth oedd perthynas y Mab a'i ddatguddiad ohono ei hun yn y pedair ffordd yma o lefaru? Y Mab oedd y cyfrwng drwy yr hwn y llefarai ym mhob un ohonynt. Drwy y Mab y gwnaeth efe y bydoedd, a thrwyddo y cynhalia hwynt. Felly y Mab oedd yn cario lleferydd y Tad i'r byd yn y rhai hyn. Eto, efe a lefarai ac a ddatguddiai Dduw drwy y prophwydi. Nodweddion ei ddatguddiad o Dduw yma oedd amrywiol ranau. Paham? Am nad oedd (1) y byd yn ddigon dadblygedig i dderbyn datguddiad cyfan. Rhaid dysgu plant mewn rhanau oblegid bychander eu meddyliau. Yr un modd am yr hen fyd : plant mewn meddwl oedd ei drigolion, ac ni allasent dderbyn datguddiad llawn o Dduw. Gan hyny, caent ran yn awr a rhan yn y man i gyfateb i faint a dadblygiad eu galluoedd. (2) Nid oedd y prophwydi yn ddigon galluog, dysgedig a dadblygedig i dderbyn datguddiad o Dduw mewn ffurf gyfan a gorphenedig. Byddai y datguddiadau rhanol gaent yn fwy nag a ddeallent yn fynych. Gan fod eu meddyliau fychaned, mewn rhanau — πολυμερῶς — y rhoddai Duw drwy y Mab y datguddiad iddynt. Ym mhellach, rhoddai y datguddiadau hyn iddynt mewn llawer ffordd neu amrywiol ddulliau. —πολυτρόπως Gair yw hwn o polu—llawer neu amryw—a tropos—agwedd, dull neu ffordd. Paham yr amrywiai Duw y dull i ddatguddio ei hun pan yn llefaru drwy y prophwydi? Oblegid (1) amrywiaeth mawr meddyliau dynion. Nid oes unrhyw ddau feddwl yr un o ran eu nodweddion, eu graddau o ddadblygiad a'u galluoedd. O ganlyniad ni wna un dull a dim ond un y tro. I gael sylw yr amrywiaeth meddyliau, rhaid oedd llefaru mewn llawer o

gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau
diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab;
2 Yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy yr

---

foddau. (2) Yr oedd gwahanol gyfnodau o'r byd yn gwahaniaethu yn eu syniadau llywodraethol, ac oblegid hyny rhaid oedd i ddull y datguddiad newid. Nid yr un dull wnai y tro yn adeg y Psalmydd ag yn amser Moses. (3) Dadblygai y byd o gyfnod i gyfnod, ac yna rhaid oedd cael dadblygiad cyfatebol yn null y dadguddiad roddai Duw o hono ei hun. (4) Byddai amgylchiadau neillduol yn galw am ddull neillduol o lefaru yn fynych, a gofalai Duw am i'r dull gyfateb i'r amgylchiadau hyny. Er mai y prophwydi oeddynt gyfryngau union-gyrchol lleferydd Duw yn yr hen amserau, eto rhaid cofio fod Crist yn gyfrwng gan Dduw tucefn iddynt. Drwy y Mab y llefarai nid drwy y prophwydi. Llefaru ynddynt wnai Duw drwy Grist, ac yna llefarent hwythau wrth y bobl. (Gwel Traethawd.) (2) **Ei berthynas yn yr amseroedd diweddaf.—A lefarodd yn niwedd y dyddiau hyn wrthym ni yn ei Fab.**—Beth yw y gwahaniaeth yn y ddau ddatguddiad os mai Crist oedd yn llefaru yn y prophwydi? Hyn: (1) nid rhanol yw y datguddiad wnaed yn niwedd y dyddiau y sonir am danynt yma, ond hollol, un cyfan; (2) un perffaith ydyw, ac nid ammherffaith fel yr hen un; (3) un uniongyrchol ac nid anuniongyrchol; (4) un anfeidrol ac nid meidrol. Rhoddwyd ef mewn person dwyfol anfeidrol ac nid mewn person dynol meidrol. (5) Un terfynol ac nid un cynyddol; (6) un mewn un dull ac nid mewn llawer o ddulliau. Yr oedd pob peth i gyfarfod a phob dull o feddwl, teimlo ac ewyllysio yng Nghrist, cyfrwng y datguddiad diweddaf, fel nad oedd eisieu ei roddi mewn llawer o ddulliau. (7) Wrth y tadau y llefarwyd trwy y prophwydi, ond wrth oes yr ymgnawdoliad y llefarwyd drwy y Mab.

II. Perthynas y Mab a chreadigaeth y Tad (2).—(1) **Etifedd y cread.—Yr hwn a benododd ef yn etifedd pob peth.**—Eir yn ol yma gan yr awdwr oddiwrth berthynas y Mab a datguddiad y Tad at ei berthynas a'i grëad. Penododd Duw ef yn etifedd pob peth meidrol. Pa bryd? Yn yr arfaeth. I fod yn etifeddiaeth i'r Mab yr arfaethodd y Tad y bydoedd. Ynddo ef y ceir yr achos o feddyldrych y Tad i greu y bydoedd. Y Mab yw y rheswm am y meddwl o greu, ac hefyd am y weithred o greu. Mewn geiriau ereill, i fod yn etifeddiaeth i'r Mab y meddyliodd y Tad am y bydoedd, ac y creodd

hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd:

---

efe hwynt. Yn hyn gwelir y rheswm mai y Mab yw cyfrwng datguddiad Duw i'r byd. Pwy allasai fod yn gyfrwng mor gymhwys i lefaru wrth y byd a'r hwn wnaeth Duw yn etifedd ohono? Yn wir, efe oedd yr unig un hollol gymhwys i hyn. Beth sydd yn gynwysedig yn y pob peth (*πάντων*) y penododd Duw y Mab yn etifedd? Rhaid rhoddi ystyr cyffredinol i'r geiriau, sef eu bod yn cynwys pob peth a phawb bodau creedig o bob gradd. Y mae perthynas fawr gyffredinol rhwng pob rhan o'r greadigaeth, a gwnaed un rhan er mwyn y llall Gan hyny, beth bynag yw maint y cread a rhif a graddau ei fodau, i fod yn etifeddiaeth i'r Mab y crewyd yr oll. Dengys hyn ar unwaith fod y Mab yn Dduw anfeidrol, oblegid ni allasai neb fod yn ddigon mawr i fod yn achos yr arfaethiad o'r cread a'r weithred o greu ond un oedd yn Dduw, ac ni allasai neb fod yn ddigon mawr a theilwng etifedd pob peth ond bod anfeidrol. Efe yw achos ac amcan y bydoedd a'u holl fodau, a'i eiddo ef ydynt trwy ewyllys y Tad. (2) **Dadblygydd y cread.—Trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd.**—Beth olygir wrth "bydoedd" (*τοὺς αἰῶνας*)? (1) Cyfnodau o amser, yn ol rhai, megys yr oes hon a'r oes ddyfodol; (2) y gwahanol ddeilliadau o Dduw meddai y Gnosticiaid boreuol; (3) cyfanswm y cyfnodau a'r oll ddatguddiwyd drwyddynt. Nid creu y bydoedd olyga y ferf "gwnaeth" yma, gan hyny, ond dadblygiad y bydoedd. Y Mab, felly, oedd cyfrwng holl ddadblygiadau y cyfnodau neu yr oesau a aethant heibio, holl ddadblygiadau y bydoedd materol, anianyddol, moesol, ac ysbrydol. Drwyddo ef y dadblygodd Duw bosibiliaethau yr angylion galluocaf yn gystal a'r cyfuniadau materol isaf, a phob gradd o fodau rhwng y rhai hyn.. Gan mai er mwyn y Mab y crewyd hwynt, dadblygai y Tad hwynt drwyddo gysoned a deddfau eu natur ag oedd yn bosibl a chyflymed ag y gellid heb eu hannaturioli. Y Mab oedd cyfrwng uniongyrchol yr holl ddadblygiad hwn drwy yr oesau, o'r greadigaeth hyd adeg ysgrifeniad yr Epistol. Edrychai yr awdwr yn ol dros yr oesau, neu y cyfnodau yn hanes y byd yn eu cyfanswm, a gwelai y Mab yn eu hagor o blyg i blyg. Gosod y Mab yn gyfrwng eu dadblygiad oedd yn sicrhau eu perffeithiad. Gan mai ei etifeddiaeth oeddynt sicrhäai hyny ei oreu anfeidrol ef yn eu dadblygiad. Datguddia hyn eto fawredd dwyfol a hollalluogrwydd y Mab mewn modd diamheuol. Dim ond person anfeidrol allasai fod yn greawdwr

3 Yr hwn, ac efe yn ddisgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn

---

dadblygiad cyfuniadau materol, tyfiant y byd llysieuol, ymagoriad ac ymberffeithiad ymwybyddiaeth a hunan-ymwybyddiaeth yr holl gyfnodau, a pheri i'r naill ragori ar y llall yn ddieithriad.

III. Perthynas y Mab a gogoniant a hanfod y Tad (3).—(1) **A gogoniant y Tad.—Yr hwn ac efe yn arddysgleirdeb o'i ogoniant ef.**—Gofynol oedd dangos yn glir y fath un oedd y Mab yn ei berson ar ol honi pethau mor fawrion am dano, sef ei fod yn gyfrwng datguddiad, arfaethiad o'r bydoedd a'u hetifedd, ac yn ddadblygydd o'u holl gyfnodau. Cael mynegiant llawn o'r hyn ydyw ef a'n cynorthwya i gredu y pethau hyn am dano. Daw dau o bethau i'r golwg yn y gair "arddysgleirdeb" (*ἀπαύγασμα*) am berthynas y Mab a'r Tad. (1) Dengys mai yn y Tad y caiff ei fodolaeth. Gan ei fod yn belydriad neu arddysgleirdeb o ogoniant Duw rhaid mai yn Nuw y mae ffynhonell ei fodolaeth. Ffigwr i osod allan y berthynas hon yw y gair "arddysgleirdeb." (2) Yn y dysgleirdeb dwyfol hwn y datguddir y Tad yng Nghrist. Daw yr hyn sydd yn y Tad allan ynddo ef. Neu daw yr hyn sydd guddiedig yn y Tad yn ddatguddiedig ynddo ef. Pelydra rhinweddau y Tad allan o hono nid drwyddo. Nid cyfrwng i drosglwyddo arddysgleirdeb y Tad ydyw ef ond yr arddysgleirdeb ei hunan—arddysgleirdeb y Tad ydyw ef yn ei Berson. Beth yw yr arddysgleirdeb hwn? Holl rinweddau anfeidrol y Tad. Ynddo ceir cyfuniad perffaith o bob daioni a phob ffurf ar ddaioni. Hefyd, daioni gweithredol neu fynegiadol Duw yw yr arddysgleirdeb hwn, ac nid ei ddaioni posibiliaethol. Gallwn synied am bosibilrwydd daioni anfedrol yn Nuw yr hwn nad yw mewn gweithrediad yn ei lawn eangder. Nid hwnw sydd yma, ond yn hytrach, yr un gweithredol—un sydd mewn gweithrediad moesol ac ysbrydol parhaus. Eto, y ffurf uchaf sydd yn bosibl ydyw yr arddysgleirdeb. Ni all un arddysgleirdeb uwch nag ef fod yn Nuw. Arddysgleirdeb ei ogoniant ef ydyw rhywbeth y daw holl ogoniant anfeidrol Duw i'r golwg ynddo. Beth yw y gogoniant hwn yn Nuw? Gweithrediad ei holl briodoleddau, megys ei ymwybyddiaeth, ei hunan-ymwybyddiaeth, ei holl-wybodaeth, ei gariad anfeidrol, ei hollalluogrwydd, ei drugaredd, ei ras, ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd. Neu gellir dyweyd yn gywirach, mai gweithrediad perffaith yr holl briodoleddau dwyfol mewn cydgordiad perffaith yw gogoniant Duw, ac yn neillduol ei briodoleddau moesol ac ysbrydol.

wir lun ei berson ef, ac yn cynnal pob peth trwy air ei

Pelydriad dysglaer-ddwyfol goreu y priodoleddau hyn yw Crist yn ei berthynas a Pherson y Tad. Y mae yn fynegiant o ddeall, serch ac ewyllys anfeidrol y Tad. Credwn gan hyny nad adlewyrchiad yw meddwl y gair arddysgleirdeb yma, ond llewyrchiad allan. Nid fod gogoniant y Tad yn disgyn ar Grist a chael ei lewyrchu yn ol ond fod pob peth person Duw yng Nghrist, a'i fod yntau yn ei ddysgleirio allan. (2) **A hanfod y Tad Ac yn wir lun ei sylwedd ef.**—Defnyddir y gair χαρακτὴρ, a geir yma am lun, yn fynych am gymeriad, ac nid yw yn ammhriodol yn yr ystyr hwnw yn y fan hon, oblegid ansawdd sylwedd unrhyw fôd rydd gymeriad iddo Os yw Crist felly yn wir lun cymeriad y Tad, y mae yn rhwym o fod o'r un sylwedd ag ef, am mai y sylwedd yw achos cymeriad. Neu os cyfieithir y gair yn "fynegiad" yn lle cymeriad, yr un yw y meddwl. Mynegiad *(expression)* o'r sylwedd yw cymeriad. Arferion y sylwedd o weithredu yw ei gymeriad neu ei fynegiad. Llun y sylwedd yw mynegiad y sylwedd ohono ei hun mewn gweithredoedd. A yr awdwr yn ddyfnach yma nag yn y frawddeg flaenorol. Ymddangosiad allanol gweithrediad y priodoleddau dwyfol oedd ganddo pan yn dyweyd fod Crist yn arddysgleirdeb gogoniant y Tad; ond ansawdd neu natur y priodoleddau geir yn y gair "llun." Gall gallu drwg gyflawni gweithred a ymddengys yn allanol dda a gogoneddus. I osgoi unrhyw syniad felly, dywed yr awdwr fod Crist yn llun natur gweithrediadau priodoleddau Duw, ac yn wir lun hefyd; hyny yw, llun perffaith gywir. Eto, y mae ef yn wir lun, sef yn fynegiant cywir o sylwedd (ὑποστασεως) y Tad. Dyma ni ris yn ddyfnach eto yn y gair hwn. Nid gwir lun natur y priodoleddau yn unig yw ef, ond gwir lun y sylwedd *(hypostasis)* Duw. Ei sylwedd yw y peth dyfnaf yn Nuw, ei hanfod. Bodola hwn dan ac yn ei alluoedd personol, a threiddia drwy yr oll o'i briodoleddau; efe yw achos yr arddysgleirdeb y soniwyd am dano. Bod yn wir lun y sylwedd hwn yw bod yn Dduw anfeidrol. Ni ellir bod yn fynegiad ohono heb fod yn anfeidrol dda. Nid yw yr awdwr yn boddloni ar ddyweyd fod Crist yn ddatguddiwr ewyllys Duw, ac yn etifedd iddo heb dreiddio i'r dyfnder a phrofi ei fod yn wir Dduw ei hunan. Wrth ddyweyd ei fod yn fynegiant cywir o sylwedd Duw tery y pendraw yn nadblygiad ei syniadau am natur ei Berson.

IV. Perthynas y Mab a rhagluniaeth y Tad.—(1) **Eangder ei**

nerth, wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a

---

berthynas.—Ac yn cynal pob peth.—Yma eto a yr awdwr gam ym mhellach yn ei syniadau goruchel. Dywedodd o'r blaen mai y Mab oedd cyfrwng y Tad yn nadblygiad yr oesau; hyny yw, efe oedd arweinydd mawr dadblygiad cyfnodau'r byd, ond nid oedd hyny yn golygu mai efe gynhaliai yr oesau. Un peth yw arwain yr oesau, peth arall yw cynal eu bodolaeth a chynal y gwrthddrychau a gyfansoddent yr oesau. Rhaid cymeryd "pob peth" yma eto yn yr ystyr eangaf posibl, sef pob peth a grewyd gan Dduw yn bethau a phersonau. Gweithrediad y Mab yn holl greadigaeth y Tad a'i cynal hi mewn bod. Nid beth yw y Mab yn ei hanfod yw y syniad yma, ond beth a wna ef yn holl gylch y greadigaeth; ond cofier bod yr hyn a wna yn codi o'r hyn ydyw ef. (2) **Ffurf ei berthynas.—Trwy air ei nerth.**—Dyma ffurf y berthynas fawr eang a ddesgrifiwyd. Dengys y ffurf ei bod yn berthynas bywyd. Lle byddo gair y mae bywyd bob amser. Felly y rhaid ei bod hi yma. Deil y Mab berthynas a phob peth crëedig a hono yn berthynas gair, neu fywyd. Nid dal y cread fel y bydd mainc yn dal un i eistedd a wna ef; ond yn hytrach treiddia ei fywyd drwyddi oll. Gair oedd y cyfrwng ddefnyddiodd Duw i ddwyn y cread i fod a gair ei Fab a'i cynal mewn bod. Gair nerth y Mab ydyw ef hefyd—*τῆς δυνάμεως*. Nerth gair neu fywyd Duw ddygodd y bydoedd i fod, a'r un nerth a'u ceidw mewn bod. Golyga dunamis—nerth, rym neu allu mewnol, ac nid nerth allanol. Nerth bywyd yn y greadigaeth yw gair nerth y Mab yma, ac nid un allanol peirianyddol. Nerth organaidd yn y cread yw ef ac nid nerth anorganaidd tuallan iddo. Ffurf fywydol sydd i berthynas y Mab a'r cread, gan hyny, ac nid ffurf faterol. Awgryma y geiriau hefyd fod Crist yn cynal pob peth yn hawdd a didrafferth. Rhyfedd yw manylwch yr awdwr yn y brawddegau hyn; ac nid syn hyny pan gofiwn ei fod yn gosod sylfaen yr Epistol i lawr ynddynt.

V. Perthynas y Mab a iachawdwriaeth y Tad (3).—(1) **Y gweithredydd.—Wedi iddo wneuthur puredigaeth o bechodau.**—Darllena rhai "wedi gwneuthur glanhad ein pechodau." Ereill, "puredigaeth pechodau." Daw y geiriau hyn a pherthynas newydd i fewn. Datguddiad o feddwl y Tad, ei benodiad yn etifedd y Tad, ei berthynas a dadblygiad yr oesau, ei berthynas hanfodol a'r Tad, a'i berthynas a phob peth meidrol mewn ystyr rhagluniaethol oedd syniadau llywod-

eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd.
4 Wedi ei wneuthur o hyny yn well na'r angelion, o

---

raethol y brawddegau blaenorol; ond yma deuwn at ei berthynas a iachawdwriaeth y Tad. Y Tad oedd awdwr cynllun iachawdwriaeth, ond y Mab oedd y gweithredydd ynddi. Er mwyn y Mab yr arfaethodd y Tad y drefn; oblegid ni fuasai y Mab yn etifedd pob peth heb iddo fod yn Iachawdwr dynion. Buasai rhan uchaf creadigaeth ei Dad, sef dynoliaeth, allan o'i etifeddiaeth. Gwahaniaetha gwaith Crist fel gweithredydd yn nhrefn y cadw i bob peth arall a wnaeth ac a wna. Nid dadblygu a chynal wna ef yma, ond puro pechodau. Meddwl hyn yw, iddo i farw yn iawn dros ddynion i Dduw. Golygid y dyn yn bur seremoniol dan yr Hen Oruchwyliaeth ar ol iddo gyflwyno ei aberth dros ei bechod. Felly yn hanes Crist wedi iddo aberthu ei hun dros ddynion: gwnaeth ffordd i buro oddiwrth bechod, ffordd i lanhau'r pechadur. Gwnaeth ef y gwaith hwn dros ddynion ei hun fel y gweithreda yn y cread, ac nid trwy neb na dim arall. (2) Y **perffeithydd.—A eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd.**—Nid oedd marw dros ddynion ond rhan fechan o'r gwaith, er ei fod y peth pwysicaf. Agor ffordd yn unig oedd hyny. Beth wna Crist ar y ddeheulaw? Perffeithio iachawdwriaeth y Tad ym mhersonau pechaduriaid. Ar ddeheulaw Duw yn unig y gallai ef gario y gwaith hwn ym mlaen. Yma geilw holl adnoddau y Trindod at y gwaith. Eistedda ar y ddeheulaw fel un sydd wedi enill ei etifeddiaeth drwy ei waith, a chan ei fod wedi ei henill, hawlia bob peth yn y nef at ei law i'w pherffeithio hi. Eistedda yno hefyd fel brenin, offeiriad a phrophwyd ac eiriola ar sail ei iawn dros ddynion. Mewn gair, ei holl waith yn y nef yng nghylch y drefn o gadw yw perffeithio dynion. Beth feddylir wrth "y goruwch-leoedd"— *ἐν ὑψηλοῖς* —lle yr eistedda? Cylchoedd uchaf bywyd anfeidrol. Y fath rai yw y rhai hyn, pa le y maent, a beth gynwysir ynddynt ni wyddom. Ond gallwn fod yn sicr mai yma yr ymddengys bywyd Duw yn ei fan uchaf a gogoneddusaf, ac y maent ym mhell uwchlaw pob man y trig bodau meidrol ynddynt.

VI. Perthynas y Mab ag angylion y Tad (4).—(1) **Yn ei Berson.—Wedi dyfod o gymaint a hyny yn well na'r angelion.**—Rhaid fod yma gyfeiriad at ei Berson dwyfol-ddynol; oblegid nid dyfod yn well na'r angylion a wnaeth ef fel person dwyfol. Yr oedd ef yn anfeidrol well

gymaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwynt-hwy.

---

na hwy er tragwyddoldeb fel Duw. Ni ellid eu cymharu ag ef. Eithr dyfod yn well na hwy fel Duw-ddyn a wnaeth trwy ei waith. Gwell yw darlleniad y C.D. na'r C.A. yn y fan hon. Dyfod a wnaeth yn well na'r angylion ac nid cael ei wneyd. Dadblygodd ei natur ddynol trwy waith, a pheffeithiodd hi mewn hunan-aberth ar y groes. Ni allasai yr un angel wneyd iachawdwriaeth, ond gwnaeth Crist hi a dyrchafwyd ef i fan am hyny na wel yr angylion yn dragwyddol. Gan hyny, tra rhagora arnynt hwy yn ei Berson dwyfol-ddynol. (2) **Yn ei enw.—Fel y darfu iddo etifeddu enw mwy rhagorol na hwynt-hwy.**—Beth yw yr enw? Nid Mab, oblegid y mae ystyr yn yr hwn y mae angylion yn feibion Duw. Nid Iesu na Christ chwaith, ond Gwaredwr llawn. Cynwys yr enw bob peth sydd yng Nghrist fel Iachawdwr dynion. Ni fedd yr angylion yr enw o waredwyr. Beth bynag a wnant hwy yn nhrefn y cadw, ni chadwant neb. Ceir yn enw Iesu bob rhinwedd achubol sydd yn eisieu ar ddynion, ac enillodd ef trwy buro pechodau dynion. Heb ddangos perthynas ddyblyg Crist a'r angylion, ni fuasai y syniadau yn gyflawn; oblegid credai yr Iuddewon lawer am fawredd yr angylion a'u gwaith mawr yn rhoddiad y ddeddf a phethau ereill. Heb ddangos eu hisraddoldeb i Grist, yr oedd perygl i'r Hebreaid gamsynied. Cenhadon a gweinidogion oedd yr enwau uchaf feddent hwy; creaduriaid oeddynt, ac ni ddyrchafwyd neb ohonynt i'r goruwchleoedd ar ddeheulaw Duw. Ni allent hwy fyw yno. Buasai dysgleirdeb y presenoldeb dwyfol yn eu difodi. Eto, etifeddodd Crist yr enw o Waredwr tra mai cael eu henwau wnaethant hwy. Tyfodd ei enw ef allan o'i waith; rhoddwyd eu henwau hwy arnynt oblegid nodwedd eu gwaith. Enw Crist yw y mwyaf yn y nef a'r ddaear, oblegid mai enw dyfodd o'i waith gwaredigol yw ef.

III. Traethawd.

Dadblygiad Datguddiad.

Canfyddir fod dadblygiad yn natguddiad Duw ohono ei hun fel yn ei holl weithredoedd. Rhaid i Dduw ddatguddio i'r meddwl bob peth nad all y meddwl ei hun ei ddarganfod. Hefyd, bydd maint y datguddiad a rydd efe ohono ei hun yn gyfatebol i ddadblygiad y meddwl a'i caiff a meddwl y bobl y gwneir y datguddiad er eu mwyn.

Er hyny, bydd y datguddiad yn gyfryw nad all dynion ddeall yr oll sydd ynddo ; ond byddant yn medru deall yr hyn amcana Duw ei ddysgu iddynt ar y pryd. Daw y gosodiadau hyn i'r golwg yn eglur yn y grisiau yn nadblygiad ei ddatguddiad a nodir genym.

I. **Datguddiad i'r synwyrau.**—Dyna yw y cread. A'r synwyrau y canfyddir y cread a'i ansoddau genym. Drwy y synwyrau y casglwn fod Duw yn hollalluog. Ei allu anfeidrol oedd y peth cyntaf gasglwyd gan ddyn am Dduw drwy y wybodaeth ddaeth i'w feddwl drwy ei lygaid, ei glustiau, a'i synwyrau ereill. Ar wahan i fodolaeth y cread ni allwn weled y casglai dyn byth fod Duw yn hollalluog. Fel y cawn weled eto, nid dyna'r oll gynwysa'r datguddiad ; ond dyna'r gwirionedd olygai Duw ddysgu i'r byd am dano ei hun yn gyntaf oll. Cafodd Adda y datguddiad hwn cyn i Dduw roddi gorchymyn iddo i beidio bwyta o ffrwyth y pren.

II. **Datguddiad i'r deall.**—Hwn yw ail ris datguddiad Duw ohono ei hun. Ar ol i ddyn gasglu ffeithiau i'w feddwl drwy y synwyrau wrth weled y cread, dechreua fyfyrio arnynt. Ffrwyth y myfyrdod hwn yw datguddiad o ddoethineb Duw. Wrth feddwl a manwl sylwi ar y cread cenfydd dyn gyfaddasder yn y naill beth i'r llall drwyddo oll, a chasgla y rhaid fod doethineb anfeidrol yn awdwr y fath rwydwaith o gwreinrwydd a chyfaddasder. Yr oedd y datguddiad hwn yn y cread ar y dechreu, pan ddaeth y synwyrau i gyffyrddiad a'r byd; ond nid oedd y meddwl yn ddigon dadblygedig i'w weled. Ychydig ohono all y meddwl ganfod yn ei gyflwr mwyaf dadblygedig, ac ni chenfydd ef yr oll i dragwyddoldeb. Er hyny, cenfydd digon ohono i brofi fod doethineb anfeidrol yn rhedeg drwy holl gread Duw. Meddwl anfeidrol yn unig all ganfod yr oll o'r doethineb gynwysir yng ngwneuthuriad y cyfanfyd a'i fodau.

III. **Datguddiad i gydwybod.**—Fel yr esgynwn ä y datguddiad yn fwy mewnol ac ysbrydolach. Teimla dyn fod rhyw weithredoedd yn ddrwg ac ereill yn dda. Ffrwyth datguddiad mewnol yw hyn a dilyna y datguddiad i'r deall. Rhaid i syniadau deallol fod yn y meddwl cyn y gall farnu y gwahaniaeth rhyngddynt. Adlewyrcha dyn ar gwreinrwydd ei gyfansoddiad, a chasgla mai cynyrch meddwl anfeidrol ydyw. Gan fod ynddo ymwybyddiaeth o dda a drwg, casgla hefyd fod Duw yn fôd moesol. Gwel y rhaid fod yr hyn sydd yn ei enaid yng nghrewr ei enaid. Yr oedd y datguddiad hwn eto yn y

dyn ar y cychwyn, ond rhaid oedd i'r meddwl ddadblygu i fedru ei ganfod. Ac ni chenfydd y meddwl byth yr oll a gynwysa cydwybod. Eithr ni wna hyny y datguddiad yn llai. Profa i'r enaid fod Duw yn anfeidrol mewn moesoldeb.

IV. Datguddiad i'r ewyllys.—Hwn oedd y datguddiad trwy yr angylion a'r prophwydi. Ac amcanai godi dynion i fyw yn ol eu deall a'u cydwybod. Baich cenadwri y prophwydi oedd galw y bobl i fyw yn well a chyfeirio at ddyfodiad un fuasai yn esiampl a nerth iddynt i fyw yn well. Ysbrydolodd Duw ddynion neillduol i gyflwyno hwn i'r byd ac i'w ysgrifenu. Cynhyrfai Duw y bobl hyn trwy ddatguddio gwirioneddau iddynt a'u codent i awyddu byw yn dduwiolach, ac i gael ereill i fyw felly, er mwyn parotoi'r byd i dderbyn Ceidwad. Uwch o lawer yw y datguddiad hwn na'r tri blaenorol, ac ni hysbydda'r byd ei gynwys hyd ddiwedd amser. Y mae fel y greadigaeth yn ddiben-draw a thuhwnt i allu y meidrol i'w amgyffred oll.

V. Datguddiad i'r holl berson mewn person.—Dyma'r datguddiad yng Nghrist: efe ei hun oedd y datguddiad ac nid cyfrwng i'w drosglwyddo. Cyferfydd hwn a holl bersonoliaeth dyn, ac nid un wedd fel y rhai blaenorol. Gweddau ar Dduw ddatguddid yn y dadguddiadau uchod; ond yn hwn canfyddir ef yn ei holl gyflawnder; oblegid yn yr Iesu trigai holl gyflawnder y Duwdod yn gorfforol. Ni all fod datguddiad uwch na hwn. Daw y byd i weled mwy ynddo yn barhaus, ond yr un fydd y datguddiad er hyny. Cyferfydd a phob angen sydd mewn dyn ac a all fod arno byth, a bydd yn fwy nag a all ei feddwl ei ddirnad am dragwyddoldeb.

ADRAN I. PWNC CRIST A'R ANGYLION.

Uwchafiaeth Crist ar yr Angylion (i. 5-14; ii., 18).

I. Dadansoddiad.

I. Uwchafiaeth berthynasol (adn. 5).

(1) *Enw neillduol.*
(2) *Cenhedliad neillduol.*
(3) *Natur neillduol.*
(4) *Mabolaeth neillduol.*

5 Canys wrth bwy o'r angelion y dywedodd efe un

II. **Uwchafiaeth bersonol** (adn. 6-7).
  (1) *Yn wrthddrych eu haddoliad* (adn. 6).
  (2) *Yn ddigyfnewidiad* (adn. 7).
III. **Uwchafiaeth frenhinol** (adn. 8-9).
  (1) *Ei orsedd* (adn. 8).
  (2) *Natur gwaith ei orsedd.*
  (3) *Cymeriad y brenin* (adn. 9).
  (4) *Ei gymeriad yn amod ei eneiniad yn frenin.*
IV. **Uwchafiaeth greadigol a pharhaol** (adn. 10-12).
  (1) *Y greadigol* (adn. 10).
  (2) Y *barhaol* (adn. 11-12).
V. **Uwchafiaeth fuddugoliaethol** (adn. 13-14).
  (1) *Ei fuddugoliaeth a Duw* (adn. 13).
  (2) *Ei fuddugoliaeth a'r angylion* (adn 14).

II. Eglurhad.

Rhenir yr Epistol i dair brif adran, y rhai a awgrymwyd yn y rhagymadrodd, sef rhagoriaeth Crist ar (1) yr angylion fel person; (2) ar Moses fel prophwyd a Josuah fel arweinydd; ac (3) ar Aaron fel archoffeiriad. Ceir hedyn yr Adran I. yn adn. 4, lle y dywedir fod Crist wedi etifeddu enw mwy rhagorol na'r angylion; datguddir sail yr ail yn adn. 1, trwy ddyweyd fod Duw wedi llefaru yn y dyddiau diweddaf hyn mewn Mab; daw egwyddor Adran III. i'r golwg yn adn. 3, yn y frawddeg "wedi iddo wneuthur puredigaeth pechodau." Dadblygu y syniadau orweddant yn y tair brawddeg hyn yw holl amcan yr awdwr yn yr Epistol o hyn i'r diwedd. Fel yr awgrymwyd o'r blaen, pwysig oedd dangos rhagoriaeth Crist ar yr angylion. Credai yr Iuddewon gymaint yn yr angylion, ac yr oedd rhai ohonynt yn edrych arnynt fel gwrthddrychau addoliad. I droi yn ol syniadau eithafol am danynt y cymer yr awdwr yr Adran I. i ddangos uwchafiaeth Crist arnynt. Tra dyddorol yw edrych ar ei fanylwch wrth nodi allan ragoriaethau amryfal Crist arnynt :—

I. **Uwchafiaeth berthynasol** (5).—(1) **Enw neillduol.—Fy Mab ydwyt ti.**—Dyma elfen gyntaf uwchafiaeth gyntaf yr Iesu. Ni eilw Duw unrhyw angel "**fy Mab.**" Ni all wneyd hyny a neb ond

amser, Fy mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genhedlais

---

un fyddo yn genedledig ohono. Meibion creadigol Duw yw yr angylion ac nid meibion cenedledig. Golyga "**fy Mab**" yma, fab o'r un natur, mab angenrheidrwydd natur y Tad, mab heb ei greu, mab anfeidrol a gogyfuwch a'r Tad ym mhob peth. Ni allai neb arall fod yn fab i'r Tad yn yr ystyr yma, ac o ganlyniad, ni allasai ef alw neb ond efe "**fy Mab,**" sef Mab fy hanfod a fy holl natur ac nid mab fy ngallu creadigol. Hefyd, ni alwodd Duw unrhyw angel ar unrhyw amgylchiad wrth yr enw hwn. Gan fod yr enw mor neillduol ni allasai alw angel wrtho dan unrhyw amgylchiadau neillduol. Y mae ystyr gwahanol a neillduol i'r gair "Mab" pan defnyddir ef am yr angylion fel cyfangorph ac am y genedl Iuddewig. Ni ddefnyddir ef am un angel nac am un Iuddew yn un man yn yr Hen Destament na'r Testament Newydd. I wneyd ei sylfaen yn gadarn dyfyna yr awdwr y geiriau neu yr enw uwchraddol hwn rydd Duw ar Grist, o Salm ii. 7. Yr ysgrythyr oedd safon yr Iuddew i benderfynu pob mater, gan hyny, dyfyna yr awdwr y geiriau i brofi ei bwnc. (2) **Cenhedliad neillduol.—Myfi heddyw a'th genhedlais di?**—Beth bynag yw y cenhedliad y cyfeirir ato yma, amlwg yw ei fod yn un neillduol; hyny yw, yn un na pherthyn i unrhyw angel yn holl lywodraeth Duw. Amlwg hefyd yw fod gwahaniaeth hanfodol rhwng creu a chenhedlu. Gan hyny ni allasai Duw ddyweyd, "**Myfi heddyw a'th genhedlais di**" wrth unrhyw angel a greodd. Beth yw y gwahaniaeth rhwng creu a chenedlu yn ei berthynas a Duw? Angenrheidrwydd tragywyddol ei natur oedd cenhedlu y Mab, tra mai ffrwyth ei ewyllys oedd creu angylion; rhaid oedd i'r person genhedlid ohono o angenrheidrwydd ei natur i fod yn anfeidrol fel efe ei hun, a'r un yn ei natur ag ef ei hun. At ba adeg y cyfeiria "Myfi heddyw," etc. ? (1) Y tragywyddol genhedliad medd Origen, Athanasius, Basil, Primasius a Thomas Aquinas. Dywedir **heddyw,** meddant hwy, am nad oes amser yn bod i Dduw. Presenol yw yr oll iddo ef. Ni allwn dderbyn y golygiad hwn er y delir ef gan amryw esbonwyr o fri ar hyd yr oesau; oblegid (a) osgoi anhawsder yw dyweyd nad yw amser yn bod i Dduw. Gwir fod yr holl orphenol, y presenol a'r dyfodol yn glir a goleu iddo ef, ond nid yw hyny yn brawf nad yw y tri amser hyn yn bod yn sylweddol i Dduw. (b) Rhaid fod awdwr yr Epistol yn cyfeirio at ryw adeg neillduol yn hanes Crist mewn amser, fel y mae Salm ii. 7 yn

di? A thrachefn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab?

---

nodi allan amgylchiad neillduol yn hanes Dafydd; (c) defnyddia i'aul y geiriau yn Actau xiii. 33, fel rhai yn cyfeirio at yr adgyfodiad. (Gwel hefyd Rhuf. i. 4, vi. 4, viii. 29; Col. i. 15, 18). (2) Myn rhai na chyfeiria y gair **heddyw** at unrhyw adeg arbenig; eithr methwn a gweled unrhyw sail i'r syniad. (3) Deil amryw esbonwyr fod yma gyfeiriad uniongyrchol at yr ymgnawdoliad. Gwir i angylion ymweled a'r ddaear yr adeg y ganwyd Crist; ond ni allwn weled fod rhesymau digonol dros gredu mai at yr ymgnawdoliad y cyfeiria y gair. (4) Yr adgyfodiad. Gwelwn fod yr adnodau ddyfynwyd uchod yn cyfeirio yn uniongyrchol at yr adgyfodiad, a chredwn mai hwn yw y syniad cywir, ond cysylltu yr esgyniad ag ef. At eneiniad Dafydd yn frenin y cyfeiria y Salm, ac nid oedd Crist yn frenin ei eglwys hyd nes iddo eistedd ar ddeheulaw Duw. Y pryd hwnw y cafodd ef hawl a llywodraeth ar bob peth perthynol i'w eglwys. (3) **Natur neillduol.—A thrachefn, myfi a fyddaf iddo ef yn Dad.**—Geiriau o 2 Sam. vii. 14, yw y rhai hyn a dangosant rywbeth mwy na'r brawddegau blaenorol. Yr enw a'r cenhedliad neillduol ddatguddient hwy, ond datguddia y rhai hyn natur neillduol y Mab. Cymerodd y Mab trwy ymgnawdoli natur ddynol i undeb a'i berson dwyfol. Sicrhâ y Tad ef y bydd yn Dad iddo eto, yr un modd a chyn ymgnawdoli. Y mae ystyr neillduol i'r gair Tad yma, sef Tad o ran natur ac nid Tad creadigol; Tad fel ag oedd ef yn nhragywyddoldeb. Efe oedd awdwr cenhedliad y Mab ym mhob ystyr yn gystal a'r tragywyddol genhedliad—Tad ei natur ddynol a'i natur ddwyfol. Nid yw yn Dad i unrhyw angel yn yr ystyr yma. Er fod y dadolaeth dragywyddol yr un, y mae gwahaniaeth ynddi ar ol yr ymgnawdoliad. Y mae Duw yn fwy o Dad i'r Mab yn awr na chyn yr ymgnawdoliad fel y ceir gweled isod. Daeth yn Dad i ddynoliaeth Crist trwy genhedliad ac nid trwy greadigaeth fel y mae yn Dad yr angylion. (4) **Mabolaeth neillduol.—Ac efe a fydd i mi yn Fab.**—Nid yr un fath fab yw Crist wedi esgyn a chyn hyny. Mab dwyfol, anfeidrol, a thragywyddol yn unig oedd ef cyn yr ymgnawdoliad a'r esgyniad. Yn awr y mae yn fab dwyfol-ddynol, anfeidrol-feidrol, a thragywyddol-amserol. Newidiodd yr ymgnawdoliad y dadolaeth a'r fabolaeth fel y gwelir. Nid yr un yn hollol yw y dadolaeth yn ei natur yn awr, ac o ganlyniad, nid yr un yw y

6 A thrachefn, pan yw yn dwyn y Cyntaf-anedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angelion Duw ef.

---

fabolaeth. Y mae gwahaniaeth rhwng mabolaeth ddwyfol-ddynol a mabolaeth ddwyfol yn unig. Ni fedd unrhyw angel y fath fabolaeth a hon eto. Felly y mae Crist uwchlaw yr holl angylion yn ei berthynas a'r Tad.

II. **Uwchafiaeth bersonol** (6-7).—**Yn wrthddrych eu haddoliad** (6).—**A phan y mae drachefn yn dwyn y cyntaf-anedig i'r byd efe a ddywed, Ac addoled holl angylion Duw ef.**—Ar ymyl y ddalen rhydd y C.D. ddarlleniad arall, sef "A thrachefn pan yw yn dwyn i mewn," etc. Eithr y C.D. yw y goreu. Nid dyweyd wna yr awdwr fod Crist yn rhagori drachefn ar yr angylion yn fod Duw yn gorchymyn iddynt i'w addoli, ond yn hytrach ei fod yn dyweyd wrth yr angylion am ei addoli pan y mae ef yn ei ddwyn drachefn i'r byd. Pan ddyga Duw y Mab drachefn i'r byd yn ol ystyr yr adnod, geilw y Tad ar yr holl angylion, ac nid rhai ohonynt i'w addoli: eithr ni ddywedodd y fath beth am un angel erioed ac ni ddywed byth. Nid ydynt hwy yn wrthddrychau addoliad fel y credai rhai o'r Iuddewon. At ba "ddwyn i'r byd" y cyfeiria y geiriau? (1) Yr ymgnawdoliad. Caiff y syniad hwn gryn gefnogaeth Hwn yw yr esboniad cyson â'r C.C.A., a'r un ar ymyl y ddalen yn y C.D. Os mai a'r cysylltair (ὅταν) a'i blaenora y cysylltwn "drachefn," nid oes a fyno a'r ferf "dwyn." Ond (a) methwn a gweled fod gramadeg yn y fan hon yn cyfiawnhau gwneyd hyny. Rhagferf yw "drachefn" yn meddalu y ferf "dwyn." (b) Credwn mai cyfeiriad at y dyfodol sydd yma ac nid at y gorphenol. (c) Dwyn Crist drachefn i'r byd oedd syniad yr hen esbonwyr Lladinaidd a Groegaidd, ac nid dwyn dyfyniad arall i brofi y pwnc. (d) Goddefa gramadeg y Roeg y syniad hwn. Felly, nid ag unrhyw ddigwyddiad a fu yn hanes Crist y dylid cysylltu y geiriau. Methwn a gweled (2) mai a'r adgyfodiad a'r esgyniad y dylem eu cysylltu, am fel y dywedwyd, eu bod yn cyfeirio at ryw amgylchiad yn y dyfodol. (3) Dydd y farn. Hwn yw y syniad mwyaf naturiol a chydweddol a'r cysylltiadau ac a dysgeidiaeth yr Epistol. Bydd Duw Dad bore y farn yn arwain ei Fab i'r byd yr ail waith. Efe a'i dygodd i'r byd y tro cyntaf, a gwna yr un modd yr ail dro, a hyny gyda gogoniant. Gelwir y Mab yn "gyntaf-anedig" yma, ac nid "unig-anedig." Fel cyntaf-anedig, un yn mysg llawer yw Crist; ond fel unig-anedig saif ar ei

7 Ac am yr angelion y mae yn dywedyd, Yr hwn sydd yn gwneuthur ei angelion yn ysprydion, a'i weinidogion yn fflam dân.

---

ben ei hun. Fel Duw, unig-anedig yw ef; fel Duw-ddyn, cyntaf-anedig ydyw. Fel cyntaf-anedig y dygir ef i'r farn—fel Duw-ddyn. Yna geilw Duw ar yr holl angylion i'w addoli. Ceir y geiriau "Ac addoled holl angylion Duw ef" yn y LXX o Deut. xxxii. 43; ond nid ydynt yn y testyn Hebraeg, a chrea hyn gryn anhawsder. Ond pan gofiom mai y LXX. oedd Beibl yr Iuddew adeg ysgrifeniad yr Epistol, diflana yr anhawsder i raddau pell. Ceir y syniad sydd yn y geiriau mewn amryw fanau yn yr ysgrythyrau er na cheir y geiriau yn llythyrenol, a hyny sydd yn bwysig. Amcan yr awdwr yw dangos fod holl angylion Duw, rhai drwg a da, i addoli Crist pan ddygir ef i'r farn. Gan hyny, rhaid ei fod yn anfeidrol uwchraddol iddynt yn ei berson. (2) **Yn ddigyfnewidiad** (7).—**Ac am yr angylion y mae yn dywedyd, yr hwn sydd yn gwneuthur ei angylion yn wyntoedd, a'i weinidogion yn fflam o dân.**—Gwelir yma ragoriaeth arall o eiddo'r Mab. Awgryma y geiriau fod yr angylion yn gyfnewidiol. Credai yr Iuddewon fod yr angylion yn ymwisgo yn y gwynt a'r tân dan gyfarwyddyd ac awdurdod Duw, ac elai rhai ohonynt mor bell a chredu ei fod yn eu gwneyd yn wynt a thân yn llythyrenol. Edrychent, gan hyny ar yr angylion fel creaduriaid cyfnewidiol. Ceir y syniad hwn yn eglur iawn yn hanes Manoah, Barn. xii. Beth bynag am y syniad, amlwg yw fod yr awdwr yn dangos awdurdod llawn Duw arnynt. Gall wneyd a hwynt fel y myno. Efe a'u crea yn ysbrydion a gall eu difodi pan welo yn dda. Eithr nid felly am y Mab: y mae ef uwchlaw awdurdod creadigol Duw, ac ni ellir ei ddifodi. Eto, y mae yr angylion yn is yn eu gweithrediad na'r Mab. Elfenau natur yw cylch cyntaf eu gweithrediad hwy, sef y gwyntoedd a'r tân, a'u hail gylch yw dynion—bodau meidrol eto. Nid dyna gylchoedd uchaf y Mab fel y gwelir yn yr adnod nesaf. Gwna'r angylion eu gwaith yn ddeheuig a nerthol, a dyna awgryma y gair "ysbrydion" neu "wyntoedd"; a gwnant ef yn angerddol fel yr awgryma y geiriau "fflam o dân," ond ni wnant ef fel y Mab. Dengys yr adnod ddau beth yn eglur, sef (1) mai creaduriaid dan lywodraeth hollol Duw yw yr angylion. Gall eu creu, peri iddynt wneyd a fyno, a'u difodi pan ddewiso. Gan hyny, y maent o ran eu natur yn gyfnewidiol. (2) Gwaith israddol yw yr eiddynt

8 Ond wrth y Mab, Dy orsedd-faingc di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd; teyrnwialen uniondeb yw teyrnwialen dy deyrnas di.

---

hwy a chariant ef ym mlaen wrth ewyllys Duw. Yn y ddau beth hyn y maent yn dra israddol i'r Mab. Ysbrydion ydynt a gweinidogion yn eu gwaith. Gair arall am yr angylion yw gweinidogion.

III. Uwchafiaeth frenhinol (8-9).—(1) **Ei orsedd.**—(8) **Ond am y Mab, efe a ddywed, dy orseddfaingc di, O Dduw,** sydd yn oes oesoedd.—Gweision ysbrydol, gweinidogion neu ddeiliaid teyrnas y Mab yw yr angylion. Gan mai meidrolion ydynt, rhaid iddynt fod yn ddarostyngedig iddo. Eithr am dano ef ei hun eistedda ar orsedd. Dengys hyn ei ragoriaeth yn eglur iawn. Dywed Duw ei hun drwy ddwyfol ysbrydoliaeth fod gan y Mab orsedd. O'r LXX. y cymerodd yr awdwr y geiriau hyn; oblegid y maent yn llythyrenol fel eu ceir yno, ac yn bur agos i'r Hebraeg o Salm xlv. 6. Heblaw fod y Mab yn frenin ar orsedd, desgrifia y geiriau natur ei orsedd. Un ddiddiwedd ei pharhad yw hi. Myn rhai mai y darlleniad cywir o'r geiriau yw, "Dy orseddfaingc di yw Duw yn oes oesoedd." Eithr (1) ni fyddai y fath syniad yn naturiol; (2) gwan iawn yw y rheswm roddir drosto, sef nad ellid galw Solomon, i'r hwn y cyfansoddwyd y Salm uchod, yn Dduw. Rhaid cofio mai cysgod oedd Solomon, a bod y Salmydd dan ddwyfol ysbrydoliaeth a'i olwg ar Grist. (3) Ni cheir y geiriau "Dy orseddfaingc di yw Duw," neu "Duw yw dy orseddfaingc di" yn un man arall yn y Beibl; (4) rhoddir pwys yma ar fod gorseddfaingc y Mab yn ansymudol ac anghyfnewidiol ynddi ei hun ar wahan i Dduw Dad. Onibae hyny, ni fuasai nerth yn y cyferbyniad rhyngddo a'r angylion. Nid oes ganddynt hwy orsedd, a gwna Duw hwynt yn greaduriaid symudol a chyfnewidiol; eithr saif gorsedd y Mab yn ddisyfl. Fel y dangoswyd uchod wrth draethu ar adn. 7, rhai cyfnewidiol yw yr angylion, ond y mae Crist yn anghyfnewidiol. (2) **Natur gwaith ei orsedd.—A theyrnwïalen uniondeb yw teyrnwialen dy deyrnas di.**—Dangoswyd tragywyddolrwydd a sefydlogrwydd yr orsedd yn y frawddeg flaenorol. Yn hon dangosir natur ei gweithrediadau. Arwydda **teyrnwialen** weinyddiad o waith yr orsedd, a dengys hawl i deyrnasu. Natur y deyrnwïalen benderfynai natur y gweinyddiad o wobrau a chospau oddiar yr orsedd. Ceir adlewyrchiad o hyn yn y llinellau :—

9 Ti a geraist gyfiawnder, ac a gaseaist anwiredd: am

" Anturiaf ato yn hyderus,
Teyrnwïalen aur sydd yn ei law."

Term moesol yw uniondeb, a dengys mai cyfiawnder perffaith a weinyddir oddiar orsedd y Mab. A allai yr angylion wneyd hyn? Na allent, am nad ydynt yn holl-wybodol fel y Mab. Pe caent hwy orsedd ni allent weinyddu perffaith uniondeb oddiarni am nad allent wybod pob peth am y deiliaid. (3) **Cymeriad y brenin** (9).—**Ti a geraist gyfiawnder ac a gasêaist anwiredd.**—Dyna gymeriad y brenin—un yn caru cyfiawnder. Profa ei fod yn caru cyfiawnder ei fod yn gyfiawn. Gallai ddeall cyfiawnder, gwybod ei effeithiau heb ei garu ac heb fod yn gyfiawn; ond ni allai ei garu heb fod yn gyfiawn. Ai nid yw yr angylion yn caru cyfiawnder? Ydynt; ond nid yw yn ymddangos eu bod yn ei garu fel y Mab. I ddeall hyny, rhaid gwybod at ba adeg y cyfeiria yr adnod ei fod wedi caru cyfiawnder. Y mae y ferf am " geraist " yn yr **aorist** ac yn dangos fod pwynt neillduol o flaen llygad yr awdwr, a hwnw oedd holl fywyd Crist pan ar y ddaear. Carodd gyfiawnder mor fawr nes dioddef pob gwawd a dirmyg, a bu farw yn hytrach na gwyro oddiwrtho. Dysgodd gyfiawnder, bu fyw cyfiawnder nes cyfiawni yr holl gyfraith; ond gwnaeth fwy na hyny, sef ei garu a'i holl enaid mawr. Ni allasai angylion wneyd hyn am (a) na fedrent farw dros gyfiawnder; (b) deall yr oll o gyfiawnder, yr hwn sydd yn anfeidrol; (c) ni allent amgyffred yr oll am ddynion y rhai yr oedd yn rhaid byw cyfiawnder er eu mwyn. Heblaw caru cyfiawnder casâodd Crist anwiredd. Ni allasai un angel gashau anwiredd fel efe. Paham? Am nad allai unrhyw angel na bôd meidrol o un rhyw na gradd ddeall anwiredd fel efe. Rhaid deall ei natur a'i holl effeithiau i'w gashau yn wirioneddol. Dim ond bôd anfeidrol all garu cyfiawnder yn y dwysder mwyaf ac yn ei holl weddau a chashau anwiredd yr un modd. (4) **Ei gymeriad yn amod ei eneiniad yn frenin.—Am hyny y'th eneiniodd Duw, dy Dduw di, ag olew gorfoledd tuhwnt i'th gyfeillion.**—Darllena rhai esbonwyr "Am hyny, O Dduw, dy Dduw di a'th eneiniodd." Braidd y dioddef iaith y cyfeithiad hwn, ac ni welwn yr enillir dim wrtho. Sut y mae y Tad yn Dduw i'r Mab? Efe yw ffynhonell bodolaeth y Mab ac y mae yn Dduw iddo mewn ystyr neillduol wedi yr ymgnawdoliad. Pa eneiniad olygir yma? Nid ei eneiniad yn nhragywyddoldeb. Cafodd Crist ei eneinio yno; eithr ei eisteddiad yn

hyny y'th eneiniodd Duw, sef dy Dduw di, âg olew gorfoledd tuhwnt i'th gyfeillion.

10 Ac, Tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y

Frenin ar ddeheulaw Duw ar ol ei adgyfodiad a'i esgyniad a olygir yma. Peth ddaeth iddo ydyw ar ol ei fuddugoliaeth fawr ar ei holl elynion. Buasid yn defnyddio olew wrth eneinio brenhinoedd, a elwid yn olew gorfoledd. Buasai gwledd yn canlyn yr eneiniad ac ynddi buasai gorfoleddu mawr. At yr olew a'r gorfoledd hwn y cyfeiria y Salm. Darfu i Solomon, adeg ei eneiniad yn frenin, gael ei ddyrchafu uwchlaw pob brenin daearol ar y pryd. Ar yr achlysur hwn y cyfansoddwyd y Salm. Yn hyn yr oedd yn gysgod o Grist. At bwy y cyfeiria y gair "cyfeillion?" (1) Y Tad a'r Ysbryd. Nid oes un sail i hwn, oblegid nid eu cymharu hwy a Christ wneir yma. (2) Cyfeillion Solomon, sef brenhinoedd y cyfnod, medd y rhai wadant fod y Salm yn cyfeirio at Grist : diau mai cyfeillion Solomon oedd yn uniongyrchol o flaen meddwl y Salmydd, ond elai y Salm ym mhellach na hwy. (3) Y saint, medd ereill. Gwir i Grist fyned yn uwch na neb o'r saint, a dichon fod yma gyfeiriad at hyny; ond methwn a derbyn mai hwy oedd yn uniongyrchol o flaen meddwl yr awdwr. Siarad am Grist a'r angylion wna ef yma. (4) Yr angylion. Ymddengys i ni na all un syniad gydgordio a'r cysylltiadau ond hwn. Hwy oedd ei gyfeillion meidrol yn nhragywyddoldeb, ac eneiniwyd hwy oll i wasanaethu er mwyn y rhai a gant etifeddu iachawdwriaeth; ond ni chawsant olew gorfoledd i'r graddau y cafodd Crist ef. Ni haeddent gymaint ac ni allent ddal cymaint, am mai meidrol oeddynt, tra yr oedd ef yn anfeidrol. Diau hefyd fod tywysogion a brenhinoedd yn eu plith hwy—angylion mawrion i drefnu a llywodraethu. Dyrchafwyd Crist uwchlaw y rhai hyn oll.

IV. Uwchafiaeth greadigol a pharhaol (10-12).—(1) **Y Greadigol** (10).—**Ac, tydi, Arglwydd, yn y dechreuad a sylfaenaist y ddaear, a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd.**—Dyfyniad yw yr adnodau hyn o Salm cii. 25-26. Duw Dad sydd yn eu llefaru wrth Dduw Fab yn ol syniad awdwr yr Epistol hwn. Hollol gyson ydynt ag agoriad yr Epistol lle y dywedir mai trwy Grist y gwnaeth Duw y bydoedd, sef y cyfnodau yn hanes y cread. Yma dywed mai Crist a sylfaenodd y ddaear, neu osododd sylfaen iddi. Ffigwr o adeilad sydd yma. Y peth cyntaf yng nglyn ag adeilad yw sylfaen. Gesyd yr adeiladydd ef i lawr o flaen dim. Edrycha'r Salmydd ar y greadi-

ddaear; a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd:
11 Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond tydi sydd yn parhâu;
a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant;

---

gaeth fel adeilad enfawr a'r Mab yn adeiladydd iddo. Er mai y Tad oedd awdwr gwreiddiol y cread, y Mab oedd y cyfrwng drwy yr hwn y dygwyd **ef i fod.** **Y mae** nefoedd — *οὐρανοι* - yn y rhif lluosog ac yn cynwys pob nefoedd. Gan hyny, y Mab yw creawdwr pob peth. Cymer y ddaear a'r nefoedd i fewn holl gylch creadigaeth. Ffigwr yw y geiriau **"Gwaith dy dwylaw di."** Dwylaw yw y cyfryngau a'r rhai y gwneir gwaith, a phriodol yw y ffigwr pan yn son am waith Crist yn creu y nefoedd. Beth sydd gan y geiriau hyn i wneyd â dangos uwchafiaeth Crist ar yr angylion? Rhan o'r cread ydynt hwy; o ganlyniad, y Mab yw eu creawdwr. Uwchafiaeth creawdwr ar greaduriaid yw yr eiddo ef arnynt.—(2) **Y barhaol** (11-12). **—Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond tydi sydd yn parhau a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant; Ac megys mantell y plygi di hwynt, megys gwisg, a hwy a newidir: ond tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant.**—Er mai y Mab greodd y byd materol, bywydol a nefol ni pharhant hwy yr un. Cyfnewidiant yn eu ffurf o fodoli; heneiddia y ddaear a'r nefoedd fel y gwna dilledyn wrth ei wisgo. Y mae yr athrawiaeth hon yn hollol gyson a gwyddoniaeth y dyddiau presenol. A bydoedd yn hen fel anifeiliaid a dynion, a byddant feirw. Wrth farw newidiant eu ffurf ond ni pheidiant a bod er hyny. Nid yw y ferf "ddarfyddant" yn dyweyd y peidia y byd a'r nefoedd fod ond y darfyddant yn y ffurf bresenol arnynt. Un peth yw newid ffurf, peth arall yw peidio a bod. A y meidrol, beth bynag fyddo ei natur, dan gyfnewidiadau parhaus. Nid yw yr angylion yn eithriad i'r rheol hon. Newid ffurf yw un o egwyddorion bodolaeth y meidrol. Eithr nid felly am y Mab: parhâ ef yr un trwy bob cyfnewidiad. Bydd bydoedd feirw a genir rhai; teithia miloedd o ddynion bob dydd i arall fyd, newidia yr angylaidd lu eu ffurfiau yn ddidor mewn rhyw gyfeiriadau, ond erys y Mab yr un yng nghanol pob amgylchiadau a chyfnewidiadau. Yn hyn y mae ym mhell uwchlaw pob angel. Heblaw ei fod yn aros yr un ym mhob argyfwng a chyfnewidiad yn hanes y byd, dengys adn. 12 mai efe sydd yn llywodraethu holl gyfnewidiadau y nefoedd a'r ddaear. Plyg ef hwynt i fyny fel y plyga un fantell. Ffigwr sydd yma eto yn dangos fod Crist yn holl gwrs-weithrediad mawr pob rhan

12 Ac megys gwisg y plygi di hwynt,a hwy a newidir:
ond tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant.
13 Ond wrth ba un o'r angelion y dywedodd efe un amser,
eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn
droedfainge i'th draed?

---

o'r cread. Defnyddir y gair *ἱμάτιον* am fantell yma, a golyga un dda a drudfawr. Awgryma hyn fod y Mab yn gosod gwerth mawr ar y byd a'r nefoedd ac yn eu plygu gyda gofal. Gwir yw hyn hefyd, oblegid yn ol deddfau osododd ef yn eu natur y newidiant eu ffurf. Gweithrediad y deddfau hyn ynddynt yw y plygiad wneir arnynt. Yn y plygu hwn collant hwy eu bodolaeth ffurfiol, ond ni chollant eu bodolaeth hanfodol—newidir eu ffurf ond ni newidir eu hanfod. Eithr nid felly am y Mab; parhâ ef yn ei ffurf yn gystal a'i hanfod. Y mae'r angylion oll yn ddarostyngedig i ddeddf gyffredinol daear a nefoedd, sef deddf cyfnewidiad, ond dywed wrth y Mab, a rhoddi cyfieithiad llythyrenol o'r geiriau, "Tydi yw efe." Hyny yw, "arosi di," meddai wrth y Mab, " yr un o hyd." Cyfnewidia pob peth yn ei ffurf yn holl gylch y crëedig, ond nid oes cysgod cyfnewidiad yn y Mab. Bydd ef yn aros yn Dduw-ddyn byth mwy.

V. **Uwchafiaeth fuddugoliaethol** (13-14).—(1) **Ei fuddugoliaeth a Duw** (13).—**Ond am ba un o'r angylion y dywedodd efe un amser, eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfainge dy draed ?**—Geiriau o Salm cx. 1, yw y rhai hyn. Ni ä yr awdwr gam heb ddyfynu ysgrythyr i brofi ei fater. Nid oes ddadl na chymerai ysgrifenwyr y T.N. y Salm hon fel un yn cyfeirio at Grist. Defnyddir hi felly ganddynt ddeg o weithiau o leiaf. Dengys y geiriau yn eglur mai un o amcanion penaf Duw yw rhoddi buddugoliaeth lwyr i'w Fab ar ei holl elynion. Ni wahoddodd yr un angel i eistedd ar ei ddeheulaw nes y gosodai ei holl elynion dan ei draed, ac ni wna hyny chwaith. Iaith ffigyrol sydd yma, ac yr oedd llygad y Salmydd ar yr arferiad o gerdded dros y gelynion lladdedig a chlwyfedig gan orchfygwyr yn amser rhyfel. Dangosant safle uchel y Mab gyda Duw. Golyga amseriad y ferf *κάθου* " eistedd " yma; eistedd yn barhaus ac nid y weithred gyntaf o eistedd. Meddwl "eistedd ar fy neheulaw " yw eistedd, neu breswylio yn y man agosaf at Dduw. Gosodai brenhinoedd gadfridogion buddugoliaethus i eistedd ar eu deheulaw fel arwydd o barch, a dyna'r ffigwr sydd yma. Nid ydym i gymeryd y geiriau yn

14 Onid ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?

---

llythyrenol, oblegid meddant ystyr ddyfnach o lawer nag a osodir allan yn yr iaith ffigyrol hon. (2) **Ei fuddugoliaeth ar angylion** (14).—**Onid ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wneuthur gwasanaeth er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?**—Dangosai yr adnod flaenorol fod Duw yn talu parch mwy i'r Mab nag a dalai i unrhyw angel, trwy ei alw i eistedd ar ei ddeheulaw, a'i osod i eistedd yno yn barhaus hyd nes y gosodai ei holl elynion yn droedfainge i'w draed. Cymer Duw ei hun at enill buddugoliaeth lawn iddo. Beth am yr angylion? Amcan eu creadigaeth a'u bodolaeth hwy yw gwasanaethu i gynorthwyo Duw i enill y fuddugoliaeth i'r Mab. Golygai y gair a gyfieithir yma yn "gwasanaethgar," wasanaeth cyhoeddus ar y dechreu; ond daeth yn nhreigliad amser i olygu gwasanaeth cyhoeddus cysegredig. Deillia y gair Seisnig *liturgy* ohono. Gwasanaeth cysegredig yw eiddo yr angylion, a dyna yw eu gwaith oll. Gall fod gan wahanol raddau ohonynt wahanol ganghenau o'r gwaith i'w gyflawni; ond y maent oll yn cyflawni gwaith cysegredig. Danfonwyd hwynt i wasanaethu i neu er mwyn y rhai a gant etifeddu iachawdwriaeth. Peth yn y dyfodol yw iachawdwriaeth lawn. Ceir ei hedyn yma a llawer o'i chynydd, ond tudraw i angau yr etifeddir hi yn berffaith. Tra yma cynorthwya'r angylion i orchfygu gelynion ein hiachawdwriaeth, ac ni wyr neb ond Duw faint y gwaith a wnant. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at syniad yr Iuddewon fod angel gwarcheidiol gan bob un o'r rhai gant eu cadw.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Y gwahanol briodoleddau o eiddo Duw geir yn y benod.
Natur dadblygiad datguddiad Duw ohono ei hun.
Y nodweddion dwyfol ddatguddir yma yn y Mab.
Natur ysbrydoliaeth y prophwydi.
Y galluoedd a'r nodweddion perthynol i angylion.
Y gwahaniaeth rhwng creu, cynal a dadblygu'r bydoedd.
Perthynas y Tri Pherson Dwyfol a chreu, cynal a dadblygu.
Y gwahaniaeth rhwng cyfnewidioldeb ffurf ac anghyfnewidioldeb hanfod.
Y dosbarthiadau o bersonau nodir yn y benod.
Y nodweddion geir ynddi ar iachawdwriaeth.

III. Traethawd.

Y Mab a'r Cread ac a Duw (1-14).

Canol-bwynt y benod hon yw y Mab, a manteisiol yw taflu golwg yn ol drosti. Dangosir ef mewn gwahanol gysylltiadau tra phwysig, y rhai a ofynant ychydig sylw pellach :—

I. Y Mab a'r cread anymwybodol.—Cymerwn i fewn yma yr holl gread anymwybodol. Gwelir yn amlwg wrth ddysgeidiaeth y benod hon mai y Mab yw ei greydd, ei gynhalydd, ei ddadblygydd, ei berffeithydd a'i meddiannydd. Dywedir mai efe yw etifedd pob peth ac y mae y cread anymwybodol yn y pob peth yma. Yn y cread a'i ddadblygiad sylweddola y Mab un o'i is-amcanion. Ymddengys i ni fod y greadigaeth ddifywyd yn angenrheidiol cyn y gallasai sylweddoli ei brif amcanion.

II. Y Mab a'r cread ymwybodol.—Rhana hwn i dair rhan, sef y greadigaeth anifeilaidd, y ddynol, a'r angylaidd. Efe yw creawdwr y rhai hyn eto, a deil y berthynas o gynhalydd, dadblygydd a pherffeithydd a hwynt yn gystal a'u meddiannydd. Drwyddo ef y cant eu bywyd a'u hymwybyddiaeth yn barhaus. Y mae ef, gan hyny, nid yn fwy na'r rhai mwyaf o'r bodau hyn, ond yn fwy na hwynt oll yng nghyd. Pe byddid yn gwneyd un ymwybyddiaeth fawr o feddyliau yr oll fu, sydd, ac a ddaw o greaduriaid ymwybodol y cread, byddai ymwybyddiaeth Crist yn fwy, a phe y gwneid un gallu o alluoedd y bodau hyn, un dadblygiad ac un perffeithiad, byddai ef yn fwy ei allu. Y mae ef yn ddigon mawr i bob gallu meidrol ymwybodol i fodoli ynddo. Efe yw y ffynhonell o'r hon y tardda holl alluoedd ymwybyddiaeth feidrol o bob math. Eto, efe yw awdwr iachawdwriaeth dynion. Yn yr iachawdwriaeth hon y cyrhaedda ef ei brif amcan. Gan hyny, yr oedd y greadigaeth ymwybodol yn hanfodol angenrheidiol tuag at iddo i gyrhaedd ei amcan uchaf, sef gogoniant gras Duw.

III. Y Mab a Duw.—Efe, yn gyntaf, yw datguddydd Duw i'r byd. Fel y dangoswyd yn y nodiadau, datguddiodd Dduw drwy'r cread, rhagluniaeth, cyfansoddiad dyn, y prophwydi, a'r angylion cyn ymgnawdoli, ond ni allai ei ddatguddio yn llawn drwy'r rhai hyn. Wedi ymgnawdoli datguddiodd fwriad Duw yn llawn i'r byd, a hyny ar raddfa eangach nag oedd yn bosibl iddo ei ddatguddio trwy fodau fel y rhai a enwyd. Cariodd feddwl Duw at y byd yn uniongyrchol

trwy ymgnawdoli. Yn ail, cynwysai yn ei berson ogoniant a sylwedd y Tad. Ynddo yr oedd holl briodoleddau, posibiliaethau, a sylwedd hanfod Duw yng nghyflawnder eu hanfeidroldeb. Yn drydydd, efe oedd y cyfrwng drwy yr hwn y dygai Duw i fod yr holl greadigaeth. Ymddengys nad allai Duw greu heb ei ddefnyddio ef yn gyfrwng. Yn bedwerydd, efe ddefnyddia y Tad yn gyfrwng i gynal, dadblygu a pherffeithio yr holl gread yn gystal a'i ddwyn i fod. Edrycha awdwr yr Epistol arno fel un y deillia holl gyfnodau y byd ohono. Gwelir wrth hyn nad oes dim tufewn i holl gylch bodolaeth feidrol ac anfeidrol nad oes perthynas uniongyrchol rhwng y Mab ag ef. Yn bumed, gwnaeth Duw ef yn etifedd pob peth meidrol, a dengys hyny mai efe yw amcan terfynol yr holl greadigaeth. "Trwyddo ef," gan hyny, "ac iddo ef, ac erddo ef," y gwnaeth Duw bob peth.

III. Gofyniadau.

(1) Nodwch allan brif linellau adn. 1-4, a dangoswch eu perthynas.
(2) Enwch y ffurfiau y datguddiodd Duw ei hun yn yr hen amser, ac olrheiniwch eu dadblygiad.
(3) Gwahaniaethwch rhwng pob datguddiad a'r un yn y Mab.
(4) Eglurwch adn. 2-3 yn fanwl, gan ddangos pa fodd ac o beth y gwnaeth y Tad y Mab yn etifedd pob peth; a pha fodd y mae ef yn ddysgleirdeb gogoniant a gwir lun person y Tad.
(5) Beth yw yr enw gwell na'r angylion etifeddodd y Mab?
(6) Ym mha bethau y rhagora y Mab ar yr angylion?
(7) Beth awgryma adn. 7 am natur yr angylion?
(8) Pa nodweddion uwchraddol briodolir i Grist fel brenin (adn. 8-9)?
(9) Beth yw perthynas buddugoliaeth Crist a Duw ac a'r angylion?
(10) Eglurwch y gwahaniaeth rhwng perthynas Crist a'r cread a'i berthynas a'r Tad.

PENOD II.

UWCHAFIAETH CRIST AR YR ANGYLION (Parhad).

I. Dadansoddiad.

I. **Dyledswydd yng ngwyneb uwchafiaeth Crist arnynt** (adn. 1-4).
- (1) *Y ddyledswydd* (adn. 1).
- (2) *Rhesymau dros y ddyledswydd* (adn. 1-4)
  - (*a*) *Perygl personol* (adn. 1).
  - (*b*) *Cadernid lleferydd angylion* (adn. 2).
  - (*c*) *Mawredd iachawdwriaeth* (adn. 3-4).
    - (1) *Mawredd ei natur.*
    - (2) *Mawredd ei chyhoeddwr.*
    - (3) *Mawredd ei thystion* (adn. 4).
      - (*a*) *Rhai mwyaf eu manteision.*
      - (*b*) *Rhai mwyaf eu gwybodaeth.*

II. **Uwchafiaeth Crist arnynt yn ei lywodraeth ysbrydol** (5-9).
- (1) *Yn negyddol* (adn. 5).
- (2) *Yn gadarnhaol* (adn. 6-9).
  - (*a*) *Arweiniad at y cadarnhaol* (adn. 6-8).
    - (1) *Dyn truenus* (adn. 6).
    - (2) *Dyn gogoneddus* (adn. 7, 8).
      - (*a*) *Ei natur* (adn. 7).
      - (*b*) *Ei bosibilrwydd.*
      - (*c*) *Ei safle.*
      - (*d*) *Eangder ei lywodraeth* (adn. 8).
  - (*b*) *Y cadarnhaol* (adn. 9).

III. **Uwchafiaeth Crist arnynt fel Iachawdwr** (adn. 10-18).
- (1) *Yn ei berffeithrwydd* (adn. 10).
- (2) *Ei allu sancteiddiol* (adn. 11).
- (3) *Natur ysbrydol.*
- (4) *Cydrhywiaeth natur a dynion.*

1 Am hyny y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau

(5) *Gorfoledd yn achubiaeth dynion* (adn. 12-13).
(*a*) *Cyhoeddi enw Duw iddynt yn bersonol* (adn. 12).
(*b*) *Moli enw Duw yn y gynulleidfa ysbrydol.*
(*c*) *Dadgan ymddiried yn ei Dad anfeidrol* (adn. 13).
(*d*) *Cyflwyniad i Dduw o'i blant ysbrydol.*

(6) *Meddiant o natur ddynol* (adn. 14).

(7) *Amcan eithaf ei ymgnawdoliad* (adn 14-16).
(*a*) *Dinystrio y drwg* (adn. 14).
(*b*) *Gwaredu oddiwrth ddrwg* (adn. 15).
(*c*) *Adferu i wneyd da* (adn. 16).

(8) *Perffeithrwydd profiad dynol* (adn. 17-18).
(*a*) *Profiad o egwyddorion moesol* (adn. 17).
(*b*) *Profiad o aberth gwirfoddol.*
(*c*) *Dioddefaint ingol* (adn. 18).
(*d*) *Temtasiynau neillduol.*

II. Eglurhad.

I. Dyledswydd yng ngwyneb uwchafiaeth Crist arnynt (1-4).—(1) **Y ddyledswydd** (1).—**Oherwydd hyn ni a ddylem roddi sylw mwy difrifol i'r pethau a glywsom.**—Un o nodweddion awdwr yr Epistol hwn yw gwasgu y ddyledswydd gyfyd o'r athrawiaeth drinir ganddo ar unwaith. Nid ä drwy ei holl ymresymiad athrawiaethol yn gyntaf ac yna cymhwyso'r oll ar y diwedd. Wedi trin rhan o uwchafiaeth Crist ar yr angylion, try i wasgu y ddyledswydd ddeillia o'r athrawiaeth ar ei ddarllenwyr. Gellid meddwl fod arno ofn traethu ar yr oll o'r materion athrawiaethol yn gyntaf rhag cario y darllenwyr yn rhy bell oddiwrth y dyledswyddau godant o'r naill a'r llall. Peth glywodd yr Hebreaid lawer gwaith oedd uwchafiaeth Crist ar yr angylion a dygodd yntau hyny ger eu bron yn drefnus yn y benod flaenorol. Gan bwy y clywsant y pethau osododd yr awdwr ger eu bron? Gan (1) esbonwyr Iuddewig. Byddent hwy yn edrych ar rai o'r dyfyniadau roddwyd yn Fessianaidd; hyny yw, rhai gyfeiriasent at Grist. (2) Dichon fod rhai ym mhlith y darllenwyr a glywsant Grist ei hun; (3) dengys adn. 3 fod y rhai glywsant Grist wedi llefaru

glywsom, rhag un amser i ni eu gollwng hwy i golli.
2 Canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angelion,

---

y pethau hyn wrthynt. Gwasgai y rhai hyny uwchafiaeth Crist ar yr angylion arnynt. Beth yw y ddyledswydd? Dal ar y pethau. Golyga y gair— *περισσοτέρως* :—"yn fwy difrifol," dal yn helaethach, neu fwy sefydlog. Defnyddir ef am redegwr yn dal ei lygad ar y nod, ac am long yn cadw yn sefydlog yn y cyfeiriad a gymer. Ei feddwl yma yw dal y meddwl yn sefydlog ar y pethau a glywyd am Grist—sefydlu y sylw arnynt yn ddwys a pharhaus. Dal yn helaethach na phwy olygir? (1) Nid yn helaethach na'r tadau Iuddewig; (2) nid yn well na Christionogion Hebreaidd ereill; (3) nac yn ddwysach nag oedd darllenwyr yr Epistol wedi gwneyd o'r blaen; ond (4) yn helaethach na phe na buasai Crist yn uwchraddol i'r angylion. Gan ei fod ef yr hwn ydoedd yn ei fawredd anfeidrol eu dyledswydd oedd dal sylw helaethach, dwysach, perffeithach a mwy parhaol arno. Efe oedd eu hunig iachawdwr, a'u dyledswydd oedd sefydlu eu meddyliau arno. Nid datguddiad trwy angylion gawsant trwy Grist; ond un drwy berson oedd yn Dduw. (2) **Rhesymau dros y ddyledswydd** (1-4).—(a)**Perygl personol** (1).—**Rhag digwydd ein myned gyda'r llifeiriant oddiwrthynt.**—Bodola y perygl hwn ym mhawb, sef llithro oddiwrth y pethau. Y ffigwr yma yw llong yn llithro heibio yr angorfa—un gerir gan lifeiriant y dyfroedd. Gwna helyntion y byd yr un modd gario sylw y meddwl heibio y pethau am Grist. Rheswm cryf, gan hyny sydd dros anog i ddal yn ddwys ar y pethau. Gellir enwi amryw beryglon i'r Hebreaid gael eu cario ymaith, megys (1) y duedd sydd ym mhawb wrth natur i roddi ffordd a gadael i lygredigaeth eu natur i'w cario ffwrdd; (2) yr erledigaeth gaent oddiwrth rai anghrediniol o'u cydgenedl oblegid eu bod yn glynu wrth Grist; (3) yr anhawsder i fyw y bywyd a ofynai Crist ganddynt; (4) hen arferion crefyddol a ffurfiasant cyn mabwysiadu Cristionogaeth; (5) disgwyl Crist i ddychwelyd yn fuan ac yntau ddim yn dod yn ol eu disgwyliad; (6) anallu i ddirnad ysbrydolrwydd Cristionogaeth; (7) llygredigaeth cymdeithas o'u cwmpas; (8) eu bychander o ran rhif o'u cymharu a'r rhai oeddynt heb gredu, ac (9) amddifadrwydd o elw bydol wrth ganlyn yr Iesu. Hawdd oedd iddynt lithro heibio i'r pethau gan hyny. Er nad yw "oddiwrthynt" yn y Roeg, eto y mae yn ddealledig, a dyna y rheswm dros ei osod i fewn. (b) **Cadernid lleferydd angylion** (2).—**Canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy**

ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth ;

---

angylion, ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth.—Dangosodd yr awdwr yn eglur fod Crist yn uwchraddol i'r holl angylion yn y gwahanol bethau a nodwyd genym yn y nodiadau ar y benod gyntaf. O'u cymharu ag ef nid oeddynt hwy ond creaduriaid bychain tra yr oedd ef yn Dduw anfeidrol. Egyr hyn y ffordd i ddangos rhagoriaeth ei air ef ar y gair lefarwyd trwy angylion. Pa air lefarwyd ganddynt hwy? Y ddeddf foesol ar Sinai. Paham y gelwir hi yn air? (1) Oblegid ei hunoliaeth; (2) am ei bod y peth pwysicaf o dir moesoldeb a bywyd yn yr Hen. Dest., ac (3) am yr edrychid arni gan yr Iuddewon fel cnewyllyn yr ysgrythyrau. Er na cheir fod yr angylion yn bresenol yn hanes ei rhoddiad yn Exodus xx., credai y genedl eu bod, ac mai drwyddynt hwy ei rhoddwyd i Moses. Daw hyn i'r golwg yn Gal. iii. 19, lle y dywed Paul iddi gael ei threfnu trwy angylion, a dengys Salm lxviii. 17 fod miloedd o angylion gyda Duw pan ddisgynodd ar Sinai. Gan eu bod yno priodol gofyn, beth oedd eu neges? Gan mai rhoddi y ddeddf oedd amcan Duw yn disgyn yno, rhaid fod rhyw amcan i bresenoldeb yr angylion yno. Cyflawnent ryw wasanaeth yn rhoddiad y gyfraith sydd amlwg (gwel Traethawd). Bu y ddeddf yn gadarn; hyny yw, cospodd bob trosedd ac anufudd-dod. Golyga "pob trosedd"—*πâσα παράβασις*—droseddau gweithredol o'r ddeddf, ac ystyr anufudd-dod—*παρακοή*—yw syrthio yn fyr o gyflawni gorchymyn dwyfol. Ni ddiangodd yr un trosedd nac anufudd-dod i'r ddeddf rhag cael ei gospi. Pa fodd hyny? Am fod y ddeddf yn natur dyn yn gystal a bod tuallan iddo. Caria ei chosp gyda hi. Pan droseddir, cospa hi drwy lygredigaeth natur dyn, a phan anufuddheir, cospa drwy ystyfnygu yr ewyllys. Gwna pob gweithred o anufudd-dod yr ewyllys yn fwy cyndyn. Hefyd darfu i'r ddeddf gospi yn gyfiawn; hyny yw, mesurodd y gosp yn gyfartal i'r trosedd a'r anufudd-dod. Gan ei bod hi yn natur dyn gall wneyd hyny. Ni ddianga unrhyw droseddiad ei chosp, ac ni fydd y gosp yn llai na mwy na maint y trosedd. Y mae gyfiawned a Duw yn hyn. Rheswm cryf yw hwn dros yr anogaeth i ddal yn helaethach ar y pethau draddododd y Mab. (c) **Mawredd iachawdwriaeth** (3-4).—(1)

3 Pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint, yr hon wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd, a sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant ef :

Mawredd ei natur (3).—**Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth mor fawr?**—Yn ei natur y mae yn llawer rhagorach na iachawdwriaeth y ddeddf. Atal troseddau oedd amcan hono a dadblygu pechod ; cynyrchu gweithredoedd da, dadblygu holl bosibilrwydd yr enaid a difodi pechod wna iachawdwriaeth Crist. Pan esgeulusir hon, esgeulusir unig drefn Duw i alluogi dyn i sylweddoli ei ddelfryd. Ynddi y mae bywyd a holl adnoddau ysbrydol gwrteithiad a dadblygiad bywyd. Rhaid i fawredd yr iachawdwriaeth yn ei natur esgor ar ganlyniadau difrifolach mewn graddau na'r ddeddf os esgeulusir hi. (Gwel Traethawd.) (2) **Mawredd ei chyhoeddwr.—Yr hon wedi iddi ar y dechreu gael ei llefaru trwy yr Arglwydd.**—Mab Duw oedd ei chyhoeddwr gwreiddiol. Dangoswyd ei uwchafiaeth ef ar yr angylion yn ei berson, a'i allu; a gwelid yn eglur ei fod yn tra rhagori ym mhob peth arnynt hwy. Bu eu cyhoeddiad hwy o'r ddeddf yn effeithiol i gyrhaedd yr amcan mewn golwg, ac ni ddiangodd neb a esgeuluscdd fyw yn ol y ddeddf. Gan hyny, pwy all ddianc canlyniadau esgeuluso yr iachawdwriaeth gyhoeddir gan Fab Duw—awdwr iachawdwriaeth? Rhaid i bob gair ddywedodd ef ddyfod i ben. Gwyddai ef ei holl gynwys, a'i natur, a'i tharddiad yng nghalon Duw. Ni wyddai yr angylion bob peth am y ddeddf am mai bodau meidrol oeddynt. (3) **Mawredd ei tystion** (4).—(a) **Rhai mwyaf eu manteision.—A sicrhâwyd i ni gan y rhai a glywsant.**—Nid oedd yr awdwr na'r darllenwyr oll, os oedd rhai, wedi clywed Crist ei hun yn cyhoeddi yr efengyl; a dyna un o'r rhesymau yn erbyn mai Paul ysgrifenodd yr Epistol. Honai Paul ei fod wedi clywed Crist er na fu yn ganlynwr iddo. Clywodd y disgyblion yr Iesu yn traethu yr iachawdwriaeth, sef yr efengyl, ac yr oeddynt yn fawrion fel tystion oblegid mawredd eu manteision. Medrent ddyweyd yr oll oedd eisieu am dano ar ol cael dros dair blynedd o'i gymdeithas a gwrandaw arno. Tystient gyda sicrwydd mawr, ac nid yn ddifater. Rhoddent eu holl bersonoliaeth yn y dystiolaeth am y credent hi a'u holl enaid. Mynent i bawb ddeall nad rhywbeth dibwys oedd ganddynt, ond mater bywyd i'r byd. Cred rhai mai tystiolaethu am effaith yr efengyl ar eu bywyd hwy a feddylir yma ac nid

4 A Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu, trwy arwyddion a rhyfedoddau, ac amryw nerthoedd, a doniau yr Ysbryd Glan yn ol ei ewyllys ei hun.

---

adrodd y pethau glywsant gan Grist. Y mae y ddau yn wir. Eu profiad o'r efengyl a'u gwnai i dystio mor gadarn. Llefarent fel rhai wedi ei phrofi. (b) **Rhai mwyaf eu gwybodaeth.—Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu â hwynt, trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau yr Yspryd Glan, yn ol ei ewyllys ei hun.**—Dyma y tystion mwyaf mewn bod yn cadarnhau cyhoeddiad Crist a'i ddisgyblion o'r iachawdwriaeth. Ni all fod mwy na Duw a'r Ysbryd Glan mewn gallu a gwybodaeth. Rhoddai y Tad nerth i'r Mab fel Duw-ddyn i wneyd gwyrthiau, a gwisgodd yr apostolion a'r un nerth. Profai hyn ei fod yn cymeradwyo yr iachawdwriaeth a gyhoeddid ganddynt. Defnyddir y tri gair "arwyddion," "rhyfeddodau," a "nerthoedd" am y gwyrthiau cydfynedol a gweinidogaeth Crist a'i ganlynwyr. Gelwid hwy yn arwyddion — *σημεῖα* — am eu bod yn arwyddion o allu dwyfol tucefn iddynt. Profent wirioneddolrwydd dysgeidiaeth eu cyflawnwyr. Defnyddir y gair rhyfeddodau — *τέρατα* —am danynt oblegid y sylw dynent a'r dychryn gynyrchent yn yr edrychwyr. Rhoddid yr enw nerthoedd— *δυνάμεις* —iddynt am y profent bresenoldeb nerth goruwch-naturiol. Rhaid oedd i'w cyflawnydd fod yn Dduw, neu fod Duw gydag ef am y gofynent nerth dwyfol. Ni roddir yr enw gweithredoedd iddynt yma, sef yr enw roddai yr Iesu ei hun arnynt. Gwyddai Duw yr oll am ei Fab a'r disgyblion, ac ni thystiolaethai ef trwy y gwyrthiau cydfynedol a'u gwaith onibae fod yr oll am yr iachawdwriaeth fawr yn wir. Gwnai y gwyrthiau barhau gyda gweinidogaeth yr apostolion pan ysgrifenai yr awdwr. Dichon mai at gyd-dystiolaethu a'r disgyblion y cyfeiria y geiriau yn union-gyrchol. Hefyd tystiolaethai yr Ysbryd Glan. Rhoddai Duw gyfraniadau o'r Ysbryd Glan i'r disgyblion fel yr oedd angen arnynt. "Cyfraniadau" ddylai fod yma ac nid "doniau." Wrth hyn y golygir ei fod yn rhoddi y gyfran o'r Ysbryd i bob un yn ol y mesur allasai ef ddal. Rhoddodd yr Ysbryd hefyd i Grist ond nid wrth fesur. Gallasai ef dderbyn yr Ysbryd yn ei holl gyflawnder. Gwnai Duw roddi y cyfraniadau hyn o'i Ysbryd iddynt yn ol ei ewyllys ei hun, yr hyn a ddengys ei fod yn rhoddi o'i fodd. Ni cheir y gair am ewyllys, sef *θέλησιν*, a roddir yma yn un man arall yn y Test. Newydd.

5 Canys nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a

Dangosa fod ewyllys Duw mewn gweithrediad pan yn cyfranu yr Ysbryd Glan. Nid ydym i feddwl nad oedd yr Ysbryd Glan mor weithredol a'r Tad yn y cyfraniadau hyn. Tystiolaethai ef yn fewnol ym mhrofiad y disgyblion i wirionedd yr iachawdwriaeth, tra y tystiolaethai y gwyrthiau yn allanol. Rhaid oedd cael y naill a'r llall cyn y byddai y dystiolaeth yn gyflawn. Bellach, dyma'r dystiolaeth yn llawn, sef: (1) tystiolaeth geiriau Crist a'r apostolion; (2) tystiolaeth gweithredoedd nerthol Duw, y rhai oeddynt yn gydfynedol a'r un mewn geiriau; (3) tystiolaeth profiad a gynyrchid gan yr Ysbryd Glan. Yn y dystiolaeth hon cai y disgyblion brofiad byw o'r iachawdwriaeth a bregethent. Pa resymau cryfach allasai yr awdwr ddwyn ym mlaen dros ddal yn helaethach ar y pethau? Gan fod yr iachawdwriaeth yn anfeidrol fwy nag eiddo y ddeddf, ammhosibl oedd dianc y gosp os esgeulusid hi, a gwnai ei mawredd y gosp yn gyfatebol. Y mae Crist, y disgyblion, Duw a'r Ysbryd Glan yn cadarnhau y naill y llall bod yr oll am yr iachawdwriaeth yn wir ac nad ellir dianc y canlyniadau o'i hesgeuluso.

II. Uwchafiaeth Crist arnynt yn ei lywodraeth ysbrydol (5-9).—Yn y benod flaenorol dangosodd yr awdwr uwchafiaeth Crist ar yr angylion yn berthynasol, personol, brenhinol, creadigol a buddugoliaethol, ac yn nechreu y benod hon cymhellodd y ddyledswydd o dalu sylw i'r hyn lefarwyd ganddo. Gan i'r hyn lefarodd angylion, y rhai oeddynt gymaint yn is-raddol iddo, brofi yn gadarn, yr oedd synwyr yn dyweyd y profai yr hyn lefarwyd gan y Mab felly. Yn yr adnodau nesaf parhâ i gymharu yr angylion a Christ trwy ddangos nad oeddynt hwy a llywodraeth ar y byd ysbrydol. I Grist y rhoddwyd y llywodraeth ar y byd hwnw. Dengys hyn (1) **Yn negyddol** (5).—**Canys nid i angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw, am yr hwn y llefarwn.**—Y mae yr awdwr wedi gorphen cymharu mawredd personol, etc., Crist ar yr angylion ac yn awr cymhara ei lywodraeth ar ddynion a hwynt. Dichon fod yma gyferbyniad rhwng y llywodraeth gredai yr Iuddewon fod gan yr angylion dan yr hen oruchwyliaeth ar ddynion a'r un fedd Crist arnynt dan yr oruchwyliaeth newydd. Yn y newydd nid oes dim yn ddarostyngedig i angylion. Nid arnynt hwy y dylid gwrandaw, ond ar Grist; nid iddynt hwy y dylid ufuddhau, ond yn hytrach i'r Mab; nid hwy yw y cyfryngwyr, oblegid llenwir y swydd hono gan

ddaw, am yr hwn yr ydym yn llefaru.

---

yr Iesu Glan. Dengys yr awdwr yn negyddol felly fod Crist yn uwch na'r angylion gan nad oes ganddynt hwy ddim hawl ar egwyddorion y byd a ddaw, ac nid ydynt yn ddatguddwyr o'i egwyddorion. Ond beth yw cysylltiad yr adnod hon a'r adnodau blaenorol? Ar hyn ceir tri syniad. (1) Cysyllta amryw esbonwyr adn. 5 yn uniongyrchol ag adn. 4, ac ymddengys hwn y syniad cryfaf a naturiolaf o ddigon. Dygai Duw dystiolaeth i'r efengyl draddodwyd ar y dechreu gan ei Fab, ac a sicrhawyd gan ei apostolion, trwy arwyddion a rhyfeddodau ac amryw nerthoedd. Paham? I ddangos mai i'r Duw-ddyn a dynion y darostyngodd efe y byd a ddaw. Yn y byd a ddaw, golyga Duw i ddyn gyrhaedd a sylweddoli ei ddelfryd. Arweiniad at lywodraeth ysbrydol y Duw-ddyn a'i ganlynwyr oedd yr awdurdod ar glefydau ac ysbrydion aflan. Beth bynag fu natur ac eangder llywodraeth angylion yn yr hen amseroedd, nid iddynt hwy y darostyngwyd y byd a ddaw. Gan nad oes dim yng ngramadeg yr adnod yn erbyn y syniad hwn, na chwaith yn y cysylltiadau, rhaid i ni ei gymeradwyo. (2) Myn ereill mai adnodau cromfachol yw y pedair gyntaf o'r benod hon. ac fod "Canys" adn. 5 yn ei chysylltu a'r adnod olaf o'r benod gyntaf. Yno dywedir mai ysbrydion gwasanaethgar yw yr angylion oll wedi eu hanfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gant etifeddu iachawdwriaeth. Deil pleidwyr yr esboniad hwn mai naturiol yw dyweyd ar ol hyny, nad iddynt hwy y darostyngwyd y byd a ddaw. Cynorthwywyr gyda threfn y cadw ydynt hwy, ac nid llywodraethwyr. Methwn a chanfod rhesymau digonol dros hwn. (3) Dadleua ereill dros gysylltu yr adnod ag adn. 3, a dywedant mai eglurhad yw hi ar fawredd yr iachawdwriaeth. Gan gymaint ei gogoniant a'i mawredd ni allasai Duw ymddiried ei thraethiad i'r angylion. Nid oedd neb yn ddigon mawr i'w chyhoeddi ar y dechreu ond y Mab ei hun. Hefyd, ni all Duw ymddiried ei chyhoeddiad a'i threfniad yn y dyfodol i neb ond y Mab. Darostyngwyd trefniant y ddeddf i'r angylion, ond nid felly yr iachawdwriaeth anfeidrol. Myn rhai, megys Dr. Bruce, fod yr holl baragraph i'w gysylltu a'r iachawdwriaeth yn adn. 3. Eithr wedi darllen y rhesymau, methwn a gweled syniad cysonach na'r cyntaf. Beth yw y byd a ddaw na ddarostyngwyd i'r angylion? Yn llythyrenol, byd cyfaneddol. (1) Defnyddiai yr Iuddewon y gair am y rhan o'r ddaear a gyfaneddid gan ddynion; (2) cyfyngai y Groegiaid ef i'r

6 Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Pa beth yw dyn, i ti feddwl am dano ? neu fab dyn i ti ymweled ag ef ?

---

rhan hono o'r ddaear a breswylid gan eu cenedl hwy. **Eithr nid y** naill na'r llall o'r rhai hyn yw ei ystyr yma. (3) Nid y nefoedd fel lle yw ei ystyr chwaith; ond (4) byd yr efengyl. Siaradai yr Iuddewon am oruchwyliaeth y Messiah a ddisgwylient fel byd i ddyfod, ac un gwahanol i'r byd a fu. Fel yr awgrymwyd, credent fod gan yr angylion lywodraeth dra eang yn yr hen fyd, a bod y cenhedloedd dan eu llywodraeth, ac y byddai ganddynt waith mawr i'w gyflawni yn y dyddiau a ragflaenent ddyfodiad Crist. Meddai yr awdwr, nid yw byd yr efengyl y traethir genym am dano yn ddarostyngedig mewn dim iddynt hwy. Y mae yr efengyl yn drefniant ac iddo ddeddfau a rheolau ysbrydol, a phriodol yw galw y fath drefniant yn fyd. Goruchwyliaeth yr efengyl ar y ddaear yw y byd a ddaw yma, gan hyny (2) **Yn gadarnhaol** (6-9).—(a) **Arweiniad at y cadarnhaol** (6-8).—(1) **Dyn truenus** (6).—**Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd gan ddywedyd, Pa beth yw dyn, i ti feddwl am dano? Neu fab dyn, i ti ymweled ag ef?**—Prawf negyddol o uwchafiaeth Crist gawsom yn yr adnod flaenorol. Yn adn. 6, 7 arweinia yr awdwr ni at y prawf cadarnhaol. Nid dyweyd wna "Ond y mae un mewn rhyw fan wedi tystiolaethu" am na wyddai ym mha le yr oedd y geiriau, nac am ei fod yn dyfynu o'i gof. Cymeryd yn ganiatаol a wnai y gwyddai pawb o'i ddarllenwyr pa le y ceid y geiriau a phwy gredid oedd eu hawdwr, am eu bod yn rhai tra chyfarwydd, a bod sylw yn y LXX. mai Dafydd oedd eu hawdwr. Ceir y dull amhenodol hwn o ddyfynu yn fynych mewn ysgrifeniadau Iuddewig ac yn Philo yn arbenig. Braidd yr oedd un Salm adnabyddused i'r genedl a'r wythfed, lle y ceir yr adnodau hyn. Ni olygid hi yn Salm Fessianaidd ar y dechreu; ond myn rhai ei hystyried felly; oblegid fod Paul (1 Cor. xv. 27) yn ei chymwyso at Grist. Defnyddia yr Iesu ei hun hefyd, eiriau ohoni yn Matt. xxi. 16, fel rhai cymhwysiadol iddo ef ei hun. Er hyny, methwn a derbyn y syniad mai Salm brophwydoliaethol am Grist yw hi am amryw resymau. (1) A y gair ddefnyddir am "ddyn" ynddi yn bendant yn erbyn y syniad. Golyga y gair ddyn brau, gwael a gwan. Braidd y gallwn dybio am y Salmydd yn defnyddio y fath air am Grist fel dyn er ei fod wedi ei amgylchu a gwendid yn

7 Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angelion; a gogon-

---

nyddiau ei gnawd. Llawer uwch fuasai syniad Dafydd am y Messiah na'r un geir am "ddyn" yma. (2) Nid edrych ym mlaen wna awdwr y Salm, ond edrych yn ol i hanes creadigaeth dyn yn Genesis. (3) Amlwg yw mai dyn yn ei freuder, a'i waeledd oedd o flaen meddwl awdwr yr Epistol hefyd; oblegid y fath syniad am ddyn gryfhâ ei ymresymiad yn y cysylltiad hwn. (4) Pe at Grist y cyfeiriai y Salm ni fuasai o un dyben i'r awdwr ei ddwyn ym mlaen yma i brofi ei ymresymiad. (5) Gwna y syndod at drugaredd Duw at ddyn a'r sylw a rydd i ddyn brofi nad Crist oedd gerbron meddwl y Salmydd. (6) Nid oes dim yn erbyn y syniad hwn ym mhob man y dyfynir y geiriau ac ei cymhwysir at Grist. Amcan yr awdwr yw profi na chyrhaeddodd dyn fel dyn yr hyn fwriadai Duw iddo, ond fod Crist wedi sylweddoli y ddelfryd oedd gan Dduw am ddyn trwy ymgnawdoli a marw. Crewyd dyn ar ddelw Duw, ond collodd y ddelw hono. Gan hyny, ni allodd gyrhaedd arglwyddiaeth ar yr holl greadigaeth fel y bwriadodd Duw iddo. Yn yr olwg yma ar ddyn gofynai y Salmydd, "Pa beth yw dyn i ti feddwl am dano"—creadur brau, gwan, a llygredig? Yr un modd am "fab dyn," sef dyn fel y deilliodd o Adda. Un gwael a brau oedd Adda ei hun ac ohono ef y deilliodd pawb dynion. Ni allent hwy fod yn wahanol iddo ef. Eto ymwel Duw a dynion yn ddaionus a thrugarog, ac am hyny syna y Salmydd. (2) **Dyn gogoneddus** (7).—**Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angylion; Ti a'i coronaist ef a gogoniant ac anrhydedd.**—Dyn yn ei drueni a'i waelder y sylwai y Salmydd arno yn yr adnod ddiweddaf, ond dyn yn ei ogoniant creadigol sydd yn hon. Daw yr awdwr a phedwar o bethau i ddangos mawredd dyn yn ei greadigaeth. (a) **Ei natur.**—Ei natur gawn yn y geiriau, "Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angylion." Pe y rhoddid cyfieithiad llythyrenol o'r Hebraeg o'r geiriau hyn, byddent, "Ti a'i gwnaethost heb ond ychydig rhyngddo a'r duwiau," neu "ychydig yn fyr o fod yn Dduw." "Elohim" yw y gair a gyfieithir yn angylion yma, a chan ei fod yn y lluosog yn y testyn gwreiddiol, "duwiau" ddylai fod, Defnyddir y gair yn fynych mewn ystyr ddansoddol *(abstract)*, i olygu nid Duw personol ond **dwyfoldeb.** A am y natur ddwyfol, neu briodoleddau Duw. Edrychid ar yr angylion fel rhai yn meddu natur ddwyfol, ac o ganlyniad, yn cyfranogi yn helaeth o natur Duw

iant ac anrhydedd y coronaist ti ef, ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw:

---

ei hun. Hyn oedd y rheswm i gyfieithwyr y LXX. osod angylion i fewn yn lle "Elohim." Gelwid brenhinoedd weithiau wrth yr enw duwiau, ac hefyd swyddogion gwladol, ac nid rhyfedd y gelwid angylion felly. Credid gan yr Iuddewon fod personau urddasol yn cyfranogi yn helaeth o ddwyfoldeb, ac o ganlyniad galwent hwy yn dduwiau. Gwnaed dyn ar ddelw Duw yn ol Genesis, a hawdd oedd i'r genedl gasglu fod llawer o ddwyfoldeb ynddo yn ei gread. Ym mheth y mae yn is na'r angylion? Nid yn ei natur ysbrydol, ond yn ei feddiant o gorph brau a gyfynga lawer ar weithrediadau ei ysbryd. (Gwel Traethawd.) Am ychydig o amser y cyfieitha rhai y geiriau "ychydig yn is," ond methwn a chael rhesymau digonol dros dderbyn y cyfieithiad. (b) **Ei bosibilrwydd.—Ti a'i coronaist ef a gogoniant ac anrhydedd.**—Beth yw y gogoniant a'r anrhydedd yma? Cyneddfau neu bosibiliaethau yr enaid yw ei ogoniant. Y cyneddfau hyn a'i gwna yn frenin ar y greadigaeth is-raddol. Ei goroniad gan Dduw oedd gosod posibiliaethiau dadblygiad y galluoedd hyn ynddo. Galluoedd brenhinol mewn dyn wna wir goron. Coronodd Duw ddyn yn frenin y cread drwy osod posibiliaethau brenin ynddo. Trwy hyn gwnaeth ef yn wrthddrych anrhydedd, sef yn un hawliai barch ar gyfrif yr hyn oedd ynddo. Gwybod fod posibilrwydd brenin ynddo barai i greaduriaid ereill ei anrhydeddu. (c) **Ei safle.—Ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw.**—Nid yw y geiriau hyn mewn amryw MSS. a hen gyfieithiadau o'r testyn gwreiddiol o'r epistol. Am hyny, gwrthodir hwy gan rai o'r prif esbonwyr. Gesyd ereill hwy i fewn rhwng cromfachau, a derbynia rhai hwynt fe lrhan ddilys o'r gwreiddiol. Gan eu bod yn rhan o'r Salm fel ei cyfansoddwyd hi, tueddwn yn gryf i gredu eu bod yn y testyn gwreiddiol o'r epistol hefyd. Hawdd iawn oedd i rai adysgrifwyr y MSS. hynaf eu gadael allan yn anfwriadol. Dangosa y geiriau yn amlwg i Dduw nid yn unig i osod mewn dyn natur mor debyg iddo ei hunan ag a allai, a'i goroni a phosibiliaethau mawrion, ond hefyd iddo roddi y safle uchaf yn y greadigaeth iddo. Gosododd ef ar weithredoedd ei ddwylaw. Braidd y medrwn synied am safle uwch. Gosododd ef mewn safle gyfatebol i'r cyneddfau a'r natur oedd ynddo, sef safle brenin. Natur a galluoedd brenin osododd ynddo a rhoddodd ef mewn safle i'w

8 Ti a ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef. Canys wrth ddarostwng bob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo. Ond yr awrhon nid ydym eto yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo.
9 Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu, yr hwn a wnaed

---

gweithredu hyd yr eithaf. Dyma y safle a dynai allan ei alluoedd ac a'i perffeithiai. (d) **Eangder ei lywodraeth** (8).—**Ti a ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef. Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ei ddarostwng iddo.**—Heblaw i Dduw roddi safle uchel i ddyn yn ei greadigaeth darostyngodd bob peth dan ei draed. Wrth hyny yr ydym i ddeall llywodraeth lwyr a hollol. Beth bynag sydd dan draed y mae yn ddiymadferth. Gwnaeth Duw bob peth y cyfeirir atynt yn y geiriau hyn yn ddarostyngedig i ddyn. Ni roddodd natur, posibiliaethau na safle i un creadur daearol arall i'w cymharu ag eiddo dyn. A ydyw yr angylion yn y "pob peth" osododd Duw dan draed dyn? Nac ydynt. Pob peth ar y ddaear gynwysir yn y geiriau. Nodir rhai o'r anifeiliaid yn y Salm, megys ychain, defaid a physgod, ond nid yw y rhai hyn ond cynrychiolwyr o holl greaduriaid daear lawr. Eithr ni chymerodd dyn y safle fwriadwyd iddo oherwydd ei bechod. Nid yw pob peth wedi eu darostwng iddo eto, meddai yr awdwr. Nid yw wedi gwisgo ei goron a chael yr anrhydedd a amcenid iddo. (b) **Y cadarnhaol** (9).—**Eithr yr ydym yn gweled yr hwn a wnaed ychydig yn is na'r angylion, sef Iesu, oherwydd dioddef marwolaeth wedi ei goroni a gogoniant ac anrhydedd, fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn.**—Methodd dyn fel y crewyd ef a chyrhaedd ei safle, ond ni fethodd y natur ddynol a'i chyrhaedd. Yng Nghrist sylweddolodd y natur holl fwriad Duw am ddyn. Dyma'r awdwr yn dangos y wedd gadarnhaol yn awr i uwchafiaeth Crist ar yr angylion. Darostyngwyd pob peth i Grist fel Duw-ddyn. Gan hyny, y mae uwchlaw iddynt oll. Rhaid oedd i'r awdwr ddwyn y tair adnod flaenorol i fewn cyn y gallasai ddangos ei fater yn eglur. I ddyn yr amcanodd Duw roddi llywodraeth ary ddaear. Gwnaeth efe yn feddiannol ar natur a galluoedd brenin; ac yn yr Iesu cyrhaeddodd y natur ddynol ei delfryd. Yr ydym ni yn ei ganfod ef, sef Iesu, meddai yr awdwr, wedi ei goroni, etc. Dengys y geiriau fod Crist yn y safle y golygodd Duw i ddyn fod. Gwelir yma nad oedd Crist yn is na'r angylion yn ei berson;

ychydig yn is na'r angelion, o herwydd dioddef mar-

---

cael ei wneyd yn is a wnaeth. Efe oedd eu Creawdwr hwy. Wrth ymgnawdoli, darostyngwyd ef islaw iddynt ychydig yn ol yr Hebraeg; ond yn ol y LXX., am ychydig amser. Er fod y ddau yn wir, gwell genym yr Hebraeg yn y fan hon. Cynwys ef y syniad sydd yn y LXX. Gwnaed Crist ychydig yn is adeg ei breswyliad yn y cnawd ar y ddaear. (Gwel Traethawd). Nid yw y geiriau "oherwydd dioddef marwolaeth" i'w cysylltu a'r frawddeg flaenorol ond yn hytrach a'r frawddeg nesaf, "wedi ei goroni a gogoniant ac anrhydedd." Nid y meddwl yw i Grist gael ei wneyd yn is na'r angylion, oherwydd dioddef marwolaeth. Amod ei goroniad, etc., oedd dioddefaint ei farwolaeth. Natur a chynwys y dioddefaint oedd yn ei farwolaeth amododd y dyrchafiad ac nid ei farwolaeth fel y cyfryw. Nid amcan y geiriau gan hyny yw dangos (1) mai yn ei farwolaeth y gwnaed Crist yn is na'r angylion. Gwir nad yw angylion yn meirw, ac i Grist gael ei wneyd yn is na hwy wrth farw; ond nid dyna'r syniad yma. (2) Nid y meddwl chwaith yw mai amcan ei wneyd yn is na'r angylion oedd ei wneyd yn alluog i farw; ond fel y dangoswyd, mai ei farw enillodd ei goron a'i anrhydedd iddo. Sail ei ddyrchafiad oedd ei ddarostyngiad i ddioddefaint marwolaeth. Peth ddilynodd ei farwolaeth oedd ei ddyrchafiad, ac nid peth a'i blaenorodd fel y deil Dr. Bruce.* Myn ef fod gogoniant ac anrhydedd yn y darostyngiad. Ai Crist i fyny bob gris y darostyngai ei hun, medd Bruce. Digon gwir yw hyny. Y mae pob ymddarostyngiad o natur un Crist yn ddyrchafiad moesol ac ysbrydol, ond nid dyna'r syniad sydd gan yr awdwr na Christ ei hun, nac ysgrifenwyr ereill y Testament Newydd. Darostyngiad oedd dyddiau ei gnawd i'r Iesu yn ol holl ddysgeidiaeth y Test. Newydd, ac ar ol ei farwolaeth y dyrchafwyd ef. Beth yw ystyr y geiriau "fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn?" Darllena rhai fel heb Dduw, neu "ar wahan, oddiwrth Dduw," ac ereill fel "y profai efe farwolaeth dros bawb ond Duw." Cynwys yr olaf ei fod wedi marw dros angylion drwg yn gystal a dynion. Ond â mwyafrif y prif esbonwyr yn erbyn y darlleniad awdurdodedig, a hyny oddiar resymau digonol Hawdd gweled wrth y gwreiddiol fod ὅπως—"fel"—yn y frawddeg yn

---

* The Humiliation of Christ. Tud. 38-46.

wolaeth, wedi ei goroni a gogoniant ac anrhydedd; fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn.

---

golygu amcan. Amcan y coroni a gogoniant ac anrhydedd oedd fel trwy ras Duw y profai yr Iesu farwolaeth dros bob dyn. Peth cyn y coroni oedd dioddefaint ei farwolaeth, peth ar ol y coroni oedd y profiad o'i farwolaeth. Amcan y cyntaf oedd bod yn amod ei ddyrchafiad, ac amcan ei ddyrchafiad oedd bod yn amod ei brofiad o farwolaeth dros bob dyn. Ond beth olygir wrth y geiriau "fel trwy ras Duw?" Pa angen am ras Duw oedd ar Grist? Ai gras oedd ei goroniad? Ie; ar un olwg. Meddai Crist ogoniant ac anrhydedd cynhenid hanfodol. Nid gras oedd hwn iddo. Am hwn y gofynai i'w Dad ei ddychwelyd iddo ychydig cyn iddo farw. Eithr nid hwnw yw gogoniant ac anrhydedd yr adnod hon. Fel dyn, rhaid oedd i Grist wrth gynorthwy ei Dad yn nyddiau ei gnawd, a gras oedd y cynorthwy hwnw. Gras hefyd, oedd ei ddyrchafiad fel Duw-ddyn i'r ddeheulaw ar ol iddo farw. Rhaid cofio nad oedd hawl ar wahan i ras Duw gan ei ddynoliaeth i'r gogoniant a'r anrhydedd a nodir yma. Gallasai hawlio ei ogoniant cynhenid fel Duw; ond ni allasai wneyd hyny a'r gogoniant a enillodd fel Duw-ddyn. Rhoddodd y Tad hwn iddo trwy ras. Cafodd gan Dduw yr holl bethau oedd ym mwriad Duw eu rhoddi i ddyn. Myn rhai mai y meddwl yw mai gras Duw oedd y trefniant i Grist farw. Ei ras i bechaduriaid oedd yr holl gynllun i gadw. Er fod hyn yn wir, credwn nad dyna'r gwirionedd yma. Y syniad cywir yma, ni gredwn, yw mai trwy goroni Crist a gogoniant ac anrhydedd y medrai ei farwolaeth fod er budd pob dyn. Hyny yw, drwy ddyrchafu Crist fel yma y gallai y Tad ddangos ei ras i bob dyn. Cymeradwyaeth am ei farwolaeth oedd ei ogoneddiad er budd pob dyn. Amcan y farwolaeth oedd y gogoneddiad, ac amcan y gogoneddiad oedd gwneyd ffordd i'r farwolaeth i fod yn fudd i bob dyn. Ond a fu Crist farw yn lle pob dyn? Naddo; nid dyna'r meddwl, ond iddo farw dros, neu er budd pob dyn. Cynwysai marwolaeth Crist ddigon o iawn dros bob dyn. Yr oedd yr Iawn yn anfeidrol. Eithr nid yw hyny yn brawf y try y farwolaeth yn fudd i bob dyn neu yn iachawdwriaeth i bob dyn. Y mae digon ynddi i bob dyn, ond i'r dyn ei hunan ei gwneyd yn eiddo iddo ei hunan trwy gredu. Beth olyga profi marwolaeth. (1) Nid profi yn ysgafn, neu rywbeth llai na marw; (2) nid profi marwolaeth am ychydig, sef am dri niwrnod fel

10 Canys gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, wedi iddo

---

y gwnaeth Crist; ond (3) profi marwolaeth yn ei heithafion, ei phrofi yn ddyfnach nag y medrai neb ond efe ei phrofi. Y mae gan Grist brofiad felly o farwolaeth yn ei helfenau dyfnaf, chwerwaf a chreulonaf. Try y profiad hwn yn fudd i ddynion yn awr. Heb y fath brofiad ni allai fod o werth i ddynion. Yn yr holl bethau a nodwyd uchod medd uwchafiaeth ar yr angylion. Ni bu yr un ohonynt hwy farw, ni choronwyd hwynt fel ffrwyth eu marwolaeth gan hyny, ac nid ydynt o fudd i ddynion drwy eu coroni, ac ni feddant brofiad o farwolaeth er budd i ddynion.

III. Uwchafiaeth Crist arnynt fel Iachawdwr (10-18).—Wedi anog yr Hebreaid i ddal ar y pethau a glywsant am Grist, egluro iselder presenol dyn a'i fawredd gwreiddiol, ac i Grist gyrhaedd yr hyn amcanodd Duw i ddyn ei gyrhaedd, â yr awdwr ym mlaen i egluro uwchafiaeth yr Iesu ar yr angylion fel iachawdwr pechaduriaid. Drwyddo ef y mae dynion i gyrhaedd eu delfryd, i sylweddoli bwriad Duw am danynt yn eu cread. Ond anhawsder mawr i'r Iuddew oedd credu mewn Iachawdwr wedi ddioddef a marw. Disgwyliai y genedl frenin daearol yn y Messiah, un fuasai yn gorchfygu yr holl genhedloedd cylchynol. Yr oedd meddwl am Dduw yn anfon gwaredwr i'r byd i ddioddef a marw yn beth nad allai yr Iuddew ei ddeall. Ni welai fod y fath beth yn weddus a theilwng o Dduw. Hefyd, nid oedd yr angylion yn dioddef a marw, a methai yr Hebreaid a gweled fod Crist uwchlaw iddynt, ond yn hytrach yn is-raddol iddynt. Cywiro y syniadau hyn yw gwaith yr awdwr yn yr adnodau nesaf. Dengys fod yr Iesu uwchlaw iddynt ym mhell fel Gwaredwr. (1) **Yn ei berffeithrwydd** (10).—**Canys gweddus oedd iddo ef, er yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, wrth ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio awdwr eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddioddefiadau.**—Nid peth anheilwng yn Nuw oedd perffeithio Crist trwy ddioddefaint marwolaeth; ond y peth teilyngaf a gweddusaf. Cydgordiai y dioddefiadau a natur anfeidrol gyfiawn a sanctaidd Duw er mwyn yr hwn y bodolai pob peth meidrol. Ammhosibl credu y gwnai yr hwn y bodolai y cyfanfyd er ei fwyn, ddim anweddaidd a Mab ei hanfod. Nid oedd dim yn holl ddioddefiadau Crist nad oeddynt yn gyson ag urddas ac anrhydedd, cariad a gras yr hwn sydd yn amcan

ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddioddefiadau.

---

eithaf pob peth meidrol. Hefyd, drwy Dduw fel achos gwreiddiol y mae yr holl fydysawd. Pwy all synied iddo ef osod dim ar ei Fab er mwyn y bydysawd a greodd, nad oedd yn weddus i fôd anfeidrol sanctaidd? Collodd dyn yr amcan oedd gan Dduw iddo, ac yr oedd yn weddus i Dduw osod ei Fab i ddioddef er mwyn i ddyn gyrhaedd yr amcan hwnw. Beth apeliai yn gryfach at galon dyn na gwaith Duw yn gwneyd hyny? Gan yr ewyllysiai y Mab ddioddef er mwyn dyn yr oedd yn weddus yn Nuw i ganiatau iddo. Pwy yw y "meibion lawer" yn yr adnod? (1) Saint yr Hen Destament. Gan fod Duw wedi dwyn llawer o'r rhai hyny i ogoniant gweddus oedd iddo berffeithio Crist ar gyfrif yr hwn yr aethant i ogoniant. Eithr ni chanfyddwn unrhyw sail i'r rhesymau ddygir dros y syniad hwn. Methwn a gweled fod saint yr Hen Destament ym meddwl yr awdwr yma. (2) Dychweledigion fuont feirw yn adeg Crist. Diau i lawer gredu yng Nghrist ac a fuont feirw cyn ei groeshoeliad. Rhy gyfyng syniad yw hwn o lawer. Llydanrwydd yw un o brif nodweddion awdwr yr epistol hwn. (3) Rhai oeddynt ar fedr cael eu cadw neu eu dwyn i ogoniant. Nid oes sail ddigonol i'r syniad hwn chwaith. (4) Pawb o'r duwiolion. Nid rhan o feibion Duw sydd yma, ond yr oll ohonynt. Nid yw llygad yr awdwr ar unrhyw ddosbarth ohonynt, eithr yn hytrach arnynt oll. Dwg y C.D. y syniad hwn allan yn bur dda, ond nid mor glir ag y carem. Credwn mai y darlleniad goreu o'r geiriau fyddai, "Canys gweddus oedd iddo ef, er yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, gan ei fod yn arwain meibion lawer i ogoniant," etc. Gan i Dduw benderfynu yn ei arfaeth i ddwyn meibion lawer i ogoniant, gweddus oedd iddo berffeithio eu Tywysog. Eu harwain i ogoniant a wna ef; hyny yw, perffeithia hwynt trwy ddioddefiadau. Nid eu dwyn heb iddynt weithio allan eu hiachawdwriaeth a wna. Gweddus, gan hyny, oedd perffeithio eu harweinydd yr un ffordd. Heb hyn ni allasai fod yn wir arweinydd iddynt. Rhaid i wir a pherffaith arweinydd feddu holl brofiad y rhai a arweinia. Pentywysog (*τὸν ἀρχμγὸν*) y meibion lawer yw Crist. Cyfieithir y gair "awdwr" yma yn achubydd, gwreiddyn hiliogaeth, rhagflaenydd, tywysydd a phentywysog yn fynych. Y medddwl yma yw arweinydd ysbrydol meibion Duw. Perffeithiwyd ef i'r swydd hon trwy "ddiodd-

11 Canys yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir o'r un y maent oll. Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr;

---

efiadau." Paham y perffeithiwyd ef fel hyn? (1) Am fel y dywedwyd uchod, mai trwy ddioddefiadau yn unig y perffeithir y meibion lawer; (2) am mai dyma yr unig ffordd y gellid ei berffeithio. Ni allasai Duw ei berffeithio mewn un ffordd arall. Gan fod yn feddiannol ar natur ddynol feddai wendidau dibechod, dioddefiadau oedd un o amodau hanfodol ei berffeithiad. (3) Am fod y dioddefiadau yn angenrheidiol i foddloni Duw ar ran pechaduriaid. Gwnai y tri pheth hyn hi yn weddus i Dduw, gan hyny, i'w berffeithio trwy ddioddefiadau. Codai yr angenrheidrwydd am y perffeithio trwy ddioddefiadau o du y meibion, o'i natur ddynol ef ei hun, ac o Dduw, yr hwn ofynai Iawn. (2) **Ei allu sancteiddiol** (11).—**Canys yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir,**—Pwy yw yr hwn sydd yn sancteiddio? (1) Unrhyw un fyddo yn sancteiddio, medd rhai. Gall dynion da sancteiddio medd yr esbonwyr hyn. Camsyniad dirfawr yw hyny. Ni all unrhyw ddyn buro yr enaid yn foesol ac ysbrydol. (2) Yr Ysbryd Glan. Gwir fod yr Ysbryd yn sancteiddio, ond hollol annaturiol yw ei ddwyn i fewn yma. Nid oes dim yn y cysylltiadau yn cyfiawnhau hyny, ac nid yw o un fantais esboniadol i goleddu y syniad. (3) Crist ei hun. Dyna'r unig syniad cydweddol a'r cysylltiadau. Beth olygir wrth sancteiddio yma? Nid puro a glanhau yn foesol yn unig, ond yr oll o iachawdwriaeth yr enaid. Golyga y ferf sancteiddio—ἁγιάζων —gwrs-weithrediad parhaus yn yr enaid a chynwysa bob peth a wneir arno gan yr Ysbryd Glan drwy'r Iesu. Cymeryd o eiddo Crist wna yr Ysbryd pan yn cario ym mlaen iachawdwriaeth yn yr enaid. Dyma beth nad all un angel fod yn awdwr ohono. Gan hyny, llawer uwch na'r angylion yw Crist. (3) **Natur Ysbrydol.—O'r un y maent.**—O bwy? (1) O Adda medd rhai, (2) o Abraham medd ereill. Ni all y naill na'r llall o'r syniadau hyn fod yn gywir; oblegid ni fyddai yn iawn dyweyd fod Crist fel Duw-ddyn o'r naill na'r llall o'r personau hyn. Hefyd, anghywir dyweyd ei fod ohonynt yn hollol fel dyn. Nid oes dim yn y cysylltiadau chwaith yn gofyn am y syniad hwn. (3) O Dduw. Dyma'r syniad cywir yn ddiddadl. O Dduw y mae Crist fel Duw-ddyn yn gystal ag fel Duw. (4)**Cydrhywiaeth natur a dynion.—Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr.—**

12 Gan ddywedyd, Myfi a fynegaf dy enw di i'm brodyr;
yng nghanol yr eglwys y'th folaf di.
13 A thrachefn, Myfi a fyddaf yn ymddiried ynddo. A

Meibion **ysbrydol** a gedwir drwyddo hefyd. **Yr un natur ysbrydol red drwy yr achubydd a'r rhai a achubir. Yn hyn eto, rhagora ar yr** angylion. Ni feddent hwy holl natur dynion ; ond medd Crist bob elfen o'u natur. Cymaint yw cydrhywiaeth ei natur ef a hwy fel nad oes cywilydd arno eu harddel yn frodyr, sef rhai o'r un tad ysbrydol, rhai yn meddu yr un natur ddynol ac ysbrydol. Ni allai ef alw angylion yn frodyr am mai bodau creadigol ydynt a llai eu posibilrwydd na dynion; ond gall alw dynion duwiol felly am eu bod yn genhedledig o'r Tad trwy ail-enedigaeth ysbrydol. (5) **Gorfoledd yn achubiaeth dynion** (12-13).—Wedi dangos y pethau nodasom am uwchafiaeth Crist, â yr awdwr ym mlaen i ddangos gorfoledd a llawenydd Crist yn y cadwedigion. Dengys hyn mewn tair ffordd. (a) **Cyhoeddi enw Duw iddynt oll yn bersonol** (12).—**Myfi a fynegaf dy enw i'm brodyr.**—O Salm xxii. 22, y dyfynir y geiriau hyn, ac nid oes fawr gwahaniaeth rhyngddynt a'r LXX. At Dafydd y cyfeiria y Salm. Desgrifia y modd yr aeth ef i'r orsedd trwy ddioddefiadau a'r llawenydd ganlynodd hyny. Cymhwysa awdwr yr Epistol hwynt at Grist. Wedi ei goroni a gogoniant ac anrhydedd, mynega yntau enw ei Dad i'w frodyr ysbrydol. Hysbysa hwynt mai yng nghalon anfeidrol lawn o gariad ei Dad y tarddodd y drychfeddwl o'u cadw. Enw Duw yw holl gyfoeth anfesurol ei natur. Mynegu ei enw yw mynegu y cyfoeth graslawn hwn i'r cadwedigion. Rhagor, mynega Crist yr oll fu ei Dad iddo yntau yn nyddiau ei ddarostyngiad yn gystal a mynegu yr hyn fu ef i'w frodyr. (b) **Moli enw Duw yn y gynulleidfa ysbrydol.—Yng nghanol y gynulleidfa y'th folaf di.**—Tyr y gorfoledd yn achubiaeth dynion allan yn gyntaf, mewn mynegiant molianus o enw Duw i'r brodyr ysbrydol bob un yn bersonol; yn ail, dengys ei hun mewn moliant yn yr eglwys pan ymgynulla yng nghyd. Datguddia moliant Crist ei hun yng nghaniadaeth ysbrydol yr eglwys. Una ef a'i frodyr i dalu diolch i Dduw am ei wneyd ef yn iachawdwr iddynt ac am eu bod hwythau wedi eu hachub. (c) **Datgan ymddiried yn ei Dad anfeidrol** (13).—**Mi a osodaf fy ymddiried ynddo.**—Yn y gorfoledd hwn datgana'r Iesu ei ymddiried llwyr yn ei Dad. Ymddiriedodd ynddo yn y gorphenol am ei lwyddiant yn ei waith o'r ymgnawdoliad i'r

thrachefn, Wele fi a'r plant a roddes Duw i mi.
14 Oblegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un

---

croeshoeliad; rhoddodd ei ysbryd i'w law wrth farw; credodd yr adgyfodai efe ef oddiwrth y meirw; pwysodd arno y cai esgyn i'r nef i'w ddeheulaw i gario ei waith ym mlaen ar ran pechaduriaid, a chafodd ef yn llond ei addewid; yma datguddia ei ymddiried ynddo am y dyfodol maith yn hanes ei frodyr, a gwna hyny mewn gorfoledd pur. (d) **Cyflwyniad i Dduw o'i blant ysbrydol.—A thrachefn, wele, fi a'r plant a roddes Duw i mi.**—O Isaiah viii. 18 y dyfynir y geiriau hyn ac ni lefarwyd hwy gyda golwg ar yr Iesu; eithr hollol gymwys ydynt iddo. Wedi tori allan mewn gorfoledd trwy fynegiant o enw Duw i'r plant yn bersonol, ei foli yn yr eglwys, a datgan ei ymddiried ynddo daw ei lawenydd i'r golwg yma mewn cyflwyno y plant neu ei frodyr oll i Dduw ar ol eu perffeithio. Yr oedd plant Isaiah yn brawf i'r genedl fod Duw wedi ei fendithio, ac wedi ymweled ag ef. Felly am blant ysbrydol Crist : profant fod ei holl fywyd yn wir a chymeradwy gan Dduw. Profa eu bywyd glan ar y ddaear fod geiriau'r Iesu yn wir. Dyma bethau nad allai yr angylion orfoleddu am danynt. Ni allent hwy orfoleddu am eu bod yn achubwyr dynion am nad oeddynt yn achubwyr. (6) **Meddiant o natur ddynol** (14).—**Oblegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion mewn cig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a gyfranogodd o'r unrhyw.**—Oblegid peth y cymerodd Crist y natur ddynol? Oblegid yn gyntaf, yr undeb agos oedd rhyngddo a'r plant mewn bwriad yn nhragwyddoldeb; yn ail, am mai hwy oedd gwrthddrychau ei lawenydd ysbrydol; ac yn drydydd, oblegid eu bod yn gyfranog o gig a gwaed. Golyga cig a gwaed yr holl natur ddynol. Gan eu bod hwy yn gyfranog o'r pethau hyn, sef corph materol ac enaid ac ysbryd meidrol, cymerodd yr Iesu yr un pethau. Heb hyny, ni allasai fod yn wir frawd iddynt. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng ei gyfranogiad ef o waed a chnawd, neu natur ddynol, a'i frodyr? Rheidrwydd oedd eu cyfranogiad hwy o'r cyfryw; a ffrwyth ewyllys oedd ei gyfranogiad ef ohonynt, a hono yn ewyllys rasol. Ni allasai Crist fod yn wir frawd i ddynion heb gymeryd eu natur, ni allasai feddu eu profiad na chydymdeimlo a hwy. Yn hyn eto, y mae ef uwchlaw yr angylion. Ni feddant hwy natur dyn, na'i brofiad, ac o ganlyniad, ni allant gydymdeimlo a dynion. (7) **Amcan eithaf yr**

pethau; fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol;
15 Ac y gwaredai hwynt, y rhai trwy ofn marwolaeth oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed.

---

ymgnawdoliad.—(a) **Dinystrio y drwg.—Fel trwy farwolaeth y dygai i ddim yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, y diafol.**—Heb ymgnawdoli nn allasai farw, ac heb farw ni allasai ddinystrio nerth y diafol, neu yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo. Gan hyny, un elfen yn amcan eithaf yr ymgnawdoliad oedd dinystrio nerth marwolaeth. Nid dinystrio marwolaeth ei hun cofier, ond ei nerth. Beth yw nerth marwolaeth? Pechod. Efe wna farwolaeth yn gaethiwed, yn ddiraddiad ar enaid ac yn gosp. Rhaid i ddynion farw, oblegid y mae hyny yn osodiad dwyfol. Caria pob dyn farwolaeth yn ei natur; ond gollwng y duwiol yn rhydd wna hi, ac arwain y drwg i gaethiwed a wna. Trwy farw gwnaeth Crist hi yn bosibl i farwolaeth i droi yn fendith, ac nid yn felldith. Hefyd, dygodd yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo i ddim; hyny yw, i ddim yn hanes pob dyn da. Ni ddifododd farwolaeth na'r diafol ond ysbeiliodd eu nerth. Ysbeiliodd y diafol o'i lywodraeth ar ysbrydoedd dynion. Dylanwada y diafol yn uniongyrchol ac anuniongyrchol ar feddyliau ac ysbrydoedd dynion; ond medr marwolaeth Crist ddinystrio, neu ddwyn i ddim yr holl ddylanwad hwn. Pa fodd? Trwy ddylanwad sancteiddiol yr Ysbryd Glan ar y galon. (b) **Gwaredu oddiwrth ddrwg** (15).—**Ac y gwaredai hwynt oll y rhai trwy ofn marwolaeth oeddent dros eu holl fywyd dan gaethiwed.**—Dyma'r ail elfen yn amcan eithaf yr ymgnawdoliad—gwaredu. Yr oedd dynion yn byw mewn ofn marwolaeth yn barhaus. Paham? Oblegid nerth pechod arnynt. Teimlent eu pechod a llywodraeth y diafol ar eu meddyliau, ond ni allent ymryddhau oddiwrth y naill na'r llall. Gan hyny, ofnent farwolaeth yn aethus. Credent yr arweiniai hi hwynt i gyflwr gwaeth o lawer nag oeddynt ynddo. Eithriad yn hanes y byd paganaidd oedd Socrates, yr hwn fu farw yn ddiofn. Llethai ofn marwolaeth bawb drwy'r oesau fel y gwna lethu anwariaid yn awr. Beth oedd y caethiwed y sonir am dano yma? Ofn oedd yr elfen ymwybodol amlycaf ynddo. Caethiwed neilldnol yw ofn. Deil y meddwl mewn cyflwr nad all weithredu; parlysa a gwanha gyneddfau yr enaid nes eu hamharu i unrhyw waith da. Yr elfen arall yn y caethiwed hwn yw y gwendid, yr anallu a'r ymraniad

16 Canys ni chymerodd efe naturiaeth angylion; eithr had
Abraham a gymerodd efe.
17 Am ba achos y dylai efe ym mhob peth fod yn gyffelyb
i'w frodyr; fel y byddai drugarog ac Arch-offeiriad ffydd-

---

effeithir gan bechod yn yr enaid. Ceidw bosibiliaethau yr enaid yn ddiddadblygiad; atalia ryddid ei alluoedd ymwybodol a chrea anhwylder moesol drwyddo oll. Gwna bywyd Crist yn yr enaid ei waredu yn llwyr oddiwrth y pethau hyn. Gwnaeth y ffordd yn rhydd i waredu dynion oddiwrth ddrwg drwy farw. Ni all angylion ddinystrio nerth y diafol na gwaredu dynion. Gan hyny, llawer uwch yw Crist na hwy. (b) **Adferu i wneyd da** (16).—**Canys yn wir nid mewn angylion y cymer efe afael, eithr efe a gymer afael yn had Abraham.**—Nid at yr ymgnawdoliad y cyfeiria yr adnod hon fel y myn rhai. Ail-adroddiad o adnod 14 fyddai dwyn yr ymgnawdoliad i fewn yma. Dywedwyd yno i Grist gyfranogi o gig a gwaed. Beth yw gwirionedd yr adnod hon? Mai dynion achubir gan yr Iesu ac nid angylion. Y mae y berfau yn yr adnod yn yr amser presenol ac nid y gorphenol. Pe at yr ymgnawdoliad y cyfeirient buasent yn y gorphenol. Yr ystyr yw, nad yw yr hwn ymgnawdolodd, ddioddefodd, fu farw, ac a goronwyd a gogoniant, yn achub angylion ond had Abraham neu ddynion. Y mae ef, fel pe y dywedai yr awdwr, wrth ei waith i achub yn awr; ond nid mewn angylion y gafaela ond mewn dynion. Datguddia y syniad hwn esgyneb nodedig yn y syniadau yng nglyn ag amcan yr ymgnawdoliad. Dinystrio nerth marwolaeth neu y diafol oedd elfen gyntaf yr amcan, neu ddinystrio drwg; gwaredu oddiwrth lywodraeth drwg ar yr enaid oedd yr ail, ac adferyd dynion i wneyd da oedd y drydedd. Adfera Crist ddynion i wneyd da yn barhaus, ond ni adfera angylion drwg. Wrth hâd Abraham y golygir y genedl Iuddewig, ond cynrychiola y genedl y ddynoliaeth. (8) **Perffeithrwydd profiad dynol** (17-18).—(a) **Profiad o egwyddorion moesol** (17).—**Am ba achos dyledus oedd iddo ef ym mhob peth ŵael ei wneuthur yn gyffelyb i'w frodyr, fel y byddai yn arch-offeiriad trugarog a ffyddlawn mewn pethau yn perthyn i Dduw.**—Gan mai dynion achubir gan Grist, dylai feddu profiad dynion ym mhob peth ond pechod. Profiad nad yw yn hanfodol i ddyn yw pechod; gan hyny, nid oedd raid i Grist fod yn brofiadol o bechod yn ei enaid; hyny yw, nid oedd raid iddo fod yn bechadur. Ym mhob peth arall, gofynol oedd iddo feddu profiad dynion i afaelyd mewn natur

lawn, mewn pethau yn perthyn i Dduw, i wneuthur cymod dros bechodau y bobl.

18 Canys yn gymaint a dioddef ohono ef, gan gael ei

---

dynion. A'r peth cyntaf a nodir yma yw trugaredd a ffyddlondeb—dwy egwyddor foesol bwysig. Rhaid oedd cael profiad o drugaredd y peth cyntaf. Paham? Am mai gwrthddrychau truenus yw dynion. Cymhelliad cyntaf i afaelyd mewn dynion yw gweithrediad yr egwyddor o drugaredd wrth weled eu trueni. Cyn y gallai yr Iesu feddu yr egwyddor hon rhaid oedd iddo fod yn wir ddyn yn gyntaf, a meddu profiad byw o drugaredd yn ail. Eto, gofynol oedd iddo fod yn ffyddlon. Beth yw hyny? Egwyddor foesol bwysig hefyd yw ffyddlondeb. Gall olygu bod yn llawn o ffydd; ond nid dyna'r ystyr yma. Ei feddwl yn y fan hon yw gofal i gyflawni ei swydd gyda chysondeb, manylrwydd, gonestrwydd ac egni. Pwysig oedd i'r archoffeiriad i fod wrth wahanol weddau ei swydd yn gyson yn ogystal ag ar ddydd y cymod, a gofalu eu gwneyd yn onest, manwl a chywir. Trugaredd a ffyddlondeb oedd i fod y ddwy egwyddor lywodraethol yn ei fywyd. Dyledswydd oedd arno i fod yn ffyddlon i'w gyd-ddynion ac i Dduw. (b) **Profiad o aberth gwirfoddol.**—**I wneyd cymod dros bechodau y bobl.**—Pethau yn perthyn i Dduw oedd gan yr archoffeiriad i'w cyflawni. Nid yw meddiant o'r ddwy egwyddor uchod yn ddigon heb aberth gwirfoddol. Hefyd, rhaid i'r aberth hwnw fod mewn cylch neillduol, sef cylch pethau yn perthyn i Dduw. Gofynol yw i egwyddorion moesol yr archoffeiriad redeg allan mewn gweithred wirfoddol dros ddynion i Dduw. Yr aberth hwnw sydd i wneyd cymod neu heddwch rhwng Duw a dyn. Cyfoethog neillduol yw yr adnodau hyn pan edrychwn arnynt yn fanwl. Asia y naill syniad yn y llall. ynddynt mewn modd gogoneddus. Dangosant i Grist gymeryd natur ddynol, yr amcan oedd i hyny, a bod trugaredd a ffyddlondeb yn ei nodweddu fel archoffeiriad, a'i fod wedi gwneyd cymod dros bechodau ei bobl. Ni wnai neb y tro yn archoffeiriad dynion ond un fel hyn. (c) **Dioddefaint ingol** (18).—**Canys yn gymaint a'i fod ef ei hun wedi dioddef.**—Eglurhad yw y geiriau hyn ar y modd y mae Crist ym mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr. Mewn rhyw ystyr, ceir eu cynwys yn niwedd yr adnod o flaen hon. Pan roddodd ef ei hun yn aberth gwirfoddol dros bechodau y bobl, dioddefodd yn eithafol. Er hyny, y mae mwy yn y dioddef nag a awgrymir yno. Cymer dioddef yr adnod hon

demtio, efe a ddichon gynorthwyo y rhai a demtir.

---

i fewn holl ddioddefiadau Crist tra fu ar y ddaear. Cynwysant ei ddioddefiadau anianyddol o bob math, ei ddioddefiadau moesol yn eu holl arweddau, a'i ddioddefiadau ysbrydol yn eu hamryfal nodweddion. I fod yn archoffeiriad trugarog a ffyddlon, rhaid oedd iddo brofi holl ddioddefiadau dynion. Nid oedd meddu yr egwyddorion o drugaredd a ffyddlondeb yn ddigon heb eu gosod dan y prawf llymaf posibl trwy ddioddefiadau. Hyny wnai sicrhau eu bod yn berffaith a digyfnewid ynddo. Yr oedd trugaredd a ffyddlondeb ynddo ef yn feddiant personol, ond yn y prawf arnynt yn ingoedd dioddefiadau y daethant i'r golwg. (d) **Temtasiynau neillduol.—Gan gael ei demtio, efe a ddichon gynorthwyo y rhai a demtir.**--Er fod amryw o'r esbonwyr yn dal mai dioddef trwy demtasiwn a olygir wrth y frawddeg flaenorol methwn a chredu nad yw y "dioddef" y cyfeirir ato yn llawer eangach. Nid yw temtasiynau bywyd agos eanged a dioddefiadau bywyd. Gall un ddioddef llawer heb fod un math o demtasiwn yn y dioddefaint hwnw. Nid temtasiwn yw achos y rhan fwyaf o'n dioddefiadau anianyddol, ac ni ellir dyweyd mai temtasiwn yw achos lluaws o'n dioddefiadau moesol ac ysbrydol. Gan hyny, credwn mai y syniad yn y frawddeg yw, Canys yn gymaint a'i fod ef ei hun wedi dioddef a chael ei demtio. Ni allasai awdwr mor alluog ag ysgrifenydd yr Epistol hwn basio y dioddefiadau nad oeddynt yn ffrwyth temtasiynau wrth draethu ar gymhwysder Crist i gynorthwyo y rhai a demtir. Yma cyfeiria at demtasiynau mawrion neillduol Crist, y rhai gafodd oddiwrth Satan yn uniongyrchol, ac nid rhai bychain gafodd oddiwrth ddynion. Rhaid oedd bod yn feddiannol ar y profiad dynol pedwarplyg a ddesgrifiwyd genym i allu cynorthwyo dynion a demtir. Ni ellir cydymdeimlo heb gael profiad llawn y sawl y cydymdeimlir ag ef. (Gwel Traethawd). Am esboniad llawn ar demtiad Crist, gwel fy esboniadau ar *Matthew*, *Marc*, a *Luc*. Yn ei brofiad eto rhagora Crist ym mhell ar yr angylion. Ni feddant hwy brofiad dyn yn y ffyrdd a nodwyd, ac o ganlyniad, ammhosibl fyddai iddynt gydymdeimlo a dynion. Bellach, y mae ymresymiad yr awdwr yn gyflawn ar uwchafiaeth y Mab arnynt, ac yn y benod nesaf cychwyna ei gymharu a Moses, prif ddyn y genedl, a'i gwaredwr o'r Aifft.

Pwyntiau Ymchwiliadaeth Bellach.

Y gwahaniaeth hanfodol rhwng Crist a'r angylion.
Uwchraddoldeb ac israddoldeb dyn i'r angylion.
Yr amodau weithredent ym mherffeithiad Crist.
Y gwahaniaeth hanfodol rhwng gogoniant hanfodol a deilliadol.
Y gwahaniaeth rhwng mabolaeth dynion Duw a mabolaeth Crist.
Yr egwyddor yn Nuw a ofynai am farwolaeth Crist.
Yr elfen angenrheidiol ym marwolaeth Crist i'w wneyd yn iawn.
Perthynas y diafol a drwg mewn dynion pechadurus.
Natur, amodau, a nodweddion cydymdeimlad dynol a dwyfol.
Y gwahaniaeth rhwng dioddefaint, profedigaeth, a themtasiwn.

III. Traethawd.

(1) **Dyn yn is ac yn uwch na'r angel** (7).

A ydyw dyn yn is nag angel? Nac ydyw. A amryw bethau i brofi ei fod yn uwch nag angel, ac y mae hyn yn gyson a'r hyn ddywedir yn yr adnod, sef ei fod yn is. Mewn rhai pethau y mae dyn yn is, ond yn nghyfanrwydd ei berson y mae yn fwy ac uwch nag angel.

I. Dyn yn is na'r angel.—(1) **Mewn deddfau amser a lle.**—Ni raid i angel fod yn glymedig wrth amser fel dyn. Gall ef deithio miloedd o filldiroedd tra y bydd dyn yn croesi ei dy. Nid yw ef mwy na dyn uwchlaw deddfau amser, ond nid yw mor ddarostyngedig iddynt. Nid yw chwaith uwchlaw deddfau lle. Rhaid iddo fod mewn lle, ac ni all fod mewn lle a pheidio bod ar yr un pryd; ond ni raid iddo dreulio amser i fyned o le i le fel dyn. Gall deithio o fyd i fyd heb fwy o anhawsder, os cymaint, ag a gaiff dyn wrth symud o un ystafell i'r llall. (2) **Mewn deddfau mater.**— Hollol rydd yw angel o lywodraeth mater arno Ni fedd gorph, ac ni fedd brofiad, o ganlyniad, o ddeddfau corph. Rhwystrir dyn gan fater ei gorph a mater o'i gwmpas, ond ni wyr angel beth yw hyny. (3) **Mewn deddfau poen.**—Darostyngir dyn dan ddeddfau poen mewn llawer cyfeiriad, megys trwy glefydau, damweiniau, heintiau, a phethau cyffelyb. Rhydd yw yr angel oddiwrth bob poen gyfyd o gorph materol.—(4) **Mewn deddfau ymddatodiad.**—Gweithreda y deddfau hyn mewn dyn yn gyson, a therfynant mewn marwolaeth. Gan na fedd angel natur ymddatodol, ni lywodraetha y deddfau hyn arno, ac ni all farw fel dyn.

II. Dyn yn uwch na'r angel.—(1) **Yn ei natur ysbrydol.**—**Yn y** desgrifiad sydd yn y Beibl o ddyn, canfyddir fod ei natur ysbrydol ym mhell uwchlaw yr angel. Ni ddywed yr Ysgrythyr Lan yn un man fod yr angel wedi ei greu ar lun a delw Duw. (2) **Yn ei alluoedd meddyliol** Yn ol yr hanes geir am yr angylion, ni feddant alluoedd meddyliol gwreiddiol. Cant eu cenadwri gan Dduw, a gellir tybio nad ydynt yn meddwl drostynt eu hunain. Gwasanaethu er mwyn rhai ereill y maent, sef er mwyn dynion, ac awgryma hyny nad ydynt yn feddylwyr gwreiddiol. Cariant allan y gwasanaeth yn ol cyfarwyddyd Duw. (3) **Yn eu cyfoeth elfenol.**—Medd dyn elfenau pob byd yn ei natur, ond nid oes ond ansoddau un byd yn yr angel. Bôd syml yw ef; ond bôd cyfansawdd yw dyn. Gwna hyn natur dyn yn gyfoethocach na natur angel. Rhydd yr elfenau hyn brofiad iddo nad ydynt yn bosibl i angel. Diau mai y cyfoeth hwn wnai ddyn mor werthfawr yng ngolwg Duw nes peri iddo lunio trefn i'w gadw. Credwn y bydd yr holl elfenau hyn yn natur dyn am byth, ond y byddant wedi eu hysbrydoli a'u trawsnewid. Bydd dyn yn gydgrynhoad o'r cread yn dragywydd; ond ni fydd yr angel felly. (4) **Ym mhosibilrwydd ei dyfiant.**—Bydd meddiant o holl elfenau cread Duw yn amod tyfiant mewn dyn na fydd yn bosibl i angel ei gyrhaedd. Rhaid cael natur gyfoethog ei helfenau i fod yn gyfoethog ei dadblygiadau. O'i chymharu a dyn, un dlawd yw natur angel. Gwna nifer posibiliaethau natur dyn hi yn fawr ym mhosibilrwydd ei dadblygiadau. (5) **Yn fod dyn wedi ei uno a Duw.**—Unwyd dynoliaeth a Duw yn y Mab ; ond ni unwyd yr angel ag ef. Try hyn yn fantais dragywyddol i'r natur ddynol i ddadblygu. Rhesymol yw credu mai y natur fwyaf tebyg iddo ei hun a gymerodd Duw i undeb ag ef.

(2) **Pum' Mawredd Dyn** (8).

Un o faterion pwysig yr ail benod yw dyn. Dangosir ei fawredd ynddi mewn amryw bethau. Bydd egluro y nodweddion a'i gwna mor fawr yn fantais i ddeall holl rediad y benod.

I. Mawredd naturiol.—Gwnaeth Duw ef ychydig is nag ef ei hun o ran natur. Medd holl nodweddion natur Duw, ac y mae ansawdd ei natur debyced i Dduw ag y gallai Duw ei gwneyd. Yn ei natur y mae dyn yn llun a delw Duw. Gosododd Duw anfarwoldeb yn ei natur

ac ni pheidia a bod mwy cyd byddo Duw. Gan hyny, y mae dyn yn naturiol uwchlaw pob creadur arall yn ei debygrwydd i Dduw.

II. Mawredd posibiliaethol.—Ni fedd un creadur bosibiliaethau mor lluosog a mawrion a dyn. Heblaw bod ei natur yn uchel yn ei graddau o ran ansawdd (*quality*), cynwysa bosibiliaethau annesgrifiadwy. Yn ol y meddylwyr mwyaf, ychydig o'r rhai hyn weithredant yn y byd hwn. Rhaid iddynt gael byd arall, ac amodau cyd-weddol a hwy i fedru gweithredu. Cysgant yma am nad oes yma amodau allant eu dihuno. Rhaid wrthynt mewn arall fyd i'r enaid allu ymgyfaddasu i'w amgylchoedd. Diau mai y posibiliaethau anweithredol hyn yw y rhai mwyaf yn yr enaid.

III. Mawredd ymwybodol.—Ni fedd unrhyw greadur eanged ymwybyddiaeth a dyn. Ymwybydda ef fyd mater, llysiau, anifeiliaid, dynion, angylion a Duw. Pa fodd hyny? Am fod cyfuniad o'r bodau hyn ynddo. Ni chydgyfarfydda pob byd yn unrhyw greadur ond dyn. Ni wyr angel beth yw corph materol tyfol o'i gwmpas, ac ni fedd ymwybyddiaeth o'r anifail yn ei berson, na natur dyn chwaith. Geill dyn ddeall deddfau bydoedd materol a bodau meidrol; ymresymu yn eu cylch a dirnad llawer am danynt, oblegid fod eu natur ynddo.

IV. Mawredd dadblygol.—Yn ei bosibilrwydd dadblygol eto saif ar ben rhes creaduriaid Duw. Ni ellir dychymygu pa faint yw ei allu i ymagor pan gaiff ei hun mewn amgylchoedd manteisiol i hyny. Rhan fechan o'i natur ddadblyga yn awr—dim ond yr hyn gaiff amodau yma i'w thynu allan. Beth fydd dadblygiad enaid pan ddaw amodau i weithredu arno a dyn allan ei holl bosibiliaethau ni wyddom. "Ni amlygwyd eto beth a fyddwn." Nid oes bendraw i allu dadblygol enaid. A y galluoedd ddadblyga ynddo yn y byd hwn yn eu blaen yn y byd tragywyddol, ac fel yr awgrymwyd, dadblyga rhai sydd yn cysgu yma yno. Golygodd Duw i ddyn fod mor debyg iddo ef yn ei faintioli ag sydd yn bosibl yn gystal ag mewn natur.

V. Mawredd llywodraethol.—Dyn fel y crewyd ef sydd a'r llywodraeth uchaf ond Duw ar y byd. Rhoddodd Duw allu iddo i ddeall deddfau y greadigaeth, megys deddfau y tan, dwfr, yr awyr; deddfau bywyd llysieuol, anifeilaidd, a dynol. Trwy wybodaeth o'r deddfau hyn disgwylia Duw iddo i ddarostwng yr holl fyd i'w wasanaeth. Ni olygodd Duw iddo gael llywodraeth ar bob peth ar wahan i wybodaeth o'r deddfau hyn a chydymffurfiad a hwy. Llywodraeth drwy ei ddirnadaeth ohonynt, gwybodaeth pa fodd i'w trin a chydymffurfiad a hwy

rydd arglwyddiaeth i ddyn arnynt. Ni chyfyd dyn uwchlaw deddfau y cread ond trwy gydymffurfiad manwl a hwynt. Eisioes y mae wedi meistroli lluaws o ddeddfau'r byd, ac ymddengys mai yn ei flaen yr ä, a gellir disgwyl y bydd ei lywodraeth ar y byd yn dra eang ar fyr o dro.

IV. Gofyniadau.

(1) Dangoswch berthynas yr adn. 1 a'r benod o'r blaen, ac eglurwch y ffigwr sydd yn yr adnod.

(2) Beth oedd rhan angylion yn rhoddiad y ddeddf? Eglurwch yr elfenau wnai iachawdwriaeth adn. 3 mor fawr.

(3) Paham na fuasai Duw yn darostwng y "byd a ddaw" i angylion, a phaham y darostynga efe ef i ddyn?

(4) Beth olygir wrth fod Crist wedi ei goroni a gogoniant ac anrhydedd? Pa berthynas oedd rhwng hyny a phrofi marwolaeth dros bob dyn, adn. 9?

(5) Pa fodd yr oedd yn weddus i Dduw berffeithio Crist trwy ddioddefiadau?

(6) Esboniwch adn. 11-13.

(7) Beth ofynai am i Grist ymgnawdoli, a beth oedd amcan eithaf yr ymgnawdoliad yn ol adn. 14-15?

(8) Ai yr ymgnawdoliad yw mater adn. 16?

(9) Pa gymhwysderau yng Nghrist fel Gwaredwr a geir yn adn. 17-18? Nodwch y pethau ddangosant fod Crist uwchlaw yr angylion yn y benod hon.

(10) Ym mha bethau y mae dyn yn is ac yn uwch nag angel? Eglurwch y nodweddion ddatguddiant fawredd dyn.

PENOD III.

ADRAN II. PWNC: CRIST A MOSES A JOSUAH (Pen. iii.-iv.)

I. Dadansoddiad.

UWCHAFIAETH CRIST AR MOSES.

I. **Dyledswydd yn codi o fawredd Crist fel Iachawdwr** (adn. 1-6)
  (1) *Y ddyleaswydd* (adn. 1).
    (*a*) *Ystyried Crist fel Apostol.*
    (*b*) *Ystyried Crtst fel archoffeiriad.*
  (2) *Rhesymau dros y ddyledswydd* (adn. 2-6).
    (*a*) *Ffyddlondeb perffaith* (adn. 2).
    (*b*) *Gogoniant uwchraddol* (adn. 3, 4).
    (*c*) *Perthynas neillduol* (adn. 5-6).

II. **Uwchafiaeth Crist ar Moses yn rheswm dros ei wrandaw** (adn. 7-11).
  (1) *Ymddygiad y genedl at ddysgeidiaeth Moses* (adn. 7-9).
    (*a*) *Caledu eu calonau* (adn. 7, 8).
    (*b*) *Temtio Duw* (adn. 9).
    (*c*) *Cyfeiliorni mewn meddwl* (adn. 10).
  (2) *Ymddygiad Duw at y genedl* (adn. 11).

III. **Dyledswydd yr Hebreaid yng ngwyneb hanes y genedl yn yr anialwch** (adn. 12-19).
  (1) *Gwylio rhag anghredu* (adn. 12).
  (2) *Ymdrech i gynghori* (adn. 13).
  (3) *Rhesymau dros y ddyledswydd* (adn. 14-19).
    (*a*) *Cyfranogion o Grist* (adn. 14),
    (*b*) *Lleferydd yr Ysbryd Glan* (adn. 15).
    (*c*) *Effeithiau anghrediniaeth y genedl* (adn. 16-19).
      (1) *Cyffroi Duw* (adn. 16).
      (2) *Digio Duw* (adn. 17).
      (3) *Tynu cosp Duw.*
      (4) *Achosi llw Duw* (adn. 18).
      (5) *Casgliad cyffredinol* (adn. 19).

1 Oherwydd paham, frodyr sanctaidd, cyfranogion o'r

I. Eglurhad.

Yn yr Adran I. dangosodd yr awdwr yn fanwl uwchafiaeth Crist ar yr angylion. Gofynol oedd gwneyd hyn fel y dangoswyd, oblegid syniad yr Iuddewon am le a gwaith yr angylion yn rhoddiad y ddeddf. Gan hyny, aeth yr awdwr i drafferth i ddangos rhagoriaeth Crist arnynt yn ei berthynas a Duw, yn ei fawredd personol, brenhinol, creadigol ; yn ei fuddugoliaeth ar ei holl elynion, yn narostyngiad y byd ysbrydol iddo, ac yn ei allu fel iachawdwr dynion. Datguddia y rhagoriaethau hyn y ddyledswydd o wrandaw ar ei leferydd o flaen yr holl angylion. Eithr y mae mater arall i'w ystyried, sef beth am Grist o'i gymharu ag arweinydd y genedl o'r Aifft a rhoddwr y ddeddf? Beth am dano pan osodir ef ochr yn ochr a'r Gwr Mawr hwn y credai y genedl gymaint ynddo? Rhaid i Grist fod yn un mawr i ragori arno ef. Beth am Josuah hefyd, a arweiniodd y bobl i Ganaan, yr orphwyfa ddaearol? Ammhosibl i'r Hebreaid dderbyn Crist heb ddeall ei fod yn rhywun mwy na'r rhai hyn. Yn ol eu syniad hwy, rhoddodd Duw y ddeddf i Moses trwy drefniant angylion ; traddododd Moses hi i'r bobl a chyhoeddodd Josuah hi ar ol cyrhaedd Canaan. Cwestiynau oedd raid iddynt godi yn eu meddyliau oeddynt, A ydyw yr Iesu yn fwy na Moses, rhoddwr ac esboniwr y ddeddf? A all ef arwain i ryw orphwysfa well nag yr arweiniodd Josuah ein tadau iddi ? Gwnaeth Moses bethau rhyfedd o flaen Pharaoh; holltodd y Mor Coch a gwnaeth wyrthiau mawrion yn yr anialwch. Cryn anhawsder oedd perswadio yr Hebreaid fod Crist yn fwy na dyn fel yma. Hefyd, chwareuodd Josuah ran bwysig yn hanes y genedl. Gwnaeth amryw wyrthiau trwy Dduw, a gwasgarodd y gelynion. Pa fodd y medrai yr Hebreaid lai na gofyn, A oedd Crist yn fwy na hwn? Cymer yr awdwr yr adran nesaf i brofi uwchafiaeth Crist ar y ddau, ac anog yr Hebreaid i fywyd pur ar sail hyny a phethau ereill.

I. **Dyledswydd yn codi o fawredd Crist fel Iachawdwr** (1-6).—(1) **Y ddyledswydd** (1).—(a) **Ystyried Crist fel Apostol.—O herwydd paham, frodyr sanctaidd, cyfranogion o alwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol.**—Gan fod Crist yn ddyn perffaith, wedi dioddef pob math o ddioddefiadau, wedi ei demtio, ac o ganlyniad yn medru cynorthwyo y rhai a demtir, bydded i ni ei ystyried. Cyfarcha yr awdwr hwynt

galwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad
ein cyffes ni, Crist Iesu ;
2 Yr hwn sydd yn ffyddlawn i'r hwn a'i hordeiniodd ef,

---

wrth eu hanog i'r ddyledswydd yn **frodyr sanctaidd**—ἀδελφοι ἅγιοι. Nid rhai personol sanctaidd yw y meddwl, ond rhai neillduedig—dynion wedi uno a chymdeithas sanctaidd. Hefyd, dywed eu bod yn gyfranogion o'r alwedigaeth nefol. Beth yw y meddwl? Nid (1) fod yr alwad gawsant o'r nef. Yr oedd hyny yn wir. Os galwyd hwy yn effeithiol, o'r nef y gwnaed hyny. (2) Eithr credwn mai galwad i fyw bywyd nefol sydd yma. Galwyd Moses at waith daearol, ond galwad yw un y saint i fyw bywyd nefol. Pethau nefol yw eu holl bethau. Dyna y dyledswydd gymhellir arnynt—ystyried yr Iesu. Beth yw ystyried? Golyga y ferf κατανοήσατε — "ystyriwch," nid rhoddi sylw yn unig, ond gwylio yn barhaus. Sefydlu y meddwl ar Grist er mwyn ei ddeall. Ymdrechu ei ddirnad fel Gwaredwr enaid. Ei ystyried fel Apostol yw y peth cyntaf. Beth yw apostol? Cenad oddiwrth Dduw at ddynion. Dyna oedd yr angylion—cenhadau oddiwrth Dduw at y byd. Eithr o'r ymgnawdoliad ym mlaen Crist yw Apostol Duw. Yn ei Fab y llefara ef yn awr ac nid yn y prophwydi a'r angylion. Gan y gwyr ef holl feddwl, calon ac ewyllys y Tad, efe yw yr unig un all fod yn wir Apostol Duw. Cymaint yw awdurdod ei leferydd ef a lleferydd Duw ei hunan. Gan hyny, dylid ei ystyried ym mawredd ei berson ac yn yr oll a lefara. Efe garia ewyllys Duw at y byd yn ei holl gynwys anfeidrol. (b) **Ystyried Crist fel archoffeiriad.—Ac archoffeiriad ein cyffes ni, sef Iesu.**—Beth yw archoffeiriad? Un yn genad dros ddynion at Dduw. Ni chafodd yr un angel yr anrhydedd yma. Er i'r angylion fod yn apostolion dros Dduw at ddynion, ni fuont yn archoffeiriaid dros ddynion at Dduw. Yng Nghrist cydgyferfydd y ddwy swydd. Dwg ef gwynion dynion at Dduw yn gystal a datguddio meddwl Duw i ddynion. Efe yw archoffeiriad eu cyffes hwy. Beth olygir wrth hyny? Cyffesent hwy y ffydd Gristionogol, ac efe oedd eu harchoffeiriad yn y gyffes hono. Arno ef y pwysa ei ganlynwyr am bob peth sydd yn gynwysedig yn y gyffes. Defnyddir y gair Iesu yma i ddangos mai fel Duw-ddyn y mae ef yn archoffeiriad. (2) **Rhesymau dros y ddyledswydd** (2-6).—(a) **Ffyddlondeb perffaith** (2).—**Yr hwn oedd ffyddlawn i'r hwn a'i penododd ef, megys Moses yn ei holl dy ef.**—Ei ffyddlondeb i

megys ag y bu Moses yn ei holl dy ef.

3 Canys fe gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant na Moses, o gymaint ag y mae yr hwn a adeiladodd y ty yn cael mwy o barch na'r ty.

4 Canys pob ty a adeiladir gan ryw un ; ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw.

Dduw, yr hwn a'i penododd ef i'r swydd yw y rheswm geir yma dros ei ystyried. Cyffyrddwyd a'r gweddau y bu ef yn ffyddlon ynddynt yn y benod flaenorol. Crynhoa yr awdwr yr oll yma i'r adnod dan sylw. Ffyddlondeb i'r hwn a'i gwnaeth ef yw sail y ddyledswydd. Gwneyd yw ystyr "penododd" yma, a deil rhai mai ei wneyd yn ddyn olygir; ond ni welwn fod y syniad yn un naturiol yn y fan hon. Gwneyd neu benodi i'r swydd o apostol ac archoffeiriad yw y syniad yn ddiddadl. Bu ef yn ffyddlon ym mhob peth, hyd yn oed marw dros ddynion er mwyn cyflawni ewyllys ei Dad. Gan fod ganddo wybodaeth drwyadl o'r holl ewyllys, gallodd fod yn ffyddlon ym mhob peth perthynol iddi. Yn nhy Dduw y bu ef felly, megys y bu Moses o'i flaen. Ty Dduw oedd yr eglwys dan yr Hen Oruchwyliaeth, a bu Moses yn ffyddlon yn y ty. Yr un modd am yr Iesu; ond mewn ystyr llawer uwch na Moses. (b) **Gogoniant uwchraddol** (3-4).—**Canys efe a gyfrifwyd yn haeddu gogoniant mwy na Moses, o gymaint ag y mae yr hwn a adeiladodd y ty yn cael mwy o barch na'r ty. Canys pob ty a adeiladir gan ryw un; ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw.**— Yma dechreua yr awdwr gymharu Moses a Christ. Gan ei fod yn gymaint uwchlaw Moses dylid ei ystyried. Haeddai ogoniant mwy na Moses gan mai efe adeiladodd y ty y bu yn ffyddlon ynddo. Pa ogoniant olygir yma ? (1) Y gogoniant o adeiladu ty medd rhai. Eithr ni allwn weled fod y syniad hwn yn gydweddol a'r cysylltiadau yma. (2) Gwell genym gredu mai y gogoniant gafodd Crist fel gwobr am ei waith ydyw ef (Pen. ii. 9). Ni chafodd Moses ogoniant fel hwn. Paham? Am nad efe oedd adeiladydd ty yr Hen Oruchwyliaeth. Gwas yn y ty oedd ef, ac nid adeiladydd. Crist oedd yr adeiladydd a Moses yn weinidog dano. Bu Crist yn ffyddlon fel adeiladydd a meistr y ty a Moses fel un ran o'r ty, a gwas ynddo. Yn hyn gwahaniaethant yn fawr. Eto, Crist adeiladodd y ty y bu Moses ynddo. Ty Crist oedd ef a gwas iddo oedd Moses. Gellir edrych ar yr Hen Oruchwyliaeth yn waith Crist yn gystal a gwaith y Tad. Gweithredai ef yn holl

5 A Moses yn wir a fu ffyddlawn yn ei holl dy megys
gwas, er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru ;
6 Eithr Crist, megys Mab ar ei dy ei hun : ty yr hwn
ydym ni, os nyni a geidw ein hyder a gorfoledd ein
gobaith yn sicr hyd y diwedd.

---

hanes y byd cyn yr ymgnawdoliad fel y gwelir ym mhen. i. 1-4. Gwelwn yn awr y dengys yr adnod fod Crist uwchlaw Moses fel (1) adeiladydd a threfnydd yr Hen Oruchwyliaeth, ac (2) adeiladydd a llywodraethydd yr Oruchwyliaeth Newydd. I egluro y peth yn fwy goleu, dwg yr awdwr adnod 4 i fewn Dengys yma naill ai (1) fod adeiladydd i bob ty, neu (2) drefnydd neu lywodraethydd iddo. Credwn mai yr olaf yw y syniad cywir yma. Rhaid cael trefnydd i bob goruchwyliaeth o eiddo Duw. Ei dy ef yw pob goruchwyliaeth a fu, ac sydd yn awr, a gesyd oruchwylwyr neu lywodraethwyr arnynt. Ond rhaid cofio ei fod ef ei hun tucefn i'r oll. Efe yw lluniwr, trefnwr a llywodraethwr gwreiddiol pob peth. Yn ol pen. i. 1-4, y mae Crist yn ogyfuwch a'r Tad fel Duw. Gan hyny, ei dy ef yw bob ty adeiladir gan ei Dad. Os mai y Tad yw ffynhonell wreiddiol cynllun, defnyddiau ac adeiladiad y ty, y Mab yw cyfrwng yr oll. Darllena llawer o'r tadau frawddeg olaf yr adnod, "ond yr hwn a adeiladodd bob peth sydd Dduw," er mwyn profi dwyfoldeb Crist. Eithr a pwysau y prif MSS. yn erbyn y darlleniad, ac hefyd, yr esbonwyr galluocaf. Cadw urddas a mawredd Duw yw amcan yr awdwr yma. Dangosodd ddwyfoldeb Crist yn ddigon eglur amryw weithiau o'r blaen. (c) **Perthynas neillduol** (5-6).—**A Moses yn wir ydoedd ffyddlawn yn ei holl dy megys gwas, er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru ar ol hyny; eithr Crist megys Mab, ar ei dy ef; ty yr hwn ydym ni, os nyni a geidw ein hyfdra a gorfoledd ein gobaith yn gadarn hyd y diwedd.**—Yn yr adnodau hyn symuda yr awdwr at uwchafiaeth arall o eiddo Crist ar Moses. Ffyddlondeb gwas yn nhy un arall oedd un Moses; ond ffyddlondeb Mab ar ei dy ei hun oedd un Crist. Gwahaniaetha perthynas y ddau a'r ty mewn amryw ffyrdd pan edrychom ar yr adnodau hyn a'r rhai a'u blaenorant :—(1) Crist oedd adeiladydd y ty y bu Moses yn ffyddlon ynddo a'r ty y bu ef ei hun yn flyddlon ynddo; (2) efe oedd trefnydd ty Moses, ac nid oedd Moses ond un weinai dano; (3) yr oedd Moses yn rhan o'r ty a Christ tu allan iddo; hyny yw, efe oedd crewr y ty; (4)

7 Am hyny, megys y mae yr Ysbryd Glan yn dywedyd, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef,

---

deilliodd gogoniant mwy i'r Iesu oddiwrth y ty na Moses am mai efe oedd ei lunydd; (5) bu ei ffyddlondeb yn un mwy nag eiddo Moses am ei fod yn Fab ac nid gwas. Gwelir felly fod ei berthynas ef a'r ty yn un neillduol, rhagorach a chyfoethocach nag eiddo Moses. Heblaw hyny, yr oedd ei berthynas a'r Tad, crewr gwreiddiol ty Moses a thy Crist, yn un neillduol. Perthynas Mab oedd yr eiddo ef a Duw, ond perthynas gwas oedd un Moses. Dywed Duw yn Num. xii. 7, fod Moses ei was yn ffyddlon yn ei holl dy; ond ni ddywedir mai ffyddlondeb gwas oedd eiddo Crist; eithr un Mab. Beth yw amcan yr awdwr yn cymharu ty Moses a thy Crist yma? Arwain yr Hebreaid at wirionedd brawddeg olaf adn. 6 yn fwyaf uniongyrchol, sef, **Ty yr hwn ydym ni os nyni a geidw ein hyfdra a gorfoledd ein gobaith yn gadarn hyd y diwedd.**—Peth mawr oedd bod yn nhy Moses, yr hwn nad oedd ond gwas. Cafodd y genedl Iuddewig y fraint o fod yn dy i'r prophwyd a'r deddfroddwr mawr hwn; ond braint lawer mwy oedd bod yn dy Crist. Ffigwr nodedig yw yr un o dy i osod allan eglwys Crist. Efe yw bywyd y ty, ei drefnydd, ei ddodrefnydd, ei geidwad a'i gynhalydd. Y ni, meddai yr awdwr, yw ei dy ef ond i ni lanw dau amod. Y ddau hyn ydynt, hyfdra a gorfoledd gobaith. Edrycha gobaith i'r dyfodol, a phan fyddo yn iawn medd hyfdra sanctaidd, ni pherthyn iddo ofn. Eithr gall golli yr hyfdra hwn a myned yn wan os na chedwir ef yn gadarn. Rhaid ei ymarfer o hyd, gwynebu pob anhawsder a chadw y meddwl yn sefydlog ar Grist, gwrthddrych y gobaith. Ynddo ef y bodola yr holl addewidion am y nefoedd a'i mwynhad dyfodol. Hefyd, gofynol cadw gorfoledd y gobaith yn gadarn yn gystal a'i hyfdra. Pa fodd i wneyd hyny? Wrth ymarfer y gobaith. Rhaid ymarfer pob gwedd ar obaith os am ei gadw yn fyw; a rhaid arfer pob gwedd arno yn barhaus. Beth yw gorfoledd gobaith? Yr ymffrost sanctaidd sydd mewn gobaith pur. Tyr hwn allan yn llawenydd weithiau. Cadw neu lanw y ddau amod hyn hyd y diwedd, neu yn barhaus, a wnai yr Hebreaid yn dy Crist.

II. Uwchafiaeth Crist ar Moses yn rheswm dros ei wrandaw (7-11).—Wedi dangos uwchafiaeth Crist yn nhy Dduw ar Moses, a yr awdwr ym mlaen i ddangos effaith anghredu i ddysgeidiaeth Moses yn yr anialwch. Dyma rydd sylfaen ddiysgog i'r gymharieth rhwng y

8 Na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffroad, yn nydd y profedigaeth yn y diffaethwch :

---

ddau berson. Amcanai yr awdwr, drwy eu cymharu, i roddi gwers iddynt. Dyfyna o Salm xcv. hanes anghrediniaeth y genedl yn yr anialwch, gan briodoli y geiriau i'r Ysbryd Glan. Tybir nad Dafydd oedd awdwr y salm hon, er y priodola y LXX. hi iddo. Gan na cheir sail i'r honiad mai efe oedd ei hawdwr yn y Beibl Hebraeg, deil esbonwyr dysgedig a galluog mai ar ol y caethiwed yn Babilon y cyfansoddwyd hi. Eithr nid a hyn y mae a fynom ni yn awr, ond yn hytrach a'r gwirionedd sydd ynddi. (1) **Ymddygiad y genedl at ddysgeidiaeth Moses** (7-9).—(a) **Caledu eu calonau** (7, 8).—**Am hyny, megys y mae yr Ysbryd Glan yn dywedyd, Heddyw os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffroad, megys yn nydd profedigaeth yn y diffaethwch.**—Anhawdd iawn gwybod a pheth y mae cysylltu yr "am hyny"yma. Amrywia esbonwyr yn fawr ar hyn. (1) Cysyllta un dosbarth hwynt ag adnod 8, a darllenant "Am hyny, na chaledwch eich calonau." (2) Myn ereill fod yr awdwr yn colli y gystrawen yma, a honant nad oes yma ddim yn cyfateb i'r geiriau "am hyny." Tybiant felly nad oes ystyr resymegol iddynt. (3) Cydia rhai hwynt ag adnod 12, a darllenant, "Am hyny, frodyr, etc." Deil yr esbonwyr hyn mai cromfachol yw yr adnodau o'r geiriau "Am hyny" hyd ddiwedd adn 11. Cryfach yw y rhesyman o blaid y syniad hwn nag un o'r lleill. Efe yw y mwyaf cydweddol a rhediad yr ymresymiad. Yn ol yr awdwr, geilw yr Ysbryd Glan ar y bobl i ochelyd caledu eu calonau fel y gwnaeth y bobl pan lefarodd Moses wrthynt. Cymhwysa yr awdwr y dyfyniad at ei ddarllenwyr, gan eu hanog i beidio dilyn siampl y genedl. Defnyddia y gair "heddyw" i ddangos yr angen am frys, y pwys i beidio colli amser, rhag i'w calonau galedu yn debyg i'r genedl yn nydd y prawf. Beth olyga "calon" yma ? Holl alluoedd gweithredol ysbryd dyn. Ei allu i ddirnad, deall, penderfynu, gweithredu a dychmygu. Trwy beidio gwrando ar lais Duw trwy Moses caledodd gallu eneidiau y bobl i dderbyn argraffiadau. Pa fodd y caleda dyn ei galon ? (1) Trwy beidio gwneyd pethau a'i ceidw hi yn dyner ac agored i argraffiadu da. Rhaid gweithredu yn barhaus weithredoedd o natur neillduol i gadw yr enaid yn agored i argraffiadau Ysbryd Duw. (2) Trwy wneyd pethau dueddant yn uniongyrchol i ddifodi y gallu i dderbyn argraffiadau oddiwrth yr Ysbryd Glan.

9 Lle y temtiodd eich tadau fyfi, a profasant fi, ac y gwelsant fy ngweithredoedd ddeugain mlynedd.

Drwy y ddau beth hyn daw dyn yn awdwr ei galedwch a'i anallu moesol i dderbyn pethau dwyfol. Beth olygir wrth y cyffroad, adn. 8? Meribah yw y gair am dano yn y Beibl Hebraeg a chredir mai enw lle ydyw y bu y genedl ynddo. Cyfieithodd awdwyr y LXX. ef yn "cyffroad." Dichon mai y rheswm am hyny oedd cyffroad Moses pan rwgnachodd y bobl am dwfr yn Meribah. Mewn canlyniad i hyny, tarawodd Moses y graig heb siarad a hi. Dyma'r achos na chafodd fyned i Wlad yr Addewid gan Dduw. (Gwel Num. xx. 13.) Nid yr un yw cyfieithiad y LXX. a'r Hebraeg o'r geiriau "fel yn nydd y prawf." Darllena'r Hebraeg fel yn nydd Massah. Lle oedd Massah a chawn i'r genedl duchan am ddwfr yma eto, a dyna'r rheswm dros alw y lle yn Massah. A Num. xx. a Deut. xxxiii. 8 i brofi hyn. Er gweled gallu Duw gynifer o wethiau, a'i drugaredd tuag atynt, caledu eu calonau a wnaethant. Os bu eu cosp hwy mor ofnadwy wrth wrthod gwrandaw Moses, fel pe y dywedai yr awdwr, beth fydd cosp rhai na wrandawant Grist. Y mae ef yn annhraethol uwchlaw Moses. Enwir y ddau le yma am fod y cyntaf, sef Meribah, ar ddechreu eu taith yn yr anialwch, a'r llall tua'r diwedd. (b) **Temtio Duw** (9).—**A'r hyn y temtiodd eich tadau fi trwy fy mhrofi, ac y gwelsant fy ngweithredoedd ddeugain mlynedd.**—Y wedd bersonol osodir allan yn y caledu wnaethant ar eu calonau; ond yn eu temtiad o Dduw datguddir y wedd wrthddrychol. Nid arnynt hwy yn unig yr effeithiai eu hym ddygiad. Effeithiai ar Dduw hefyd. Beth feddylir wrth iddynt ei demtio? Amheu ei allu i gyfarfod a'u hangen am ddwfr—gwrthod ei gredu. Y modd y gwnaethant hyn oedd drwy ei brofi. Beth oedd ei brofi? Amheu ei barodrwydd i ddiwallu eu syched yn gystal ag amheu ei allu. Dyma'r unig ffordd y gellir temtio Duw. (Gwel Traethawd.) Temtiasant ef er gweled ei ddaioni mawr iddynt am ddeugain mlynedd, a'i farnau arnynt am eu pechodau. Cymer "gweithredoedd" yma i fewn y trugareddau gwyrthiol a'r barnau cosp awl fu yn eu hanes trwy holl daith yr anialwch. Ymddygodd atynt yn ol rheol unffurf a diduedd am y deugain mlynedd. Ac yn ol yr Hebraeg gwelsant hwythau ei waith, ac nid ei weithredoedd—y rhif lluosog fel yn y LXX. Caledu am ddeugain mlynedd wnai eu cyfrifoldeb

10 Am hyny y digiais wrth y genhedlaeth hono, ac y dywedais, Y maent bob amser yn cyfeiliorni yn eu calonau, ac ni adnabuant fy ffyrdd i :
11 Fel y tyngais yn fy llid, na chaent ddyfod i mewn i'm gorphwysfa.

---

yn ofnadwy. Ofer yw y syniadau fynegir i roddi rheswm am nodi y deugain mlynedd, megys (1) fod cred ym mhlith yr Iuddewon y dychwelai y Messiah ar ol deugain mlynedd i farnu'r byd; (2) fod deugain mlynedd oddiar pan gychwynodd Crist ei weinidogaeth gyhoeddus ac y dylasai darllenwyr yr Epistol wrandaw arno rhag digwydd iddynt yr un peth a'r genedl yn yr anialwch. Dygir y syniadau hyn i fewn am y cysylltir y geiriau a **digiais** yn yr Hen Dest.—"deugain mlynedd y digiais," ac nid ag a "gwelsant fy ngweithredoedd." Y pwynt wasga yr awdwr ar ei ddarllenwyr yw yr amser maith y gwelsant weithredoedd Duw, ac nid oedd dim anheg mewn newid cysylltiad y geiriau i ateb ei amcan. (c) **Cyfeiliorni mewn meddwl** (10).—**Am hyny y digiais wrth y genedlaeth hon, ac y dywedais, Y maent bob amser yn cyfeiliorni yn eu calonau; ond nid adnabuant fy ffyrdd.**—Ni fyddai y darlun o bechod y genedl yn gyflawn heb yr adnod hon. Cyflwr anagored yr enaid i dderbyn argraff yw y peth cyntaf yn ei hanes; ei hanghrediniaeth yn tori allan i brofi Duw yw yr ail, a chyfeiliornad meddwl yw ei thrydydd pechod. Trwy galon galedwch ac anghrediniaeth tywyllodd meddwl y bobl fel nad allent ddeall pethau. Methent a chanfod, na theimlo gwahaniaethau moesol ac ysbrydol. Gan hyny, cyfeiliornent bob amser. Nid llithro yn awr ac eilwaith a wnaent, ond byw i gyfeiliorni. Nid adwaenent ffyrdd Duw oblegid y cyflwr y dygasant eu meddyliau iddo. Anfoddlonodd Duw iddynt, neu digiodd yn ddwys wrthynt. Dangosai ei ffyrdd iddynt yn barhaus, ond nid adwaenent hwynt oblegid cyflwr eu meddyliau. (2) **Ymddygiad Duw at y genedl** (11).—**Fel y tyngais yn fy llid, na chaent hwy ddyfod i mewn i'm gorphwysfa.**—Gwelsom ymddygiad y genedl at ddysgeidiaeth Duw drwy Moses yn y tri pheth blaenorol; caledodd ei chalon, temtiodd Dduw a chyfeiliornodd yn ei meddwl. Beth fu ymddygiad Duw ati hithau yng ngwyneb hyn? (1) Digiodd wrthi. Dywed hyn yn bendant yn yr adnod flaenorol. Ni allasai Duw sanctaidd lai na digio wrth bobl mor wrthnysig a chalon galed. Troent ei holl fendithion yn fanteision i bechu. (2) Tyngodd na chaent fyned

12 Edrychwch, frodyr, na byddo un amser yn neb o honoch galon ddrwg anghrediniaeth, gan ymadaw oddi wrth Dduw byw.

---

i Ganaan. Parodd ei ddigofaint atynt am eu bywyd pechadurus iddo dyngu yn ei lid na chaent etifeddu Canaan. Ei ddigofaint atynt oedd achos ei benderfyniad i'w rhwystro i Wlad yr Addewid. A oes llid yn Nuw? Oes; ond nid llid pechadurus fel sydd mewn dyn. Llid sanctaidd yn erbyn pechod yw yr eiddo ef. Nid nwyd gynddeiriog fel sydd mewn dyn yw ei lid, yr hon a ddiflana ar ol y llosga ei hun allan, ond cyflwr sanctaidd parhaus cyhyd ag y byddo y pechadur yn ei bechod. Y mae ef yn "ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol." Y digllonedd yma rwystrodd y genedl bechadurus i'r orphwysfa. Dau, sef Caleb a Josuah yn unig o'r genhediaeth ddaeth o'r Aifft, aethant i mewn i Ganaan. Os felly, beth fydd rhan y rhai na wrandawant ar ddysgeidiaeth Crist?

III. Dyledswydd yr Hebreaid yng ngwyneb hanes y genedl yn yr anialwch (12-19).—(1) **Gwylio rhag anghredu** (12).—**Edrychwch frodyr, rhag y dygwydda fod yn neb ohonoch galon ddrwg o anghrediniaeth, yn syrthio ymaith oddi wrth y Duw byw.**—Fel y dangoswyd uchod, y mae yr oll sydd rhwng yr adnod hon ac adn. 7 i fod rhwng cromfachau. Cynwysa adn. 12 gynghor difrifddwys. Mor arswydus oedd hanes anghrediniaeth yr anialwch fel y rhybuddia yr awdwr ei ddarllenwyr yn y modd dwysaf. Gall, meddai, ddigwydd fod yn rhai ohonoch galon drwg—calon ddiffydd, calon a thuedd i anghredu pethau mawrion pwysig yr iachawdwriaeth draethodd Crist. Canlyniad meddu'r fath galon fyddai ymadael oddiwrth Dduw byw. Dieithra cyflwr pechadurus yr enaid oddiwrth Dduw bob amser. Pwy yw y Duw byw? (1) Crist, medd rhai, a dyna'r rheswm nad oes fanod o flaen Duw yn y Roeg meddant hwy. (2) Duw Dad feddylir yma, ac nid Crist. Siarad am dano ef wnai yr awdwr yn yr adnodau blaenorol. Bydd y fanod allan yn fynych o flaen Duw yn y Beibl os bydd angen galw sylw neillduol ato. Paham y gelwir ef yn Dduw byw? Dichon mai er mwyn ei wahaniaethu oddiwrth eilunod, neu er mwyn dangos fod ganddo allu i wneyd fel y gwnaeth a'r genedl yn yr anialwch os na ufuddheid i'w leferydd drwy ei Fab. Ond y peth tebycaf yw, mai er mwyn galw sylw at ei gymeriad y gwneir hyn. Duw byw—Θεου ζῶντος—ddefnyddir pan elwir sylw at gymeriad Duw yn hytrach nag at ei berson.

13 Eithr cynghorwch eich gilydd bob dydd tra y gelwir hi Heddyw ; fel na chaleder neb o honoch drwy dwyll pechod.
14 Canys fe a'n gwnaed ni yn gyfranogion o Grist, os daliwn ein hyder yn sicr hyd y diwedd ;

Dengys y gair **byw** ei fod yn llawn meddylgarwch a gweithrediad. (2) **Ymdrech i gynghori** (13).—**Eithr cynghorwch eich gilydd bob dydd, tra y gelwir hi heddyw; fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod.**—Gallasai fod llawer yn eu plith a thuedd i adael Duw; gan hyny, eu dyledswydd oedd cynghori yn gystal ag edrych, gwylio a chael allan ym mhwy yr oedd calonau drwg. Yr oedd ymadael oddiwrth Dduw yn cynwys colledigaeth yr enaid, a phwysig oedd cynghori neu anog eu gilydd yn ddioedi. Dyledswydd oedd arnynt i wneyd hyny bob dydd. Dyna ystyr y geiriau "Tra y gelwir hi heddyw." Bydd dynion yn byw bob eiliad a thyfa bywyd i gyfeiriad y drwg neu y da yn gyson. Dylid, gan hyny, ddefnyddio pob mantais i anog rhai y credir eu bod yn cyfeiliorni. Geilw amryw bethau am wneyd hyn, megys (1) cyfleusdra. Os na wneir pan fydd cyfleusdra dichon na cheir ef byth ond hyny; (2) dadblygiad cyson bywyd. (3) byrder ac ansicrwydd einioes; (4) galwad Duw am i ddynion i wneyd hyny; (5) y pwysicrwydd tragywyddol o beidio gwneyd, a (6) perygl oddiwrth yr amgylchoedd. Daw hyn i'r golwg yn y geiriau, "fel na chaleder neb ohonoch trwy dwyll pechod." Gwelir yma fod dynion yn oddefol, sef yn cael eu caledu, ac nid yn caledu eu hunain fel yn adn. 8. Dylanwada pechod yr amgylchoedd arnynt nes eu caledu heb yn wybod iddynt. Personolir pechod yma ac edrychir arno fel un all dwyllo. Bydd y pleser sydd mewn pechod, a'r wedd ddeniadol sydd arno yn fynych yn twyllo dynion, ac ä eu calon i gyflwr o anghrediniaeth yn llawer cynt na phe baent mewn amgylchoedd dibechod. Hefyd, medr ymlyniad wrth hen bethau sydd wedi colli pob rhinwedd a gwerth moesol, neu syniadau cyfeiliornus galedu'r meddwl. Nid am fod amcan gan ddynion i galedu eu hunain yr ant ar gyfeiliorn pan dan ddylanwad y pethau hyn, ond am y twyllir hwy. (3) **Rhesymau dros y ddyledswydd** (14-19).—(a) **Cyfranogion o Grist** (14).—**Canys ni a ddaethom yn gyfranogion o Grist, os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd.**—Dyma reswm ychwanegol. Hanes y rhai bechasant yn yr anialwch oedd y rheswm blaenorol ac uwchafiaeth Crist ar Moses.

15 Tra y dywedir, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffroad.

Dylasai dynion oeddynt yn gyfranogion o Grist wylio a chynghori rhag caledu eu calonau, ac hefyd rhag cael eu caledu am eu bod yn gyfranogion ohono. Ym mha ystyr yr oeddynt felly? Mewn cyfranogi o'i anian ac o'r Ysbryd Glan. Eithr nid oedd hyny yn ddigon heb iddynt ddal yn dyn a diollwng yn nechreuad eu hyder, neu eu hyder sylweddol. Nid rhyw fath o hyder oedd yr eiddynt hwy, ond un a sylwedd ysbrydol ynddo. Rhaid oedd ei ddal hefyd **yn sicr hyd y diwedd.** Rhaid dal gafael yn gadarn a diollwng yng ngwyneb pob anhawsderau yn gyntaf, a dal felly hyd y diwedd yn ail. Pa diwedd? (1) Diwedd bywyd ar y ddaear, (2) diwedd y prawf fydd ar yr hyder, neu (3) diwedd dadblygiad yr hyder. Ymddengys mai y cyntaf o'r tri yw y syniad cywir. Profir hyder cyhyd ag y byddwn yn y byd hwn, ac o ganlyniad, rhaid fod y diwedd yn cynwys diwedd ein bywyd yn y byd. Wrth ei ddal yn sicr y gellir ei ddadblygu: Tyf wrth ei arfer fel pob rhinwedd a gras. (b) **Lleferydd yr Ysbryd Glan** (15).—**Tra y dywedir, heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffroad.**—Rhydd yr adnod hon anhawsder mawr, oblegid na ellir yn hawdd ddeall ei chysylltiadau. (1) Myn Dr. Westcott mai ag adn. 13 y dylid ei chysylltu. Os felly, geiriau cromfachol yw adn. 14, a'r darlleniad yw, "Eithr cynghorwch eich gilydd bob dydd, tra y gelwir hi heddyw, tra y dywedir, heddyw os gwrandewch ar ei leferydd ef." Y meddwl felly yw, anogwch eich gilydd gan fod yr Ysbryd Glan yn dyweyd wrthych. Gwna y darlleniad hwn synwyr cryf a dwg ym mlaen reswm effeithiol dros i'r Hebreaid gyflawni y ddyledswydd a gymhellir arnynt. (2) Deil ereill fod dechreu yr adnod i'w chysylltu a'i diwedd, sef â **na chaledwch eich calonau fel yn y cyffroad** Y meddwl felly yw, gwrandewch yn awr ar leferydd yr Ysbryd Glan fel na chaledwch eich calonau. (3) Syniad rhai yw mai a'r adn. 1 yn y benod nesaf y dylid ei chysylltu, ac mai geiriau cromfachol yw yr adnodau ereill i ddiwedd y benod hon. Ammhosibl derbyn y syniad hwn oblegid y mae yn rhy annaturiol, ac anghyson a dull cyffredin yr awdwr. (4) Cysyllta amryw hi a'r adnod flaenorol yn uniongyrchol a darllenant fel hyn, "Os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd, tra y dywedir, Heddyw os gwrandewch ar ei leferydd ef." Y mae hwn eto yn ddarlleniad synwyrol ac yn dangos fod dal dechreuad

16 Canys rhai, wedi gwrandaw, a'i digiasant ef : ond nid pawb a'r a ddaethant o'r Aipht drwy Moses.
17 Ond wrth bwy y digiodd efe ddeugain mlynedd ? onid wrth y rhai a bechasant, y rhai y syrthiodd eu cyrph yn y diffaethwch ?

---

ein hyder yn pwyso ar wrandaw yn gyson, neu tra y gelwir hi heddyw, ar leferydd yr Ysbryd. Ymddengys i ni mai hwn yw y syniad cryfaf a mwyaf naturiol. Nid oes dim yn ei erbyn yn y gystrawen chwaith. Pa un bynag o'r syniadau hyn wna gyfiawnder a chysylltiad yr adnod nid oes amheuaeth am yr hyn a gynwysa. Neges yr adnod yw, bod rheswm dros fywyd glan a gweithgar yn fod yr Ysbryd Glan yn anog i hyny. Geilw hwy i beidio caledu eu calonau fel y gwnaeth eu cyndeidiau yn yr anialwch. (c) **Effeithiau anghrediniaeth y genedl** (16-19)—(1) **Cyffroi Duw** (16)—**Canys pwy, wedi iddynt glywed, a gyffroiasant ei ddigofaint? Na; Oni wnaeth pawb a ddaethant allan o'r Aipht trwy Moses?**—Dyma reswm ychwanegol dros beidio caledu eu calonau. Dau ofyniad yw yr adnod. Gofynir y cyntaf er mwyn gofyn yr ail. Pwy oedd y rhai glywsant Dduw yn llefaru ar fynydd Sinai a'i cyffrodd trwy eu calon-galedwch ? Cafodd y genedl fantas eithriadol i gredu ; oblegid clywodd, yn ol y gofyniad, y Duw anfeidrol yn llefaru. Cawsant fel cenedl y Deg Gorchymyn o law Moses fu ar y mynydd yn siarad wyneb yn wyneb a Duw. Ond beth fu y canlyniad ? Caledasant eu calonau nes cyffroi digofaint yr Anfeidrol. Er cael y manteision mwyaf, aethant yn eithafol anffyddol o ran eu natur foesol. Nid rhai ohonynt syrthiodd i'r cyflwr hwn chwaith, ond yr oll o'r 600,000 pobl ond Caleb a Josuah. Golyga "cyffroad" yma enyn digofaint, gosod profedigaeth, cynhyrfu Duw. Cyfeiriad sydd yma at amgylchiad neillduol, fel un o'r rhai y cyfeiriwyd atynt yn adnod 8-9. Dylasai y ffaith i'r genedl gyffroi Duw fod yn wers i ddarllenwyr yr Epistol. Gan i galon-galedwch y genedl gyffroi Duw, gwnai eu calon-galedwch hwythau yr un peth. Rheswm cryf oedd effaith calon-galedwch y genedl ar Dduw dros i'r Hebreaid wylio rhag myned yr un cyflwr. Anghredodd y genedl er gwyrth y Mor Coch a gwyrthiau yr anialwch. (2) **Digio Duw** (17).—**Ac wrth bwy y digiodd efe ddeugain mlynedd? onid wrth y rhai a bechasant.**—Heblaw cyffroi Duw am eu pechod a'r amgylchiadau neillduol, digiasant Dduw am ddeugain mlynedd. Meddwl cyffroi

18 Ac wrth bwy y tyngodd efe, na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef ? onid wrth y rhai ni chredasant ?

---

fel y dangoswyd, yw enyn dig ar y pryd pan gyflawnir gweithred neillduol; ond golyga digio gyflwr parhaus. Bu y genedl fyw am ddeugain mlynedd yn ei phechod ac ni allasai Duw lai na pharhau yn ddigllawn wrthi. Nid ei gyffroi am ychydig oblegid gweithred neillduol a wnaeth y bobl hyn, ond ei gadw mewn dig trwy fyw bywyd anghrediniol gyda chysondeb. Buasai ef yn maddeu iddynt am syrthio am dro, neu gyfeilliorni mewn barn, ond ni allasai faddeu am fywyd parhaus o bechu yn ei erbyn. Caent bob mantais ganddo i edifarhau, a gwnai hyny eu cyfrifoldeb yn llawer mwy. (3) **Tynu cosp Duw.—Y rhai y syrthiodd eu cyrph yn y diffaethwch.**—Dyma gosp Duw arnynt. Ni chafodd ond dau o'r holl genedl feddiannu Canaan. Gall y frawddeg hon olygu syrthiad aelodau eu corph oddiwrth eu gilydd. Dichon fod hyny yn wir am lawer iawn ohonynt. Hawdd credu i heintiau lawer i ymddangos yn eu plith yn ystod y deugain mlynedd, y rhai gymerent y ffurf o wahanu yr aelodau fel y gwahanglwyf. Dyma effaith rhai heintiau a chlefydau ar gyrph dynion. Neu gall olygu fod eu celaneddau yn y diffaethwch ar hyd wyneb y ddaear. Eithr nid hwn yw pwynt pwysig y frawddeg, ond yn hytrach fod y genedl wedi tynu cosp Duw arni. Bu feirw y bobl oherwydd eu pechodau yn ei erbyn. Tynasant gosp Duw arnynt o'u gwirfodd, a hyny er yr holl amlygiadau o drugaredd a daioni a gawsant oddiar ei law. Rheswm cadarn yw hwn dros i'r Hebreaid beidio caledu eu calonau rhag tynu arnynt eu hunain yr un gosp. (4) **Achosi llw Duw** (18).—**Ac wrth bwy y tyngodd efe na chaent fyned i mewn i'w orphwysfa, onid wrth y rhai oeddynt yn anufudd?**—Ceir esgyneb yn effeithiau anghrediniaeth y bobl ar Dduw yn yr adnodau hyn. Peri cyffro digofus ym meddwl Duw yw yr effaith cyntaf; yr ail yw ei gadw yn ddigofus trwy bechod parhaus. Llawer dyfnach effaith yw hwn na'r cyntaf. Y mae y trydydd yn ddwysach effaith eto. Tyn hwn Dduw i'w cospi. Yn y pedwerydd effaith cyrhaeddwn yr eithafbwynt. Gwnaeth eu pechod i Dduw dyngu na chaent fyned i Ganaan. Wrth dyngu y golygir dyweyd yn bendant a phenderfynol, dyweyd mewn modd nad oedd troi yn ol i fod arno. Dangosir Duw yma fel dyn yn tyngu ar ol gwneyd ei feddwl i fyny yn bendant, a hyny ar sail rhesymau digonol. Gorphwysfa Duw yma

19 Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd anghrediniaeth.

---

oedd Canaan ; hyny yw, efe a'i haddawodd hi i'r genedl. Efe oedd perchenog y wlad ac ar ei law ef y dibynai ei rhoddi i'r genedl neu beidio. Oblegid anufudd-dod parhaus y bobl tyngodd na chawsent ei meddiannu a chadwodd at ei air. Dylid cofio fod mwy yn gynwysedig yn yr orphwysfa na Chanaan. Nid oedd y Ganaan ddaearol yn hysbyddu gorphwysfa Duw. (5) **Casgliad cyffredinol** (19).—**Ac yr ydym yn gweled nad allent hwy fyned i mewn o herwydd anghrediniaeth.**—Edrycha yr adnod hon yn ol dros yr holl ymresymiad parthed calon-galedwch y genedl. Wedi dangos fod Duw wedi ei gyffroi, ei ddigio, ei dynu i gospi a thyngu, dengys yr awdwr nad yn Nuw y bodolai achos methiant y genedl i gyrhaedd Canaan, ond yn hytrach yn y bobl eu hunain. Ni allent hwy fyned i mewn. Paham? Am fod eu mynediad i Ganaan yn pwyso ar eu hufudd-dod i Dduw yn eu holl fywyd moesol. Siaradai Duw a hwy drwy Moses yn gyson, ond ni wrandawent ac ni ufuddhaent. Rhybuddiai hwynt rhag pechod, cospai hwynt am eu pechod; bendithiai a gwobrwyai hwynt pan gadwent ei ffyrdd mewn rhyw bethau am ychydig amser, ond ni wnai dim beri iddynt ufuddhau. Rhoddai ddigon o arwyddion iddynt o'i natur, ei hollalluogrwydd, ei hollbresenoldeb, ei gariad, ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd, ond ni chredent. Gan hyny, ni allent fyned i fewn gan mai ufudd-dod a ffydd oedd yr amodau gofynol i feddiannu'r wlad. Anallu moesol, gan hyny, a'u cadwodd allan. Os felly y bu hi yn hanes rhai wrandawsant Dduw trwy Moses, beth am y rhai a'i gwrandawsant drwy y Mab? Iachawdwriaeth fechan oedd meddiant o wlad Canaan, iachawdwriaeth fawr yw meddiant o nefoedd. Y gyntaf y traethai Moses am dani; yr ail a gyhoeddwyd gan y Mab.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Efryder hanes yr archoffeiriadaeth Iuddewig.
Casgler yr hanes am Moses geir yn yr Hen Destament.
Astudier y priodoldeb o alw Duw yn adeiladydd ty.
Dilyner hanes y genedl trwy yr anialwch nes dyfod i Ganaan.
Perthynas yr Ysbryd Glan a'r Ysgrythyrau ac a'r Mab.
Y deddfau meddyliol weithredant yng nghaledwch calon.

Cysylltiad anghrediniaeth a chaledwch calon.
Perthynas Duw a pherthynas dyn a chaledwch calon.
Y modd y par caledwch calon i ddyn fethu gweled ffyrdd Duw.
Dylanwad anghrediniaeth ar Dduw.

III.—Traethawd.

CALEDWCH CALON AC EWYLLYS DYN (8).

Drwy y benod hon gwelir mai ewyllys dyn ei hunan yw achos ei galedwch calon. Rhaid fod hyny yn gywir onide ni fyddai dyn yn gyfrifol am ei galedwch. Ffrwyth cwrs-weithrediad o eiddo yr ewyllys yw caledwch hefyd, ac nid cynyrch un weithred. I ddeall y mater hwn rhaid edrych ar yr ewyllys yn ei pherthynas a nifer o bethau :—

I. Yr ewyllys a syniadau ymwybyddiaeth.—Daw i'n hymwybyddiaeth syniadau da, diniwed, drwg ac aflan. Gan yr ewyllys y mae gallu i ddewis rhwng y rhai hyn. Os dewisa hi y rhai da yn ddieithriad, y canlyniad fydd dadblygiad bywyd da, bywyd dderbynia argraffiadau da oddiwrth Dduw yn ei holl ymwneyd a'r enaid. O'r tu arall, gall yr ewyllys ddewis syniadau diniwed ynddynt eu hunain, ond a'i tueddant wrth eu byw at y drwg. Syniadau diniwed ynddynt eu hunain yw enill arian, ymdrechu am fywoliaeth, ceisio dillad clyd a thai gwych, ond os ä holl fywyd yr ewyllys i ddewis y pethau hyn, llygrant yr enaid a gwnant ef yn anagored i argraffiadau da ac ysbrydol. A yr enaid yn fydol drwy ddylanwad y cyfryw ddewisiad. Eto, gall yr ewyllys ddewis syniadau drwg ac aflan a'u troi yn rhan o fywyd ymwybodol yr enaid. Sudda y rhai hyn i is-ymwybyddiaeth yr enaid, a deuant yn egwyddorion gweithredol ei fywyd. Y canlyniad yw yr a yr enaid yn hollol anagored i argraffiadau da o unrhyw fath. Gan yr ewyllys y mae gallu i ddewis syniadau llywodraethol bywyd a'r syniadau hyn yn rhanol benderfynant galedwch neu dynerwch yr enaid neu y galon.

II. Yr ewyllys a theimladau ymwybyddiaeth.—Bydd teimlad yn yr enaid yn barhaus pan yn ymwybodol. Ymdona ynddo fel y mor, ac fel trai a llanw y mor ni fydd bob amser yr un uchder. Bydd weithiau yn ddwys iawn, a phryd arall yn llai dwys. Hefyd, bydd y teimladau hyn fel syniadau yr enaid—rhai ohonynt yn dda, cariad-

lawn, diniwed, drwg ac aflan. Medr yr ewyllys ddewis pa rai ohonynt i'w troi yn rhan o fywyd yr enaid. Os dewisa hi y rhai da a chariadlawn, par hyny i ddrysau yr enaid fod yn agored i bob argraff dda oddiwrth ddynion a Duw. Gwna y teimladau hyn yr enaid yn dyner i dderbyn argraffiadau daionus o bob cyfeiriad. Os dewisa hi drol teimladau bydol, drwg ac aflan yn rhan o fywyd yr enaid, caua allan bob argraff dda ohono. Gwna ef yn raddol yn rhy galed i deimlo nerth daioni o un math.

III. Yr ewyllys a'i hamgylchoedd.—Yn yr amgylchoedd ceir drwg a da. Pa le bynag y trig dyn bydd dynion moesol ac anfoesol o'i gwmpas, ac ni all lai na derbyn dylanwad oddiwrthynt. Gall ei ewyllys dderbyn a gwrthod y dylanwad hwn. Os mai y da ddewisa, da y dadblyga yr enaid, ond os drwg a ddewisa, yna ymgaleda yr enaid. Caua dewis un dylanwad i fewn y llall allan. Y ddeddf yn y cysylltiad hwn yw, y dewisa yr ewyllys ddrwg y dylanwad drwg, a dewisa yr ewyllys dda y dylanwad da. Ym mhellach, gwna ymdrech i wrthod dewis dylanwad da yr ewyllys ddrwg yn waeth a'r enaid drwg yn fwy llygredig, tra y gwna ymdrech i wrthod y drwg yr ewyllys dda yn well a mwy dadblygedig a sanctaidd. Fel hyn try dylanwad da yn arogl bywyd i fywyd i'r dyn da, ac arogl marwolaeth i farwolaeth i'r dyn drwg.

IV. Yr ewyllys a Duw.—Da yw pob peth ddaw oddiwrth Dduw i ddyn. Eithr try yr ewyllys ddrwg hwy yn felldith i'r enaid. Wrth wrthod derbyn daioni rhagluniaethol Duw, a'i ddaioni moesol ac ysbrydol, ymgaleda yr enaid yn barhaus; ffurfia arferion o wrthod gwrandaw Duw, ac i'w anghredu pan lefara. Dewisa yr ewyllys dda yr holl ddaioni hyn a thry ef yn gynydd moesol a pherffeithrwydd ysbrydol. Ceidw yr ewyllys dda holl ffenestri y galon yn agored ddaioni Duw i lifo i fewn iddi, tra y caua yr ewyllys aflan hwynt oll allan wrth ddewis y drwg.

V. Yr ewyllys yn ei hadweithrediad arni ei hun.—Effeitha pob dewisiad ar yr ewyllys ei hun, a hyny yn ol natur y dewisiad. Crea dewisiad drwg duedd ynddi i ddewis y drwg drachefn, a gwna dewisiad da ei thueddu i ddewis y da eilwaith. Drwy ymarferiad o'r naill ddewisiad neu y llall tyf arferion o weithredu ynddi, a'r arferion hyn ffurfiant gymeriad yr enaid. Adweithrediad yr ewyllys arni ei hun a'i gwna yr hyn ydyw, pa un a da ai drwg fyddo hi. Wrth ddewis y drwg gall ddadblygu ei hun i fan nad all ddewis da o un math; ac

wrth ddewis da gall gyrhaedd pwynt nad all ddewis drwg dan unrhyw amgylchiadau. Ufudd-dod yr ewyllys i'r da wna y galon yn dda a thyner; ei hufudd-dod i'r drwg a'i gwna yn ddrwg, yn galed, ac yn anghrediniol.

IV. Gofyniadau.

(1) Pa "alwedigaeth nefol" geir yn adn. 1. Pa wahaniaeth sydd rhwng apostol ac archoffeiriad? Beth yng Nghrist hawliai ogoniant mwy na Moses, adn. 3?

(2) Eglurwch feddwl "ty" yn adn. 4, 5. Ym mha ystyr yr oedd Moses yn was yn Nhy Dduw?

(3) Esboniwch adn. 7-8. Pa fodd y gall dynion demtio Duw, adn. 9?

(4) Beth oedd prif achos methiant yr Hebreaid i gyrhaedd Canaan?

(5) Eglurwch ystyr y geiriau "calon ddrwg, anghrediniaeth," adn. 12.

(6) Os gall twyll pechod galedu dyn, pa fodd y mae ef yn gyfrifol am ei galedwch, adn. 13

(7) Ym mha wahanol ffyrdd y gall dyn ddigio Duw, adn. 16?

(8) Beth feddylir wrth fod Duw wedi digio ddeugain mlynedd, adn. 16?

(9) Pa fodd y gwnai anghrediniaeth hi yn ammhosibl i'r Israeliaid i feddiannu Canaan, adn. 19? Rhoddwch amlinelliad o'r benod.

(10) Dangoswch y gwahanol ffyrdd y gwna yr ewyllys galedu calon dyn.

PENOD IV.

ADRAN II. PWNC: CRIST A JOSUAH (Parhad).

Gorphwysfa Duw a'r ddyledswydd i ymdrechu ei meddiannu (1-16).

I. Dadansoddiad.

I. Y perygl i golli gorphwysfa Duw (adn. 1-2).
- (1) *Y perygl* (adn. 1).
- (2) *Rheswm dros nodi y perygl* (adn. 2).

II. Sicrwydd fod gorphwysfa arall gan Dduw (adn. 3-10).
- (1) *Sicrwydd profiad* (adn. 3).
- (2) *Sicrwydd ysbrydoliaeth* (adn. 4-7).
  - (*a*) *Y sicrwydd a'r Sabbath* (adn. 4-5).
  - (*b*) *Y sicrwydd a Chanaan* (adn. 6, 7).
- (3) *Y sicrwydd a rheswm* (adn. 8, 9).
- (4) *Y sicrwydd a Christ* (adn. 10).

III. Rhesymau dros ymdrechu cyrhaedd gorphwysfa Duw (adn. 11-15.)
- (1) *Perygl personol* (adn. 11).
- (2) *Natur y gair dwyfol* (adn. 12-13).
  - (*a*) *Bywyd.*
  - (*b*) *Gweithrediad.*
  - (*c*) *Llymder.*
  - (*d*) *Treiddgarwch.*
  - (*e*) *Cyflymder.*
  - (*f*) *Holl-bresenoldeb* (adn. 13).
  - (*g*) *Perthynas ysbrydol.*
- (3) *Yr archoffeiriad dwyfol-ddynol* (adn. 14-15).
  - (*a*) *Ei fawredd personol* (adn. 14).
  - (*b*) *Ei safle nefol.*
  - (*c*) *Ei gymhwysderau swyddol* (adn. 15).
    - (1) *Gallu.*
    - (2) *Profiad.*
    - (3) *Purdeb.*

IV. Cymhelliad yn sylfaenedig ar y rhesymau (adn. 16).
- (1) *Y cymhelliad.*
- (2) *Amcan y cymhelliad.*

1 Ofnwn, gan hyny, gan fod addewid wedi ei adael i ni

II. Eglurhad.

I. **Y perygl i golli gorphwysfa Duw** (1-2).—Darfu i'r awdwr draethu ar y ddyledswydd goda o fawredd Crist fel Gwaredwr, ei uwchafiaeth ar Moses fel rheswm dros ei wrandaw, a dyledswydd yr Hebreaid yng ngwyneb hanes y genedl yn yr anialwch yn y benod ddiweddaf. Dangosodd yn niwedd y benod i Israel fethu myned i'r orphwysfa a addawyd iddynt oherwydd eu calongaledwch a'u hanghrediniaeth. Arweinia methiant y genedl yn adnod olaf y benod ddiweddaf i fyned i fewn i'r orphwysfa ddaearol, yn naturiol at yr ymdriniaeth ar yr un ysbrydol yn y benod hon. Gorphwysfa o drefniant Duw oedd Canaan ond nid gorphwysfa Duw ei hun. Gorphwysfa Duw yw yr un addawedig i'r saint—un nefol ac nid un ddaearol. Anogaeth i beidio colli hon yw y peth cyntaf yr ymdrinia'r awdwr ag ef yn y benod hon. (1) **Y perygl** (1).—**Ofnwn gan hyny, rhag y digwydd, fod addewid wedi ei gadael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag i neb o honoch ymddangos fel wedi syrthio yn fyr ohoni.**—Cysyllta "gan hyny" a'r benod o'r blaen. Gan i'r genedl fethu cyrhaedd yr orphwysfa, dylai yr Hebreaid, gan hyny, ofni rhag iddynt hwythau fethu cyrhaedd gorphwysfa Duw. Nid ofni yn wasaidd a dychrynedig a feddylir, ond ofni yn ddwyfol. Ni fyddai gwerth moesol ac ysbrydol mewn unrhyw ofn arall. Analluogi dyn i weithio wna ofn gwasaidd; ei symbylu i weithio wna ofn dwyfol. Dengys yr anogaeth i ofni fod perygl. Beth yw y perygl hwnw? Methu myned i'r orphwysfa. Y mae yr addewid wedi ei gadael ond nid yw hyny yn sicrhau mynediad i'r orphwysfa. Dibyna hyny ar y dynion y rhoddwyd yr addewid iddynt. Ceir gwahanol syniadau ar beth ydym i ddeall wrth "addewid wedi ei gadael." (1) Syniad rhai yw mai y perygl yw gadael yr addewid yn ddisylw, ei hesgeuluso a'i hamhrisio. Eithr ä rhesymau gramadegol, a defnyddiad o'r un ffurf o ymadrodd yn adn. 6, 9 am aros yn erbyn hwn. Felly rhaid gwrthod y syniad fel un anmhriodol yma. (2) Aros ar ol, parhau yn ei grym a'i hystyr yw y syniad cywir yn ddiau. Erys yr addewid eto, meddai yr awdwr, am orphwysfa i'r credinwyr er i Israel fethu myned i fewn i Ganaan. Ni hysbyddodd hyny yr addewid. Gan mai gorphwysfa ysbrydol yw syniad eithaf Duw am eiddo dynion ffyddiog, ac nid un ddaearol, ni

i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol ;

---

wnaeth meddianiad Josuah o Ganaan hysbyddu yr addewid chwaith. Erys rhan gyfoethocaf yr addewid o hyd. Beth yw meddwl "Rhag i neb ohonoch ymddangos fel wedi syrthio yn fyr ohoni"? (1) Dyfod i geisio am dani yn rhy ddiweddar yw un syniad. Ofnwn rhag i neb gredu ei fod yn dyfod i geisio iachawdwriaeth ar ol yr amser. Ffrwyth dychymyg yw hwn, oblegid nid oes iddo unrhyw sail. (a) Gwnai y fath syniad wanhau ymresymiad yr awdwr. Nid oblegid tybio eu bod yn rhy ddiweddar y collodd Israel yr orphwysfa, ond oherwydd anufudd-dod i leferydd Duw. (b) Ammhosibl canfod dim yn yr epistol na chysylltiadau y geiriau hyn yn profi y tybiai yr Hebreaid eu bod yn rhy ddiweddar. Nid dyma oedd eu perygl, ond esgeuluso oherwydd pechod. (c) Hollol anghyson yw y syniad a'r ferf "ofnwn" yn nechreu yr adnod. Nid dyweyd wrthynt am ofni rhag iddynt ofni eu bod yn rhy ddiweddar a wneir, ond ofni rhag i bechod greu difrawder ac esgeulusdod ynddynt. (d) Gwir fod ὑστερηκέναι—"syrthio yn fyr"—yn golygu bod yn ol o ran amser mewn rhai manau, ond golyga yn fynych fethu cymeryd meddiant mewn peth. Ymddengys i ni nad all olygu dim arall yma; a thynu ar ddychymyg heb sail yw ceisio rhoddi iddi ystyr wahanol. (2) Nid y meddwl yw gadael yr addewid i fyned heibio chwaith. Perygl yr Hebreaid oedd methu meddiannu cynwys yr addewid ac nid ei gadael i fyned heibio. (3) Disail hefyd yw dyweyd mai ei gadael i aros i ereill feddylir. (4) Methu meddiannu yr orphwysfa fel y methodd Israel feddiannu y Ganaan ddaearol yw y gwir ystyr yn ddiau. Gwel yr ystyr o syrthio yn fyr o gyrhaedd peth i'r gair yn Pen. xii. 15, a Rhuf. iii. 23. Beth olygir wrth "ymddangos fel wedi syrtho yn fyr ohoni"? (1) Ymddangos iddynt eu hunain fel rhai wedi syrthio yn fyr, medd rhai; (2) defnyddir y gair "ymddangos" i leddfu y rhybudd rydd yr awdwr i'r darllenwyr yn ol rhai esbonwyr; (3) myn ereill mai ei amcan yw manylu wrth rybuddio, a dangos iddynt na ddylent gymaint ag ymddangos fel rhai yn syrthio yn fyr heb son am syrthio yn wirioneddol. Credwn mai yr olaf yw y syniad iawn yma. Dylai pawb geisio byw fel nad ymddangosont fel rhai yn syrthio yn fyr o gyrhaedd yr orphwysfa. Ond eto y mae anhawsder arall yn codi o'r geiriau "fel wedi syrthio yn fyr," sef fod y ferf yn yr amser perffaith—amser

2 Canys i ninau y pregethwyd yr efengyl, megys ag iddynt hwythau: eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol

---

gorphenol wedi cwbl fyned heibio. Myn rhai fod yr awdwr yn cymeryd ei safle yn y farn ac yn edrych ar y rhai syrthiodd yn fyr pan yn ymddangos o flaen y barnwr. Gwasgu syniad annaturiol i'r geiriau yw hyn. Gwell genym gredu mai methiant parhaus yn y gorphenol oedd o flaen meddwl yr awdwr—bywyd a'i nodweddion yn dangos fod ei berchenog wedi methu. Nid wedi methu ar ol gwneyd ei oreu ond oherwydd peidio ymdrechu ei oreu. (2) **Rheswm dros nodi y perygl** (2).—**Canys yn wir ni a gawsom newyddion da wedi eu pregethu i ni, megys hwythau hefyd; eithr gair y gwrandawiad ni bu fuddiol iddynt hwy, am nad oeddent hwy wedi eu huno drwy ffydd â'r rhai a wrandawsant.**—Syrthiodd y genedl yn fyr ar ol pob manteision, a dyna reswm yr awdwr dros nodi y perygl. Gallasai yr un peth ddigwydd i'r Hebreaid yng nglyn a'r efengyl. Cawsant hwy newyddion da wedi eu pregethu iddynt a gallasai y rhai hyny fod yn ddifudd yn eu hanes, fel y bu y newyddion da roddodd Duw i'r genedl trwy Moses. Nid yr un yn eu natur a'u graddau oedd y newyddion gafodd yr Hebreaid ag a gafodd eu tadau yn yr anialwch. Trwy Moses y rhoddwyd y rhai hyny; ond trwy rai glywsant y Mab y cafodd yr Hebreaid y newyddion da; y pwys i beidio gwneyd drwg a chredu y dygai Duw hwynt i Ganaan oedd cynwys newyddion Moses i'r genedl; eithr anog i wneyd da a chredu y dygai Crist hwy i'r nefoedd oedd cynwys y rhai gafodd darllenwyr yr epistol hwn. Dal cysylltiad a gorphwysfa ddaearol oedd y newyddion da cyntaf; ond gorphwysfa nefol yw pwnc yr ail rai. Newyddion da oedd y naill a'r llall ond eu bod yn gwahaniaethu fel y sylwyd. Mae "wedi cael," a "wedi eu pregethu" yn yr amser perffaith, a dengys hyny fod y cyhoeddiad o'r newyddion da yn parhau yn ei rym o hyd. Beth yw "gair y gwrandawiad"? Y gair a gyhoeddwyd i'r genedl a gynwysai addewid am Ganaan, yr orphwysfa ddaearol. Dichon fod pethau ereill lefarodd Duw i fewn yn y gair hwn, megys ei fygythion a'i gymhellion. Ond pethau ddalient gysylltiad a mynediad i Ganaan oedd yr oll. Paham y gelwir ef yn air y gwrandawiad? (1) Am mai ei wrandaw yn unig wnaeth y genedl a pheidio ei wneyd. Gall mai hyn oedd yn meddwl yr awdwr er o'r braidd y medrwn dderbyn y syniad. Gwir na chyrhaeddodd y gair galon y bobl a'u gwneyd yn ufudd iddo. (2) Y

iddynt hwy, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru a ffydd yn y rhai a'i clywsant.

---

gair ddylasent ei wrandaw. Y mae hyn yn wir, ond nid dyna ei feddwl yma. (3) Gair gafodd Moses trwy wrandaw Duw yn y mynydd. Nid oes dim yn y cysylltiadau yn ein harwain i wadu'r syniad hwn, a gellir ei gymeryd i fewn gyda'r nesaf a nodwn. (4) Gair clywedig. Trwy ei glywed y daeth y gair i feddyliau y bobl yn yr anialwch. Nid ei ddarllen a wnaethant, ond ei wrandaw trwy Moses. Newyddion da a gyhoeddwyd neu a bregethwyd iddynt oedd y gair, a thrwy ei wrandaw y daeth yn wybyddus iddynt. Hwn yw y syniad cywir yn ddiau yma. Paham na bu fuddiol iddynt? (1) Am nad oeddynt wedi eu huno trwy ffydd, a'r rhai a'i clywsant yn ol y C.D. Fel hyn, hefyd, y darllena Westcott a Hort y frawddeg yng nghyd ag Alford, Tregelles, Lachman a'r Vulgate. Os hwn yw y darlleniad iawn y meddwl yw, nad oedd y genedl wedi ei huno drwy ffydd a Moses, Caleb a Josuah, y rhai a wrandawsant y geiriau o enau Duw. Rhaid oedd iddynt gael yr un ffydd a'r bobl hyn cyn y buasai y geiriau yn fuddiol iddynt. Dyna fuasai eu huno drwy ffydd a'r rhai a wrandawsant y geiriau gan Dduw. Deil rhai o bleidwyr y syniad hwn mai eu huno a chredinwyr pob oes feddylir, ond ni welwn fod un sail i'r fath syniad. (2) Ni bu fuddiol am na unwyd ef, neu am na chyd-dymherwyd ef a ffydd yn y rhai a wrandawsant. Y mae y cyfieithiad hwn o'r geiriau yn bosibl ; ond nid oes ond ychydig sail iddo. Yr ystyr yw yn ol hwn, na ysbrydolwyd y gair fel ag i droi yn fywyd gyda ffydd. Ni chymysgodd y gair gyda ffydd yn eu calonau. Methwn a gweled fod y syniad hwn yn bosibl, er fod awdurdod mor fawr a Dr. Young yn ei fabwysiadu. Nid diffyg y gair oedd y rheswm am na bu fuddiol, ond diffyg ffydd yn y bobl, a dyna wasga'r awdwr ar ei ddarllenwyr yn barhaus yn y penodau hyn. Nid yw gwrandaw heb ffydd yn fwy o werth na bwyd yn y cylla heb ei dreulio a'i gymathu yn waed, cnawd ac esgyrn. (3) Am nad oedd y gair wedi ei uno trwy ffydd yng nghalon y rhai a'i clywsant. Rhydd y C.D. y darlleniad hwn ar ymyl y ddalen, "Am nad oedd wedi ei uno," sef y gair ac nid y bobl, "trwy ffydd a hwy." Pe buasai ganddynt ffydd buasai y gair wedi troi yn fuddiol iddynt. Gwnelsai hi droi y gair yn faeth ysbrydol i'w heneidiau nes eu nerthu i benderfynu cyrhaedd Canaan. Fel y try y bywyd naturiol yr ymborth yn

3 Canys yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa, megys y dywedodd efe, Fel y

---

faeth i'r corph, felly y try ffydd y Gair dwyfol yn lluniaeth i'r enaid. Ond ni ysbrydolwyd y bobl hyn pan glywsant y gair, ac o ganlyniad, ni throdd yn rhan o'u henaid. Dyma y syniad cywir yn ol ein barn ni, er fod y prif esbonwyr yn tueddu at y syniad cyntaf.

II. Sicrwydd fod gorphwysfa arall gan Dduw (3-10).—(1) **Sicrwydd profiad** (3).—**Canys yr ydym ni y rhai a gredasom yn myned i mewn i'r orphwysfa hono; megys y dywedodd efe, fel y tyngais yn fy llid, ni chânt hwy fyned i mewn i'm gorphwysfa i; er fod y gweithredoedd wedi eu gorphen er seiliad y byd.**—Gwnaeth yr awdwr osodiad yn yr adn. 1, fod gorphwysfa yn aros a'i bod wedi ei haddaw gan Dduw, ac mai gorphwysfa Duw oedd hi. Yn yr ail, dangosodd mai anghrediniaeth gadwodd Israel allan o'u gorphwysfa. Methasant oblegid diffyg ffydd. Yn yr adnod hon dengys fod y credinwyr yn sicr o fodolaeth yr orphwysfa trwy brofiad. Dywed fod y credinwyr yn myned i mewn iddi. Peth yn yr enaid yw yr orphwysfa ac nid tuallan iddo. "Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae." Pe gosodid dyn drwg yn y nefoedd ni fyddai hyny yn orphwysfa iddo, am nad oes nefoedd ynddo. Teimlai yr awdwr ei fod ef yn graddol fyned i mewn i'r orphwysfa pan yn ysgrifenu, a phawb a gredasant yr un modd. Peth i'w meddiannu yn raddol yw yr orphwysfa, fel y byddo dyn yn ymsancteiddio ac ymberffeithio (Gwel Traethawd). Dyma sicrwydd o safle profiad, fod gorphwysfa gan Dduw i'w bobl. Rhaid, gan hyny, nad Canaan oedd yr unig orphwysfa gynwysedig yn addewid Duw. Tyngodd ef na chawsai Israel fyned i mewn i Ganaan, a hyny yn ei lid, pan brofodd y bobl ef yn yr anialwch. Ai nid yw hyn yn profi nad a neb i fewn i orphwysfa Duw? Nac ydyw. (1) Llw oedd hwn yng ngwyneb temtasiwn oddiwrth rai anghrediniol; (2) Ni chynhwysai nad oedd credinwyr i fyned i fewn. Aeth Caleb a Josuah i fewn i Ganaan am iddynt gredu Duw. Felly am y credinwyr yn ei Fab : ant hwythau oll i fewn yn awr. Cychwyna eu nefoedd yma. Eto, dywedir i Dduw dyngu yn ei lid na chai y genedl fyned i fewn "er fod y gweithredoedd wedi eu gorphen er seiliad y byd." Pa weithredoedd? Ar hyn ceir pedwar o syniadau : (1) Gweithredoedd dynion mewn cyferbyniad i rai ffydd. Methwn a chanfod dim yn yr ymresymiad na'r cysylltiadau yn ffafrio hwn. (2) Gweithredoedd

tyngais yn fy llid, Os ant i mewn i'm gorphwysfa i : er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd.

4 Canys efe a ddywedodd mewn man am y seithfed

---

cyfreithiol a sicrhânt yr orphwysfa. Ni allwn ganfod sail i'r syniad hwn chwaith. (3) Gweithredoedd Duw yn y greadigaeth; hyny yw, ei holl weithredoedd mewn creu. Pan seiliodd ef y byd, gorphenodd ei holl waith creadigol, ac yna aeth i mewn i'w orphwysfa. Gan ei fod wedi gorphen creu gallasai alw dynion i gyfranogi o'i orphwysfa. Yn ol Genesis gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddiwrth ei holl waith, sef ei waith creadigol. Rhoddodd y Sabbath i ddyn a chafodd dyn ran o'i orphwysfa gan hyny. Eithr nid yw yr orphwysfa geir ar y Sabbath yn hysbyddu syniad Duw am orphwysfa dyn. Credwn fod y syniad hwn o'i gysylltu a'r nesaf yn esboniad cywir ar y gweithredoedd. (4) Y gweithredoedd gofynol i barotoi yr orphwysfa. Yr oedd llawer o weithredoedd yn ofynol ar ran Duw i ddwyn yr orphwysfa yn un gyfaddas i ddynion. Gwnaed y rhai hyn oll ganddo er seiliad y byd fel nad oedd dim yn ol ar ei ran ef. Aeth i fewn i'r orphwysfa ei hunan ; gan hyny yr oedd hi yn barod i ddynion. I enaid wnaeth Duw ar ei ddelw ei hun, ni wnai un orphwysfa gyfateb iddo ond un Duw. Bellach, dyma'r awdwr wedi gweithio allan y syniad yn llawn. Gwnaeth Duw holl weithredoedd y cread a gwnaeth yr orphwysfa fel y gall gyd-fwynhau a dynion ynddi yn awr. I hon y dechreuai yr awdwr a rhai o'i ddarllenwyr fyned i fewn. Wrth gymeryd y ddau syniad olaf i fewn, credwn y cynhwysir yr holl weithredoedd y cyfeirir atynt. Gorphenwyd yr holl weithredoedd hyn yn hir cyn amser Dafydd, pan lefarwyd y Salm a ddyfynir yma ; gan hyny, rhaid nad gorphwys oddiwrth waith y cread a olygir wrth yr orphwysfa. Pe mai yr orphwysfa hono fuasai yr unig un, ni fuasai synwyr yng ngwaith Dafydd yn dyweyd y geiriau ddyfynir yma. (2) **Sicrwydd ysbrydoliaeth** (4-9).—Yn yr adnodau hyn symuda yr awdwr o dir profiad i faes ysbrydoliaeth. Sicrhaodd ei ddarllenwyr o safle profiad fod y credinwyr yn myned i fewn i orphwysfa Duw ; eithr gofynol profi hyny eto o dir ysbrydoliaeth. (a) **Y sicrwydd a'r Sabbath** (4, 5).—**Canys efe a ddywedodd mewn man am y seithfed dydd fel hyn, A gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddiwrth ei holl weithredoedd. Ac yma drachefn, Nid ant i mewn i'm gorphwysfa i.**—Dyma brawf pen-

dydd fel hyn : A gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddiwrth ei holl weithredoedd.

5 Ac yma drachefn, Os ant i mewn i'm gorphwysfa i.

6 Gan hyny, gan fod hyn wedi ei adael, fod rhai yn myned i mewn iddi, ac nad aeth y rhai y pregethwyd yn gyntaf iddynt i mewn, oherwydd anghrediniaeth;

7 Trachefn, y mae efe yn penu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw, ar ol cymaint o amser,

---

dant o safle ysbrydoliaeth na hysbyddodd y Sabbath, neu orphwysfa Duw, ar ol y cread a nodir yn Genesis—yr orphwysfa olygodd Duw i enaid anfarwol. Gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddiwrth ei holl weithredoedd creadigol, ond ni olyga hyny iddo beidio gweithredu. Rhaid oedd iddo weithredu mewn modd anfeidrol i gynal y bydoedd a'r bodau a greodd. Ni nodir fod hwyr a bore i'r seithfed dydd, ac awgryma hyny mai un Sabbath yw y cyfnod ar ol creu i Dduw. Rhoddodd Duw un dydd o saith i ddyn orphwys, yn ol syniad awdwr yr epistol, ond eto nid dyna orphwysfa Duw yn llawn. Sicrha y dyfyniad o Genesis ii. 2 fod gorphwysfa gan Dduw, ond dengys y dyfyniad o Salm xcv. 11 fod gorphwysfa yn aros eto, yr hon nad yw dynion wedi ei meddiannu. Er fod Duw wedi gorphwys yn yr ystyr a nodwyd, nid yw dynion wedi myned i mewn yn ystyr ddyfnaf y gair "i'w orphwysfa ef." (b) **Y sicrwydd a Chanaan** (6, 7).—**Gan hyny, gan fod hyn yn aros fod rhai i fyned i mewn iddi, a darfod y rhai y pregethwyd y newyddion da yn flaenorol flaelu myned i mewn oherwydd anufudd-dod, y mae efe drachefn yn penu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, ar ol cymaint o amser, Heddyw, megys y mae wedi ei ddywedyd o'r blaen, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau.**—Os nad oedd y Sabbath yn orphwysfa i ddyn yn ol delfryd Duw o orphwysfa, beth am wlad Canaan ? Ai nid oedd meddiant ohoni hi yn llanw syniad Duw am orphwysfa i ddynion? Nac oedd; oblegid yr oedd addewid Duw yn cynwys gorphwysfa uwch yn ei natur a'i pharhâd na Chanaan. Rhaid oedd i'r addewid hono gael ei chyflawni i'r ymylon. Gan fod Duw wedi addaw i rai fyned i fewn i'w orphwysfa, rhaid oedd i hyny gymeryd lle. Yr oedd anrhydedd ei berson anfeidrol yn sefyll ar gyflawniad o'i addewid. Y mae yn aros, meddai yr awdwr, yn ol yr addewid "fod rhai i fyned i mewn iddi"; hyny yw, y mae yn aros mewn

megys y dywedir, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau.
8 Canys pe dygasai Jesus hwynt i orphwysfa, ni soniasai efe ar ol hyny am ddiwrnod arall.

---

addewid. Bwriadodd Duw yn bendant fod rhai i feddiannu yr orphwysfa nefol ac addawodd hyny; a chan ei fod wedi addaw myn gyflawni ei addewid. Nid dim yn Nuw oedd y rheswm nad aeth y rhai y pregethwyd y newyddion da iddynt am Ganaan i fewn iddi. Eu hanufudd-dod hwy eu hunain oedd achos eu methiant. I fyned i fewn, rhaid oedd dyfod fyny ag amodau Duw, sef credu ac ufuddhau. Ond pe buasent yn cyflawni yr amodau a meddiannu y wlad, a fuasai hyny yn eu dwyn i orphwysfa Duw? Na fuasai. Annhraethol rhy fach oedd yr orphwysfa gawsent trwy feddiannu Canaan i lanw delfryd Duw o orphwysfa dyn. Oblegid hyny, pena Duw, yn ol yr awdwr, "ryw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, ar ol cymaint o amser, heddyw, megys y mae wedi ei ddywedyd o'r blaen." Dyfyniad yw y geiriau hyn o Salm xcv. 7. Meddiannodd Caleb a Josuah a disgyn yddion y rhai syrthiodd yn y diffaethwch wlad Canaan, ond ym mhen canoedd o flynyddoedd ar ol hyny, cyhoedda Duw trwy Dafydd fod gorphwysfa yn aros. Pe hysbyddasai Canaan, yr orphwysfa fwriadodd Duw i ddynion, ni fuasai yn galw y genedl ar ol canrifoedd i'w meddiannu. Anheilwng o Dduw anfeidrol fuasai Canaan ddaearol yn brif orphwysfa i'w bobl. Gan nad hon oedd ei orphwysfa pena amser, neu ddiwrnod arall i fyned i fewn iddi. Ceidw manylwch yr awdwr yma bob gwrthddadl allan. Ni allasai neb ddyweyd fod plant y rhai fethodd fyned i Ganaan wedi meddiannu y wlad a'i mwynhau, a bod hyny yn gyflawniad o'r addewid. Na, meddai yr awdwr, dywed Duw trwy Dafydd, "megys y mae wedi ei ddywedyd o'r blaen, na chaledwch eich calonau." Yn amser Dafydd, fel pe y dywedai, anogai Duw y bobl i gredu ac ufuddhau am fod gorphwysfa ysbrydol yn agored iddynt. (3) **Y sicrwydd a rheswm** (8-9).—**Canys pe rhoddasai Josuah iddynt orphwysfa, ni soniasai ar ol hyny am ddiwrnod arall. Y mae gan hyny orphwysfa Sabbath eto yn ol i bobl Dduw.**—Cyffyrdda yr awdwr bob pwynt wrth ymresymu a allasai gael ei ddwyn yn erbyn ei ymresymiad. Dangosodd fod profiad y credinwyr yn brawf o fodolaeth gorphwysfa arall, a bod ysbrydoliaeth yn bendant yn cadarnhau profiad; yn awr rhydd reswm dros yr oll.

9 Y mae gan hyny orphwysfa eto yn ol i bobl Dduw.
10 Canys yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, hwnw

Nid yw am i'w ddarllenwyr ei gredu heb roddi iddynt reswm didroi-yn ol, sef casgliad rhesymegol a gyfyd o'r ffeithiau driniwyd ganddo. Pe buasai Josuah, yr hwn arweiniodd y genedl i Ganaan, wedi ei harwain i orphwysfa addawedig Duw, ni soniasai yr Anfeidrol am orphwysfa arall. Hollol annigonol oedd Canaan i hysbyddu addewid Duw; gan hyny, cyhoeddodd ym mhen amser maith wedi i Josuah arwain y bobl i'r orphwysfa ddaearol fod gorphwysfa arall i'w chael. Beth yw y casgliad rhesymegol oddiwrth yr oll? Adnod 9, "Y mae, gan hyny, orphwysfa Sabbath eto yn ol i bobl Dduw." Ni cheir y gair σαββατισμὸς—a gyfiethir yma yn "orphwysfa Sabbath," yn un man arall yn y Testament Newydd, ac ni ddefnyddia yr hen awduron Groegaidd ef. Digwydda unwaith yn Plutarch, a dyna'r unig eithriad y gwyddom am dano mewn ysgrifenwyr Groegaidd. Parodd newid y gair am orphwysfa yma lawer o ddyfalu i esbonwyr ac arweiniodd nifer o rai galluog i gredu mai y Sabbath Cristionogol olygir wrtho. Eithr credwn fod yr ymresymiad blaenorol yn hollol yn erbyn y syniad hwn. Un o amcanion yr awdwr yw profi fod yr orphwysfa yn fwy na Sabbath; hyny yw, na dydd neillduol i orphwys, ac yn fwy na meddiant o Ganaan, gwlad neillduol. Beth yw yr orphwysfa? (1) Nid y nefoedd fel lle, fel y myn llawer, ond (2) gorphwysfa enaid yng Nghrist. Cynwys hon feddiannu y nefoedd yn y pendraw; ond nid at y nefoedd y cyfeirir yma. Fel y dangoswyd o'r blaen cych-wyna y nefoedd yn enaid dyn yma. Peth mewnol yw hi yn ei chych-wyniad a'i natur. (4) **Y sicrwydd a Christ** (10).—**Canys yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef hwnw hefyd ei hun a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau.**—Yma â yr awdwr gam ym mhellach i brofi sicrwydd bodolaeth yr orphwysfa. Dengys fod un wedi ei meddiannu yn ei holl gyflawnder. Aeth hwn i fewn iddi yn gystal a'i meddiannu yn ei enaid. Pwy olygir wrth "yr hwn" yn yr adnod? (1) Unrhyw un a aeth ac a ä i fewn iddi. Gorphwysa pwy bynag feddianna yr orphwysfa oddiwrth ei weithredoedd fel y gwnaeth Duw ar ol gorphen creu. Pwy weithred-oedd y gorphwysa ef oddiwrthynt? (a) Ei weithredoedd pechadurus medd amryw. Ammhosibl derbyn y fath syniad, oblegid ni fuasai awdwr mor goeth yn meddwl am gymharu gweithredoedd afian dyn

hefyd a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau.

---

a rhai sanctaidd Duw, ac ni allwn gredu y cymharai Dduw yn gorphwys oddiwrth ei weithredoedd yn creu y byd, a dyn yn gorphwys oddiwrth bechod. (b) Gweithredoedd da dyn ar y ddaear yw syniad y rhai gredant mai y nefoedd olygir wrth yr orphwysfa Sabbath yn yr adnod. Eithr ni allwn dderbyn y syniad mai y nefoedd yw hi. Tangnefedd enaid gred yn Nuw trwy Grist yw yr orphwysfa. Ymddengys i ni nad unrhyw un a feddianna yr orphwysfa sydd ger bron meddwl yr awdwr, ond person neillduol. Un o nodweddion yr awdwr yw bod yn bendant yn yr hyn a esyd o flaen ei ddarllenwyr er ei fod yn fynych yn ddwfn. (2) Crist. Braidd nad yw y rhesymau dros y golygiad hwn yn derfynol. (a) Ni ellid cymharu neb ond Crist a Duw yn gorphwys oddiwrth ei weithredoedd yn gyson ag urddas yr awdwr o ymresymu; (b) byddai yr awdwr yn ail ddyweyd mewn rhan yr hyn a ddywedodd yn adn. 3, sef ei fod ef ac ereill yn myned i fewn i'r orphwysfa pe mai y syniad cyntaf fyddai yn gywir. Ni cheir y nodwedd o ail adrodd ei hun ynddo mewn manau ereill. Yn hytrach a yn ei flaen o bwynt i bwynt yn gyson. Os oedd ef ac ereill yn myned i fewn, golygai hyny eu bod yn gorphwys. (c) Hwn sydd yn gyson a rhediad yr ymresymiad. Yr oedd fod Crist wedi myned i fewn yn brawf cryf o fodolaeth yr orphwysfa, ac yn dangos ei ragoriaeth ar Josuah fel arweinydd. Gesyd yr awdwr ef allan fel y blaenaf i gyrhaedd yr orphwysfa. Gan hyny, efe yw rhagflaenydd a chynrychiolydd ei bobl. Ymddengys fod rhagoriaeth Crist ar Josuah yn amlwg o flaen meddwl yr awdwr, a naturiol oedd iddo ddangos hyny yn union ar ol nodi Josuah fel un fethodd roddi gorphwysfa lawn i'r bobl. Ni chafodd Josuah orphwysfa ei hunan yn ol delfryd Duw. Cafodd Crist hi a gorphwysodd oddiwrth weithredoedd y prynedigaeth fel y gwnaeth Duw oddiwrth weithredoedd y greadigaeth. (d) A amseriad y ferf "orphwysodd"—κατέπαυσεν —ym mhell i brofi mai hwn yw y syniad cywir. Y mae yn yr Aorist a golyga weithred yn cael ei chyflawni unwaith a dim ond unwaith. Milwria hyn yn erbyn credu mai unrhyw un a gredo yng Nghrist a olygir yma. (e) Ymddengys fod y geiriau "a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun" yn profi fod person neillduol o flaen meddwl yr awdwr ac nid rhyw un yn gyffredinol. (e) Dyma y syniad cysonaf a holl ddull yr

11 Byddwn ddyfal gan hyny i fyned i mewn i'r orphwysfa hono, fel na syrthio neb yn ol yr un siampl o anghrediniaeth.

---

awdwr o ymresymu. Amcana ym mhob rhan o'r Epistol i ddangos mawredd Crist a'i ragoriaeth ar bawb ereill a nodir ganddo. (h) **Ni** welwn y gallai osod pen ar ei ymresymiad heb gymharu Crist a Josuah, a dangos ei fod ef ei hun wedi sylweddoli yn llawn orphwysfa Duw. (i) Y syniad hwn ddengys fod Crist wedi gorphen ei holl waith prynedigol.

III. Rhesymau dros ymdrechu cyrhaedd gorphwysfa Duw (11-16).—(1) **Perygl personol** (11).—**Byddwn ddyfal gan hyny i fyned i mewn i'r orphwysfa hono, fel na syrthio neb yn ol yr unrhyw esiampl o anufudd-dod.**—Neu, "i'r un esiampl o anghrediniaeth." Wedi rhoddi profion cadarn o fodolaeth yr orphwysfa, try yr awdwr i roddi rhesymau dros ymdrech i'w meddiannu. Gan fod llawer wedi colli yr orphwysfa ddaearol oblegid anufudd-dod ac anghrediniaeth bersonol, yr oedd rheswm cryf dros iddynt hwy fod yn ddyfal. Rhaid oedd bod yn ddyfal cyn ei meddiannu, am fod ei meddiannu yn dibynu arnynt hwy eu hunain. Syrthiodd cyrph yr Israeliaid yn y diffaethwch cyn cyrhaedd Canaan oblegid esgeuluso dyfalwch i gyflawni ewyllys Duw, a pherygl oedd i eneidiau yr Hebreaid i syrthio yn fyr o gyrhaedd yr orphwysfa os na fuasent yn ddyfal. Golyga bod yn ddyfal, brysio, pryderu, bod o ddifrif, ymroddi, ymdrechu ac ymegnio. Mewn geiriau ereill, cynwysa y gair bob ymdrech ysbrydol sydd yng ngallu dyn. Noda yr awdwr allan yr orphwysfa yn ddigamsyniol yma, sef gorphwysfa Duw. Geilw hi yr "orphwysfa hono," i'w gwahaniaethu oddiwrth bob un arall. Beth yw y gwahaniaeth rhwng "syrthio yn ol yr un esiampl" a "syrthio i'r un esiampl"? Goddef y Roeg y ddau ddarlleniad, ond nid yr un yw ystyr y ddau. (1) Meddwl syrthio yn ol, etc., yw syrthio trwy anufudd-dod. Dyna fel y syrthiodd yr Israeliaid—trwy anufudd-dod. Rhag syrthio yr un fath y rhybuddia yr awdwr yr Hebreaid. Peidiwn, meddai, a dilyn esiampl ein tadau mewn anufuddhau. Dyma ein perygl mawr ni fel hwythau, ond gochelwn rhagddo. (2) Y syniad sydd yn y darlleniad "syrthio i'r un esiampl," etc., yw syrthio i bechodau tebyg o ran ffurf a'r genedl yn yr anialwch. Eithr dengys holl rediad y benod mai y syniad cyntaf sydd yn iawn. Ar anghrediniaeth ac anufudd-dod y pwysleisir trwy

12 Canys bywiol yw gair Duw, a nerthol, a llymach nag

---

y benod. Y perygl yw nid syrthio i unrhyw ffurf o weithredoedd pechadurus; ond syrthio i'r cyflwr pechadurus o anufudd-dod. Rheswm cryf yw y perygl personol hwn ddwg yr awdwr ym mlaen, a chymwys yw i bob oes o'r byd. (1) **Natur y gair dwyfol** (12-13).—Yn yr adnodau hyn deuwn at ail reswm mawr yr awdwr dros ymdrech yng nglyn a'r orphwysfa. Perygl personol oedd y cyntaf; ond yma dwg natur ryfedd y Gair dwyfol yn rheswm. Rhydd ddesgrifiad byw a hyawdl o nodweddion y gair er mwyn argraffu ar ei ddarllenwyr ei bwysigrwydd. Galluoedd yn y gair a nodir ganddo a weithredant ar yr enaid. Nid oes a fyno ef ag unrhyw alluoedd all fod yn y gair weithredant ar wrthddrychau ereill. I gael golwg glir ar y nodweddion hyn gwell eu cymeryd bob yn un. (a) **Bywyd.—Canys bywiol yw Gair Duw.**—Cyn desgrifio ei fywyd gofynol deall beth yw meddwl "gair Duw" yma? Ar hyn ymrana esbonwyr hen a diweddar. (1) Crist yw ef, medd amryw. Eithr ar ol yr ystyriaeth ddwysaf ar y penodau blaenorol a'r cysylltiadau, ni allwn dderbyn y syniad, oblegid (a) annaturiol hollol fyddai priodoli y fath nodweddion iddo ef fel person ag a wneir yn yr adnodau hyn. (b) Ni chawn yr awdwr yn galw Crist yn Air yn un man arall yn yr Epistol. Gan hyny, nid tebyg y buasai yn gwneyd eithriad yma. (c) Nid oes arwydd yn yr Epistol fod yr awdwr yn gyfarwydd a gweithiau Philo, yr Iuddew dysgedig a ddefnyddia y term yma am y Gair Personol. (2) Y geiriau lefarodd Crist pan ar y ddaear, neu yr efengyl. Gall fod cuddgyfeiriad atynt yma ond nid hwy oedd yn uniongyrchol o flaen ei feddwl, ond y rhai lefarwyd dan yr Hen Oruchwyliaeth. (3) Bygythion Duw yn yr Hen Destament. Rhy gyfyng syniad yw hwn eto. Dywed ei bleidwyr fod yr awdwr yn rhybuddio ei ddarllenwyr i beidio esgeuluso am fod gair bygythiol Duw yn adeg eu tadau yn yr anialwch yn fyw o hyd. Hollol wir yw hyn am fygythion Duw, ond ni allwn gredu mai dyna'r gwirionedd yma. (4) Bygythion ac addewidion Duw. Er fod hwn yn eangach syniad na'r llall, nid yw yn ddigon eang. Methwn a chanfod unrhyw reswm dros gyfyngu y gair i'r bygythion a'r addewidion. (5) Yr oll lefarwyd am yr orphwysfa yn addewidion a bygythion. Eithr nid priodol fyddai rhoddi y nodweddion a geir i'r gair yma i'r rhanau perthynol i'r orphwysfa mwy na rhanau ereill; medd holl air Duw y nodweddion hyn. (6) Holl air llafaredig Duw. Hwn yn ddiau yw

un cleddyf dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd

---

y syniad iawn. Efe sydd yn gyson a syniad yr Iuddewon am air Duw. Credent hwy fod nid yn unig pob llythyren o'r gair yn ysbrydoledig, ond hefyd ffurf y llythyrenau. Yr oedd Duw yn ei holl air, a hyny yn holl-bresenol, yn ol eu barn hwy. Daw y syniad hwn allan yn y gair "bywiol"—gair byw drwyddo yw gair Duw medd yr awdwr. Bywyd yw y nodwedd gyffredinol berthynol i'w natur. Pob peth lefarwyd wrth y tadau, fel pe y dywedai yr awdwr, y mae yn fyw yn awr. Paham? Am fod y gair yn anfarwol fel Duw ei hun. Defnyddir yr un gair am **bywiol** yma ag a wneir am y bywyd uchaf yn y Test. Newydd—bywyd tragywyddol. Yr ansoddair o ζωή—bywyd—yw ef, bywyd o'r un natur ag eiddo Duw ei hun. (b) **Gweithrediad.—A gweithgar.**—Cyfyd gweithgarwch y gair o'i fywyd. Ni all bywyd o unrhyw natur lai na gweithredu, a gweithredu yn ol deddfau ei natur ei hun. Felly am fywyd gair Duw. Rhybuddiai yr awdwr ei ddarllenwyr nad un diwaith oedd y gair, ond yn hytrach un llawn o yni dwyfol anfeidrol. Yr un gair geir am ei weithrediad—ενεργης—ag a gyfieithir weithiau i'r Seisnig yn *energetic*. Golyga fod nerth digonol yn y gair i weithredu yn effeithiol, a gweithredu yn gyfatebol i natur ei fywyd anfeidrol. Gair Duw yw ef, ac y mae Duw a'i air yn un. Gellir cyfieithu y gair "gweithgar" hefyd yn "digonol" *(efficient)*, ac felly cyficitha Dr. G. H. Berry ef. Beth bynag fyno Duw iddo ei wneyd, y mae ef yn ddigonol i hyny. (c) **Llymder.—A llymach nag un cleddyf daufiniog.**—Dwg y geiriau hyn nodwedd newydd i'r gair i'r golwg. Nid yn unig y mae y gair yn fyw ac yn egniol, ond medd lymder anghymarol. Nid yw yr offeryn llymaf i'w gymharu a'i allu i dreiddio drwy y corph materol. Y peth effeithiolaf i dori corph ag a wyddai dynion am dano y pryd hwnw oedd cleddyf daufiniog. Eithr nid oedd hwn yn deilwng i'w osod ochr yn ochr a'r Gair dwyfol. Diau mai y gyllell ddaufiniog a ddefnyddiai yr archoffeiriaid i dori yn agored yr aberth oedd o flaen meddwl yr awdwr. Llymder arf materol oedd eiddo hon ac eiddo cleddyf daufiniog ; ond llymder bywyd yw eiddo y gair. Tor bywyd trwy bethau nad all cleddyf eu tori. (d) **Treiddgarwch.—Ac yn trywanu, ie hyd wahaniad enaid ac ysbryd, cymalau a mêr hefyd.**—Dengys y geiriau hyn briodoledd arall sydd ynddo, sef gallu treiddiol. Ystyr διικνούμενος (*penetrating*) yw treiddio drwy bethau. Nid llymder diwaith yw eiddo y gair mwy na'i fywyd.

wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mer : ac yn barnu meddyliau a bwriadau dynion.

Gweithreda ei lymder mewn treiddgarwch didor, diflino, difêth a diesgeulus. A drwy holl gyfansoddiad dyn yn ol y geiriau hyn. Yn gyntaf, treiddia drwy ran anfaterol dyn, sef yr **enaid** a'r **ysbryd.** Beth yw y gwahaniaeth rhwng enaid ac ysbryd? (1) Dim yn ol syniad rhai. Dau enw ar yr un peth ydynt. Tuedda Dr. Bruce at y syniad hwn. Camsyniad yw hyn. Fod gwahaniaeth rhwng y ddau sydd amlwg wrth ddarllen y rhanau dyfnaf o'r Test. Newydd. (2) Y bywyd anifeilaidd yw yr enaid, a'r sylwedd anfarwol, ysbrydol, yw yr ysbryd. Medd pob creadur byw y cyntaf, ond dim ond dyn fedd yr olaf ar y ddaear. Bu y syniad hwn a gafael fawr ar yr eglwys, ond cyflym ollyngir ef yn awr am nad oes rhesymau digonol drosto. (3) Dwy wedd ar yr un sylwedd anfaterol yw y ddau. Hwn yw y syniad cywir yn ddiau, a'r un dderbynir gan y mwyafrif. Enaid yw y gallu fedd dyn i ymwneyd a'r byd gweledig, materol; a'i ysbryd yw ei allu i ymwneyd a'r byd tragywyddol—i ddal cymundeb a Duw. Yr un bôd ysbrydol weithreda y ddau allu. Neu dau allu yr ysbryd anfaterol ydynt. Cylch gweithrediad y gallu a elwir **enaid** yw y byd hwn, a maes gweithrediad y gallu enwir yn **ysbryd** yw y byd ysbrydol anfaterol. Pa le bynag ac ym mheth bynag y ceir y llinell rhwng y ddau allu hyn treiddia gair Duw yno. Dyna un syniad ar y geiriau. Barna ereill mai trywanu yr enaid oddiwrth yr ysbryd feddylir. Golyga ereill eto mai trywanu trwodd nes gwahanu yr enaid a gwahanu yr ysbryd yw y meddwl. Goddefa gramadeg y syniad hwn a chredwn ei fod yn agos cywir. Y meddwl yw, fod y gair yn treiddio drwy yr oll o'r gallu eneidiol ac ysbrydol. Heb iddo dreiddio drwyddynt ni allent fyw. Ei holl-bresenoldeb yn holl ranau dirgelaf dyn yw y syniad a wesgir yma. Eto, treiddia hyd wahaniad y cymalau a'r mer. Myn un dosbarth mai manau dirgelaf, dyfnaf enaid ac ysbryd yw y cymalau a'r mer yma. Ffigwr fyddai yn y geiriau pe hyny fyddai y meddwl. Eithr peth dichwaeth, digabol, ac annaturiol a chwithig fyddai son am gymalau a mêr enaid ac ysbryd. Hollol anghyson yw y fath syniad ag arucheledd iaith a chwaeth yr awdwr. Rhaid cymeryd y geiriau yn llythyrenol felly. Tra phwysig yw cysylltiad corph ac enaid ac ysbryd. Y corph, yn rhanol, amoda feddyliau, teimladau a dymuniadau yr ysbryd.

13 Ac nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef: eithr pob

Medd ran helaeth yn ffurfiad cymeriad ac yn nhynged dyn. Myn yr awdwr i'w ddarllenwyr sylweddoli fod y gair yn treiddio trwy ran faterol dyn yn gystal a'i ran anfaterol nes gwahanu, nid y cymalau a'r mêr, ond gwahanu y cymalau a gwahanu y mêr. A i fewn i ranau dirgelaf y cymalau a rhanau dirgelaf y mer. Dyma un o nodweddion hanfodol pob bywyd yw treiddio. Treiddia y bywyd llysieuol, anifeilaidd a dynol drwy bob gronyn o'u cyrph. Y mae bywyd yn holl-bresenol yn y corph a'r hwn yr ymwisga. Treiddia gair Duw yn yr un modd drwy yr holl ddyn. (e) **Cyflymder.—Ac yn gyflym i ganfod meddyliau a bwriadau y galon.**—Rhydd y geiriau hyn wedd arall arno eto. Un o nodweddion hanfodol bywyd yw cyflymder. Cyflym i beth, neu i ba amcan ydyw ef yma? Cyflym i weled natur foesol gweithredoedd yr enaid a'r ysbryd a dylanwad y corph ar y gweithredoedd hyny; neu y rhan sydd gan y corph yn eu cynyrchu. Ni ddianga dim o'r rhai hyn gyflymder canfyddiad y gair. Paham y noda ei gyflymder yng nglyn a meddyliau a bwriadau y galon? Am fod y rhai hyn mor gyflym eu hunain. Braidd y cenfydd dyn hwy ei hunan gan gyflymed y maent; ac nid yw un amser yn canfod yr oll ohonynt. Hefyd ni chanfydda neb o'i gyd-ddynion hwynt. Eithr am y gair, cenfydd ef eu holl ranau hwy, eu holl amodau, eu holl nerth a'u canlyniadau. Beth yw meddyliau a bwriadau? Ant yma am holl weithrediadau moesol yr enaid. Ond beth yw y gwahaniaeth rhyngddynt? Gwell fyddai cyfieithu "meddyliau" yn "ddymuniadau," oblegid dyna wir ystyr y gair. Hedyn bwriadau yw dymuniadau, ac o ganlyniad, deuant tufewn i gylch moesoldeb. Bwriadau, sef y lluosog o ἔννοια, yw dymuniadau wedi dadblygu yn gynlluniau. Ceir yr eginyn mewn dymuniad; y dywysen mewn bwriad, a'r yd yn llawn yn y dywysen yn y weithred o gario y bwriad allan. Gwel y gair drwy yr enaid, yr ysbryd a'r corph, ac y mae yn gyflym i farnu y gweithredoedd moesol ydynt yn ffrwyth y rhai hyn. Gan gyflymed yw gwel darddiad hedyn dymuniadau moesol. (f) **Holl-bresenoldeb** (13).—**Ac nid oes un creadur anamlwg yn ei olwg ef; eithr pob peth sydd yn noeth ac wedi eu gosod yn agored o flaen llygaid.**—Pwy yw yr "ef" yma? (1) Duw yw syniad nifer lluosog o esbonwyr. (a) Eithr pa reswm sydd am newid o'r "gair" at Dduw personol mor sydyn; (b) ni fuasai dim newydd mewn dyweyd nad oes neb yn anamlwg i Dduw

peth sydd yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef am yr hwn yr ydym yn son.

---

i'r Hebreaid. Gwyddent hyny yn dda. (c) Ni fuasai y desgrifiad o'r gair yn llawn heb yr adnod hon. Ceir awgrym o holl-bresenoldeb y gair yn y nodweddion blaenorol, ond ni ddywedant hyny yn bendant. (d) Nid yw yn annaturiol i briodoli llygaid i'r gair pan gofiom fod yr awdwr wedi dyweyd yn yr adnod flaenorol ei fod yn gyflym i ganfod meddyliau a bwriadau y galon. (e) Gan fod Duw yn ei air, nid oes dim o le mewn dyweyd fod a wnelom ni ag ef, fel y dywed diwedd yr adnod. (2) Gair llafaredig Duw. Ymddengys mai hwn yw y syniad cywir. Rhaid cofio o hyd fod Duw yn ei air, ac o ganlyniad, mae y gair yn gystal a Duw yn holl-bresenol. Anhawdd i ni yn awr i sylweddoli ddyfned y credai yr Iuddewon yn undeb Duw a'i air. Ffigwr geir yn y geiriau, "Ac nid oes greadur anamlwg yn ei olwg," etc. Edrycha yr awdwr ar y gair fel un yn canfod pob creadur yn gystal a dyn, a bod pob peth yn noeth ac wedi eu gosod yn agored o flaen ei lygaid. Y mae pob creadur (1) yn llinell ei lygaid. Nid oes yr un tucefn iddo, nac ar ei ochr; saif holl greaduriaid Duw o flaen ei lygaid. (2) Y maent oll yn noeth. Nid oes orchudd o un math arnynt. Gwel ef i ddyfnder eu bôd, ac nid oes dim anamlwg iddo ynddynt. (3) Y maent yn agored. Anhawdd rhyfeddol yw deall y gair gyfieithir yma, "yn agored," am na cheir ef yn un man arall yn y Test. Newydd na'r LXX. Gall olygu (a) cadw dan, (b) bwrw i lawr, (c) gafaelyd mewn creadur neu ddyn gerfydd ei wddf. Buasai rhai yn gwneyd hyn mewn rhyfel, ac mewn gorchest gampau. Defnyddia Philo ef am bob un o'r tri pheth hyn. Weithiau golyga ymaflyd yn y gwddf; bryd arall dal dan draed, neu fwrw i lawr. (d) Dadleua amryw mai y ffigwr yw cydio yng ngwddf drwg-weithredwr i'w arwain i'r lladdfa a throi ei ben ar ei war er mwyn i bawb ei ganfod. (e) Un ymladdwr yn troi pen y llall yn ol yn ei ymdrech i'w faeddu yw y ffigwr fyn ereill fod yma. (f) Credwn mai gwaith yr offeiriad yn troi pen y creadur a aberthid yn ol ar ei war er mwyn ei ladd yw y ffigwr. Buasai yr offeiriad yn dinoethi gwddf yr aberth i weled pa le i osod y gyllell. Ac a'r gyllell ddaufiniog y cyfeiriwyd ati yr agorai y creadur nes bod ei ranau mewnol yn y golwg. Y mae y syniad hwn (1) yn gyson a dyweyd fod y gair yn trywanu hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd a'r cymalau a'r mêr; (2)

14 Gan fod wrth hyny i ni Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein proffes.

---

a gwaith yr awdwr yn myned at yr archoffeiriad yn yr adnod nesaf. Cymerai yr awdwr ei ffigyrau oddiwrth bethau cyfarwydd i'r Hebreaid. (g) **Perthynas ysbrydol.—Yr hwn y mae a wnelom.**—Nid gair diberthynas yw gair Duw, ond un y mae a wnelo dynion ag ef. Deil berthynas foesol ac ysbrydol a phawb dynion. Peth pwysig oedd gosod hyn yn glir o flaen yr Hebreaid. Dengys iddynt y daliai y gair hwy yn gyfrifol am eu holl ymddygiad. Myn rhai mai dyweyd wna mai y gair hwn yw y pwnc dan sylw ganddo ef. Eithr nid dyna'r meddwl yma. A holl rediad yr ymresymiad yn ei erbyn. Dywed ereill y dylid cyfyngu y geiriau i'n cyfrifoldeb i'r gair yn y diwedd. Nid yw y syniad hwn yn ddigon eang chwaith. Yr holl air am yr orphwysfa a phethau ereill yn ei holl gysylltiadau a ni yw y meddwl. Y mae a wnelom ni, meddai yr awdwr, a holl air Duw yn ein holl fywyd. Safwn mewn perthynas ysbrydol ag ef. (3) **Yr archoffeiriad dwyfol-ddynol** (14-15).—Dyma drydydd rheswm yr awdwr dros ymdrech i fyned i'r orphwysfa. Ceir tri o bethau yn yr archoffeiriad yn rheswm dros lynu yn eu proffes a myned yn eu blaen i feddiannu yr orphwysfa. (a) **Ei fawredd personol** (14).—**Gan fod wrth hyny i ni archoffeiriad mawr.**—Cylyma "wrth hyny" yr adnod hon a'r ymersymiad blaenorol. Gan ei fod ef yn fwy na'r angylion, ac yn tra rhagori ar Moses a Josuah fel arweinydd, y mae yn werth glynu wrtho. Y mae ef yn fawr yn nhragywyddolrwydd, anfeidroldeb a chyfansoddiad ei berson. Teifl hwn bob archoffeiriad blaenorol i'r cysgod fel y taflodd bob angel i'r cysgod fel cenad Duw a llefarydd geiriau Duw. Llawer uwch yw ef na'r prophwyd mwyaf, sef Moses, a'r arweinydd mwyaf llwyddianus—Josuah. (b) **Ei safle nefol.—Yr hwn a aeth trwy y nefoedd, Iesu Mab Duw, daliwn afael yn ein cyffes.**—Aeth ef, nid drwy y llen i'r cysegr sancteiddiolaf ar y ddaear, ond trwy y nefoedd. Y gair lluosog sydd yma am nefoedd. Beth olyga y geiriau? Bod Crist wedi mynod trwy bob nef i nef y gogoniant ei hunan. Lleni oedd pob nef yr aeth ef trwyddynt o'u cymharu a'r llen yr ai yr archoffeiriad drwyddi yn y deml. Dyma safle uwchraddol i bawb. Safle nefol yw hi hefyd, ac nid daearol. Rheswm cryf yw ei safle eto dros lynu yn eu cyffes. Gofala'r awdwr ddyweyd mai "Iesu, Mab Duw" yw ef, rhag i neb gamsynied. Y mae ef yn ddyn, yn gystal a Duw, ac felly yn eithriadol yng nghyf-

15 Canys nid oes i ni Archoffeiriad heb fedru cyd-ddioddef gyda'n gwendid ni; ond wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud a ninau, eto heb bechod.

---

ansoddiad ei berson. (c) **Ei gymhwysderau swyddol** (15).—(1) **Gallu.—Canys nid oes i ni archoffeiriad heb fedru cyd-ddioddef gyda'n gwendid ni.**—Medd allu i gydymdeimlo a dynion, ac a'u gwendidau. Nid gallu i gyd-ddioddef, ond i gydymdeimlo. Gall fyned i fewn i'w holl deimladau a theimlo yr un peth a hwy, a gwneyd eu teimladau yn eiddo iddo ei hunan. Nid anghymwysder ynddo i gydymdeimlo yw ei fawredd, ond cymhwysder; ac nid yw ei fod mewn safle uchel yn y nef yn ei luddias rhag cydymdeimlo, ond yn hytrach yn ei alluogi i gydymdeimlo a phawb. Medr deimlo yr oll gyda gwendidau dynion fel pe byddai yn yr un amgylchiadau a hwy. (2) **Profiad.—Ond un wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud a ninau.**—Dyma gymhwysder arall. Gallasai Crist feddu gallu i gydymdeimlo, ond heb brofiad. Pe felly, ni allasai wneyd temtasiynau ei bobl yn eiddo iddo. Ei brofiad a'i galluoga i deimlo eu teimladau hwy, i feddwl eu meddyliau, i ddymuno eu dymuniadau, ac i fyw eu bywydau. Temtiwyd ef ym mhob dosbarth o demtasiynau ag y temtir dynion; ond nid yn hollol yn yr un ffurf. Ni fu trwy holl amrywiol ffurfiau profedigaethau a themtasiynau pawb dynion; ond nid oes un dosbarth o demtasiynau a phrofedigaethau na fu ef mewn rhai hollol yr un natur a hwy. Bu yn wrthddrych holl gylch temtasiynau yn eu natur. Rhaid oedd iddo fyned trwy y pethau hyn i gymhwyso trwy brofiad y gallu i gydymdeimlo oedd yn ei natur. (3) **Purdeb.—Eto heb bechod.**—Dyma gymhwysder na wnai y lleill oll y tro hebddo. Buasai syrthio i un pechod yn ei anghymwyso am byth i gydymdeimlo a dynion. Ammhosibl gwybod yr oll sydd mewn temtasiwn os syrthir i bechod. Nid y meddwl yma yw iddo gael ei demtio cyn belled ag y gellid temtio un dibechod, fel y myn rhai; hyny yw, iddo gael ei demtio i'r llinell y gellir temtio bôd dibechod, ond yn hytrach iddo fyned trwy bob temtasiwn heb bechu. Y mae yn wir iddo gael ei demtio i'r man pellaf y gellid temtio y dibechod; eithr nid dyna syniad yr awdwr. Ei amcan ef yw dangos na orchfygodd yr un demtasiwn yr Iesu pur.

IV. Cymhelliad yn sylfaenedig ar y rhesymau (16).—(1) **Y cymhelliad.—Am hyny, awn yn hyderus at orseddfaingc y gras.**—Anogir ar sail y rhesymau mawrion a roddwyd. Nid oedd

16 Am hyny awn yn hyderus at orseddfainge y gras, fel y derbyniom ras yn gymhorth cyfamserol.

---

yr Hebreaid i gredu y gallent fyned i'r orphwysfa ohonynt eu hunain. Rhaid oedd iddynt wrth help yr Archoffeiriad Mawr oedd ar orsedd gras yn y nef. Gan ei fod yn meddu y fath gymhwysderau, gallant wneyd hyny yn hyderus. Yr un orsedd yw hon a gorsedd barn, ond fod gras yn cael ei gyfranu oddiarni oddiar pan esgynodd Crist iddi. (2) **Amcan y cymhelliad. —Fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol.**—Gellir agoshau at yr orsedd yn awr, er fod Duw yn eistedd arni, am fod yr Archoffeiriad Mawr arni, yr hwn fedd y fath gymhwysderau. Buasai y bobl ar Ddydd y Cymod yn agoshau felly pan fuasai ganddynt le i gredu fod yr archoffeiriad yn gymeradwy gan Dduw. Credent y derbynient gymod am flwyddyn arall. Felly yma, y mae gobaith am drugaredd, nid am flwyddyn, ond am byth, am fod yr archoffeiriad yn ffafr Duw ac yn eistedd ar ei ddeheulaw ar yr orsedd. Bodau truenus yw dynion, a rhaid iddynt wrth drugaredd, a dengys y gair "derbyniom" mai goddefol ydynt—cael yr oll gan Dduw y maent. Ni fedrant wneyd dim eu hunain yng nglyn a thrugaredd ond ei dderbyn. Beth yw gras? Peth ar gyfer gwendid ac angen. Rhaid wrth drugaredd i achub dyn, a rhaid wrth ras i'w sancteiddio. Saif dyn mewn angen o'r ddau, a phethau ydynt a roddir iddo i'w gynorthwyo yn amser angen neu yn y tymhor y bydd mewn caledi.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Chwilier i wahanol ystyron y gair "gorphwysfa."

Ceisier cael o hyd i holl brif ffeithiau hanes Josuah.

Crynhoer hanes Dafydd cyn ac ar ol ei wneyd yn frenin.

Astudier natur foesol anufudd-dod ac anghrediniaeth.

Dangoser perthynas gair Duw a chyfrifoldeb dyn.

Gwahaniaether rhwng "meddyliau" a "bwriadau."

Eglurer galluoedd ysbryd dyn a galluoedd ei enaid.

Gwahaniaether rhwng Iesu, Crist a Mab Duw.

Ystyrier y gwahaniaeth rhwng cydymdeimlo a chyd-ddioddef.

Meddylier am yr ammhosibilrwydd i angylion gydymdeimlo a dynion.

III. Traethodau.

(1) Pedair Gorphwysfa Duw.

I. Gorphwysfa anianyddol.—Trefnodd Duw i ddyn gael un dydd o bob saith i orphwys yn anianyddol. Gorphwysodd Duw ei hun y seithfed dydd oddiwrth waith y cread—gwaith yng nghylch y byd anianyddol. Dangosai hyn yr amcanai i ddyn gael gorphwys hefyd. Nid oedd Duw yn gorphwys oherwydd blinder, ond am ei fod wedi gorphen ei waith yn y wedd o greu. Golyga i ddyn orphen ei waith anianyddol mewn chwe' niwrnod, a gorphwys i'w addoli ef ar y seithfed. Hyn wna gyfiawnder a'r corph roddodd Duw i ddyn. Eithr un ran o orphwysfa Duw yw hon, fel y ceir gweled eto.

II. Gorphwysfa feddyliol.—Dyma olygai Duw i Ganaan fod i'r genedl. Delfryd Duw oedd i Israel gael gwlad lonydd heb i elynion aflonyddu arni. Pan fyddo gelynion yn ymosod ar genedl ni chaiff orphwysdra meddyliol. Bydd pryder ac ofn yn ei meddiannu yn barhaus. Gan hyny, ni all feddwl ar bethau mawrion a phwysig bywyd. Mewn tymhor o heddwch y meddylia dynion ac y cynyrchant weithiau gorchestol ym mhob cangen o wybodaeth. Un o brif amodau meddylgarwch cryf, dwfn a goruchel yw llonyddwch oddiwrth bob peth bar fraw a dychryn, galar a gofid, loes a chur. Yng Nghanaan cafodd y genedl lonydd ar adegau fel y gallodd rhai o'i phrophwydi feddwl pethau anfarwol. Er hyny, ni lanwai y llonyddwch hwn ddelfryd Duw o orphwysdra feddyliol.

III. Gorphwysfa ysbrydol.—I hon yr a awdwr yr Epistol a rhai o'i ddarllenwyr i fewn. Wrthi y golygir enaid wedi dyfod i dawelwch ysbrydol am ei fod wedi derbyn Crist. Trwy hyn caiff heddwch cydwybod a phrofiad o faddeuant Duw. Ni all enaid orphwys heb yr heddwch hwn. Er cael gorphwysfa gorfforol a meddyliol, bydd yn annedwydd yn barhaus. Rhaid i enaid feddu cydwybod dawel i orphwys mewn gwirionedd. Ond er cael yr orphwysfa hon, nid yw yn llanw delfryd Duw. Gall dyn ei meddu a bod yn amddifad oblegid amgylchiadau o orphwysfa anianyddol a meddyliol, a gall feddu yr anianyddol a'r feddyliol heb feddu yr ysbrydol. Cynwys delfryd Duw orphwysfa berffaith.

IV. Gorphwysfa nefol.—Lleinw hon syniad Duw am orphwysfa, ac mewn arall fyd y meddiennir hi. Ynddi hi y ceir yr orphwysfa

feddyliol ac ysbrydol yn berffaith. Ammhosibl cael gorphwysfa berffaith i feddwl nac ysbryd yn y byd hwn, am na ellir cael llonydd llwyr gan elynion na chael perffaith heddwch cydwybod. Yn y nef ni bydd un gelyn, a bydd yr ysbryd yn hollol bur a diduedd at bechod. Gan hyny, bydd ei orphwysfa yn berffaith. Os bydd gan yr enaid gorph o ryw sylwedd bydd hwnw yn y fath gydgordiad a'r ysbryd fel na fydd yn faich iddo. Eto, rhaid cofio nad sefyllfa ddiwaith fydd yr orphwysfa hon, ond un o waith egniol a pharhaus. Bydd yn waith uwch o ran graddau nag a wneir yma, ac ysbrydolach nag a ellir gyflawni mewn corph materol. Ond bydd perffeithrwydd yr enaid, cynghanedd ei alluoedd, ei nerth a'i wybodaeth ysbrydol, ei gymundeb perffaith a'i amgylchoedd fyddant yn ysbrydol berffaith, yn rhoddi gorphwysdra iddo yn y gwaith a eilw allan yr egni mwyaf. Nid gwaith bar flinder, ing, pryder, ofn, braw, dychryn a phethau cyffelyb fyddant yn gydfynedol ag ef fydd hwn. Bydd ysbryd dyn mewn llawn weithrediad yn y nef, a dyna fydd un o amodau mwyaf hanfodol ei orphwysdra. Creodd Duw ei holl alluoedd i weithredu, ac yn y nef caiff amgylchoedd a'u tynant oll allan i lawn weithrediad. Y fath orphwysfa a hon leinw ddelfryd Duw, oblegid dyna ei orphwysfa ef ei hun. Nid peidio gweithio gyfansodda ei orphwysfa ef ond gwaith parhaus ac anfeidrol yn ei yni—gorphwysfa mewn gwaith, ac nid gorphwysfa ddiwaith. Peidiai Duw a bod yn Dduw pe y peidiai weithredu. Yr un modd am enaid sanctaidd : byddai nefoedd yn drueni iddo ac nid yn orphwysfa pe y peidiai weithredu. Gwelwn bellach mai gorphwysfa ddelfrydol Duw i enaid yw holl berson y dyn yn berffaith sanctaidd mewn amgylchoedd perffaith sanctaidd. Gorphwysfa enaid yw gweithrediad perffaith ei holl alluoedd mewn amgylchoedd gynhwysant amodau perffaith i weithrediad perffaith ei alluoedd.

(2) **Chwech Amod Cydymdeimlad** (15).

I. Unrhywiaeth natur.—Dyma amod cyntaf a mwyaf hanfodol cydymdeimlad. I fedru cydymdeimlo ag unrhyw fôd rhaid meddu holl natur y bôd hwnw. Ni all Duw noeth gydymdeimlo a gwendid dyn, am nad oes wendid yn natur Duw. Meddiant o wendid all gydymdeimlo a gwendid. Gwendidau yw newyn, syched, blinder, poen, galar, gofid, ofn pryder a dychryn mewn dyn. Nid oes un o'r gwen-

didau hyn yn Nuw; gan hyny, ni all gydymdeimlo a hwy. Nodweddion meidroldeb yw gwendidau, ac ni pherthyn y cyfryw nodweddion i anfeidroldeb. Amddifad yw yr angylion o ran o natur dyn ac o ganlyniad ni allant gydymdeimlo a dyn. I Grist allu cydymdeimlo a dynion rhaid oedd iddo feddu natur ddynol. Unrhywiaeth natur yw sylfaen ei gydymdeimlad.

II. **Unrhywiaeth galluoedd.**—Nid yw unrhywiaeth natur yn unig yn ddigon. Gofynol cael unrhywiaeth galluoedd gweithredol. Gellid synied am natur heb fod ei galluoedd yn weithredol. Ceir enghraifft wan o hyny yn y wenithen, y fesen, yr wy a'r baban. Y mae holl bosibiliaethau galluoedd gweithredol yn y rhai hyn, ond nid ydynt yn weithredol yn ystyr fanwl y gair. Nid posibiliaethau galluoedd dynol oedd yng Nghrist, ond y galluoedd hyny mewn llawn weithrediad. Ammhosibl i faban gydymdeimlo a dyn llawn dwf am nad yw ei alluoedd yn weithredol. Gweithredai galluoedd Crist fel eiddo pob dyn arall, a gweithredant ynddo yn awr felly, ac oblegid hyny, medr gydymdeimlo a dynion. Ar ochr ddynol ei berson meddai, a medd ei alluoedd holl nodweddion galluoedd dynol.

III. **Unrhywiaeth profiad.**—Byddai y ddau amod a nodwyd yn annigonol heb hwn. Rhaid i'r natur a'r galluoedd fod yn feddiannol ar yr un profiad a'r sawl y cydymdeimlir ag ef, i allu cydymdeimlo. Meddai Crist brofiad o holl wendidau a nerthoedd y natur ddynol, a bu y rhai hyn dan brawf llymach nag a allasai yr un dyn ei ddal. Profwyd hwy trwy boen, tristwch, ing, ymdrech, erledigaeth, poblogrwydd, ammhoblogrwydd a themtasiwn. Ni ddiangodd unrhyw allu ynddo heb gael ei gyflawn brofi. Ammhosibl i unrhyw ddyn gael ei brofi mewn unrhyw egwyddor na phrofwyd ef. Gellir profi dynion mewn ffurfiau gwahanol i'r eiddo ef, ond nid mewn egwyddorion gwahanol. Profodd bob peth mewn egwyddorion yr un ffunud a ninnau. Cymhwysodd hyn ef i gydymdeimlo a dynion yn eu holl gyflyrau. Trwy brofiad y medr un dyn ddeall teimladau y llall, ac ni ellir cydymdeimlo heb ddealldwriaeth lawn a manwl o deimladau y sawl y cydymdeimlir ag ef. Profiad yw amod hanfodol y ddealldwriaeth yma. Medd yr Iesu ddealldwriaeth gyflawn o deimladau dibechod pawb gan ei fod yn brofiadol o deimladau dynol yn eu holl weddau.

IV. **Purdeb cymeriad.**—Ni fyddai gwerth yn y tri amod diweddaf

heb hwn. Er i Grist gael ei demtio ym mhob peth ni allai gydymdeimlo onibae ei fod yn ddibechod. Buasai pechod yn ei analluogi i gydymdeimlo a gwendidau. Y dibechod yn unig wyr nerth temtasiwn. Efe sydd wedi ei dal drwyddi; efe sydd wedi ei hysbyddu; efe sydd wedi profi ei llymder, ei dwysder, ei dichell, ei deniadaeth a'i herchylldra. Meddai yr Iesu bob gwendid dibechod yn ei natur ddynol, ond daliodd, er hyny, ym mhob temtasiwn heb bechu, ac enillodd brofiad a'i galluoga i gydymdeimlo a phawb a demtir. Ni all y diafol gydymdeimlo a neb am na ddaliodd mewn unrhyw demtasiwn a gafodd, ac ni all dynion drwg wneyd hyny chwaith. Y tebycaf i Grist mewn purdeb cymeriad all gydymdeimlo ddyfnaf. Hefyd gwna ei burdeb hi yn ammhosibl iddo i gydymdeimlo a gwendidau pechadurus dynion. A gwendidau dibechod yn unig y cydymdeimla ef.

V. Gallu trosglwyddiadol.—Hwn gorona yr amodau blaenorol. Byddai y pedwar cyntaf yn ddiwerth hebddo. Beth yw cydymdeimlad o werth i neb os na fedr ei berchen ei drosglwyddo i ereill? Dim. Pan fyddo dyn mewn llawenydd neu ofid, a'i gyd-ddyn yn trosglwyddo ei gydymdeimlad iddo y profir ei werth. Ni fyddai llond byd o gydymdeimlad o werth heb i'r sawl sydd a'i angen gael trosglwyddiad ohono. Medr Crist drosglwyddo ei gydymdeimlad i bawb o'i ganlynwyr yn eu llwyddiant a'u haflwyddiant am fod y gallu trosglwyddiadol hwn yn berffeithiach ynddo nag mewn neb dynion. Yr oedd ei natur, ei alluoedd, ei brofiad a'i gymeriad dynol yn berffaith, ac felly yn sylfaen i berffeithrwydd ei allu trosglwyddiadol.

VI. Gallu ewyllysiol.—Heb hwn byddai y pum' amod a nodwyd yn ddiwerth. Heb ewyllys i gyfranu cydymdeimlad a pob cymhwysder arall yn ddifudd. Y mae gallu anfeidrol gan Grist i gydymdeimlo ac ewyllysia yn anfeidrol i gyfranu y gallu hwnw. Pe byddai ewyllys dynion eanged a'u gallu i gydymdeimlo diflanai tlodi a llawer o drueni'r byd ar fyr o dro. Yng Nghrist y mae yr holl gymhwysderau mewn cymhesuredd perffaith. Pa le bynag y gwel le i gydymdeimlo, ewyllysia yn anfeidrol i gyfranu ei gydymdeimlad.

IV. Gofyniadau.

(1) Esboniwch adn. 1 yn ei pherthynas a'r cysylltiadau. Beth yw meddwl "Eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru a ffydd yn y rhai a'i clywsant," adn. 2? Pa orphwysfa nodir yn adn. 3?

(2) A oes llid yn Nuw? Beth feddylir wrth ei fod yn tyngu yn ei lid?

(3) Beth olygir wrth i Dduw orphwys y seithfed dydd, adn. 4? Pa fodd y cadarnha adn. 5-8 yr ymresymiad fod gorphwysfa eto yn ol.

(4) Ai Crist neu ryw un arall y dywedir ei fod wedi gorphwys oddiwrth ei weithredoedd, adn. 10? Pa orphwysfa nodir yn adn. 11?

(5) Esboniwch yn fanwl adn. 12, a phrofwch beth olygir wrth air Duw yma? Ai gair Duw neu Dduw ei hun sydd yn adn. 13?

(6) Pa bethau wna yr Iesu yn archoffeiriad mawr, adn. 14?

(7) Pa gymhwysderau yng Nghrist i gydymdeimlo a nodir gan yr awdwr, adn. 14? Rheswm dros beth yw y cymhwysderau hyn?

(8) Ar beth y sylfaenir cymhelliad adn. 16? Paham y gelwir gorsedd Duw yn "orseddfainc y gras" yma?

(9) Enwch a gwahaniaethwch rhwng pedair gorphwysfa Duw.

(10) Eglurwch a dangoswch y gwahaniaeth rhwng amodau cydym deimlad.

PENOD V.

ADRAN III. PWNC: CRIST AC AARON.

Cymhwysderau archoffeiriad, cymhwysderau delfrydol yng Nghrist, a'r rhesymau dros beidio traethu ar ddirgelwch ei berson (1-14).

I. Dadansoddiad.

I. Cymhwysderau archoffeiriad (1-4).
- (1) *Bod yn ddyn* (adn. 1).
- (2) *Bod yn benodedig.*
- (3) *Bod yn deall angen ysbrydol dynion.*
- (4) *Bod yn feddiannol ar deimladau dynol cydbwysol* (adn. 2)
- (5) *Bod yn hunan-aberthol* (adn. 3).
- (6) *Bod yn wrthddrych galwad ddwyfol* (adn. 4).

II. Crist yn meddu cymhwysderau delfrydol archoffeiriad (5-10).
- (1) *Galwad o darddiad dwyfol* (adn. 5-6).
- (2) *Ffurf yr alwad* (adn. 6).
  - (*a*) *Parhad tragywyddol.*
  - (*b*) *Safle uwchraddol.*
- (3) *Profiad eithriadol* (adn. 7, 8).
  - (*a*) *Dioddefaint* (adn. 7).
  - (*b*) *Duwiol ofn.*
  - (*c*) *Dysgeidiaeth foesol* (adn. 8).
  - (*d*) *Perffeithrwydd ysbrydol* (adn. 9).
- (4) *Cydnabyddiaeth ddwyfol* (adn. 10).

III. Rhesymau dros beidio egluro yr oll am Grist (11-14).
- (1) *Diffyg archwaeth* (adn. 11).
- (2) *Diffyg gwybodaeth* (adn. 12).
- (3) *Diffyg profiad* (adn. 13).
- (4) *Diffyg dadblygiad* (adn. 14).

1 Canys pob archoffeiriad wedi ei gymeryd o blith dynion, a osodir dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Dduw, fel yr offrymo roddion ac aberthau dros bechodau:

II. Eglurhad.

I. Cymhwysderau archoffeiriad (1-4).—Daeth yr awdwr a mater archoffeiriadaeth Crist i fewn ar ddiwedd y benod flaenorol fel un o'r rhesymau dros ymdrech i gyrhaedd gorphwysfa Duw. Nododd dri o gymhwysderau Crist yno i rymusu ei ymresymiad, ond ni fanylodd ym mhellach ar y pwnc. Yn y benod hon cychwyna ar y mater yn ei fanylion, a cheir ymdriniaeth gyfoethog ganddo ar archoffeiriadaeth Crist yn y penodau dilynol. Dechreua trwy ddangos yn y pedair adnod gyntaf o'r benod hon, gymhwysderau archoffeiriad yn syml, ac yna dengys fod Crist yn llanw y ddelfryd (*ideal*) o archoffeiriad perffaith. Y mae y cymhwysderau yn amryw. (1) **Bod yn ddyn** (1).—**Canys pob archoffeiriad, gan gael ei gymeryd o blith dynion.**—Dangoswyd yn y benod flaenorol fod Crist yn ddyn. Heb hyny, ni allasai gydymdeimlo a gwendidau dynion. Yn yr adnod hon dengys yr awdwr fod pob archoffeiriad weinydda swydd yng nglyn a dynion yn cael ei gymeryd o blith dynion. Mewn geiriau ereill rhaid iddo fod yn ddyn. Ni wnai angel y tro, na Duw noeth. Un yn meddu ar holl elfenau dynoliaeth raid gael i'r fath swydd. Hwn yw un o gymhwysderau gwreiddiol Crist i fod yn archoffeiriad. Ni phenodid neb dros ddynion mewn pethau perthynol i Dduw heb ei fod yn ddyn. Gan hyny, dynion oedd Aaron, Melchisedec a phawb ereill fuont yn y swydd. Gofala yr awdwr osod hyn yn glir rhag i neb gamsynied. Ni chyferbynir Crist yma ag archoffeiriaid ereill fel y myn rhai, trwy ddyweyd fod pawb ond efe wedi eu cymeryd o blith dynion. Nid oes yma gyferbyniad o gwbl, ond desgrifiad o gymhwysderau archoffeiriad. Byddai yn gam a gramadeg yr adnod i ddarllen "am ei fod yn cael ei gymeryd o blith dynion" fel y gwna rhai esbonwyr. Y syniad sydd yma yw fod yr archoffeiriad i fod yn ddyn meddiannol ar holl elfenau dynoliaeth. (2) **Bod yn benodedig.—A benodir dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Dduw.**—Nid digon ei fod yn ddyn cyflawn, heb ei fod yn benodedig i'r swydd gan Dduw. Meddwl y ferf *καθίσταται* – "benodir" yw ordeinio, gwneyd, apwyntio, arwain, neu osod mewn swydd. Pwy osodai yr archoffeiriad yn ei swydd?

2 Yr hwn a ddìchon dosturio wrth y rhai sydd mewn

Duw fel y gwelir yn nes ym mlaen. Ymwneyd a Duw oedd ei waith, a rhaid oedd i Dduw ei ordeinio. Nid yw bod yn wir ddyn yn ddigon, gan mai swydd o ymwneyd a Duw ar ran dynion yw hi. I gyflwyno achos dynion i Dduw rhaid iddo fod yn ddyn; ond i nesau at Dduw, rhaid iddo fod yn apwyntiedig Duw. Saif ef yn y canol rhwng dynion a Duw, a rhaid iddo feddu natur dynion i allu cydymdeimlo a hwy a chyflwyno eu hachos i Dduw, a rhaid iddo fod yn ddewisedig gan Dduw i fod yn gymeradwy ganddo. Pethau yn perthyn i Dduw yw y rhai y mae ganddo i ymwneyd a hwy, sef y cysylltiadau moesol rhwng Duw a dynion. (3) **Bod yn deall angen ysbrydol dynion.—Fel yr offrymai roddion ac aberthau dros bechodau.**—Rhaid i archoffeiriad ddeall angen dynion yn ogystal a bod yn ddyn a phenodedig Duw. Gofynol iddo feddu ymdeimlad o bechod cyn y gall offrymu rhoddion ac aberthau dros bechodau. Un yn sylweddoli mawredd a drwg pechod yng ngolwg Duw yn unig all nesau at Dduw dros bechod dynion—un yn meddu dirnadaeth ddofn o holl angen dyn pechadurus. "Rhoddion" yw offrymau, megys ysgub y blaenffrwyth a bwyd offrwm. "Aberthau" yw offrymau gwaedlyd. I gyflwyno y rhai hyn i Dduw rhaid oedd cael dyn ddeallai eu hystyr yn eu perthynas a phechod dynion. Angenrheidiol oedd i'r archoffeiriad fod yn ddyn sanctaidd, difrifol, ac yn sylweddoli trwy brofiad angen ysbrydol y rhai a gynrychiolai. Difudd fuasai y rhoddion a'r aberthau o'i law heb hyn. Yr oedd y rhoddion i fod gan amlaf yn ddangosiad o ddiolchgarwch y bobl am fendithion Duw, a'r aberthau yn gymod am bechod. Yn y rhoddion y dangosai yr archoffeiriad ei fod yn teimlo yr un fath a'r bobl, sef yn ddiolchgar ; ac yn yr aberth ei fod yn teimlo drostynt. Dylid cysylltu "dros bechodau" a'r gair aberthau. Nid dros bechodau yr offrymid y rhoddion, fel y dangoswyd, ond yn hytrach i ddangos teimlad diolchgar. (4) **Bod yn feddiannol ar deimladau cydbwysol** (2).—**Yr hwn a ddichon gyd-ddwyn yn dyner gyd a'r rhai sydd anwybodus ac yn cyfeiliorni, am ei fod yntau ei hun hefyd wedi ei amgylchu a gwendid.**—A yr awdwr ym mlaen o ris i ris gyda manylwch mawr a dengys yma y rhaid i archoffeiriad feddu teimladau dynion yn gystal a'r cymhwysderau a nodwyd. Rhaid iddo feddu teimlad tyner i allu cydymddwyn a dynion. I ddangos hyn, defnyddia y ferf *μετριοπαθεῖν* a gyfieithir "ddichon gydymddwyn." Cyfieitha Esgob Davies hi "yn gymhes-

anwybodaeth ac amryfusedd; am ei fod yntau hefyd wedi ei amgylchu a gwendid.

---

urol gydsynio cyflwr," sef barnu cyflwr. Ni cheir y gair ond yma yn y Test. Newydd nac yn y LXX. Yn Philo golyga gydnawsedd meddwl, cydbwysedd meddyliol, meddwl heb redeg i eithafion y naill ffordd na'r llall. Hollol briodol yw ef yn y fan hon. I ddyn mewn swydd mor bwysig ag archoffeiriad, gofynol oedd iddo fod yn dyner heb fod yn feddal, yn sefydlog ei deimlad heb fod yn galed. Dylai feddu teimlad dynol mor gydnawsol ag a ellid disgwyl gan ddyn wedi ei amgylchu a gwendid. Paham? Am y gofynai ei swydd iddo i gydymddwyn a dau ddosbarth o ddynion. (1) Rhai anwybodus. Anwybodus yn mha ystyr? Mewn pethau moesol. Cymer yr anwybodaeth hon i fewn holl wendid moesol dyn, ond ni chynwysa ei ddrwg fwriadau gwirfoddol. Bydd llawer dyn yn rhoddi ei ffordd gyda nerth temtasiwn neu brofedigaeth pan y gwyr ei fod yn pechu, ond ffrwyth ei wendid moesol yw hyny. Nid yw y dyn mor gyfrifol am bechod fel hyn a phan yn cyflawni drwg o'i fodd a chyda rhag-fwriad. Credwn fod y dosbarthiadau o bechod a gyflawnir mewn anwybodaeth hollol, rhai anfwriadol, a rhai nad ellir atal eu cyflawni drwy bob ymdrech, yn yr anwybodaeth a nodir yma. Ynddynt oll ceir elfen o anwybodaeth ac elfen o wendid moesol. Yr oedd aberth dros y rhai hyn dan y gyfraith, eithr nid oedd aberth am rai gwirfoddol a gyflawnid gyda gwybodaeth o'u drwg. Gan hyny ni fuasai yr archoffeiriad yn cyflwyno aberth drostynt. Lleddid neu esgymunid y rhai bechai felly yn ddiymdroi. Y dosbarth arall yw rhai yn cyfeiliorni. Gall y rhai anwybodus fod ym mhlith y dosbarth hwn, am mai ffrwyth anwybodaeth foesol yw cyfeiliornad moesol gan amlaf. Meddwl cyfeiliorni yw colli neu droi oddiar y llwybr, a defnyddir y gair am un yn gadael ei wir berchenog. Ei ystyr yma yw gwyro oddiar lwybr moesoldeb—gwyro oddiwrth Dduw. Rhaid oedd i'r archoffeiriad gydymddwyn a'r rhai hyn eto, os na fuasent yn cyfeiliorni o'u bodd ac yng ngwyneb goleuni. Ei fod wedi ei amgylchu a'r un gwendid moesol a hwy a ofynai am iddo fod yn dyner wrthynt, neu a'i cymhwysai i gydymddwyn a hwynt. Nid oedd raid iddo feddu gwendidau moesol pechadurus, ond gwendidau moesol dibechod. Yr oedd y ddau yn yr archoffeiriad Iuddewig. Dim ond y rhai dibechod oedd yn yr Iesu. Golyga amgylchu— *περικείται*—gwisgo, hyny yw, gwisgo oddiamgylch,

3 Ac o achos hyn y dylai, megys dros y bobl, felly hefyd drosto ei hun, offrymu dros bechodau.
4 Ac nid yw neb yn cymeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megys Aaron.

Y syniad yw fod gwendid moesol yn holl natur yr archoffeiriad. Dylasai hyn fod yn foddion iddo farnu troseddau ereill yn deg, yn dyner, yn gymedrol a diduedd. (5) **Bod yn hunan-aberthol** (3).—**Ac o achos hyn y mae yn rhwym, megys dros y bobl, felly hefyd drosto ei hun, i offrymu dros bechodau.**—Gan fod yr archoffeiriad yn llawn gwendid moesol fel y bobl, rhaid iddo feddu teimlad hunan-aberthol; hyny yw, rhwyma ei wendid ef i wneyd hyny. Heb aberthu ar ran ei hunan ni allai fod yn ei le fel pechadur na chyflawni ei swydd yn iawn. Yr oedd yn rhwym o wneyd hyn (a) yn ol deddf Moses. Gorchymynai hi hyn iddo. (b) Yn ol deddf cydwybod. I agoshau at Dduw yn iawn ni allasai beidio aberthu dros ei bechod yn gyntaf. Gwyddai ei fod yn bechadur, a'i fod yr un yn ei berthynas a Duw a'r bobl yr aberthai drostynt. Gan hyny, ar Ddydd y Cymod bob blwyddyn, byddai yn aberthu bustach drosto ei hun a'i deulu yn bech-aberth, ac yna aberthai dros bechodau y bobl. Er fod deddf Moses yn sicr o fod yn meddwl yr awdwr yma, credwn fod deddf cydwybod hefyd yn ei feddwl, sef y rheidrwydd i aberthu godai o natur yr archoffeiriad. Yr oedd y ddeddf wedi dysgu cydwybod y bobl fel nad allai yr un archoffeiriad ystyriol lai na theimlo ei rhwymau. (6) **Bod yn wrthddrych galwad ddwyfol** (4).—**Ac nid yw neb yn cymeryd yr anrhydedd iddo ei hun, ond pan y mae yn cael ei alw gan Dduw, megys hefyd yr oedd Aaron.**—A yr awdwr ym mhellach yma na'r penodiad y cyfeirwyd ato yn adn. 1. Duw oedd yn apwyntio neu benodi yr archoffeiriad ar y cychwyn; ond yr oedd ei alw i'r swydd yn cynwys mwy na hyny. Nid dynol yw y penodiad na'r alwad i fod, yn ol yr awdwr. I archoffeiriad fod yn ei swydd yn iawn rhaid i Dduw ei alw iddi fel y galwodd ef Aaron. Dywed rhai mai er budd ei hun yw meddwl "iddo ei hun"; eithr ni allwn dderbyn y syniad, am mai y syniad yma yw, nad dynol yw y swydd i fod, ond dwyfol. Yn gyntaf, ni fuasai cymeryd yr anrhydedd yn weddaidd. Peth i'w osod ar ddyn yw anrhydedd i fod, ac nid peth i'w gymeryd gan y dyn ei hun. Yn ail, nid oedd hawl gan neb i gymeryd y swydd heb alwad oddiwrth Dduw, am

5 Felly Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i fod yn Archoffeiriad; ond yr hwn a ddywedodd wrtho, Tydi yw fy Mab; myfi heddyw a'th genedlais di.

---

mai swydd yn ymwneyd a Duw dros ddynion oedd hi. Gwasanaetha y syniadau treiddlym yma i ddangos llygredigaeth y modd yr ymddygai y Rhufeiniaid at y swydd adeg Crist ac adeg ysgrifeniad y llythyr hwn. Gwerthent hwy y swydd archoffeiriadol i'r sawl roddai fwyaf am dani, a newidient yr archoffeiriad bob blwyddyn. Gan hyny, gosodent drefniant Duw oll o'r neilldu, ac ni roddent ystyriaeth i gymhwysderau meddyliol, moesol, nac ysbrydol. Ni chymerodd Aaron y swydd heb ei alw, a bu ynddi dros ei fywyd. Priodol iawn yw ei ddwyn ef i fewn fel esiampl, am mai efe oedd yr archoffeiriad cyntaf dan y trefniant Moesenaidd. Ynddo ef datguddir syniad Duw am archoffeiriad dynol a'r cysgod goreu o'r un dwyfol-ddynol.

II. Crist yn meddu cymhwysderau delfrydol archoffeiriad (5-10).—Rhoddodd yr awdwr syniad clir o'r elfenau angenrheidiol mewn archoffeiriad yn yr adnodau blaenorol. Aeth at egwyddorion hanfodol ei fater ynddynt a pharotodd y ffordd i draethu ar gymhwysderau Crist. Yn yr adnodau nesaf cawn enghraifft o dreiddgarwch ac eglurder meddwl neillduol. (1) **Galwad o darddiad dwyfol** (5-6).—**Felly Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i'w wneyd yn archoffeiriad, ond yr hwn a lefarodd wrtho, Tydi yw fy Mab, myfi heddyw a'th genhedlais di.**—Dechreua yr awdwr yma gyda'r cymhwysder olaf a nododd mewn archoffeiriad Iuddewig. A yn ol at ffynhonell fawr archoffeiriadaeth Crist. Tarddodd y syniad am y swydd yn Nuw. Nid Crist benodododd nac a alwodd ei hun i fod yn archoffeiriad. Hefyd, ceir awgrym cyfoethog yn y geiriau "nis gogoneddodd ei hun." Anrhydedd oedd y gair ddefnyddiwyd yn adn. 4 am yr archoffeiriad Iuddewig. Rhywbeth tuallan yw anrhydedd, peth yn tarddu o'r tufewn yw gogoniant. Ychwanegu at y person y mae anrhydedd; tyfu o'r person y mae gogoniant. Nid peth gododd o'r Iesu oedd ei archoffeiriadaeth, er yr adnoddau anfeidrol oedd ynddo, ond cael ei alw a wnaeth. Aeth drwy bethau i'w gymhwyso i'r swydd ag a roddodd ogoniant iddo yn gystal ag anrhydedd. Tyfodd ei gymhwysderau personol allan ohono a throisant yn ogoniant iddo. Eithr peth ddaeth iddo ar ol ei alwad oedd y gogoniant hwn. Nid myned i'r swydd er mwyn y gogoniant a wnaeth, ond cael ei alw iddi, ac yna enillodd ogoniant yn ei ymber-

6 Megys y mae yn dywedyd mewn lle arall, Offeiriad wyt ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

---

ffeithiad iddi. Paham y dygir cenhedliad y Mab i fewn yma? (1) Er mwyn dangos medd rhai, fod yr archoffeiriadaeth yn y cenhedliad. Yr oedd bod yn fab yn cynwys bod yn archoffeiriad. (2) Y syniad cywir yw, ni gredwn, fod y Mab wedi ymddwyn yr un at ei archoffeiriadaeth ac at ei fabolaeth. Nid efe ogoneddodd ei hun i fod yn Fab, ond y Tad a'i gogoneddodd ef trwy ddyweyd wrtho "Fy Mab ydwyt ti." Ni ogoneddodd ei hun i fod yn archoffeiriad chwaith fel y gwelir wrth yr adnod nesaf. Y Tad a'i gogoneddodd. Pa fabolaeth geir yma? Neu at ba genhedliad y cyfeirir yn y geiriau "Myfi heddyw a'th genhedlais"? Rhaid nad y tragywyddol genhedliad sydd yma. Nid oedd hwnw yn gynyrch ewyllys y Tad na'r Mab, ond yn hytrach yn angenrheidrwydd natur. Gwelwyd wrth draethu ar y cenhedliad hwn yn Pen. i. 5, mai yr adgyfodiad gan gynwys yr esgyniad yw yr unig amgylchiad y gellir cysylltu y cenhedliad yma ag ef. Pan esgynodd Crist, cyhoeddodd Duw ef yn Fab dwyfol-ddynol gerbron yr holl nefoedd. Fel y dangoswyd o'r blaen, gwahaniaethai mabolaeth Crist fel Duw-ddyn i'w fabolaeth fel Duw, a phriodol oedd i Dduw gydnabod hyny. Ffrwyth ewyllys Duw oedd y fabolaeth yma ac nid angenrheidrwydd natur fel y fabolaeth dragywyddol. Ond nid cymeryd y fabolaeth hon o'i ran ei hun wnaeth Crist. Yr un modd am yr archoffeiriadaeth. Pan esgynodd y Mab wedi gorphen ei waith, cyhoeddodd Duw ef yn archoffeiriad. Yr adeg hono y gorphenwyd ei gymhwyso i'w waith. Yna galwodd Duw ef at ei waith fel un cymhwys i lanw y swydd yn dragywyddol. Nid ei alwad neu ei benodiad yn nhragywyddoldeb i'r swydd sydd yma, ond ei alwad ar ol gorphen ei holl waith ar y ddaear. Aeth i'r nef a galwodd Duw ef i'w ddeheulaw i'r cysegr sancteiddiolaf i weinyddu ei swydd am byth. (2) **Ffurf yr alwad** (6).—Dyfynir yr adnod hon o Salm cx. 4, a chymer yr awdwr mai hi oedd geiriau galwad Duw i'w Fab ar ei esgyniad i'r nef. Ceir dau o bethau yn yr alwad. (a) **Parhad tragywyddol.—Megys y mae hefyd yn dywedyd mewn lle arall, offeiriad wyt ti yn dragywydd.**—Os mai offeiriad oedd yn y MS. gwreiddiol, sicr yw mai archoffeiriad oedd yn meddwl yr awdwr. Hawdd oedd i adysgrifydd adael "arch" allan o'r MS. ysgrifenodd yr awdwr. Nid peth dros amser yw y swydd fel yr un

7 Yr hwn yn nyddiau ei gnawd, gwedi iddo, trwy lefain

Iuddewig ond un am byth. Dengys hyn fod ei gymhwysderau yn cyfateb i ddelfryd Duw o archoffeiriad. Wedi dyweyd nad Crist ogoneddodd ei hun, dywed mai y Tad a'i gogoneddodd trwy dragywyddoli y swydd archoffeiriadol yn ei berson. Er hyny, nid pwysleisio ffurf y gogoneddiad wna yr awdwr fel y cred llawer, ond y ffaith mai y Tad a'i gogoneddodd trwy ei alw i'r swydd am dragywyddoldeb. Medd ef gymhwysderau i fod ynddi yn dragywyddol, a rhai fedrant ei gyfaddasu at bob gwedd angenrheidiol ar y swydd am byth. (b) **Safle uwchraddol.—Yn ol urdd Melchisedec.**—Golyga yr urdd yma y safle uchaf. Urdd Melchisedec oedd yr uchaf fu ar y ddaear mewn dau beth. (1) Cyfunai y swydd frenhinol a'r archoffeiriadol ynddo ei hun yn ol yr Epistol hwn. Yr oedd Melchisedec yn frenin yn gystal ag archoffeiriad. Credwn hefyd, ei fod yn brophwyd i'w ddeiliaid. Gan hyny, cyfunai dair swydd Crist yn ei berson. (2) Annibynol oedd Melchisedec hefyd ar achyddiaeth. Yn hyn eto rhagorai ar yr archoffeiriadaeth Iuddewig. (Gwel Traethawd.) (2) **Profiad eithriadol** (7-8). —Cytuna mwyafrif yr esbonwyr mai geiriau cromfachol yw y rhai ar ol y gair "cnawd" hyd ddiwedd adn. 7. A gadael y rhai hyn allan y darlleniad fyddai, "Yr hwn yn nyddiau ei gnawd, er ei fod yn Fab a ddysgodd ufudd-dod," etc. At beth y cyfeiria y "llefain cryf a dagrau"? At brofiad eithriadol chwerw a gofidus yn hanes yr Iesu sydd amlwg. Ond beth yw y cysylltiad rhwng y geiriau a'r ymresymiad geir yn yr adnodau diweddaf am gymhwysder Crist fel archoffeiriad? Hyn: profant nad gogoneddu ei hun i fod yn archoffeiriad a wnaeth Crist. Ni fuasai yn gwynebu y fath fywyd o demtasiynau, caledi, ing a marwolaeth ohono ei hun. Penodiad Duw arno i'r swydd gyfrifa am yr ymgymeriad a roddai iddo y fath brofiad chwerw. Eithr y profiad hwn oedd un o'r cymhwysderau hanfodol i'r swydd. Rhaid oedd myned drwyddo i allu cyflawni y swydd yn iawn. Ei ufudd-dod i benodiad Duw barodd iddo fyned drwy y profiad gyfansoddai un o'r cymhwysderau moesol mwyaf a feddai. Hefyd, ni allasai gymeryd at y bywyd hwn heb benodiad ei Dad am fod yn rhaid iddo wrth nerth ei Dad i fyned drwyddo. Gan hyny, penodiad Duw wnai sicrhau ei gynorthwy. Methwn a gweled gyda rhai esbonwyr fod yr awdwr yn troi yn ol yn y geiriau hyn i ddangos y gall Crist gydymddwyn a dynion fel y dywedwyd yn adn. 2. Yn hytrach, dwyn

cryf a dagrau, offrwm gweddiau ac erfyniau at yr hwn

---

cymhwysder newydd wna ef i fewn yma, sef cymhwysder profiad. Bod yn ddyn oedd y cymhwysder cyntaf mewn archoffeiriad; ond nid oedd hyny yn ddigon—rhaid oedd meddu profiad dyn. Oblegid profiad Crist yn nyddiau ei gnawd y galwodd Duw ef yn archoffeiriad ar ei esgyniad yng ngeiriau adn. 6. Yn y profiad hwn ceir pedair elfen. (a) **Dioddefaint** (7).—**Yr hwn yn nyddiau ei gnawd, gwedi offrymu gweddiau a deisyfiadau gyda llefain cryf a dagrau at yr hwn oedd alluog i'w achub ef oddiwrth farwolaeth.**—Gelwir y tymhor y bu Crist ar y ddaear yn "ddyddiau ei gnawd." Dynodant y tymhor o'i enedigaeth i'w farwolaeth. Dyma yr adeg y cafodd brofiad dynol yn ei holl weddau. Tymhor oedd hwn y profodd ef holl ddeddfau meidroldeb, holl egwyddorion natur ddynol i'r eithaf a'r holl brofiad sydd yn bosibl i ddynoliaeth. Dyddiau oeddynt y bu ef mewn corph o gnawd brau, gwael a marwol. At eithafion chwerwder ei brofiad yn y corph hwn y cyfeirir yma. Gwahaniaetha esbonwyr gyda golwg ar y llefain cryf a'r dagrau. (1) Cred rhai fod y "llefain" yn cyfeirio at ei lefain ar y groes, a'r dagrau hefyd fe ddichon. (2) Deil ereill mai at ing yr Ardd y noson cyn y croeshoeliad y cyfeiriant. Yr hyn sydd o blaid y syniad hwn yw fod gweddiau a deisyfiadau i fod o flaen llefain cryf a dagrau fel y gwelir oddiwrth y C.D. Cawn yr Iesu yn taer weddio a deisyf ar ei Dad yn Gethsemane am i'r cwpan fyned oddiwrtho. Nid oes amheuaeth yn ein meddwl nad oedd Gethsemane o flaen meddwl yr awdwr. Eithr credwn (3) fod holl lefain a dagrau Crist yn ei gysylltiad a'i achubiaeth o farwolaeth i'w cymeryd i fewn. Nid ydym i feddwl i holl lefain a dagrau Crist ar fater o'r fath anfeidrol bwys i gael eu crynhoi i ychydig oriau yn yr Ardd. Gwasgai y peth ar ei enaid mawr wythnosau cyn y croeshoeliad, a dywedai cyn myned i Gethsemane, "Trist iawn yw fy enaid hyd angau." Gwyddai yr awdwr trwy glywed gan y disgyblion am ei brofiad. Golyga llefain cryf fod dyfnder enaid yr Iesu mewn ing anfeidrol. Gwesgid ef gan chwerwder profiad i lefain allan, a hyny yn gryf, fel y gwna dyn mewn trychineb mawr. Yr ing anfeidrol hwn amodai ei ddagrau. Meddwl "gweddiau" yma yw cais pendant am rywbeth neillduol gan Dduw. Nid gweddiau penagored oeddynt, ond rhai am waredigaeth oddiwrth farwolaeth. Ystyr "deisyfiadau" yma yw ceisiadau gynyrchir gan ofn dwys rhag rhyw drychineb mawr. Gwedd ar y

oedd abl i'w achub ef oddiwrth farwolaeth, a chael ei wrandaw yn yr hyn a ofnodd;

---

gweddiau oeddynt, sef y wedd erfyniadol gynyrchir gan ing enaid. Parai yr ing wrth feddwl am yr hyn oedd o'i flaen i'r Iesu daer erfyn ar ei Dad am droi y cwpan oddiwrtho. Y gweddiau a'r deisyfiadau, y llefain cryf a'r dagrau oedd rhan o offrwm Crist drosto ei hun. Nid dros ei bechod, cofier. Nid oedd ganddo bechod i offrymu drosto. Beth oedd ganddo i offrymu drosto? Ei wendid dibechod. Teimlai hwn mor fawr wrth wynebu marw nes yr offrymai y pethau a nodwyd i'w Dad. Beth feddylir wrth "alluog i'w achub ef oddiwrth farwolaeth"? Geiriau anhawdd yw y rhai hyn, am y gellir eu cyfieithu "allan o farwolaeth" yn gystal ag "oddiwrth farwolaeth." (1) Os mai "allan o farwolaeth"—ἐκ θανατου—yw y cyfieithiad cywir yma, gwaredu allan o law marwolaeth feddylir; hyny yw, gwaredu Crist o afael marwolaeth, neu o'r bedd, ac nid ei waredu rhag marw. Rhaid cydnabod fod rhesymau cryfion dros y syniad geir yn y cyfieithiad hwn. (a) "Allan o" yw ystyr cyffredin yr arddodair sydd o flaen marwolaeth yn y Roeg. Gan anfynyched y rhoddir yr ystyr o "oddiwrth" iddo, braidd y medrwn gredu fod ystyr wahanol iddo yma. Ac ni allwn ganfod sail i honiad Alford mai "oddiwrth" yw ei ystyr bob amser pan gysylltir ef a marwolaeth. (b) Pe rhoddid yr ystyr o "oddiwrth" iddo yma, sef fod Crist yn gofyn am gael ei achub rhag marwolaeth, pa fodd y gellid cysoni hyny a'r geiriau "a chael ei wrandaw oherwydd ei dduwiol ofn"? Ni chafodd Crist ei waredu oddiwrth farwolaeth, ond cafodd ei achub allan ohoni. (c) Fel y dangoswyd uchod, credwn fod gweddiau ac erfyniau yn cynwys mwy na gweddi yr Ardd. Un weddi oedd hono ond iddi gael ei hoffrymu deirgwaith, ac ni ellir ei galw yn weddiau ac erfyniau. Y mae lluaws o weddiau Crist nad oes cofnodiad ohonynt genym. Braidd y gellir credu y byddai awdwr mor ofalus yn ysgrifenu mor amwys ar fater mor bwysig a hwn. Pe gwelsai fod deall ἐκ fel "oddiwrth" yn lle "allan o" yn bosibl, buasai, yn ol y defnydd cyffredin wnelsid o'r gair, yn sicr o ofalu am arddodair arall, ac yn osodasai weddiau ac erfyniau yn y lluosog pe mai gweddi yr Ardd yn unig fuasai o flaen ei feddwl. (d) Hwn yw y syniad cysonaf a holl rediad yr Epistol ac a'r efengylau. Gwyddai Crist fod yn rhaid iddo farw. Dywedodd hyny yn bendant lawer gwaith wrth y disgyblion cyn myned i Jerusalem. Yng ngwyneb hyn, pa gysondeb fuasai iddo

weddio ac erfyn am ei waredu oddiwrth farwolaeth? (f) Nid oes grym mewn dyweyd iddo gael ei wrandaw, ond nid yn y ffurf a ofynai. Cymyla hyn wybodaeth Crist o'i farwolaeth a'i ffurf. Cafodd ef ei wrandaw yn sicr yn y ffurf y gofynodd. (2) Ceir nifer lluosog o esbonwyr yn dal dros gyfieithu ἐκ yn "oddiwrth." Eu rhesymau dros hyny yw, (a) y cyfieithir ef yn oddiwrth dan amgylchiadau ac mewn cysylltiadau neillduol. Gwrthwyneba rhai o'r awdurdodau uchaf yn y Roeg hyn yn bendant. (b) Nad oes hanes i Grist weddio yn yr Ardd am gael ei adgyfodi. Ond a ellir tybied fod y Ceidwad mawr, yr hwn a wyddai fod yn rhaid iddo farw, yn esgeuluso gweddio am gael ei adgyfodi? Pwy all brofi nad oedd y weddi yn yr Ardd yn cynwys erfyniad am adgyfodiad? Cynwysai y cwpan fod yng ngafael marwolaeth lawn cystal a marw. (c) Ni ellir bod yn sicr fod yr oll a weddiodd ef yn yr Ardd ar lawr yn yr Efengylau. (d) Nid i Grist ddysgu ufuddod yw unig bwynt pwysig y paragraph, fel y myn pleidwyr y syniad hwn. Y mae ei alwad i'r swydd gan Dduw lawn bwysiced yng ngolwg yr awdwr; ac y mae duwiol ofn y Ceidwad bwysiced a hyny. Un o elfenau mawrion perffeithiad Crist oedd dysgu ufudd-dod. Heb dduwiol ofn ni fuasai gwerth yn yr ufudd-dod. Un cwrs-weithrediad mawr oedd perffeithiad yr Iesu, ac yr oedd yr holl elfenau oedd yn y cwrs y naill bwysiced a'r llall. Yr oedd y gweddiau a'r erfyniau, y llefain cryf a'r dagrau, yn elfenau yn y perffeithiad, ac felly am yr ofn a'r ufudd-dod; a hawdd gweled fod marw yn beth yr arswydai ef rhagddo; ond ni allwn weled mai gwaredu oddiwrth farw sydd yn y geiriau hyn. (e) Nid iawn dyweyd i Grist gael ei wrandaw os mai achub rhag marw feddylir, trwy i'r Tad roddi nerth iddo i farw. Gwelir oddiwrth weddi yr Ardd na wasgai Crist am wrandawiad. Dywed wrth ei Dad, "Eto, nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." Ei ymostyngiad i ewyllys ei Dad roddai werth moesol yn ei farwolaeth. (b) **Duwiol ofn.—A chael ei wrandaw o herwydd ei dduwiol ofn.**—Yr ofn hwn oedd amod gwrandawiad ei weddiau, Beth yw natur yr ofn yma? Nid ofn marw, fel y myn rhai gredant mai gweddio am achubiaeth oddiwrth farwolaeth olygir wrth weddiau ac erfyniadau yr adnod. Gan hyny, nid cael ei wrandaw yn y peth a ofnodd yw y meddwl, ond cael ei wrandaw oblegid y duwiol ofn a'i meddiannai. Yr un yw yr ofn ag eiddo y dyn da a phur pan yn nesau at Dduw—ofn Duw fel y mae yn fôd anfeidrol sanctaidd. Hwn yw yr ofn feddianna bob creadur moesol sanctaidd. Nodwedda yr

8 Er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefodd:

---

angylion a'r saint yn y nef. Llanwai yr Iesu fel Duw-ddyn. Diau fod cyfeiriad yma at ofn yr archoffeiriad Iuddewig pan elai i'r cysegr sancteiddiolaf ar Ddydd mawr y Cymod. Amodid holl wrandawiad yr archoffeiriad yn y cysegr gan yr ofn yma. Felly am Grist—ei dduwioldeb amodai ei wrandawiad gan ei Dad. Ond beth amodai yr ofn yn yr Iesu ac yntau yn Dduw? Rhaid cofio ei fod yn fab fel Duw. Peth naturiol mewn mab anfeidrol fel meidrol yw ofn ei dad, ffynhonell ei fodolaeth. Gellir dyweyd mwy, sef fod ofn o'r natur yma yn hanfodol yng Nghrist fel Mab Tragywyddol. Eithr nid yr ofn hwnw y meddylia yr awdwr am dano yma, ond ei ofn fel Duw-ddyn. Ofnai nad allai foddio ei Dad, cyflawni ei holl ewyllys, nesu ato yn deilwng, a llanw ei holl ddelfryd fel gwaredwr dynion. Ymdeimlai mor fawr a'i wendid dibechod fel nad allai lai nag ofni fel hyn. Ni fu duwiol ofn ddwysed, ddyfned, ac eanged yn neb a Christ, a hyny oblegid mawredd ei berson a mawredd yr amgylchiadau y bu ynddynt. (c) **Dysgeidiaeth foesol** (8).—**Er ei fod yn Fab, eto a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefodd**—Dyma elfen bwysig arall. Daeth Crist yn ysgolhaig profiadol trwy ddioddefiadau. Cafodd brofiad mor chwerw nes peri iddo offrymu gweddiau a deisyfiadau gyda llefain cryf a dagrau at ei Dad, a llanwyd ef ynddynt gyda pharchedig neu dduwiol ofn. Drwy y cwrsweithredaid mawr hwn dysgodd yntau ufudd-dod. Ai nid oedd Crist yn anfeidrol mewn ufudd-dod i'r Tad cyn bod y byd? Oedd; ac nid oedd yn bosibl iddo ddysgu ufudd-dod fel Duw yn unig. Rhedai ufudd-dod allan o'i fynwes heb un trafferth. Eithr ni feddai y cyfryw ufudd-dod fel Duw-ddyn. Bu raid iddo ddysgu beth oedd ufudd-dod mewn natur feidrol drwy brofiad. Un derfynol yw natur feidrol, ac ni all ddadblygu yn y byd hwn heb rwystrau a dioddefaint, er iddi fod yn ddibechod. Ni wyddai yr Iesu beth oedd ufudd-dod o'r fath yma cyn ymgnawdoli. Nid dysgu ufuddhau ddywedir, ond dysgu ufudd-dod. Meddai y gallu i ufuddhau, ond rhaid oedd iddo ddysgu ufudd-dod trwy weithredu y gallu mewn dioddefiadau. Pechadur sydd yn dysgu ufuddhau. Dysgu ufudd-dod wrth ufuddhau wna bôd sanctaidd. Beth yw ufudd-dod? Yr ewyllys yn plygu yn llwyr i ewyllys un arall, beth bynag fyddo yr anhawsderau. Plygodd Crist ei ewyllys i ewyllys ei Dad trwy ymgnawdoli, mewn cyfyngu ei hun i amodau meidrol, trwy

9 Ac wedi ei berffeithio, efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo;
10 Wedi ei gyfenwi gan Dduw yn Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec.

---

ddioddef pob peth oedd raid er mwyn bod yn archoffeiriad ei bobl; bu fyw mewn duwiol ofn trwy ei fywyd yn y cnawd, a bu farw i gyflawni yr ewyllys ddwyfol. Y pethau a ddioddefodd fu ei athrawon mewn dysgu ufudd-dod. Hwy fu yr amodau i'w wneyd yn ysgolhaig moesol yn holl ganghenau bywyd dynol. Dysgyblasant ei fywyd nes ei wneyd yn foesol gymhwys i fod yn archoffeiriad. (d) **Perffeithrwydd ysbrydol** (9-10).—**Ac wedi ei berffeithio, efe a ddaeth i'r rhai oll a ufuddhant iddo yn awdwr iachawdwriaeth dragywyddol.**—Dyma bedwaredd elfen cymhwysder profiadol Crist. Drwy y dioddefiadau gynyrchent weddiau, etc., duwiol ofn a dysgu ufudd-dod, perffeithiwyd y Gwaredwr yn awdwr iachawdwriaeth. Cyrhaeddodd ei holl alluoedd eu dadblygiad gofynol i fod yn archoffeiriad. Cafodd brofiad o beth oedd ymberffeithio. Ni feddai y profiad hwn fel Duw. Perffeithrwydd hollol (*absolute*) oedd ganddo fel Duw, ac ni allasai gael ei berffeithio ym mhellach ynddo. Perffeithrwydd elfenol oedd ynddo pan yn faban. Posibilrwydd perffeithrwydd oedd eiddo ei natur ddynol yn y preseb. Beth yw "perffeithrwyd" yr adnod hon? Un dadblygol neu berthynasol—un y rhaid cael profiad i'w enill. Hefyd perffeithrwydd ysbrydol ydyw, oblegid efe a'i cymhwysodd i fod yn waredwr ysbrydol. Nid ei berffeithrwydd fel Duw nac fel dyn yw ef, ond ei berffeithrwydd fel Duw-ddyn. Yn y perffeithrwydd hwn cyrhaeddodd ddelfryd Duw am ddyn. Canlyniad yr oll yw iddo ddyfod trwy ei ddioddefaint, ei dduwiol ofn, ei ddysgeidiaeth a'i berffeithrwydd yn awdwr "iachawdwriaeth dragywyddol." Yn hyn y mae yn rhagori ar yr archoffeiriaid Iuddewig. Iachawdwriaeth am flwyddyn oedd yr eiddynt hwy, ond un dragywyddol enillodd Crist. Yn yr iachawdwriaeth hon ceir pob peth gofynol i berffeithio dynion fel y perffeithiwyd Crist ei hun. Yr unig amod yw ufuddhau iddo ef fel yr ufuddhaodd ef i'w Dad. (3) **Cydnabyddiaeth ddwyfol** (10).—**Wedi ei enwi gan Dduw yn ol urdd Melchisedec.**—Enwodd Duw ef, neu, yn llythyrenol, "wedi ei gyfarch gan Dduw yn archoffeiriad." Wedi gorphen ei holl waith, cyfarchodd Duw ef yng ngeiriau yr adnod hon. At y cyfarchiad iddo

11 Am yr hyn y mae i ni lawer i'w dywedyd, ac anhawdd eu traethu, o achos eich bod chwi yn hwyr-drwm eich clustiau.

12 Canys lle y dylech fod yn athrawon o ran amser, y mae

---

ar ol gorphen ei waith y cyfeirir yma, ac nid ei gyafrchiad neu ei benodiad i'r swydd yn nhragywyddoldeb. Cyferchir ef yn awr gan y Tad fel un wedi sylweddoli y ddelfryd dragywyddol o archoffeiriad. Medd hawl i'r swydd ar sail ei berffeithrwydd a'i gymhwysderau ereill, ac fel un o'r fath y cyfarcha y Tad ef. Ni allasai wasanaethu y swydd er gorphen ei waith heb y cyfarchiad neu y gydnabyddiaeth yma. Cael ei gydnabod fel un foddlonodd ei Dad, ac un cymhwys i'r swydd yn ol yr urdd uchaf, roddai iddo hawl i'w gweinyddu.

III. Rhesymau dros beidio egluro yr oll am Grist (11-14).—(1) **Diffyg archwaeth** (11).—**Am yr hwn y mae llawer i'w ddywedyd, ac anhawdd i'w ddeongli, am eich bod chwi wedi dyfod yn hwyrdrwm eich clustiau.**—Pwy yw yr "hwn" a nodir yma? (1) Melchisedec medd amryw. Ar yr olwg gyntaf gellid meddwl mai efe sydd ger bron meddwl yr awdwr. Gellir tybio fod yr awdwr yn dal ym mlaen o'r adnod flaenorol heb newid y person. (2) Crist fel archoffeiriad. Hwn yw y syniad gydwedda oreu (a) a'r ymresymiad yn yr adnodau blaenorol ac a'r adnodau nesaf. Gwasgu cymhwysderau Crist fel archoffeiriad yw prif amcan yr awdwr yn yr adnodau diweddaf, ac nid tebyg y byddai yn ei daflu o'r neilldu pan yn myned at y mater nesaf. (b) Ceisio enyn dyddordeb yr Hebreaid yn yr Iesu y mae, ac nid yn Melchisedec na neb arall. (c) Crist fel archoffeiriad yw mater y penodau nesaf. Teimlai yr awdwr ei fod yn llawn o bethau i'w traethu am Grist; a llawer o'r rhai hyny yn bethau anhawdd i'w deongli —pethau dyfnion am ei offeiriadaeth yn ei pherthynas a Duw, pethau am ei Dduwdod a'i ddyndod a'r undeb rhyngddynt, pethau am natur ei ddioddefiadau a'r modd yr oeddynt yn iawn dros bechod. Gallai ef eu traethu yn hawdd, ond yr oedd diffyg archwaeth y darllenwyr ar y ffordd iddo i wneyd hyny. Wrth "hwyrdrwm" y golygir trymder clyw fel a ddaw ar hen bobl. Am hyny y defnyddir y gair lawer gwaith yn y LXX. Ni cheir ef yn y Test. Newydd yn un man ond yn yr Epistol hwn. Clyw wedi myned yn araf a phwl gyda henaint yw y ffigwr. Ei feddwl yma yw diffyg archwaeth at bethau dyfnaf person Crist fel archoffeiriad pechadur. (2) **Diffyg gwybodaeth** (12).—**Canys**

arnoch drachefn eisieu dysgu i chwi beth ydyw egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw: ac yr ydych yn rhaid i chwi wrth laeth, ac nid bwyd cryf.

13 Canys pob un a'r sydd yn ymarfer a llaeth, sydd anghynefin a gair cyfiawnder; canys maban yw.

---

lle dylech fod yn athrawon o ran amser, mae arnoch eisieu drachefn i ryw un ddysgu i chwi elfenau egwyddorion cyntaf oraclau Duw; ac yr ydych wedi dyfod yn gyfryw rai ag y mae yn rhaid i chwi wrth laeth, ac nid bwyd cryf.—Rhaid meddu gwybodaeth a dirnadaeth bur eang cyn y gellir gwerthfawrogi y pethau dyfnaf am yr Iesu. Yr oedd yr Hebreaid drwy ddifaterwch a diffyg archwaeth yn analluog i ddirnad gwirioneddau mawrion. Cawsant ddigon o amser a manteision i fod yn athrawon yn y rhai hyn, ond ni wnaethant ddefnydd ohonynt. Y canlyniad o hyn oedd, fod yn rhaid i'r awdwr fyned yn ol at lawer o bethau elfenol. Wrth elfenau y golygir yma y pethau symlaf mewn egwyddorion ysbrydol. Defnyddir y gair am y Wyddor am mai y llythyrenau yw elfenau cyntaf gwybodaeth. Bryd arall cawn ef am unigolion wnant i fyny restr, ac am elfenau symlaf mater neu unrhyw wrthddrych arall. Nid oedd meddyliau yr Hebreaid yn alluog i ddirnad yr elfenau berthynent i egwyddorion cyntaf gwybodaeth o Grist. Meddwl hyny yw y pethau symlaf yng ngair Duw am dano. Geiriau olygir wrth— λογίων —"oraclau." Bachigyn (*diminutive*) yw y gair o "logos"—gair. Ei feddwl yma yw y wybodaeth elfenol o Grist a'r iachawdwriaeth sydd ynddo. Dirywiodd yr Hebreaid trwy ddifaterwch a diffyg archwaeth ysbrydol fel nad allent ddirnad yr egwyddorion syml hyn. (3) **Diffyg profiad** (13).—**Canys pob un sydd yn cyfranogi o laeth, dibrofiad yw o air cyfiawnder; canys maban yw.**—Gwnelai yr ymborth ysbrydol a gymerent hwy yn amddifaid o brofiad o egwyddorion dyfnaf yr efengyl. Ar y pethau symlaf y byddent byw—pethau plant ysbrydol. Plant sydd yn byw ar laeth yn unig. Nid oes ganddynt archwaeth na phrofiad o fwyd cryf. Dengys hyn nad ffrwyth diryw iad yn unig oedd cyflwr yr Hebreaid, ond diffyg profiad hefyd. Ni phrofasant egwyddorion mawrion yr efengyl, ac o ganlyniad nid oedd awydd ynddynt am danynt. Cyfieithir y gair "dibrofiad" yma yn anfedrus ac anghynefin; eithr yr un yw yr ystyr. Dim ond y profiadol sydd yn fedrus a chynefin. Beth olyga "gair cyfiawnder" yma? (1) Cyfiawnder moesol mewnol—cyfiawnder fel y mae yn rhinwedd moesol

14 Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith, y rhai oherwydd cynefindra y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosparthu drwg a da.

---

yn yr enaid. O'r braidd y credwn mai hwn yn unig oedd o flaen meddwl yr awdwr. (2) Cyfiawnhad trwy ffydd. Hyny yw, dirnadaeth o'r athrawiaeth am gyfiawnhad trwy Grist fel archoffeiriad. Ymddengys i ni mai hwn olygai yr awdwr yn uniongyrchol. Eithr gofynol cofio fod yr awdwr yn siarad a'r dynion hyn fel rhai wedi eu cyfiawnhau. Eithr nid oeddynt wedi ymdrechu gwneyd eu cyfiawnhad yn brofiad sylweddol. Pan gyfiawnheir dyn, derbynia gyfiawnder moesol gan Dduw; ond dibyna arno ef ei hun i'w wneyd yn brofiad byw yn ei enaid. Er hyny, credwn mai yr athrawiaeth oedd amlycaf o flaen meddwl yr awdwr. Er yn fyw ysbrydol, babanod ysbrydol oeddynt, er fod llawer o amser oddiar eu hail-enedigaeth. (4) **Diffyg dadblygiad** (14).—**Eithr bwyd cryf a berthyn i ddynion llawn-dwf, sef y rhai oherwydd cynefindra sydd a'u synwyrau wedi ymarfer i ganfod da a drwg.**—Dengys yr adnod hon mai rhai heb ddadblygu oeddynt. Gan mai llaeth yr ymborthent arno profai hyny eu cyflwr annadblygedig. I rai "llawn-dwf," hyny yw, rhai dadblygedig, y perthyn bwyd cryf. Bwyd cryf yma yw athrawiaethau mawrion yr efengyl, ac yn fwyaf neillduol, athrawiaeth cyfiawnhad trwy yr archoffeiriad dwyfol. A gyrhaedda dyn ddadblygiad llawn ei alluoedd yma? Na wna; ond gall gyrhaedd dadblygiad uwch na bod yn blentyn meddyliol. Medr dyfu i ddeall egwyddorion crefydd fel ag i allu ymborthi arnynt. Heb y cyfryw ddadblygiad ni all ddirnad athrawiaethau gras. Eto, dynion yw rhai llawn-dwf ydynt yn gynyrch gwaith. Rhai arferent eu synwyrau ydynt. Nid y synwyrau corfforol, megys y llygad a'r glust, ond eu galluoedd meddyliol. Drwy ymarfer tyfant i fedru gwahaniaethu rhwng drwg a da. Ymarferiad o alluoedd yn unig alluoga ddyn i wahaniaethu rhwng pethau ym mhob cylch. Felly gydag athrawiaethau yr efengyl. Gofynol ymarfer i adnabod y gwahaniaeth rhwng athrawiaethau gwir a gau. Nid da a drwg mewn ystyr ddansoddol—*abstract*—feddylir yma. Gall dyn llawn-dwf wahaniaethu rhwng da a drwg yn yr ystyr hyny. Ond nid dyna olygir yma; ond yn hytrach athrawiaethau afiach a rhai iach.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Astudier yr angenrheidrwydd am i archoffeiriad fod yn ddyn.

Ystyrier cyfundrefn aberthol yr Hen Oruchwyliaeth.

Efryder y gwahaniaeth a'r tebygolrwydd rhwng urdd Aaron ac urdd Melchisedec.

Yr hyn gynwysai ufudd-dod, dysgu ufudd-dod a pherffeithiad Crist.

Gwahanol ystyron iachawdwriaeth, ac ystyr iachawdwriaeth dragywyddol.

Y modd y perffeithia iachawdwriaeth alluoedd yr enaid.

Yr achos moesol fod dynion yn hwyrdrwm i glywed.

Yr achosion o ddiffyg dadblygiad mewn dirnadaeth ysbrydol.

Lle yr ewyllys ddynol ym mhob methiant ysbrydol.

Yr ystyron roddir i'r gair "cyfiawnder" yn y Testament Newydd.

III. Traethawd.

Dysgu Ufudd-dod (8-9).

I. Natur ufudd-dod.—Peth a berthyn i'r ewyllys yw ufudd-dod. Neu gwell dyweyd mai peth a berthyn i weithrediad yr enaid yw ef. Beth yw ei egwyddor eithaf? Gwirfoddolrwydd. Ond rhaid egluro y gwirfoddolrwydd hwn ym mhellach. Nid gwirfoddolrwydd gynyrchir gan amgylchiadau anocheladwy na chan ddeddf yw yr un geir mewn ufudd-dod perffaith. Ai llawer o'r merthyron drwy boenau a marwolaeth o'u bodd, ond syrthio i'r anocheladwy a wnaent. Nid felly am ufudd-dod perffaith; cynyrchir gwirfoddolrwydd yn hwn gan (1) gariad at y sawl yr ufuddheir iddo, (2) awyddfryd anorchfygol am ufuddhau, (3) penderfyniad di-ildio i roddi ufudd-dod beth bynag fyddo yr anhawsderau, (4) cariad at amcan yr ufudd-dod, ac at y moddion i gyrhaedd yr amcan, (5) mwynhâd digymysg wrth ufuddhau oherwydd y daioni gynhwysa'r weithred. Tardda ufudd-dod perffaith o'r enaid fel y dail a'r hadau yn y gwanwyn. Cynyrch natur fewnol y dyn yw ef ac nid cynyrch amodau allanol.

II. Dysgu ufuddhau a dysgu ufudd-dod.—Un fel ag a ddesgrifiwyd oedd ufudd-dod Crist yn ei natur; ond a ydyw yn iawn dyweyd iddo ddysgu ufuddhau? Nac ydyw; ni allai ddysgu ufuddhau fel yr oedd yn Fab Duw. Ufuddhau fu ei hanes ar hyd tragywyddoldeb cyn ymgnawdoli. Buasai anufuddhau i'w Dad yn ammhosibl iddo oblegid fod ufudd-dod gwirfoddol yn un o egwyddorion gwreiddiol ei natur. Fel Duw, ni allasai ddysgu ufuddhau na dysgu ufudd-dod. Ni ddysgodd ufuddhau fel Duw-ddyn chwaith, am na feddai brofiad o unrhyw duedd i anufuddhau. Pan wynebai Galfaria ni theimlai ronyn o awydd anufuddhau. Y mae dysgu ufuddhau yn tybio fod tuedd i anufuddhau yn y sawl ddysgir. Nid yw dysgu ufudd-dod yn cynwys hyny. Rhaid meddu tueddfryd gref i ufuddhau cyn y medrir dysgu ufudd-dod yn iawn. Ammhosibl i'r sawl sydd yn amddifad o'r dueddfryd yma ddysgu ufudd-dod perffaith. Meddai Crist dueddfryd anorchfygol i ufuddhau fel Duw-ddyn, ac o ganlyniad, gallodd ddysgu ufudd-dod. Dysgu ufudd-dod yw dysgu beth sydd yn gynwysedig ynddo, a'i amod yw awyddfryd i ufuddhau. Yr awyddfryd i ufuddhau yw achos y dysgu ufudd-dod. Drwy ei awydd angerddol i ufuddhau y dysgodd Crist ufudd-dod trwy ddioddefiadau. Buasai heb ddysgu byth beth oedd ufudd-dod trwy ddioddefiadau onibae ei awydd anfeidrol am ufuddhau. Ni wyddai beth oedd ufudd-dod trwy ddioddefiadau yn y nef, rhaid oedd iddo ymgnawdoli i wybod hwnw.

III. Y pethau y dysgodd Crist ufudd-dod ynddynt.—(1) **Preswylio tufewn i derfynau meidroldeb.**—Daeth nid yn unig tufewn i derfynau'r meidrol, ond yn ddarostyngedig i holl ddeddfau corph ac ysbryd meidrol. Ufuddhaodd i'r holl ddeddfau hyn a dysgodd beth oedd ufudd-dod iddynt. Nid dysgu ufuddhau iddynt cofier, ond dysgu beth oedd ufudd-dod iddynt trwy brofiad. Ewyllysiai ef ufuddhau iddynt cyn dyfod yn ddyn a'r un peth ar ol hyny. (2) **Holl amgylchiadau dynol**—Fel Duw cyn ymgnawdoli, nid oedd yn wrthddrych amgylchiadau, ond ar ol hyny daeth yn wrthddrych poen, dioddefiadau, newyn a syched, blinder a gofid, erledigaeth a gwawd, ammharch a pharch, ammhoblogrwydd a phoblogrwydd, a lluaws o amgylchiadau ereill. Dysgodd beth oedd cynwys ufudd-dod yn y rhai hyn eto, ond ni ddysgodd ufuddhau. Pe felly ni fuasai gwerth moesol perffaith yn ei waith. (3) **Angau y Groes.**—Bu "yn ufudd hyd angau, ie, angau y groes," medd Paul. Awyddai ufuddhau hyd waelodion angau, sef y man pellaf y mae ufudd-dod yn bosibl. Dysgu ufudd-dod, sef beth oedd ufudd-dod, a wnaeth yma eto, ac nid dysgu ufuddhau. Yr

oedd ufuddhau yn llond ei enaid mawr yn y weithred o farw, ond drwy ufuddhau hyd farw y dysgodd beth oedd ufudd-dod. (4) **Beth oedd ufudd-dod i'w Dad yn y natur ddynol.**—Yn ei ufudd-dod yn y tri pheth blaenorol dysgodd ufudd-dod fel y dangoswyd, ond dysgodd fwy na hyny, sef, pa mor galed oedd ufudd-dod i'w Dad mewn natur feidrol. Hawdd oedd deall ufudd-dod iddo mewn natur anfeidrol. Hawdd oedd deall ufudd-dod iddo yn y nef; ond nid felly yn y natur ddynol ar y ddaear.

IV. Dysgu ufudd-dod a pherffeithrwydd.—Amod perffeithiad Crist oedd dysgu ufudd-dod. Ni ellir perffeithio unrhyw fywyd ond trwy ufudd-dod. Ufudd-dod i ddeddfau eu natur berffeithia y bywyd llysieuol, anifeilaidd, dynol ac angylaidd. Yr un modd am Grist; ni allasai gyrhaedd perffeithrwydd heb ddysgu ufudd-dod. Egwyddor hanfodol moesoldeb yw ufudd-dod, ac heb ei gweithredu yn gyson nes dysgu ufudd-dod ym mhob cylch o fywyd, a thrwy y dioddefiadau mwyaf, ni ellir cyrhaedd perffeithrwydd. Ufuddhaodd ef i ddeddfau anianyddol, deddfau meddyliol, deddfau moesol a deddfau ysbrydol ei berson; ac ufuddhaodd i Dduw, a thrwy hyny perffeithiodd holl alluoedd ei natur nes dyfod yn awdwr iachawdwriaeth berffaith i bechadur.

V. Dysgu ufudd-dod ac eangder perffeithrwydd.—Pa mor eang oedd y perffeithrwydd ddysgodd Crist trwy ufudd-dod? (1) **Yr oedd eanged a'i natur ddynol.**—Nid oedd un egwyddor yn ei natur ddynol na pherffeithiwyd hi trwy ddysgu ufudd-dod trwy ddioddefiadau. Amododd y ddysgeidiaeth hon addfediad ei holl alluoedd dynol. Ammhosibl i alluoedd natur dyn ddadblygu yn berffaith heb ddysgu ufudd-dod yn holl gylch bywyd. Ufuddhaodd Crist ym mhob peth, ac o ganlyniad, dysgodd ufudd-dod ym mhob peth, a bu hyn yn amod perffeithiad llawn ei natur ddynol. (2) **Yr oedd eanged a'i berson dwyfol.**—A oedd perffeithio yn bosibl ar berson perffaith? Ydoedd mewn un ystyr. Cafodd Crist fel Duw brofiad pan ar y ddaear nad oedd yn bosibl iddo yn y nef. I fod yn Iachawdwr perffaith, rhaid oedd iddo wrth y profiad hwn. Efe oedd un o amodau mwyaf hanfodol ei berffeithrwydd fel Gwaredwr. Nid fel dyn y dysgodd Crist ufudd-dod, ond fel Duw-ddyn; ac nid fel dyn y perffeithiwyd ef, ond fel Duw-ddyn. Gan hyny, yr oedd y perffeithrwydd amodwyd gan ddysgu ufudd-dod eanged a'i berson dwyfol-ddynol. Yn y nef ni feddai brofiad o wendid, poen, tristwch a gofid, ing ac angau; ond daeth yn brofiadol ohonynt oll ar y ddaear, a throisant yn berffeithrwydd Gwaredwr ynddo.

IV. Gofyniadau.

(1) Esbonier adn. 1 yn ei pherthynas a'r benod flaenorol, a rhodder amlinelliad o'r benod hon.

(2) Paham yr oedd yn rhaid i archoffeiriad fod o blith dynion? Beth ofynai am iddo aberthu drosto ei hun yn gystal a thros y bobl?

(3) Paham na allasai yr archoffeiriad gymeryd yr anrhydedd i fyned i'r swydd ohono ei hun, adn. 4-5? At beth y cyfeiria "Myfi heddyw a'th genhedlais di?"

(4) Pwy oedd Melchisedec, a beth oedd yn uwchraddol yn ei urdd archoffeiriadol?

(5) Esboniwch yn fanwl adn. 7-8, a dangoswch y gwahaniaeth rhwng dysgu ufudd-dod a dysgu ufuddhau.

(6) Ym mheth y perffeithiwyd Crist? Beth oedd perthynas y perffeithio a gwneyd yn awdwr iachawdwriaeth, adn. 9?

(7) Am Grist neu Melchisedec y siarada, adn. 11?

(8) Beth rwystrodd yr Hebreaid i fod yn athrawon? Beth yw dysgu "egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw," adn. 12?

(9) Eglurwch ystyr "gair cyfiawnder," adn. 13; "rhai perffaith" a "dosbarthu drwg a da," adn. 14.

(10) Eglurwch natur ufudd-dod. Beth yw perthynas ufudd-dod a pherffeithrwydd moesol? Dangoswch eangder perffeithiad Crist.

PENOD VI.

ADRAN III. (Parhad).

Dyledswydd yr Hebreaid, canlyniad ei hesgeuluso, calondid iddynt, a sicrwydd y cyflawnai Duw ei addewidion.

I. Dadansoddiad.

I. **Y ddyledswydd i adael yr ammherffaith ac ymestyn at y perffaith** (adn. 1-3).
  (1) *Gwedd nacaol a chadarnhaol y ddyledswydd* (adn. 1).
  (2) *Elfeniad o wedd nacaol y ddyledswydd* (adn. 1, 2).
  (3) *Amod cyflawniad y ddyledswydd* (adn. 3).

II. **Canlyniadau esgeuluso y ddyledswydd** (adn. 4-8).
  (1) *Yr hyn a esgeulusir* (adn. 4 5).
    (*a*) *Goleuni nefol* (adn. 4).
    (*b*) *Profiad nefol.*
    (*c*) *Cyfranogiad o'r Ysbryd dwyfol*
    (*d*) *Daioni y gair ysbrydol* (adn. 5).
    (*e*) *Dylanwad y byd tragywyddol.*
  (2) *Ammhosibilrwydd adferiad o'i hesgeuluso* (adn. 6-8).
  (3) *Y rheswm am yr ammhosibilrwydd* (adn. 6).
    (*a*) *Ysbryd y gwrthgilwyr.*
    (*b*) *Deddf feddyliol* (adn. 7, 8).

III. **Calondid i'r Hebreaid credinicl a dymuniad am eu llwyddiant** (adn. 9-12).
  (1) *Ffydd yr awdwr* (adn. 9).
  (2) *Sail ei ffydd—cymeriad Duw* (adn. 10).
  (3) *Gwaith yr Hebreaid.*
    (*a*) *Cymhellydd eu gwaith.*
    (*b*) *Gwrthddrych eu cariad.*
    (*c*) *Cylch eu gwaith.*
    (*d*) *Cysondeb eu gwaith.*

1 Am hyny, gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yng Nghrist, awn rhagom at berffeithrwydd; heb

---

(4) *Dymuniad yr awdwr am eu llwyddiant* (adn. 11-12).
(*a*) *Mewn gweithgarwch* (adn. 11).
(*b*) *Mewn bywiogrwydd* (adn. 12).
(*c*) *Mewn efelychiad o'r ffyddloniaid.*

IV. Rhesymau dros sicrwydd cyflawniad addewidion Duw (adn. 13-20).
(1) *Bwriad Duw* (adn. 13, 14).
(2) *Ffydd ac amynedd dyn* (adn. 15).
(3) *Geirwiredd Duw* (adn. 16-18).
(*a*) *Geirwiredd ei addewid* (adn. 16, 17).
(*b*) *Geirwiredd ei lw* (adn. 17, 18).
(4) *Y cymhelliad gyfyd o eirwiredd Duw* (adn. 18, 19).
(5) *Sylweddoliad Crist o'r addewid* (adn. 20).

II. Eglurhad.

Yn y benod flaenorol manylodd yr awdwr ar gymhwysderau archoffeiriad, a dangosodd fod yr holl gymhwysderau gofynol yn berffaith yn yr Iesu. Dengys ganfyddiad clir o egwyddorion hanfodol yr hyn y traetha arno a threiddgarwch meddwl o'r radd flaenaf. Dwg ei ddarllenwyr at uchelderau Duwdod Crist a dyfnderoedd ei ufudd-dod, a dengys fod dyfnderoedd yr ufudd-dod hwnw wedi ei berffeithio i fod yn awdwr iachawdwriaeth dragywyddol. Yna dywed fod llawer o bethau ereill i'w traethu am Grist, ond am resymau fodolent yn yr Hebreaid eu hunain na wnelai eu cyffwrdd. Yr oeddynt hwy mor hwyrdrwm, annysgedig, dibrofiad, ac ammherffaith fel nad doeth oedd traethu dyfnion bethau Duw wrthynt. Yn y benod nesaf cychwyna trwy eu hanog i adael pethau elfenol crefydd ac ymegnio i gyrhaedd perffeithrwydd. Pethau plant yr arhosai yr Hebreaid gyda hwynt, ac anoga yr awdwr hwynt i ymdrechu ymestyn at bethau dynion llawn-dwf.

I. Y ddyledswydd i adael yr ammherffaith ac ymestyn at y perffaith (1-3).—(1) **Gwedd nacaol a chadarnhaol y ddyledswydd** (1). **Oherwydd paham rhoddwn heibio lefaru am egwyddorion cyntaf Crist, a phwyswn ym mlaen at berffeithrwydd.**—Cysyllta "oherwydd

osod i lawr drachefn sail i edifeirwch oddiwrth weithredoedd meirwon, ac i ffydd tuag at Dduw,

---

paham" a'r benod flaenorol, ac yn benaf a'i rhan olaf. Dangosodd yr awdwr yn yr adnodau olaf mai rhai hwyrdrwm, babanaidd, ac annadblygedig oedd yr Hebreaid. Am y rheswm hwnw, anoga hwynt yma i beidio aros felly, i beidio boddloni bod yn blant yn barhaus, yn rhai dibrofiad ac ammherffaith; eithr yn hytrach ymwthio ym mlaen. Ystyr gyntaf y gair *φερώμεθα* —a gyfieithir yma "a phwyswn ym mlaen"—yw taflu pwys ar allu arall o'r tu allan. Golyga felly, taflu ein hunain ar allu a'n caria ym mlaen. Nid hwn yw y meddwl yma. Anog yr Hebreaid i ymdrech personol wna yr awdwr. Gan hyny, meddwl y gair yma yw "ymdrechwn." Beth olygir wrth "roddi heibio?" (1) Rhoddi heibio gan yr awdwr i draethu ar elfenau crefydd Crist, medd rhai esbonwyr dysgedig. Eithr ammhosibl derbyn y syniad hwn. Newydd ddyweyd y mae ef nad allasai yr Hebreaid gymeryd ond llaeth, sef ymborth babanod, oherwydd cyflwr eu meddyliau. Gan hyny, ni allwn gredu y buasai doethed a galluoced awdwr yn penderfynu ysgrifenu atynt bethau nad allent eu derbyn oherwydd bychander eu meddyliau. (2) Myn llawer mai anog yr Hebreaid i adael pethau elfenol ammherffaith crefydd wna ef, a dymuno arnynt ymestyn at ei phethau mawrion perffaith. Ymddengys y rhesymau yn erbyn y golygiad hwn yn annigonol a gwan, sef (a) fod y geiriau "rhoddi heibio" yn cynwys penderfyniad yr awdwr i roddi heibio traethu ar y pethau y traethodd arnynt o'r blaen; (b) nad all "gosod i lawr drachefn" gyfeirio at ddim ond bwriad yr awdwr i sylfaenu ei athrawiaeth yn y dyfodol ar egwyddorion a ddeallid gan ei ddarllenwyr; (c) fod "hyn a wnawn" (adn. 3) yn profi ei benderfyniad i adael yr elfenol a myned at y perffaith. Pe gwir hyn, buasai raid edrych ar yr awdwr fel un annoeth tuhwnt. (a) Pa awdwr call adawai holl elfenau crefydd a myned i draethu ar bethau na ddeallid gan ei ddarllenwyr? (b) Onid holl amcan ei fanylu ar bethau yw eu cael i ddeall yn well ac eglurach? (c) Gwnai gadael yr elfenol yn hollol ei holl ymdrech yn ddifudd. (d) Defnyddia ef y lluosog, "rhoddwn heibio" a "phwyswn ym mlaen," oblegid fod hyny yn arferiad gan awdwyr a siaradwyr pan yn anog pobl i wella. Y mae hyn yn ffordd esmwythach na dyweyd "rhoddwch heibio" a "phwyswch ym mlaen." (3) Gall fod un elfen o wirionedd

2 I athrawiaeth bedyddiadau, ac arddodiad dwylaw, ac

yn y syniad cyntaf, er mai yr ail a gymeradwywn. Ni charem ddyweyd nad oedd yr awdwr yn penderfynu cario y darllenwyr at bethau mwy a pherffeithiach. ond ni allasai benderfynu gadael yr elfenol yn hollol. Paham? (a) Am na chaniatäi meddwl yr Hebreaid iddo wneyd hyny. Rhaid oedd iddo gymysgu yr elfenol a'r perffaith i allu cyrhaedd yr amcan oedd ganddo mewn golwg. (b) Dywed yn adn. 12 o'r benod flaenorol fod arnynt eisieu rhywun i ddysgu iddynt "elfenau egwyddorion cyntaf oraclau Duw." Gan hyny, ni fuasai mor annoeth a phenderfynu gadael yn hollol draethu ar elfenau crefydd i'r Hebreaid. Pleidir y syniad hwn sydd yn cyfuno y ddau gyntaf gan lawer, a gwnawn ninau yn rhanol, ond nid yn hollol. Beth olygir wrth berffeithrwydd yma? Ai nid oedd yr elfenau yn berffaith? Oeddynt; ond mewn natur yn unig yr oeddynt felly, ac nid mewn graddau. Y mae cyfansoddiad anianyddol a meddyliol y baban yn berffaith mewn natur neu bosibilrwydd, ond nid mewn graddau. Felly am athrawiaethau crefydd—yr egwyddorion cyntaf. Nid ydynt berffeithiod mewn graddau a'r rhai mawrion, dyfnion. Fel y dangoswyd, o'r blaen, y mae tri perffeithrwydd, sef perffeithrwydd elfenol, posibilrwydd, neu natur; perffeithrwydd perthynasol; a pherffeithrwydd hollol. Yr ail o'r tri ydyw yr un dan sylw—perffeithrwydd llawn dwf, o'i gymharu a phlentyn, sef perffeithrwydd perthynasol. (2) **Elfeniad o wedd nacaol y ddyledswydd** (1-2).—**Heb osod i lawr drachefn sail i edifeirwch oddiwrth weithredoedd meirwon a ffydd tuag at Dduw, am addysgiad bedyddiadau, ac arddodiad dwylaw, ac adgyfodiad y meirw a barn dragywyddol.**—Dim ond yr anogaeth geir yn y frawddeg gyntaf; yma cawn elfeniad o'i chynwys. Manyla y geiriau ar y pethau yr anogir y darllenwyr i'w gadael. Ochr nacaol y ddyledswydd oedd rhoddi heibio, a'i hochr gadarnhaol oedd gwasgu ym mlaen at berffeithrwydd. Ond nid yw hyn yn dangos yn fanwl beth ddylid roddi heibio. Brawddegau roddasant drafferth fawr i esbonwyr yw y rhai hyn. Try pwnc y ddadl o gwmpas y gair "sail," sef o beth y gwneir y "sail" i fyny? (1) Myn y nifer lluosocaf mai y chwech peth a nodir yma wnant i fyny elfenau y sail, sef edifeirwch a ffydd, bedyddiadau ac arddodiad dwylaw, adgyfodiad y meirw a'r farn. Dosbarthant y rhai hyn i dri, gan osod edifeirwch a ffydd gyda'u gilydd, bedyddiadau ac arddodiad dwylaw, yr adgy-

adgyfodiad y meirw, a'r farn dragywyddol.

---

fodiad a'r farn. Gellir edrych ar y dosbarth cyntaf fel elfenau yn ein cymeriad personol, yr ail yn ymwneyd a'n cysylltiadau cymdeithasol, a'r trydydd yn nodi ein perthynas a'r byd arall. Dyma elfenau egwyddorion cyntaf oraclau Duw, yn ol llu o esbonwyr. Eithr ymddengys i ni fod rhesymau di-droi-yn-ol yn erbyn y syniad hwn. (a) Ni ddywedir yma mai hwy yw y sail. Yn hytrach, gosod sail iddynt ddywed yr awdwr ac nid gwneyd sail drachefn ohonynt. (b) Nid pethau elfenol crefydd yw edifeirwch a ffydd, na'r adgyfodiad a'r farn. Rhaid i ddynion wrth edifeirwch a ffydd tra fyddant byw, a chredwn y bydd raid iddynt wrth ffydd yn dragywyddol. Heb ffydd ni allasai yr Hebreaid fyned rhagddynt at berffeithrwydd. (c) Ni all arddodiad dwylaw a bedyddiadau fod yn sail i grefydd yn yr un ystyr ag edifeirwch a ffydd. Cymysgu elfenau o wahanol natur yw ceisio gwthio y syniad hwn fel yr un cywir. Elfenau ysbrydol y rhaid i'r enaid eu meddu yw edifeirwch a ffydd cyn y gall fod yn gadwedig; perthyn i athrawiaethau crefydd y mae y pedwar peth arall. (2) Barn ereill yw, mai elfenau y sail yw bedyddiadau, arddodiad dwylaw, adgyfodiad y meirw a'r farn, a bod edifeirwch a ffydd yn oruwchadeiladaeth ar sail y pedwar. (a) Ond pa reswm geir yn y geiriau dros hyny? Dywed y geiriau sail i edifeirwch, etc., a gwyrdroi y geiriau yw dyweyd fod y pedwar peth ddilyna edifeirwch a ffydd yn sail iddynt. (b) Ni ellir edrych ar y pedair athrawiaeth a nodir yma o safle duwinyddiaeth Feiblaidd na chyfundrefnol yn sail i edifeirwch a ffydd. (3) Deil rhai mai heb dynu i lawr drachefn y sail a olygir wrth y geiriau. Byddai y fath ddarlleniad yn hollol annaturiol a direswm. Ni ellir tynu sail i lawr am ei bod ar y llawr eisioes. (4) Rhaid i ni wahaniaethu yma oddiwrth yr holl esbonwyr ydym wedi ddarllen, ac edrych ar y "sail" fel y ddysgeidiaeth elfenol arweiniai at edifeirwch a ffydd, etc. (a) Edrychai yr awdwr ar gyfangorph yr Hebreaid fel rhai wedi edifarhau a chredu. Dengys hyny yn eglur yn adn. 9-12. (b) Ni allasai awdwr alluoced ag ef edrych ar edifeirwch a ffydd yn elfenau egwyddorion cyntaf ymadrodd Crist. Y mae y rhai hyn yn elfenau hanfodol. Pwy rydd fwy o bwys ar ffydd nag ef? (c) A iaith yn bendant yn erbyn credu mai edifeirwch etc., yw y sail, oblegid dywedir "heb osod i lawr drachefn sail i edifeirwch." Dysgwyd yr Hebreaid mewn lluaws o bethau a'u har-

weiniodd at ffydd ac edifeirwch, etc., megys hanes Crist a phethau ereill a geir ym mhen ii. Pethau elfenol oedd y rhai hyny. Hefyd, dysgwyd hwy pa fodd y llanwai Crist ddrychfeddwl yr Hen Dest. am y Messiah a'r modd yr oedd ef yn gyflawniad o'r prophwydoliaethau. Parodd y pethau hyn iddynt edifarhau a chredu. Yn awr, anoga yr awdwr hwy i fyned ym mlaen a pheidio aros gyda'r pethau a'u harweiniodd i gredu ac edifarhau. Y rhai hyn oedd y sail ac nid oedd eisieu ail osod y sail hono i lawr. Nid sail ysbrydol feddylir yma, ond sail dysgeidiaeth—sail athrawiaethol, megys hanes bywyd, gwaith, adgyfodiad ac esgyniad Crist. Beth yw edifeirwch—*μετανοία*? Cyfnewidiad meddwl (1) yn ei syniadau am dano ei hunan ac am Dduw; (2) cyfnewidiad teimlad at bechod, hunan, a Duw; (3) cyfnewidiad ewyllys yr hwn a bar gyfnewidiad cymeriad. Beth yw y "gweithredoedd meirwon" nodir yma? (1) Pechodau, medd rhai; (2) y gweithredoedd olygai yr Iuddew yn sail cyfiawnhad medd ereill. Ni edrychid ar y rhai hyn yn weithredoedd meirwon gan yr Iuddewon, ac am hyny, ni allwn dderbyn y syniad. (3) Gweithredoedd y ddeddf y rhai wnaethpwyd yn feirw gan yr efengyl. Ni cheir yr Hen Destament yn un man yn anog dynion i edifarhau am gyflawni gweithredoedd ofynai y ddeddf; eithr pwysleisia edifeirwch am bechod. Felly, rhaid fod y syniad hwn yn anghywir. Y syniad cyntaf yw y cysonaf a dysgeidiaeth y Beibl. "Cyflog pechod yw marwolaeth." Caria gweithredoedd drwg farwolaeth foesol yr enaid ynddynt. Marweiddia pob pechod alluoedd yr enaid. Gan hyny, priodol eu galw yn weithredoedd meirwon. Beth yw "ffydd tuag at Dduw"? Ffydd—*πίστις* yw canfyddiad meddyliol o hanes, egwyddorion, gwrthddrych, neu berson. Golyga ffydd yr efengyl, ymddiriedaeth ac ymorphwysiad ar Dduw a Christ yn gystal a chanfyddiad ysbrydol ohonynt. Ffydd tuag at Dduw yw ffydd a'i chyfeiriad at Dduw yn gystal ag ynddo. Beth yw "addysgiad bedyddiadau ac arddodiad dwylaw"? Tybir fod bedyddiadau yma yn cymeryd i fewn y golchiadau a'r bedyddiadau Iuddewig; bedydd Ioan a'r bedydd Cristionogol. Credwn fod hyn yn gywirach na chyfyngu y geiriau (1) i'r bedyddiadau Iuddewig, (2) y golchiadau Iuddewig, (3) na bedydd Ioan a'r un Cristionogol fel y gwna rhai. Cafodd y rhai hyn ymdriniaeth flaenorol ac nid oedd eisieu myned atynt drachefn. Cyfeiriad sydd yn y geiriau "arddodiad dwylaw" at yr arferiad o osod dwylaw ar y rhai fedyddid. Byddai yr apostolion yn gosod

3 A hyn a wnawn, os caniata Duw.

---

dwylaw ar rai benodid i swydd hefyd. Byddai hyny yn arwyddocâd o gyfraniad dawn yr Ysbryd Glan i'r rhai osodid yn y swydd. Yr un modd am y rhai fedyddid : arwyddocâd o dderbyniad gras oedd gosod dwylaw arnynt. Golyga "adgyfodiad y meirw" yr adgyfodiad yn y dydd diweddaf. Adgyfodiad pa feirw? (1) Y saint medd rhai. I hyn nid oes sail yn y geiriau, yn y cysylltiadau nac mewn rheswm. (2) Adgyfodiad yr holl feirw. Hwn sydd yn gyson a'r geiriau—y ddysgeidiaeth am adgyfodiad y meirw yn dduwiolion ac annuwiolion. Barn y dydd olaf yw "y farn dragywyddol." Barn ar bwy? (1) Ar yr annuwiol yw syniad rhai. Eithr nid oes sail i hyn yn y geiriau na lle i gasglu hyny yn y cysylltiadau. (2) Yr annuwiol a'r duwiol; hyny yw, pawb. Ni ellir cael rhesymau digonol i wrthwynebu hwn. Paham y gelwir hi yn dragywyddol ? Nid am y bydd hi yn parhau byth; ond am y bydd yn derfynol o ran ei chanlyniadau. Bydd ei heffeithiau yn aros yn dragywyddol. Byddai galw y ddwy athrawiaeth olaf yn elfenau egwyddorion cyntaf oraclau Duw yn hollol gamsyniol. Os nad oes adgyfodiad a barn, nid oes un ystyr i grefydd Crist. Ond yr oedd y pethau arweinient i'r ddysgeidiaeth am danynt wedi eu trin, ac nid oedd eisieu dychwelyd atynt. (3) **Amod cyflawniad y ddyledswydd** (3).—**A hyn a wnawn os caniatâ Duw.**—Nododd yr awdwr y ddyledswydd ac elfenodd ei chynwys yn yr adnodau blaenorol, yn yr adnod hon dengys amod dwyfol ei chyflawniad. Ar y geiriau hyn ceir tri syniad : (1) Mai eu meddwl yw y buasai yr awdwr trwy ganiatâd Duw yn gadael elfenau y sail y pryd hwnw ac yn dychwelyd atynt ryw dro yn y dyfodol. Eithr nid oes un rheswm dros y fath syniad. (2) Os rhoddai Duw nerth iddo ef a'r darllenwyr aent ym mlaen at berffeithrwydd. Gwir fod rhaid iddynt gael nerth at yr ymdrech i gyrhaedd perffeithrwydd, ond ni allwn weled mai dyna sydd yn meddwl yr awdwr yma. (3) Os buasai Duw yn atal ei farn ar rai o'r Hebreaid, neu yr oll ohonynt oedd wedi llaesu dwylaw. Diau mai hwn yw y syniad cywir. Cadarnheir ef gan yr adnodau nesaf, y rhai a ddesgrifiant gyflwr ofnadwy gwrthgilwyr.

II. Canlyniadau esgeuluso y ddyledswydd (4-8).—Wedi trin y ddyledswydd fel y gwnaeth yr awdwr, priodol yw dangos i'r darllenwyr y perygl arswydus o'i hesgeuluso. Ffurfia y perygl gymhelliad cryf i'w chyflawni. Yn yr holl Epistol ni cheir adnodau anhawddach

4 Canys ammhosibl yw i'r rhai a oleuwyd unwaith, ac a

---

i'w deongli na phwysicach eu cynhwys na'r rhai hyn. Dangosant yn gyntaf beth esgeulusir, ammhosibilrwydd adferiad, a'r rheswm am yr ammhosibilrwydd. (1) **Yr hyn a esgeulusir** (4-5).—(a) **Goleuni nefol** (4).—**Canys o berthynas i'r rhai a oleuwyd unwaith.**—Beth yw meddwl "a oleuwyd" yma? Gall y ferf olygu (1) goleuo gwrthddrych; (2) goleuni cyffredinol sydd yn feddiant i bawb—goleuni rheswm; (3) goleuni cyffredinol yr efengyl, yr hwn sydd yn feddiant i'r credadyn. At beth y cyfeiria hi yma yw y pwynt. (1) Mynai adran o'r eglwys foreuol ac o eglwys y canol-oesoedd mai at y bedydd y cyfeiria. (2) Daliai adran arall mai goleuni ail-enedigaeth yr hwn gymer le yn y bedydd olygir. (3) Ereill a honant na all olygu llai na goleuni ail-enedigaeth, er na chysylltant ail-enedigaeth a bedydd. (4) Y goleuni ddaw gyda phregethiad yr efengyl ar wahan i ail-enedigaeth. Hwn yw y syniad cysonaf a dysgeidiaeth y Test. Newydd. (Am eglurhad pellach gwel Traethawd) (b) **Profiad nefol.—Ac a brofasant y rhodd nefol.**—Dylai "unwaith" fod o flaen y frawddeg hon eto i'w gwneyd yn llawn. Pethau unwaith am byth oedd y rhai a enwir yma oll. Ni ellir cael ail-adroddiad ohonynt. Dylent fod yn ddigon unwaith, ond y meddwl yma yw unwaith am byth. Dyna ystyr *ἅπαξ* —unwaith—ym mhob man arall yn y Test. Newydd. Beth yw y rhodd nefol? Ar hyn ceir llu o syniadau, megys mai (1) bywyd tragywyddol ydyw, (2) maddeuant, (3) ail-enedigaeth, (4) Crist ei hun, (5) Cristionogaeth, (6) holl roddion Duw yn yr efengyl, (7) yr Ysbryd Glan, (8) ffydd, (9) edifeirwch, (10) y goleuni yn yr adnod flaenorol, (11) rhyw rodd neillduol. A defnyddiad y fanod o flaen "rhodd" i brofi yn bendant fod un neillduol o flaen meddwl yr awdwr. Ond beth oedd hono yw y cwestiwn. Ni allwn dderbyn yr un o'r golygiadau blaenorol. Ein cred yw, mai y profiad hyfryd gafodd yr Hebreaid mewn canlyniad i'r goleuni dywynodd ar eu hysbryd pan glywsant yr efengyl gyntaf, feddylir wrthi. Y goleuni oedd yr achos a'r profiad nefol oedd yr effaith. Cynyrchodd y goleuni nefol brofiad nefol. Ammhosibl oedd i'r naill beidio canlyn y llall ym meddwl pob dyn di-ragfarn er iddo fod heb ei achub. (c) **Cyfranogiad o'r Ysbryd dwyfol.—Ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glan.**—Tybia rhai fod yma gyfeiriad at breswyliad yr Ysbryd Glan yn yr Hebreaid crediniol. Eithr nid oes sail i'r syniad yn y geiriau nac yn yr Epistol. Beth yw y meddwl?

brofasant y rhodd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glan,

5 Ac a brofasant ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw,

Gall (1) olygu dylanwad yr Ysbryd oedd yn gydfynedol a'r goleuni nefol a'r profiad dwyfol gawsant. Yr Ysbryd Glan gynyrchai y goleuni. (2) Neu y gallu i gyflawni gwyrthiau gawsai credinwyr ar ddechreu y cyfnod Cristionogol. Yr Ysbryd Glan roddai hwn iddynt. Hwn yw y golygiad goreu a chysonaf, er nad oes dim ar ffordd cymeryd y cyntaf i fewn. (d) **Daioni y gair ysbrydol** (5).—**Ac a brofasant ddaionus air Duw.**—Darllena rhai "ac a brofasant air Duw ei fod yn dda." Y cyfieithiad llythyrenol fyddai "ac a brofasant ddaioni gair Duw." Pa air? Nid (1) y gair personol, sef Crist, ac (2) nid yr Hen Destament, ond (3) gair yr efengyl—y gair a bregethwyd iddynt. Wrth glywed am y cyfoeth anfeidrol oedd yn Nuw ar eu cyfer darfu i'r Hebreaid brofi daioni y gair. Duw lefarai yn ei Fab wrthynt, oblegid dywed yr awdwr hyny yn adnod gyntaf yr Epistol. Pa ddaioni gawsant oddiwrth y gair? (1) Nid daioni achubol gair Duw yn offeryn ail-enedigaeth; ac nid daioni bywyd newydd sydd yma. (2) Nid daioni adeiladaeth y bywyd newydd chwaith olygir. Nid at rai achubwyd y cyfeiria yr awdwr yn y geiriau. (3) Daioni deallol yn benaf sydd gan yr awdwr—daioni oedd yn ffrwyth y goleuni y soniwyd am dano uchod. Cawsant oleuni deallol ar drefn y cadw yn ei gwahanol weddau. Dichon iddynt dderbyn daioni moesol hefyd. Gall y gair beri i ddynion fyw yn well heb eu hachub. Yn y ddau beth hyn profasant fod y gair yn dda. (e) **Dylanwad y byd tragywyddol.—A nerthoedd yr oes sydd i ddyfod.**—Neu nerthoedd oes i ddyfod. Pa nerth neu ddylanwad yw hwn. (1) Rhaid gosod o'r neilldu y syniad mai at y gwyrthiau, y prophwydo, a'r llefaru a thafodau a pethau goruwchnaturiol o'r fath a fodolent yn yr oes apostolaidd y cyfeiria yr awdwr. Nid y rhai hyn oedd y nerthoedd. (2) Nid dylanwad pregethu am y byd a ddaw o ran ei fodolaeth, ei natur a'i barhâd sydd ym meddwl yr awdwr chwaith, ond (3) y dylanwadau barodd i'r Hebreaid edifarhau a chredu yr efengyl fel hanes cywir am yr Iesu. Gall dynion edifarhau yn arwynebol a chredu yr hanes am Grist heb fod wedi eu hachub. Paham y gelwir y dylanwadau hyn yn nerthoedd y byd a ddaw? Am mai yn y dyfodol y mae goruchwyliaeth yr efengyl. Peth yn dyfod

6 Ac a syrthiant ymaith, ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; gan eu bod yn ail-groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn ei osod yn watwor.

---

yw teyrnas Dduw o hyd. Hefyd, dylanwad o'r byd gaiff credinwyr feddiannu yn y dyfodol oedd hwn. Nid cyfeiriad at y byd tragywyddol yn unig nac yn benaf sydd yn "byd a ddaw," serch hyny, ond at oruchwyliaeth efengyl Crist. Ceir yr un syniad yn pen. ii. 5. Y byd a ddaw yno yw byd yr efengyl. (2) **Ammhosibilrwydd adfeiriad o'i hesgeuluso** (6-8).—**Ac yna syrthiasant ymaith, ammhosibl ydyw eu hadnewyddu drachefn i edifeirwch** (6)—Gwelai yr awdwr rywrai o flaen llygaid ei feddwl oeddynt wedi syrthio ymaith oddiwrth y dylanwadau mawrion a nodwyd. Y mae y ferf *παραπεσόντας* —"syrthiasant ymaith"—yn yr amser gorphenol ac yn dangos nad egluro y canlyniad os buasai rhai yn digwydd syrthio ymaith wna yr awdwr. Dynion wedi syrthio ymaith sydd o flaen ei feddwl. Hefyd golyga y gair syrthio ymaith o natur neillduol. Gall dynion syrthio ymaith mewn anwybodaeth, o ddifrawder, mewn tymer ddrwg, trwy nerth temtasiwn neu drwy brofedigaeth. Nid yr un o'r rhai yma gawn yn yr adnod hon. Meddwl y gair yma yw syrthio o wirfodd, syrthio er cael pob manteision a'r dylanwadau ddylent droi yn achubiaeth iddynt; syrthio gyda phenderfyniad cadarn yn wyneb goleuni a phrofiad o bethau ysbrydol. Yn y gair cawn enghraifft o bechu yn erbyn yr Ysbryd Glan. Gwna hyn hi yn ammhosibl iddynt gael eu hadfer. Cofier nad anhawdd feddylir wrth ammhosibl yma, ond ammhosibilrwydd hollol (*absolute*). A olyga "adnewyddu drachefn" fod y bobl hyn wedi eu hail eni? Na wna. Y meddwl yw adnewyddu i'r un edifeirwch ag a brofasant o'r blaen. Fel y dangoswyd, cynyrchodd y dylanwadau nodwyd yn adn. 5 edifeirwch arwynebol ynddynt, ond nid achubol. Ni chyfyngir ystyr y gair "adnewyddu" yn y Beibl i adnewyddu bywyd a gollwyd. Defnyddir ef am adnewyddu i gyflwr y bu dyn ynddo o'r blaen lawer gwaith, megys adnewyddu ieuengctyd, adnewyddu dyddiau, ac adnewyddu gofid. Dyna ei ystyr yma hefyd, adnewyddu i'r cyflwr ymwybodol y bu y bobl yma ynddo pan glywsant yr efengyl gyntaf. (3) **Y rheswm am yr ammhosibilrwydd** (6).—(a) **Ysbryd y gwrthgilwyr.—Gan eu bod yn croeshoelio iddynt eu hunain o'r newydd Fab Duw, ac yn ei osod yn watwar.**—Neu, tra y maent, etc. Coleddir dau syniad ar yr adnod hon, oblegid y ddau gyfieithiad a

7 Canys y ddaear, yr hon sydd yn yfed y gwlaw sydd yn mynych-ddyfod arni, ac yn dwyn llysiau cymwys i'r rhai y llafurir hi ganddynt, sydd yn derbyn bendith gan Dduw.

---

roddwyd. (1) Os mai tra y maent yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw sydd yn gywir, nid yw yr ammhosibilrwydd yn un hollol ond perthynasol. Ond iddynt atal a gwneyd hyn bydd yn bosibl iddynt adnewyddu drachefn i edifeirwch. Eithr (a) nid yw mwyafrif y MSS. yn ffafrio y cyfieithiad hwn; (b) na nerth y brawddegau blaenorol, (c) na dysgeidiaeth Crist am y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan. (2) Gwell cymeryd y C.D. a'r C.A. ac edrych ar yr ammhosibilrwydd yn un hollol. Gall dynion fyned i gyflwr moesol wrth gamddefnyddio bendithion ysbrydol nad yw yn bosibl iddynt edifarhau am eu pechodau. Pa fodd y gallai y bobl yma "ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw"? Ni allent wneyd hyny yn llythyrenol. Gan hyny, rhaid mai mewn rhyw ffordd arall y gwnaent. (1) Teimlent ato fel y rhai a'i croeshoeliodd. Edrychent arno yn fradychwr y genedl, yn gynhyrfwr y bobl, yn dwyllwr, a dim ond dyn pechadurus. Y teimladau hyn at Grist a'r syniadau hyn am dano barodd i'r bobl ei groeshoelio. Gwnelsai y gwrthgilwyr hyn yr un peth pe cawsent gyfleusdra. (2) Ymddygent at ei enw yng ngwydd ereill fel y gwnai ei groeshoelwyr. Beth yw meddwl eu bod yn ei groeshoelio iddynt eu hunain? Ar hyn amrywia yr esbonwyr yn fawr. Wele rai o'r syniadau :—(1) I'w boddhad eu hunain; (2) i'w dinystr eu hunain; (3) mor bell ag y gallent hwy, o ran teimladau, croeshoelient ef; (4) croeshoelient ef trwy ymadaw oddiwrtho a gwrthod ei fendithion; (5) i'w niwed eu hunain; (6) drostynt eu hunain; (7) y syniad cywir gredwn ni yw eu bod ynddynt eu hunain mewn meddwl, teimlad, bwriad ac ymddygiad yr un yn hollol a chroeshoelwyr Crist. Elent dros deimladau ac ymddygiadau y rhai hyny yr eilwaith. Ail-adroddiad iddynt hwy eu hunain o'r croeshoeliad oedd eu hymddygiad at yr Iesu. Gwatwarent ef ar gyhoedd yn yr un ysbryd ag y gwnai y rhai a'i gosododd ef i farwolaeth. Tra phriodol, gan hyny, yw y gair "ail-groeshoelio" i ddangos eu cyflwr. (b) **Deddf feddyliol** (7-8).—**Canys y tir hwn a yfodd y gwlaw sydd yn mynych ddyfod arno, ac yn dwyn llysiau cymhwys i'r rhai y llafurir ef erddynt, sydd yn derbyn bendith oddiwrth Dduw, eithr os yn dwyn drain ac ysgall y mae yn wrthodedig ac agos i felldith; diwedd yr hwn yw ei losgi.**—Yma defnyddir ffigwr

8 Eithr yr hon sydd yn dwyn drain a mïeri, sydd anghymeradwy, ac agos i felldith; diwedd yr hon yw, ei llosgi.
9 Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd,

---

i ddangos deddf feddyliol yr hon a weithredai ym meddyliau y gwrthodwyr. Gweithreda y ddeddf ym meddyliau dynion da yn gystal a rhai drwg, ond nid yr un yw canlyniad eu gweithrediad. Eglureb yw yr adnodau hyn i ddangos gweithrediad y ddeddf. Ni allasai y gwrthgilwyr gymeryd y safle eithafol at yr Iesu ag a ddesgrifir uchod heb i ddeddfau hanfodol eu meddyliau weithredu. Gall y ddaear, wrth yfed y gwlaw ddisgyna arni, ddwyn ffrwythau a llysiau y trinir hi er eu mwyn. Wrth wneyd hyny cyrhaedda amcan y driniaeth. Ffigwr yw y gwlaw yma am ddylanwadau brofodd y gwrthgilwyr hyn, ac ä y ddaear am eu heneidiau. Fel y disgyna y gwlaw ar y ddaear, felly y disgyna dylanwadau o'r tuallan ar yr enaid; eithr dibyna ar yr enaid ei hun pa un a yfa ef hwynt er ei les neu ei ddinystr. Y gallu hwn i'w troi i'r naill neu'r llall yw y ddeddf y cyfeiriwn ati. Cafodd y ddau dir yma yr un driniaeth, disgynodd yr un gwlaw arnynt, ond dygodd un lysiau cymhwys, tra y dygodd y llall ddrain a mieri—un y pethau gwerthfawrocaf i ddyn mewn ystyr anianyddol, a'r llall y pethau gwaelaf. Dinystrai y drain a'r mieri y ddaear yn gystal a chamddefnyddio y gwlaw ddaeth arni. Felly am feddwl da a meddwl drwg. Try meddwl da yn ol deddf adganfyddiad (*law of apperception*) yr holl ddylanwadau da a drwg ddaw arno yn nerth moesol, yn burdeb, ac yn sancteiddrwydd; ond try y meddwl drwg y dylanwadau dwyfolaf yn wendid moesol, yn ammhurdeb ac halogrwydd. Gwna y ddau hyn o'u dewisiad eu hunain, o ganlyniad, y maent yn gyfrifol. Diwedd y cyntaf yw hunan-sylweddoliad llawn; ond diwedd yr ail yw dinystr hollol. Defnyddir y gair "llosgi" yma i ddangos y dinystr. Nid y drain a'r mieri yn unig losgir, ond y tir, yn ol y geiriau hyn. Cred rhai mai diwedd y felldith feddylir yma, ac nid diwedd y tir; hyny yw, y parhâ y felldith hyd nes y llosgir y tir. Ond gwell genym gysylltu y gair "diwedd" a "llosgi."

III. Calondid i'r Hebreaid crediniol a dymuniad am eu llwyddiant (9-12).—(1) **Ffydd yr awdwr** (9).—**Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, bethau gwell a phethau yng nglyn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn.**—Wedi dyweyd y pethau celyd yn yr adnodau blaenorol, try yr awdwr i roddi calondid i'w

bethau gwell, a phethau yng nglyn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn.

10 Canys nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich

---

ddarllenwyr yn yr adnodau hyn. Diau mai personau neillduol oedd ger bron ei feddwl yn adn. 8, rhai y gwyddai corph ei ddarllenwyr eu bod wedi gwrthgilio. Ewyllysia i'r mwyafrif ohonynt ddeall nad oedd hyny yn wir am danynt oll. Dichon fod rhai heblaw y rhai a syrthiasant ymaith yn tueddu at syrthio a dywedai yn galetach oblegid hyny. Ond i galonogi y ffyddloniaid, cyfarcha hwynt yn "anwylyd," gan ddyweyd ei fod ef a'r rhai oedd gydag ef yn coelio pethau gwell am danynt hwy nag am y rhai syrthiasant. Cred rhai mai dull yr awdwr bar iddo i ddefnyddio y lluosog yn lle yr unigol yma, ac mai nid cyfeirio ato ei hun a'i gymdeithion a wnai. Gwell genym gredu yr olaf yma. Rhy wan yw y ferf "coelio" i osod allan ystyr y gwreiddiol— *πεπείσμεθα*. Ei hystyr yw "perswadio." Beth olyga hyny? Fod yr awdwr a'i gyfeillion wedi eu perswadio gan ymddygiad blaenorol mwyafrif ei ddarllenwyr i gredu pethau gwell am danynt nag am y rhai syrthiasant ymaith. Buont mewn prawf caled trwy erledigaethau ac anhawsderau, ond daliasant i weini i'r saint drwy yr oll. Perswadiodd hyny yr awdwr i gredu yn dda am danynt. Hyny yw, i gredu pethau moesol ac ysbrydol gwell am danynt nag am y gwrthgilwyr, ac nid peth gwell nag a brofodd y gwrthgilwyr fel y cred rhai. Credai bethau gwell am danynt na'u bod wedi syrthio. Triniasant hwy y pethau gawsant gan Dduw yn well na'r lleill. Felly yr oedd ei ffydd yn seiliedig ar ffeithiau blaenorol pendant yn eu hanes; ac nid yn ffrwyth dychymyg neu deimlad. Rhag iddynt ei gymsynied, noda yr awdwr y pethau o ran eu natur, sef "pethau yng nglyn wrth iachawdwriaeth." Neu bethau yn cydfyned ag iachawdwriaeth. Cyfeitha rhai pethau yn agos at iachawdwriaeth. Beth olyga y geiriau? (1) Crediniaeth eu bod yng ngafael pethau droent yn iachawdwriaeth gyflawn iddynt—pethau y mae eu pendraw yn iachawdwriaeth, neu (2) bod yn feddiannol ar iachawdwriaeth yn ei holl elfenau, bod wedi eu hachub i fywyd tragywyddol. Hwn yw y syniad cysonaf a'r syniad am gyflwr y gwrthgilwyr yn yr adnodau blaenorol. Er dyweyd yn galed ac achwyngar, dymuna yr awdwr iddynt ddeall ei gred am eu cyflwr achubedig er mwyn eu calonogi i fyned yn eu blaen. (2) **Sail ei ffydd.—Cymeriad Duw** (10).—

gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini.

Canys nid yw Duw yn anghyfiawn fel yr anghofio.—Bôd cyfiawn yw Duw. Ammhosibl iddo fod yn anghyfiawn mewn dim. Tardd cyfiawnder yn hanfodol o'i natur. Gan hyny, byddai yn rhaid iddo wrthddyweyd ei natur i fod yn anghyfiawn. Calondid mawr oedd hyn i'r Hebreaid crediniol. Grymusai y nerth roddai ffydd yr awdwr iddynt. Hollol gyfeiliornus yw y syniad pabyddol mai meddwl y geiriau yw, nad yw Duw yn anghyfiawn at Grist. Dengys y frawddeg yn glir mai nad yw Duw yn anghyfiawn tuag at yr Hebreaid ffyddlon olygir. Sail gref yw cymeriad Duw i gredu pethau gwell am danynt. Gan eu bod hwy yr hyn oeddynt a chymeriad Duw yn un o gyfiawnder pur nid oedd perygl iddynt syrthio ymaith. Rhoddai ei gymeriad sail i ffydd yr awdwr hefyd. (3) **Gwaith yr Hebreaid.—Eich gwaith.**—Nid dynion diwaith oedd mwyafrif yr Hebreaid. Os nad oeddynt yn wybodus nac yn meddu dirnadaeth ddofn o wirioneddau mawrion dyfnion yr efengyl, ni segurent. A y gair "gwaith" am eu holl weithredoedd Cristionogol. (a) **Cymhellydd eu gwaith.—A'ch cariad.**—Grymusa natur eu gwaith yr ymresymiad yn fawr—gwaith gymhellid gan gariad oedd ef. Mewn rhai hen MSS. ceir "llafurus gariad," ond nid yw yn y MSS. hynaf oll. Os oedd yn MSS. yr awdwr, dengys nad gwaith ysgafn wnaent ond un llafurus. Ymegnient i weithio. Eithr y ffaith ei fod yn waith cariad a'i gwnai yn sail gobaith a ffydd yr awdwr yn eu crefydd. (b) **Gwrthddrych eu cariad.—Yr hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef.**—Eto, dengys gwrthddrych y cariad fod crefydd yn eu calonau. Cariad at enw Duw oedd ef, ac nid at ddim dynol. Symbylai y cariad yma hwy at waith aiddgar. (c) **Cylch eu gwaith.—Yn yr hyn a weiniasoch i'r saint.**—Cariad at enw Duw oedd y cymhellydd cyntaf i'w gwaith, a'r ail oedd cariad o dosturi at y saint. Dangosai eu ffyddlondeb i'r saint eu bod yn feddiannol ar grefydd eu hunain. Hyn enynai eu cydymdeimlad a'r saint. Pa ffurf y gweiniasant i'r saint ni ellir penderfynu, ac ni ellir bod yn sicr chwaith at bwy y cyfeiria y saint yma. Nid iawn dyweyd gyda sicrwydd mai saint eglwys Jerusalem oeddynt, na chwaith mai casgliad i'r eglwys hono olygir wrth weini iddynt. Feallai mai eglwys o Hebreaid tuallan i Balestina oedd hon ac mai gweini trwy roddi llety

11 Ac yr ydym yn chwenych fod i bob un ohonoch ddangos

---

i Gristionogion teithiol feddylir, rhai fel yr awdwr, fe ddichon, a deithient o le i le. (d) **Cysondeb eu gwaith.—Ac yr ydych eto yn gweini.**—Nid gweini am ychydig neu am dro a wnaethent, ond parhau gyda chysondeb. Hyn brofai ddyfnder eu cariad at enw Duw ac at y saint. Bydd llawer yn barod i weini ar y saint ar ol cyfarfod llwyddianus, brwdfrydig, ond oerant ar fyr a darfyddant weini. Eithr meddai y rhai hyn ddigon o grefydd i fod yn gyson yn eu gwaith o weini. (4) **Dymuniad yr awdwr am eu llwyddiant** (11-12).—(a) **Mewn gweithgarwch** (11).—**Ac yr ydym yn chwenych fod i bob un ohonoch ddangos yr un diwydrwydd i gyflawnder gobaith, ie hyd y diwedd**—Ar ol canmol eu cysondeb mewn gwaith, datguddia yr awdwr ei ddymuniad iddynt yn y dyfodol, ar iddynt oll ac nid rhai ohonynt i ddangos yr un diwydrwydd. Dylem sylwi fod y gair "chwenych"— *ἐπιθυμοῦμεν* —yn dangos teimlad eithriadol o ddwys. Nid dymuniad gwan, ond un afaelai yn holl natur yr ysgrifenydd. Dibyna iachawdwriaeth pob un ohonynt ar barhâd cyson mewn gwaith personol. Ni allasai gwaith un wneyd y tro dros y llall. Hefyd yr oedd i fod yn waith cyhoeddus ac nid un dan len. Yr oeddynt i "ddangos" eu diwydrwydd ger bron y byd. Eto, rhaid i'r gwaith fod yn ddiwyd. Ceir tair elfen yn rhan gyntaf dymuniad yr awdwr, sef am iddynt (1) fod yn weithgar, (2) i'r gweithgarwch fod yn amlwg, ac am iddo (3) fod yn ddiwyd. Beth oedd amcan eithaf y gwaith? Ceir dau atebiad i hyn. (1) Un er mwyn y saint. Dymuniad yw am i bob aelod ddangos yr un diwydrwydd ag a ddangoswyd o'r blaen at y saint. Ewch ym mlaen, meddai, fel y cychwynasoch. Rhoddir fel rhesymau dros hwn: (1) mai trwy wasanaeth i ereill y cyrhaeddir sicrwydd gobaith; (b) mai y syniad o weini i'r saint oedd yn yr adnod flaenorol ac na fyddai rheswm dros newid yn hon; (c) os nad hwn yw y syniad, paham y dywedir yr "un diwydrwydd" ? (d) fod y ferf "dangos" yn golygu dangos yn gyhoeddus. (2) Yr un diwydrwydd er mwyn cyrhaedd i gyflawnder gobaith. Hwn sydd yn gyson (a) ag anogaethau yr awdwr yn barhaus yn yr Epistol am iddynt fyned rhagddynt i gael dirnadaeth ddyfnach o'r efengyl; (b) a'r adnod nesaf lle y gofynir iddynt fod yn ddilynwyr neu efelychwyr i'r rhai trwy ffydd. Gan hyny, rhaid i ni gymeradwyo y syniad hwn fel yr un cywir. Wrth reswm, gweini i'r saint oedd un ffurf ar y gweithgarwch oedd i'w galluogi i gyrhaedd cyflawnder

yr un diwydrwydd, er mwyn llawn-sicrwydd gobaith hyd
y diwedd:
12 Fel na byddoch fusgrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai
trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion.

---

gobaith. Beth yw meddwl "cyflawnder gobaith"? Gobaith yn yr efengyl wedi llanw yr enaid i'r ymylon; gobaith wedi llanw yr enaid fel yd yn llond mesur; gobaith perffaith neu lawn ddadblygedig. Perygl oedd i obaith yr Hebreaid gael ei siglo am fod Iuddewiaeth y fath demtasiwn iddynt. (b) **Mewn bywiogrwydd** (12).—**Fel na byddoch fusgrell.**—Cyfieithir "musgrell" yn "hwyrdrwm" ym mhen, v 11, sef diffyg bywiogrwydd clyw, yr hyn fydd yn effaith henaint—bod yn araf i glywed. Ei feddwl yma yw anhueddol i waith, bod yn gysglyd, yn ddioglyd, trymaidd, marwaidd neu swrth. Hwyrdrwm yn eu gwybodaeth ysbrydol oeddynt ym mhen. v. 11, ond eu perygl i fyned yn ddiwaith crefyddol a marwaidd olygir yma. Dymuniad yr awdwr yw am iddynt fod yn fywiog neu yn effro. Nid oedd gwaith diwyd yn ddigon heb fywiogrwydd. Rhaid wrth weithgarwch i ddadblygu a pherffeithio yr enaid, a rhaid wrth weithgarwch bywiog i ddadblygu yn gyflym ac yn gryf. Tyn gweithgarwch ysbrydol felly sylw yr enaid oddiar bethau bydol a phâr iddo sylweddoli pethau dwyfol yn ddwysach. Hefyd, lleinw yr enaid a mwynhad. Y mae mwynhad yn ammhosibl heb weithgarwch meddyliol, ac y mae mwynhad dwys yn ammhosibl heb weithgarwch bywiog a dwys (c) **Mewn efelychiad o'r ffyddloniaid.—Eithr yn efelychwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion.**—Rhydd y Beibl bwys mawr ar efelychiad. "Byddwch efelychwyr Duw," meddai, "fel plant anwyl." Pwysleisiai Paul arno yn drwm. Paham y rhoddir cymaint pwys arno? Am ei fod yn cynwys un o'r deddfau pwysicaf yn natur dyn. Hon sydd dan bob dysgeidiaeth. Drwyddi y dysgir pob math o gelfyddydau a phob cangen o wybodaeth. Rhed drwy holl weithrediadau y meddwl. Ceir hi dan ffurfiad cymeriad drwg a da. Heb hon safai y byd yr un fath. Ewyllys yr awdwr yma yw i'r Hebreaid efelychu y rhai a "etifeddant yr addewidion." Pwy oedd y rhai hyn? (1) Duwiolion yr Hen Oruchwyliaeth, medd rhai. Etifeddodd y rhai hyn addewidion trwy ffydd ac amynedd, ond nid yw y syniad yn ddigon eang. (2) Y Cristionogion oeddynt wedi etifeddu iachawdwriaeth. Am y rhai hyn y dywed yr awdwr (pen. iv. 3) eu

13 Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham, oblegid
na allai dyngu i neb oedd fwy, a dyngodd iddo ei hun,
14 Gan ddywedyd, Yn ddiau gan fendithio y'th fendithiaf,
a chan amlhau y'th amlhaf.

---

bod yn myned i mewn i'r orphwysfa. A fod y ferf "etifeddant" yn yr amser presenol o ochr y syniad hwn; ond y mae dwyn Abraham i fewn yn yr adnod nesaf yn brawf fod duwiolion yr Hen Destament hefyd ym meddwl yr awdwr. Yr oeddynt hwy yn etifeddu yr addewidion y pryd hwnw. Pethau i'w hetifeddu yn dragywyddol ydynt hwy. Dymunai yr awdwr ar yr Hebreaid i'w hefelychu (1) mewn ffydd. Gallu i ymorphwys ar Dduw ac ymddiried ynddo yw ffydd. Cymer hi feddiant cyson o'r addewidion. (2) Mewn amynedd, sef y gallu erys i ddisgwyl am gynwys llawn yr addewidion. Un a ddadblyga yn barhaus yw hwn wrth ei ymarfer yr un fath a ffydd. Dyma y ddau allu mawr wrth eu gweithredu ar linellau y ffyddloniaid a sicrhant gyflawnder gobaith, neu lawn sylweddoliad o egwyddorion dyfnaf yr efengyl.

IV. Rhesymau dros gredu yn sicrwydd cyflawniad addewidion Duw (13-20).—(1) **Bwriad Duw** (13-14).—**Canys pan wnaeth Duw addewid i Abraham, oblegid na allai dyngu i neb mwy, a dyngodd iddo ei hun, gan ddywedyd, yn ddiau, gan fendithio y'th fendithiaf, a chan amlhâu y'th amlhaf.**—Methwn a gweled mai eglurhaol yn unig yw y gair γαρ—"canys"—yma fel y myn llawer o esbonwyr. Ymddengys i mi fod iddo ystyr rhesymegol. Amlwg yw fod yr adnodau oddiyma i ddiwedd y benod yn ffurfio rheswm dros weithredu amynedd. Calonogodd yr awdwr yr Hebreaid yn yr adnodau blaenorol, ond yma rhydd sicrwydd iddynt y cyflawnir yr addewidion. Y sicrwydd cyntaf a chryfaf yw bwriad Duw. Pan wnaeth ef addewid i Abraham, tyngodd iddo ei hun y cyflawnai efe hi. Rhaid, gan hyny, ei fod yn llawn fwriadu ei chyflawni. Ni fwriada Duw ddim na chyflawna; oblegid ni all fwriadu dim tuhwnt i'w allu. Hefyd ni fwriada ond yr hyn y mae y cyflawniad ohono yn unol a deddfau ei natur. At ba addewid i Abraham y cyfeirir yma? Dadleuir yn aiddgar gan rai (1) mai holl addewidion Duw i Abraham a olygir. Mynant fod y llw yn beth wnaeth Duw yn hir ar ol yr addewidion, i'r amcan o gryfhau ffydd Abraham. Seiliant eu golygiad ar fod ἐπαγγειλάμενος — "pan wnaeth" yn yr amser gorphenol, ac yn golygu yn llythyrenol, "wedi addaw." Gan hyny, dadleua yr esbonwyr hyn mai wedi i Dduw addaw

15 Ac felly, wedi iddo hir-ymaros, efe a gafodd yr addewid.

---

i Abraham y tyngodd ef. Rhoddodd yr holl addewidion iddo a thyngodd trwy lw ar ol hyny. (2) Addewid neillduol Duw i Abraham. (a) Braidd y gwelwn fod yn bosibl tori lawr y syniad hwn am fod adn. 14 yn ei gadarnhau. Cyfeirir yno at addewid neillduol bendant. (b) Cadarnha y C.D. i'r llw gael ei wneyd yr un pryd a'r addewid. Dywed mai "pan wnaeth" Duw yr addewid y tyngodd efe. (c) Defnyddir y rhan-gymeriad (*participle*) "pan wnaeth," yn fynych yn yr amser gorphenol am weithred gyfamserol a gweithred arall fyddo wedi pasio. (d) Ni fuasai yr awdwr yn grymysu ei ymresymiad pe dywedasai mai amser ar ol yr addewid y gwnaed y llw. Os oedd yn rhaid i Dduw dyngu i Abraham ym mhen amser wedi rhoddi yr addewid, nid oedd ffydd Abraham yn un gref na theilwng i'w dwyn ym mlaen fel esiampl. Eithr pwynt mawr yr awdwr yma yw profi bwriad anfeidrol Duw i gyflawni ei addewidion. Am y llawn fwriadai gyflawni ei addewidion i Abraham y tyngodd iddo ei hun y gwnai hyny. Beth yw meddwl hyn? Ei fod wedi argraffu yn annileadwy ar Abraham y buasai yn cyflawni ei addewid. Gan nad oedd neb arall y gallai dyngu iddo, tyngodd iddo ei hun. Nid oedd y Mab a'r Ysbryd Glan yn fwy na Duw. Ynddo ef y mae ffynhonell eu bodolaeth hwy. Gan hyny tyngodd iddo ei hun—ffynhonell pob peth. Ond pa fodd? Bydd dyn yn gwneyd rhywbeth tebyg i hyn. Tynga iddo ei hun y gwna gario allan fwriad i fyw yn well, i ddyweyd y gwir, i reoli ei dymher, i fod yn onest ac yn sobr. Tyngodd Duw iddo ei hun y cyflawnai ei addewid i Abraham, neu y buasai yn un a'i air. (Gwel Traethawd). Yn adn. 14 cawn yr addewid a ffurf y llw. Ystyr "yn ddiau" yw "yn wir" neu "yn sicr." Gwiriodd Duw y bendithiai Abraham. Meddwl y geiriau, "Gan fendithio y'th fendithiaf," yw, "Mi a'th fendithiaf yn helaeth" neu "yn fawr iawn." Beth oedd y bendithion? Yr oll (1) o'r bendithion tymhorol gafodd Abraham, (2) yr holl fendithion ysbrydol y bu yn wrthddrych ohonynt. Eto aeth Duw i'w lw yr amlhasai ei had ef. Y mae Genesis xxii. 17 yn fwy pendant ar hyn, sef, "Mi a amlhaf dy had." Pa had olygir? Nid had naturiol yn unig ac yn benaf, ond had ysbrydol. Eithr rhaid oedd amlhau had naturiol Abraham i allu amlhau ei had ysbrydol. Nid y rhai ddeuai o lwynau y patriarch yn unig gynhwysir yn yr had yma, ond pawb o bob cenedl a feddant ei ffydd ef. (2) **Ffydd ac**

16 Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a fo mwy: a llw er sicrwydd sydd derfyn iddynt ar bob ymryson.

---

amynedd dyn (15).—**Ac fel hyn, wedi iddo hir-ymaros yn amyneddgar, efe a gafodd yr addewid.**—Bu yr addewid yn hir cyn i Dduw ei chyflawni i Abraham. Paham? Am fod ei derbyn yn pwyso ar ffydd ac amynedd Abraham ei hun yn gystal ag ar lw Duw. Dyma lle y ceir sail i gymhelliad yr awdwr am i'r Hebreaid weithredu ffydd ac amynedd. Arhosodd Abraham yn amyneddgar gan gredu Duw, a chafodd ef yn un a'i air. Ond dywed pen. xi. 39 na dderbyniodd neb o wroniaid y ffydd a nodir yn y benod hono yr addewidion, a pha fodd y mae yr awdwr yn gyson ag ef ei hun? (1) Derbyn yr addewid trwy ffydd a wnaeth Abraham, medd rhai. Cynwysai hyny ei derbyn yn sylweddol, os nad yn weithredol. (2) Ei derbyn ar ol cyrhaedd y nefoedd a wnaeth. Ni dderbyniodd yr addewid tra ar y ddaear, ond ar ol cyrhaedd i'r nef daeth ei holl gynwys yn feddiant gweithredol iddo. Hwn yw y syniad cysonaf. Credai yr Iuddewon fod Abraham yn y lle goreu yn y nef, ac mai cael myned i'w fynwes, fel y cardotyn yn y ddameg, oedd y fendith fwyaf. Ffydd Abraham yn Nuw yw y pwynt mawr gan yr awdwr yn yr adnod hon, a'i amynedd yn disgwyl wrth Dduw. (3) **Geirwiredd Duw** (16-18).—(a) **Geirwiredd ei addewid** (16-17).—**Canys dynion sydd yn tyngu i un a fyddo mwy; ac ym mhob dadl o'r eiddynt y mae y llw yn derfynol er cadarnhad. Yn yr hyn Duw, gan feddwl dangos yn helaethach i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor.** —Noda yr awdwr arferiad dynion o dyngu i un mwy er mwyn dangos paham y tyngodd Duw iddo ei hun. Darostyngodd ef ei hun i ddull dynion o dyngu i un mwy pan fuasai annealldwriaeth rhyngddynt. Apelia dynion at un mwy o ran gallu, cymeriad ac awdurdod, a thyngant iddo. Bydd ef yn dyst o'r llw a dyngir iddo, a gesyd hyny derfyn ar bob ymryson o bob math rhyngddynt. Pwy yw yr un mwy? (1) Yr allor, medd rhai; (2) y deml, medd ereill; (3) Jerusalem yw syniad rhai; (4) dyn o safle ac awdurdod yw barn nifer; ond (5) a y mwyafrif dros mai Duw ydyw ef. Hwn yn ddiau yw y syniad cywir, oblegid caua y rhyw wrywaidd y gair "mwy" allan y tri syniad cyntaf; ac y mae arferiad yr Iuddewon o dyngu i Dduw mewn achosion o ymryson yn erbyn mai dyn mwy a feddylir. A yr arferiad yma yn

17 Yn yr hyn Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lw.
18 Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael

---

ol ym mhell iawn yn eu hanes. Pan fuasai un yn tyngu yn enw Duw yng ngwydd tystion, terfynai hyny yr ymryson, beth bynag fuasai ei natur. I gyfarfod y dull hwn gwnaeth Duw dyngu yn ol adn. 17. Yn y peth hwn, neu "yn yr hyn" fel y dywed yr awdwr, sef er mwyn cyfarfod a'r arferiad fodolai yn eu plith ac a nodwyd yn adn. 16, ewyllysiai Duw ddangos yn helaethach ei eirwiredd i Abraham, ac o ganlyniad tyngodd iddo ei hun yn gystal a gwneyd addewid. Yr addewid mewn bwriad yw cynghor yr adnod hon. Peth yn y meddwl heb ei fynegu yw *βουλημα* —cynghor. Y cynghor wedi ei fynegu yw *ἐπαγγελία* —addewid. Amcan y llw oedd grymysu geirwiredd yr addewid. Y mae addewid Duw fel efe ei hun, yn ddigyfnewid, ond i ddangos hyny yn helaethach, tyngodd yr Anfeidrol iddo ei hun y cyflawnai hi. Beth oedd yr addewid ? Amlhau had ysbrydol Abraham dros wyneb yr holl fyd drwy eu bendithio a iachawdwriaeth lawn i'w heneidiau. (b) **Geirwiredd ei lw** (17-18).—**A ddaeth i mewn rhyngddynt trwy lw. Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai y mae yn ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog.**—Beth feddylir wrth fod Duw wedi cyfryngu trwy lw? Ei fod trwy ei lw iddo ei hun wedi gosod ei hun yn gyfryngwr rhyngddo ei hun ag Abraham ac etifeddion ereill yr addewidion. Yr hwn y tyngir iddo yw y cyfryngwr bob amser. Efe yw y canolwr rhwng dau berson neu ddwy blaid. Felly yma : Duw yw y canolwr rhyngddo ei hun ac etifeddion ei addewidion. Tyngodd iddo ei hun y byddai yn ffyddlon i'w addewidion, os buasai yr etifeddion yn llanw yr amodau. Beth yw y "ddau beth dianwadal," adn. 18 ? (1) Y cynghor a'r llw medd rhai, a dywedant nad yw y cynghor a'r addewid yn golygu yr un peth. Dangoswyd uchod eu bod yn sylweddol yr un peth, ond mai mynegiant o'r cynghor yw yr addewid. Hedyn yr addewid yw y cynghor, a'r un ydynt o ganlyniad o ran eu natur. (2) Llw i Abraham a'r llw i'r Iesu y byddai yn archoffeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec, ydynt, medd ereill. Eithr nid oes sail i'r syniad hwn mwy na'r cyntaf. (3) Yr addewid a'r llw. (a) Profa yr adnod

cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith
a osodwyd o'n blaen:
19 Yr hwn sydd genym ni megys angor yr enaid, yn
ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn
sydd o'r tufewn i'r llen;

---

flaenorol yn amlwg mai hwn yw y syniad cywir. Yno gwelir mai yr un olyga yr awdwr wrth gynghor ac addewid. (b) Nid yw yn debyg y symudai yr awdwr at beth arall mor sydyn yn yr adnod hon ar ol traethu ar yr addewid a'r llw. (c) Yr addewid a'r llw sydd ger bron ei feddwl yn yr adnodau hyn, a phrofi geirwiredd Duw ynddynt a geisia. Nid yw dyweyd fod yn ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog yn y ddau beth hyn yn cynwys y gall fod yn gelwyddog mewn pethau ereill. Ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog mewn dim. Un o berffeithiau anfeidrol ei natur, ac un o briodoleddau moesol ei gymeriad yw ei anallu i fod yn gelwyddog. Wedi rhoddi ei addewid a'i lw, ammhosibl oedd bod yn anffyddlon iddynt. (4) **Y cymhelliad gyfyd o eirwiredd Duw** (18-19).—**Y gallem ni gael calondid cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen. Yr hwn sydd genym ni megys angor yr enaid, yn obaith diogel a sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen.**—Gellir cyfieithu y gair παράκλησιν —"calondid—yn cysur, diddanwch, neu cymhelliad. Dichon fod cymhelliad yn gystal cyfieithiad a'r un yn y fan hon. Yn ei ystyr eangaf golyga "cymhelliad cryf" bob peth sydd yn y geiriau calondid, cysur a diddanwch. Ni all cymhelliad fod yn gryf heb fod yr oll gynhwysa y geiriau hyn ynddo. Geirwiredd anfeidrol ac anghyfnewidiol Duw oedd y cymhelliad mwyaf a chryfaf allasai yr Hebreaid gael i ymwroli a bod yn weithgar i lenwi amodau meddiannu yr addewidion. Dynion ar ffo oeddynt, a rhaid oedd iddynt wrth gymhelliad cryf. Meddwl y ferf "ffoisom"—καταφυγόντες—yw ffoi am noddfa. Pan gredodd yr Hebreaid, ffoisant am noddfa i Grist. Yn ninas distryw y trigent cyn credu, ond ar ol hyny ffoent i'r noddfa ysbrydol. Beth oedd y gobaith osodwyd o'u blaen? (1) Crist yw un syniad. Eithr (a) ni allwn weled rheswm dros ddwyn Crist i fewn yma. (b) Nid rhywbeth wedi ei osod o flaen yr Hebreaid oedd Crist, ond un yn trigo ynddynt. (c) Hawdd gweled mai gobaith am gynwys addewidion Duw sydd o flaen meddwl yr awdwr; (d) dywedir fod y gobaith

20 I'r man yr aeth y rhag-flaenor drosom ni, sef Iesu, yr

---

yn myned i fewn hyd at yr hyn sydd o'r tucefn i'r llen i'r man yr aeth Iesu. Rhaid, gan hyny, nad Iesu ei hun oedd y gobaith. (e) Byddai dwyn Crist i fewn yma yn annaturiol ac anghydweddol a'r cysylltiadau. (2) Crist a'r gras o obaith. Cywreinrwydd yn unig sydd dan y syniad hwn, ac nid oes unrhyw reswm gwerth ei nodi dros ei dderbyn. (3) Y gras o obaith. Dyma'r unig syniad naturiol a chydweddol a'r cysylltiadau. Ond os dyna yw y syniad, paham y dywedir ei fod wedi ei osod o'n blaen? Peth mewnol yw gobaith, ond y mae ei wrthddrych yn wastad o'n blaen. Priodol, gan hyny, yw dyweyd fod gobaith wedi ei osod o'n blaen. Ymestyn at y dyfodol wna gobaith yn ddieithriad. Cyffelyba adn. 19 y gobaith hwn i angor. Yr angor yw y peth gerir yn y llong i'w gollwng i lawr ohoni os bydd eisieu i'r llong aros yn ddiogel ac yn sicr yn yr un fan. Yr angor wna y llong yn ddiogel, sef yn sefydlog yng ngwyneb ystormydd allanol. Gafaela yr angor yn sicr, hefyd, yn yr anweledig, a hyny amoda ddiogelwch y llong. Yr afael yma rydd sefydlogrwydd iddi. Felly am obaith yn yr enaid: efe sefydloga yr enaid ac a'i deil ym mhob cyfnewidiadau. A gobaith i fewn hyd at yr anweledig, sef i'r nef, a gafaela yn sicr yn y Duw digelwyddog, a diogela yr afael gaiff arno yr enaid yn ei holl gysylltiadau. Gwna y gobaith ef yn ddisigl yn ei holl amgylchiadau allanol ac yn ei gymeriad mewnol. Yn yr hen amseroedd angor oedd arwyddlun gobaith a dangosir hyny yn amlwg iawn gan dri o bethau, sef (1) beddrodau dynion duwiol; (2) modrwyau Cristionogion y canrifoedd cyntaf; (3) ac arian bathol. Gosodid llun angor ar feddfeini, modrwyau ac arian i ddangos fod eu perchenogion yn feddiannol ar obaith. Dylid sylwi mai awdwyr y C.D. osododd y gair "gobaith" i fewn yn adn. 19. Nid yw yn y gwreiddiol. Eithr doethineb oedd ei osod i fewn am y gwna y meddwl yn eglurach. Buasai peidio ei osod yma yn gwneyd y meddwl yn drwsgl, ac yn cario y ffigwr o angor yn rhy bell medd rhai. Er na chydolygwn a hyny yn hollol, eto credwn fod gosod y gair i fewn yn goleuo meddwl yr adnod. A y gobaith hwn "i mewn i'r hyn sydd y tu fewn i'r llen," ac nid "hyd at," etc. Cydia gobaith yn sylweddau anweledig y nef. Cyfeiriad sydd yma at yr archoffeiriad yn myned i fewn i'r cysegr sancteiddiolaf. Elai ef y tu fewn i'r llen wahanai y ddau gysegr. Felly am obaith

hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec.

---

yr efengyl: â i'r anweledig ei hunan. (5) **Sylweddoliad Crist o'r addewid** (20).—**I'r man yr aeth yr Iesu megys rhag-redegydd drosom ni, wedi dyfod yn Archoffeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec.**—Dyma reswm cryf arall dros y sicrwydd y cyflawna Duw ei addewidion. Os sylweddolodd Crist fel Duw-ddyn holl gynwys addewidion Duw iddo, y mae hyny yn sicrwydd fod y digelwyddog Dduw yn sicr o fod yn un a'i air i bawb ereill a lanwant yr amodau. Aeth Crist fel rhagredegydd yr etifeddion i'r nef, ac fel y dywedodd yr awdwr yn y penodau blaenorol, dyrchafwyd ef i ddeheulaw Duw a chydnabyddwyd ef yn archoffeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec. Yma yn unig y ceir y gair *πρόδρομος* —rhagredegydd yn y T. N. Defnyddir ef yn Numeri xiii. 20 am y ffrwythau cynharaf; ac yn Isa. xxviii. 4 am flaenffrwyth ffigys. Yn y clasuron Groegaidd ceir ef am ran o fyddin a anfonid i ysbio gwlad a olygid ei chymeryd. Beth yw ei ystyr yma? Y cyntaf o lawer—un yn blaenu lluaws sydd i ddyfod ar ei ol. Dilyna holl etifeddion yr addewid ef. Ni ddilynai neb yr archoffeiriad Iuddewig i'r tufewn i'r llen; efe yn unig allai wynebu i'r presenoldeb dwyfol. Eithr nid felly yma: dilyna pawb ffyddlon i amodau yr addewid yr Iesu. Beth oedd amcan yr Iesu yn myned yno? Myned yno "drosom ni" a wnaeth, medd yr awdwr. Ei amcan oedd gwneyd cymod dros bechaduriaid. Aeth yno hefyd fel "Iesu," ac nid fel Duw yn unig. Hyny yw, aeth i'r nef i wneyd cymod fel Duw-ddyn. Er mwyn pwysleisio hyny, gosodir "Iesu" yn olaf yn y frawddeg yn y Roeg. Gofala cyn terfynu i ddyweyd fod (1) Crist yn archoffeiriad. Nid un wedi myned i'r nef drosom ni heb hawl yw ef. Y mae yno yn rhinwedd ei swydd a enillodd trwy roddi ei hun yn aberth anfeidrol dros bechaduriaid. (2) Dengys, hefyd, ei fod i barhau byth yn ei swydd. Rheswm cryf yw hyn dros i'r Hebreaid i fod yn ffyddiog ac amyneddgar. Nid oes derfyn i fod ar ei weinyddiad o'i swydd am ei bod wedi ei thragywyddoli yn ei berson. (3) Y mae yn offeiriad yn dragywyddol yn ol yr urdd uchaf, sef urdd Melchisedec. Dywedwyd yn pen. v. 10 fod Crist wedi ei gyfenwi gan Dduw yn offeiriad yn ol yr urdd hon; ond yma dywedir ei fod wedi dyfod. Ei gydnabyddiaeth gan Dduw yw y peth amlwg yn y lle cyntaf; ond ei weinyddiad o'r swydd a ddygir i'r golwg yma. Y mae ef wedi dyfod i'w gweinyddu am byth.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Efryder y gwahaniaeth rhwng amser a thragywyddoldeb.
Y gwahanol fathau o berffeithrwydd moesol ac ysbrydol.
Y moddau y gellir bod yn gyfranogion o'r Ysbryd Glan.
Y nodweddion gyfansoddant amynedd a ffydd Ysbrydol.
Abraham fel esiampl eithriadol o ffydd yn Nuw.
Yr hyn a'i gwna yn angenrheidiol i ddynion dyngu.
Y gwahaniaeth rhwng cynghor ac ewyllys Duw.
Yr hyn a'i gwna yn ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog.
Y ffigyrau ddefnyddir yn y benod i egluro syniadau.
Y rheswm dros alw y nefoedd yn "tufewn i'r llen."

III. Traethodau

(1) Tri Llw Duw.

I. Llw llid.—Dyma y llw cyntaf a geir yn yr Epistol (pen. iv. 2). Beth yw ystyr y llw hwn? Golyga fod holl hanfod Duw ynddo. Ni all holl bersonoliaeth Duw lai na gwrthwynebu anufudd-dod a phechod ym mhob gwedd arno. Parodd pechod y genedl wrthnaws yr holl hanfod dwyfol ati. Oblegid hyny gwnaeth yn debyg i'r hyn wna dyn mewn llid, sef taflu ei holl bersonoliaeth i lw. Golyga ddwysder anfeidrol y natur ddwyfol yn penderfynu na chai dynion drwg wobr sancteiddrwydd, cyfiawnder, ac ufudd-dod. Gan hyny, tyngodd Duw iddo ei hun na chai y genedl etifeddu Canaan, oblegid ei hanufudd-dod. Cynwysa y llw hwn (1) benderfyniad digyfnewid, (2) teimlad dwys, (3) gwrthnaws moesol ac ysbrydol yr holl hanfod, (4) cyflwr parhaus meddwl Duw at bechaduriaid cyhyd ag y parhant yn eu pechod.

II. Llw gras.—Llw i dduwiolion yw hwn. Ceir ef yn pen. iv. 13, 17, 18. Y mae holl bersonoliaeth Duw yn hwn eto, fel y llw diweddaf. Ei achos gwreiddiol yw gras calon Duw at ddynion. Efe ei hunan yw gwrthddrych y llw hefyd; hyny yw, iddo ei hun y tynga. Ammhosibl iddo gael neb a fo mwy nag ef ei hun i dyngu iddo. Llawn gyn ddwysed yw a llw llid Duw. Rhed ei holl natur iddo am y tardda o'i hanfod. Tyngai yn erbyn yr annuwiol i sicrhau ei fod

yn ddifrifol yn yr hyn a ddywedai. Tynga i'r duwiol i ddangos fod ei holl hanfod tucefn i'w addewidion. Ammhosibl i ddim gyfnewid y byddo holl egwyddorion hanfod Duw ynddo. Rhaid i hwnw fod fel efe ei hun—yn anfeidrol ac anghyfnewidiol. Oblegid yr hyn o Dduw sydd yn ei lw ni all gyfnewid. Er mai ffrwyth ei ewyllys yw llw, eto y mae yn gynyrch ei holl hanfod. Gan hyny, y mae yn gynyrch egwyddorion moesol ei berson. Elfenau llw gras (1) yw dealldwriaeth glir o'r hyn y tyngir yn ei gylch; (2) bwriad digyfnewid i'w gario allan; (3) dwysder cariad anfeidrol; (4) awydd angerddol am ei gyflawni.

III. Llw Cariad.—I'w Fab y gwnaed y llw hwn gan Dduw. (Pen. vii. 21). Yn ei gariad anfeidrol at y Mab y tarddodd. Tyngodd iddo y buasai yn archoffeiriad yn dragywyddol. Dangosir yn y cysylltiad hwn yn eglur na chyfnewidia Duw ei feddwl ar y mater, "Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo." Eithr ni ddywedir yn gryfach yma nag am lw gras. Dywedir am hwnw fod yn ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog ynddo. Wrth ddyweyd nad edifarhâ, y meddwl yw na newidia ei feddwl. Paham? Am fod y llw yn cynwys egwyddorion moesol, anfeidrol hanfod Duw. Yr egwyddorion hyn yw yr elfenau anghyfnewidiol redant trwy y tri llw. Cynwysir cariad Duw at sancteiddrwydd, cyfiawnder a gwirionedd ym mhob un ohonynt. Pwysant felly ar egwyddorion gwreiddiol ei hanfod. Gyda golwg ar ddynion y gwnaed y llw i'r Mab, sef fel y mae yn archoffeiriad dros ddynion. Yr oedd holl ddwysder, penderfyniad, cariad, ac amgyffred anfeidrol Duw yn hwn eto, a sicrhâ hyny y dygir ef oll i ben. Rhaid fod dynion yn fodau mawrion yng ngolwg Duw a bod eu perthynas ag ef yn un bwysig cyn y tyngai yn y tair ffordd yma gyda golwg arnynt.

(2) Saith Amod Ammhosibilrwydd Adferiad (4).

Rhaid fod amodau neillduol yn cyfansoddi yr ammhosibilrwydd y sonir am dano yma. Bydd eu hegluro yn gwneyd i ffwrdd a llawer o'r anhawsder geir yn yr adnodau. Yr amodau ydynt :—

I. Gogwydd anianol wedi difodi gogwydd moesol.—Dyma'r amod cyntaf o ran trefn. Bydd rhyw ogwydd ym mhob enaid at ddrwg neu dda. Ammhosibl ei gael i dueddu i'r un graddau at y naill a'r llall. Os bydd y gogwydd anianol yn gryfach na'r moesol, neu y gogwydd drwg yn gryfach na'r da, y mae yr enaid mewn cyflwr

peryglus; ond pan ddifoda ef y gogwydd at ddaioni moesol, nid oes obaith adferiad yn aros. Erys posibilrwydd adferiad tra fyddo peth gogwydd at dda yn y dyn, ond wedi y diflana nid oes adferiad yn bosibl.

II. Serch anianol wedi difodi serch foesol.—Amheus genym a enir neb i'r byd heb serch foesol neu serch at y da a'r prydferth ynddo yn gystal a serch at yr anianol. Bydd adegau ar y gwaethaf pan garant y da. Ond os na arferir y serch yma ar bethau da, gwanhâ yn raddol a chryfhâ serch anianol i'r un graddau. Tra yr erys gronyn o serch at y moesol a'r ysbrydol yn yr enaid, gellir ei adnewyddu; ond pan gyll y gronyn olaf, nid oes achubiaeth yn bosibl. Nid yw Duw yn creu serch newydd yn neb. Cosp peidio arfer gallu yw ei golli tuhwnt i adferiad.

III. Syniadau anianol wedi difodi syniadau moesol.—Chwery syniadau ran fawr ym mywyd dyn. Hwy a'i galluoga i raddau pell i gasglu gwybodaeth newydd. Tra fydd gan ddyn syniadau moesol ddylanwada ar y meddwl, gall Ysbryd Duw weithredu arno. Os rhoddir mwy o le i syniadau anianol na rhai moesol graddol golla y rhai moesol eu nerth, a chyn hir difodir eu holl ddylanwad. Os deuant i'r meddwl yn awr ac eilwaith ni fyddant o un gallu moesol ynddo. Colled ddirfawr yw hyn i'r enaid; oblegid yn y syniadau hyn y gwreiddia cydwybod yn rhanol. Dynoda eu llwyr golli gyflwr anadferadwy.

IV. Gweithredoedd anianol wedi difodi gweithredoedd moesol.—Gedy pob gweithred rywbeth ar ei hol yn y meddwl. Os mai un ddrwg fydd hi, gedy dueddiadau at gyflawni un ddrwg arall ar ei hol; ac os mai un dda gedy hithau dueddiad i gyflawni un dda. Cynydda y tueddiad at y da neu y drwg yn ol natur y gweithredoedd a gyflawnir. Pan gyflawna dyn rai drwg yn fynychach na rhai da, dadblyga y duedd at weithredoedd drwg a graddol ddifoda y duedd at gyflawni rhai da. Y diwedd fydd llwyr ddifodiad y duedd at y da ac yna bydd y dyn tuhwnt i adferiad.

V. Arferion anianol wedi difodi arferion moesol. Ffrwyth gweithredoedd yw arferion. Natur y gweithredoedd benderfyna natur yr arferion. Os mai drwg fydd gweithredoedd, drwg fydd yr arferion. A'r un modd os mai da fydd y gweithredoedd. Gweithredoedd wedi ffurfio tueddiadau cyson o weithredu yw arferion. Diwedd byw arferion drwg yw difodi arferion da o'r ewyllys a gadael yr enaid heb un man y gall Ysbryd Duw afaelyd ynddo.

VI. Gallu anianol i dderbyn o'r amgylchoedd wedi difodi y gallu moesol i dderbyn.—Ffurfir cymeriad yr enaid i raddau helaeth gan yr hyn dderbynia o'i amgylchoedd. Wrth agor ei hun i ddrwg i lifo iddo, graddol ddifoda ei allu i dderbyn y da a'i droi yn rhan ohono ei hun. Wedi y collo hwn yn llwyr ni ellir argraffu dim da arno hyd yn oed gan Ysbryd Duw ei hun. Try dylanwadau da fel y rhai a enwyd yn y benod yn llygredigaeth iddo. Dyna gyflwr anadferadwy.

VII Casineb anianol at y da moesol.—Yr amod hwn yw eithafbwynt yr holl amodau. Pan gasha yr enaid y da am ei fod yn dda, nid oes achubiaeth yn bosibl iddo. Hwn yw y teimlad a ddesgrifia yr awdwr yn y rhai wrthgiliant. Ail-groeshoelient Grist yn eu teimlad gan ei osod yn watwar. Cyd-ddadblyga yr amodau hyn yn yr enaid, a phan gyrhaeddant addfedrwydd gosodant ef tudraw i edifeirwch a phosibilrwydd achubiaeth.

IV. Gofyniadau.

(1) Beth olyga "Ymadrodd sydd yn dechreu rhai yng Nghrist" adn. 1 ?

(2) Eglurwch ystyr "edifeirwch," "perffeithrwydd," a "gweithredoedd meirwon" adn. 1.

(3) Esboniwch adn. 4-6 yn fanwl, gan roddi y gwahanol syniadau arnynt, a dangoswch pa fodd yr eglura adn. 7-8 yr egwyddor sydd danynt.

(4) Dangoswch yn llawn pa seiliau sydd i ffydd yr awdwr am grefydd yr Hebreaid, yn ol adn. 10. Pwy yw y rhai drwy ffydd ydynt wedi etifeddu yr addewidion (adn. 12)?

(5) Paham y dwg yr awdwr Abraham i fewn (adn. 13) ? Beth alwai am i Dduw dyngu iddo ?

(6) Esboniwch adn. 14, 15, a dangoswch pwy yw yr "un a fo mwy" y tyngir iddo (adn. 16).

(7) Pa gysur sydd i'r Hebreaid yn y "ddau beth dianwadal" adn. 18 ? Beth yw y ddau beth hyn ?

(8) Eglurwch y "gobaith" a nodir yn adn. 18, a dangoswch beth sydd ynddo yn debyg i angor.

(9) Desgrifiwch dri llw Duw, a gwahaniaethwch rhyngddynt.

(10) Rhoddwch eglurhad ar yr hyn a'i gwna yn ammhosibl i rai bechant yn erbyn yr Ysbryd Glan i ymadnewyddu.

PENOD VII.

ADRAN III. (Parhad).—PWNC : CRIST A MELCHISEDEC.

I. Dadansoddiad.

I. **Mawredd Melchisedec fel brenin-archoffeiriad yn egluro mawredd Crist fel brenin-archoffeiriad** (adn. 1-10).

(1) *Ei safle swyddol* (adn. 1).

(*a*) *Brenin o osodiad dwyfol.*

(*b*) *Offeiriad trwy alwad ddwyfol.*

(2) *Mawredd cymharol* (adn. 2).

(3) *Cymeriad moesol.*

(4) *Neilldduolrwydd hanesyddol* (adn. 3).

(5) *Mawredd personol* (adn. 4).

(6) *Mawredd archoffeiriadol* (adn. 5-10).

(*a*) *Derbyn degwm gan dad offeiriaid* (adn. 5, 6).

(*b*) *Bendithio tad offeiriaid* (adn. 6, 7).

(*c*) *Goroesi yr offeiriaid* (adn. 8).

(*d*) *Derbyn degwm gan offeiriaid* (adn. 9, 10).

II. **Ammherffeithrwydd yr archoffeiriadaeth yn ol urdd Aaron yn galw am un yn ol urdd Melchisedec** (adn. 11-14).

(1) *Yr ammherffeithrwydd* (adn. 11)

(2) *Yr ammherffeithrwydd yn galw am newid y gyfraith* (adn. 12).

(3) *Rheswm dros y gosodiad blaenorol* (adn. 13, 14).

III. **Perffeithrwydd archoffeiriadaeth Crist a'i rhagoriaeth ar eiddo Aaron** (15-28).

(1) *Perffeithrwydd gwneuthuriad ei harchoffeiriad* (adn. 15, 16)

(2) *Gwneuthuriad ei harchoffeiriad yn ol rhagfynegiad* (adn. 17).

(3) *Dygiad gobaith gwell trwy ei harchoffeiriad* (adn. 18, 19).

(4) *Dwyfoldeb dewisiad ei harchoffeiriad* (adn. 20, 21).

(5) *Uwchraddoldeb cyfamod ei harchoffeiriad* (adn. 22).
(6) *Anghyfnewidioldeb tragywyddol ei harchoffeiriad* (adn. 23, 24).
(7) *Gallu achubol ei harchoffeiriad* (adn. 25).
(8) *Cymeriad a dyrchafiad ei harchoffeiriad* (adn. 26).
(*a*) *Perffeithrwydd ei gymeriad.*
(1) *Glendid moesol.*
(2) *Diniweidrwydd moesol.*
(3) *Purdeb moesol.*
(*b*) *Dyrchafiad ysbrydol.*
(9) *Aberth anfeidrol ei harchoffeiriad* (adn. 27).
(10) *Perffeithrwydd tragywyddol ei harchoffeiriad* (adn. 28).

II. Eglurhad.

Cariwyd yr awdwr oddiwrth linell union ei bwnc yn y benod flaenorol, sef archoffeiriadaeth Crist, at ddyledswyddau ei ddarllenwyr. Anogodd hwynt i roddi heibio y pethau elfenol perthynol i grefydd, ac i ymestyn at berffeithrwydd; dangosodd mewn modd difrifol beth fuasai canlyniadau esgeuluso y ddyledswydd hon; calonogodd hwynt trwy gyfeirio at eu hanes yn y gorphenol ac at gymeriad Duw, a rhoddodd nifer o resymau cryfion iddynt dros gredu yn addewidion Duw. Yn adnod olaf pen vi. dychwelodd at fater yr archoffeiriadaeth trwy ddyweyd fod Crist wedi dyfod yn archoffeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec. Yn y benod hon trinia yn helaeth ar archoffeiriadaeth Crist yn ol urdd Melchisedec, a thrwy hyny dengys ei fawredd fel archoffeiriad a'i ragoriaeth ar Aaron. Seilia ei ymdriniaeth ar Salm cix. 4, lle y dywedir, "Tyngodd yr Arglwydd, ac ni edifarha, Ti wyt offeiriad yn dragywyddol, yn ol urdd Melchisedec." Yn y Salm hon dangosir yn eglur fod dyhead dwfn yn y genedl am frenin ac offeiriad rhagorach na Dafydd ac Aaron. Dywed Dafydd yn yr adnod gyntaf ohoni, "Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, eistedd ar fy neheulaw hyd oni osodwyf dy elynion yn faingc i'th draed." Arglwydd Dafydd oedd yr Iesu, ac wrth yr Iesu y dywedodd Duw y geiriau hyn. Prawf yw hyn y teimlai Dafydd ei hun yn fyr o gyrhaedd delfryd Duw o frenin. Un gyfunai y brenin, yr archoffeiriad a'r prophwyd yn ei berson oedd y brenin delfrydol. Gwelir

1 Canys y Melchisedec hwn, brenhin Salem, offeiriad y Duw Goruchaf, yr hwn a gyfarfu âg Abraham wrth ddychwelyd o ladd y brenhinoedd, ac a'i bendithiodd ef;
2 I'r hwn hefyd y cyfranodd Abraham ddegwm o bob

---

yn amlwg wrth yr Epistol hwn fod yr awdwr yn llawn o'r syniad yma. Yr oedd Moses yn brophwyd ac yn un o'r rhai y llefarodd Duw trwyddo; ond y Mab, trwy yr hwn y llefarodd Duw yn y dyddiau diweddaf, yw y prophwyd mawr. Ynddo ef cyfunir y tair swydd yn berffaith. Ei urdd fel archoffeiriad yw pwynt mawr dechreu y benod hon a defnyddir Melchisedec i egluro hyny.

I. Mawredd Melchisedec fel brenin-archoffeiriad yn egluro mawredd Crist fel brenin-archoffeiriad (1-10).—(1) **Ei safle swyddol** (1).—(a) **Brenin o osodiad dwyfol.—Canys y Melchisedec hwn, brenhin Salem.**—Ni soniwn yma am hanes Melchisedec na'r damcaniaethau am dano, gan y bydd traethawd arno ef a Salem. Gwelir yma ei fod yn frenin Salem. Dengys hyn ei fod mewn swydd uchel o ran awdurdod ar ei gyd-ddynion. Efe arweiniai eu ddeiliaid; efe a'u dysgai, eu hamddiffynai, eu cynghorai, eu llywodraethai ac a wnelai ddeddfau iddynt. Safon ei foesoldeb a'i grefydd ef oedd eu safon hwythau. (b) **Offeiriad trwy alwad ddwyfol.—Offeiriad y Duw goruchaf, yr hwn a gyfarfu ag Abraham wrth iddo ddychwelyd o laddfa y brenhinoedd, ac a'i bendithiodd ef.**—Profa ei fod yn offeiriad y Duw Goruchaf, mai Duw a'i galwodd i'r swydd. Nid un gymerodd at y frenhiniaeth na'r archoffeiriadaeth ohono ei hun ydoedd. Duw a'i gosododd yn frenin ac a'i galwodd yn offeiriad. Hyn roddai safle ddwyfol i'w swydd. Er na pherthynai i Abraham, yr oedd yn addolwr y gwir Dduw ac nid eilunaddolwr. Cymaint oedd ef yn ffafr Duw fel y galwodd ef i fod yn offeiriad dros bobl ei ofal. Fel offeiriad yr aeth i gyfarfod Abraham, ac nid fel brenin; oblegid gwaith offeiriad yw bendithio. Clywodd am fuddugoliaeth Abraham ar frenhinoedd eilunaddolgar, a threfnodd i fyned i'w gyfarfod i'w fendithio fel gwr Duw. Beth oedd cynwys y fendith ni ellir gwybod. Dichon mai (1) cymeradwyaeth i Abraham oedd hi; (2) cydnabyddiaeth o'i wasanaeth i Dduw a chrefydd; (3) cyflawniad o ryw seremoniau fel arddangosiad o syniadau uchel Melchisedec am dano; (4) yr ydym yn sicr iddo fendithio Abraham yn enw Duw a dymuno am i fendith Duw orphwys yn helaeth arno. (2) **Mawredd cymharol** (2).—**I'r hwn hefyd y cyfranodd Abraham ddegwm o bob**

peth: yr hwn yn gyntaf, o'i gyfieithu, yw Brenin cyfiawnder, ac wedi hyny hefyd, Brenhin Salem, yr hyn yw, Brenhin heddwch;

3 Heb dad, heb fam, heb achau, heb fod iddo na dechreu dyddiau, na diwedd einioes; eithr wedi ei wneuthur yn

---

peth.—Dengys y geiriau hyn gydnabyddiaeth Abraham o uwchafiaeth Melchisedec. Rhaid yr ystyriai ef yn llawer uwch nag ef ei hun cyn y cyfranai y ddegfed ran o'r ysbail iddo. Nid uwchafiaeth gallu mewn rhyfel oedd hwn a phethau cyffelyb, ond uwchafiaeth ysbrydol. Edrychai Abraham arno fel brenin ac offeiriad Duw; ac oblegid hyny, teimlai ei hun yn israddol iddo. Er duwioled oedd Abraham, ac er cryfed ei ffydd, cydnabyddai yn ostyngedig fawredd cymharol y dyn rhyfedd hwn, ac hefyd ei archoffeiriadaeth. (3) **Cymeriad moesol.—Yr hwn yn gyntaf, o'i ddeongli, yw Brenin cyfiawnder, ac yna hefyd Brenhin Salem, yr hyn yw, Brenin heddwch.**—Yma daw llinell fawr cymeriad Melchisedec i'r golwg. Yr oedd yn wr cyfiawn. Llywodraethai ei ddeiliaid mewn cyfiawnder. Ystyr y gair "Melchisedec" yw "cyfiawnder." Enwyd ef felly am ei fod yn gyfiawn. Egwyddor gyntaf brenin delfrydol yw cyfiawnder moesol. Heb feddiant ohono ni fedd neb wir gymhwysder brenin. Ymwybyddiaeth o'i fodolaeth a'i ymarferiad mewn llywodraethwr a rydd lawn foddlonrwydd i'r rhai a lywodraethir. Heblaw meddu yr egwyddor o gyfiawnder hanfodol ac ymarferol, meddai Melchisedec yr egwyddor o heddwch. Ystyr y gair "Salem" yw "heddwch." Dyma gymhwysder hanfodol arall mewn brenin—tuedd heddychol. Sylfaenir hi ar yr egwyddor o gyfiawnder. Neu gellir dyweyd mai cyfiawnder yw yr achos ac mai heddwch yw yr effaith. Llywodraethai Melchisedec gyfiawned nes peri heddwch ym mhlith ei ddeiliaid. Hyn yn ddiau barodd i'r ddinas gael ei galw yn Salem, sef heddwch. Yn y dyn hwn ceir y ddwy egwyddor ydynt yn rhai hanfodol i gymeriad moesol uchelryw. Cyfunai ynddo ei hun gryfder cyfiawnder a doethineb sydd yn ofynol i gynyrchu heddwch. Hefyd, fel archoffeiriad ymdrechai wneyd heddwch rhwng Duw a'i ddeiliaid. Dyma nod uchaf pob gwir offeiriad. (4) **Neillduolrwydd hanesyddol** (3).—**Heb dad, heb fam, heb achyddiaeth, heb fod ganddo na dechreu dyddiau na diwedd einioes, eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw, sydd yn aros yn offeiriad yn barhaus.**—Gwelir wrth yr adnod hon fod neillduolrwydd hanesyddol yn perthyn i Melchisedec pa fodd bynag

gyffelyb i Fab Duw, sydd yn aros yn offeiriad yn dragywydd.

---

yr esbonir yr adnod. Beth yw meddwl ei fod heb dad, heb fam ac heb achau? Cynygir amryw esboniadau ar hyn, megys (1) y llythyrenol. Myn y dosbarth hwn mai person goruwchnaturiol oedd ef ac nad oedd iddo dad na mam nac achau. Nid yw yn werth myned ar ol y rhesymau dros hwn, am nad oes sail iddynt. (2) Yr un ysbrydol. Deil pleidwyr hwn mai am Melchisedec fel dyn ysbrydol y siaredir. Nid cynyrch tad a mam ac achau yw dynion fel efe. Gras Duw a'u gwna yr hyn ydynt. Gwasgu esboniad annaturiol i'r geiriau yw hyn er fod y peth yn wir fel athrawiaeth. Ammhosibl i ddeddfau naturiol gynyrchu dynion o'r desgrifiad roddir o Melchisedec; ond ni allwn gredu er hyny mai ei ysbrydolrwydd sydd ym meddwl yr awdwr yma. (3) Yr un hanesyddol. Wrth hwn y golygir nad oes air o son am rieni nac achau Melchisedec yn yr Hen Dest. Daw ger ein bron yn sydyn a diflana yr un modd. Yn hyn medd neillduolrwydd a'i gwahaniaetha oddiwrth bob archoffeiriad arall mewn hanes. (4) Yr un swyddol. Ni allai neb fyned i'r swydd o archoffeiriad yn yr eglwys Iuddewig yn ol y gyfraith, heb ei fod o lwyth Lefi, a'i dad wedi bod yn y swydd, a'i fam o'r llwyth offeiriadol, neu fod ei achau wedi bod yn y swydd. Byddid yn dra gofalus, cyn i ymlygriad gymeryd lle, am yr achyddiaeth. Nid felly am Melchisedec: nid oedd iddo dad nac achau yn y swydd, nid oedd ei fam o deulu offeiriadol chwaith. Gan mai cyffelybu archoffeiriadaeth Melchisedec i eiddo Crist wna yr awdwr, credwn mai yr olaf yw y syniad cywir. Y syniad hwn rydd nerth yn ymresymiad yr awdwr yn nes ym mlaen. Beth feddylir wrth ei fod "heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes"? Dibyna yr esboniad ar ba un o'r pedwar syniad uchod a gymerir. (1) Os mai yr esboniad llythyrenol a dderbynir, rhaid deall mai heb ei eni yn naturiol yw meddwl "heb ddechreu dyddiau," ac na fu farw sydd i'w ddeall wrth "na diwedd einioes." (2) Pe cymerid y syniad ysbrydol fel yr un cywir, rhaid fyddai deall nad dynion oedd achos dechreu dyddiau Melchisedec, ond Duw, ac na fu diwedd einioes ysbrydol iddo. (3) Yn ol y syniad hanesyddol, y meddwl yw, nad oes hanes am ei enedigaeth na'i farwolaeth. (4) Y syniad a gymeradwywn yw, na fu dechreu dyddiau na diwedd einioes iddo yn ei swydd. Rhaid oedd i'r archoffeiriaid Iuddewig fod yn ddeg-ar-hugain oed cyn cymeryd at y swydd, a rhaid oedd iddynt

4 Edrychwch faint oedd hwn, i'r hwn hefyd y rhoddodd Abraham y patriarch ddegwm o'r anrhaith.
5 A'r rhai yn wir sydd o feibion Lefi yn derbyn swydd yr offeiriadaeth, y mae ganddynt orchymyn i gymeryd degwm gan y bobl yn ol y gyfraith, sef gan eu brodyr, er eu bod wedi dyfod o lwynau Abraham:

---

ei rhoddi fyny pan yn haner cant oed. Cedwid dyddiad eu genedigaeth i'r swydd a'u hymadawiad a hi yn fanwl, ac hefyd, eu genedigaeth a'u marwolaeth naturiol. Nid felly am Melchisedec: daeth ef i'r swydd oherwydd ei rinweddau personol ac ni fu raid iddo ei rhoddi fyny oblegid oed na dim arall. Yn hyn, yr oedd "wedi ei wneuthur yn debyg i Fab Duw." Nid Mab Duw wnaed yn debyg iddo ef, ond efe wnaed yn debyg i Fab Duw. Cysgod oedd ef a Mab Duw oedd y sylwedd. Er hyny, meddai nodweddion tebyg i Fab Duw. Ceir gweled isod ym mha bethau yr oedd yn gyffelyb i Fab Dduw. Melchisedec sydd i feddwl yn y geiriau "aros yn barhaus" ac nid Crist. (Gwel Traethawd ar fod Melchisedec "yn aros yn barhaus." (5) **Mawredd personol** (4).—**Yn awr ystyriwch pa mor fawr ydoedd y dyn hwn, i'r hwn y rhoddodd Abraham, y patriarch, ddegwm o'r yspail penaf.**—Neu "o'r pentyrau penaf." Ymddengys fod yr awdwr yma yn galw sylw at fawredd personol Melchisedec ac nid at ei gymeriad personol yn unig. Yr oedd Abraham yn fawr, ac yn anterth ei ogoniant yr adeg yma; ond nid oedd i'w gymharu a hwn. Teimlai Abraham resymau dros roddi rhan o'r ysbail penaf iddo oblegid ei fawredd. Yr oedd yr ysbail yn gynwysedig o lawer o bethau, megys arfau rhyfel, arian ac aur, trysorau a thlysau, ymborth ac anifeiliaid. O'r pentyrau penaf o'r rhai hyn, sef y rhai gwerthfawrocaf y rhoddodd Abraham ddegwm i Melchisedec. Rhaid, gan hyny, ei fod yn berson mawr ei allu, ei ddylanwad, ei awdurdod a'i rinweddau personol. (6) **Mawredd Archoffeiriadol** (5-10).—Yma try yr awdwr i gymharu Melchisedec fel archoffeiriad a'r archoffeiriaid Iuddewig. Dangos ei fawredd o'i gymharu ag Abraham a wnai yn yr adnodau blaenorol yng nghyd a phethau ereill. (a) **Derbyn degwm gan dad offeiriaid** (5-6). **—Ac y mae gan y rhai hyny yn wir o feibion Lefi a gymerant swydd yr offeiriad orchymyn i gymeryd degymau gan y bobl yn ol y gyfraith, hyny yw, gan eu brodyr, er bod y rhai hyn oll wedi dyfod allan o lwynau Abraham; eithr efe yr hwn ni chyfrifwyd ei achyddiaeth**

6 Eithr yr hwn nid oedd ei achau ohonynt hwy, a gymerodd ddegwm gan Abraham, ac a fendithiodd yr hwn yr oedd yr addewidion iddo.
7 Ac yn ddiddadl, yr hwn sydd leiaf a fendithir gan ei well.

---

ohonynt hwy a gymerodd ddegwm gan Abraham.—Yn adn. 4 ni wnaed ond nodi mawredd Melchisedec; eithr yn yr adnodau hyn desgrifir ym mheth y mae yn fawr. Beth yw meddwl "a rhai yn wir o feibion Lefi a dderbyniant swydd offeiriaid"? (1) Myn rhai mai y meddwl yw, mai eu bod o feibion Lefi yw yr achos y cymerant y swydd. Dyna rydd hawl iddynt i gymeryd y swydd o offeiriad. Myn pleidwyr y syniad hwn fod i "a"—ϵκ—yn y frawddeg, nerth achosyddol. (2) Deil ereill mai ystyr deilliadol sydd i'r gair "a"—ϵκ. Ymddengys mai o blaid y syniad hwn y mae y rhesymau cryfaf. O lwyth Lefi y deilliai yr offeiriaid a rhaid oedd iddynt fod o deulu Aaron. Rhai o'r llwyth felly oedd i dderbyn swydd offeiriad ac nid yr holl lwyth. Derbyniai y rhai hyn ddegwm gan eu brodyr er eu bod wedi dyfod o lwynau Abraham. Gan hyny, ni feddent uwchafiaeth bersonol ar eu brodyr. Ar beth y pwysai eu hawl i godi degwm? Ar orchymyn pendant o eiddo Duw, ac nid ar ddim personol oedd ynddynt hwy. Rhoddai gorchymyn Duw hawl iddynt i'r degwm ac uwchafiaeth swyddol. Eithr profa y ffaith eu bod o lwynau Abraham na feddent unrhyw uwchafiaeth bersonol. Beth yw y gwahaniaeth rhwng gorchymyn a chyfraith? Y gorchymyn parthed y degwm yn unig, sef un ran o'r gyfraith yw cynwys y gair gorchymyn; tra y cynwysa y gair cyfraith yr holl ddeddf archoffeiriadol. Yr oedd Melchisedec uwchlaw pob gorchymyn o'r fath yma. Yn ol adn. 6 nid oedd ei achau o'r Lefiaid, ac eto cymerodd ddegwm gan dad y Lefiaid oll. Rhaid ei fod yn fwy na hwynt oll gan hyny. Dyna amcana yr awdwr ddangos, ydyw uwchafiaeth Melchisedec ar yr holl offeiriaid Lefiaidd. Ystyrid Abraham yn dad y genedl a thad y ffyddloniaid, ac felly, yn fwy na'r holl Lefiaid. Yr oedd yn sylweddol yn offeiriad i Dduw. Gwelwn hyny yn ei waith yn aberthu. Eithr plygai yn isel o flaen Melchisedec. (b) **Bendithio Tad offeiriaid** (6-7). **—Ac a fendithiodd yr hwn oedd ganddo yr addewidion. Ond yn ddiddadl y lleiaf a fendithir gan y gwell.**—Dengys y geiriau hyn eto ragoriaeth Melchisedec ar Abraham. Nid yn unig derbyniodd ddegymau o oreuon yr ysbail gan Abraham ond bendithiodd ef. Yr oedd

8 Ac yma y mae dynion y rhai sydd yn meirw yn cymeryd degymau: eithr yno, yr hwn y tystiolaethwyd am dano ei fod ef yn fyw.

9 Ac, fel y dywedwyf felly, yn Abraham y talodd Lefi hefyd ddegwm, yr hwn oedd yn cymeryd degymau.

Abraham yn un mawr iawn; oblegid iddo ef y gwnaeth Duw ei addewidion mawrion. Er hyny yr oedd Melchisedec yn ddigon mawr i'w fendithio. Y lleiaf a fendithir gan y mwyaf bob amser. Ni all dyn fendithio Duw, ond gall Duw fendithio dyn; ni all dyn drwg fendithio dyn da, ond gall dyn da fendithio dyn drwg; ni all dyn analluog fendithio dyn galluog, ond gall dyn galluog fendithio dyn analluog. Y mwy sydd yn bendithio y llai bob amser, ac nid y llai y mwy. Prawf o uwchafiaeth Melchisedec oedd iddo fendithio Abraham. Drwy Abraham y derbyniodd y genedl ei bendithion a'i breintiau, a rhaid felly ei fod yn fawr iawn yng ngolwg Duw; eithr nid mor fawr a Melchisedec. (c) **Goroesi yr offeiriaid** (8).—**Ac yma dynion ar sydd yn meirw a dderbyniant ddegymau; ond yno un, y tystiolaethir am dano ei fod yn byw.**—Dyma uwchafiaeth arall o eiddo y dyn rhyfedd hwn. Byddai yr offeiriaid o lwyth Lefi oll yn meirw er eu bod yn cymeryd degymau. Dyna oedd eu hanes o oes i oes. Nid yw hyn yn golygu nad oedd Melchisedec yn ddyn ac na fu farw fel y gwelir yn y traethawd. Gwahanol iawn i hanes yr archoffeiriaid Iuddewig yw eiddo Melchisedec. Tystiolaethir ei fod ef yn byw. Pa le y tystiolaethir. (1) Yn Genesis xiv. yn ol un syniad. Eithr ni welwn sail yno i'r syniad fod Melchisedec yn offeiriad yn dragywyddol. (2) Mewn traddodiad sydd ar goll, ond a fodolai y pryd yr ysgrifenwyd yr Epistol hwn yw syniad arall. Eithr gwan iawn yw hwn. Ni chawn yr awdwr yn seilio ei ymresymiadau ar draddodiad yn un man arall. (3) Yn Salm cx. 4. Methwn a chanfod rheswm digonol dros un syniad ond hwn. Un o elfenau urdd Melchisedec oedd bod yn offeiriad yn dragywyddol yn ol y Salm hon. Rhagoriaethau personol wnaethant Melchisedec yn offeiriad, ac nid achyddiaeth a chyfraith; ac er na chyflawna ei swydd yn y nef erys y rhagoriaethau hyn ynddo byth. Yr oedd ynddo ryw neillduolrwydd na feddai unrhyw offeiriad arall. (d) **Derbyn degwm gan offeiriaid** (9-10).—**Ac, fel y dywedwyf felly, trwy Abraham y mae hyd yn nod Lefi, yr hwn sydd yn derbyn degymau, wedi talu degymau; canys yr oedd efe eto yn**

10 Oblegid yr ydoedd efe eto yn lwynau ei dad, pan
gyfarfu Melchisedec ag ef.
11 Os ydoedd gan hyny berffeithrwydd trwy offeiriadaeth
Lefi, (oblegid dan hono y rhoddwyd y gyfraith i'r bobl,)

---

lwynau ei dad, pan gyfarfu Melchisedec ag ef.—Beth yw meddwl y geiriau hyn? Hyn : nid fod Lefi ei hun wedi derbyn na thalu degwm. Ni dderbyniodd ef ddegwm gan neb, ac ni thalodd ddegwm chwaith cyn belled ag y gwyddom ni. Y rheswm dros enwi Lefi yw, am mai efe yw pencynrychiolydd ei lwyth, ac am mai ei lwyth ef oedd a hawl i ddegymu. Edrychir ar Lefi a'i ddisgynyddion fel rhai oeddynt yn lwynau Abraham yr adeg y talodd ef ddegwm i Melchisedec. Mewn un ystyr yr oedd yn gywir dyweyd fod yr offeiriaid dderbynient ddegwm wedi talu yn Abraham, am mai ei hiliogaeth ef oeddynt oll. Trwyddo ef, ar ryw olwg, y sefydlwyd yr archoffeiriadaeth, y daeth yr holl addewidion, y rhagorfreintiau, y cyfamodau, a'r bendithion lluosog i'r genedl. Gwnaeth Duw ef yn gyfrwng i dywallt ei ras i'r genedl. Beth bynag wnaeth Abraham, gan hyny, edrycha yr awdwr ar y genedl yn ei wneyd ynddo. Yr oedd pob peth offeiriad yn Abraham, fel y dangoswyd o'r blaen, a thalodd ddegwm i offeiriad Salem er ei fawredd. Felly am yr offeiriaid ddeilliodd ohono. Talasant hwythau ddegwm ynddo.

II. Ammherffeithrwydd yr archoffeiriadaeth yn ol urdd Aaron yn galw am un yn ol urdd Melchisedec (11-14).—**Yr ammherffeithwydd** (11).—**Yn awr, os ydoedd perffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi (canys dani hi y derbyniodd y bobl y gyfraith), pa raid oedd mwyach fod i offeiriad arall gyfodi yn ol urdd Melchisedec, ac nas cyfrifid ef yn ol urdd Aaron?**—Awgryma yr adnod yr ammherffeithrwydd yn urdd Aaron er na enwa ef. Ffordd o ddangos ei hammherffeithrwydd yw y cwestiwn. Ni nododd yr awdwr ammherffeithrwydd yr urdd hon yn yr adnodau blaenorol, ond dangosodd yn eglur ei hisafiaeth i urdd Melchisedec. Yn ol yr adnod hon a'r rhai dilynol, dengys nid ei hisafiaeth, ond ei hammherffeithrwydd. Onibae fod ynddi ammherffeithrwydd, ni fuasai y Salmydd yn prophwydo am archoffeiriad arall o urdd Melchisedec. Yr ammherffeithrwydd alwai am gyfnewidiad yn yr archoffeiriadaeth. Yr oedd yr archoffeiriadaeth Iuddewig yn ammherffaith ynddi ei hun, ac yn analluog i ddwyn dynion i berffeithrwydd. Meddwl perffeithrwydd yw cyflawn, crwn, llawn-ddadblygedig, peth

pa raid oedd mwyach godi Offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec, ac nas gelwid ef yn ol urdd Aaron?

---

wedi llanw ei amcan. Ni feddai urdd Aaron y nodwedd yma; onide ni fuasai eisieu i offeiriad arall godi. Paham y dygir rhoddiad y gyfraith i fewn yma mewn cysylltiad a'r offeiriadaeth? (1) Dywed rhai mai am fod y gyfraith yn eglurhad neu esboniad ar yr archoffeiriadaeth. Peth ddygwyd i fewn oedd y gyfaith i daflu goleuni ar yr holl gyfundrefn archoffeiriadol. (2) Ereill a ddaliant, mai y rheswm yw y ffaith i'r gyfraith gael ei dwyn i fewn yn amser yr archoffeiriadaeth. Yn ei hadeg yw ystyr "dani" meddant hwy. (3) Myn amryw mai meddwl "oblegid dani hi y rhoddwyd y gyfraith" yw, mai amcan rhoddiad y ddeddf oedd sefydlu yr archoffeiriadaeth. (4) Eithr credwn mai yr ystyr yw, mai ar sail yr archoffeiriadaeth yr adeiladwyd y gyfraith. Hwn ymddengys gysonaf pan gofiom amcan y gyfraith. Cynorthwyo dynion i gyrhaedd perffeithrwydd oedd ei hamcan hi. Hi oedd yr athraw at Grist. Ond y gyfundrefn archoffeiriadol oedd ei sail. Pa fodd y mae y syniad hwn yn gyson a fod y ddeddf foesol wedi ei rhoddi cyn sefydliad yr archoffeiriadaeth? Yr hyn olygir wrth y gyfraith benderfyna hyny. Nid y ddeddf foesol roddwyd ar Sinai yn unig gynwysir yn y gair ond holl ddeddfau seremoniol Moses yn ogystal. Cyfynga rhai y gyfraith i'r gyfraith archoffeiriadol yn unig; ond rhy gyfyng syniad ydyw yn y fan hon. Heblaw hyny, gellir dyweyd fod yr offeiriadaeth yn bod yn sylweddol cyn rhoddiad y ddeddf foesol. Cyflawnai Moses swydd archoffeiriad cyn dewisiad Aaron a'i feibion i'r swydd. Yn ol Exodus xxiv. 5, cynorthwyai "llanciau meibion Israel" ef i ladd yr aberthau. Ymdrafodaeth dynion a Duw roddodd fod i'r archoffeiriadaeth, a'r archoffeiriadaeth yn ei natur amododd roddiad y gyfraith. Ond pa fodd y methodd y gyfraith a pherffeithio dynion? Am fod ei sail, sef yr archoffeiriadaeth yn ammherffaith—ni allai berffeithio y rhai ddeuent at Dduw drwyddi. Yr anallu hwn barodd y rhagfynegiadau yn y Salm am offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec. Galwai achos dynion am archoffeiriad "arall"— ἕτερον —hyny yw, un o natur wahanol ac uwchnaturiol. I berffeithio dynion rhaid oedd cael archoffeiriad perffaith o urdd uwch nag urdd Aaron. Methai yr archoffeiriadaeth a chyrhaedd y gwir amcan trwy urdd Aaron; gan hyny, ni chyfrifid, neu ni ragfynegid yn y Salm y byddai un yn codi yn ol urdd

12 Canys wedi newidio yr offeiriadaeth, angenrhaid yw bod cyfnewid ar y gyfraith hefyd.
13 Oblegid am yr hwn y dywedir y pethau hyn, efe a berthyn i lwyth arall, o'r hwn nid oedd neb yn gwasanaethu yr allor.

Aaron, ond yn hytrach yn ol urdd Melchisedec. Bu archoffeiriadaeth Aaron dan brawf am ganrifoedd cyn llefariad y Salm y cyfeirir ati yma, ond methodd a chyrhaedd ei hamcan uchaf. Pe cyrhaeddasai yr amcan hwnw, ni fuasai raid dwyn i mewn offeiriad arall o urdd wahanol. (2) **Yr ammherffeithrwydd yn galw am newid y gyfraith** (12).—**Canys pan gyfnewidir yr offeiriadaeth, y mae cyfnewidiad o angenrheidrwydd yn cael ei wneyd yn y gyfraith hefyd.**—Nid y meddwl yn yr adnod hon yw fod y gyfraith yn ammherffaith oblegid fod ei sail yn ammherffaith fel y deil rhai. Dywed yr esbonwyr hyn mai a'r geiriau cromfachol yn yr adnod flaenorol y dylid cysylltu yr adnod hon. Dangos wna yr awdwr, meddant hwy, fod sail ammherffaith yn cynwys fod yr hyn adeiledir arni yn ammherffaith. Eithr ni allwn weled fod cyfeiriad at ddim o'r fath yma. Amcan yr awdwr yw dangos fod cyfnewidiad yr archoffeiriadaeth bwysiced, nes yr oedd yn rhaid cyfnewid y gyfraith neu yr holl gyfundrefn o ddeddfau ddaliai gysylltiad a hi ym mhob modd. Fel y dangoswyd, ammherffeithrwydd yr archoffeiriadaeth alwai am ei chyfnewidiad; o ganlyniad, ei hammherffeithrwydd oedd achos cyfnewidiad y gyfraith. Seiliwyd y gyfraith arni, a phan newidiwyd hi rhaid oedd newid y gyfraith hefyd. Dylid sylwi nad y gyfraith archoffeiriadol yn unig feddylir yma eto, na'r ddeddf seremoniol chwaith, ond yn hytrach yr holl ddeddf foesol, archoffeiriadol a seremoniol. Gwnai cyfnewidiad yr offeiriad i ffwrdd a'r holl gyfundrefn ddeddfol. (3) **Rheswm dros y gosodiadau blaenorol** (13-14).—**Canys efe am yr hwn y dywedir y pethau hyn a berthyn i lwyth arall, o'r hwn nid yw neb wedi gweini wrth yr allor. Canys hysbys yw mai o Juda y mae ein Harglwydd wedi cyfodi; am yr hyn lwyth ni ddywedodd Moses ddim o berthynas i offeiriaid.**—Pwy yw yr hwn y siaredir am dano yma? Nid Melchisedec, ac o ganlyniad, ni all fod yn neb ond Crist. Y pethau a ddywedwyd am dano oedd (1) ei fod yn offeiriad arall; (2) ei fod o urdd Melchisedec, ac (3) nad oedd o urdd Aaron. Yr oedd yn offeiriad gwahanol i rai o urdd Aaron ac nid yn un ychwanegol atynt ac o urdd uwch. Yn ol adn.

14 Canys hysbys yw, mai o Juda y cododd ein Harglwydd ni; am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses ddim tuag at offeiriadaeth.

13, perthynai i lwyth gwahanol. O lwyth Lefi y codai yr holl offeiriaid Iuddewig; oblegid efe oedd y llwyth offeiriadol yn ol y gyfraith. Rhaid oedd iddynt fod o deulu Aaron hefyd yn y llwyth hwnw fel y sylwyd o'r blaen. Eithr cododd Crist o lwyth na chododdd yr un archoffeiriad ohono. Cadwai y gyfraith bob llwyth ond Lefi allan o'r swydd. Prif waith yr offeiriad oedd gwasanaethu yr allor. Yn yr allor y canol-bwyntiai ei holl wasanaeth i Dduw. Yr aberth ar yr allor ddeuai a gwaith yr offeiriad i berthynas uniongyrchol a Duw. Yn y cysegr yr oedd yr allor, a mynediad yr offeiriad i'r cysegr i aberthu oedd yn bwysig. Dim ond rhai o'r llwyth neillduedig gai yr hawl gan hyny i wasanaethu y swydd. Eithr perthynai Crist i lwyth arall fel y gwelir yn yr adnod nesaf. Dywedwyd drwy brophwydoliaeth mai o lwyth arall y codai Crist yn gystal ag y buasai yn offeiriad yn ol urdd Melchisedec. (1) Cafodd Dafydd addewid mai o'i hâd ef y codai; (2) dywedwyd mai gwialen o gyff Jesse fuasai ef; (3) rhagfynegwyd yr eisteddai ar orseddfa Dafydd; ond nid o safle brophwydoliaethol y siarada yr awdwr yma, ond o safle hanesyddol. Dywed, a rhoddi cyfieithiad llythyrenol, fod Crist "wedi cyfranogi o lwyth arall." Dyna ystyr y geiriau "a berthyn i lwyth arall" yn yr adnod. Yr oedd yr Iesu erbyn hyn wedi cyfranogi o lwyth na chododdd offeiriad i wasanaethu yr allor ohono. Dengys yn adn. 14 fod hyn yn ffaith hollol hysbys. Meddwl y gair *πρόδηλον* —"hysbys"—yw hysbys neu amlwg, neu eglur i bawb. Gwyddai darllenwyr yr Epistol a phawb Cristionogion mai o lwyth Juda y cododd Crist. Wrth "bawb" yma, nid ydym i ddeall pawb yn gyffredinol, ond pawb Cristionogion. Wrth draethu ar hanes Crist dangosai yr apostolion ac ereill mai o lwyth Juda yr hanodd ef, yn ol y prophwydoliaethau. Ni ddywedodd Moses ddim am y llwyth hwn "tuag at yr archoffeiriadaeth," neu yn fwy cywir yn ol y C.D., "dim o berthynas i offeiriaid." A mwyafrif y MSS. goreu dros y darlleniad hwn, oblegid *περὶ ἱερέων οὐδεν*— dim yng nghylch, neu o berthynas i offeiriaid—yw y geiriau ynddynt. Fel y dangoswyd ni feddai y llwyth hwn hawl i'r offeiriadaeth, ac eto, ohono y cododd Crist. Gan hyny, rhaid fod y fath gyfnewidiad yn cynwys cyfnewidiad ar y gyfraith. Swm yr oll yw, mai un dros amser oedd

15 Ac y mae yn eglurach o lawer eto; od oes yn ol cyffelybrwydd Melchisedec Offeiriad arall yn codi,
16 Yr hwn a wnaed, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, eithr yn ol nerth bywyd annherfynol.

---

offeiriadaeth Lefi ac nid un dragywyddol fel eiddo yr offeiriad oedd i godi yn ol urdd Melchisedec. Ni all yr ammherffaith fod yn dragywyddol. Gwna ei natur ef yn amserol o angenrheidrwydd. Felly am offeiriadaeth Lefi; ni allai barhau am nad oedd yn berffaith. Y perffaith hollol yn unig sydd yn dragywyddol.

III. Perffeithrwydd archoffeiriadaeth Crist a'i rhagoriaeth ar eiddo Aaron (15-28)—(1) **Perffeithrwydd gwneuthuriad ei harchoffeiriad** (15-16).—**Ac y mae yr hyn a ddywedwn yn eglurach o lawer eto, od oes yn ol cyffelybrwydd Melchisedec offeiriad arall yn cyfodi, yr hwn a wnaed, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, eithr yn ol nerth bywyd annherfynol.**—Wedi dangos ammherffeithrwydd urdd Aaron, a bod hyny yn galw am offeiriad arall o urdd uwch, a yr awdwr ym mlaen i ddangos perffeithrwydd archoffeiriadaeth Crist. Gofynol sylwi nad yw y geiriau, "y mae yr hyn a ddywedwn," yn y MSS. gwreiddiol. Tybiodd y cyfeithwyr y byddai yn fantais eu gosod i fewn mewn llythyrenau italaidd er mwyn eglurder. Beth ddywedir ei fod yn eglurach o lawer? Ceir amryw syniadau ar hyn, megys (1) mai cyfeirio wna y geiriau at fod Crist o lwyth Juda yn adn. 14; (2) cyfnewidiad yr archoffeiriadaeth; (3) fod cyfnewidiad yr archoffeiriadaeth yn profi cyfnewidiad y gyfraith; (4) mai cyfeiriad sydd yma at ymresymiad yr adnodau blaenorol am ammherffeithrwydd archoffeiriadaeth Lefi. Credwn mai dyma y syniad cywir, oblegid ammhosibl gwneyd y pethau ereill yn eglurach nag y gwnaed hwy. Ar ryw olwg, cynwysa y syniad hwn y lleill oll. Yn yr adnodau dan sylw perffeithrwydd gwneuthuriad Crist yn archoffeiriad wneir yn amlwg. Dengys yr awdwr, i ddechreu, fod yr offeiriad arall, sef Crist, yn ol cyffelybrwydd Melchisedec. Nid meddwl hyn yw ei fod o urdd Melchisedec yn unig, ond ei fod yn feddiannol ar nodweddion personol cyffelyb i Melchisedec, ond eu bod yn anfeidrol uwch, wrth reswm. Fel yr oedd Crist yn ddyn, yr oedd yn debyg iawn i Melchisedec; ond fel Duw nid oedd Melchisedec i'w gymharu ag ef. Teifl ei fod yn codi yn ol urdd Melchisedec oleuni ar yr holl bethau a ddywedwyd am offeiriadaeth Lefi. Ym mheth y rhagora ar offeiriadaeth Lefi? Yn

17 Canys tystiolaethu y mae, Offeiriad wyt ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

---

ei wneuthuriad yn gyntaf. Gwnaed Crist yn archoffeiriad yn wahanol i bawb o'r rhai o lwyth Lefi. "Yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol" y gwneid hwy. Wrth gyfraith yma nid ydym (1) i olygu holl ddeddf Moses, ond (2) y trefniant offeiriadol yn ei gyfanswm—y gyfraith parthed yr archoffeiriadaeth. Beth yw y "gorchymyn?" Y rhan hono o'r gyfraith archoffeiriadol a berthynai i apwyntiad yr archoffeiriad. Gelwid y rhan hon yn orchymyn am yr hawliai Duw drwy Moses i'r archoffeiriad gael ei osod yn y swydd yn ol fel y gorchymynai efe. Y gair am "cnawdol" yma yw σαρκινῆς, a golyga beth yn cynwys cnawd, ac nid peth cyffelyb i gnawd. Dal perthynas a chynwys cnawd yr offeiriad oedd "cyfraith gorchymyn," ac nid a'i enaid, neu ei bersonoliaeth oll. Dechreuai gydag achyddiaeth y dyn. Rhaid oedd iddo ddisgyn o deulu penodol, ac o lwyth neillduol; gofynol oedd iddo fod yn hollol ddianaf o ran ei gorph, a bod yn ddeg-ar-hugain oed pan yn cymeryd at y swydd. Ni chai cymhwysderau meddyliol, moesol, a chrefyddol le hanfodol yn ei ddewisiad i'r swydd. Yr hanfodol yng nghyfraith y gorchymyn oedd y cnawdol; hyny yw, cymhwysderau anianyddol a chorfforol. Ni chwareuai y cymhwysderau hyn unrhyw ran yn apwyntiad Crist i'w swydd. Fel Melchisedec, nid haniad o lwyth na theulu gyfrifai yn ei wneuthuriad ef yn archoffeiriad, ond nerth bywyd annherfynol. Y mae nerth yn gyferbyniol i gyfraith, bywyd yn gyferbyniol i gorchymyn, ac annherfynol yn gyferbyniol i cnawdol. Un wan oedd y gyfraith trwy yr hon y gwneid y Lefiaid yn offeiriaid; un marw oedd y gorchymyn, ac un darfodedig oedd y cymhwysder cnawdol a ofynai yn yr archoffeiriad. Eithr am Grist, gwnaed ef trwy nerth, a hwnw yn nerth bywyd annherfynol. (Gwel Traethawd ar "Nerth bywyd annherfynol"). Hanfodai y cymhwysder ym mherson Crist, ac nid yn ei gysylltiadau achyddol a chorfforol. Dyna yr unig ffordd i wneyd yn berffaith. Bywyd yn unig all wneyd peth yn berffaith, a bywyd annherfynol yn unig all wneyd peth yn anfeidrol berffaith. Gwnaed Crist yn archoffeiriad, gan hyny, trwy yr unig ffordd y gellid ei wneyd yn berffaith. (2) **Gwneuthuriad ei harchoffeiriad yn ol rhagfynegiad** (17).—**Canys tystiolaethir am dano, Tydi wyt Offeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec.** —Gofala yr awdwr osod ei holl ymresymiad i orwedd ar Ysgrythyr,

18 Canys yn ddiau y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, oherwydd ei lesgedd a'i afles.
19 Oblegid ni pherffeithiodd y gyfraith ddim, namyn dwyn gobaith gwell i mewn a berffeithiodd; trwy yr hwn yr ydym yn nesau at Dduw.

---

a hyny ar draul ail-adrodd yr un dyfyniad lawer gwaith. Dengys yma nad rhywbeth dychymygol oedd fod offeiriad arall i godi, yr hwn na fyddai o lwyth Lefi. Dywedwyd mewn prophwydoliaeth am dano, ac y byddai ef o urdd arall. Ammhosibl troi ei ymresymiad yn ol, gan ei fod yn seiliedig ar ragfynegiad pendant. Try yr hyn ymddangosai i'r Iuddew yn erbyn ymresymiad yr awdwr o'i blaid. Credai yr Iuddew yr Ysgrythyrau, a chan eu bod yn dyweyd y codai archoffeiriad o urdd arall, ni allasai droi yn ol ymresymiad yr awdwr. Hefyd, profa yma, nid yn unig fod Crist yn archoffeiriad yn ol urdd arall, ond ei fod yn dragywyddol; hyny yw, nad oes terfyn ar ei archoffeiriadaeth. Y mae ef yn archoffeiriad yn ol uwch urdd, ac un o dragywyddol barhad. (3) **Dygiad gobaith gwell trwy ei harch-offeiriad** (18-19).—**Canys y mae diddymiad i'r gorchymyn rhagfynedol oherwydd ei wendid a'i afles (canys ni pherffeithiodd y gyfraith ddim), a dygiad i mewn ar hyn obaith gwell, trwy yr hwn yr ydym yn neshau at Dduw.**—A yr awdwr ym mlaen yn adn. 18 i ddangos y rheswm am ddiddymiad holl drefniant offeiriadaeth Lefi. Wrth y "gorchymyn oedd yn myned o'r blaen" y golygir, nid un ran o'r trefniant crefyddol Iuddewig, ond yr oll ohono, ac yn arbenig y rhan a berthynai i'r offeiriadaeth. "Llesgedd," sef gwendid hwn, oedd yr achos o'i afles. Gan ei fod oll yn allanol i ddynion, ni wnaethai les moesol iddynt. Ni fwriadwyd i'r trefniant archoffeiriadol i berffeithio personau dynion. Peth rhagbarotoawl oedd ef i arwain i fewn i drefniant gwell a pherffeithiach. Methodd trefniant y gyfraith a pherffeithio dim. Paham? Am mai a'r allanol yn unig yr oedd a fynai ef. Yn hyn daw ei lesgedd a'i afles i'r golwg. Peth gwan a diles oedd ef am nad allai gyffwrdd a mewnolion dynion. A fu y gyfraith yn hollol ddifudd? Naddo; cynyrchodd obeithion mewn dynion trwy roddi addewidion iddynt, a bu yn arweiniad i fewn i'r gobaith gwell y sonir am dano yma. Nid y gobaith gynyrchodd y gyfraith yw hwn, ond y gobaith ddygwyd i fewn gydag archoffeiriad y pethau gwell, sef Crist. Nid cyferbynu y gobaith hwn a chyflwr diobaith y gyfraith a wna y.

20 Ac yn gymaint nad heb lw y gwnaethpwyd ef yn Offeiriad:

21 (Canys y rhai hyny yn wir ydynt wedi eu gwneuthur yn offeiriaid heb lw: ond hwn trwy lw, gan yr hwn a ddywedodd wrtho, Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, Ti sydd Offeiriad yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

---

awdwr, ond cyferbynu gobaith y gyfraith ag un gwell yr efengyl. Methodd gobaith y gyfraith a sylweddoli ei wrthddrychau am fod y gyfraith yn llesg a diles, fel y sylwyd. Nid felly am obaith yr efengyl: gwna archoffeiriad y gobaith hwn alluogi pawb i gael gafael ar ei wrthddrychau. Un peth nodedig yn y gobaith gwell hwn yw galluogi pawb a'i medd i agoshau at Dduw. Dan yr hen drefniant ni allai neb ond yr archoffeiriad nesau at Dduw. Gwaherddid y ffordd i'r sancteiddiolaf i bawb ond efe; eithr trwy yr archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec, gall pawb nesau at y Duw byw heb ofni dim. (4) **Dwyfoldeb dewisiad ei harchoffeiriad** (20-21). — **Ac yn gymaint ag nad ydyw heb gymeryd llw (canys hwynt-hwy yn wir ydynt wedi eu gwneuthur yn offeiriaid heb lw; eithr efe gyda llw ganddo ef yr hwn sydd yn dywedyd am dano, Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, Tydi wyt Offeiriad yn dragywydd).—A** yr awdwr yn mlaen o ris i ris gyda threiddgarwch neillduol yn yr adnodau hyn. Wedi dangos perffeithrwydd gwneuthuriad Crist yn offeiriad, fod y gwneuthuriad yn ol rhagfynegiad yr Ysgrythyr, a bod yr archoffeiriad wedi dwyn gobaith gwell i fewn, dengys ym mhellach fod dewisiad archoffeiriad yr efengyl yn tra rhagori ar eiddo Lefi. Gesyd y C.D. y ferf "ydyw" yn adn. 20 mewn llythyrenau italaidd, a dengys hyny nad yw yn y testyn gwreiddiol. Myn rhai mai "gobaith gwell" ddylai fod yn ei lle, ac mai yr ystyr yw na ddygwyd y gobaith hwn i fewn heb lw. Eithr nid oes sail i'r fath syniad yn y frawddeg na'r cysylltiadau. Archoffeiriadaeth Crist sydd o flaen meddwl yr awdwr, a'r syniad yw, na ddewisiwyd Crist yn archoffeiriad heb lw. Yr oedd ei benodiad i'r swydd o'r fath anfeidrol bwys fel yr aeth ei Dad i'w lw ar y mater. Nid felly am yr archoffeiriaid yn ol urdd Aaron: goscdid hwy yn y swydd heb lw. Rhaid, gan hyny, fod gosodiad Crist yn y swydd yn annhraethol bwysicach a pherffeithiach. Er pwysiced yr archoffeiriadaeth dan yr Hen Oruchwyliaeth,

22 Ar destament gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd.

---

nid ai Duw i'w lw yng nglyn ag apwyntiad yr archoffeiriaid. Eithr dewiswyd Crist i'r swydd, nid yn unig gan Dduw, ond trwy lw o'i eiddo. Yr oedd y llw hwn yn rhwymo holl natur Duw i fod yn ffyddlon iddo; ac yr oedd hefyd yn gyson a'i natur; oblegid dywedir nad edifarhâ. Rhaid, gan hyny, fod y llw yn gydnaws a holl natur y Duw Mawr. Tyngodd y buasai Crist yn offeiriad yn dragywyddol. Dros eu bywyd y buasai yr offeiriaid Iuddewig yn eu swydd, ac os byddent fyw dros haner cant aent allan ohoni. Eithr nid felly Crist: y mae ef i aros yn ol y llw yn y swydd byth. (5) **Uwchraddoldeb cyfamod ei harchoffeiriad** (22).—**O gymaint a hyny hefyd y daeth Iesu yn Fachnïydd.**—I bwy y gwnaed Crist yn fachnïydd? (1) I Dduw dros ddynion yw y syniad y dadleua lluaws drosto. Y rhesymau ddygir ym mlaen dros hwn yw: (a) nad oes eisieu machniaeth ar Dduw am nad oes perygl iddo fethu cyflawni amodau ei gyfamod. Ar y tir hwn gellir dyweyd nad oedd eisieu i Dduw fyned i'w lw chwaith; (b) fod yma gyfeiriad at fachniaeth gysgodol yr offeiriaid Lefiaidd dros y bobl; (c) nad all archoffeiriadaeth fod heb fachniaeth dros y bobl. Gofyn natur pethau am dani. (d) Nad oes machniaeth ond ar du yr hwn mae yn bosibl iddo fethu. Nid yw y rhesymau hyn yn argyhoeddiadol er eu bod yn dra naturiol. Ni welwn sail ysgrythyrol na rhesymegol iddynt pan eir ar eu hol yn fanwl. (2) Machnïydd i ddynion dros Dduw. Dros hwn y mae y rhesymau cryfaf o lawer (a) Yr un a wnaeth lw a wnaeth Grist yn fachniydd; hyny yw, efe wnaeth Grist yn archoffeiriad, ac yr oedd ei wneyd yn archoffeiriad yn ei wneyd yn fachnïydd yr un pryd. (b) Ei wneuthuriad ef trwy lw rydd sicrwydd i ddynion y cerir allan holl amodau y cyfamod. (c) Nid peth dyfodol yw y fachniaeth, ond peth presenol; y mae Crist wedi ei wneyd yn fachnïydd. Gall dynion gredu yn awr yn Nuw gan ei fod ef yn fachnïydd. (d) Penderfyna y cyfamod gwell mai dyna y syniad cywir. Pa gyfamod yw ef? Yr un rhwng Duw a dynion yng Nghrist. Sicrwydd dros Dduw i ddynion ydyw ef, y cyflawnir y cyfamod hwn, ac nid sicrwydd dros ddynion i Dduw. Nid oes eisieu y fath beth ar Dduw am y gwyr ef yr oll sydd yn bosibl i ddynion. Gall διαθήκης — "cyfamod"—olygu (1) trefn, sef trefn ar ddefnyddiau personol, testament neu ewyllys: (2) cytundeb rhwng dynion a'u

23 A'r rhai hyny yn wir, llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid, oherwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhau:

24 Ond hwn, am ei fod yn aros yn dragywydd, sydd ag offeiriadaeth dragywyddol ganddo.

---

gilydd ar amodau neillduol. Gesyd y gair Cymreig yr ystyr hwn allan yn rhagorol. Gwneir ef o "cyd" ac "amod," sef dynion yn cyd-amodi. Cytundeb yn pwyso felly ar amodau o bob tu yw cyfamod. Yn y cyfamod gwell hwn cytuna Duw i gadw dynion ar amodau neillduol, ac felly gelwir y cytundeb yn gyfamod. Y mae y cyfamod hwn yn tra rhagori ar yr un Lefiaidd (1) yn ei natur, (2) yn ei gynwys, ac (3) yn ei ganlyniadau. Drwyddo gall dynion agoshau at Dduw yn hyderus a chael maddeuant llawn, sancteiddhâd perffaith, a nefoedd ar ddiwedd y daith. (6) **Anghyfnewidioldeb tragywyddol ei harch-offeiriad** (23-24).—**A hwynt-hwy yn wir a wnaethpwyd yn offeiriaid lawer mewn rhifedi; oherwydd lluddias iddynt trwy farwolaeth barhau; eithr efe, am ei fod yn aros yn dragywydd, sydd ganddo ei offeiriadaeth yn ddigyfnewid.**—Elfen arall o ammherffeithrwydd yn archoffeiriadaeth Lefi oedd marwolaeth. Wedi i archoffeiriad sanctaidd godi a ddygai fendithion lawer oddiwrth Dduw i ddynion, byddai farw, neu elai yn rhy hen i weinyddu ei swydd. Yna newidid yr archoffeiriad, a dichon y delai un gwael ar ei ol. Oblegid marwolaeth ai yr archoffeiriaid yn llawer o rif, ac ammhosibl oedd iddynt fod oll gystal a'u gilydd. Myn rhai fod llygad yr awdwr ar Aaron a'i feibion yn cael eu cysegru i'r swydd yr un pryd; ond ni allwn weled sail i hyny yma. Y meddwl yw, fod mwy nag un neu lawer mewn rhif yn offeiriaid oherwydd y gosodai marwolaeth derfyn ar eu gweinyddiad o'r swydd. Yn eu hanes hwy yr oedd archoffeiriadaeth barhaus yn ammhosibl. Bylchai marwolaeth hi. Nid felly gyda Christ: ni all angau wneyd dim iddo ef. Y mae yn aros uwchlaw angau. Parhâ ef ochr yn ochr ag addolwyr pob oes. Peth tra phwysig yw hyn, a dengys ragoriaeth neillduol ar archoffeiriadaeth Aaron. Beth yw meddwl "digyfnewid" yn yr adnod? Gall feddwl (1) yr hyn na ellir ei dreisio; (2) yr hyn nad ä drosodd i arall; (3) annhreigledig. Gellir cyfuno y tri ystyr yn y fan hon. Ni all neb ddwyn y swydd oddiar Grist drwy drais, ni a drosodd i un arall, ac ni threigla i arall trwy angau ei meddannydd. Cariodd hi gydag ef trwy angau; ac ni wnaeth angau ond ei ber-

25 Am hyny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.

26 Canys y cyfryw Archoffeiriad sanctaidd, diddrwg, di-

---

ffeithio yn llawnach i'w chyflawni Nodwedd yw hon a'i cyfyd uwchlaw pob archoffeiriad arall. Gan ei fod yn aros yn dragywyddol yn fyw, ac yn anghyfnewidiol, gall y byd bwyso arno. (7) **Gallu achubol ei harchoffeiriad** (25).—**Am hyny hefyd efe a ddichon achub hyd yr eithaf y rhai sydd yn nesau at Dduw trwyddo ef, gan ei fod yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.**—Yma symuda yr awdwr at elfen arall ym mherffeithrwydd archoffeiriadaeth yr efengyl. Medr ei harchoffeiriad achub "hyd yr eithaf." Ni fedrai yr archoffeiriad Iuddewig wneyd hyny. Cael cymod i'r bobl am flwyddyn oedd yr oll allai ef. Nid oedd hyny yn achubiaeth ond yn hytrach arbediad am flwyddyn i'r bobl rhag cael eu tori lawr. Beth yw achub hyd yr eithaf? Nid (1) fod Crist yn achub i dragywyddoldeb fel y myn rhai. Golygai hyny un o ddau beth, naill ai (a) ei fod yn achub o uffern, neu (b) fod gwaith achub ar y saint yn dragywyddol. (2) Nid chwaith fod gallu achubol yn aros ynddo yn dragywyddol. Y mae hyny yn wir, ond nid dyna'r gwirionedd yma. (3) Ystyr *παντελὲς* —"hyd yr eithaf" yw achub nid yn yr ystyr (a) o waredu rhag drwg am flwyddyn, ond (b) hyd eithaf galluoedd posibiliaethol a gweithredol yr enaid. Achuba ef i wasanaeth uchaf Duw. Cynwysa hyn ladd y drwg sydd yn yr enaid, ei waredu oddiwrth dueddiadau drwg a'i adferu i wneyd da. Achuba hyd eithaf egwyddorion dyfnaf yr enaid. Gwelir fod amodau i'r gallu hwn. Rhaid "dyfod at Dduw trwyddo ef." Mewn rhyw ystyr deuai y genedl at Dduw trwy yr archoffeiriad Iuddewig. Cynrychiolai ef y genedl yn ei berson. Eto cedwid y genedl draw o'r cysegr sanctaiddiolaf. Eithr yng Nghrist caiff pob un yn bersonol nesau at Dduw. Ond rhaid uno yr enaid ag ef trwy ffydd yn gyntaf. Byddai agoshau at Dduw ond fel yma yn ammhosibl i neb. Yr amod arall yw parhad bywydol Crist yn y nef i eiriol dros y rhai ddeuant at Dduw. Byddai yr archoffeiriaid Lefiaidd yn meirw yn fynych o flaen y rhai yr eiriolent drostynt; gan hyny, ni allent achub hyd yr eithaf. Dyna holl waith ei fywyd yn y nef yw byw i eiriol dros ei bobl. (Gwel Traethawd). (8) **Cymeriad a dyrchafiad ei harchoffeiriad** (26).—(a) **Perffeithrwydd ei gymeriad.—Canys y cyfryw archoffeiriad**

halog, didoledig oddiwrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, oedd weddus i ni;

---

oedd weddus i ni.—Edrycha "Canys y fath archoffeiriad" yn ol ac ym mlaen. Yr oedd y fath archoffeiriad ag a ddesgrifiwyd yn yr adnodau blaenorol yn eisieu, un yn anfeidrol yn ei berson, a'i swydd yn tarddu o rinweddau hanfodol ei berson, ac un a'r swydd wedi ei thragywyddoli ynddo; un allai achub hyd yr eithaf, a byw i eiriol dros ei bobl. Eithr gofynol iddo feddu cymeriad perffaith yn gystal a bod yn anfeidrol fawr. Yn yr adnod hon cawn elfeniad o'i gymeriad. (1) **Glendid moesol.—Sanctaidd.**—Defnyddir y gair *ὅσιος* yma am sanctaidd a golyga natur bôd ac nid ei amcan fel y gair *ἅγιος* Nid dyweyd wna yr awdwr fod Crist wedi ei neillduo i'r swydd a'i fod yn gysegredig iddi, ond ei fod yn sanctaidd foesol yn ei natur. Y mae yn lan foesol o ran ei berson. (2) **Diniweidrwydd moesol.—Diddrwg—** *ἄκακος*. Nid y meddwl yw na wnaeth ddrwg, neu nad oedd drwg gweithredol ynddo, ond na fodolai drwg posibiliaethol ynddo. Ynddo nid oedd drwg o un math. Gallasai fod yn lan o ddrwg gweithredol a bod ynddo ddrwg posibiliaethol. (3) **Purdeb moesol.—Dihalog.**—*ἀμίαντος* Meddwl y gair hwn yw, nad oedd staen pechod arno fel ffrwyth hen bechodau personol, ac ni wnaeth troi gyda phechaduriaid ei ddifwyno. (b) **Dyrchafiad ysbrydol.—Didoledig oddiwrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd.**—(1) Cred rhai mai cymeriad perffaith lan Crist er troi ym mhlith dynion pechadurus yw meddwl y geiriau; (2) ereill, mai ei ddidoliad i'r swydd archoffeiriadol; ond (3) syniad y mwyafrif yw mai dyrchafiad Crist i'r nef a olygant. Didolai yr archoffeiriad Iuddewig ei hun oddiwrth y bobl yn llwyr saith niwrnod cyn Dydd y Cymod rhag halogi ei hun wrth droi yn eu plith. Felly Crist yn ei ddyrchafiad i'r nef: y mae yntau yn ddidoledig byth mwy oddiwrth bechaduriaid. Y modd y didolwyd ef oddiwrth bechaduriaid oedd drwy ei "ddyrchafu yn uwch na'r nefoedd." Y meddwl yw iddo esgyn uwchlaw pob nef i nef y gogoniant. Yn y nef hon nid oes un creadur yn agos iddo. Fel yr ai yr archoffeiriad Iuddewig ar Ddydd y Cymod trwy bob cysegr i'r cysegr sancteiddiolaf, felly yr aeth Crist trwy bob nef i'r nef lle y cartrefa Duw. Ei gymeriad moesol oedd sail ei ddyrchafiad. Onibae perffeithrwydd ei gymeriad ni fuasai ei ddyrchafiad yn bosibl. Yn y nef y mae yn y cysegr sancteiddiolaf, yn y presenoldeb

27 Yr hwn nid yw raid iddo beunydd, megys i'r offeiriaid hyny, offrymu aberthau yn gyntaf dros ei bechodau ei hun, ac yna dros yr eiddo y bobl: canys hyny a wnaeth efe unwaith, pan offrymodd efe ef ei hun.

28 Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion a gwendid ynddynt, yn archoffeiriaid; eithr gair y llw, yr hwn a fu

---

amlycaf o Dduw. Un fel hyn yn unig oedd yn weddus, neu yn ddigonol i bechaduriaid. Annigonol oedd pob archoffeiriad arall iddynt. (9) **Aberth anfeidrol ei harchoffeiriad** (27).—**Yr hwn ni raid iddo beunydd, megys i'r archoffeiriaid hyny, offrymu aberthau, yn gyntaf dros ei bechodau ei hun, ac yna dros bechodau y bobl; canys hyn a wnaeth efe unwaith am byth, pan offrymodd efe ei hun.**—Wedi esgyn, ni fydd eisieu ar Grist aberthu byth mwy. Bob tro yr eiriolai yr archoffeiriad Iuddewig dros y bobl rhaid oedd iddo gael aberth drosto ei hun yn gyntaf, ac yna dros bechodau y bobl. Baich, gan hyny, oedd y gyfundrefn archoffeiriadol. Nid oedd gwerth moesol yn yr aberthau ac ni wnaent ond dangos yr angen a fodolai yn eneidiau dynion. Beth olygir wrth "ni raid iddo beunydd"? A fuasai yr archoffeiriad yn offrymu aberthau yn ddyddiol? (1) Yn aml olygir medd rhai; (2) y naill Ddydd y Cymod ar ol y llall medd ereill; (3) gwelai yr archoffeiriad fod angen dyddiol am wneyd, medd nifer o esbonwyr. Felly, ar angen y mae y pwys, ac nid ar ddyddiol. (4) Myn amryw mai ffordd rydd yr awdwr o ysgrifenu sydd yn cyfrif am y geiriau, ac na feddyliai yn llythyrenol yr hyn a ddywed. (5) Cyfeiriad sydd yma at waith dyddiol yr offeiriad yn aberthu yn ol rhai pur alluog. Eithr nid yw hyn yn gyson a bod yr awdwr yn nodi yr archoffeiriad yn bendant. (6) Eithr y syniad cryfaf yw mai at yr Iesu ei hun y mae cyfeiriad y geiriau. Yr oedd Crist yn awr ger bron Duw yn y nef, a buasai yn rhaid iddo aberthu yn gyson bob dydd pe buasai o'r un dosbarth a'r archoffeiriad Iuddewig. Cyflwyna ei hun ger bron ei Dad yn y nef ac nid oes eisieu iddo ail-adrodd ei aberth. Gwnaeth anfeidroldeb ei aberth foddloni Duw am dragywyddoldeb. Pa fodd y boddlonodd ef Dduw? (1) Oblegid mawredd anfeidrol ei berson; (2) am mai ei berson oedd yr aberth; (3) am fod rhinwedd yr aberth yn aros yn ei berson; (4) am fod ei holl ewyllys yn ei offrymiad ohono ei hun. (10) **Perffeithrwydd tragywyddol ei harchoffeiriad** (28).—**Canys y mae y gyfraith yn penodi dynion yn archoffeiriaid, a chanddynt wendid; eithr y mae gair**

wedi y gyfraith, sydd yn gwneuthur y Mab, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.

---

y llw, yr hwn a fu wedi y gyfraith, yn penodi Mab, wedi ei berffeithio yn dragywydd.—Dyma ragoriaeth annhraethol arall yn yr archoffeiriad efengylaidd. Apwyntio dynion a gwendid ynddynt wnai cyfraith Moses neu y ddeddf archoffeiriadol. Pa wendid? Gwendid moesol ac anianyddol. Rhai pechadurus oeddynt hwy ac yn llawn gwendid anianyddol yr hwn a achosai eu marwolaeth. Nid felly am air y llw a geir yn Salm cx. 4. Apwyntiodd hwn nid dynion ond y Mab. Cynwysa hyn gyferbyniad mawr. Nid dyn cyffredin yw ef ond Duw-ddyn, ac ni fedd y naill na'r llall o'r gwendidau y cyfeiriwyd atynt. Dynion ammherffaith oeddynt hwy; ond y mae hwn wedi ei berffeithio yn dragywyddol. Sylwer nad perffeithio ei hun a ddywedir, ond ei fod wedi ei berffeithio. Pa fodd? Trwy yr ymgnawdoliad, y profiad dynol gafodd ar y ddaear, y dioddefaint, yr adgyfodiad a'r esgyniad. Perffeithiodd y rhai hyn ef yn dragywyddol hefyd. Erys ei berffeithrwydd ynddo byth am y bydd yn ei weithredu byth trwy eiriol dros ei bobl. Ammhosibl i unrhyw berffeithrwydd barhau heb ei weithredu. Dadblygodd yr ymgnawdoliad a'r pethau ereill holl adnoddau archoffeiriad yn ei berson a byddant ynddo yn oes oesoedd.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Casgler yng nghyd a chymharer y syniadau am Melchisedec.

Yr elfenau angenrheidiol mewn archoffeiriad perffaith.

Amodau rhoddi a derbyn bendith gan ddynion a chan Dduw.

Yr hyn roddodd fod i'r trefniant degymol ym mhlith y genedl.

Y rheswm y cyfyngwyd yr archoffeiriadaeth i lwyth neillduol.

Y cyfreithiau sydd yn gyfnewidiol a'r rhai sydd yn anghyfnewidiol.

Y modd y cwbl iachâ Crist bechaduriaid yn ysbrydol.

Y pethau y perffeithiwyd Crist ynddynt pan ar y ddaear.

Yr angenrheidrwydd i'r Iesu fod am byth yn y swydd archoffeiriadol.

Y lle lenwir gan Grist yn y cyfamod newydd.

III. Traethodau.

(1) **Melchisedec, Brenin Salem** (3).

I. Ei hanes.—Ychydig o hanes y dyn rhyfedd hwn sydd ar gael a chyfrif ei fod yn berson mor bwysig. Yr oll o'i hanes gawn tuallan i'r Epistol hwn yw a ganlyn, Gen. xiv. 18-20. "Melchisedec hefyd, brenhin Salem, a ddug allan fara a gwin; ac efe oedd offeiriad i Dduw goruchaf: ac a'i bendithiodd ef, ac a ddywedodd, Bendigedig fyddo Abram gan Dduw goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear: a bendigedig fyddo Duw goruchaf, yr hwn a roddes dy elynion yn dy law. Ac efe a roddes iddo ddegwm o'r cwbl." Dygir ei enw i fewn eto yn Salm cx. 4, yn y geiriau canlynol: "Tyngodd yr Arglwydd ac nid edifarha. Ti wyt offeiriad yn dragywyddol, yn ol urdd Melchisedec." Ymddengys ar lwyfan amser, heb gofnodiad o'i rieni na'i achau; ni ddywedir pryd ei ganwyd na pha bryd y bu farw, er ei holl bwysigrwydd. Parodd hyn lawer o ddamcanu yn ei gylch. Ychydig iawn geir o gyfeiriadau ato mewn ysgrifenwyr Iuddewig oddigerth yn Philo yr Iuddew o Alexandria. Eithr trina ef ei hanes yn hollol wahanol i awdwr yr Epistol hwn. Pwy ydoedd, yw y gofyniad roddodd fod i'r damcaniaethau y cyfeiriasom atynt. Wele rai o'r pwysicaf ohonynt. (1) Enoch. Pan eir ar ol y rhesymau dros y syniad hwn diflanant oll. (2) Noah. Ni chynygir rheswm o werth dros hwn. (3) Un o dri mab Noah. Ceir pleidwyr yn yr eglwys foreuol i bob un o'r tri; ond nid oes rith o sail i'r syniadau. (4) Rhyw un o ddisgynyddion Japheth. Paham un o ddisgynyddion hwn mwy nag eiddo Sem neu Cham ei frodyr, ni wyddom. (5) Job. Dychymygol hollol yw y syniad hwn. (6) Ymgnawdoliad o'r gallu dwyfol. (7) Ymgnawdoliad o'r Ysbryd Glan. (8) Ymgnawdoliad o Fab Duw ei hun, sef Crist. (9) Ffrwyth dychymyg yw yr hyn geir yn y Beibl am dano, ac ni fu yn berson hanesyddol. (10) Dyn goruwch-naturiol na fu ei fath ar y ddaear. (11 Person hanesyddol; ond dyn uwchraddol o ran ei allu a'i gymeriad. Hwn yw y syniad cryfaf a chysonaf a'r Hen Destament, a'r hanes am dano yn yr Epistol hwn. Er y damcanu fu o'r drydedd ganrif ym mlaen am dano, methwn a chael syniad apelia yn gryfach at reswm nag ef. Diau fod Melchisedec yn berson hanesyddol; ond ei fod yn ddyn uchelryw o ran gallu a moes. Tybia llawer o ysgrifenwyr galluog mai Amoriad o genedl oedd ef. Eithr

nid oes sicrwydd o hyny. Preswyliai yn Salem. Pa ddinas oedd hon? Damcenir llawer yn ei chylch, a dywedir (1) mai tref wyth milldir o Scythopolis, sef yr hen Bethsean, oedd hi. Hwn oedd syniad Jerome. Gelwid hi yn Salumias yn ei amser ef. (2) Dadleua ereill mai dinas yn Samaria ydoedd, yn agos i fynydd Gerizim; (3) tref tuhwnt i'r Iorddonen rhwng Damascus a Sodom; (4) Salim, lle y bedyddiai Ioan, sef y dref oedd ychydig filldiroedd i'r gogledd ddwyreiniol i Jerusalem. (5) Nid enw dinas yw Salem, ond enw i ddynodi cymeriad swyddol Melchisedec. Nid oes unrhyw sail hanesyddol i'r damcaniaethau hyn, ac felly rhaid eu gwrthod oll. (6) Jerusalem. Dros y syniad hwn y mae mwyaf o resymau o lawer. (a) Gelwir Jerusalem yn Salem yn Salm lxxvi.; (b) a traddodiad Iuddewig drwy yr oesau dros mai yr un yw Jerusalem a Salem; (c) Urusalem y gelwid Jerusalem yn y Tel el-Amarna Tablets a fodolent o leiaf 1,400 c.c., ac yr ydys bron yn sicr mai yr un oedd hon a Salem Genesis. Hi oedd un o brif ddinasoedd y Canaaneaid. Ystyr "uru" yw "dinas," ac felly dinas heddwch yw ystyr Jerusalem. (d) Yr oedd Jerusalem ar ffordd Abraham o Damascus i Hebron, pan ddychwelai o ymlid y brenhinoedd. (e) Y mae ffurf enw Melchisedec yn debyg i eiddo brenhinoedd Jerusalem, megys Adonisedec. Deuwn i'r casgliad gan hyny, mai yr un oedd Salem a Jerusalem, ac mai ei brenin yr adeg hon oedd Melchisedec.

II. **Ei Gymeriad.**—Dengys amryw bethau gymeriad y dyn hwn er byred ei hanes. (1) **Uniondeb.**—Brenin cyfiawnder y gelwir ef. Ei holl amcan oedd gweinyddu cyfiawnder tuag at ei ddeiliaid, a gofalu eu bod yn ymddwyn yn gyfiawn at eu gilydd ac at Dduw. (2) **Tangnefedd.**—Sylfaenid ei dangnefedd ar ei uniondeb moesol. Nid y meddwl yn gymaint yw, ei fod yn un o duedd heddychol naturiol; ond fod ei holl ymddygiad at ei ddeiliaid yn cynyrchu heddwch. Ni wnai ddim a dueddai i dori ar heddwch. Ammhosibl cynyrchu gwir heddwch os na sylfaenir ef ar gyfiawnder. (3) **Caredigrwydd.**—Dengys ei waith yn dwyn bara a gwin i Abraham ei fod yn llawn caredigrwydd. (4) **Teimlad i fendithio ei lai.**—Rhaid cael dyn gwir dda i wneyd hyn. Cenfigenu wrth lwyddiant eu llai y bydd dynion drwg yn wastad. Bendithiai Melchisedec Abraham am y credai fod y patriarch yn llaw Duw ac yn cyflawni gwasanaeth iddo. (5) **Priodoli llwyddiant ei lai i Dduw.**—Credai mai Duw roddodd ei elynion yn llaw Abraham, ac am hyny, Duw gai y clod ganddo am y fuddugoliaeth.

III. Ei Bersonoliaeth.—Rhaid ei fod yn feddiannol ar bersonoliaeth fawr eithriadol. Ymddengys ei fod yn ddyn o (1) **ddealldwriaeth uwchraddol.**—I godi mor uchel, ni allasai lai na bod o alluoedd meddyliol cryfion. (2) **Doethineb moesol.**—Yn ychwanegol at ddeall cryf, eang, rhaid ei fod yn ddoeth. A yr elfeniad roddasom o'i gymeriad i brofi hyny. Rhagorai yn ddiau ar bawb o'i gyd-oeswyr yn hyn. Profa cydnabyddiaeth Abraham ohono hyn. (3) **Ewyllys benderfynol.**—Gofynol oedd cael dyn cryf ei ewyllys i enill ei safle ef, a chadw heddwch yr un pryd. Cryfder ei ewyllys oedd dan ei allu i weinyddu cyfiawnder at ei ddeiliaid. (4) **Tueddfryd grefyddol.**—Datguddir hyn yn amlwg iawn yn ei hanes. Meddai ddatguddiad o'r Duw goruchaf trwy y duedd yma. Gan grefyddoled oedd, datguddiai Duw ei hun iddo. Fel y dangoswyd, cydnabyddai law Duw ym muddugoliaeth Abraham. Dangosai hyn y credai fod pob peth yn llaw Duw. Gwnaeth y pedwar peth hyn ef yn bersonoliaeth eithriadol yn ei ddydd ac yn hanes y byd.

IV.—Ei safle swyddogol.—O ba le y tarddodd ei safle swyddogol? O fawredd a chyfoeth adnoddau ei berson. Yn hyn gwahaniaetha ei urdd swyddol oddiwrth bawb ereill yn ei genhedlaeth. Peth ddadblygodd ohono oedd ei safle swyddol ac nid peth roddwyd arno. Codai adnoddau ei berson ef i'r swydd o frenin, prophwyd ac archoffeiriad ei ddeiliaid, ar wahan i bob digwyddiad allanol ac uchelgais personol. Gosodai Duw ef yn ei safle swyddol trwy ei gynysgaeddu a galluoedd a chymhwysderau personol uwchlaw pawb. Ei bersonoliaeth eithriadol a'i ddaioni ysbrydol oedd y rheswm am ei osod yn y swydd, ac nid achyddiaeth, oedran na chysylltiad a theulu neillduol. Dyna enghraifft yn hanes yr hen fyd o'r dyn iawn yn y lle iawn—dyn mewn swydd am fod y swydd ynddo ef. Ei ymwneyd â Duw roddai iddo hawl i'r swydd, ac nid ewyllys dynion. Dywedir mai offeiriad y Duw Goruchaf ydoedd, ac ni sonir am ddynion yng nglyn ag ef. Yn fod y swydd yn tarddu o'i berson yr oedd yn debyg i'r Iesu.

V.—Ei barhad tragywyddol.—Dywedir ei fod yn aros yn offeiriad yn dragywyddol yn mhen. vii. 3. Beth a olygir wrth hyny? A ydym i ddeall y bydd ef yn gweinyddu ei swydd am byth? A oes eisieu archoffeiriad gyda Christ yn y nef? (1) Ni chaiff y rhai briodolant y frawddeg fod Melchisedec yn aros yn ei swydd yn barhaus i Grist, unrhyw anhawsder. Mynant hwy nad am Melchisedec y lleferir hi, ond am yr Iesu. Eithr cam dirfawr ag esboniadaeth yr adnod a

ddyfynwyd uchod yw y syniad hwn ; ac a mwyafrif yr esbonwyr galluocaf yn ei erbyn. (2) Deil ereill ein bod i ddeall geiriau *εἰς τὸ διηνεκές* — " yn barhaus " neu yn dragywydd—yn gyfystyr ag am ei oes. Y meddwl felly yw fod Melchisedec wedi aros yn archoffeiriad am ei oes yn ddifwlch, ac nid ei rheddi i fyny pan yn haner cant fel yr archoffeiriaid Iuddewig. Nid y gair arferol am dragywydd yw *διηνεκές* y mae yn wir, a'r ystyr llythyrenol yw peth yn parhau hyd y diwedd. Eithr methwn a gweled y cyrhaeddai yr awdwr un amcan neillduol pe y dywedai i Melchisedec barhau am ei oes yn ei swydd. (3) Ni allwn gydweled a'r syniad mai dyweyd fod Melchisedec yn aros wna yr awdwr, am nad oes hanes ei farwolaeth yn y Beibl. Ni fyddai awdwr o allu meddyliol ysgrifenydd yr Epistol hwn yn meddwl am y fath beth. Ei brif nódwedd yw sylfaenu ei ymresymiad ar dir diogel yn ddieithriad. (4) Deil un dosbarth fod Melchisedec yn aros yn y swydd yn dragywyddol. Nid yw hyn yn hollol wir, ond y mae yn rhanol. Byddai dyweyd ei fod yn cyflawni yr un gwaith a Christ yn y nef yn hollol anghywir. Ni all neb fod yn archoffeiriad yno ond efe. Eithr bydd personau eithriadol fawrion fel Melchisedec yn cyflawni gwaith pwysig yn y nef dros eu cyd-ddynion. Erys y peth wnaeth Melchisedec yn offeiriad ynddo byth, a bydd hwnw yn gymhwysder ynddo i weithio dros ereill yn y nef. Beth bynag wna ef dros ereill, gwaith offeiriad fydd hwnw. (5) Erys urdd Melchisedec yn barhaus. Y peth oedd ef gyfansoddai ei urdd. Gwnaeth ef ei urdd drwy ei adnoddau personol. Eithr nid am yr urdd y siarada yr awdwr, ond am Melchisedec ei hun. Gan hyny, rhaid gwrthod y syniad hwn. (6) Gan mai rhinweddau personol wnaeth Melchisedec yn offeiriad, tragywyddolwyd y swydd yn ei berson. Yn hyn y mae yn gyffelyb i Fab Duw. Ni all beidio bod yn archoffeiriad byth mwy oblegid hyny. Gall beidio cyflawni y swydd yn y wedd y cyflawnai hi ar y ddaear, ond ni all beidio bod yn offeiriad gan ei bod yn hanfodol yn ei berson. Ni all unrhyw offeiriadaeth fod yn dragywyddol ond yr un gyfyd o rinweddau a chymhwysderau personol, ac ni all yr un dardd o rinweddau a chymhwysderau personol beidio bod yn dragywyddol. Y mae tragywyddolrwydd yn ei natur. Yn yr ystyr yma, ni all Melchisedec lai nag aros am dragywyddoldeb yn offeiriad er na chyflawna ei swydd. Dywedir fod y saint oll i fod yn frenhinoedd ac offeiriaid, ac yn yr ystyr o feddu rhinweddau personol y byddant. Ar yr un tir y bydd Crist yn archoffeiriad ar ol i'r holl gadwedigion gyrhaedd

y nef. Ni fydd eisieu iddo gyflawni ei swydd yr un modd ar ol hyny ag yn awr. Er hyny, pery yn archoffeiriad yn dragywyddol. Hwn yw y syniad goreu am barhad tragywyddol Melchisedec yn ei swydd.

VI. Ei fawredd cysgodol.—Yn yr oll a ddywedwyd gwelir mawredd Melchisedec fel cysgod o Grist. Yr oedd felly yn ei urdd yn gyntaf. Ni ddibynai ar achau yn unrhyw wedd. Yn ail, cyfunai ddwy swydd yn ol yr hanes yn ei berson, ac fel y sylwyd genym o'r blaen, credwn y cyfunai y tair swydd, sef prophwyd, offeiriad, a brenin ynddo ei hun. Yn drydydd, tyfodd y swyddau hyn oll o'i berson, ac nid amgylchiadau a'i gosododd ynddynt, na chysylltiadau o un math. Yn bedwerydd, meddai bersonoliaeth eithriadol a chymeriad moesol ac ysbrydol uchelryw. Yn bumed, tragywyddolwyd y swydd offeiriadol yn ei berson oblegid mai dadblygiad o'i berson oedd hi. Yn offeiriadaeth Aaron ni ellid cael dim gynwysai y fath fawredd cysgodol a hyn.

(2) **Bywyd Annherfynol** (16).

I. Ffynhonell y bywyd.—Bywyd pwy oedd hwn yw y cwestiwn a gyfyd ar unwaith wrth ddarllen yr adnod. Cynygir tri syniad ar hyn :—(1) **Bywyd yr Ysbryd Glan.**—Gwir fod yr Ysbryd Glan yn gweithredu ar Grist drwy ei holl fywyd; ond ni allwn gredu mai nerth ei fywyd ef y sonir am dano yma. (2) **Bywyd Duw Dad.**—Rhaid gosod hwn o'r neilldu fel un heb sail iddo. Buasai yr awdwr yn sicr o ddyweyd hyny yn eglur pe mai bywyd y Tad a feddyliai. (3) **Bywyd Crist ei hun.**—Hwn yn ddiau yw y syniad cywir. Ond ymrana meddylwyr ar pa fywyd o'i eiddo a olygir. (a) Ei fywyd ar y ddaear medd un dosbarth; (b) ei fywyd yn y nef medd ereill; (c) ei holl fywyd cyfryngol yn ol rhai, ac (d) ei fywyd hanfodol fel Duw. Gwell genym hwn na'r syniadau ereill. Rhanu bywyd Crist fyddai mabwysiadu y naill neu'r llall o'r lleill. Ei fywyd hanfodol anfeidrol oedd gwreiddyn ei fywyd ar y ddaear, yn y nef, a'i holl fywyd cyfryngol.

II. Natur y bywyd.—Yr oedd pum' elfen fawr yn cyfansoddi natur y bywyd hwn. Gwelwn ei fod (1) **Yn ddwyfol.**—Profa y gair ddefnyddir am dano hyny. Ζωη (Zwe) yw y gair a golyga y bywyd uchaf yn ei natur. Defnyddir yr un gair am fywyd Duw pan elwir ef yn Dduw byw, megys ym mhen. ix. 14. Medd y bywyd hwn ymwybyddiaeth, hunan ymwybyddiaeth, dealldwriaeth, serch, ac

ewyllys rydd. Y mae y rhai hyn yn briodoleddau bywyd dwyfol. (2) **Yn annatodol.**—Y cyfeithiad goreu o annherfynol fyddai annatodol (*indissoluble*). Cynwysa annatodol y syniad o annherfynol. Ni all yr hyn sydd annatodol fod yn derfynol. Nid parhau mewn rhyw fath o fodolaeth wna yr annatodol, ond parhau mewn bodolaeth anghyfnewidiol. (3) **Yn anfeidrol.**—Ceir y syniad o anfeidroldeb yn y gair ἀκατάλυτος — annatodol neu annherfynol. Ni all dim ond sydd yn anfeidrol fod yn annatodol yn yr ystyr ddyfnaf. A y meidrol trwy gyfnewidiadau parhaus. (4) **Yn dragywyddol.**—Gan mai bywyd hanfodol Crist yw ef, y mae yn dragywyddol yn y gorphenol yn gystal a'r dyfodol. Felly y mae yn anghreadigol. Bywyd diddechreu yw ef yn gystal a diddiwedd. (5) **Yn hunanfodol.**—Gan ei fod o dragywyddoldeb rhaid ei fod yn hunanfodol. Tarddodd o angenrheidrwydd natur o'r Tad.

III. Nerth y bywyd.—(1) **Nerth mewnol.**—Dibyna pob bywyd meidrol am ei nerth ar bethau o'r tuallan iddo. Nid felly hwn. Dengys y gair δύναμις —"nerth," mai nerth mewnol yw eiddo y bywyd yma. Ni raid iddo wrth adgyfnerthiad o'r allanol mewn unrhyw gyfeiriad. Y mae yn hunan-gynyrchiol hunan-ddigonol, a hunan-ddibynol. (2) **Gweithredol.**—Nid nerth goddefol yw, ond un gweithredol. Gweithreda yn barhaus, anorchfygol, ac ar raddfa anfeidrol am ei fod yn anfeidrol yn ei natur. (3) **Uwchraddol.**—Nid oes unrhyw nerth meidrol gyfuwch ag ef, a phe unid holl nerthoedd y byd meidrol yn un gallu, ni fyddent yn gyfartal iddo mewn dim. Y mae (a) yn uwchraddol i bob rhwystr mewnol fydd ar ei ffordd. Cafodd lawer o rwystrau i weithredu tufewn i gylch bychan natur ddynol feidrol Crist; ond gorchfygodd yr oll. (b) I bob rhwystrau allanol. Atalia y rhwystrau hyn weithredoedd nerth bywyd meidrol yn fynych; ond ni allant atal gweithrediad nerth bywyd anfeidrol. Cryfach yw na phob rhwystr mewnol ac allanol yng nghyd. Trechodd Crist drwyddo bob rhwystr a gyfarfyddodd. (4) **Perffeithiol.**—Nerth weithreda gyda'r amcan o berffeithio ei hun a'r oll y daw i gyffyrddiad ag ef ydyw, ac nid nerth dinystriol.

IV. Cynyrch y bywyd.—Ei gynyrch oedd perffeithrwydd moesol ac ysbrydol, a hwnw yn berffeithrwydd delfrydol hollol *(absolute ideal perfection)*. Drwyddo y cyrhaeddodd Crist fel Mab dwyfol-ddynol y perffeithrwydd uchaf ddymunai y Tad iddo i'w gyrhaedd. Pa weithrediad o eiddo y bywyd annherfynol gynyrchodd y perffeithrwydd

hwn? Gweithrediad hunan-aberthol. Ni allasai un gweithrediad arall ei berffeithio. Hon yw egwyddor fawr bywyd ym mhob cylch yng nglyn a pherffeithiad. Amcan uchaf bywyd yw bod o wasanaeth i arall, ac ni all fod felly heb hunan-aberthu. Amcan uchaf bywyd Crist oedd gwasanaethu i'r ddynoliaeth a thrwy weithrediad ei fywyd mewn hunan-aberth anfeidrol y cyrhaeddodd ei berffeithrwydd archoffeiriadol. Gesyd ef ei hun hyn allan yn ardderchog yn y geiriau, "Megys na ddaeth Mab y Dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer." Gwnaed ef yn archoffeiriad yn wahanol i'r archoffeiriaid Iuddewig. Trwy bethau allanol y gwneid hyny, trwy nerth bywyd o ffynhonell, natur a nerth anfeidrol y gwnaed ef.

IV. Gofyniadau.

(1) Pa rai ydynt brif faterion y benod? Rhoddwch ddosraniad ohonynt. Beth sydd yn enw Melchisedec yn eglurhad ar ei gymeriad? A rydd yr enw Salem awgrym am ryw nodwedd neillduol ynddo?

(2) Paham y talodd Abraham ddegwm iddo? Rhoddwch y syniadau ar adn. 3, a rhesymau dros yr un gymeradwywch.

(3) Pa bethau yn adn. 4-10 a ddangosant ragoriaeth Melchisedec ar Abraham?

(4) Nodwch y peth hanfodol alwai am gyfnewidiad yr archoffeiriadaeth a chyfnewidiad y gyfraith, adn. 11-12.

(5) Paham na chodasai Crist o lwyth Lefi ac nid o lwyth Juda? Beth oedd prif ragoriaeth gwneuthuriad Crist yn archoffeiriad? Beth ofynai am lw i wneyd yr Iesu yn archoffeiriad?

(6) I bwy y mae Crist yn fachnïydd, adn. 22? Beth yw ystyr "achub hyd yr eithaf," adn. 25?

(7) Elfenwch gymeriad moesol Crist yn eich geiriau eich hunain ar sail adn. 26.

(8) Beth a'i gwna yn ddiangenrhaid i Grist aberthu ei hun yn fynych, adn. 27?

(9) Rhoddwch fanyled ag y galloch hanes Melchisedec, gan nodi y syniadau am dano.

(10) Beth olygwch wrth fywyd annherfynol? Nodwch ei ffynhonell, ei natur, ei nerth, a'i gynyrch, gan fanylu ar bob un ohonynt.

PENOD VIII.

ADRAN III. (Parhad). PWNC : ARCHOFFEIRIADAETH CRIST.

I. Dadansoddiad.

I. **Yr archoffeiriad perffaith, ei deml a sylweddolrwydd ei archoffeiriadaeth** (adn. 1-5).
- (1) *Yr archoffeiriad* (adn. 1).
- (2) *Y lle y gweinydda ei swydd.*
- (3) *Cylch ei wasanaeth a'i deml* (adn. 2).
- (4) *Ei aberth* (adn. 3).
- (5) *Y rheidrwydd iddo gyflwyno ei aberth yn y nef* (adn. 4 5).
  - (*a*) *Ei urdd archoffeiriadol* (adn. 4).
  - (*b*) *Sylweddolrwydd ei archoffeiriadaeth* (adn. 5).

II. **Yr archoffeiriadaeth berffaith a'r cyfamod perffaith** (adn. 6-13).
- (1) *Safle yr archoffeiriad yn y cyfamod* (adn. 6).
- (2) *Natur y cyfamod* (adn. 6, 7).
  - (*a*) *Natur yr addewidion* (adn. 6).
  - (*b*) *Natur y cyfamod* (adn. 7).
- (3) *Allanolrwydd y cyfamod ammherffaith a mewnolrwydd a graslonrwydd y cyfamod perffaith* (adn. 8-12).
  - (*a*) *Allanolrwydd y cyfamod ammherffaith* (adn. 8, 9).
  - (*b*) *Mewnolrwydd y cyfamod perffaith* (adn. 10-12).
    - (1) *Yn y meddwl* (adn. 10).
    - (2) *Yn y serch.*
    - (3) *Yn yr ewyllys.*
    - (4) *Yn yr ymwybyddiaeth o Dduw* (adn. 11)
  - (*c*) *Graslonrwydd y cyfamod perffaith* (adn. 12).
- (4) *Casgliad oddiwrth yr ymresymiad* (adn 13).

1 A phen ar y pethau a ddywedwyd yw hyn: Y mae

II. Eglurhad.

Dygwyd gwirioneddau pwysig iawn i'r golwg yn y benod flaenorol am archoffeiriadaeth Crist. Dangoswyd ei fawredd fel brenin-archoffeiriad yng ngoleuni Melchisedec; eglurwyd fod ammherffeithrwydd yr archoffeiriadaeth yn ol urdd Aaron yn galw am un yn ol urdd Melchisedec, a bod archoffeiriadaeth Crist yn rhagori yn ei pherffeithrwydd ar eiddo Aaron. Dadblygodd yr awdwr y syniadau hyn yn gywrain a gofalus ac anhawdd cyfarfod a threiddgarwch meddyliol mwy nag a ddengys ef wrth hyny. Yn adn. 27 o'r benod daeth at aberth Crist, ac ni chyll ei olwg arno nes gorphen yr adran hon. Erys ei fawredd a'i rinwedd o flaen ei feddwl yn barhaus; datguddia un wedd arno a symuda at y llall a gwasga ei ragoriaethau ar aberthau yr Hen Oruchwyliaeth ar ei ddarllenwyr mewn modd dwys a difrifol. Yn y benod yr awn iddi yn awr, dywed fod Crist gymaint archoffeiriad fel y gweinydda ei swydd yn y nef—gwlad y sylweddau, ac nid gwlad y cysgodau fel y ddaear. Dywed hefyd ei fod yn gyfryngwr cyfamod gwell, a dengys pa fodd y mae ef yn well.

I. Yr archoffeiriad perffaith, ei deml a sylweddolrwydd ei archoffeiriadaeth 1-5).—(1) **Yr archoffeiriad** (1).—**Yn awr yn y pethau yr ydym yn eu dywedyd y prif beth yw hyn; y mae genym y fath archoffeiriad.**—Darllenai rhai, "yn awr i goroni y traethiad presenol," ac ereill, "yn awr y prif beth yw hyn," fel y C.D. Dyna y darlleniad agosaf i'r gwreiddiol yn ddiddadl. Yn yr holl ymresymiad, y peth pwysicaf o'r oll yw fod gan Gristionogion y fath archoffeiriad mawr yn ei berson, ei gymeriad a'i ddylanwad. Felly, nid y meddwl yw i grynhoi fyny fel y deil rhai; ond y pwynt penaf, neu y mater pwysicaf, yw yr archoffeiriad rhyfedd. Nid symio i fyny neu gasglu at eu gilydd sydd yma, ond cyfeiriad at y cwestiwn mawr lanwai feddwl yr awdwr ac a'i hysbrydolai i ysgrifenu. Saif yr archoffeiriad uwchlaw pawb weinyddodd y swydd dan yr Hen Oruchwyliaeth. Y mae ar ei ben ei hun ym mhob rhagoriaeth. Gall "y fath" edrych yn ol at ddesgrifiad y benod flaenorol ohono, neu ym mlaen at ei waith yn eistedd ar ddeheulaw Duw. (2) **Y lle y gweinydda ei swydd.—Yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc y Mawredd yn y nefoedd.**—Daw tri o bethau i'r golwg yn y geiriau hyn, sef (1) gwaith Crist yn eistedd.

genym y fath Archoffeiriad, yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc y Mawredd yn y nefoedd;
2 Yn Weinidog y gysegrfa, a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn.

Ni chai yr archoffeiriad Iuddewig eistedd yn y presenoldeb dwyfol. Wedi gorphen ei waith, rhaid oedd iddo fyned allan. Eithr nid felly am Grist. Eisteddodd ef ar ol esgyn i'r nef. Profa hyny ei fod wedi gorphen aberthu. Cyflawnodd ei waith lwyred fel y medrai eistedd. Datguddir ei urddas anfeidrol hefyd yn ei eisteddiad. Dim ond un mawr—un oedd yn Dduw allasai eistedd yn ymyl Duw. (2) Pwysleisir hefyd ar y man yr eisteddodd. Nid eistedd ar rywle wnaeth nac mewn rhyw fan yn y nef, ond "ar ddeheulaw gorseddfaingc y Mawredd." Eisteddodd yn y man anrhydeddusaf yn y nef. Dyma'r lle roddai brenhinoedd daearol i'w cyfeillion hoffusaf, a'u cadfridogion gwrolaf. Edrychid ar eistedd ar yr orsedd ar ddeheulaw y brenin yn beth mawr iawn, ac yn arwydd o'r parch mwyaf. Defnyddid yr enw "Mawredd"— μεγαλωσυνης —yn fynych am Dduw gan yr Iuddewon a golyga deheulaw y Mawredd, ddeheulaw Duw. (3) Y lle yw y peth arall ddygir i sylw yma. Yn y nefoedd yr eisteddodd Crist ar ddeheulaw Duw, ac nid yn y tabernacl daearol. Beth feddylir wrth hyn? Fod Crist wedi eistedd yn y lle y mae presenoldeb Duw amlycaf o bob man. Rhaid ei fod yn anfeidrol fawr a pherffaith i allu dyweyd y tri pheth hyn am dano. (3) **Cylch ei wasanaeth a'i deml** (2).—**Yn weinidog y gysegrfa, a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, nid dyn.** —Daw y cylch yn yr hwn y gweinydda ei swydd yn amlwg yma a'r deml. Cylch ei swydd yw gweini yn y gysegrfa. Dengys ἁγίων —y gair am gysegrfa—mai y cysegr sancteiddiolaf yn y deml oedd o flaen meddwl yr awdwr. Y meddwl yw mai yn y nef, sef y lle sancteiddiolaf ar ddeheulaw Duw y cyflawna Crist ei swydd. Efe yw ei gweinidog—λειτουργὸς – neu ei gwas. Mewn peth y gweinydda? Yn yr holl bethau a berthyn i iachawdwriaeth dynion ond gwneyd Iawn drostynt. Gwnaeth ef hyny unwaith am byth. Yn y geiriau hyn a'r adnod flaenorol cyfunir dwy swydd fawr o eiddo Crist, sef brenin ac offeiriad. Eistedda ar orsedd Duw fel brenin, a gweinydda fel offeiriad. Nid eistedd i fod yn segur wnaeth, ond eistedd i fod yn weinidog. Gair arall am gysegrfa yw "tabernacl." Gelwir ef yn "wir dabernacl" am mai y nefoedd yw y tabernacl sylweddol.

3 Canys pob archoffeiriad a osodir i offrymu rhoddion ac aberthau: oherwydd paham rhaid oedd bod gan hwn hefyd yr hyn a offrymai.
4 Canys yn wir pe bai efe ar y ddaear, ni byddai yn

Cysgod oedd yr un daearol. Nid un daearol yw teml Crist, gan hyny, ond un nefol. Cylch cyflawniad ei swydd yw y deml o natur sylweddol, anghyfnewidiol. I ddangos hyn yn eglurach dywed mai yr Arglwydd a'i gosododd ac nid dyn. Paham y dywed hyn? I ddangos nad peth i fyned heibio oedd y deml hon fel yr un ddaearol; ac hefyd i nodi allan y gwahaniaeth rhwng gwneuthurwyr y ddwy deml. Gwaith dyn oedd yr un ddaearol; gwaith Duw oedd yr un nefol. (4) **Ei aberth** (3).—**Canys pob archoffeiriad a osodir i offrymu rhoddion ac aberthau; oherwydd paham rhaid bod gan yr archoffeiriad hwn hefyd yr hyn a offryma.**—Gwaith archoffeiriad oedd offrymu rhoddion ac aberthau. I hyn yn benaf y gosodid ef yn ei swydd. Rhaid oedd i bob archoffeiriad gael y rhoddion a'r aberthau hyny cyn y gallai eu cyflwyno i Dduw. Yr un modd am yr archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec: ni allasai yntau fod heb rywbeth i'w offrymu. Gweinydda ef ei swydd yn y tabernacl sylweddol, dwyfol, sef y nef, a gofynol yw iddo feddu aberth. Nid iawn dyweyd mai cyfeiriad sydd yma at offrymiad Crist ohono ei hun ar Galfaria. Ni sonia yr awdwr am hyny. Siarad a wna am dano yn gweinyddu ei swydd yn y nef, a bod rhaid iddo gael yr hyn a offryma yno. Cam a'r geiriau yw eu cymhwyso at unrhyw amgylchiad bu yr Iesu ynddo ar y ddaear. Beth offryma ef yn y nef? Ei hunan anfeidrol. Tragywyddolwyd ei aberth ynddo ar Galfaria. Erys byth mwy yn aberth. Rhaid i wir aberth fod yn dragywyddol yn ei natur fel Duw ei hun. Cyferfydd yr awdwr ag anhawsder yr Iuddew yma, sef pa fodd y gallai Crist aberthu ac yntau wedi esgyn i'r nef. Dengys fod gan yr archoffeiriad gwirioneddol aberth anfeidrol ynddo ei hun. Byddai yn ammhosibl i'r aberth roddodd ar y groes i ymadael a'i berson mwy. Felly nid oes eisieu ail-adroddiad o farwolaeth Calfaria, gan nad oes gan Grist ond cyflwyno ei hun i'r Tad yn barhaus. (5) **Y rheidrwydd iddo i gyflwyno ei aberth yn y nef** (4-5).—Gallai yr Hebreaid ofyn ar ol yr adnodau diweddaf, paham na fuasai Crist yn gweinyddu ei swydd ar y ddaear? Paham nad arhosai gyda ni ac nid esgyn i'r nef? Atebiad i hyn yw yr adnodau nesaf. (a) **Ei urdd archoffeiriadol** (4).—**Yn awr, pe byddai efe ar y ddaear, ni**

offeiriaid chwaith; gan fod offeiriaid y rhai sydd yn offrymu rhoddion yn ol y ddeddf:

5 Y rhai sydd yn gwasanaethu i siampl a chysgod y pethau nefol, megys y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell; canys, Gwel, medd efe, ar wneuthur ohonot bob peth yn ol y portreiad a ddangoswyd i ti yn y mynydd.

---

byddai yn archoffeiriad mewn un modd, gan fod rhai sydd yn offrymu rhoddion yn ol y gyfraith.—Nid oedd Crist o lwyth Lefi na theulu Aaron, ac o ganlyniad ni pherthynai i urdd yr archoffeiriadaeth ddaearol. Yn ol y gyfraith buasai yn ammhosibl iddo gyflawni swydd archoffeiriad ar y ddaear. Cedwid at lythyren y gyfraith yn hyn. Perthynai ei archoffeiriadaeth ef i urdd wahanol ac uwch. Hefyd un o lwyth Juda oedd ef, yr hwn lwyth nad oedd ganddo hawl i'r archoffeiriadaeth. (b) **Sylweddolrwydd ei archoffeiriadaeth** (5).—**Y rhai sydd yn gwasanaethu yr hyn sydd yn arlun a chysgod y pethau nefol, megys y rhybuddir Moses gan Dduw pan y mae efe ar fedr gwneuthur y babell; canys medd efe, Gwel ar wneuthur ohonot bob peth yn ol y cynllun a ddangoswyd i ti yn y mynydd.**—Heblaw fod Crist o urdd wahanol i'r archoffeiriadaeth Lefiaidd, yr oedd natur ei swydd yn gwahaniaethu. Arlun a chysgod oedd cylch yr archoffeiriadaeth ddaearol. Ystyr arlun yma yw amlinelliad, patrwn, neu gynllun, ac nid cysgod neu niwl tew fel a olyga mewn rhai manau. Amlinelliad, neu gynllun o'r pethau nefol oedd yr archoffeiriadaeth ddaearol. Cynrychiolai y pethau sylweddol, ond nid oedd yn sylweddol ei hun. Daw hyn yn amlycach eto yn y gair "cysgod"—*σκία*—un o'r pethau mwyaf ansylweddol yw cysgod. Eithr sicrhâ ei fodolaeth, fodolaeth sylwedd cyfatebol. Ni all cysgod fodoli heb sylwedd. Felly am yr archoffeiriadaeth Iuddewig: gwasanaethai fel arlun a chysgod o'r pethau hanfodol sylweddol. I brofi ei fater, dwg yr awdwr Exodus xxv. 40 ym mlaen. Dywedodd Duw wrth Moses yn bendant pan oedd efe ar fedr gwneuthur y babell yn yr anialwch pa fodd i'w hadeiladu. Rhaid oedd i bob peth fod ynddi yn ol y portread a ddangosodd Duw iddo ar fynydd Sinai. Ymddengys i Dduw roddi cynllun llawn i Moses, ond ni wyr neb pa fodd. (1) Feallai mai dyweyd wrtho a wnaeth ac i Moses gymeryd y cynllun i lawr; (2) dichon mai trwy weledigaeth y dangoswyd y cynllun iddo; (3) nid

6 Ond yn awr efe a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol o gymaint ag y mae yn Gyfryngwr cyfamod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell.

---

yw yn ammhosibl na welodd y pethau nefol eu hunain; (4) neu feallai mai ei ysbrydoli gafodd i synied pa fath rai oeddynt; (5) gallasai Duw roddi cynrychioliad ohonynt o flaen ei lygaid. Eithr nid hyn yw pwynt yr adnod; ond yn hytrach mai cynllun o'r pethau nefol a ddangoswyd i Moses. Gan hyny, nid oedd dim sylweddol yn ystyr ddyfnaf y gair yn yr holl drefniant archoffeiriadol dan oruchwyliaeth Moses. Y mae y sylweddol yn dragywyddol ac anghyfnewidiol, tra y mae yr ansylweddol yn amserol a chyfnewidiol. Ni allasai archoffeiriadaeth sylweddol Crist gael ei gweinyddu yng nghanol amodau ac amgylchiadau ansylweddol; rhaid oedd iddo gael y nef yn amod ei gweinyddiad parhaus. Dangosir hyny yn amlycach yn yr adnod nesaf.

II. Yr archoffeiriad perffaith a'r cyfamod perffaith (6-13).—Yn yr adnodau nesaf dengys yr awdwr ragoriaeth cyfamod yr archoffeiriad perffaith. Profa hyn fel yr eglurir ganddo fod yr hen gyfamod yn ammherffaith. Rhagora ei weinidogaeth ar weinidogaeth yr archoffeiriaid Iuddewig oblegid rhagoriaeth y cyfamod. (1) **Safle yr archoffeiriad yn y cyfamod** (6) .—**Ond yn awr efe a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, o gymaint hefyd ag y mae yn gyfryngwr cyfamod gwell.**—Efe yw y cyfryngwr – *μεσίτης* —ynddo. Ystyr llythyrenol y gair yw canolwr. Crist yw y canolwr rhwng Duw a dynion yn y cyfamod. Amcan canolwr yw dwyn dwy blaid i heddwch a'u gilydd, a gofalu fod y ddwy blaid yn llanw amodau heddwch ac yn cadw at yr amodau hyny. Dengys safle canolwr ei fod yn uwchraddol i un o'r pleidiau, a dyweyd y lleiaf. Yma y mae Crist uwchlaw dynion, er ei fod yn ddyn, ac yn ogyfuwch a Duw am ei fod yn Dduw. Safle uchel iawn yw yr un leinw ef yn y cyfamod newydd—y safle uchaf sydd yn bosibl. Eglurwyd ystyr y gair cyfamod yn y benod flaenorol. (2) **Natur cyfamod** (6, 7).—Oddiwrth yr adnodau hyn gwelwn fod dwy elfen fawr yn ffurfio natur y cyfamod, sef (a) **Natur yr addewidion** (6).—**Yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell.**—Y mae ei addewidion yn rhai gwell nag addewidion yr hen gyfamod. Pethau ysbrydol yw yr addewidion yn hwn, ond pethau naturiol yn benaf oedd addewidion yr hen gyfamod. Gweithredoedd oedd amod

7 Oblegid yn wir pe buasai y cyntaf hwnw yn ddifeius, ni cheisiasid lle i'r ail.
8 Canys yn beio arnynt hwy y dywed efe, Wele, y mae y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, ac mi a wnaf a thy Israel ac a thy Juda gyfamod newydd:
9 Nid fel y cyfamod a wnaethum a'u tadau hwynt, yn y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn hwy o dir yr Aifft: oblegid ni thrigasant hwy yn fy nghyfamod i, minnau a'u hesgeulusais hwythau, medd yr Arglwydd.

---

mawr yr hen gyfamod, ond gras anfeidrol yw amod y newydd. Nid addewid am Ganaan ddaearol a'r breintiau cysylltiol a hyny yw eiddo y cyfamod gwell, ond nefoedd a phob peth gofynol i fyned iddi. Un amserol oedd y cyfamod cyntaf, ond un tragywyddol yw yr ail. (b) **Natur y cyfamod** (7).—**Oblegid pe buasai y cyfamod cyntaf hwnw yn ddifeius, yna ni chesiasid lle i'r ail.**—Gan fod y cyntaf yn feius rhaid ei fod yn ammherffaith. Ni all un cyfamod fod yn berffaith os na chyrhaedda yn llawn yr amcan oedd iddo. Methodd yr hen gyfamod a chyrhaedd yr amcan, gan hyny nid oedd yn berffaith. Beth am yr ail? Yr oedd hwn yn berffaith, ac o ganlyniad cyrhaedda ei amcan yn ei holl ranau. Bai y cyntaf alwai am yr ail, sef am un perffaith. Ond ai nid cyfamod Duw oedd y cyntaf? Ie, ond nid ar Dduw oedd y bai am ei ffaeledd, ond ar y dynion a'i derbyniodd. Methasant hwy a llanw ei amodau, ac yna aeth y cyfamod yn ddifudd iddynt. Hefyd, teimlent fod rhywbeth yn eisieu arnynt i'w cyn-orthwyo i lanw amodau y cyfamod. Daw perffeithrwydd y cyfamod newydd yn eglur yn adn. 10-12. Datguddir natur y cyfamod yn yr ansoddair "gwell" yn adn. 6 hefyd, a cheir gweled isod pa fodd y mae yn well o ran ei natur na'r hen. (3) **Allanolrwydd y cyfamod ammherffaith a mewnolrwydd a graslonrwydd y cyfamod perffaith** (8-12).—(a) **Allanolrwydd y cyfamod ammherffaith** (8, 9).—**Canys yn beio arnynt hwy, y dywed efe, Wele, y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, Y gwnaf a thy Israel a thy Juda gyfamod newydd; nid fel y cyfamod a wnaethum a'u tadau hwynt yn y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn hwy o dir yr Aipht; oblegid ni thrigasant hwy yn fy nghyfamod i, a minau a'u hesgeulusais hwythau, medd yr Arglwydd.**—Darllena rhai, "Canys yn beio arno y dywed wrthynt," sef beio ar y Cyfamod. Eithr nid oes sail ddigonol i'r darlleniad yn

10 Oblegid hwn yw y cyfamod a amodaf fi a thy Israel ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifenaf hwynt; a mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant i minnau yn bobl:

---

y MSS. hynaf, yn y cysylltiadau nac mewn rheswm. Ni fuasai Duw yn beio ar ei gyfamod ei hunan. Beio a wna ar y bobl na chadwasant y cyfamod. Nid oeddynt yn ddigon dadblygedig ac ysbrydol i dderbyn y cyfamod a sylweddoli daioni Duw iddynt ynddo, ac am hyny beia arnynt. Efe ei hun feia, ac nid Jeremiah. (Gwel Jer. xxxi. 31-34). Cyfeiria at ddyddiau yr Iesu pan fyddai yn gwneyd cyfamod newydd a'r holl genedl ac nid a rhai ohoni. Cymer "ty Israel a thy Juda" i fewn y genedl oll. Bydd hwn yn "gyfamod neywdd," meddai, a gwahanol i'r un a wnaed a'u tadau, sef y genedl yr hon a ddygais o'r Aifft. Pa le y daw allanolrwydd y cyfamod hwnw i'r golwg? Yn y ffaith mai cydio yn llaw y genedl a wnaeth Duw i'w dwyn o'r Aifft, ac nid cydio yn ei chalon. Trwy nerth allanol ac nid trwy ras mewnol y dygodd ef Israel o'r Aifft fel y gwelir oddiwrth yr hanes. Ffigwr sydd yn y geiriau "ymaflais yn eu llaw." Defnyddio nerth allanol wneir wrth waredu un a llaw. Nid nerth bywyd yn y bobl a'u dygodd o'r Aifft ond nerth Duw tuallan iddynt. Oblegid mai allanol iddynt oedd pob peth y cyfamod ni thrigasant ynddo. Y can lyniad fu i Dduw eu hesgeuluso hwythau. Nid ydym i ddeall esgeuluso yma yn yr ystyr y bydd dynion yn esgeuluso. Y meddwl yw i Dduw beidio cyflawni ei addewidion oblegid anghrediniaeth y bobl. Gwnai eu hanufudd-dod hi yn ammhosibl i Dduw ymddwyn yn wahanol atynt. A ydym i feddwl wrth hyn na chyrhaeddodd yr hen gyfamod unrhyw amcan? Nac ydym. Bu o ddisgyblaeth i'r bobl; ond mai disgyblaeth allanol oedd hi ac nid mewnol. (b) **Mewnolrwydd a graslonrwydd y cyfamod perffaith** (10-12).—(1) **Yn y meddwl** (10).—**Oblegid hwn yw y cyfamod yr hwn a wnaf fi a thy Israel ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl.**—Tuallan i Israel yr oedd y gyfraith foesol yn yr hen gyfamod; ac oblegid hyny ni afaelai ym meddwl y bobl. Methai ei syniadau a dyfod yn rhai llywodraethol yn eu meddyliau. I'r ddeddf foesol allu meddiannu bywyd rhaid iddi gymeryd gafael yn syniadau pwysicaf y meddwl a bod yn egwyddor o danynt. Eithr ammhosibl

11 Ac ni ddysgant bob un ei gymydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnebydd yr Arglwydd; oblegid hwynthwy oll a'm hadnabyddant i, o'r lleiaf ohonynt hyd y mwyaf ohonynt.

---

yw hyn os na fydd y ddeddf o ran ei natur yn y meddwl. Gelwir y ddeddf yma yn gyfreithiau am y gwnaed hi fyny o amryw orchym ynion y rhai oedd raid iddynt fod yn y meddwl i allu cadw y cyfamod. Rhaid i'r gallu i gadw y gyfraith i fod yn ffynhonell bywyd, oblegid tyf bywyd o'r tufewn allan yn barhaus. Trwy fod yn y meddwl, ffurfia syniadau moesol uchelryw ynddo. (2) **Yn y serch.—Ac ar eu calon hefyd yr ysgrifenaf hwynt.**—Ffigwr sydd yma. Byddid yn ysgrifenu ar glai a defnyddiau tyner ereill. Peth meddyliol yw calon— *καρδία* —peth materol yw clai. Ond mae y ffigwr yn un digon naturiol am fod calon dyner yn agored i dderbyn argraffiadau. Eisteddle y serch olygir wrth galon yma. Gesyd Duw ei gyfreithiau yn eisteddle teimladau yr enaid drwy y cyfamod newydd, ac o ganlyniad, cynyrcha deimladau moesol uchelryw a dwyfol ynddo. Dechreua gyda'r deall neu y meddwl, a threiddia i lawr i'r serchiadau dyfnaf. Chwareua y serch ran bwysig ym mywyd dynion, ac y mae gan syniadau y meddwl lawer i wneyd a naws y serch. Gwna syniadau drwg suro y serch, tra y melysa rhai da hi. Ysgrifena syniadau eu delw ar y galon. Yr hyn fyddo eu natur hwy fydd natur y serch. Adweithreda y serch arnynt hwythau drachefn nes eu gwneyd yn ddwysach a mwy eu dylanwad mewn bywyd. (3) **Yn yr ewyllys.—A mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant i minau yn bobl.** Cyn gorphen a mewnolrwydd y cyfamod, dywed yr Arglwydd y bydd ef yn Dduw iddynt. Beth yw meddwl hyny? Y byddai yn llanw holl amodau y cyfamod trwy gyflawni ei holl addewidion. Cynwys hyn y byddai yn bob peth iddynt ag y safent mewn angen am dano. Dengys y geiriau, "A hwythau a fyddant i mi yn bobl" fod cyfreithiau Duw yn ewyllys deiliaid y cyfamod newydd. Ni allant fod yn bobl iddo heb roddi ufudd-dod llawn i'w holl orchymynion. Pobl ufudd yw yr ystyr gan hyny. Bellach, dyma gyfreithiau Duw wrth wraidd holl alluoedd dyfnaf a gweithredol yr enaid. Tra rhagora y cyfamod newydd felly ar yr hen. (4) **Yn yr ymwybyddiaeth o Dduw** (11).—**Ac ni ddysgant bob un ei gyddinasydd, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnebydd yr**

12 Canys trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim ohonynt mwyach.

Arglwydd : canys pawb a'm hadnabyddant i, o'r lleiaf hyd y mwyaf ohonynt.—Dyma ffrwyth mewnolrwydd y cyfamod yn y tri pheth blaenorol. Daw y cyfamod trwy ei fewnolrwydd a dyn i gymdeithas uniongyrchol a Duw, ac i'w adwaen trwy gynreddf ysbrydol. Nid oes eisieu archoffeiriad i fyned rhwng dyn a Duw fel yn yr hen gyfamod. Trwy Grist gall pawb agoshau yn bersonol at Dduw. Nid oes eisieu ysgrifenyddion a phrophwydi i ddysgu y rhai gant y ddeddf yn eu meddwl, etc., i adnabod Duw am fod yr adnabyddiaeth ynddynt. Gall cyfreithiau Duw ei adnabod yn well nag y gall neb ddysgu ei gyd-ddinasydd, neu ei frawd am dano. Bydd yr ymwybyddiaeth o Dduw yn un ysbrydol hefyd. Nid un ddeallol yn unig fydd hi. Gall dyn annuwiol feddu y ddeallol, eithr dim ond y duwiol all feddu yr adnabyddiaeth nodir yma. Rhaid i gyfraith Duw fod yn y meddwl i allu adnabod Duw yn ysbrydol. Bydd y wybodaeth yn gyffredinol eto, ac nid un gyfyngedig i ddosbarth o ddysgedigion neillduol. Meddir hi gan bob oedran, pob gradd mewn gallu a gwybodaeth naturiol, rhai o bob safle a phob amgylchiadau. Gan mai cynyrch bodolaeth fewnol cyfreithiau Duw yw hi, nid oes neillduoli yn hanes y wybodaeth hon. Adnebydd ei pherchenogion hi Dduw yn gynreddfol. (c) **Graslonrwydd y cyfamod perffaith** (12).—**Canys trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau ni chofiaf mwyach.**—Dyma addewid bwysig arall berthynol i'r cyfamod perffaith. Yn y cyfamod hwn darpara Duw iawn i gyfarfod ag anghyfiawnderau y rhai y gesyd ei gyfreithiau yn eu meddwl. "Canys iawnol fyddaf wrth ei hanghyfiawnderau," yw y darlleniad llythyrenol o'r frawddeg gyntaf. Hollol gywir yw hyn, oblegid trwy Iawn Crist y medrai Duw fod yn drugarog. Ei Iawn ef yw amod gosodiad cyfreithiau Duw yn eu meddwl a'u hysgrifenu ar eu calonau. Duw ei hun drefnodd yr Iawn a chywir yw dyweyd ei fod yn iawnol at ddynion a achubir ganddo. Beth yw "anghyfiawnderau"? Cynyrch egwyddorion anghyfiawn yr enaid. Pan fyddo egwyddorion llywodraethol yr enaid yn anghyfiawn torant allan yn weithredoedd anghyfiawn. Ffrwyth anghyfiawnder egwyddorol yw anghyfiawnder gweithredol. Beth olygir wrth "bechodau" yma? Pob math o ddrygau gyflawna dynion

13 Wrth ddywedyd, Cyfamod newydd, efe a farnodd y cyntaf yn hen. Eithr yr hwn a aeth yn hen ac yn oedranus, sydd agos i ddiflanu.

---

ac nid anghyfiawnderau yn unig. Cymer y gair i fewn bob dosbarth o bechodau. A all Duw anghofio y rhai hyn? Na all. Beth yw meddwl "ni chofiaf mwyach," ynte? Peidio ymddwyn atynt yn ol eu pechodau, neu ymddwyn fel pe na buasai yn eu cofio. Ammhosibl i Dduw anfeidrol anghofio fel y gwna dynion; ond gall ymddwyn fel un ddim yn cofio. Ymddygodd at y genedl yn yr anialwch fel un yn cofio yn fyw; ond ni wna felly a deiliaid y cyfamod newydd. Maddeua iddynt yr oll ar sail Iawn ei Fab. (4) **Casgliad oddiwrth yr ymresymiad** (13).—**Wrth ddywedyd, cyfamod newydd, efe a wnaeth y cyntaf yn hen. Eithr yr hyn sydd yn dyfod yn hen ac oedranus, sydd agos i ddiflanu.**—Duw sydd yn dyweyd ei fod yn gwneyd cyfamod newydd. Pwy sydd yn gwneyd y cyfamod cyntaf yn hen? Duw ei hun. Gan iddo ddyweyd drwy y prophwyd ei fod yn gwneyd cyfamod newydd a'r bobl, gwnaeth y cyntaf yn hen o angenrheidrwydd. Creodd awydd ynddynt am y newydd. Y casgliad oddiwrth y gair newydd yw fod y cyntaf yn cael ei wneyd yn hen. Darfu i'r addewid am y newydd beri i'r hen golli ei nerth a'i dylanwad ar y bobl. Nid yw yn gywir dyweyd mai barnu y cyntaf yn hen wnaeth Duw, ond yn hytrach ei wneyd yn hen. Gan fod y cyfamod cyntaf wedi ei wanychu gan y gobaith am un newydd a gwell, heneiddiodd ac oedranodd. Bydd yr hen yn heneiddio ac yn oedranu. Hefyd, daw elfenau diflaniad iddo. Fel y cynyddai y gobaith am y newydd, heneiddiai ac oedranai yr hen; ac o ganlyniad, llenwid ef ag elfenau ymddatodiad. Nid oedd eisieu ei osod i farwolaeth am y cynwysai farwolaeth ynddo ei hun. At ba adeg y cyfeirir yma? Nid at adeg ysgrifeniad yr Epistol, ond adeg rhoddiad yr addewid am gyfamod newydd.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Enwer holl ranau y gwasanaeth aberthol yn y Deml.
Dangoser ym mha beth y gwahaniaetha cysgod a sylwedd.
Rhagoriaethau y cyfamod newydd ar yr hen gyfamod.
Y gwahaniaeth rhwng cyfryngwr a machnïydd.

Hanes adeiladu y Tabernacl yn yr anialwch.
Ammherffeithrwydd y cyfamod cyntaf a pherffeithrwydd yr ail.
Y modd y gall deddf Duw ddyfod yn rheol gweithrediad meddwl dyn.
Amod ysbrydol gwybodaeth ysbrydol o Dduw.
Perthynas anghyfiawnderau a phechodau dynion.
Y tebygrwydd rhwng meddwl Duw a meddwl dyn mewn anghofio.

III. Traethawd.

Deddfau Duw ac Enaid Dyn (10).

I. Gosod deddfau yn yr enaid.—Eglurwyd yn y nodiadau ystyr gosod deddfau neu gyfreithiau Duw yn y meddwl; eithr gofyn y mater eglurhad pellach. Beth yw gosod deddfau Duw yn y meddwl a'u hysgrifenu ar y galon? Gosod bywyd dwyfol yn yr enaid. Dim ond bywyd Duw yn egwyddor weithredol yn yr enaid o dan ei holl alluoedd a'i dwg i weithredu yn unol a natur pethau. Cyfreithiau y geilw Duw y bywyd yma er mwyn cynorthwyo dyn i ddeall ei feddwl. Yn y bywyd hwn cynwysir holl ddeddfau bywyd Duw ei hun. Pan blenir ef wrth wraidd egwyddorion gweithredol yr enaid, try yn ddeddfau i'w holl weithrediadau. Efe yn unig all beri i'r enaid weithredu yn iawn am ei fod yn gafaelyd yn egwyddorion ei weithrediad. Ammhosibl i ddim allanol ddwyn yr enaid i weithredu yn iawn, am nad all dim allanol gydio yn ei egwyddorion mewnol. Gall dylanwad allanol feddalhau gweithrediad galluoedd yr enaid; ond ni all newid natur ei weithrediad. Newidia bywyd Duw ynddo natur ei weithrediad a nodwedd ei weithredoedd.

II. Ffrwyth ymwybodol gosod deddfau Duw yn yr enaid.—Nid yw yr hyn a ddywedwyd yn eglurhad ar y canlyniad ymwybodol o osod y deddfau yn y meddwl a'r galon. Rhywbeth gymer le yn is-ymwybyddiaeth dyn yw gosod bywyd Duw yn yr enaid; ond ni fydd y bywyd hwn yn hir cyn cynyrchu ymwybyddiaeth newydd ynddo. Adnabyddiaeth o Dduw y geilw y prophwyd yr ymwybyddiaeth hon yn adn. 11. Hawdd deall pa fodd y cynyrchir yr ymwybyddiaeth o Dduw yn yr enaid pan gofiom mai ffrwyth planiad bywyd Duw ynddo yw hi. Ni all y bywyd dwyfol fodoli yn yr enaid heb gynyrchu ymwybyddiaeth o'r un natur ag ef ei hun. Gan fod

y bywyd yn ddwyfol, adnebydd Dduw. Adnebydd bywyd ymwybodol fywyd o'r un natur ag ef ei hun yn well nag yr adnebydd unrhyw fywyd arall. Felly am fywyd Duw yn yr enaid : adnebydd hwn holl ddeddfau moesol Duw am eu bod ynddo ; ac adnebydd natur Duw am ei bod wrth wraidd ei fywyd ac yn cyfeirio ei holl weithredoedd.

IV. Gofyniadau.

(1) Rhoddwch elfeniad manwl o'r benod. Pa oleuni deflir gan adn. 1, 2, ar Grist fel archoffeiriad ?

(2) Pa bethau oedd ar ffordd Crist i weinyddu y swydd ar y ddaear, adn. 4 ?

(3) Eglurwch pa fodd y cafodd Moses bortread o'r tabernacl gan Dduw, adn. 5.

(4) Ym mha bethau y rhagorai gweinidogaeth yr Iesu ar eiddo yr archoffeiriad Iuddewig ?

(5) Nodwch allan feiau y cyfamod cyntaf, adn. 7.

(6) Ar bwy y beiai Duw—ar y cyfamod neu y bobl, adn. 8 ?

(7) Eglurwch y gwahaniaeth hanfodol rhwng perthynas y ddau gyfamod a dynion, adn. 9-11.

(8) Pa fodd y gall dynion adnabod Duw heb gael eu dysgu am dano, adn. 11 ? Beth wnaeth y cyfamod cyntaf yn hen, adn. 13 ?

(9) Beth yw meddwl y geiriau "hen" ac "oedranus," adn. 13?

(10) Eglurwch feddwl gosod deddfau Duw yn y meddwl, a dangoswch ffrwyth ymwybodol hyny.

PENOD IX.

ADRAN III. (Parhad). PWNC: Y TABERNACL DAEAROL A'I WASANAETH, A'R TABERNACL YSBRYDOL A'I ARCHOFFEIRIAD.

I. Dadansoddiad.

I. **Y Tabernacl daearol a'i wasanaeth** (adn. 1-10).—
- (1) *Rhagarweiniad* (adn. 1).
- (2) *Y tabernacl a'i ddodrefn* (adn. 2-5).
  - (*a*) *Y cysegr sanctaidd a'i ddodrefn* (adn. 2).
  - (*b*) *Y cysegr sancteiddiolaf a'i ddodrefn* (adn. 3-5).
- (3) *Gwasanaeth y tabernacl* (adn. 6-10).
  - (*a*) *Gwasanaeth y cysegr sanctaidd* (adn. 6)
  - (*b*) *Gwasanaeth y cysegr sancteiddiolaf* (adn. 7).
  - (*c*) *Gwers ysbrydol y gwasanaeth* (adn. 8).
  - (*d*) *Amcan y gwasanaeth* (adn. 9).
  - (*e*) *Gwendid y gwasanaeth.*
  - (*f*) *Y rheswm am wendid y gwasanaeth* (adn. 10).
    - (1) *Ei natur.*
    - (2) *Ei amcan.*

II. **Y Tabernacl ysbrydol a'i archoffeiriad** (adn. 11-28).
- (1) *Ei archoffeiriad* adn. (11).
- (2) *Y tabernacl.*
- (3) *Aberth yr archoffeiriad* (adn. 12, 14).
  - (*a*) *Yr aberth* (adn. 12).
  - (*b*) *Dylanwad yr aberth ar Dduw.*
  - (*c*) *Effaith yr aberth ar ddynion* (adn. 13, 14).
    - (1) *Oblegid ei fawredd* (adn. 13-14).
    - (2) *Oblegid ei ysbryd* (adn. 14).
  - (*d*) *Natur yr effaith* (adn. 14).
- (4) *Cyfryngwriaeth yr archoffeiriad* (adn. 15, 22).
  - (*a*) *Natur ei gyfryngdod* (adn. 15).
  - (*b*) *Canlyniad ei gyfryngdod.*

1 Am hyny yn wir yr ydoedd hefyd i'r tabernacl cyntaf ddefodau gwasanaeth Duw, a chysegr bydol.

---

(1) *Rhyddhad moesol*
(2) *Etifeddiaeth dragywyddol.*
(5) *Ewyllys yr archoffeiriad* (adn. 16, 22).
(*a*) *Amod grym ei ewyllys* (adn. 16, 17).
(*b*) *Amod budd ei ewyllys* (adn. 17).
(6) *Yr aberthau cysgodol a'i ewyllys* (adn. 18-22).
(7) *Rheidrwydd marwolaeth yr archoffeiriad* (adn. 23-28).
(*a*) *I baratoi y nef i ddynion* (adn. 23).
(*b*) *I eiriol yn y nef dros ddynion* (adn. 24).
(*c*) *I roddi iawn digonol dros ddynion* (adn. 25, 26).
(*d*) *I ymddangos yn y farn yn rhydd oddiwrth bechod dynion* (adn. 27, 28).

II. Eglurhad.

Yr Archoffeiriad perffaith, ei deml, sylweddolrwydd ei archoffeiriadaeth, a'r ddau gyfamod oedd materion Pen. viii. Yn y benod hon symuda yr awdwr at y ddau dabernacl, a rhydd ddesgrifiad byw a phur fanwl ohonynt, ac o Grist fel archoffeiriad.

I. **Y tabernacl daearol a'i wasanaeth** (1-10).—(1) **Rhagarweiniad** (1). **—Yn awr yr oedd hyd yn oed gan y cyfamod cyntaf ddefodau gwasanaeth dwyfol, a'i gysegr, cysegr y byd hwn.**—Ni chydolyga y beirniaid ar berthynas y benod hon a phen. viii. Myn rhai fod yr awdwr yn ail gydio yma ym mhwnc dechreu yr wythfed benod, ac mai dwyn dyfyniad Jeremiah i fewn rhwng cromfachau a wnaeth. Eithr ni ellir rhoddi rhesymau digonol am y syniad hwn. Ymddengys i ni fod yr awdwr yn cadw at linell ei ymresymiad yn gyson. Yn y seithfed dangosodd fod cyfnewidiad yr archoffeiriadaeth yn cynwys cyfnewidiad y gyfraith, ac yr oedd cyfnewidiad y gyfraith yn cynwys cyfnewidiad y cyfamod, sef pwnc pen. viii. Rhaid eto i gyfnewidiad y cyfamod gynwys cyfnewidiad y Tabernacl, a dyna fater pen. ix. Yn adn. 1 cawn arweiniad i ymdriniaeth y benod. Wedi trin ar y cyfamodau ym mhen. viii., dengys yr awdwr fod gan y cyfamod cyntaf ddefodau. Y mae y C.C.A. yn anghywir pan yn gosod tabernacl i fewn yma yn lle cyfamod. Ni

2 Canys yr oedd tabernacl wedi ei wneuthur; y cyntaf, yn yr hwn yr oedd y canhwyllbren, a'r bwrdd, a'r bara gosod; yr hwn dabernacl a elwid, y cysegr.

---

cheir y gair cyn 1546, sef yn argraffiad Stephanus, ond yng nghyfieithad Erasmus. Rhaid i Erasmus ddilyn MSS. anniogel a llygredig. Yn y MSS. goreu ni cheir sail i'w waith yn gosod tabernacl i fewn. Diau mai y MSS. hyn oedd rheswm Esgob Davies dros wrthod derbyn darlleniad Erasmus. Dan y cyfamod cyntaf yr oedd ordeiniadau gwasanaeth a chysegr neu dabernacl. Ond rhai yn perthyn i'r byd hwn oedd yr ordeiniadau er eu bod yn rhai perthynol i wasanaeth dwyfol. Eu hamcan oedd peri i'r bobl wasanaethu Duw, ond methent a gwneyd hyny. Un perthynol i'r byd hwn oedd y cysegr hefyd. Dyma yr ystyr yma, ac nid un bydol yn ei natur. Dywed rhai mai gweddus, prydferth, hardd neu wych yw ystyr *κοσμικόν* — bydol—yma; ereill mai agored i'r byd, a syniad amryw yw mai am fod y tabernacl yn arwyddlun o'r holl greadigaeth y dywedir fod y cysegr yn fydol. Eithr ni welwn sail i'r un o'r syniadau hyn. Meddwl yr awdwr yw mai i'r byd hwn yr adeiladwyd y tabernacl ac mai gwaith dwylaw dynion ydoedd. Amcan dwyfol oedd iddo, ond i'r byd hwn y perthynai ac nid i'r nefoedd. Arweinia y geiriau hyn at brif fater y benod trwy ddangos fod i'r hen gyfamod ei wasanaeth dwyfol a'i gysegr. (2) **Y tabernacl a'i ddodrefn** (2-5).—(a) **Y cysegr sanctaidd a'i ddodrefn** (2).—**Canys yr oedd pabell wedi ei pharotoi, y gyntaf, yn yr hon yr oedd y canwyllyr, a'r bwrdd, a'r bara gosod; yr hwn a elwir y Lle sanctaidd.**—Neu gosodwyd pabell. Y cysegr sanctaidd oedd yr ysafell gyntaf yr aed iddi o'r cyntedd oedd o amgylch y Tabernacl. Gelwir y babell neu y cysegr hwn yn sanctaidd am y neillduid ef i'r offeiriaid. Ni chai y werin fyned iddo. Ynddo yr offrymai yr offeiriaid yn ddyddiol i Dduw. Priodol felly oedd ei alw yn "Lle sanctaidd," neu y sanctaidd —*ἁγια* Tri pheth a nodir yma oedd ynddo, sef (1) y canwyllbren. Amcan hwn oedd dal y ganwyll a oleuai i'r offeiriaid pan offryment yr aberthau ar yr allor. Nid oedd ffenestri i'r ystafell sanctaidd hon, ac am hyny rhaid oedd wrth oleuni (gwel Exod. xxv. 31-39). (2) Y bwrdd. Un oedd hwn i ddal y bara a enwir yma (Exod. xxv. 23-30). (3) Y bara gosod. Gelwir ef yn fara y wyneb hefyd, am y gosodid ef yn ng ngwyddfod Duw, neu ym mhresenoldeb ei wyneb. Bryd arall, bara dangos y gelwir ef. Dim ond yr offeiriaid oedd a hawl i'w fwyta. (Gwel am

3 Ac yn ol yr ail len, yr oedd y babell, yr hon a elwid y cysegr sancteiddiolaf;
4 Yr hwn yr oedd y thuser aur ynddo, ac arch y cyfamod wedi ei goreuro o amgylch; yn yr hon yr oedd y crochan aur a'r manna ynddo, a gwïalen Aaron yr hon a flagurasai, a llechau y cyfamod;
5 Ac uwch ei phen cerubiaid y gogoniant yn cysgodi y drugareddfa: am y rhai ni ellir yn awr ddywedyd bob yn rhan.

---

fanylion Lefiticus xxiv. 5-9.) Mesurai y cysegr sanctaidd, neu y "cyntaf" fel y gelwir ef yma, 30 troedfedd o'r dwyrain i'r gorllewin a 15 troedfedd o led. Elai yr offeiriad iddo trwy fynedfa yn yr ochr ddwyreiniol. (b) **Y cysegr sancteiddiolaf a'i ddodrefn** (3-5).—**Ac wedi yr ail len, y babell yr hon a elwir y Sanctaidd sancteiddiolaf; a chanddo thuser aur, ac arch y cyfamod wedi ei gorchuddio oddi amgylch ag aur, yn yr hon yr oedd crochan aur yn dal y manna, a gwialen Aaron yr hon a flagurasai, a llechau y cyfamod; ac uwch ei phen cerubiaid y gogoniant yn cysgodi dros y drugareddfa; am y rhai ni ellir yn awr ddywedyd bob yn rhan.**—Hwn oedd y rhan gysegredicaf o'r holl adeilad; eithr nid oes dim yn y gair cysegr yn awgrymu hyny; oblegid yr un gair yw ef ag a geir yn adn. 2 am Dabernacl, sef *σκηνή*. Tufewn i'r ail len yr oedd hwn. Rhanai y llen gyntaf rhwng y cysegr sanctaidd a'r cyntedd, a gwahanai yr ail y cysegr sanctaidd oddiwrth yr un sancteiddiolaf. (Gwel Exod. xxvi. 31, 33, a xxvi. 36, 38.) Y tabernacl yn yr anialwch sydd o flaen meddwl yr awdwr o hyd. Yn y cysegr sancteiddiolaf cawn fod (1) "y thuser aur," sef llestr aur i ddal thus, sef gwlybydd (*gum*) a aroglai yn beraidd; (2) arch y cyfamod, yn yr hon yr oedd y ddwy lech ar y rhai yr oedd y deg gorchymyn yn ysgrifenedig. Hefyd, cynwysai y crochan aur a'r manna, a gwialen Aaron yr hon a flagurasai. Cedwid y llechau ynddi fel safon moesoldeb y genedl, y rhai y gellid cyfeirio atynt pan fuasai galw. Gosodwyd peth o'r manna ddaeth i'r bobl yn yr anialwch yn y crochan aur er coffadwriaeth o'r porthi gwyrthiol fu arnynt, a chedwid y crochan yn yr arch. Hefyd cedwid gwialen Aaron ynddi er cof am ei blaguriad rhyfedd. (Gwel Traethawd.) Cauad ar yr arch oedd y drugareddfa yr hon a wnaed o aur, ac uwch ben y rhai hyn yr oedd delwau o ddau gerub, y rhai a'u cysgodent a'u

6 A'r pethau hyn wedi eu trefnu felly, i'r tabernacl
cyntaf yn ddïau yr âi bob amser yr offeiriaid, y rhai oedd
yn cyflawni gwasanaeth Duw:
7 Ac i'r ail, unwaith bob blwyddyn yr âi yr archoffeiriad
yn unig; nid heb waed, yr hwn a offrymai efe drosto ei
hun, a thros anwybodaeth y bobl:
8 A'r Yspryd Glan yn hysbysu hyn, nad oedd y ffordd i'r

---

hadenydd. Yr oedd eu gwynebau at eu gilydd ac edrychent ar y drugareddfa. Ni all yr awdwr ddesgrifio yr oll a berthyn i'r cerubiaid hyn a'r pethau ereill nododd gan gymaint o ranau oedd iddynt. (3) **Gwasanaeth y Tabernacl** (6-10).—(a) **Gwasanaeth y cysegr sanctaidd** (6).—**Yn awr a'r pethau hyn wedi eu parotoi fel yma, i'r babell gyntaf yr â yn wastadol yr offeiriaid, gan gyflawni y gwasanaethau.**—Lle cyflawniad y gwasanaeth a'i ddodrefn oedd o flaen meddwl yr awdwr yn yr adnodau blaenorol; eithr yma daw at y gwasanaeth ei hun. Beth ddywedir eu bod wedi eu trefnu yma? Y pethau oedd yn y ddau gysegr eu hunain. Trefnwyd neu darparwyd hwy ar gyfer gwasanaeth crefyddol o'r fath ag a gerid ym mlaen ynddynt. Cerid gwasanaeth yn y cysegr sanctaidd bob dydd. Dyna yw meddwl y gair διαπαντὸς —"yn wastadol." Cyflawnwyr y gwasanaeth hwn oedd yr offeiriaid. Byddent yn offrymu rhoddion ac aberthau yn ddyddiol yn ol y trefniant sefydlodd Moses. (b) **Gwasanaeth y cysegr sancteiddiolaf** (7).—**Eithr i'r ail yr â yr archoffeiriad yn unig, un waith yn y flwyddyn, nid heb waed, yr hwn a offryma efe drosto ei hun, a thros gamgymeriadau y bobl.**—Gwahaniaetha gwasanaeth y cysegr hwn oddiwrth eiddo y llall. (1) Un yn unig a'i cyflawna, sef yr archoffeiriad, ac nid llawer fel yr offeiriaid. (2) Unwaith yn y flwyddyn, sef ar Ddydd mawr y Cymod yr ai yr archoffeiriad i mewn i'r cysegr sancteiddiolaf ac nid bob dydd, fel yr ai yr offeiriaid i'r cysegr sanctaidd. Hefyd, ni allai yr archoffeiriad fyned yno heb waed drosto ei hun. Pechadur oedd ef, ac ni feiddiai nesu at Dduw i'r cysegr heb aberth, sef gwaed bustach. Rhaid oedd iddo fyned a gwaed dros anwybodaeth y bobl yn ogystal. Dylai anwybodaeth fod yn y lluosog, a meddwl y gair yma yw pechodau ydynt yn ffrwyth anwybodaeth, yng nghyd a phechodau ereill nad ydynt yn ffrwyth amcan drwg. Maddeuid dan y gyfraith bob pechod na fuasai yn ffrwyth amcan pendant i bechu yn erbyn Duw. (c) **Gwers ysbrydol y gwasanaeth** (8).—**Yr Ysbryd Glan yn hysbysu hyn, nad**

cysegr sancteiddiolaf yn agored eto, tra fyddai y tabernacl cyntaf yn sefyll:

9 Yr hwn ydoedd gyffelybiaeth dros yr amser presenol,

---

ydyw y ffordd i'r lle sanctaidd wedi ei hamlygu eto, tra y mae y babell gyntaf yn sefyll.—Drwy yr atalfa oedd ar yr offeiriaid i fyned i'r cysegr sancteiddiolaf dysgai neu amlygai yr Ysbryd Glan nad oedd y ffordd i'r cysegr sancteiddiolaf yn agored. Rhaid oedd iddynt hwy gadw o bresenoldeb amlwg Duw. Eu lle hwy oedd y babell gyntaf a chyfyngid eu gwasanaeth iddi. Beth yw y wers? Nad all ond dynion neillduedig gan Dduw nesau ato medd rhai; ond nid dyna'r gwirionedd yma. Y wers ni gredwn yw, fod y ffordd yn gauad hyd nes yr agorid hi gan Grist. Cyhyd ag y buasai angen am wasanaeth y cysegr sanctaidd yr oedd y ffordd i'r cysegr sancteiddiolaf heb ei hagor. Nid cyhyd ag y byddai y tabernacl dacarol yn sefyll yw y meddwl yma fel y dadleua llawer, ond cyhyd ag y byddai y cysegr sanctaidd yn aros, sef y cysegr cyntaf y soniodd yr awdwr am dano yn yr adnodau blaenorol. (d) **Amcan y gwasanaeth** (9).—**Yr hyn sydd ddameg yn yr amser sydd yn awr yn bresenol.**—Amcan yr holl wasanaeth oedd bod yn ddameg neu gyffelybiaeth. Cyfieithir παραβολή—dameg—yn gyffelybiaeth yn fynych a phryd arall yn ddameg. Dameg neu gyffelybiaeth o bethau ysbrydol oedd y tabernacl a'i holl wasanaeth. Meddent debygolrwydd i'r pethau nefol fel y medd cysgod debygolrwydd i'r sylwedd a dim yn rhagor. Hefyd, eu hamcan oedd gwasanaethu dros amser yn unig ac nid yn barhaus. Cadwent yr angen am faddeuant a chymdeithas agos a Duw yn fyw o flaen meddwl y bobl, ac wrth hyny cyrhaeddent amcan eu sefydliad. (e) **Gwendid y gwasanaeth.—Yn ol yr hon yr offrymir rhoddion ac aberthau y rhai ni allant, o ran cydwybod, berffeithio yr addolydd.**—Yn ol peth? Yn ol y ddameg yn y frawddeg flaenorol ac nid yn yr amser hwnw fel y myn rhai. Nid cyfeiriad at y tabernacl cyntaf sydd yma chwaith. A y prif MSS. a'r prif feirniaid o blaid darllen fel y C.D. "yn ol yr hon," sef yr hon gyffelybiaeth neu ddameg. Rhan o'r ddameg oedd offrymu "rhoddion ac aberthau." Cymer rhoddion i fewn yr holl aberthau anwaedlyd. Er cymaint o'r rhai hyn offrymid ac a aberthid, ni allent roddi heddwch i gydwybod yr addolydd. Perffeithio yr addolydd fuasai rhoddi cydwybod dawel iddo. Beth yw cydwybod? Gwneir y gair i fyny o "cyd" a "gwybod," felly ei ystyr yw "gwybod yng nghyd." Ond yng nghyd a phwy y mae dyn yn

yn yr hwn yr offrymid rhoddion ac aberthau, y rhai ni allent o ran cydwybod berffeithio yr addolydd;
10 Y rhai oedd yn sefyll yn unig ar fwydydd, a diodydd, ac amryw olchiadau, a defodau cnawdol, wedi eu gosod arnynt hyd amser y diwygiad.

---

gwybod? Nid yng nghyd a Duw, ond yng nghyd ag ef ei hun. Gwybodaeth hunan-ymwybyddiaeth o weithredoedd moesol yr enaid yw cydwybod. Y gallu hwn yn yr enaid y methai y rhoddion a'r aberthau a'i berffeithio neu roddi tawelwch iddo. (f) **Y rheswm am wendid y gwasanaeth.**—(1) **Ei natur.—Gan nad ydynt (gyda bwydydd a diodydd ac amrywiol olchiadau) ond defodau cnawdol yn unig.**—Nid oes amheuaeth am amcan y geiriau hyn. Hollol eglur yw mai dangos annigonolrwydd gwasanaeth y tabernacl i berffeithio yr addolwyr yw eu hamcan. Yr oedd natur y gwasanaeth yn gyfryw fel nad allai symud dim ar euogrwydd cydwybod. Gorweddai ei wendid yn rhanol yn ei natur. Ond er fod hyn yn eglur nid hawdd yw esbonio y geiriau. Anhawdd rhyfeddol yw deall eu cysylltiad a'r adnod flaenorol. Gwnaeth cyfieithwyr y C.A. chwyddo'r anhawsder wrth osod "y rhai sydd yn sefyll" i fewn o'u blaen. Gwell o lawer fuasai fod y geiriau hyn allan. Nid oes reswm mewn dyweyd fod "rhoddion ac aberthau" yn sefyll ar fwydydd a diodydd. Ceisiodd y cyfieithwyr Seisnig ddod dros yr anhawsder trwy gyfieithu ἐπι yn y frawddeg yn "mewn" yn lle "ar," a darllen "Y rhai a safent yn unig "mewn" bwydydd a diodydd ac amryw olchiadau." Y meddwl yn ol hwn yw mai yn y pethau hyn yr oedd rhoddion ac aberthau yn gynwysedig. Eithr ni all hyn fod yn iawn. Nid yn y bwydydd, y diodydd na'r golchiadau yr oedd y rhoddion a'r aberthau yn gynwysedig. Gwell o lawer na'r ddau syniad blaenorol yw darlleniad y C.D. o ἐπι sef "gyda." Rhydd hwn synwyr rhagorol i'r frawddeg, a dengys yn glir ei chysylltiad a rhoddion ac aberthau. Y mae y cyfieithiad i'w gyfiawnhau hefyd, gan y ceir yr ystyr o "gyda" i ἐπι mewn amryw fanau ereill yn y Test. Newydd. Y syniad felly yw, ychwanegu at beth arall. Gwel Math. xxv. 20, 22; Luc iii. 20; 1 Cor. xiv. 16; 2 Cor. vii. 13. Gellir darllen y ddwy adnod yn synwyrol yn ol y syniad hwn fel eu ceir yn y C.D. Yr ystyr yw fod rhoddion ac aberthau gyda bwydydd a diodydd ac amrywiol olchiadau yn ddefodau cnawdol oll. Nid elent ym mhellach na'r cnawd. Defodau cnawdol yn unig oeddent oll. Yn hyn yr oeddent oll yr un yn eu natur. Saif

11 Eithr Crist, wedi dyfod yn Archoffeiriad y daionus bethau a fyddent, trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hyny yw, nid o'r adeiladaeth yma;

---

bwydydd, etc., yn gyfosodol (*in apposition*) i rhoddion ac aberthau. Ac felly perthynant i'r un dosbarth. Hollol analluog oedd y gwasanaeth, gan hyny, oblegid ei natur i wneyd lles i eneidiau yr addolwyr. (2) **Ei amcan.—Wedi eu gosod hyd amser y diwygiad.**—Heblaw fod natur y gwasanaeth yn gyfryw nad allai berffeithio cydwybod dangosir nad amcanwyd ef i hyny. Peth dros amser ydoedd i ddangos pethau gwell. Cysgod oedd ef hyd nes y delai y sylwedd. Amser y diwygiad oedd amser ymddangosiad Crist, sylwedd mawr yr holl gysgodau. Beichiai y gwasanaeth yr addolwyr yn fwy na dim arall.

II. Y tabernacl ysbrydol, a'i archoffeiriad (11-28).—(1) **Ei archoffeiriad** (11).—**Eithr Crist wedi dyfod yn archoffeiriad y daionus bethau i ddyfod.**—Crist, person dwyfol-ddynol, yw archoffeiriad y tabernacl ysbrydol. Daeth yn archoffeiriad trwy y pethau a'i perffeithiodd; ac erys mwy yn archoffeiriad anfeidrol " y daionus bethau i ddyfod." Pa bethau? (1) Pethau oedd wedi dyfod eisioes yw un syniad; (2) pethau dyfodol yr efengyl ar y ddaear yw barn y mwyafrif; (3) pethau fwynheir yn y nef yw syniad rhai; (4) pethau dyfodol yr efengyl ar y ddaear ac yn y nef. Hwn yw y syniad llawnaf a chywiraf yn ddiau. (2) **Y tabernacl.—Trwy y babell fwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hyny yw, nid o'r greadigaeth hon, na chwaith trwy waed geifr a lloi.**—Gwahaniaetha esbonwyr yn ddirfawr ar beth olygir wrth "babell" yn yr adnod hon. Y prif syniadau yw y rhai canlynol. (1) Corph Crist. Eithr hollol annaturiol yw dyweyd fod corph Crist yn fwy na'r tabernacl yn yr anialwch. Ni fuasai y fath beth yn iawn nac yn rhesymol. Hefyd, nid drwy ei gorph yr aeth Crist i'r nef, ond yn ei gorph. (2) Sancteiddrwydd bywyd Crist ar y ddaear. Ni allwn weled yr un rheswm o werth dros hwn yn holl gysylltiadau yr adnod. (3) Yr eglwys ar y ddaear. I'r syniad hwn eto nid oes sail. (4) Yr eglwys yn y nef. (5) Yr eglwys yn y nef ac ar y ddaear yn un corph. Ni allwn ganfod rheswm digonol dros y naill na'r llall o'r rhai hyn. (6) Y nef serenog. Fel yr ai yr archoffeiriad drwy y cysegr sanctaidd i'r cysegr sancteiddiolaf, felly yr aeth Crist trwy y nef serenog i nef y gogoniant. Dychymygol hollol yw hwn eto. (7) Nef y gogoniant ei hun. Ymddengys i ni mai dyma'r unig syniad cydweddol a rheswm ac a dysgeid

12 Nid chwaith trwy waed geifr a lloi, eithr trwy ei waed

---

iaeth yr Epistol. Wedi myned i'r nef yr oedd gan Grist i fyned trwy lawer o leoedd yn ddiau cyn cyrhaedd ymyl Duw lle y gweinydda ei swydd. Trig Duw mewn goleuni na all y meidrol ddyfod ato. Darfu i'r Iesu fyned i'r lle hwn; ac wrth fyned rhaid oedd teithio trwy bob rhan o'r nef. Cadarnhâ adn. 24 y syniad hwn. Yno dywedir nad i'r cysegr o waith llaw yr aeth Crist i mewn, ond i'r nef ei hun. Yn yr adnod hon dywedir hefyd fod y babell fwy a pherffeithiach yn un nid o waith llaw. Nid un nef sydd yn y byd ysbrydol. Diau fod pob gradd o fodau sanctaidd a'u nef ganddynt. Aeth Crist drwy y rhai hyn oll i'r presenoldeb dwyfol, a gelwir yr oll yr aeth drwyddynt yn babell fwy a pherffeithiach. Paham y gelwir hi yn berffeithiach? Am mai Duw oedd ei hawdwr. Gwaith ei ddwylaw ef oedd pob nef yr aeth Crist drwyddynt. Gwaith dwylaw dynion oedd tabernacl yr anialwch; gwaith dwylaw Duw oedd y Tabernacl nefol. Nid un "o'r greadigaeth"— τῆς κτισεως —hon oedd y tabernacl nefol; hyny yw, nid oedd dim materol o'i gwmpas. Creadigaeth ddylai y gair "adeiladaeth" fod yma. A hyny eto yn erbyn y syniad mai corph Crist oedd y Tabernacl. Peth o'r greadigaeth hon oedd ei gorph ef fel pob corph materol arall. Nid peth materol oedd y tabernacl mwy a pherffeithiach. Yr oedd y nefoedd yr aeth Crist drwyddi i nef y gogoniant yn annhraethol fwy na'r tabernacl daearol, ac yn berffeithiach, am fel y sylwyd, mai gwaith uniongyrchol Duw ydoedd. Gan hyny yr oedd y tabernacl nefol yn berffaith am ei fod yn waith Duw perffaith, ac nid gwaith dynion ammherffatih. Parhâ y tabernacl hwn byth; ond peth dros amser oedd tabernacl yr anialwch. Dygir allan bedwar o bethau am y tabernacl nefol yn yr adnod, sef (1) ei eangder, (2) ei berffeithrwydd, (3) ei wneuthuriad—gwaith Duw oedd ef gan nad oedd o'r greadigaeth hon, (4) ei natur—un o'r greadigaeth ysbrydol ydoedd ac nid o'r greadigaeth faterol. Eto, dengys yr awdwr nad dim o'r greadigaeth hon oedd ei aberth. "Na chwaith trwy waed geifr a lloi," meddai. Gesyd y C.D. y frawddeg hon gyda adn. 11, ac nid gyda adn. 12, fel y C.A., a dyna sydd yn iawn. Rhaid oedd i'r archoffeiriad Iuddewig fyned a gwaed bwch gafr perffaith gwbl dros y bobl i'r cysegr sancteiddiolaf, a gwaed bustach ieuanc neu lo drosto ei hun. Rhoddir y lluosog yma am y gwneid hyny bob blwyddyn. Nid oedd dim materol yn aberth Crist mwy na'r tabernacl. (3) **Aberth yr**

ei hun, a aeth unwaith i mewn i'r cysegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhâd.

---

archoffeiriad (12-14).—(a) **Yr aberth** (12).—**Eithr trwy ei waed ei hun.**—Wrth "ei waed ei hun" y golygir ei fywyd ei hun. Elai yr archoffeiriaid Iuddewig a gwaed creaduriaid direswm i'r cysegr sancteiddiolaf. Yr oedd y creaduriaid hyn yn israddol i ddyn. Nid felly y gwnaeth Crist: aeth ef i'r nef a'i fywyd ei hun. Ni ddylid rhoddi ystyriaeth i'r syniad anianol iddo gasglu y gwaed naturiol a gollodd yng nghyd a'i gyflwyno yn y nef. Pell yw hyn o syniad yr awdwr. Aeth Crist i'r nef yn ei natur ddynol, yr hon ddioddefodd ac a gollodd ei gwaed, a chyflwynodd ei hun gerbron y Tad yn aberth anfeidrol dros bechaduriaid. Nid gyda gwaed yr aeth ef i'r nef ond trwy waed, sef trwy farw a cholli ei waed wrth hyny. (b) **Dylanwad yr aberth ar Dduw.—A aeth unwaith am byth i mewn i'r lle sanctaidd, wedi cael tragywyddol ryddhâd.**—Eto, unwaith yr aeth ef i fewn ac nid bob blwyddyn. Paham y pwysleisir "unwaith am byth"? I ddangos nad oedd eisieu rhagor. Gan i Grist fyned i'r nef trwy ei waed ei hun, sef trwy farw, nid oedd eisieu ail adroddiad o'i fynediad i'r lle sanctaidd. Ni fuasai mwy o werth moesol mewn marw ganwaith na marw unwaith. Yr oedd gwerth anfeidrol yn y marw unwaith, ac ni all dim fod yn fwy nag anfeidrol. Unwaith oedd eisieu i foddloni Duw ar ran pechaduriaid, am fod yr aberth yn anfeidrol a'r un mwyaf allasai y Mab ei roddi. Rhaid oedd i'r archoffeiriaid Iuddewig fyned i'r cysegr sancteiddiolaf yn flynyddol; am nad oedd gwerth moesol yn eu haberthau. Nid oedd gwerth moesol meidrol ynddynt heb son am anfeidrol. Heblaw boddloni Duw ar ran dynion cafodd Crist dragywyddol ryddhad i ddynion. Wedi cael y rhyddhad hwn yr aeth Crist i fewn medd yr awdwr. Ystyr *εὑράμενος*— wedi cael—yw wedi cael gafael mewn peth, wedi dyfod o hyd i rywbeth, wedi cael peth i'w law ei hun. Pa bryd y cafodd Crist ryddhad tragywyddol dynion? Ai cyn neu wedi myned i'r nef? (1) Wedi myned yno yw y syniad a gymeradwyir gan lawer am mai wedi cyflwyno'r aberth y cai yr archoffeiriad Iuddewig ryddhad y bobl. Eithr ni ddylid gwasgu hyn yn rhy bell. Cymerai y rhyddhad gwirioneddol le yn yr ysbryd y byddai yr archoffeiriad ynddo wrth ladd yr aberth. (2) Pan roddodd ei hun yn iawn anfeidrol yn ei farwolaeth y cafodd Crist ryddhad y cadwedigion. Ystyr "ryddhad"—*λύτρωσις*—yw rhyddhad trwy daliad pridwerth gwaredi-

13 Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd;
14 Pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Ysbryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i

---

gaeth neu brynedigaeth. Talu y byddid ar y cyntaf am ryddhad dynion. Yna daeth yn arferiad i ryddhau trwy aberth. Rhyddhad trwy aberth oedd yr un gafodd Crist i'w bobl, a hwnw yn rhyddhad tragywyddol ac nid blynyddol. Amserol oedd pob peth yr archoffeiriadaeth Iuddewig yn ei heffeithiau, tragywyddol yw pob peth archoffeiriadaeth Crist yn ei dylanwadau a'i heffeithiau. (c) **Effaith yr aberth ar ddynon** (13-14). —(1) **Oblegid ei fawredd** (13-14).—**Canys os ydyw gwaed geifr a theirw, a lludw aner yn taenellu y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i lanhâd y cnawd; pa faint mwy y bydd i waed Crist.**—I arwain at fawredd yr aberth fel rheswm dros ei effaith ar ddynion, dengys yr awdwr fod gwaed geifr a theirw a lludw aner yn sancteiddio i lanhad y cnawd. Cyfeiriad sydd yma at Ddydd Mawr y Cymod pan ai yr archoffeiriad a gwaed tarw, sef bustach gwryw perffaith gwbl i'r cysegr sancteiddiolaf drosto ei hun, a gwaed bwch gafr dros y bobl. Darpariaeth oedd lludw aner ar gyfer halogrwydd neillduol, sef pan gyffyrddai dyn a chorph marw. (Gwel Num. xix.) Wedi cyffwrdd a chorph ni allai y dyn (1) gymysgu a dynion, (2) na myned i gynulleidfa'r Arglwydd hyd nes cael ei lanhau a lludw aner. Llosgid aner er mwyn cael ei lludw, a chymysgid coed cedr, isop ac ysgarlad a'r llosgfa; cedwid y lludw mewn lle glan tuallan i'r gwersyll; taenellid ef ar yr halogedig ar ol ei gymysgu a dwfr glan rhedegog, a'r offeiriad oedd i wneyd hyn. Os esgeulusid gwneyd, cospid yr halogedig a marwolaeth. Glendid y cnawd oedd effaith hyn fel taenelliad y gwaed ar y drugareddfa ar Ddydd y Cymod. Ni chyffyrddid a chydwybod y bobl yn yr oll. Eithr nid felly am waed Crist: gwna ei fawredd ef beri iddo gyrhaedd ym mhellach na'r cnawd. Ei fywyd anfeidrol yw ei waed fel y sylwyd. Gwaed person rhesymol ydyw hwn a pherson perffaith bur, person anfeidrol-feidrol, a dwyfol-ddynol. Gan iddo roddi ei fywyd yn aberth rhaid fod ei effaith ar ddynion yn annhraethol fwy na'r aberthau anifeilaidd, direswm a diewyllys dan yr Hen Oruchwyliaeth. (2) **Oblegid ei ysbryd** (14).—**Yr hwn trwy yr Ysbryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw.**—Nid aberth anwirfoddol oedd hwn, ond un llawn o wirfoddol-

Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw?

15 Ac am hyny y mae efe yn Gyfryngwr y cyfamod newydd, megis trwy fod marwolaeth yn ymwared oddi-

---

rwydd anfeidrol. Un trwy Ysbryd tragywyddol oedd ef. Pa ysbryd? (1) Nid yr Ysbryd Glan fel y synia llawer, ond (2) Ysbryd Crist ei hun. Nid oes fanod o flaen y gair ysbryd yma, ac ä hyny ym mhell i brofi mai y syniad olaf yw yr un cywir. (Gwel Traethawd). Y pwynt wasga yr awdwr yw gwirfoddolrwydd Crist yn y weithred o farw. Yr oedd ei holl ysbryd anfeidrol yn y weithred, ac o ganlyniad yr oedd gwerth moesol anfeidrol yn ei hunan-aberthiad. Gwnaeth yr Ysbryd hwn ei aberth i Dduw yn ddifai foesol. Byddai yn rhaid i'r aberthau Iuddewig fod yn ddifai naturiol. Rhaid oedd i aberth Crist fod felly yn foesol i fod yn gymeradwy. (d) **Natur yr effaith** (14).—**Lanhau eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw.**—Dangoswyd y rhesymau paham y mae aberth Crist mor effeithiol yn y ddau bwynt diweddaf; yma dangosir natur yr effaith. Glanhau y gydwybod yw yr effaith. Cyfyd hyn ni i dir uwch ar unwaith na'r aberthau Iuddewig. Y mae yr effaith yn foesol yn ei natur, ac nid yn gnawdol. Byddai pechodau, sef y gweithredoedd meirwon a nodir yma, yn faich ar gydwybod dynion dan yr Hen Oruchwyliaeth er yr holl aberthu, am nad allai yr aberthau symud ei heuogrwydd i ffwrdd. Rhoddent esmwythad i ddyn am halogrwydd allanol, cnawdol, ond dim gyda golwg ar ei halogrwydd moesol. Ond gan fod Crist wedi llwyr foddloni Duw ar ran dynion, a chael iddynt dragywyddol ryddhad, caiff pawb a gredant ynddo lanhad neu heddwch cydwybod. Rhagora effaith ei aberth, gan hyny, yn anfeidrol ar yr aberthau Iuddewig. Eto, gwna ei aberth effeithio mwy nag esmwythau a glanhau cydwybod. Cyfyd ddyn i wasanaethu y "Duw byw." Dyma lle y datguddir gwir natur foesol yr effaith gynyrcha aberth Crist. Nid glanhau y gydwybod i fod yn segur a wna; ond ei glanhau i waith. Hefyd, y mae y gwaith yn un cymeradwy gan Dduw. Ni allai gwaith yr archoffeir iad gynt fod yn gymeradwy heb fod ei aberth yn wirfoddol a difai ne lan. Felly yma: rhaid cael cydwybod lan yn gyntaf, yna bydd y gwasanaeth wrth fodd Duw. Dywedir ei fod yn Dduw byw i ddangos ei fod yn gwylio ar bob peth. (4) **Cyfryngwriaeth yr archoffeiriad** (15·22).—(a) **Natur ei gyfryngdod** (15).—**Ac oherwydd hyn y mae efe yn**

wrth y troseddau oedd dan y cyfamod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol.

---

gyfryngwr cyfamod newydd.—Myn rhai fod "Ac oherwydd hyn" yn cyfeirio ym mlaen ac nid yn ol. Eithr mwy naturiol eu cymeryd yn cyfeirio at yr ymresymiad blaenorol. Dyna wna yr ymresymiad yn naturiol. Am ei fod wedi aberthu ei hun yn yr ystyr a nodwyd y mae yn wir gyfryngwr. Heb hyny cyfryngwr mewn enw fuasai ef. Pa fodd y gallasai fod yn gyfryngwr heb roddi ei hun yn aberth yn gyntaf? Ymddengys i ni fod y fath beth yn ammhosibl. Ei aberth roddodd werth moesol ac ystyr ysbrydol i'w gyfryngwriaeth. Natur ei gyfryngdod yw cyfamod newydd. Beth olygir wrth hyny? Nid cyfamod newydd o ran amser yn unig, ond o ran natur hefyd. Cyfamod yw hwn a gynwysa achub dynion i fywyd tragywyddol, ac nid un i'w harbed am flwyddyn. Gwelir hyn yn eglur wrth ran olaf yr adnod. Yr hyn wnaeth Crist trwy aberthu ei hun wnaeth y cyfamod yn sylweddol. Un o amodau y cyfamod oedd iddo aberthu ei hun i farwolaeth. Heb hyny ni allai Duw osod ei gyfreithiau ym meddwl y bobl a maddeu eu pechodau. (b) **Canlyniad ei gyfryngdod.**— (1) **Rhyddhad moesol.—Fel wedi i farwolaeth gymeryd lle er rhyddhau oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfamod cyntaf.**—Marwolaeth pwy y cyfeirir ati? Marwolaeth Crist yn ddiau. Ei farwolaeth ef oedd sail rhyddhad y ffyddloniaid dan yr Hen Oruchwyliaeth. Cyrhaeddai ei rhinwedd yn ol ac ym mlaen. Nid aberthau yr Hen Oruchwyliaeth oedd sail maddeuant duwiolion dan y cyfamod newydd, ond aberth Crist. Diau fod holl dduwiolion yr Hen Oruchwyliaeth o flaen meddwl yr awdwr, ac nid y Cristionogion Hebreaidd cyn iddynt dderbyn Crist, fel y cred rhai. Amcan marwolaeth yr Iesu oedd rhyddhau oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfamod cyntaf; hyny yw pechodau. Yr un yw pechodau dan y cyfamod newydd, a bu ef farw i ryddhau oddiwrth bechodau o bob natur. (2) **Etifeddiaeth dragywyddol.—Y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol.**—Dylanwad cyntaf ei farwolaeth oedd rhyddhad moesol. Yr ail yw derbyniad o addewid yr etifeddiaeth dragywyddol. Yr etifeddiaeth dragywyddol yw yr addewid. Beth yw yr etifeddiaeth hon? (1) Nefoedd medd rhai; (2) gwell genym gredu mai yr hyn ddaw i'r credadyn wrth gredu yw hi, a'r holl fendithion sydd yn ei chol. Y mae y bywyd gaiff y credadyn wrth dderbyn Crist yn dragywyddol yn ei natur. Trwy ddylanwad cyfryng-

16 Oblegyd lle byddo testament, rhaid yw digwydo marwolaeth y testamentwr.
17 Canys wedi marw dynion y mae testament mewn grym ; oblegyd nid oes eto nerth ynddo tra fyddo y testamentwr yn fyw.

---

dod y Mab y ceir y bywyd hwn fel y rhyddhad oddiwrth bechodau. Caiff pawb a alwyd y fendith hon, sef pawb a alwyd ym mwriad Duw. Gelwir y rhai hyny oll mewn amser yn effeithiol. Cymer y geiriau i fewn bawb duwiolion. (5) **Ewyllys yr archoffeiriad** (16-22).—(a) **Amod grym ei ewyllys** (16-17).—**Canys lle y mae testament, rhaid o angenrheidrwydd fod marwolaeth yr hwn a'i gwnaeth. Canys lle y bu marwolaeth y mae testament mewn grym.**—Adnodau rhyfeddol o anhawdd i ddeall eu cysylltiadau a'u hystyr yw y rhai hyn. Achos yr anhawsder yw y gair διαθήκη (*diatheke*) a gyfieithir yma yn "testament." Ni wnawn fyned at y rhesymau gyda golwg ar ei wir ystyr yn awr, gan y gwnawn hyny yn y traethawd ar ddiwedd y benod. Wedi pwyso yr oll, rhaid i ni ddyfod i'r casgliad mai trefniant fel ewyllys yw ei feddwl yma, ac nid cytundeb rhwng pleidiau neu gyfamod. Peth perthynol i un yw ewyllys; hyny yw, un a'i gwna hi; ond peth perthynol i bleidiau yw cyfamod. Ewyllys Crist yw ystyr y gair yma, a'i farwolaeth yw amod ei nerth neu ei grym. Nid oes nerth mewn ewyllys tra fyddo ei hawdwr yn fyw, am mai trefniant yw hi ar ei feddiannau ar ol iddo farw. Tra fyddo ef yn fyw gall ei difodi neu ei newid. Dibyna ei grym ar gyflwr meddwl ei hawdwr. Eithr wedi iddo farw, daw hi i rym ac ni ellir ei newid ar dir cyfraith os bydd wedi ei gwneyd yn iawn. Felly am farwolaeth Crist : rhoddodd rym i'w ewyllys. Ei ewyllys oedd gwneyd trefn i achub dynion, ond nid oedd grym ynddi nes iddo roddi ei hun yn aberth anfeidrol trwy farw. Dyma effeithiodd y prynedigaeth a nodir yn yr adnod flaenorol. Codai y rheidrwydd am i Grist farw o natur pethau. Ei ewyllys ef oedd prynu dynion; ond ni allasai Duw roddi dynion yn rhydd heb i'r Mab farw yn iawn drostynt. Safai ei gyfiawnder anfeidrol ar ei ffordd. Wedi iddo farw daeth yr ewyllys i rym. (b) **Amod budd ei ewyllys** (17).—**Oblegid a ydyw un amser yn llesau tra y mae yr hwn a'i gwnaeth yn byw.**—Yn gyntaf, marwolaeth ddygodd yr ewyllys i rym; ac yn ail, hi a'i gwnaeth yn bosibl i'r ewyllys fod o fudd sylweddol i ddynion. Marwolaeth ewyllysiwr ddaw a'r egwyddor

18 O ba achos ni chysegrwyd y cyntaf heb waed.
19 Canys wedi i Moses adrodd yr holl orchymyn yn ol y gyfraith wrth y bobl, efe a gymerodd waed lloi a geifr, gyda dwfr, a gwlan porphor, ac isop, ac a'i taenellodd ar y llyfr a'r bobl oll,

---

o rym iddi; a'i farwolaeth hefyd rydd hawl i'r etifeddion i ddefnyddio yr etifeddiaeth er lles iddynt eu hunain. Gwnaeth marwolaeth Crist y ddau beth hyn. O dir egwyddor rhoddodd rym yn ei ewyllys, a gwnaeth hi yn bosibl i'w holl gynwys anfeidrol i gael ei ranu i'r etifeddion er eu lles ysbrydol. (6) **Yr aberthau cysgodol a'i ewyllys** (18-22).—**Oherwydd paham ni chysegrwyd hyd yn oed y cyfamod cyntaf heb waed. Canys wedi i Moses adrodd pob gorchymyn yn ol y gyfraith wrth yr holl bobl, efe a gymerodd waed y lloi a'r geifr, gyda dwfr a gwlan ysgarlad ac isop, ac a daenellodd y llyfr ei hun, yng nghyd a'r holl bobl, gan ddywedyd, Hwn yw gwaed y cyfamod a orchymynodd Duw tuag atoch chwi. Y babell hefyd a holl lestri y gwasanaeth a daenellodd efe a'r gwaed yr un modd. Ac yn ol y gyfraith, gallaf agos ddywedyd, a gwaed y glanheir pob peth, ac ar wahan oddiwrth dywallt gwaed nid oes maddeuant.**—Myn rhai gysylltu y geiriau "Oherwydd paham" ag adn. 15, a gosod adn. 16-17 yn gromfachol; eithr nid oes sail gystrawenol i hyny yma. Gwell genym eu cysylltu yn union-gyrchol ag adn. 16-17. Y cysylltiad yw hwn: am fod marwolaeth yn hanfodol angenrheidiol i faddeuant ni chysegrwyd y cyfamod cyntaf heb waed. I fod yn wir gysgod o Grist, rhaid oedd i drefniant y cyfamod cyntaf gynwys marwolaeth. Gan hyny, dangosai yr aberthau cysgodol fod marwolaeth yn angenrheidiol i roddi grym a lles moesol yn ewyllys Crist i ddynion. Y rheidrwydd hwn roddodd fod i'r aberthau cysgodol. Dysgai Duw y genedl trwy ofyn marwolaeth a gwaed yr aberthau, fod yn rhaid i'r Messiah farw cyn y deuai cyfoeth ei ewyllys i ddynion. Nid yw y gair "cyfamod" yn y gwreiddiol yn adn. 18. I osod yr ystyr yn eglur y rhoddodd cyfieithwyr y C.D. ef i fewn. Nid yw yn y C.A. fel y gwelir. Wedi dangos fod yn rhaid cael gwaed yn y cyfamod cyntaf, a yr awdwr ym mlaen i roddi hanes Moses yn cysegru y tabernacl cyntaf a'i lestri a gwaed. (Gwel Exod. xxiv. 5-6, xxix. 12-36; Lef. viii. 15, xvi. 14, 15, 16, 18, a xvii. 11). Y mae cryn wahaniaeth rhwng desgrifiad yr awdwr yma a'r hyn geir yn Exodus a Lefiticus, a phar hyny i ni ofyn pa le y cafodd ef yr hanes? (1) Cred rhai mai

20 Gan dywedyd, Hwn yw gwaed y testament a orchymynodd Duw i chwi.

---

trwy draddodiad fodolai ym mysg y genedl y cafodd ef; (2) ereill a dybiant mai mewn llyfr oedd yn bodoli yn ei adeg ef ond a gollwyd ar ol hyny. Tybiaethau dychymygol yw y rhai hyn a hollol ddisail hanesyddol, er fod yn bosibl iddynt fod yn wir. (3) Nid oedd yr awdwr yn gofalu am roddi y manylion fel eu ceid yn y Beibl, ond gofalai am fod y sylwedd yn gywir. Hefyd, diau y cerid ym mlaen yr hyn a ddywed ef yn yr adnodau hyn yn y deml yn ei adeg ef. Moses roddodd fod i'r gyfundrefn aberthol, a dygid hi ym mlaen o oes i oes debyced ag oedd yn bosibl i'r modd y sefydlodd ef hi. Nid ffrwyth traddodiad llafaredig oedd yr hyn ddywed yr awdwr gan hyny, ond ffrwyth sylwi ar ddefodau arferedig yn ei ddydd. Pan gyhoeddwyd y cyfamod cyntaf adroddodd Moses bob gorchymyn perthynol iddo, nid fel yr oedd yn y gyfraith, fel y deil rhai, ond yn gyson a'r holl gyfraith. Diau iddo adrodd pob gair yn llythyrenol iddynt fel yr oedd yn ysgrifenedig yn y gyfraith; ond gwnaeth fwy na hyny, sef adrodd yr oll mewn cydgordiad ag ysbryd y gyfraith. Hyn oedd y parotoad ar y bobl cyn taenellu y gwaed arnynt. Gofynol oedd iddynt sylweddoli amodau y cyfamod, deall ei gynwys, dirnad ei ofynion a chanfod ei amcan cyn cydsynio ag ef. Gan hyny, eglurodd Moses ef iddynt yn fanwl yn ei holl orchymynion neillduol a chyffredinol yn unol a'r holl gyfraith. Rhan o'r holl gyfraith oedd gorchymynion y cyfamod. Wedi gwneyd hyn, cymerodd "waed y lloi a'r geifr," medd yr awdwr; eithr ni sonir am eifr yn Exodus, ac ni ddywedir dim yno am "ddwfr a gwlan, ysgarlad ac isop." Noda beth arall na cheir yn yr hanes yn Exodus, sef "y llyfr." Eithr fel y dangoswyd uchod, sicr fod yr holl bethau hyn yn y trefniant aberthol, ac edrychai yr awdwr arnynt fel pethau oeddynt oll i fewn yng nghyhoeddiad y cyfamod cyntaf. Rhaid oedd cael dwfr i'w gymysgu a'r gwaed rhag iddo sychu, a chorsen isop i gylymu y gwlan am dani i daenellu y gwaed. Y llyfr oedd y ddwy lech ar y rhai yr ysgrifenwyd y ddeddf foesol, a thaenellodd Moses y rhai hyn a gwaed oblegid eu pwysigrwydd. Yna taenellodd y bobl oll. Wedi taenellu y llyfr oedd i fod yn rheol eu bywyd, taenellodd hwythau, a hysbysodd hwy mai gwaed y cyfamod a orchymynodd Duw iddynt oedd ef. Dangosai hyn fod yn rhaid colli bywyd cyn y gallent gael bendithion y cyfamod. Eto, nid yn unig taenellodd y llyfr oedd yn rheol eu bywyd a hwythau eu hunain,

21 Y tabernacl hefyd a holl lestri gwasanaeth a daenellodd efe a gwaed yr un modd.
22 A chan mwyaf trwy waed y purir pob peth wrth y gyfraith ; ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.

---

ond taenellodd hefyd y babell a holl lestri y gwasanaeth. Wrth hyny, dangosai fod y lle yr addolent ynddo a'r llestri a ddefnyddid i hyny i fod yn gysegredig trwy waed. Hyny yw, ffrwyth bywyd oedd yr holl gysegredigrwydd i fod. Gellid meddwl wrth ddefnyddiad y fanod o flaen gwaed, mai yr un gwaed a ddefnyddiodd Moses i daenellu y tabernacl a'r llestri ag a daenellodd ar y bobl a'r llyfr. Eithr ni allasai hyny fod am fod y cyfamod wedi ei gyhoeddi yn hir cyn adeiladu'r Tabernacl. Yn adn. 22 gwna yr awdwr osodiad eang trwy ddyweyd fod bron bob peth dan y gyfraith yn cael eu puro a gwaed. Daw pethau a phersonau tufewn i'r gosodiad hwn. Darparai y gyfraith fod gwaed i'w ddefnyddio ym mhuredigaeth llestri cysegredig, a dynion. Yr oedd eithriadau i'r rheol, ond eithriadau oeddynt. Ni ofynid aberth gan rai oeddynt yn rhy dlawd; purid rhai pethau a phersonau a dwfr am ryw droseddau neillduol, ond ni wneid hyny ond dan amgylchiadau a ganiateid gan y gyfraith. Byddai lludw aner, creadur a gwaed ynddi, yn ofynol i buro dyn gyffyrddai a chorph marw. Rheol gyffredinol y gyfraith felly oedd puro trwy waed, a'r eithriadau oedd y puredigaethau heb waed. Ym mhellach, rheol ddieithriad oedd gollwng gwaed i gael maddeuant am bechodau moesol, os buasai y person yn meddu arian i brynu aberth. Tlodi gwirioneddol oedd yr unig beth wnai ei ryddhau. Yr oedd nifer o eithriadau i'r puredigaethau cnawdol; ond nid oedd i'r rhai moesol os medrai y dyn sicrhau aberth. Y maddeuant sydd o flaen meddwl yr awdwr yma yw rhyddhad y genedl am flwyddyn trwy yr aberth gyflwynai yr archoffeiriad drosti. Y gair am dano yw ἄφεσις, a golyga yn yr Hen Destament ryddhad o ddyled, rhyddhad o gaethiwed, rhyddhad ar flwyddyn y Sabbath a blwyddyn y Jubili. Bob yn ychydig daeth i olygu rhyddhad moesol o gaethiwed pechod. Siarada yr awdwr yn yr amser presenol yn yr adnod hon am fod y gyfundrefn aberthol yn bod ar y pryd yn Jerusalem, a manau ereill, ym mysg yr Iuddewon. Beth yw amcan yr awdwr yn yr adnodau hyn? Dangos y rheidrwydd am farwolaeth Crist cyn y buasai ei ewyllys yn meddu nerth a gallu i wneyd lles moesol ac ysbrydol i ddynion. Trefnwyd gwaed i buro a maddeu yn yr hen gyfamod cysgodol, am fod yn

23 Rhaid oedd gan hyny i bortreiadau y pethau sydd yn y nefoedd gael eu puro a'r pethau hyn; a'r pethau nefol eu hunain ag aberthau gwell na'r rhai hyn.

---

rhaid ei gael yn yr un newydd sylweddol. (7) **Rheidrwydd marwolaeth yr archoffeiriad** (23-28).—Wedi desgrifio amodau grym ewyllys archoffeiriad y tabernacl ysbrydol, trwy reswm a'r aberthau cysgodol, â yr awdwr ym mlaen i ddangos rheidrwydd ei farwolaeth. Dengys hyn mewn modd treiddgar a galluog iawn mewn amryw bethau. (a) **I barotoi y nef i ddynion** (23).—**Rhaid oedd gan hyny i arluniau y pethau sydd yn y nefoedd gael eu glanhau a'r pethau hyn; eithr y pethau nefol eu hunain ag aberthau gwell na'r rhai hyn.**—Elfen gyntaf y rheidrwydd i Grist farw ydoedd yr angen am barotoi y nefoedd i ddynion. Rhaid oedd puro y pethau y dywedir eu bod yn arluniau o'r pethau nefol a gwaed. Rhaid ordeiniad neu fwriad oedd hwn ac nid rhaid yn codi o natur Duw na natur dyn. Gan fod puro a gwaed yn drefniant dwyfol, rhaid oedd ei gario allan mewn ufudd-dod i'r Trefnwr. Defnyddir y lluosog yma am fod yr aberthau yn llawer. Gan hyny, priodol eu galw y "pethau hyn." Hwy yn unig oedd i buro, a rhaid oedd puro pethau a phersonau i wasanaeth Duw yn ol rheol Duw ei hun. Eithr ni wnai yr aberthau yma y tro i buro y pethau nefol. Yr un yw y "pethau sydd yn y nefoedd" a'r "pethau nefol." Rhaid cael aberthau gwell i buro y nef. A oes gwaith puro y nefoedd? A ellir dyweyd ei bod yn aflan mewn unrhyw ystyr? Ar hyn ceir lluaws o syniadau, ond ni roddwn ond y pwysicaf ohonynt. (1) Gyrodd Crist drwy farw ac esgyn i'r nef Satan allan ohoni. Syniad hollol ddisail yw hwn. (2) Aeth y nef yn aflan trwy bechod dyn. Nid oes unrhyw reswm dros hwn chwaith. (3) Troell ymadrodd sydd yma a'r hyn olygir yw puro y saint. Gwasgu esboniad annaturiol i'r geiriau yw hyn eto. (4) Gwnaeth digofaint Duw yn erbyn pechod y nefoedd yn ammhur. Syniad direswm yw hwn a dyweyd y lleiaf. Bydd digofaint ym mynwes Duw at bechod am byth, ond ni aflanha hyny y nefoedd. (5) Neillduo y nefoedd yn lle i'r duwiolion. Diau fod lle neillduol i'r etifeddion yn y nef, ac yr oedd gwaith cysegru ar hwnw, ond nid gwaith glanhau. Y mae elfen o wirionedd yn y syniad hwn a chydwedda a gwaith yr archoffeiriad Iuddewig yn cysegru y Tabernacl a'i lestri a gwaed. Nid eu glanhau na'u puro wnai ef wrth hyny, ond eu neillduo i wasanaeth dwyfol. (6) Parotoi lle i'r cadwedigion trwy foddloni Duw ag Iawn a chysegru y nef.

24 Canys nid i'r cysegr o waith llaw, portreiad y gwir gysegr, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun, i ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni:
25 Nac fel yr offrymai efe ei hun yn fynych, megys y mae

Hwn gymer yr oll i fewn. Rhaid oedd boddloni Duw cyn y gallai dynion fyned i'r nef i'w bresenoldeb, a dywed Crist ei hun ei fod ef yn myned i barotoi lle i'w ganlynwyr. Yr oedd rhyw barotoad yn angenrheidiol ar y nef ei hun yn gystal a boddloni Duw. (b) **I eiriol yn y nef dros ddynion** (24).—**Canys nid i le sanctaidd o waith llaw, o gyffelyb gynllun i'r gwir, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun, yn awr i ymddangos o flaen wyneb Duw drosom ni.**—Neu yn llythyrenol i gael ei ddangos, neu ei wneyd yn amlwg. Heb farw ni allasai Crist barotoi y nef yn y ddwy ffordd a nodwyd, ac heb farw ni fedrai eiriol dros ddynion. Marw roddai hawl iddo i ymddangos dros ddynion. Ai yr archoffeiriad Iuddewig i'r lle sanctaidd o waith llaw a wnaed ar gynllun y nef heb farw. Gwaed ei aberth roddai hawl iddo i ymddangos yno gerbron Duw. Ni feiddiai fyned tufewn i'r wahanlen heb waed drosto ei hun a thros bechodau y bobl. Ymddangosiad yr archoffeiriad yn y cymeriad hwn oedd ei eiriolaeth. Felly am Grist: aeth yntau i'r nef a'i waed ei hun, sef a'i fywyd hunan-aberthol, ac nid ei waed materol, i ymddangos gerbron Duw. Gwell genym gredu mai ymddangos yw y meddwl yma, na chael ei ddangos. Ni allwn dybio am Grist yn oddefol gerbron Duw, ond yn weithredol yn hytrach. Nid cael ei ddangos y byddai yr archoffeiriad Iuddewig, ond ymddangos. Profa fod Crist yn ymddangos yn y presenoldeb dwyfol yn y nef ei fod yn hollol gymeradwyol gan ei Dad. Golyga ymddangos gerbron Duw ei fod yn ymyl yr hanfod anfeidrol. Heb sancteiddrwydd hollol ni allai sefyll yno; a rhaid oedd iddo feddu aberth anfeidrol i fod yn gymeradwyol. Y mae ymddangos "o flaen wyneb Duw" yn cynwys dau beth —(1) ei fod yn y man agosaf posibl iddo, a (2) ei fod yn llinell union llygaid Duw. Amcan yr ymddangosiad yw cymeryd plaid dynion—"trosom ni" yr aeth i'r nef i ymddangos. Nid oes sail i'r syniad nad oes gyfeiriad at yr eiriolaeth yma. Peth cyfamserol oedd ymddangosiad yr archoffeiriad yn y cysegr sancteiddiolaf a'i eiriolaeth. Felly am Grist: eiriola dros ddynion o'r fynud y cyflwynodd ei Iawn i Dduw trwy ymddangos o flaen ei wyneb. (c) **I roddi iawn digonol dros ddynion** (25-26).—**Nac eto fel yr offrymai ei hun yn fynych; megys y**

yr archoffeiriad yn myned i mewn i'r cysegr bob blwyddyn, a gwaed arall:

26 (Oblegid yna rhaid fuasai iddo yn fynych ddioddef er dechreuad y byd); eithr yr awr hon unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd efe, i ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun.

---

mae yr archoffeiriad yn myned i mewn i'r lle sanctaidd flwyddyn ar ol blwyddyn a gwaed nid yr eiddo ei hun; pe amgen rhaid fuasai iddo fod wedi dioddef yn fynych er sylfaeniad y byd: eithr yn awr unwaith yn niwedd yr oesoedd y mae efe wedi ei amlygu i ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun.—Yn yr adnodau hyn ceir rhagoriaeth neillduol o eiddo Crist ar yr archoffeiriaid gynt. Yr oedd eu haberthau hwy yn israddol i fodau rhesymol, ac ni allent ond adgoffa pechod yn unig. Gan hyny, rhaid oedd eu hail-adrodd o flwyddyn i flwyddyn. Gan dloted yr aberthau, ni allasai yr archoffeiriaid sefyll o flaen wyneb Duw. I ymyl cysgod Duw yn unig y gallent hwy nesâu. Ar y llaw arall, yr oedd Iawn anfeidrol Crist yn gyfryw fel nad oedd eisieu iddo aberthu ei hun ond unwaith yn unig. Yr oedd ei farwolaeth a'i gyflwyniad ohono ei hun yn y nef yn ddigon am byth i Dduw a dynion. Cafodd Duw foddlonrwydd anfeidrol ynddo, a theimla dynion nad oes eisieu aberth arall dros bechod. Gwna hyn hi yn ddiangenrhaid iddo i aberthu ei hun byth mwy. Rhaid oedd i'r archoffeiriaid gynt wrth waed arall, a hwnw yn waed creaduriaid direswm; ond ei waed ei hun gyflwynodd Crist, a hwnw yn meddu haeddiant rhesymol, moesol, ysbrydol ac anfeidrol. Yr haeddiant hwn wnai ragor nag un offrymiad yn ddiangenrhaid. Onibae am dano, buasai raid i'r Iesu offrymu ei hun yn fynych, neu "ddioddef yn fynych er sylfaeniad y byd," fel y dywed adn. 26. Bodolai pechod oddiar y dyn cyntaf, ac onibae rhagoriaeth aberth Crist ar y rhai Iuddewig, rhaid fuasai iddo farw yn fynych, os nad bob blwyddyn. Gallwn dybio y gelwid arno i farw yn ystod bywyd pob cenedlaeth beth bynag, ac ym mysg pob cenedl. Ond gan fod ei aberth yn anfeidrol yn ei haeddiant, y mae ei rinwedd yn cyrhaedd yn ol i ddechreuad y byd, ac ym mlaen i ddiwedd amser; y mae cyn lleted a'r holl ddynoliaeth, ac yn ddyfnach na'r pechod mwyaf. Felly nid oes eisieu iddo farw yn fynych, oblegid pechodau y gorphenol na'r dyfodol. Oblegid anfeidroldeb yr Iawn, unwaith yn "niwedd yr oesoedd y mae efe wedi ei amlygu." Dechreu cyfnod yr efengyl yw diwedd yr oesoedd.

27 Ac megys y gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn:

Cyfnod yr Hen Oruchwyliaeth oedd yr oesoedd, ac edrycha yr awdwr arno yn terfynu yn ymddangosiad Crist. Yr ymgnawdoliad sydd i'w ddeall wrth yr adeg yr amlygwyd Crist yma, ac nid ei ymddangosiad gerbron y Tad ar ei esgyniad. Hyd yr ymgnawdoliad y cyrhaeddai yr oesau—*αἰώνων*—sef oesau amser, ac nid oesau y byd materol—*κόσμος*. Y rhai hyn oedd yr hen oesau, a chychwynodd yr oesau newydd gyda'r ymgnawdoliad. Yn yr ymgnawdoliad amlygwyd Crist yn berson dwyfol-ddynol hanesyddol yn y byd. Amcan yr ymddangosiad oedd dileu pechod dynion trwy roddi Iawn anfeidrol i Dduw. Gofala yr awdwr ddyweyd mai efe ei hun yw yr Iawn. Efe ei hun yn ei berson anfeidrol yw yr aberth, a'r aberth hwn ddilea bechod. Nid ydym i feddwl y difoda bechod o bawb dynion yn gyffredinol, ond bawb a gredant ynddo. Medd ei Iawn ddigon o bosibilrwydd i ddileu pechod ym mhawb a fu, y sydd, ac a ddaw, pe credent ynddo. Nid ar faint haeddiant yr aberth y mae y bai, ond ar ddynion am beidio cyfranogi ohono. (d) **I ymddangos yn y farn yn rhydd oddiwrth bechod dynion** (27-28).—**Ac yn gymaint ag y penodwyd i ddynion farw unwaith, ac ar ol hyn y mae barn yn dyfod; felly Crist hefyd, wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys yr ail waith, ar wahan oddiwrth bechod, i'r rhai sydd yn disgwyl am dano, er iachawdwriaeth.** —Dygir adn. 27 i fewn i rymusu yr ymresymiad mai unwaith y bu farw Crist. Gan hyny, y mae cyfatebiaeth rhyngddo a dynion yn hyn. Heblaw hyny, gan mai unwaith y bydd farw dynion, y mae natur pethau yn gofyn nad oes eisieu i'w Hiachawdwr farw ragor nag unwaith. Buasent feirw pe na buasai pechod. Ordeiniodd Duw i bawb farw unwaith. Eto, gwnaeth eu natur yn gyfryw fel nad allant ail fyw ar y ddaear. Un bywyd gant yma, ac os na wnant y goreu ohono, ni fydd ail gynyg. Felly am Grist: cafodd gorph oedd yn rhaid iddo farw unwaith fel pob dyn, a phe na fuasai yn llwyddo ynddo i gyflwyno Iawn digonol i Dduw ni chawsai ail fyw i wella ar ei fywyd cyntaf. Yr oedd ef yn ddarostyngedig i'r un deddfau anianyddol a phawb dynion yn y mater o farw. Wedi marw, yr amgylchiad pwysig cyntaf yn hanes dynion yw barn. Diau y byddant yn ymwybodol rhwng marw a'r farn, ac yn yr un cyflwr ac y byddant byth. Yn niwedd y byd cymer y farn gyffredinol ar bawb le pryd y chwilir holl ddirgeloedd dynion. Aeth

28 Felly Crist hefyd, wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys yr ail waith, heb bechod, i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl, er iachawdwriaeth.

Crist trwy yr oll yr å dynion drwyddo yng nglyn a marw. Bu farw yn wirioneddol; bu yn y bedd; adgyfododd, bu dan farn ei Dad. Ond beth yw gwir amcan adn. 27? Hyn : mai marwolaeth dynion unwaith, a'r farn arnynt ar ol hyny yw y rheswm am farwolaeth Crist unwaith. Pe na fuasai dynion yn marw ac yn myned dan farn, ni fuasai eisieu i Grist farw drostynt. Dengys adn. 28 gywirdeb y syniad hwn. Amcan Crist yn "ei offrymu ei hun unwaith," oedd "dwyn pechodau llawer." Edrychir yma ar bechod fel baich. Cymerodd Crist ef arno ei hun am fod yn rhaid i ddynion farw unwaith. Onibae hyny, ni fuasai eisieu iddo gymeryd y baich. Gwelai fod yn rhaid iddynt ymddangos yn y farn a'r baich arnynt. Gellir edrych ar offrymiad Crist dros bechodau o dri safbwynt. (1) Ei waith yn offrymu ei hun. Rhaid fod ei ewyllys yn ei llawn nerth yn ei aberth cyn y buasai yn gymeradwy. (2) Yn cael ei offrymu gan ddynion er na wyddent hwy hyny. Deil rhai mai dyma syniad yr adnod gan fod y ferf προσενεχθεὶς — "wedi ei offrymu"—yn y modd goddefol ac nid gweithredol. Edrych yr awdwr arno yn cael ei offrymu gan rywun neu rywrai sydd sicr. Ond peth annaturiol fyddai tybio yr edrychai yr awdwr ar leiddiaid Crist yn ei offrymu. (3) Gwell genym gredu mai edrych ar y Tad yn offrymu y Mab wna ef yn debyg fel yr offrymodd Abraham, Isaac. Amcan y Tad yn gwneyd hyny oedd er mwyn i Grist ddwyn pechodau llawer. Y marw yma alluoga y Mab i ymddangos yr ail waith heb bechod. Pa adeg y cyfeirir ati yma? Dydd y farn, sef yr adeg y bydd raid i ddynion ymddangos. Beth olygir wrth ei fod yn ymddangos heb bechod? Gwahaniaetha esbonwyr ar hwn. (1) Heb bechod iddo offrymu ei hun eto ar y ddaear o'i herwydd medd amryw; (2) ereill heb bechod i ofalu dim yn ei gylch; (3) heb bechod i ddyfod i gyffyrddiad ag ef; (4) heb bechod i'w gospi; (5) heb bechod i'w gyfarfod, ac (6) heb bechod yn faich arno. Hwn yw y meddwl cyson a dwyn pechod fel baich yn y frawddeg flaenorol. Bydd ef yn rhydd tragywyddol oddiwrth faich pechod pan wel y rhai a'i disgwyliant er iachawdwriaeth ef yn nydd y farn. Golyga y ferf a gyfieithir yn "sydd yn ei ddisgwyl," disgwyl yn aiddgar, yn ddwys a pharhaus. Cyfeiriad sydd yma at ddisgwyliad y bobl am ddyfodiad yr archoffeiriad allan o'r cysegr sancteiddiolaf.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Astudier adeiladaeth a gwahanol ranau y Tabernacl.
Efryder ar lestri y Tabernacl a'i ddodrefn, yn arbenig yr Arch.
Casgler rhestr o'r aberthau yn eu trefn a'r golchiadau.
Meddylier am amcan eithaf yr aberthau a'r defodau cnawdol.
Olrheinier ystyron y gair "cyfamod" yn yr Epistol.
Gwahaniaether rhwng gorchymyn a chyfraith yn y benod hon.
Casgler y ffeithiau am roddiad y cyfamod cyntaf i'r genedl.
Dangoser ystyron y gair "byd" ac "oesoedd" yn y benod.
Astudier hanfod gwerth aberth Crist a'i rinweddau.
Meddylier ar hanfod rhagoriaethau Crist fel archoffeiriad.

III. Traethodau.

(1) Aberth anfeidrol yr Ysbryd Tragywyddol (14).

I. Pwy yw yr Ysbryd Tragywyddol.—Yr hen esboniad oedd mai yr Ysbryd Glan ydoedd. Gweithredai yr Ysbryd Glan yng nghenedliad y Mab, yn ei ddadblygiad, yn ei ymdrech a'r diafol, yn ei ddioddefiadau, yn ei weinidogaeth, ac yn ddiau yn ei farwolaeth. Eithr fel y dangoswyd yn y nodiadau, nid oes fanod o flaen "Ysbryd" yn y gwreiddiol, ac ä hyny yn erbyn y syniad mai yr Ysbryd Glan feddylir. Hefyd, ni fuasai yr awdwr yn cyrhaedd ei amcan wrth ddyweyd mai yr Ysbryd Glan gynorthwyodd yr Iesu i aberthu ei hun. Pwysleisio rhagoriaeth aberth Crist ar yr aberthau Iuddewig a wna ef, a'i ragoriaeth yw iddo aberthu ei hun yn nerth gwirfoddolrwydd ei Ysbryd Tragywyddol, ysbryd benderfynodd er tragywyddoldeb i roddi ei hun dros bechaduriaid. Ysbryd Crist ei hun, gan hyny, yw yr Ysbryd Tragywyddol. Cymhwyswyd ef i'r swydd trwy nerth bywyd annherfynol; aberthodd ei hun trwy ei Ysbryd Tragywyddol.

II. Un diddechreu a diddiwedd yw Ysbryd Tragywyddol.—Nid y tragywyddol didechreu yn unig gymer y gair i fewn, ond y tragywyddol diddiwedd hefyd. Dim ond y personau dwyfol sydd yn dragywyddol yn y ddau ystyr hyn. Y mae ysbryd dyn yn ddiddiwedd, ond nid yw yn

ddiddechreu. Medd dragywyddoldeb y dyfodol, ond ni fedd dragywyddoldeb y gorphenol. Meddiant Ysbryd Crist o'r ddau wnai ei aberth yn effeithiol yn ol a blaen, i gyrhaedd hyd ddechreu a diwedd amser. Bodolai y bwriad o gadw dyn trwy farw yn ei ysbryd er tragywyddoldeb, ac enillodd ei ewyllys haeddiant a rhinwedd anfeidrol wrth weithio allan ei fwriad yn llawn. Cyfranogai ef trwy wirfoddolrwydd anfeidrol a'r personau dwyfol ereill yn yr arfaethiad i achub, a'r un gwirfoddolrwydd anfeidrol roddodd ei hun ar Galfaria.

III. Un anfeidrol yw Ysbryd Tragywyddol.—Gan fod y gair tragywyddol yn golygu fod Crist yn bod er tragywyddoldeb y mae yn canlyn ei fod yn anfeidrol. Mewn geiriau ereill, y mae y tragywyddol ddechreu a diddiwedd yn rhwym o fod yn anfeidrol. Rhaid i berson fedd y briodoledd hon fod yn hunanfodol, ac ni all ond yr Anfeidrol fod yn hunanfodol. Medd person anfeidrol allu diderfyn i weithredu tufewn i gylch y da, y pur a'r sanctaidd. Gan fod Crist yn anfeidrol, medd ryddid perffaith a hollol; hyny yw, ni orfodir ef gan ddim tuallan iddo ei hun. Hunangynhyrfiol yw gweithredoedd person fel yma. Beth bynag fydd ei weithredoedd, y maent yn rhai hollol wirfoddol.

IV. Un gwirfoddol yw Ysbryd Tragywyddol.—Arweinia y sylw olaf yn yr adran flaenorol ni at wirfoddolrwydd aberth Crist. Gan fod ei Ysbryd yn anfeidrol mewn gallu gweithredol, yr oedd y weithred o aberthu ei hun yn anfeidrol wirfoddol. Pa fodd yr oedd hi yn anfeidrol? Am iddo aberthu ei hun. Yr oedd ef ei hun yn berson anfeidrol, ac o ganlyniad, rhaid fod y weithred o roddi ei hun yn anfeidrol. Canlyna oddiwrth hyn fod y gwirfoddolrwydd yn dragywyddol yn ei egwyddor. Ni allasai yr anfeidrol Fab fod yn wahanol yn ei ewyllys pan aberthodd ei hun i'r hyn oedd o dragywyddoldeb. Ffrwyth yr hyn oedd ef yn dragywyddol oedd ei aberth anfeidrol. Eto, gan fod y gwirfoddolrwydd yn dragywyddol ddiddechreu ac yn anfeidrol neu ddiderfynau, erys ei effaith yng Nghrist am dragywyddoldeb. Saif ei ewyllys byth yr un. Cyfnewidia oedran ac amgylchiadau wirfoddolrwydd meidrol yn fynych; ond ni chyfnewidia wirfoddolrwydd anfeidrol, am nad yw yn ddarostyngedig i oedran nac amgylchiadau. Beth yw gwerth gwirfoddolrwydd anfeidrol Crist? Cymaint gwerth a'i berson. Anfeidroldeb y gwirfoddolrwydd oedd hanfod anfeidrol werth ei aberth i Dduw. Faint o'r person fydd yn y weithred benderfyna ei gwerth moesol. Yr oedd Crist i gyd ynddi yn anfeidroldeb ei ysbryd; gan hyny yr oedd y weithred yr un werth ag ef ei hun.

V. Un rydd werth anfeidrol ar y meidrol yw Ysbryd Tragywyddol.—Yr oedd rhoddiad ei hun gan Grist yn cynwys mwy na rhoddi ei Dduwdod. Rhoddodd ei ddyndod hefyd. Yn herwydd undeb y Duwdod a'r dyndod ynddo, rhoddai ei wirfoddolrwydd anfeidrol werth anfeidrol ar ei natur feidrol. Ewyllysiai ei ewyllys ddynol roddi ei hun yn gystal a'i ewyllys ddwyfol. Nid gorfodaeth ar ei ddyndod oedd gwirfoddolrwydd ei Dduwdod. Cydewyllysiai y Duwdod a'r dyndod ynddo. Enaid y gwirfoddolrwydd oedd ei ysbryd tragywyddol, ond cydgordiai ei ddyndod a'r oll. Yn y cydgordiad llwyr hwn anfeidrolid gwerth gwirfoddolrwydd y meidrol. Eithr gofynol cofio nad anfeidrolwyd ei natur feidrol mewn dim yn ei hundeb a'i berson dwyfol. Erys yn feidrol am dragywyddoldeb yn ei berson.

VI. Un perffaith yw Ysbryd Tragywyddol.—Dywedir i'r Iesu aberthu ei hun yn ddifai i Dduw. Gan hyny, rhaid ei fod yn berffaith ym mhob ystyr. Yr oedd ei Dduwdod a'i ddyndod felly. Yr oedd yn berffaith yn holl elfenau cyfansoddiad ei berson. Meddai natur Duw a natur holl greadigaeth Duw. Ynddo bodolai Duwdod a dyndod perffaith yn yr holl ranau sydd ynddynt. Eto, yr oedd yn berffaith mewn graddau. Fel Duw tragywyddol, rhaid oedd iddo fod felly; ac fel Duw-ddyn perffeithiwyd ef i fod yn Iachawdwr. Nid perffeithrwydd perianyddol ydoedd hwn, ond un bywydol, ac o ganlyniad, un gweithredol. Gweithredodd ei berffeithrwydd mewn rhoddi ei hun i Dduw. Yn y rhoddiad yr oedd ei holl berson dwyfol-ddynol, ac fel ei wirfoddolrwydd a'i anfeidroldeb, y mai ei berffeithrwydd yn anfeidrol. Cynwysa berffeithrwydd anianyddol, meddyliol, moesol ac ysbrydol. Rhaid oedd cael y pedwar perffeithrwydd hyn i gyfansoddi perffeithrwydd anfeidrol ei aberth.

VII. Un foddlona Dduw yw Ysbryd Tragywyddol.—Rhaid cael Ysbryd Tragywyddol fel ag a ddesgrifiwyd i foddloni Duw anfeidrol. Boddloni Duw yw boddloni ei ewyllys mewn cyflawniad llawn ohoni. Ni all ysbryd meidrol gario allan holl ewyllys ysbryd anfeidrol. Gofynol ei deall i'w chario allan, a dim ond person anfeidrol all ei deall, yr hwn a gydfodolai a Duw yn nhragywyddoldeb. Hefyd, rhaid oedd cael nerth anfeidrol i gario allan fwriadau Duw anfeidrol. Boddlonodd rhoddiad Crist ohono ei hun y Tad yn llawn. Dyma y peth y methai yr aberthau Iuddewig a'i wneyd. Dim ond person gymaint a Duw ac yn meddu dynoliaeth berffaith yr un pryd, allasai wneyd hyny. Ni

wnai hwnw foddloni Duw ond mewn gweithred wirfoddol anfeidrol o hunan-aberth.

VIII. Un yn perffeithio yw Ysbryd Tragywyddol.—Pura hwn gydwybod medd yr awdwr. Rhaid cael ysbryd anfeidrol i berffeithio ysbryd meidrol. Paham? Am nad wyr neb arall nifer a maint ei bosibiliaethau, deddfau ei gyneddfau, a holl natur ei ddadblygiad. Ni wyr y meidrol yr oll sydd ynddo ei hun : y modd goreu i berffeithio ei hun a phosibilrwydd tragywyddol ei ddadblygiad. Gall ysbryd llai geisio perffeithio ysbryd mwy nag ef ei hun, ond ni all wneyd hyny; gall dyn geisio perffeithio ei hun trwy hunan-adnabyddiaeth, ond ni lwydda. Ysbryd wyr bob peth am ysbryd arall yn unig all ei berffeithio trwy weithio ynddo yn ol deddfau ei natur a'i buro oddiwrth ei bechod. Gall Ysbryd anfeidrol wybod yr oll am y meidrol a greodd, er iddo fod yn fawr ei bosibiliaethau a lluosog ei ddeddfau, ac o gan lyniad gall berffeithio ei holl adnoddau.

(2) **Cyfamod a Thestament** (16-17).

Adnodau barasant ac a barant drafferth neillduol i esbonwyr yr oesau yw y rhai y cysylltir y traethawd hwn a hwynt. Try y ddadl yn eu cylch ar ystyr y gair—διαθήκη (*diathékê*) cyfamod. Mynai mwyafrif esbonwyr yr oesoedd gynt mai cyfamod y dylid ei gyfieithu, ond myn mwyafrif yr oes hon mai Testament yw y cyfieithiad cywir ohono. Rhoddwn resymau y ddwy ochr yn deg fel y gallo y darllenydd weled safle y mater.

I. **Cyfamod.**—O blaid mai y syniad o gyfamod sydd yn yr adnodau rhoddir y rhesymau canlynol, a rhaid cydnabod nad ydynt yn ddisail :—(1) **Ystyr cyffredin y gair.**—(a) Yn y LXX. cyfieithir y gair Hebraeg—*Bêrîth*—yn (*diathéke*) "cyfamod" yn agos i 300 o weithiau. Nid oes ond tua phedwar o eithriadau i hyn yn yr oll o'r LXX. o'r Hen Destament. (b) Yn yr Apocrypha, sef llyfrau anghanonaidd yr Hen Destament, yr un yw yr ystyr cyffredin ag yn y LXX. (c) Dyma yr ystyr geir iddo yn y clasuron Groegaidd gydag ychydig eithriadau. (d) Ychydig eithriadau sydd yn Philo, yr Iuddew Alexandriaidd, i'r ystyr yma, er y ceir ef mewn rhai manau yn rhoddi yr ystyr o ewyllys iddo. (e) Cyfamod olyga y gair yn y Testament Newydd ym mhob man ond yma, ac feallai yn Galatiaid iii. 15. Dyma yr unig ddau fan y mae amheuaeth am ei ystyr yn holl lyfrau y Testament Newydd. (2) **Cysyllt-**

iadau y gair yn yr adnodau dan sylw.—Cyfamod yw ei ystyr yn yr holl gysylltiadau, a pheth rhyfedd fuasai i'r awdwr newid yr ystyr sydyned. Yn adn. 18, cyfamod yw ei ystyr sydd amlwg, a'r un yw ei ystyr yn adn. 15. Gan hyny, naturiolach yw rhoddi yr un ystyr iddo yn yr adnodau hyn. (3) **Yr ystyr yn yr adnodau eu hunain.**—(a) Cyfamod yw y cyfieithiad rydd yr ystyr goreu i'r gair yn yr adnodau. Nid syniad adn. 16 yw fod yn rhaid i'r cyfamodwr ei hunan farw i'r cyfamod fod mewn grym, ond fod yn rhaid i'r pech-aberth farw. Byddai aberth yn arwydd rhai cyfamodau, ac uwch ben yr aberth hwnw y byddai y cyfamod yn dyfod i rym. Yr arferiad yma barodd i Dr. Young i gyfieithu yr adnodau fel hyn :—"Canys cyfamod a sefydlir uwch ben ebyrth meirwon, gan nad oes nerth ynddo mewn un ffordd pan y mae yr aberth cyfamodol yn fyw." Eithr methwn a gweled fod yn bosibl cyfieithu *διαθημενος* — Testamentwr—yn aberth cyfamodol yma heb wneyd y cam mwyaf a'r iaith. (b) Deil ereill nad oes son yma am farwolaeth lythyrenol y testamentwr, ond ei farwolaeth gynrychioliadol yn ei aberth. Byddai y cyfamodwr yn marw yn ei aberth mewn rhyw ystyr. (c) Syniad arall yw, nad oes grym yn y cyfamod tra y byddo ei droseddwr yn fyw. Marwolaeth oedd cosp ei droseddiad ; ond tra y byddai yr hwn a'i troseddodd yn fyw, nid oedd rym yn y cyfamod. Hollol ddieithr i'r cysylltiadau yw y syniad hwn. (d) Meddwl y geiriau, medd ereill, yw mai ar sail marwolaeth yr aberth y deuai y cyfamod i rym. Felly rhaid oedd dwyn marwolaeth i mewn i rymusu y cyfamod. I'r syniad hwn nid oes rith o sail. (4) **Anwybodaeth yr Iuddewon o un ystyr arall i'r gair.**—Honir na wyddai y genedl hyd amser Herod am ystyr Rufeinig y gair, sef ewyllys neu drefniant o eiddo dyn ar ol ei farwolaeth. Pe cywir hyn, yr oedd digon o amser rhwng hyny ag ysgrifeniad yr Epistol hwn i'r syniad i ddyfod yn gyffredin ym mhlith yr Iuddewon. Dywed Ramsay :—"The Epistle to the Hebrews moves entirely in the sphere of Roman law." Os gwir hyny, gwyddai yr Iuddewon ystyr ewyllys Rufeinig, a'i bod yn gwahaniaethu oddiwrth eiddo y Groegiaid a hwythau. Ar ol marwolaeth y testamentwr y deuai yr ewyllys Rufeinig i rym, tra y deuai eiddo yr Iuddewon a'r Groegiaid i rym pan wneid hi. (5) **Safbwynt yr awdwr o edrych ar farwolaeth Crist.**—Edrych ar ei farwolaeth fel moddion i'w goroni a gogoniant ac anrhydedd wna ef, ac nid ar ei farwolaeth ynddi ei hun. Gweled y Crist fu farw wna ef yn ymddangos ger bron Duw ar sail ei farwolaeth.

II. **Testament.**—Er cryfed rhesymau yw y rhai blaenorol dros gyfieithu *diathêkê* yn gyfamod, a rhoddi yr ystyr hyn iddo, credwn fod y rhai dros ei gyfieithu yn destament, trefniant ar bethau ar ol marw, neu ewyllys, yn gryfach. (1) **Eithriadau i'r ystyr cyffredinol.**—Nid "cyfamod" yw ystyr ddieithriad y gair yn y LXX., yn yr Apocrypha, nac yn y clasuron Groegaidd. Amlwg yw y chwareua Philo rhwng y ddau ystyr yn fynych. O Plato ym mlaen "ewyllys" yw meddwl y gair yn y clasuron Groegaidd. Ceir yr un ystyr iddo yn aml yn Josephus. Gan hyny, nid yw yr ystyr o "ewyllys" yn ammhosibl, fel y deil rhai. (2) **Yr ammhosibilrwydd i roddi yr ystyr cyffredin i'r gair yn yr adnodau.**—(a) Ni chadarnheid pob cyfamod ag aberth. Dosbarth neilldnol o gyfamodau y lleddid aberth i'w grymusu ac y tyngai y pleidiau uwchben yr aberth y byddent ffyddlon i amodau y cyfamod. Hefyd, cyfamodau Duw a dynion yw y rhan fwyaf o gyfamodau yr Hen Dest. Efe wnai y cyfamodau hyn ei hunan, ac ni ellid meddwl am dano ef yn marw i osod y cyfamod mewn grym. (b) Ystyr y ferf "fod" o flaen "marwolaeth," adn. 17. Gair Rhufeinig cyfreithiol yw *φέρεσθαι*—"fod," "digwyddo" neu "ddyfod"—yn golygu "profi," sef profi marwolaeth y testamentwr. Dyna yw profi ei ewyllys mewn gwirionedd. Ni all y gair "testamentwr" yma olygu dim ond y sawl wnaeth y trefniant neu yr ewyllys. Gan hyny, rhaid dal mai marwolaeth awdwr y cyfamod amoda nerth yr ewyllys. (c) Gwasgu syniad annaturiol i'r gair "testamentwr" yw ei gyfieithu yn "aberth sydd yn cyfry.igu," yn "bechaberth," yn "aberth gosodedig" a'r "dyn wnaeth y cyfamod." Nid un dyn wnai gyfamod a gadarnheid ag aberth. Rhaid oedd cael dau i wneyd cyfamod. (d) Nid dyn wnai gyfamod a Duw, ond Duw a'i gwnai a dyn. (e) Hollol ddistaw yw yr awdwr am aberth ddirprwyol yn y cysylltiadau, sef marwolaeth y dyn yn cael ei gynrychioli yn eiddo yr aberth. (f) Pe "cyfamod" fyddai yr ystyr, ni allwn weled y byddai nerth yn ymresymiad yr awdwr. (3) **Golyga y gair "lythyr cymun" mewn rhai cysylltiadau.**—Ammhosibl oedd i'r Iuddewon fod yn anwybodus o hyn. Tybed y buasai yr Iuddewon feirw heb drefnu eu cyfoeth? Ni allwn gredu hyny. Methwn a chael un gair i osod allan y trefniant hwnw ond *diathêkê*—cyfamod. Gwelwn wrth ddarllen yr Hen Dest., Epistolau Paul a'r Epistol hwn, y rhoddid lle mawr i'r syniad o etifeddiaeth yn eu plith, ac o ganlyniad rhaid fod trefniant ganddynt ar gyfer trosglwyddo etifeddiaeth ar ol eu dydd. (4) **Y lle roddir i farwolaeth Crist fel Iawn dros bechod.**—A hyn ym mhell i brofi mai mar-

wolaeth Crist olygir wrth eiddo y testamentwr. Ei farwolaeth roddodd rym i'r cyfamod neu drefniant y Trindod i gadw dynion. Pwysleisir ar ei farwolaeth fel aberth difai yn adn. 14, 15, a'r un modd yn adn. 26. (5) Yr hyn arweiniodd feddwl yr awdwr at y gyffelybiaeth geir yn yr adnodau oedd y gair "etifeddiaeth" yn adn. 15. Rhydd hyn gyfrif am sydynrwydd symudiad yr awdwr oddiwrth yr ystyr o gyfamod i'r ystyr o ewyllys neu drefniant ar ol marw. Amod derbyn yr etifeddiaeth dragywyddol gan y rhai a alwyd, oedd marwolaeth y testamentwr. Trwy ei farwolaeth y derbyniant ei gymunrodd ef. (6) Ni ddylid meddwl fod yr awdwr yn cario y gyffelybiaeth o farwolaeth Crist i farwolaeth ewyllysiwr neu destamentwr allan yn ei holl fanylion. Mewn ystyr cyffredinol, yr enghraifft oreu allasai feddwl am dani oedd marwolaeth testamentwr : fel y deuai ei ewyllys i rym trwy ei farwolaeth, y daeth y cyfamod newydd i rym trwy farwolaeth Crist. (7) Mewn un ystyr nid cyfamodau rhwng pleidiau yw rhai Duw, ond ei drefniant ef ei hunan. Ei ewyllys yw pob cyfamod o'i eiddo. Efe rydd nerth i ddynion i gyflawni amodau ei gyfamodau. Gan hyny, ewyllys yw y brif elfen yn y syniad o gyfamod dwyfol, ac ewyllys un ac nid ewyllys dwyblaid. Ei ewyllys ef oedd rhoddi y cyfamod i Abraham a'i hâd, y cyfamod i Israel wrth eu dwyn o'r Aifft, a'r un modd am y cyfamod yng Nghrist. Gan hyny, nid oes amodau o'r ddwy ochr, a siarad yn fanwl, yng nghyfamodau Duw. Rhaid felly mai ewyllys neu drefniant yw y syniad mwyaf hanfodol ynddynt. Dim ond pan fyddo pleidiau cydradd y bydd amodau gwirioneddol i gyfamod. Pan fydd un blaid yn uwchraddol i'r llall, ni ellir dyweyd fod amodau yng ngwir ystyr y gair i gyfamod; ond pan fydd Creawdwr yn un o'r pleidiau, ei ewyllys ef yw yr oll o angenrheidrwydd. Gwelir hyn yn amlwg ym mhen. viii. Duw sydd yn gwneyd yr oll. Gan hyny, nid yw yn gywir dyweyd nad yw y syniad o drefniant neu ewyllys yn y gair cyfamod. Oblegid fod y syniad hwn ynddo, hawdd iawn oedd i'r awdwr fyned at yr ystyr gyfyng i'r gair yn yr adnodau dan sylw, sef trefniant ddeuai i rym ar ol marwolaeth. (8) Heblaw hyn, yr oedd un dosbarth o gyfamodau ym mhlith yr Iuddewon na ddeuent i rym hyd farwolaeth y prif gyfamodwr, sef yr un y pwysai y cyfamod ar ei ewyllys. (9) Yn yr Hen Destament yn y Ladinaeg, "ewyllys" yw yr ystyr roddir i'r gair *diathêkê* hyd yn oed pan olyga gyfamod rhwng pleidiau. Nid rhyfedd hyny, gan mai cyfamodau Duw gant y sylw mawr yn yr Hen Destament. (10) Y gair cyffredin am gyfamod gwir-

ioneddol ag y bydd y pleidiau yn gyfartal ynddo yw συνθήκη (*sunthêkê*) —"cyd-amod"; tra mai *diathêkê*—"cyfamod"—yw yr un ddefnyddir am fynegiant ewyllys Duw yn y ffurf o drefniant a dynion. Ymddengys i ni fod y rhesymau hyn yn gorbwyso y rhai dros gyfieithu y gair yn cyfamod, ac yn ddigonol dros ei gyfieithu yn Testament.

IV. Gofyniadau.

(1) Dangoswch gysylltiad y benod hon a'r un flaenorol, ac esboniwch adn. 1 yng ngoleuni y cysylltiad hwnw. Dadansoddwch y benod yn gyflawn.

(2) Rhoddwch ddesgrifiad llawn o'r cysegr sanctaidd a'i ddodrefn a'r cysegr sancteiddiolaf a'i ddodrefn (adn. 2-5).

(3) Desgrifiwch yn fanwl wasanaeth y ddau gysegr (adn. 6-10). Beth hysbysai yr Ysbryd Glan yn ol adn. 8.

(4) Pa bethau yng ngwasanaeth y Tabernacl a'u hanalluogai i berffeithio yr addolwyr?

(5) Eglurwch y golygiadau ar "babell fwy a pherffeithiach," adn. 11; nodwch yr un gymeradwywch gan roddi rhesymau drosto.

(6) Beth ydych yn ddeall wrth "gyfryngwr cyfamod gwell," adn. 15?

(7) Dangoswch berthynas Crist a'r cyfamod newydd yn ol adn. 16, ac eglurwch y rheidrwydd am iddo farw i roddi grym iddo yn ol adn. 16, 17.

(8) Beth olygir wrth lanhau y pethau nefol yn adn. 23? Eglurwch yn fanwl. Dangoswch amcanion Crist yn myned i'r nef.

(9) Eglurwch y syniadau geir yn y geiriau Ysbryd Tragywyddol.

(10) Rhoddwch y rhesymau dros ac yn erbyn cyfieithu *diathêkê* yn Testament yn lle cyfamod yn adn. 16, 17.

PENOD X.

ADRAN III. (Parhad). PWNC : ANALLU MOESOL YR ABERTHAU MEIDROL A GALLU MOESOL ABERTH CRIST (1-18).

I. Dadansoddiad.

I. Hanfod anallu moesol yr aberthau meidrol (adn. 1-4).

(1) *Diffyg sylwedd* (adn. 1).
(2) *Diffyg moesoldeb.*
(3) *Prawf cydwybod o'u diffyg moesol* (adn. 2).
(4) *Prawf eu hamcan o'u diffyg moesol* (adn. 3).
(5) *Prawf eu natur o'u diffyg moesol* (adn. 4).

II. Hanfod gallu moesol yr aberth anfeidrol (adn. 4-18).

(1) *Ufudd-dod anfeidrol* (adn. 5-9).
(2) *Gallu sancteiddiol yr ufudd-dod anfeidrol* (adn. 10).
(3) *Gallu i enill safle uwchraddol oedd yn yr ufudd-dod anfeidrol* (adn. 11-13).
(4) *Gallu ei ufudd-dod anfeidrol i hawlio cynorthwy anfeidrol* (adn. 13)
(5) *Gallu perffeithiol yr ufudd-dod anfeidrol* (adn. 14).
(6) *Tystiolaeth yr Ysbryd Glan i werth yr ufudd-dod anfeidrol* (adn. 15-18).

II. Eglurhad.

Cawsom ddesgrifiad manwl gan yr awdwr o'r Tabernacl daearol a'i wasanaeth a rhagoriaeth yr un ysbrydol arno yn y benod flaenorol. Yn y benod hon ceidw yr awdwr yr un mater, ond ei amcan yw dangos rhagoriaeth moesol aberth Crist ar yr aberthau Iuddewig.

1 Oblegid y gyfraith, yr hon sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod, ac nid gwir ddelw y pethau, nis gall trwy yr aberthau hyny, y rhai y maent bob blwyddyn yn eu hoffrymu yn wastadol, byth berffeithio y rhai a ddel ati.

I. **Hanfod anallu moesol yr aberthau meidrol** (1-4).—(1) **Diffyg sylwedd** (1).—**Oblegid y gyfraith yr hon sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod, nid gwir ddelw y pethau.**—Rhydd rhai yr ystyr o ym mhellach i "oblegid." Heblaw y pethau ddywedwyd o'r blaen y mae eto ragor i'w ddyweyd. Eithr gwell genym gredu mai ystyr resymegol sydd yma i'r gair, sef fod y gyfraith yn methu perffeithio dynion am nad oedd sylwedd yn eu haberthau. Edrych ym mlaen, gan hyny, ac nid yn ol wna y gair. Dengys y frawddeg hon mewn dwy ffordd natur ansylweddol yr holl drefniant Iuddewig a elwir yma yn gyfraith. (1) Cysgod oedd y trefniant, ac ni all dim fod yn fwy disylwedd na chysgod. Profa fod sylwedd, ond hollol ddisylwedd yw ef ei hun. Bodolaeth sylwedd gyfrifa am ei fodolaeth ; hyny yw, ni fedd fodolaeth o un math ei hun. Un fel yma oedd holl drefniant aberthol y gyfraith. (2) Hefyd, ni feddai y gyfraith wir ddelw y pethau. Heblaw bod yn ddisylwedd, nid oedd y llun o'r pethau nefol yn berffaith ganddi. Ni fedr unrhyw lun ond dangos un wyneb i'r gwrthddrych, a hwnw yn wyneb allanol a mwyaf ansylweddol. Bydd rhan fwyaf gwrthddrych allan o lun geir mewn cysgod o angenrheidrwydd, gan mai un wyneb gynwysa. Golyga gwir lun un hollol gywir o'r gwrthddrych rai prydiau, a phryd arall y gwrthddrych ei hun neu ei wir sylwedd. Dyna y meddwl yn y geiriau "gwir ddelw y pethau" yma. Nid gwir ddelw o'r sylwedd fedd y pethau nefol yw yr ystyr, ond gwir sylwedd y pethau eu hunain. Gan nad oedd y trefniant ond cysgod ni feddai wir ddelw neu sylwedd y daionus bethau i ddyfod, sef pethau a feddiennir yma, ac nad oes terfyn arnynt. (2) **Diffyg moesoldeb.—Nis gallant gyda'r un aberthau flwyddyn ar ol blwyddyn, y rhai a offrymant yn wastadol, byth berffeithio y rhai a ddeuant yn agos.** Gan mai cysgod disylwedd oedd yr aberthau ni allent gynwys moesoldeb. Anfeiliaid a aberthid, ac ni feddent hwy natur foesol. Yr oedd eu marwolaeth yn anwirfoddol, oblegid o'u hanfodd yr arweinid hwy i'r lladdfa. Ni wyddent amcan eu marwolaeth, ac ni fyddent feirw er mwyn neb. Oherwydd eu hamddifadrwydd o unrhyw elfen foesol, aberthid anifeil-

2 Oblegid yna hwy a beidiasent a'u hoffrymu, am na buasai gydwybod pechod mwy gan y rhai a addolasent, wedi eu glanhau unwaith.
3 Eithr yn yr aberthau hyny y mae adgoffa pechodau bob blwyddyn.

---

iaid bob blwyddyn yn gyson. Paham ? Oblegid eu methiant moesol i berffeithio y rhai ddeuent yn agos. Wrth y rhai hyn y golygir y bobl ddeuent bob blwyddyn i gyflwyno eu haberthau adeg Gwyl y Cymod. Ar ol i'r bobl gyflwyno eu haberthau, ni theimlent yn berffeithiach, oblegid creadur direswm oedd eu haberth. (3) **Prawf cydwybod o'u diffyg moesol** (2).—**Pe amgen, oni pheidiasant a chael eu hoffrymu, am na fyddai cydwybod pechodau mwyach gan yr addolwyr, wedi eu glanhau unwaith**?—Gofyniad yw yr adnod hon, a phrofa nad oedd gallu perffeithio yn yr aberthau cysgodol. Diffyg rhinwedd ynddynt alwai am eu hoffrymu yn barhaus. Arhosai euogrwydd cydwybod y dyn ar ol cyflwyno ei aberth fel cynt. Pan welai waed ei aberth yn llifo a'r darn olaf o'r anifail yn llosgi, byddai ei gydwybod yn ei gyhuddo o'i bechod gyn ddwysed a chyn hyny. Methai synwyr y dyn a chanfod y posibilrwydd i'r fath aberth i ddieuogi ei gydwybod. Prawf pendant o aneffeithiolrwydd moesol yr aberth oedd fod cydwybod pechod gan y dyn ar ol ei aberthu. Pe gallasai yr aberth lanhau y gydwybod unwaith oddiwrth bechod ni fuasai eisieu i'r addolwyr aberthu drachefn. Pe y byddai yr adnod yn osodiad ac nid gofyniad fel y deil rhai, yr un fyddai ei chynwys. Dengys yn bendant ddiffyg yr aberthau i effeithio natur foesol dyn. (4) **Prawf eu hamcan o'u diffyg moesol** (3).—**Eithr yn yr aberthau hyny y mae adgoffâd yn cael ei wneyd o bechodau bob blwyddyn.**—Ni amcanodd Duw i'r aberthau i berffeithio dynion yn foesol. Braidd y gellir tybio yr amcanai bôd anfeidrol mewn moesoldeb i berffeithio bodau rhesymol trwy farwolaeth anifeiliaid direswm. Ond a oedd y trefniant aberthol yn hollol ddirinwedd moesol? A ellir meddwl i Dduw roddi bod i'r fath drefniant heb amcan moesol iddo? Na ellir. Holl amcan moesol y trefniant oedd adgoffa pechod. Er na allai yr aberthau berffeithio neb yn foesol, eto, dygai bechod yn fyw i gof pob aberthwr bob blwyddyn. Gwasanaethai y trefniant amcan moesol pwysig, o ganlyniad, er nad allai ddieuogi cydwybod. Efe gadwai gydwybod dynion yn fyw i bechod, ac a ddadblygai gydwybod gyda golwg ar bechod. Parai i'r bobl ddyheu am aberth allasai ddileu

4 Canys amhosibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau.
5 Oherwydd paham y mae efe wrth ddyfod i'r byd, yn dywedyd, Aberth ac offrwm nis mynaist, eithr corph a gymhwysaist i mi.

---

pechod yn llwyr. (5) **Prawf eu natur o'u diffyg moesol** (4).—**Canys amhosibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau.**—Rhydd natur yr aberthau brawf terfynol o'u hanallu moesol. Amddifad oeddynt, yn gyntaf, o natur foesol yr aberthwr. Anifeiliaid israddol a direswm yw teirw a geifr. Bustach neu darw perffaith gwbl oedd aberth yr archoffeiriad drosto ei hun ar Ddydd y Cymod. Gwaed hwn gyflwynai ef i Dduw dros ei bechod, a gwaed bwch gafr dros bechod y bobl. Safai y creaduriaid hyn, gan eu bod yn ddireswm, yn rhes isaf creaduriaid byw Duw. Pa reswm oedd disgwyl iddynt i ddieuogi cydwybod? Yn ail, ni allent ddirnad amcan eu marwolaeth am na feddent ddealldwriaeth o paham eu haberthid. Hollol anwybodus oeddynt o bob peth yr amcanai y trefniant Iuddewig iddynt fod. Anwybodus oeddynt o fodolaeth pechod mewn dynion na bodolaeth Duw, yr hwn gashâ bechod yn anfeidrol. O ganlyniad, gwnai eu natur hi yn ammhosibl iddynt i feddu rhinwedd moesol. Aberthau hollol ddihaeddiant oeddynt. Wrth "dynu ymaith bechodau," y golygir dieuogi cydwybod. Baich yw yr euogrwydd hwn, ond baich moesol, ac edrycha yr awdwr ar ei symud i ffwrdd fel symud baich. Eithr ni all creaduriaid nad ydynt yn meddu natur foesol ei symud pe yr aberthid llond byd ohonynt. Dyma y rheswm fod llawer o baganiaid yn aberthu plant a dynion. Credant fod gwerth moesol uwch mewn bywyd rhesymol na bywyd direswm. Ond a oedd y gyfundrefn aberthol yn hollol amddifad o foesoldeb? Nac oedd. Buasai llawer o'r aberthwyr yn cyflwyno aberth o'u bodd ac o'u hangen. Dangosai hyn y teimlent oddiwrth eu pechod ac y dymunent gael gwared ohono.

II. Hanfod gallu moesol yr aberth anfeidrol (4-18).—(1) **Ufudd-dod anfeidrol** (5-9).—**Oherwydd paham pan y mae yn dyfod i'r byd, efe a ddywed, Aberth ac offrwm nis mynaist, eithr corph a gymhwysaist i mi; mewn poeth-offrymau cyfain ac aberthau am bechod ni buost foddlawn iddynt: yna y dywedais, wele fi wedi dyfod (yn rhôl y llyfr y mae yn ysgrifenedig am danaf) i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. Gan ddywedyd uchod, aberthau ac offrymau a phoeth-offrymau cyfain ac**

6 Offrymau poeth, a thros bechod, ni buost foddlawn iddynt.

7 Yna y dywedais, Wele fi yn dyfod (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf) i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw.

---

aberthau am bechod ni fynaist, ac ni buost foddlawn ynddynt (y rhai a offrymir yn ol y gyfraith), yna y dywedodd, Wele fi wedi dyfod i wneuthur dy ewyllys di. Y mae yn tynu ymaith y cyntaf, fel y gosodai yr ail.—Datguddir y gwahaniaeth hanfodol rhwng yr aberthau Iuddewig ac aberth Crist yn yr adnodau hyn. Beth bynag am ystyr rhai brawddegau yn yr adnodau y mae yn hollol eglur mai eu hamcan yw gosod allan wirfoddolrwydd neu ufudd-dod anfeidrol Crist. Nid oedd ufudd-dod meidrol yn yr hen aberthau; ond y mae ufudd-dod anfeidrol yn aberth y groes. Oblegid annigonolrwydd yr aberthau, dywed Crist wrth ddyfod i'r byd "aberth ac offrwm nis mynaist." Ni allai yr holl aberthau gwaedlyd na'r offrymau anwaedlyd foddloni Duw. Pa foddhâd allasai Duw anfeidrol ysbrydol gael yng ngwaed materol anifail direswm? Dim. Ni lanwai yr holl gyfundrefn ofynion ei ewyllys, ond fel yr oedd yn gysgod o bethau gwell. Beth yw meddwl y geiriau o Salm xl. 6, "Eithr corph a gymhwysaist neu a ddarperaist i mi"? Hawdd deall y cynwysant rywbeth annhraethol fwy nag oedd yn yr aberthau Iuddewig. Pa fodd bynag eu hesbonir, golygant wirfoddolrwydd neu ufudd-dod anfeidrol Crist. Dengys yr ysgrythyr ei hunan, gan hyny, fod yr aberth foddlonai Dduw i gynwys ufudd-dod anfeidrol. Eithr cyn myned at gynwys y geiriau rhaid cyfarfod dau anhawsder, sef yn gyntaf, y priodoldeb o'u cymhwyso at Grist. Salm i Dafydd oedd hon ar ol rhyw waredigaeth ryfeddol a gafodd. Pa fodd gan hyny y mae yn iawn edrych arni yn briodol i'r Iesu? (a) Daw rhai dros yr anhawsder trwy ddyweyd mai Salm brophwydol yw hi. Pe cywir hyny, cyfarfyddem ag anhawsder mawr arall, sef y pethau a nodir yn y Salm nad ydynt yn wir am Grist. Desgrifiant ddyn gwael a phechadurus; gan hyny, ammhosibl i'r Salm fod yn brophwydol. (b) Cymeryd y Salm yn eglureb wna yr awdwr yn ol ereill. Gwna hyn ein rhyddhau oddiwrth anhawsder y syniad ei bod yn brophwydol; ond dwg ni i anhawsder arall, sef nad yw y geiriau ddyfynir yma yn profi dim. (c) Gwell genym yr esboniad ddeil fod yr awdwr yn cymeryd Dafydd yn gysgod o Grist. Cyson yw hwn a dysgeidiaeth y

8 Wedi iddo ddywedyd uchod, Aberth ac offrwm, ac offrymau poeth, a thros bechod, nis mynaist, ac nid ymfoddlonaist ynddynt; y rhai yn ol y gyfraith a offrymir;

Beibl. Gosodir Dafydd allan fel cysgod o'r Iesu mewn amryw fanau. Dywedir y cai eistedd ar orseddfa Dafydd, etc. Yr oedd Dafydd (1) yn gysgod o'r Gwaredwr yn holl ddaioni ei natur. Byddai dyweyd ei fod yn gysgod ohono ym mhob peth yn gamsyniad dirfawr. Ni allasai fod yn gysgod ohono yn y pechodau briodolir iddo yn y Salm hon. (2) Yr oedd yn gysgod o Grist yn y dioddefiadau, yr erledigaethau, a'r profedigaethau yr aeth drwyddynt ar ei ffordd i'r orsedd; (3) ac yn gysgod ohono yn ei swydd o frenin; (4) yn ei lwyddiant brenhinol yn gorchfygu a gwasgaru ei elynion, ac adfer heddwch i'w ddeiliaid trwy eu gwaredu a'u hamddiffyn; (5) yn ei fwriad fel Crist i gydymffurfio ag ewyllys Duw; (6) yn ei syniad am annigonolrwydd pob peth i foddloni Duw ond ufudd-dod i'w ewyllys. Yr ail anhawsder yw y gwahaniaeth yn y geiriau ddyfynir yma i'r hyn ydynt yn y Beibl Hebraeg. Ond yr un yw darlleniad y LXX. a'n darlleniad ni. Pa fodd i esbonio y gwahaniaeth? Cred rhai mai yr awdwr newidiodd y geiriau i amcan neillduol. Byddai hyny yn priodoli ymddygiad annheilwng iddo. Hyfder ynddo fuasai newid y testyn i hunan-ddibenion. Hefyd, nid oes un prawf iddo i wneyd y fath beth ond mewn dychymyg. (6) Fod rhyw adysgrifydd wedi newid y LXX. o'r hyn oedd yn wreiddiol i'r hyn yw yn bresenol heb un gau amcan. Llithrodd y peth i fewn trwy ei ddiofalwch. Nid yw hyn yn ammhosibl er ei fod yn annhebyg. Gan gymaint gofal adysgrifenwyr anhawdd credu y gwnai un gyfnewidiad mor fawr mewn geiriau. (c) Dadl rhai yw fod y testyn Hebraeg wedi ei newid ar ol gwneyd y LXX. Daliant fod yr hen destyn Hebraeg yn darllen fel y LXX. yn hollol. Tybiaeth yn unig yw hon eto. (d) Yn ol un dosbarth nid oes gwahaniaeth yn ystyr y geiriau Hebraeg i'w hysbysu yn y LXX. Rhaid i gorph perffaith gael clustiau, a thrwy y clustiau y gwrandewir i ufuddhau. (e) Cyfieithwyr y LXX. medd mwyafrif yr esbonwyr, a newidiodd y ffigwr sydd yn y geiriau er mwyn eu gwneyd yn ddealladwy i ddarllenwyr Groegaidd o genedl. Hwn yw yr esboniad naturiolaf a chysonaf o lawer, ac nid yw yn anghyson a dwyfol ysbrydoliaeth. Ufudd-dod mewn corph dynol ofynai Duw, a dyna yn unig a'i boddlonai. Cymer y corph y clustiau a'r holl organau ereill i fewn fel y mae y ffigwr yn gryfach na'r un yn y Beibl

9 Yna y dywedodd, Wele fi yn dyfod i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. Y mae yn tynu ymaith y cyntaf fel y gosodai yr ail.

Hebraeg. Tlws hefyd yw y ffigwr Hebraeg, oblegid y mae clywed yn ystyr ddyfnaf y gair yn golygu ufuddhau. Dywed Crist wrth ddyfod i'r byd wrth y Tad, "Rhoddaist gorph i mi i roddi ufudd-dod anfeidrol i ti tufewn i derfynau meidrol." Yn adn. 6 manyla yr awdwr ar yr aberthau eto er mwyn egluro ei fater. Ni foddlonid Duw "mewn poeth offrymau cyfain," hyny yw, rhai y llosgid y creadur oll. Dangosai hyny lwyredd rhodd yr aberthwr. Er hyny, ni chai Duw ddim oddiwrtho. Ammhosibl oedd i'r aberthwr gyflwyno ei holl bersonoliaeth i Dduw trwy greadur direswm beth bynag fuasai ei werth. Yr un modd am "aberthau dros bechod" : ni allai ond rhan fechan o'r dyn fod ynddynt. Gwerth aberth i Dduw yw faint o hanfod person sydd ynddo. Gall dyn roddi yr oll sydd ganddo i Dduw heb roddi dim sydd ynddo iddo. Rhydd Duw yr holl bwys ar yr hyn sydd ynddo a dim ar yr hyn sydd ganddo, ond fel y bydd yn fynegiant o'r hyn sydd ynddo. Gan hyny, ni foddlonid Duw ar aberthau dros bechod, er eu bod y gwerthfawrocaf. Dywed adn. 7 mai dyna y rheswm i Grist ddyweyd ei fod yn dyfod i'r byd i wneuthur ewyllys Duw. Pa bryd y dywedodd hyn? Pan welodd annigonolrwydd yr aberthau, ac nid pan gafodd gorph fel y deil rhai. Yr ymwybyddiaeth mai ufudd-dod anfeidrol yn unig allasai foddloni Duw, barodd i'r Mab benderfynu cymeryd corph a dyfod ynddo i wneuthur ei ewyllys. Canfyddai na lanwai yr holl aberthau o bob math y Tad a boddlonrwydd. Nid cyfeiriad at brophwydoliaeth sydd yn y geiriau hyn, ond at Grist yn dyfod trwy holl dôn yr ysgrythyrau Moesenaidd. Golyga "rhol," yn gyntaf, y rholbren ar yr hwn y buasid yn dirwyn y llyfr i fyny, a bob yn ychydig daeth i olygu y llyfr ei hun. Felly yma. Pum llyfr Moses yw y llyfr y cyfeirir ato. Ynddynt gosodir pwys ar ufudd-dod i ddeddfau Duw uwchlaw dim ; nodir ynddynt ddyledswyddau brenin yn bur fanwl. (Gwel Deut. xvii 14-20). Rhaid oedd iddo ysgrifenu copi o'r gyfraith, yn ol y dyfyniad hwn; ei darllen yn drwyadl yn ogystal ag ufuddhau iddi. Gwneuthur ewyllys Duw oedd baich yr holl gyfraith foesol, ond ni chafodd neb i'w gwneyd cyn Crist. Yn adn. 9 cawn ail-adroddiad o'r ddwy adnod flaenorol. Paham ? (1) I bwysleisio ar y mater oblegid ei bwysigrwydd annhraethol. Yn yr holl Epistol nid oes dim pwysicach. Ufudd-

10 Trwy yr hwn ewyllys yr ydym ni wedi ein sancteiddio, trwy offrymiad corph Iesu Grist unwaith .

---

dod annhraethol Crist benderfyna holl dynged dynoliaeth. Pa ryfedd felly fod yr awdwr yn ail-adrodd ? (2) I argraffu annigonolrwydd yr aberthau Iuddewig a digonolrwydd anfeidrol aberth Crist. (3) I ddangos fod aberth Crist wedi gwneyd i ffwrdd a'r aberthau Iuddewig. "Y mae yn tynu ymaith y cyntaf, fel y gosodai yr ail," medd yr awdwr. Pwy sydd yn tynu ymaith ? Crist ei hun. Difododd ei aberth gwirfoddol ef holl nerth, ystyr a bywyd aberthau meidrol y gyfundrefn Iuddewig. Geilw hwy "y cyntaf" am mai hwy y traethodd arnynt gyntaf, ac am y blaenorent aberth Crist o ran trefn amseryddol. Beth yw y meddwl, "Gosodai yr ail ?" Yr ail yw aberth gwirfoddol Crist. Wrth ufuddhau a chyflwyno ei aberth i Dduw sefydlodd neu gosododd aberth fydd yn parhau byth yr un. Ni fydd newid ar hwn. Erys fel efe ei hun heb gysgod troedigaeth. Peth ansefydlog oedd cyfundrefn aberthol yr Hen Oruchwyliaeth am na phwysai ar ufudd-dod hollol; peth sefydlog yw aberth Crist am fod ei egwyddor mewn gwirfoddolrwydd anfeidrol. Daw tri pheth yn amlwg iawn yn yr adnodau hyn :— (1) Annigonolrwydd yr aberthau Iuddewig, (2) penderfyniad llawn Crist i wneuthur ewyllys ei Dad yn y corph roddodd ei Dad iddo, (3) cyhoeddiad clir fod yr hen gyfundrefn aberthol ar ben i bob pwrpas ymarferol. Yr elfen amlycaf o'r tair yw penderfyniad Crist i roddi ufudd-dod anfeidrol i ewyllys Duw. (2) **Gallu sancteiddiol yr ufudd-dod anfeidrol** (10).—**Trwy yr hon ewyllys yr ydym wedi ein sancteiddio trwy offrymiad corph Iesu Grist unwaith am byth.**—Neu yn yr hon ewyllys, *ἐν ᾧ θελήματι.* Edrychir ar y credinwyr fel rhai yn ewyllys Crist pan offrymodd ei hun. Beth olygir wrth "yr ydym wedi ein sancteiddio"? Nid oedd hyn yn wirionedd llythyrenol; oblegid nid oedd yr awdwr na'i ddarllenwyr wedi eu llwyr sancteiddio yr adeg yr ysgrifenai. Eithr nid glanhad moesol yw ystyr *ἡγιασμενοι* — "wedi sancteiddio"—yma, ond neillduo. Gwir fod aberthiad Crist yn cynwys posibilrwydd sancteiddhâd perffaith, a chynwysir y sancteiddhad posibiliaethol hwnw yn neillduad y rhai y sonir am danynt yn yr adnod. Pan gred dyn yn yr Iesu, derbynia holl elfenau y gallu a'i sancteiddia yn berffaith. Ymddengys i ni fod y sancteiddhâd posibiliaethol hwn ym meddwl yr awdwr yma yn gystal a neillduad i fod yn bobl Dduw. Rhai wedi derbyn bywyd newydd yr edrychid arnynt fel rhai neillduedig i Grist.

11 Ac y mae pob offeiriad yn sefyll beunydd yn gwasanaethu, ac yn offrymu yn fynych yr un aberthau, y rhai ni allant fyth ddileu pechodau :

Defnyddir sancteiddio yn yr Epistol am symud euogrwydd yn y nef o feddwl Duw, ac o gydwybod dyn ar y ddaear fel y mae yn faich arni. Ni ellir gwneyd hyn heb dderbyn bywyd i'r galon fedd allu sancteiddiol. Er hyny, ni ddefnyddir y gair yn yr Epistol am gyfnewidiad calon ac ysbryd. Offrymiad corph Crist wnaeth y sancteiddiad hwn yn bosibl. Wrth "gorph" yma, rhaid deall nid y corph materol yn unig ond holl ddynoliaeth Crist. Paham y nodir y corph? (1) Am fod y dyfyniad o'r Salm yn adn. 5 yn dyweyd "corph a gymhwysaist i mi"; (2) am mai mewn corph yn unig y gallasai Crist fod yn aberth dros bechadur. Rhaid oedd iddo feddu holl natur dyn. Eithr rhaid cofio nad ei gorph oedd yr aberth na chwaith ei holl ddynoliaeth. Yr oedd ei holl berson anfeidrol yn ei aberth dros ddynion. Beth yw meddwl "unwaith am byth"? Nid (1) fod aberth Crist wedi sancteiddio dynion unwaith am byth fel y deil llawer. Braidd y dioddef ystyr y gair sancteiddio y meddwl yma. (2) Nid chwaith ei fod wedi sancteiddio dynion unwaith am byth ac aberthu ei hun unwaith am byth. Deil awdurdod mor fawr a Westcott y syniad hwn. Myn fod y geiriau i'w cysylltu a'r holl frawddeg. Ond ä y cysylltiadau a holl gwrs yr ymresymiad yn erbyn y syniad hwn, a syn fod Westcott yn ei ddal pan y mae yr adnodau nesaf yn bendant yn ei erbyn. (3) Y meddwl yw mai unwaith am byth yr offrymodd Crist ei hun. Profir hyn (a) gan y pwys rydd yr awdwr ar mai unwaith yr aberthodd Crist ei hun dros bechodau mewn amryw fanau yn yr Epistol; (b) gan yr adnodau nesaf lle y cyferbyna yr awdwr waith yr offeiriad Iuddewig yn aberthu yn fynych a Christ yn aberthu neu offrymu ei hun unwaith. Yr ufudd-dod anfeidrol oedd yn yr aberth oedd achos y gallu anfeidrol i sancteiddio dynion. (3) **Gallu i enill safle uwchraddol oedd yn yr ufudd-dod anfeidrol** (11-13).—**Ac yn wir y mae pob offeiriad yn sefyll beunydd yn gwasanaethu ac yn offrymu yn fynych yr un aberthau, y rhai ni allant fyth dynu ymaith bechodau : eithr efe, wedi iddo offrymu un aberth dros bechodau yn dragywydd, a eisteddodd ar ddeheulaw Duw.**—Rhaid cadw yn y meddwl o hyd mai yr ufudd-dod anfeidrol yw hanfod yr oll ddeillia o aberthiad Crist ohono ei hun. Tarddodd y gallu i sancteiddio dynion o hwn, a'r un modd am ei safle ddwyfol. Byddai yr archoffeiriad

12 Eithr hwn, wedi offrymu un aberth dros bechodau, yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw;
13 O hyn allan yn disgwyl hyd oni osoder ei elynion ef yn droedfaingc i'w draed ef.

Iuddewig yn sefyll yn fynych i aberthu. Paham? Am nad oedd ei aberthau yn ddigonol. Ni feiddiai eistedd chwaith yn y presenoldeb dwyfol am nad oedd un amser yn gorphen ei holl waith. Ni allasai aros hefyd yn y presenoldeb dwyfol ond cyhyd ag y byddai yn cyflawni ei waith. Yr un aberthau fyddai ganddo bob amser, a dangosai hyny nad oeddynt yn ddigonol. Pe buasent yn boddhau Duw ni fuasai eisieu eu hoffrymu yn barhaus. Diau fod brys ar yr archoffeiriad i fyned allan fuaned ag y byddai y gwaith drosodd; oblegid teimlai nad oedd yn deilwng i sefyll gerbron Duw ond cyhyd ag y gwasanaethai. Cymer y gair "gwasanaethu" i fewn holl wasanaeth yr archoffeiriad, ac "offrymu" y rhan neillduol ohono a berthynai i gyflwyno aberthau i Dduw. Pwysleisia yr awdwr na allai yr aberthau offrymid yn fynych dynu ymaith bechodau; hyny yw, eu tynu ymaith fel yr oeddynt yn wisg am yr enaid, neu yn faich ar gydwybod. Prawf o hyny oedd yr angenrheidrwydd am eu hoffrymu yn fynych. Cymaint oedd eu hisraddoldeb fel nad allent gyffwrdd a dyfnder cydwybod yr aberthwr. Edrychir ar bechodau yma nid fel baich yn unig, ond hefyd fel gwisg. Ystyr περιελεῖν — tynu ymaith—yw diosg, dihatru, dileu, dinoethi, gwneyd yn agored, neu dynu, fel tynu modrwy i ffwrdd oddiar fys. Defnyddir y ferf am dynu ymaith wisg neu gochl. Syniad cryf iawn yw ef am bechodau yn eu perthynas a'r enaid. Ar ryw ystyr y maent yn wisg am holl alluoedd yr enaid. Ni allasai yr aberthau Iuddewig wneyd dim a'r wisg hon. Profir hyny gan y gofyn mynych am danynt, eu natur israddol a'u haneffeithiolrwydd i leddfu cydwybod. Beth yw meddwl ei fod "wedi offrymu un aberth dros bechodau yn dragywydd"? Mai unwaith yr offrymodd ei hun a bod hyny yn ddigon am byth. Nid oes eisieu ail-adroddiad o'i aberth am y gwna ei anfeidroldeb ef yn ddigon i ddyn a Duw am dragywyddoldeb. Oherwydd anfeidroldeb ei haeddiant cyrhaedda o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb. Gan hyny, nid oes eisieu ail-aberthu er mwyn neb a fu nac a ddaw. Nid y syniad yw ei fod wedi eistedd ar ddeheulaw Duw yn dragywydd fel y dadleua rhai esbonwyr. Byddai hyny yn anghydweddol a phwyslais parhaus yr awdwr ar mai unwaith yr aberthodd Crist ei hun. Hyny

14 Canys ag un offrwm y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio.

---

bwysleisir yma, ac nid ei eisteddiad ar y ddeheulaw. Eithr gofynol cofio mai ei offrymiad ohono ei hun enillodd iddo y safle ar ddeheulaw Duw. Mewn geiriau ereill, ei ufudd-dod anfeidrol enillodd iddo y safle uwchraddol. Oblegid y gwerth moesol anfeidrol oedd yn yr ufudd-dod, medrodd gyrhaedd safle i eistedd ac nid sefyll ar ddeheulaw Duw. Dim ond bywyd feddai haeddiant anfeidrol yn gynyrch ufudd-dod anfeidrol allasai enill y fath safle ysbrydol. Golyga eistedd fel a nodir yma, dri o bethau :—(1) Sancteiddrwydd perffaith. Ni all neb eistedd yn ymyl Duw ond y sawl sydd yn hollol sanctaidd. (2) Y safle anrhydeddusaf; (3) yr agosrwydd mwyaf i Dduw. (4) **Gallu ei ufudd-dod anfeidrol i hawlio cynorthwy anfeidrol** (13).—**O hyn allan yn disgwyl hyd oni wneler ei elynion ef yn droedfaingc ei draed ef.**—Nid aberthu ei hun a wna ef yn awr yn ol yr adnod hon, ond disgwyl. Dengys yr adnod, hefyd, fod ei elynion i gael eu gosod dan ei draed, ac nid ei fod ef yn eu gosod. Hawlia gynorthwy anfeidrol y Tad a'r Ysbryd Glan i hyn. Beth yw hanfod ei hawl? Ei ufudd-dod anfeidrol yn ei aberth dros ddynion. Gan ei fod wedi rhoddi boddlonrwydd anfeidrol yn ei aberth i'r Tad hawlia gynorthwy y Tad i orchfygu gelynion ei deyrnas. Dyledswydd anfeidrol y Tad a'r Ysbryd yw gwneyd hyn ac nid gras. Gosododd ef hwy dan rwymau iddo wrth aberthu ei hun. Y mae holl sicrwydd yr hanfod dwyfol y gwnant hwy gyflawni eu dyledswydd iddo. Ffigwr fel y cyfeiriwyd yn y benod gyntaf yw gosod gelynion dan draed. Byddid yn gwneyd hyny mewn rhyfeloedd yn llythyrenol. Yma y meddwl yw llwyr orchfygu holl elynion Crist o bob natur. (5) **Gallu perffeithiol yr ufudd-dod anfeidrol** (14).—**Canys ag un offrwm y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio.**—Yr ufudd-dod anfeidrol yw amod y gallu perffeithiol hwn eto. Gan i'r Iesu orphen ei holl waith dros ddynion wrth farw, nid oes ganddo yn awr ond eistedd a disgwyl, fel y nodwyd yn y ddwy adnod ddiweddaf. Gwendid yr aberthau Iuddewig oedd methu perffeithio; nerth anfeidrol aberth Crist yw ei allu i berffeithio. Pwysleisir yma ar un aberth yn gyferbyniol i aberthau lluosog y gyfundrefn Iuddewig. Gan fod gwerth moesol anfeidrol ynddo nid oedd ond un yn ofynol. Ammhosibl fuasai iddo roddi un arall, ac nid oedd un arall yn angenrheidiol. Yn unol ag egwyddorion ei hanfod ni allasai Duw dderbyn un arall pe y cynygiai

15 Ac y mae yr Ysbryd Glan hefyd yn tystiolaethu i ni : canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen,
16 Dyma y cyfamod yr hwn a amodaf fi a hwynt ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd ; Myfi a osodaf fy nghyfreithiau yn eu calonau, ac a'u hysgrifenaf yn eu meddyliau ;

---

y Mab ef. Hefyd, nid oedd eisieu un arall ar ddynion, am y cyfaddyddai hwn a'u holl anghenion moesol. Perffeithiodd hwynt oll, ac nid oedd arnynt eisieu mwy na hyny. Beth feddylir wrth ei fod wedi "perffeithio y rhai sydd wedi eu sancteiddio"? (1) Nid ei fod wedi perffeithio y rhai hyn yn hollol. Cymer dragywyddoldeb i wneyd hyny. (2) Na'i fod wedi eu perffeithio yn berthynasol, ond (3) wedi eu cynysgaeddu a holl elfenau perffeithrwydd. Derbyniasant trwy rin ei aberth bob peth gofynol i'w perffeithio yn gyflawn. Llanwyd hwy a holl elfenau perffeithrwydd hollol; cawsant heddwch cydwybod, llawenydd bywyd newydd, hawl i nesau at Dduw a nerth i orchfygu temtasiynau. Perffeithrwydd tragywyddol yn ei barhad yw hwn hefyd. A ym mlaen am byth. Methodd yr aberthau Iuddewig a pherffeithio neb am na feddent rinwedd moesol o un math. Yn hyn rhagora aberth Crist yn anfeidrol arnynt. Eithr cofier, nad yw aberth Crist yn perffeithio ond y rhai sydd wedi eu sancteiddio. Rhaid iddynt wrth neillduad dwyfol ac ufudd-dod gwirfoddol i'r Iesu cyn dyfod tufewn i gylch y gallu perffeithiol sydd yn ei aberth. (6) **Tystiolaeth yr Ysbryd Glan i werth yr ufudd-dod anfeidrol** (15-18).—**A'r Ysbryd Glan hefyd yn tystiolaethu i ni : canys wedi iddo ddywedyd, dyma y cyfamod a wnaf a hwynt ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; myfi a osodaf fy nghyfreithiau ar eu calon, ac ar eu meddwl hefyd yr ysgrifenaf hwynt; yna y dywed efe, a'u pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf mwyach. Yn awr lle y mae maddeuant am y rhai hyn, nid oes offrwm mwyach dros bechod.**—Yn yr adnodau hyn, a ddyfynir yr ail waith gan yr awdwr, cawn eithafbwynt ei holl ymresymiad am werth moesol ufudd-dod Crist. Ceir esboniad arnynt yn pen. viii. 10-12. Dengys yr awdwr yma mai yr Ysbryd Glan lefarai y geiriau geir yn Jeremiah y Prophwyd am y cyfamod newydd. Dywed fod yr Ysbryd yn tystiolaethu ac nid wedi tystiolaethu, am fod y dystiolaeth yn aros yn yr Ysgrythyr. Dyma brawf ysgrythyrol i rymusu holl ymresymiadau yr awdwr. Y mae hwn yn derfynol ar y mater. Yr Ysgrythyr oedd

17 A'u pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf mwyach.
18 A lle y mae maddeuant am y rhai hyn, nid oes mwyach offrwm dros bechod.

---

safon yr Iuddew ar bob mater, ac ni fuasai ymresymiad yr awdwr yn gyflawn am werth moesol ufudd-dod anfeidrol Crist heb ei ddwyn i fewn. Syrthiai yn fyr o apelio at yr Hebreaid. Ond paham y dywedir mai yr Ysbryd Glan sydd yn dywedyd y pethau hyn ? Yn mhen. viii. ac adn. 17 yma, dywedir mai yr Arglwydd yw y llefarydd. Os felly, pa reswm sydd dros ddyweyd mai yr Ysbryd Glan lefara y geiriau ? Yr Ysbryd Glan ysbrydolai y prophwydi i siarad meddyliau Duw. Duw oedd awdwr y meddyliau, ond yr Ysbryd wnai gynhyrfu dynion sanctaidd i'w llefaru wrth y byd. Pa fodd y cadarnha dwyn y geiriau hyn i fewn yr ymresymiad? Fel hyn : Trwy ei ufudd-dod anfeidrol y gwnaed Crist yn gyfryngwr y cyfamod a nodir yma, yr hwn sydd gyfamod annhraethol well na'r un cyntaf. Yn hwn (1) gosodir deddfau Duw yn y galon a'r meddwl ; (2) ceir maddeuant llawn drwyddo am bob math o bechod ond i'r dyn gredu, ac (3) ymddyga Duw at y pechadur fel pe na bae yn cofio ei bechodau a'i anwireddau. Methai yr hen gyfamod a gwneyd yr un o'r pethau hyn. Trwy ufudd-dod yr Iesu y dygir y naill a'r llall ohonynt oddiamgylch, ac o ganlyniad rhaid fod gwerth anfeidrol yn ei ufudd-dod. Gan fod aberth gwirfoddol Crist yn sicrhau maddeuant llawn am bob anwiredd a phechod, nid oes eisieu aberth arall, oblegid, meddai yr awdwr, " Yn awr lle y mae maddeuant am y rhai hyn, nid oes offrwm mwyach dros bechod." Paham ? Am fod un aberth anfeidrol, tragywyddol ac anghyfnewidiol Crist wedi effeithio maddeuant am yr anwireddau a'r pechodau. Ni olyga hyn fod pawb o'r cadwedigion wedi cael maddeuant, ond fod yr aberth anfeidrol wedi gwneyd maddeuant i bawb ohonynt yn bosibl. Pan gredodd yr Hebreaid, maddeuwyd iddynt ar sail yr aberth. Erys rhinwedd a haeddiant ei aberth yn yr Iesu, a daw yn eiddo i bawb wrth gredu ynddo a'i gyffesu.

ADRAN III. (Parhad). **PWNC: DYLEDSWYDDAU GODANT O'R ATHRAWIAETHAU.**

I. Dadansoddiad.

I. **Dyledswydd bersonol i nesau at Dduw** (adn. 19-23).
(1) *Rhesymau dros y ddyledswydd* (adn. 19-20).
(*a*) *Rhyddid ysbrydol* (adn. 19).
(*b*) *Ffordd newydd a bywiol* adn. 20).
(*c*) *Offeiriad anfeidrol* (adn. 21).
(2) *Y ddyledswydd* (adn. 22,23).
(*a*) *Nesau at Dduw a chalon lan.*
(*b*) *Ffydd gyflawn.*
(*c*) *Cydwybod ddieuog.*
(*d*) *Natur anianol bur.*
(*e*) *Cyffes gadarn* (adn. 23).
(*f*) *Rheswm dros gadw eu cyffes.*

II. **Dyledswyddau y teulu crefyddol** (adn. 24-25).
(1) *Teimlo yn dda* (adn. 24).
(2) *Gweithredu yn dda.*
(3) *Mynychu y cynulliad da* (adn. 25).
(4) *Rheswm dros y dyledswyddau.*

III. **Canlyniad esgeuluso dyledswyddau a phechu ar ol cael goleuni** (adn. 26-31).
(1) *Natur y pechod* (adn. 26).
(2) *Graddau y pechod.*
(3) *Graddau y canlyniad.*
(*a*) *Dim aberth.*
(*b*) *Dim gobaith* (adn. 27).
(4) *Graddau y canlyniad yn ganlyniad graddau y pechod* (adn. 28, 29).
(*a*) *Yn ol yr Ysgrythyr* (adn. 28).
(*b*) *Yn ol rheswm* (adn. 29).
(5) *Natur Duw yn sicrwydd y bydd graddau y gosp yn ol graddau y pechod* (adn. 30, 31).

IV. **Dyledswyddau ar sail eu hanes yn y gorphenol a'u gwobr ddyfodol** (adn. 32-35).
(1) *Galw i gof y gorphenol* (adn. 32-34).
(2) *Cadw hyfder ar gyfer y dyfodol* (adn. 35).

19 Am hyny, frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r
cysegr trwy waed Iesu,
20 Ar hyd ffordd newydd a bywiol, yr hon a gysegrodd efe
i ni, trwy y llen, sef ei gnawd ef ;

V. Anghenion yr Hebreaid a chalondid iddynt (adn. 36-39).
(1) *Angen amynedd* (adn. 36).
(2) *Rheswm dros amynedd* (adn. 37).
(3) *Angen ffydd* (adn. 38).
(4) *Calondid seiliedig ar eu ffydd* (adn. 39).

II. Eglurhad.

I. Dyledswydd bersonol i nesau at Dduw (19-23).—(1) **Rhesymau dros y ddyledswydd** (19-20).—(a) **Rhyddid ysbrydol** (19).—**Am hyny, frodyr, gan fod genym hyfdra i fyned i mewn i'r lle sanctaidd trwy waed Iesu.**—Neu, yng ngwaed Iesu. Gorphenodd yr awdwr ei ymresymiad athrawiaethol yn adn. 18, ac yn awr cymhwysa yr oll at y darllenwyr gan ddangos eu dyledswyddau gyda manylwch. Eithr cyn gwneyd hyny gofala seilio ei apel atynt ar resymau digonol. Y cyntaf yw rhyddid ysbrydol. Cyfarcha hwynt yn anwyl, sef brodyr wrth fyned at y rheswm hwn. Dengys fod pob rhwystr wedi ei symud ac y gallant nesau at Dduw. Gwell yw y gair "rhyddid" na "hyfdra" y C.D. Y mae yn fwy cydweddol a natur ysbrydol yr ymresymiad. Ni feddai y genedl gynt ryddid i fyned i'r cysegr sancteiddiolaf, er yr ai yr archoffeiriad a gwaed yr aberth i fewn drostynt. Nid felly am y rhai gredant yng Nghrist : meddant hwy ryddid i nesau at Dduw i'r sancteiddiolaf ysbrydol. Enillodd ryddid iddynt trwy ei waed. Meddwl hyn yw, mai ei ufudd-dod anfeidrol, y soniwyd am dano, yn ei fywyd a'i farwolaeth a agorodd ffordd i ddynion i agoshau at ei Dad. Yn haeddiant anfeidrol ei ufudd-dod y cant agoshau. Gan fod rhyddid i nesau at Dduw, rheswm cadarn yw hyny dros nesau. Y mae yn ddyledswydd i wneyd hyny. (b) **Ffordd newydd a bywiol** (20).—**Trwy y ffordd yr hon a gysegrodd efe i ni, ffordd newydd a bywiol, trwy y llen, hyny yw ei gnawd ef.**—Nid yn unig y mae y rhyddid a nodwyd yn rheswm dros agoshau at Dduw, ond y mae y ffordd hefyd yn rheswm. Nid ffordd marwolaeth, sef yr hen ffordd, yw hon; ond ffordd newydd, a hono yn ffordd bywyd. Rhai meirw oedd aberthau yr Hen Oruch-

21 A bod i ni Offeiriad mawr ar dy Dduw ;

---

wyliaeth oll, ac o ganlyniad, ffordd marwolaeth oedd y ffordd at Dduw. Eithr nid felly yn awr er i Grist farw. Y mae ef yn fyw, a thrwy yr aberth anfeidrol sydd yn berson byw y nesheir at Dduw. Gofala yr awdwr ddyweyd mai Crist gysegrodd y ffordd. Ystyr hyny yw mai efe a'i hagorodd. Trwy farw agorodd y ffordd i bresenoldeb Duw. Aeth ef drwyddi ei hun yn gyntaf i'r presenoldeb dwyfol, ac wrth hyny agorodd hi i bawb ewyllysiant ei theithio. Nid gwneyd y ffordd yn lan yw ystyr "cysegrodd," fel y myn rhai, ond "agor." Hefyd, y mae y ffordd yn newydd, sef newydd ei gwneyd, ac nid newydd o ran natur. Gosodir ei natur allan yn y gair "bywiol." Gan hyny, nid oes sail i'r syniad mai cyfeirio at fod Crist newydd gael ei ladd a olygir. Rhoddir y meddwl o "newydd" i προσφατον weithiau, ond ni allwn weled fod hyny ym meddwl yr awdwr yma. Heblaw bod yn agored ac newydd ei gwneyd, y mae y ffordd yn un fywiol. Drwyddi y caiff dynion fywyd, ac yr arweinir hwy i'r nefoedd—gwlad y bywyd. A mwy na hyny, bywyd yw y ffordd. Y mae yn llawn o fywyd ac yn anfarwol ei natur. Person Crist yw hi, yr hwn sydd yn anfeidrol fyw. Dywed ef ei hun, "Myfi yw y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd." Drwy ei gnawd, neu ei fywyd a'i farwolaeth yr agorodd efe y ffordd. Ym meddwl yr awdwr yr oedd marwolaeth Crist fel rhwygiad y llen rhwng y lle sanctaidd a'r cysegr sancteiddiolaf. Rhwygiad y llen allasai roddi rhyddid i'r bobl i nesu i'r fan nad oedd hawl gan neb ond yr archoffeiriad, a marwolaeth Crist, yn yr hon y rhwygwyd ei gorph, agorodd ffordd i'w ganlynwyr i agoshau at Dduw. Cyn iddo ef farw yr oedd llen rhwng dynion a Duw, ond yn ei farwolaeth rhwygwyd hono. Beth oedd y llen ? Corph Crist, yn ol yr adnod. Nid ei gorph materol yn unig, ond ei holl ddynoliaeth. Rhaid oedd iddo ef fyw bywyd o ddioddefiadau a marw cyn y gellid nesau at Dduw mewn ystyr ysbrydol. (c) **Offeiriad anfeidrol** (21).—**A chan fod genym offeiriad mawr ar dy Dduw.**—Nid yw fod rhyddid i nesau a bod y ffordd yn newydd a bywiol yn ddigon o reswm dros hyny heb y rheswm dan sylw. Rhaid i'r pechadur gael rhywun gerbron Duw ar ei ran. Diau mai offeiriad ddylai fod yma ac nid archoffeiriad. A pwysau y MSS. dros hyny, er y teimlwn y byddai archoffeiriad yn grymusu y meddwl. Beth olyga'r awdwr wrth ddyweyd ei fod yn fawr? Mai efe yw y mwyaf oll—yr anghymarol fawr. Y radd gysefin

22 Nesawn a chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonau oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph a dwfr glan.
23 Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl; (canys ffyddlawn yw yr hwn a addawodd ;)

(*positive degree*) ddefnyddir gan amlaf wrth siarad am fawredd y personau dwyfol. Ni ellir eu cymharu hwy a neb, ac yna nid oes eisieu defnyddio y graddau ereill wrth son am eu mawredd. Ym mheth y mae Crist yn fawr? Yn ei berson, yn ei gymhwysderau offeiriadol, yn ei safle yn y nef, yn ei awdurdod, ac yn ei ddylanwad gyda Duw. Dywedir ei fod yn offeiriad ar "dy Dduw." Dengys hyny ei awdurdod a'i ddylanwad yn amlwg. Ty Dduw yma yw yr eglwys ar y ddaear ac yn y nef, ac nid y nefoedd fel preswylfod Duw, na'r cysegr y sonir am dano yn adn. 19. (2) **Y ddyledswydd** (22-23).—(a) **Nesau at Dduw a chalon lan.—Nesawn a chalon gywir.**—Calon gywir yw un lan oddiwrth amcanion drwg, oddiwrth ragrith, twyll, llid, malais—un o egwyddorion cywir ac nid hollol gywir mewn graddau. Dyma y ddyledswydd gyntaf wrth agoshau at Dduw. Heb feddu calon bur ei hegwyddor ni ellir myned i bresenoldeb Duw. Cymer calon yma i fewn yr holl enaid yn ei weithrediadau ymwybodol. Gall fod y syniad o ymgyflwyniad llwyr i Dduw yn y geiriau "calon gywir," ond gwell genym feddwl mai calon o egwyddor bur yw y prif syniad ynddynt. (b) **Ffydd gyflawn.—Yn nghyflawnder ffydd,** neu lawn hyder ffydd, sef y teimlad o ymddiried cadarn sydd mewn ffydd o radd uchel. Peth perthynol i ffydd ddadblygedig, un fedd sicrwydd profiad o'r gwrthddrych, yw y llawn hyder yma, neu lawn sicrwydd fel y cyfieitha rhai ef. Ffydd na fydd gradd o amheuaeth ynddi. Dylai pawb feddu hon a sylweddolant y rhyddid sydd i agoshau at Dduw ar hyd y ffordd newydd trwy yr Offeiriad Mawr. Gedy y C.D. "hyder" allan, ond cynwysa y gair πληροφορία a gyfieithir "cyflawnder"—y syniad o sicrwydd hefyd. Eithr y meddwl yw ffydd o radd uchel mewn dadblygiad. (c) **Cydwybod ddieuog.—A chenym ein calonau wedi eu taenellu oddiwrth gydwybod ddrwg.**—Nid yw calon fedd egwyddor gywir a ffydd ddadblygedig gref yn ddigon i agoshau at Dduw. Rhaid cael cydwybod ddieuog hefyd. Beth yw hyny? Cydwybod heb bechod yn faich arni. Teimla cydwybod perchen y galon lan a'r ffydd gyflawn fod iawn wedi ei roddi dros yr enaid ac yna ni phoenir hi gan euogrwydd pechod.

24 A chyd-ystyriwn bawb ein gilydd, i ymanog i gariad a gweithredoedd da ;

Calon wedi ei thaenellu oddiwrth gydwybod ddrwg yw un wedi profi blas maddeuant Duw. Cyfeiriad sydd yn y gair taenellu at waith yr archoffeiriad yn taenellu gwaed yr aberth yn y cysegr sancteiddiolaf. Ffigwr sydd yn y geiriau i ddangos fod effeithiau yr Iawn yn puro calonau dynion. (d) **Natur anianol bur.—A golchi ein corph a dwfr glan.**—Ffigwr sydd yma eto. Ceisia un dosbarth o esbonwyr ddadleu mai y bedydd olygir wrth y geiriau hyn. Eithr ni allwn gredu hyny. Pe hyny olygid, sicr yw y gwnelsai yr awdwr y peth yn eglur. Pan eir ar ol y syniad ni ddeil ei brofi chwaith. Myn y rhai a'i deil fod bedydd yn arwyddlun o ail-enedigaeth, neu fod ail-enedigaeth yn gydfynedol a bedydd. Ond ymddengys fod calon gywir, ffydd gyflawn, a chydwybod ddieuog yn effeithiau ail-enedigaeth, ac ni fuasai yr awdwr yn dwyn ail-enedigaeth i fewn drachefn, neu yr hyn oedd yn arwyddlun ohoni. Gwell genym gredu mai ffigwr yw y golchi yma i ddangos y dylai natur anianol y rhai nesant at Dduw fod yn bur. Cymer iach-awdwriaeth Crist y corph a'r bywyd anianyddol i fewn yn gystal a'r ysbryd. Darostynga y nwydau, y tueddiadau, a'r tymherau anianyddol dan lywodraeth. Y golchi wnai yr archoffeiriad ar ei gorph cyn myned i'r cysegr sydd o flaen meddwl yr awdwr. (e) **Cyffes gadarn** (23).—**Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl.**—Neu, heb wyro. Cyffes eu gobaith oedd eu cyffes o Grist. Efe oedd gwrthddrych eu gobaith, ac anoga yr awdwr hwy i ddal eu cyffes ohono beth bynag ddeuai i'w cyfarfod. Perygl oedd iddynt wyro, dan erledigaethau a themtasiynau, Gobeithient am fendithion yr efengyl yn amserol a thragywyddol, a mynediad i'r cysegr dwyfol, a thrwy Grist y disgwylient yr oll. (f) **Rheswm dros gadw eu cyffes.—Canys ffyddlawn yw yr hwn a addawodd.**—Ni ellid cael rheswm cryfach na hwn. Pwy addawodd? Duw. Y mae ef yn anghyfnewidiol, yn hollalluog ac yn ffyddlawn i bob addewid o'i eiddo. Addawodd holl gyfoeth iachawdwriaeth i bawb a gredant, a chyn sicred a hyny cyflawna ei addewid. Byddai yn amhosibl iddo fod yn anffyddlawn.

II. Dyledswyddau y teulu crefyddol (24-25).—(1) **Teimlo yn dda** (24).—**A chyd-ystyriwn ein gilydd i gyffroi i gariad.**—Triniodd yr awdwr nifer o ddyledswyddau personol hanfodol crefydd yn yr adnodau blaenorol, ac yma symuda at rai yr eglwys, neu y teulu crefyddol. Un

25 Heb esgeuluso ein cyd-gynulliad ein hunain, megys y mae arfer rhai ; ond anog bawb ein gilydd : a hyny yn fwy, o gymaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesau.

---

teulu ysbrydol yw yr eglwys i fod, a dylai pob aelod ystyried ei gyd-aelodau. Wrth hyny y golygir rhoddi sylw manwl iddynt yn eu holl nodweddion da a drwg. Dylai amcan pendant fod yn yr ystyriaeth hefyd, sef yr amcan o gyffroi i gariad, neu i deimlad da. Yr ystyr o demtio sydd i'r gair cyffroi y rhan fynychaf. Efe ddefnyddir am y genedl yn cyffroi Duw yn yr anialwch. Ond yma, ystyr dda sydd i'r gair, er mai dyma yr unig fan yn y Test. Newydd y ceir ystyr dda iddo. Golyga dynu y naill y llall allan i garu eu gilydd. Nid y dyn yn tynu ei hunan i hyny feddylir, fel y myn un dosbarth, ond tynu ereill i garu—gwneyd pethau fuasai yn symbylu i gariad. Rhaid cael teimlad da yn sylfaen i grefydd. Beth bynag fedd dynion heb gariad, nid yw o un budd. Heblaw cariad neu deimlad da at eu gilydd cynwys y ddyledswydd gariad at Grist hefyd. (2) **Gweithredu yn dda.—A gweithredoedd.**—Ni esyd y C.D. "da" i fewn ar ol gweithredoedd, ond ceir ef mewn amryw MSS. a chredwn fod yn iawn ei osod i fewn. Gwna y meddwl yn gyflawnach. Nid digon meddu teimlad da, sef cariad, rhaid cael gweithredoedd da i wneyd bywyd yn llawn. Dyledswydd aelodau y teulu crefyddol yw cyffroi eu gilydd i weithredoedd da yn gystal ag i deimladau da. Golyga y gair am "dda" — καλῶν — a gawn yma, "hardd." Felly nid y meddwl yw gweithredoedd da yn eu natur yn unig, ond rhai hefyd a dynant sylw ereill oblegid eu harddwch moesol ac ysbrydol, rhai a ddylanwadant ar ereill yn dda yn gystal ag ar eu cyflawnydd. Nid oes dim o'r fath nerth moesol mewn bywyd a gweithredoedd moesol hardd. Swynant angylion yn gystal a dynion. Beth a'u gwna yn hardd? Yr ysbryd yn yr hwn y cyflawnir hwynt, a dull eu cyflawniad. Pan darddant o ysbryd cariad, natur ddynol gyfoethog a gras, bydd eu swyn yn anorchfygol bron. (3) **Mynychu y cynulliad da** (25).—**Heb roddi heibio y cynulliad ohonom ein hunain yng nghyd, megys y mae arfer rhai, ond anog bawb ein gilydd.**—Dyma ddyledswydd arall bwysig. Un yw hi ddilyna y lleill. Dynion o deimladau a gweithredoedd hardd sydd yn eisieu yn y cyfarfodydd crefyddol. Nid lle i ddynion mewn teimlad drwg yw cyfarfodydd ysbrydol. Beth yw meddwl y geiriau "Heb roddi heibio y cynulliad ohonom ein hunain?" (1) Peidio gadael cynal cyfar-

26 Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach;

---

fodydd crefyddol yn ol rhai; (2) peidio gadael mynychu y cyfarfodydd yn ol ereill; (3) peidio gadael dilyn eu cyfarfodydd trwy fynychu y synagogau Iuddewig; (4) ymatal rhag gadael cynulliad y saint yn hollol yw y syniad cywir yn ddiau. Gwasga yr awdwr arnynt nad allent addoli gartref yr un fath a chyda'r saint. Rhaid ymgynull gyda hwy i ddadblygu prif rinweddau bywyd. Ammhosibl i ddynion ddadblygu adnoddau dyfnaf a chyfoethocaf bywyd ond yng nghymdeithas y bobl oreu. Buasai rhai yr adeg hono yn credu nad oedd hyn yn hanfodol i dyfiant bywyd, a cheir rhai o'r un dosbarth ym mhob oes. Tybient eu hunain yn well nag ereill, neu credent y gallent elwa cymaint gartref. Anghofient fod dyledswydd arnynt i roddi esiampl i ereill. Eu dyledswydd oedd anog eu gilydd i ymgynull oblegid fod hyny yn hanfodol i ddadblygiad ysbrydol ac esiampl dda i'r brodyr a'r chwiorydd. Nid yw "eich gilydd" yn y C.D. am eu bod allan o'r MSS. goreu, ond cynorthwyant i wneyd y synwyr yn eglurach. (4) **Rheswm dros y dyledswyddau.—A hyny yn fwy, o gymaint, a'ch bod yn gweled y dydd yn nesâu.**—Byrder amser yw y rheswm dros y dyledswyddau eglwysyddol, neu rai y teulu crefyddol. Ychydig o amser oedd ganddynt i fod o les i'w gilydd. Beth yw meddwl "a hyny yn fwy"? Anog yn amlach, yn ddwysach, yn daerach ac yn ddifrifolach. Pa ddydd olygir yma? (1) Dinystr Jerusalem yn ol rhai esbonwyr; (2) ail ddyfodiad Crist yw syniad cryn nifer; (3) dydd marwolaeth; ond (4) gwell genym gredu mai dydd y farn sydd o flaen meddwl yr awdwr.

III. Canlyniad esgeuluso dyledswyddau a phechu ar ol cael goleuni (26-31).—(1) **Natur y pechod** (26).—**Canys os o'n gwirfodd y pechwn.**—Yr egwyddor gyfansodda natur y pechod yw gwirfoddolrwydd. Nid esgeuluso yn ddifater a wna pechadur gwirfoddol. Peth drwg fuasai esgeuluso heb un amcan llygredig, ond y mae esgeuluso gydag amcan pechadurus yn llawer gwaeth. Meddwl pechu o wirfodd yw nid (1) pechu mewn anwybodaeth, (2) oblegid gwendid naturiol, (3) mewn nwyd, (4) dan demtasiwn, neu (5) mewn camsyniad, ond (6) pechu gyda bwriad llawn, addfed, pechu yn hollol ddigyffro ar ol ystyried yr oll, a phechu gan gael pleser digymysg wrth hyny. Hefyd dengys

27 Eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tan, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr.

---

amser presenol y ferf "pechwn" gyflwr parhaus yr ewyllys. Nid cyflwr am ychydig yw ef, ond un di-dor. (2) **Graddau y pechod.—Ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd.**—Pa beth all ddangos eithafion graddau y pechod yn fwy na hyn? Dengys y gair am wybodaeth hyny yn eglur iawn. Golyga *ἐπίγνοσις* —wybodaeth uwchraddol ac o natur ysbrydol—gwybodaeth brofiadol o bethau ysbrydol yn goleuo y deall. Hefyd, gwybodaeth y gwirionedd yw hi, sef gwirionedd cadwedigaeth. Gellir cael gwybodaeth ddeallol o wirionedd achubol heb achubiaeth. Hyn wna raddau pechod dyn yn ofnadwy pan becha ar ol ei derbyn. Golwg glir ar dda wna bechod dyn yn ofnadwy o ddrwg. Y mawr ei wybodaeth all fyned yn isel, neu yn fawr ei bechod. (3) **Graddau y canlyniad.**—(a) **Dim aberth.—Nid oes aberth dros bechodau yn aros mwyach.**—Dyma elfen gyntaf graddau y canlyniad—"dim aberth yn aros." Pecha dyn ei hun tudraw i gyrhaedd aberth anfeidrol Crist, ac o ganlyniad ni all aberth arall fod. Hysbyddodd Crist aberth am dragywyddoldeb. Pechu tuhwnt i allu ei aberth ef yw pechu tuhwnt i bosibilrwydd iachawdwriaeth am byth. (b) **Dim gobaith** (27).—**Eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farn, ac angerdd tan yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr.**—Desgrifia yr adnod hon gyflwr di-obaith y rhai bechant o'u gwirfodd. Lle nad oes aberth nid oes obaith. Ni ellir dangos cyflwr mwy di-obaith na dyweyd mai rhyw ddisgwyl ofnadwy yw hanes y pechadur gwirfoddol. Ni wyddai yr awdwr natur a graddau ei gosp, gan hyny, ni nodir hi yma yn fanwl. "Rhyw ddisgwyl," ac nid disgwyl terfynol, pendant, a ddywedir. Tybia yr awdwr y bydd y gosp yn annesgrifiadwy yn ei graddau. Cyfieitha rhai "ofnadwy" yn annesgrifiadwy. Disgwyl na ellid traethu ei gynwys na dirnad ei natur a'i raddau. Bydd y dyn yn ymwybodol bob tro y pecha ei fod yn euog ac yn haeddu cosp, ac yna llenwir ef a'r disgwyl hwn am farnedigaeth neu ddedfryd ar ei drosedd, a hono yn ddedfryd gondemniol. Y farn yw "angerdd tan." Yn llythyrenol, cenfigen (*the jealousy of fire*). Beth yw meddwl ysbrydol y geiriau ? Tywalltiad o eiddigedd Duw ar y pechadur. Nid ydym i ddeall mai tan materol olygir, eithr yn hytrach tan llidiogrwydd Duw. Gan fod graddau y pechod yr uchaf posibl, bydd cosp Duw yn gyfatebol yn ei graddau. Bydd ei graddau mor fawr fel y gwna "ddifa y gwrthwyn

28 Yr un a ddirmygai gyfraith Moses, a fyddai farw heb drugaredd, dan ddau neu dri o dystion:
29 Pa faint mwy cospedigaeth, dybygwch chwi, y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn

---

ebwyr." Nid eu difodi feddylir, ond eu difa; hyny yw, eu poeni yn barhaus. Cosp ddifaol fydd hi, ond nid ddifodol. Pe difodai hi y pechaduriaid, elent allan o'i chyrhaedd; ond yr hyn a'i gwna yn ofnadwy yw y gall ddifa heb ddifodi. Beth wna hi ddifa? Y gallu i fwynhau dim am byth. Difa yw hwn o'r un natur ag eiddo gofid, galar, trafferth a phoen. Peth yn difa a gwneyd dyn yn fwy teimladwy yr un pryd. Ni ellir synied am sefyllfa fwy di-obaith. (4) **Graddau y canlyniad yn ganlyniad graddau y pechod** (28, 29).—(a) **Yn ol yr Ysgrythyr** (28).—**Y neb a ddirmygodd gyfraith Moses sydd yn marw heb dosturi ar air dau neu dri o dystion.**—Wedi dangos sefyllfa ofnadwy anobeithiol y pechadur gwirfoddol, gofynol oedd egluro hyny. Yn yr adnodau hyn gwna yr awdwr hyny mewn modd athronyddol. Cyfeiria yn gyntaf at gyfraith Moses fel prawf. Byddai graddau y canlyniad, neu y gosp, yn ol graddau y pechod yn hono. Os dirmygai rhywun y gyfraith yn wirfoddol nid oedd aberth am ei bechod. Os ceid dau neu dri o dystion iddo ei dirmygu yn hollol wirfoddol lleddid ef yn ddidrugaredd. Dangosai ei ddirmyg fod ei enaid yn llawn casineb at y gyfraith a'i hawdwr; ei fod yn ymhyfrydu yn ei thori; ei fod yn awyddu am ei thori, ac na fyddai yn llonydd heb ei thori, er gwybod y drwg moesol o'i thori a'r canlyniadau o hyny. I'r cyfryw nid oedd aberth. Cymerid aberth am bechodau o anwybod, rhai yn ffrwyth nwyd, temtasiwn, camsyniad, cyfeiliornad, a rhai yn gynyrch camarweiniad, ond dim am rai o'r natur a nodwyd uchod. Yr oedd fod dyn wedi cyflawni y pechod o ddirmygu y gyfraith gyda gwrthnaws ei enaid ati, yng ngwydd dau neu dri yn ddigon, heb iddo fod yn bechadur cyhoeddus iawn. Meddwl "heb dosturi" yw nad oedd aberth yn bosibl. Yr oedd ysbryd y fath ddyn tu hwnt i dosturi. (b) **Yn ol rheswm** (29).—**Pa faint gwaeth cospedigaeth, dybygwch chwi, y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd dan draed Fab Duw, ac a gyfrifodd waed y cyfamod, a'r hwn y sancteiddiwyd ef, yn beth aflan, ac a fwriodd ddirmyg ar Ysbryd y gras?**—Yn llythyrenol, pa faint gwaeth; hyny yw, pa faint yn llymach, yn galetach, ac yn ddwysach. Gan fod graddau y gosp yn ganlyniad graddau y pechod dan gyfraith Moses,

aflan waed y cyfamod, trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef, ac a ddifenwodd Ysbryd y gras?

---

profa rheswm fod yr un peth yn wir yn ei berthynas a dirmygu Crist. Marwolaeth naturol oedd y gosp am ddirmygu cyfraith Moses, ond marwolaeth ysbrydol yw y gosp am ddirmygu Crist. Ni ellir dirnad holl gynwys hono, a dyna paham na ddywed yr awdwr yn eglur beth yw ei chynwys. Geilw hi yn rhyw ddisgwyl annesgrifiadwy am farnedigaeth ac angerdd tan, a dywed yn yr adnod hon ei bod yn fwy na'r un am ddirmygu cyfraith Moses. Apelia at reswm yr Hebreaid ar hyn yn y geiriau "y bernwch chwi." Gofyna iddynt farnu y mater yn deg. Os oedd dirmygu datguddiad cyfraith Moses yn haeddu y fath gosp, beth am ddirmygu datguddiad anfeidrol yn yr Iesu? Os oedd dirmygu cyfraith yn haeddu marwolaeth naturiol, ai ni haeddai dirmygu person dwyfol farwolaeth ysbrydol? Cyfraith Duw oedd cyfraith Moses; Mab Duw yw Crist. Mater o haeddiant yw y gosp hon fel yr un am ddirmygu cyfraith Moses. Ni chaiff y troseddwr fwy na llai nag a lawn haedda. Cymeradwya rheswm hyn oll. Dangosir mawredd y pechod a haedda y gosp yma mewn tri o bethau :— Mathru Mab Duw. Beth yw hyn? Ystyr llythyrenol y gair καταπατήσας – "fathrodd dan draed"—yw sarnu dan draed. Ni ellir cael arwydd o ddirmyg mwy na mathru neu sarnu fel yma. Y dirmyg mwyaf all dyn fu yn proffesu Mab Duw wneyd yw ymddwyn ato fel pe byddai yn dwyllwr ac yn haeddu ei fathru. Mewn teimlad ac ymddygiad mathra ef, er na all wneyd hyny yn llythyrenol. (2) Cyfrif ei aberth yn aflan. Golyga cyfrif naill ai casgliad ar ol edrych dros yr oll neu gyfrif rhifyddol, sef y swm ar ol cyfrif i fyny y ffigyrau. Credwn mai cyfrif rhesymegol sydd yma. Ar ol edrych dros yr oll yng nglyn ag aberth Crist, barna y dyn ei waed neu ei aberth yn beth cyffredin. Cyfeithir y gair am aflan yma yn cyffredin yn fynych. Golyga beth diwerth a halogedig. Gelwir gwaed Crist yn waed y cyfamod, am mai drwy ei farwolaeth y sicrhawyd y cyfamod ; hyny yw, drwy ei hunan-aberth. Cysegrodd Moses y cyfamod cyntaf a gwaed. Felly y gwnaeth Crist a'r ail. Eithr nid y gwaed naturiol feddylir, eithr aberth anfeidrol Crist; ei fywyd. Pa fodd y sancteiddia aberth Crist ddynion wrthgilia fel hyn? Ymddengys i ni fod tri ystyr i'r gair sancteiddio, sef (1) neillduo, (2) sancteiddio yn foesol, a (3) dylanwad yr ysbryd ar y dyn yn goleuo ei feddwl a gwresogi ei galon

30 Canys nyni a adwaenom y neb a ddywedodd, Myfi biau dial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd. A thrachefn, Yr Arglwydd a farna ei bobl.

---

am dymhor yn unig. Saif hwn rhwng neillduo a sancteiddio yn foesol. Dyma y dylanwad a drinia yr awdwr yn pen. vi. 4-6. Profodd y bobl hyn ddylanwad yr Ysbryd Glan trwy aberth Crist ar eu hysbrydoedd, ond nid oedd yn ddylanwad parhaol. Gall y dylanwad hwn achosi diwygiad mewn bywyd dros amser, peri i'r dyn beidio pechu, a rhoddi iddo heddwch mewnol, ond dros amser yn unig y mae. I'an dor y dyn allan i bechu drachefn, barna yn aflan y dylanwad a'i cododd i fyw bywyd gwell am dymhor. (3) Difenwi Ysbryd Duw. Pa ysbryd? (a) Ysbryd Crist ei hun yn ol rhai; (b) yr Ysbryd Glan yw y syniad cywir yn ddiau. Efe gyfrana ras o bob math er mai o eiddo Crist y cymer ef. Gwna tori allan i bechu ei ddifenwi. Ceir esgyneb yn y troseddau hyn. Y mae cyfrif aberth Crist yn aflan yn waeth na'i fathru; ac y mae gwrthod dylanwadau yr Ysbryd Glan a'i ddifenwi yn waeth na'r ddau. Ysbryd Duw yn unig all achub ac y mae ei wrthod a'i ddifenwi yn taflu anfri ar unig ffordd Duw i gadw. Dywed rheswm, gan hyny, fod hyn yn haeddu y gosp fwyaf. Ymddyga y dyn at y pethau dwyfolaf fel y pethau aflanaf. Mathra y person mwyaf fel y troseddwr gwaethaf; edrycha ar ei farwolaeth fel eiddo y pechadur aflanaf, a difenwa yr Ysbryd gyfrana ras, fel drwg-weithredwr. (5) **Natur Duw yn sicrwydd y bydd graddau y gosp yn ol graddau y pechod** (30-31).—**Canys nyni a'i hadwaenom yr hwn a ddywedodd, I mi y perthyn dial, myfi a dalaf. A thrachefn, yr Arglwydd a farna ei bobl. Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw.**—Wedi dyweyd pethau mor eithafol, gofala yr awdwr osod yr oll i bwyso ar yr ysgrythyr fel arfer. Natur Duw yw y sicrwydd y bydd graddau y gosp fel y dywedwyd ganddo. Nid un sydd yn dyweyd a ddim yn cyflawni yw ef. Gwyddai yr awdwr oddiar adnabyddiaeth ohono y cyflawnai yr hyn a ddywedai. Duw digelwyddog yw, a chyflawna yr oll a ddywed. Ceir sylwedd y dyfyniad hwn yn Deut. xxxii. 35, ond nid yw y geiriau yno yn llythyrenol fel yma yn y testyn Hebraeg na'r LXX. Dichon mai dyfynu o'i gof wnai yr awdwr neu o'r cyfieithiad rhydd a ddefnyddid yn y synagogau, ac mai dyna gyfrifa am y gwahaniaeth. Dywed Duw dri o bethau am gosp yma :—(1) Mai iddo ef y perthyn dial. Paham ? Am mai efe biau pob deddf y pechir yn

31 Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw.
32 Ond gelwch i'ch cof y dyddiau o'r blaen, yn y rhai, wedi eich goleuo, y dioddefasoch ymdrech mawr o helbulon:

---

ei herbyn. Efe biau holl ddeddfau naturiol, meddyliol, moesol, ac ysbrydol y cread. Gan hyny, nid oes gan neb hawl hollol i gospi ond efe. (2) Y dial. "Mi a dalaf," meddai. Oblegid yr hyn yw ei natur ni all beidio cospi. Gorfoda ei natur ef i gospi troseddau gwirfoddol o'i ddeddfau. (3) Y barna ei bobl. Ceir y geiriau hyn yn Deut. xxxii. 36, a Psalm cxxxv. 14. Nid y bydd ef yn cospi ei bobl feddylir wrthynt, ond yn cospi y rhai wnant gam a hwynt. Barnu ei bobl yn y Beibl yw gwneyd trugaredd a hwynt; ond y modd y barnai hwynt fynychaf oedd trwy eu hamddiffyn rhag dynion drwg a chenhedloedd a'u gorthrymai. Yr oedd trugaredd neu farnu ei bobl yn gosp ar eu gorthrymwyr felly. Gwnai pobl fel a ddesgrifir yma gam a phobl Dduw trwy eu hymddygiad at y Mab a'r Ysbryd Glan, a'u hymddygiad uniongyrchol at ganlynwyr Crist; ond sicrha Duw eu bobl y barna ef hwynt. Cynwysa hyny ddial ar y gwrthwynebwyr. Dywedodd yr awdwr yn nechreu yr adnod yr adwaenai Dduw, ac yn y diwedd dyg ym mlaen y frawddeg y ceir ei sylwedd yn 2 Sam. xxiv. 14 i ddangos hanfod ei natur. Duw byw yw ef. Medd yni anfeidrol sydd mewn gweithrediad parhaus ac anghyfnewidiol. Gan ei fod yn fyw, gall gospi byth, a chan ei fod yn anghyfnewidiol gwna gospi yn dragywyddol. Yr hyn ydyw yw yr hyn a wna. Rhed holl weithrediad ei natur allan yn erbyn pèchod a hyny yn ddidor. Peth annesgrifiadwy ac ofnadwy, gan hyny, yw syrthio i'w ddwylaw fel cospwr.

IV. Dyledswyddau ar sail eu hanes yn y gorphenol a'u gwobr ddyfodol (32-35).—(1) **Galw i gof y gorphenol** (32-34).—**Ond gelwch i'ch cof y dyddiau o'r blaen, yn y rhai wedi eich goleuo y dioddefasoch ymdrech mawr o helbulon; wedi eich gwneuthur mewn rhan yn wawd trwy waradwyddiadau a chystuddiau; ac mewn rhan, yn dyfod yn gyfranogion a'r rhai a drinid felly. Canys chwi a ddangosasoch dosturi tuag at y rhai oedd mewn rhwymau, ac hefyd a gymerasoch yn llawen eich yspeilio o'ch meddiannau, gan wybod fod i chwi eich hunain feddiant gwell ac un parhaus.**—Pa fodd y mae galw i gof y gorphenol yn ddyledswydd? Am fod ysbrydiaeth yn dyfod o'r

33 Wedi eich gwneuthur weithiau yn wawd, trwy waradwyddiadau a chystuddiau; ac weithiau yn bod yn gyfranogion a'r rhai a drinid felly.

34 Canys chwi a gyd-ddioddefasoch a'm rhwymau i hefyd, ac a gymerasoch eich yspeilio am y pethau oedd genych yn llawen; gan wybod fod genych i chwi eich hunain olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus.

---

gorphenol i gyflawni gwaith crefyddol. Dylai dynion Duw alw i gof y gorphenol yn barhaus er mwyn ysbrydiaeth ar gyfer y dyfodol. Bu yr Hebreaid ar ol cael eu goleuo trwy yr efengyl mewn ymdrech a barodd ddioddefaint mawr iddynt. Eithr daliasant yn gadarn yn yr holl helbulon. Gwawdiwyd ac erlidiwyd hwy; eithr daliasant dan yr oll heb roddi eu ffordd. Yr oedd yr ymdrechion yn fawrion yn eu graddau heblaw eu bod yn llawer o ran rhif. Byddai yr helbulon lluosog yn rhai dwysion. "Gwaradwydd a chystuddiau," yn ol adn. 33, oedd un ffurf ar yr "ymdrech mawr o helbulon." Manylu ar gynwys yr ymdrech mawr wna yr awdwr yn adn. 33-34. Beth oedd yn eu gwneyd yn waradwydd? Nid eu taflu i'r bwystfilod, fel y cred rhai. Byddid yn taflu rhai i'r *amphitheatre* i ganol gwylltfilod; ond ni ddeuai nemawr oddiyno yn fyw. Y meddwl yma yw gwaradwydd yr Hebreaid ar gyhoedd, eu trin yn arw, a'u herlid yn aml. Weithiau clwyfid hwy a byddent yn dianc i ymguddio, ac oblegid hyny yn cael eu cystuddio. Byddai y cam wneid a'u cyrph yn dwyn cystuddiau corfforol arnynt. Deuai llawer o hyn arnynt, am eu bod yn sefyll dros y rhai drinid yn arw. Pryd bynag y gwelent frodyr a chwiorydd Cristionogol yn cael eu cam-drin, safent yn eu hymyl, ac amddiffynent hwy. Yn adn. 34 dengys yr awdwr mai rhai mewn "rhwymau" neu "garcharorion" oedd y rhai a amddiffynent. Tosturiasant wrthynt trwy ymweled a hwy, sefyll dros eu diniweidrwydd, dwyn ymborth iddynt, cyfranu o'u harian iddynt, a'u cysuro ym mhob modd a allent. Gwnai rhai ysbeilio eu meddiannau pan gydymdeimlent a'u cyfeillion, ond nid oedd hyny ond llawenydd i'r Hebreaid. Ceir llawer o hyn yn y dwyrain yn awr. Manteisia rhai ar absenoldeb dynion o'u tai i'w hysbeilio; felly am yr Hebreaid: pan aent i ymweled a charcharorion, ysbeilid eu cyfoeth. Eithr llawenhau a wnaent er hyny. Y rheswm am hyny oedd y gwyddent fod ganddynt feddiant gwell. Darllena rhai hen MSS., "Gan wybod fod eich hunain genych yn feddiant gwell." Er colli eu

35 Am hyny na fwriwch ymaith eich hyder, yr hwn sydd iddo fawr wobr.
36 Canys rhaid i chwi wrth amynedd; fel, wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid.

---

cyfoeth daearol yr oedd eu hunain ganddynt, sef y peth gwerthfawrocaf a phwysicaf. (2) **Cadw hyfder ar gyfer y dyfodol** (35).—**Am hyny na fwriwch ymaith eich hyfder yr hwn y mae iddo fawr daledigaeth o wobr.**—Ysbrydiaeth oedd galw i gof y gorphenol. Parai cofio y caledi yr aethant drwyddo nerth iddynt ar gyfer yr un peth yn y dyfodol. Gan eu bod wedi dal yn y fath ymdrech anoga yr awdwr hwy i beidio bwrw ymaith y gallu mawr a'u cariodd drwy eu trafferthion gorphenol. Hyfder yw hwnw, neu y gwroldeb sydd yn eisieu i wynebu anhawsderau. Rhaid oedd iddynt wrth wroldeb moesol a wynebai ddioddefiadau yn hyf. Trwy gadw hwn, cadwai yr Hebreaid yr hyn a'u dygodd yn llwyddiannus drwy y gorphenol helbulus. Hefyd, y mae iddo "fawr daledigaeth o wobr." Pa eisieu dyweyd taledigaeth a gwobr? Am fod y wobr yn ffrwyth ymdrech hyf bersonol, y mae yn daledigaeth; ac fel y mae yn fwy nag a haedda dyn y mae yn wobr. Meddent y daledigaeth a'r wobr yn rhanol ar hyny o bryd, oblegid y mae y ferf gyfieithir yn "sydd iddo" yn yr amser presenol. Meddai yr hyfder wobr ynddo ei hunan. Dygai ei natur dal a gwobr iddynt. Cydia yr awdwr y gorphenol, y presenol a'r dyfodol yn y dyledswyddau hyn.

V. Anghenion yr Hebreaid a chalondid iddynt (36-39).—(1) **Angen Amynedd** (36).—**Canys rhaid i chwi wrth amynedd, fel, wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid.**—Nid rheswm yw yr adnod hon dros y dyledswyddau a nodwyd uchod fel y synia nifer. Amcan yr adnod yw dangos eu hangen yng ngwyneb y sefyllfa yr oeddynt ynddi. Galwai yr amgylchiadau a ddesgrifiwyd am amynedd neilluol. Eu perygl hwythau oedd llaesu dwylaw. Ond ni ellid sicrhau y wobr heb amynedd. Gallu i ddioddef mewn gwaith dros Grist yw amynedd ac nid gallu i ddioddef pan yn segur. Wrth weithredu amynedd felly yn unig y gellir cyflawni ewyllys Duw. Rhaid dioddef mewn gwaith dros Dduw i gyflawni ei ewyllys. Amynedd yw un amod cyflawniad yr ewyllys, a chyflawniad yr ewyllys yw amod derbyn yr addewid. Daw y wobr i'r enaid fel y byddo yn cyflawni yr ewyllys. Yr addewid yn ei natur yw bywyd tragywyddol yn y galon, a dadblyga hwnw fel y cyflawnir yr ewyllys. Ond ni cheir holl gynwys yr ewyllys

37 Oblegid ychydig bachigyn eto, a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda.
38 A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd: eithr o thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.

---

hyd nes cyrhaedd y nef. (2) **Rheswm dros amynedd** (37).—**Canys ychydig bachigyn eto yr hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda.**—Y rheswm yw byrder yr amser cyn y daw yr hwn sydd i ddyfod. Dengys "bachigyn" mai ychydig bach iawn sydd o amser cyn y daw. Pwy yw ef? Crist yn ddiamheu. At ba ddyfodiad y cyfeirir? (1) Nid ei ail ddyfodiad, (2) na'i ddyfodiad yn y farn, ond (3) ei ddyfodiad parhaus i amddiffyn ac arwain ei bobl. Ni edy ef i'w bobl ddioddef dros derfynau cyn dyfod i'w cynorthwyo. Edrychai yr Iuddewon ar bob gwaredigaeth fel gwaith uniongyrchol Duw yn amddiffyn. Dyna y syniad sydd yma. Seilia yr awdwr ei reswm ar Ysgrythyr, oblegid geiriau o Habacuc. ii. 3, yw y frawddeg hon. (3) **Angen ffydd** (38).—**Eithr fy un cyfiawn a fydd byw trwy ffydd: ac os encilia yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.**—Pwy yw yr "un cyfiawn"? Y sawl ddeil ei hyfder yng ngwyneb pob caledi; yr un sydd yn gweithredu amynedd ym mhob dioddefaint. Beth bârai angen yr Hebreaid am ffydd? Nid i'w cyfiawnhau, ond i fyw. Ffydd yw egwyddor bywyd y cyfiawn. Yr oeddynt wedi eu cyfiawnhau, ond yr oedd angen ffydd arnynt i fyw trwy bob anhawsder. Geiriau o Habacuc ii. 4 yw y rhai hyn o ran eu sylwedd. Eithr gwahaniaethant dipyn oddiwrth y testyn Hebraeg. Darlleniad y MS. Alexandriaidd yw, "A'm cyfiawn i, trwy ffydd a fydd byw." Darllena y mwyafrif o'r MSS. o'r LXX., "A'r cyfiawn, trwy ffydd a fydd byw." "Fy nyn cyfiawn," yw darlleniad y Vulgate. Ceir "ffyddlondeb" yn lle "ffydd" mewn amryw MSS. Yr ystyr felly yw fod y cyfiawn yn byw trwy ffyddlondeb. Ychydig o wahaniaeth sydd yn ystyr yr holl ddarlleniadau. Pwysleisient oll y rhaid cael ffydd i fyw. Hefyd, na ellir boddloni Duw heb ffydd. Paham? Am nad all bywyd fod yn iawn heb gael ei lywodraethu gan yr egwyddor o ffydd. Ni all Duw hoffi enciliwr. Meddwl cyntaf "encilio yn ol" oedd tynu i lawr hwyliau llong cyn tymhestl. Daeth, yn ail, i feddwl cilio yn ol oblegid ofn a llwfrdra. Dyna ei ystyr yma. Ni all Duw ymhyfrydu yn neb dyn yn ol oblegid rhwystrau. Dynion ant trwy bob rhwystrau yn unig allant gario ei waith ef ym mlaen; (2) allant orchfygu ei elynion; (3) allant ddadblygu adnoddau eu bywyd; ac (4) allant gyrhaedd

39 Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynu yn ol i golledigaeth; namyn o ffydd, i gadwedigaeth yr enaid.

---

amcan eu creadigaeth. Ond a all y cyfiawn encilio? Nid yw hyny yn ammhosibl yn ol tyb rhai. Myn ereill nad all ond y cyfiawn ymddangosiadol encilio. Hwn yw y syniad cywir. (4) **Calondid seiliedig ar eu ffydd** (39).—**Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn encilio yn ol i golledigaeth; eithr o'r rhai sydd ganddynt ffydd i gadwedigaeth yr enaid.**—Neu, "Nid ydym ni o'r tyniad yn ol i golledigaeth." Gesyd yr awdwr hwy i fewn gydag ef ei hun fel rhai heb duedd tynu yn ol ynddynt. Paham yr anoga hwynt i beidio os nad oeddynt o'r rhai dueddent i encilio. (1) Gwyddai fod posibilrwydd enciliad ynddynt a bod anhawsderau o'u blaen a'u profent yn fwy nag erioed. (2) Er fod ffydd ganddynt a phenderfyniad i lynu wrth Grist, yr oedd angen dadblygu y rhai hyny arnynt. Bydd ysgrifenwyr y Beibl yn anog yn fynych trwy gymeryd yn ganiataol fod yr hyn a anogir yn feddiant personol i'r rhai a anogant, er mwyn gwneyd y peth yn esmwythach. Ni feddai yr Hebreaid ffydd ac amynedd i'r graddau y carai yr awdwr, ac yna anoga hwynt i'w meddiannu. Eu meddiannu yn helaethach yw ei wir feddwl.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Meddylier am yr angen i Grist feddu corph ac enaid i allu cadw dyn.

Astudier yr angenrheidrwydd i wneyd ewyllys Duw i allu cadw enaid.

Ystyrier y modd y dilea aberth Crist bechodau dynion.

Myfyrier ar darddiad, natur, ffurfiau pechod a'r dosbarthiadau o bechod.

Chwilier i berthynas yr Ysbryd Glan a'r Hen Oruchwyliaeth.

Meddylier am berffeithrwydd, anfeidroldeb a thragywyddolrwydd aberth Crist.

Gwneler rhestr o'r pynciau y cyffyrddir a hwy yn y benod.

Sylwer ar berthynas graddau goleuni, a graddau cosp am bechod.

Eglurer y berthynas rhwng amynedd a derbyn addewidion Duw.

III. Traethawd.

Y Tair Archoffeiriadaeth.

I. Yr archoffeiriadaeth anianyddol.—Un Aaron oedd hon, a'r rheswm y galwn hi yn anianyddol yw, am ei bod yn pwyso ar gysylltiadau anianyddol yn benaf. Rhai anianyddol oedd y prif gymhwysderau a bwysleisid ganddi. Bod o lwyth a theulu neillduol, olrheiniad o gysylltiadau achyddol, oedran a pherffeithrwydd anianyddol oeddynt y cymhwysderau hanfodol yn ol Urdd Aaron i fod yn archoffeiriad. Rhoddid pwys mwy felly ar berffeithrwydd anianyddol na moesol. Pe buasai un yn eithriadol ym mawredd ei bersonoliaeth, yn ei alluoedd moesol a'i sancteiddrwydd ysbrydol ni chawsai gyflawni y swydd os buasai arno nam anianyddol. Dengys hyn mor elfenol oedd syniad y bobl am yr archoffeiriadaeth. Trwy bwyleisio y pethau hyn diau y parotoid hwy i dderbyn syniadau uwch am gymhwysderau o natur foesol ac ysbrydol. Dangosai yr angen am berffeithrwydd wrth agoshau at Dduw, ac na ellid nesu ato heb hyny.

II. Yr archoffeiriadaeth foesol.—Datguddir hon yn Melchisedec. Ni chyfrifai unrhyw gymhwysder anianyddol yn ei archoffeiriadaeth ef. Pethau damweiniol yw cymhwysderau anianydol, ond pethau hanfodol yw cymhwysderau moesol; rhai darfodedig a chyfnewidiol yw rhai anianydol, rhai parhâol ac anghyfnewidiol yw rhai moesol. Cymhwysderau Melchisedec oedd mawredd personol, galluoedd meddyliol a chymeriad moesol seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder a heddwch. Nid cysylltiadau achyddol anianyddol na pherffeithrwydd anianyddol oedd amod ei osodiad yn ei swydd, ond yn hytrach cymhwysderau darddent o gyfoeth ei berson. Hawliai ei rinweddau personol meddyliol, moesol ac ysbrydol y swydd iddo, ac nid ei gysylltiadau a'i berffeithrwydd anianyddol fel yr archoffeiriaid yn ol urdd Aaron. Llawer uwch, gan hyny, oedd urdd Melchisedec nag urdd Aaron—cymaint yn uwch ag yw y byd moesol uwchlaw y byd anianydol. Ynddi hi ceir syniad gwan o ddelfryd uchaf Duw am archoffeiriadaeth.

III. Yr archoffeiriadaeth ysbrydol.—Yng Nghrist yn unig y ceir hon, a gwahaniaetha yn fawr oddiwrth eiddo urdd Aaron a Melchisedec. Er fod ei urdd yn ol eiddo Melchisedec eto llawer uwch mewn graddau yw hi. Cymer i fewn holl ragoriaethau urdd Aaron a Melchisedec heb

ddim o'u hammherffeithiau. Meddai Crist holl berffeithrwydd anianyddol dynoliaeth ac hefyd berffeithrwydd meddyliol a moesol llawer uwch na Melchisedec fel dyn. Yn ychwanegol at hyn, yr oedd yn Dduw anfeidrol. Ynddo yr oedd mawredd personol anfeidrol ac nid meidrol fel Melchisedec; meddai alluoedd a chymeriad anfeidrol. Gan hyny, yr oedd ei urdd yr uchaf bosibl mewn natur a graddau. Cael ei wneyd yn debyg iddo wnaeth Melchisedec medd awdwr yr Epistol. Felly rhaid ei fod yn fwy na Melchisedec, oblegid y lleiaf wneir yn debyg i'r mwyaf. Wrth efrydu yr Epistol cawn fod Crist yn anfeidrol ragori ar Aaron a Melchisedec mewn amryw bethau. (1) **Yn ei natur.**—Fel yr awgrymwyd, meddai natur ddynol mewn undeb a'i berson dwyfol. Daw hyn i'r golwg mewn amryw ranau o'r Epistol. Cydia Dduwdod a dyndod yn ei berson. Gesyd hyn ef mewn dosbarth ar ei ben ei hun. (2) **Egwyddor ei wneuthuriad yn archoffeiriad.**—Yr egwyddor hono oedd nerth bywyd annherfynol. Bywyd anfeidrol yn ei berson a'i gwnaeth yn archoffeiriad ac nid cymhwysderau a chysylltiadau anianyddol. Gweithredai y bywyd hwn ynddo er tragywyddoldeb. Yn ei nerth ef yr ygnawdolodd, y dioddefodd adeg ei ddarostyngiad, y bu farw, yr adgyfododd ac yr esgynodd. (3) **Cyfunai bob cymhwysderau archoffeiriadol.**—Meddai gig a gwaed, sef dynoliaeth a'i galluogai i gydymdeimlo; yr oedd yn drugarog a ffyddlon, yn benoddedig a galwedig Duw; meddai farn glir a chydbwysol ar berthynas dynion a Duw, aberthodd ei hun trwy ei Ysbryd Tragywyddol yn aberth perffaith ac anfeidrol i Dduw; cydnabyddodd Duw ef yn archoffeiriad ar ei esgyniad i'r nef trwy dyngu iddo ei fod yn archoffeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec. (4) **Perffeithiwyd ei holl gymhwysderau trwy ddioddefiadau.**—Yn y dioddefiadau hyn y dysgodd ef ufudd-dod, oedd yn hanfodol i'w wneyd yn archoffeiriad. Er nad allasai ddysgu ufuddhau, fel y dangoswyd mewn traethawd arall, gallasai ddysgu ufudd-dod, a rhaid oedd gwneyd hyny i ddeall angen dynion a medru cydymdeimlo a hwy. Temtiwyd ef ym mhob peth fel dynion, fel y gallai gydymdeimlo a'r rhai a demtid. Ni chymhwysid archoffeiriaid yn ol urdd Aaron fel hyn, ac ni chafodd Melchisedec y cyfryw gymhwysiad chwaith. Wrth ddarllen ymdriniaeth yr awdwr ar archoffeiriadaeth Crist gwelir ei bod yn ymranu i dair. (1) **Yr ymgnawdoliad.**—Un o'r cymhwysderau hanfodol oedd bod yn ddyn. Gan hyny, cymerodd Crist y natur ddynol, medd yr awdwr, fel y gallai feddu natur y plant y daeth i'w gwaredu, a bod ym mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr. (2) **Yr ymgyfaddasiad.**—Cyrhaedda hwn dros ei holl fywyd ar y ddaear a

geilw yr awdwr ef yn "ddyddiau ei gnawd." Yn y tymhor hwn, fel yr awgrymwyd uchod, y perffeithiwyd ef yn archoffeiriad, a'i hunanaberthiad trwy ei Ysbryd tragywyddol oedd ei eithafbwynt. Coron ei fywyd oedd ei farwolaeth wirfoddol. (3) **Yr ymddangosiad.**—Yn y nef ar ol ei esgyniad y cymerodd hwn le yn ol yr awdwr, a pharhâ drwy oesoedd amser os nad am dragywyddoldeb. Ymddangos o blaid pechaduriaid y mae. Ond pa bryd y dechreuodd archoffeiriadaeth Crist? Ni ddechreuodd (a) gyda'r ymgnawdoliad, er y dadleua rhai dros hyny. A holl bwysai ymresymiad yr awdwr yn groes i hyn. Dywed nad i'r cysegr o waith llaw yr aeth Crist i fewn, ond i'r nef ei hun i ymddangos gerbron Duw trosom ni. Hollol ddisail, gan hyny, yw dyweyd iddo weinyddu ei swydd ar y ddaear yn ol urdd Aaron nac yn ol urdd Melchisedec. (b) Camsyniad yw dyweyd iddo ei chychwyn pan fu farw chwaith, er mai gweithred archoffeiriadol oedd aberthu ei hun. Eithr cario y syniad cysgodol yn rhy bell fyddai dyweyd iddo ddechreu ei waith wrth farw. (c) Yn ei ymddangosiad yn y nef y cychwynodd ar ei waith yn ol yr awdwr. Dyna'r adeg y cydnabyddodd y Tad ef yn archoffeiriad. Yn ei ymddangosiad yn y cysegr sancteiddiolaf y cyflawnai yr archoffeiriad Iuddewig wir waith ei swydd. Felly am Grist: wedi esgyn i'r cysegr sancteiddiolaf yn y nef y dechreuodd ar ei waith yn wirioneddol. Dyna pryd y gorphenodd yr oll, ydoedd pan ymddangosodd o flaen ei Dad a'i aberth anfeidrol yn ei berson. Ymgyfaddasu a chael ei berffeithio i'r swydd oedd ei holl hanes ar y ddaear; gweinyddu y swydd yw ei waith yn y nef. Gan ei fod yn byw byth, gwna ymddangos yn dragywyddol gerbron y Tad. Aberth byw yw ef, a chan ei fod yn fyw ni fydd diwedd iddo; ac oblegid na fydd diwedd iddo ni fydd eisieu aberth arall.

IV. Gofyniadau.

(1) Rhoddwch elfeniad o adn. 1-18, a nodwch yr elfen bwysicaf ynddynt.

(2) Beth wnai yr aberthau Iuddewig yn ddiwerth i Dduw, adn. 1-4?

(3) Paham y gofynai Duw am berson Dwyfol-ddynol yn Iawn, adn. 5-7?

(4) Beth sydd yn gynwysedig mewn gwneuthur ewyllys Duw?

(5) Pa fodd y sancteiddia aberth Crist bechadur, adn. 10?

(6) Gwahaniaethwch rhwng sancteiddio a pherffeithio, adn. 10, 14?

(7) Beth oedd y gwahaniaeth ym mherthynas yr Ysbryd Glan a'r hen gyfamod a'i berthynas a'r newydd?

(8) Dangoswch berthynas adn. 19 a rhan gyntaf y benod.

(9) Rhoddwch fraslun o brif syniadau adn. 19-39, a'r dyledswyddau nodant.

(10) A sonir am ragor nag un archoffeiriadaeth yn yr Epistol? Os gwneir, gwahaniaethwch rhyngddynt, a dangoswch ragoriaeth archoffeiriadaeth Crist.

PENOD XI.

ADRAN III. (Parhad). **PWNC : GWRONIAETH FFYDD YN SAIL CYMHELLIAD I GYFLAWNI DYLEDSWYDDAU CREFYDDOL.**

I. Dadansoddiad.

I. Rhagarweiniad (adn. 1-3).
- (1) *Deffiniad o ffydd* (adn. 1).
- (2) *Cymeradwyaeth ffydd* (adn. 2).
- (3) *Dirnadaeth ffydd* (adn. 3).

II. Ffydd toriad gwawr y cynfyd (adn. 4-7).
- (1) *Ffydd yn amod aberth i Dduw* (adn. 4).
- (2) *Ffydd yn amod symudiad eithriadol at Dduw* (adn. 5).
- (3) *Ffydd yn amod hanfodol i foddio Duw* (adn. 6).
- (4) *Ffydd yn amod ofn Duw a bod yn etifedd cyfiawnder Duw* (adn. 7).

III. Ffydd boreu'r cynfyd (adn. 8-22).
- (1) *Ffydd yn amod ufudd-dod i alwad Duw ac ymdeithiad yn ol ewyllys Duw* (adn. 8-10).
  - (*a*) *Galwad Duw* (adn. 8).
  - (*b*) *Ymdeithiad yn ol ewyllys Duw* (adn. 9).
  - (*c*) *Rheswm dros yr ufudd-dod a'r ymdeithiad* (adn. 10).
- (2) *Ffydd yn amod nerth uwchlaw deddfau natur* (adn. 11-12)
- (3) *Ffydd yn amod etifeddu dinas Duw* (adn. 13-16).
  - (*a*) *Trwy synied yn iawn am y byd hwn* (adn. 9).
  - (*b*) *Trwy synied yn iawn am danynt eu hunain* (adn. 14).
  - (*c*) *Trwy ddelfryd ysbrydol* (adn. 15, 16).
  - (*d*) *Trwy i'w syniad a'u delfryd foddio Duw.*
- (4) *Ffydd yn amod gweithredu yn erbyn teimlad a rheswm naturiol* (adn. 17-19).
  - (*a*) *Yn erbyn teimlad naturiol* (adn. 17).
  - (*b*) *Yn erbyn rheswm naturiol* (adn. 17, 18).
  - (*c*) *Amod nerth ei ffydd* (adn. (19).

(5) *Ffydd yn amod bendithio yn ysbrydol* (adn. 20, 21).
(6) *Ffydd yn amod prophwydoliaeth* (adn. 22).

IV. Ffydd canol dydd y cynfyd (adn. 23-31).
(1) *Ffydd yn amod cadwfod llysni dwyfol ac yn amod gweithrediad gwrol* (adn. 23).
(2) *Ffydd yn amod gwrthod, dewis, barnu a chanfod y diwedd* (adn. 24-26).
(*a*) *Ffydd yn amod gwrthod y drwg* (adn. 24).
(*b*) *Ffydd yn amod dewis y da* (adn. 25).
(*c*) *Ffydd yn amod barnu gwerth moesol* (adn. 26).
(*d*) *Amod nerth ffydd foesol.*
(3) *Ffydd yn amod gwroldeb moesol* (adn. 27).
(4) *Ffydd yn amod diogelwch goruwchnaturiol* (adn. 28).
(5) *Ffydd yn amod gwaredigaeth oruwchnaturiol* (adn. 29).
(6) *Ffydd yn amod buddugoliaeth oruwchnaturiol* (adn. 30).
(7) *Ffydd yn amod cadw bywyd am gymwynas naturiol* (adn. 31)

V. Ffydd yn amod buddugoliaeth, gwaredigaeth a nerth (adn. 32-40).
(1) *Ffydd yn amod buddugoliaeth* (adn 32, 33).
(*a*) *Faterol* (adn. 32, 33).
(*b*) *Foesol* (ad. 33).
(*c*) *Ysbrydol,*
(2) *Ffydd yn amod gwaredigaeth* (adn. 33 34).
(*a*) *Rhag bwystfilod rheibus* (adn. 33).
(*b*) *Rhag elfenau natur* (adn. 34).
(*c*) *Rhag arfau rhyfel.*
(3) *Fydd yn amod nerth* (adn. 34).
(*a*) *Mewn gwendid naturiol.*
(*b*) *Mewn rhyfeloedd dinystriol.*
(*c*) *Mewn ymlid gelynion.*
(4) *Ffydd yn amod adgyfodiad naturiol ac ysbrydol* (adn. 35).
(5) *Ffydd yn amod dal dioddefiadau* (adn. 36-38).
(*a*) *Yn amod dal erledigaeth* (adn. 36).
(*b*) *Yn amod dal marwolaeth* (adn. 37).
(*c*) *Yn amod dal caledi anianyddol* (adn. 37, 38).
(6) *Ffydd yn amod tystiolaeth ddwyfol* (adn. 39).
(7) *Y rheswm na dderbyniodd y ffyddloniaid yr addewidion* (adn 40).

1 Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.

II. · Eglurhad.

Cyforiog o syniadau goruchel oedd y benod flaenorol. Traethodd yr awdwr gyda manylwch clir ar anallu moesol yr aberthau Iuddewig oblegid eu diffyg sylwedd moesol a'u hisraddoldeb; rhoddodd brofion o hyny, ac yna dangosodd hanfod gallu moesol aberth anfeidrol Crist. Egwyddor eithaf ei hanfod oedd ufudd-dod anfeidrol, yr hwn ufudd-dod feddai allu sancteiddiol anfeidrol, gallu i enill safle ddwyfol uwchraddol, gallu i hawlio cynorthwy anfeidrol a gallu i berffeithio dynion. Dygai yr Ysbryd Glan hefyd dystiolaeth i werth yr ufudd-dod anfeidrol hwn. Wedi gorphen y syniadau athrawiaethol dyfnion hyn, triniodd ar ddyledswyddau personol a chrefyddol ei ddarllenwyr gan ddangos canlyniad eu hesgeuluso a phechu ar ol derbyn goleuni nefol; anogodd hwy i gofio eu hanes gorphenol a chadw eu golwg ar wobr y dyfodol, dangosodd eu hangen a rhoddodd galondid iddynt. Wedi eu galw i dynu ysbrydiaeth ar gyfer y dyfodol o'u hanes gorphenol, naturiol oedd i'r awdwr eu hanog i dynu ysbrydiaeth oddiwrth hanes gorphenol gwroniaid ffydd. Un o'r pethau effeithiolaf i gynyrchu ysbrydiaeth yw hanes gwroniaeth dynion mawrion y gorphenol. Holl amcan y benod hon yw ysbrydoli yr Hebreaid trwy roddi oriel fawr o ffyddloniaid y dyddiau gynt o'u blaen. Cyfres o enghreifftiau gawn ynddi o fuddugoliaeth ffydd.

I. Rhagarweiniad (1-3).—Wedi cyffwrdd a ffydd fynyched yn y rhan flaenorol, a myned i draethu eanged arni yn y benod hon, priodol oedd i'r awdwr ei deffinio. Heb hyny gallasai ei ddarllenwyr ofyn beth oedd ffydd? (1) **Deffiniad o ffydd** (1).—**Yn awr ffydd yw y sicrwydd o bethau a obeithir am danynt, y profiad o bethau ni welir.**—Dyna ddeffiniad byr ond byw a chlir o ffydd. Medd ddwy elfen fawr, sef sicrwydd a phrofiad. Hi yw sicrwydd pendant am bethau obeithir eu meddiannu yn y dyfodol yn y byd hwn a'r byd a ddaw. Sylweddola hi addewidion Duw yn y fath fodd nes meddu sicrwydd o fodolaeth y pethau a addewir ganddynt. Golyga y sicrwydd hwn fwy nag ymddiried (*confidence*). Cynwysa feddiant rhanol yn awr o bethau i ddyfod. Y gair am dano yw ὑπόστασις —(*hupostasis*)—sylwedd. Cyfieithir ef yn berson a hyder yn yr Epistol hwn yn ogystal a sylwedd. Rhydd ffydd

2 Oblegid trwyddi hi y cafodd yr henuriaid air da.
3 Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy

---

sylwedd ysbrydol i'r pethau y gobeithir am danynt. Yr ail elfen yw profiad o bethau anweledig. Gall ἔλεγχος—profiad—olygu (1) yr hyn ffurfia brawf, (2) y weithred o brofi, (3) yr argyhoeddiad ar ol prawf. Dyma y syniad yma yn ddiau. Daw hi a dyn i'r fath agosrwydd at bethau ysbrydol anweledig nes y gwna hwynt yn brofiad iddo. Drwyddi caiff yr enaid brofiad o Dduw a'i fendithion. Gan hyny, rhydd hi bob sicrwydd meddyliol am fodolaeth pethau anweledig, a all y synwyrau roddi am fodolaeth gwrthddrychau gweledig. Cymer pethau anweledig yma i fewn bob peth anweledig a fu, y sydd, ac a ddaw, ac nid y pethau y gobeithia y duwiol am danynt yn unig. Nid yw yr awdwr yn son am ffydd neillduol yma, ond ffydd yn gyffredinol fel gallu i ymddiried yn Nuw. Gallu yw hi i bwyso ar air Duw a chydymffurfio ag ef. Gall gymeryd y wedd o gredu mai Duw greodd y byd o ddim, mai efe lefarodd y Beibl, fod holl gwrs y byd yn ei law, ei fod wedi rhoddi ei Fab i farw dros bechadur a phethau ereill, ond yr un yw hi yn ei natur. Hi yw yr hanfodiad yn y meddwl o bob peth na welir. Gan hyny, gweithreda y meddwl gyda golwg arnynt fel pe y canfyddai hwynt drwy y synwyrau. Yr un gallu yn yr enaid weithreda mewn ffydd gadwedigol a ffydd gyffredinol. Yr unig wahaniaeth yw y gweithreda dan ddylanwad gras yn y ffydd gadwedigol. (2) **Cymeradwyaeth ffydd** (2) **Canys ynddi hi y cafodd yr henuriaid ddwyn tysiolaeth iddynt.**—Gwell darllen "ynddi" na "thrwyddi." Nid edrych ar ffydd fel offeryn wna yr awdwr, ond fel yr awyrgylch neu yr elfen yn yr hon y cyflawnai yr henuriaid eu gwaith. Yr henuriaid oedd enwogion ffydd y dyddiau fu. Gelwir hwy felly nid am eu bod yn hen nac am eu bod yn llanw y swydd henaduriaethol, ond am eu bod wedi ymddangos er ys amser maith. Beth oedd y gymeradwyaeth gawsant. (1) Cymeradwyaeth dynion goreu eu cyfnod; (2) cymeradwyaeth fewnol yn eu hysbryd, a (3) cymeradwyaeth Duw (a) trwy lwyddo eu gwaith, (b) rhoddi iddynt fendithion ac addewidion, (c) cofnodi eu hanes yn yr Ysgrythyrau. Duw gynhyrfodd ddynion sanctaidd i ysgrifenu eu hanes. Pa brawf yw hyn mai yr hyn ddywedodd yr awdwr yw ffydd? Onibae mai dyna oedd hi ni chawsai yr henuriaid gymeradwyaeth Duw. (3) **Dirnadaeth ffydd** (3).—**Trwy ffydd yr ydym yn deall fod y bydoedd wedi eu llunio gan air Duw, fel nad ydyw yr hyn a welir wedi ei**

air Duw, yn gymaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.

4 Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain; trwy yr hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod

---

wneuthur o bethau sydd yn ymddangos.—Nid peth heb reswm yw ffydd. Medd hi allu dirnadol cryf. Heb hyny ni fyddai yn ffydd. Gorwedda hi ar reswm clir yn y pendraw yn ddieithriad. Y gair am ddeall yma yw νοοῦμεν, a golyga ddeall a'r rheswm ar wahan i'r synwyrau. Nid cyfeiriad sydd yma i Adda gredu i Dduw greu y byd trwy ei air fel y myn rhai esbonwyr; ond yn hytrach ein bod yn deall trwy ffydd y peth cyntaf geir yn y Beibl, sef creadigaeth y byd. Prawf yw yr adnod hon felly fod yn rhaid gweithredu ffydd i ddeall y greadigaeth weledig. Os mai gair Duw wnaeth y bydoedd, nid o bethau gweledig y gwnaed yr hyn a welir. Cynwysa y gair gwneuthur, drefnu, cynllunio, cyfaddasu a saernio, ac nid gwneyd o ddim o angen rheidrwydd. Nid o ddim y gwnaeth Duw y bydoedd, ond o bethau anweledig. Ei air oedd y cyfrwng. Pa air? (1) Nid Crist, ond (2) gair llafaredig Duw. Trwy un amlygiad neu fynegiant o'i air gwnaeth yr holl fydoedd o bethau ni welir. Nid dynodi amcan mae "fel" o flaen "nad ydyw yr hyn a welir," etc., ond dangos wna mai trwy ffydd y deallir "nad o bethau a welir y gwnaed y pethau sydd yn ymddangos." Hyny yw, deallir trwy ffydd mai eu creu gafodd y bydoedd gan air Duw. Gan mai trwy ffydd y deallir i Dduw wneyd y bydoedd, felly hefyd y deallir nad o ddim a welir y gwnaed hwy. Hyny yw, nid o bethau ganfyddir drwy y synwyrau y crewyd hwynt.

II. **Ffydd toriad gwawr y cynfyd** (4-7).—(1) **Ffydd yn amod aberth i Dduw** (4).—**Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain, trwy yr hwn y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn, Duw yn dwyn tystiolaeth iddo gyd a golwg ar ei roddion; a thrwyddi hi y mae efe wedi marw yn llefaru eto.**—Yn Abel, Enoch a Noah cawn ffydd toriad gwawr y byd. Ni sonir am ffydd cyn Abel. Os oedd ei dad yn meddu ffydd ni cheir hanes am dani. Peth tra dyddorol yw edrych ar ffydd yn nhoriad ei gwawr yn y cynfyd. Gweithredai yno dan amodau tra anfanteisiol. Beth wnaeth aberth Abel yn rhagorach na Chain? Nid am fod ei aberth yn cynwys bywyd yn gymaint. Gwnai hyn ei aberth yn uwchraddol. Ond ffydd Abel wnaeth yr aberth yn rhagorach. Pe buasai yn aberthu person rhesymol

yn gyfiawn, gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef: a thrwyddi hi y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto.

---

heb fod ganddo ffydd, ni fuasai ei aberth o un gwerth. Parodd ei ffydd iddo ddewis yr aberth goreu allasai feddwl am dano, sef blaenffrwyth ei ddefaid a'u brasder; hyny yw, dewis o'r defaid goreu a mwyaf pasgedig. Nid rhyfedd pe lladdasai y goreu i wneyd gwledd; eithr dengys ei ladd yn aberth ffydd gref. Daw dealldwriaeth uchel i'r golwg yn ffydd Abel. Syniai fod Duw yn fôd personol, er yn anweledig ac yn meddu cymeriad moesol, ac yn un a hawliai fywyd a'r goreu mewn bywyd. Nid oes amheuaeth na olygai Abel ei fod yn gyfrifol i Dduw, a bod ei bechod yn gofyn aberth. Heb hyny ni fyddai nerth yng ngwaith yr awdwr yn ei ddwyn i fewn yma. Beth oedd aberth Cain? Ffrwyth y ddaear. Cred rhai mai y peth agosaf ato o ffrwyth y ddaear a'r gwaelaf a ddewisodd, ac hefyd, na chydnabyddai Dduw ond fel Duw rhagluniaeth yn unig, tra y cydnabyddai Abel ef yn Dduw gras ac iachawdwriaeth. Beth bynag am hyny, yr oedd ei aberth yn israddol i eiddo Abel. Ond y peth mawr yw y gwahaniaeth yn ffydd y ddau aberthwr. Eu ffydd benderfynodd eu dewisiad o aberthau gwahanol. Yr oedd enaid Abel yn ei aberth, ond nid oedd ronyn o enaid Cain ynddo. Gwnaeth bod enaid Abel yn ei aberth ef yn werthfawr, ond gwnaeth amddifadrwydd o enaid Cain ynddo ef yn ddiwerth. Gwahaniaeth moesol y ddau wnai wahaniaeth hanfodol yn eu haberthau. Trwy yr aberth, nid trwy y ffydd, fel yr esboniai rhai, y cafodd Abel "dystiolaeth ei fod yn gyfiawn." Gan bwy? Gan Dduw, yn ol y frawddeg nesaf. Pa fodd y cafodd dystiolaeth? Feallai (1) mai yn ei ymwybyddiaeth. Rhoddodd Duw dystiolaeth uniongyrchol iddo ei fod yn cymeradwyo ei aberth, (2) trwy ddanfon tan i losgi ei aberth ar y pryd, medd rhai. Nid oes son am hyn yn yr hanes. (3) Mewn rhyw fodd gweledig neu glywedig, yw syniad arall. (4) Trwy gofnodi hanes ei ffydd aberthol yn yr Ysgrythyr. Ammhosibl penderfynu hyn gyda sicrwydd. Eithr gallwn fod yn sicr fod "edrych Duw" ar Abel a'i aberth yn gymeradwyol, ac yn rhoddi ar ddeall iddo yn glir fod ei aberth yn gymeradwy. Cafodd dystiolaeth ei fod ef ei hun yn gyfiawn hefyd. Ni ddywedir hyn yn Genesis iv. 4, ond geilw yr Iesu Abel yn "Abel gyfiawn." Nid cyfiawn hollol, feddylir, ond cyfiawn yn ei egwyddor. Y modd y cafodd y sicrwydd ei fod yn gyfiawn oedd trwy i Dduw ddwyn tystiolaeth gyda golwg ar ei roddion. Edrychiad

5 Trwy ffydd y symudwyd Enoch, fel na welai farwolaeth; ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symud ef: canys cyn ei symud, efe a gawsai dystiolaeth, ddarfod iddo ryngu bodd Duw.

Duw ar ei roddion roddodd arwydd sicr iddo o'i gyfiawnder. Nid y dystiolaeth geir yn yr Ysgrythyr, feddylir, ond tystiolaeth uniongyrchol iddo ef ei hun yr adeg yr aberthodd i Dduw. Heblaw hyny, y mae Abel trwy ei ffydd "er wedi marw yn llefaru eto." Pa fodd y llefara? (1) Mewn anog dynion i'w efelychu trwy aberthu y goreu feddant i Dduw, er i hyny beryglu eu bywyd. Saif esiampl Abel allan yn yr Ysgrythyr, a geilw ar bawb i ddilyn ol ei draed. Eithr gellir dyweyd hyn am bob dyn duwiol, ac, o ganlyniad, ni ellir derbyn y syniad hwn. (2) Llefaru mewn galw am gosp. Hwn yw y syniad cyson a Genesis iv. 10—"Llef gwaed dy frawd sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaear." Yr oedd Abel wedi ei ladd y pryd hyn, ond dywed Duw ei fod yn gwaeddi arno ef. Edrycha Duw ar waed Abel, nid yn llefaru yn unig, ond yn gwaeddi. (2) **Ffydd yn amod symudiad eithriadol at Dduw** (5).—**Trwy ffydd y symudwyd Enoch fel na welai farwolaeth; ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symud ef: canys cyn ei symud y mae efe wedi derbyn tystiolaeth ddarfod iddo ryngu bodd Duw.**—Daeth ffydd fawr Abel i'r golwg yn ei aberth, ond yn ei fywyd cyson gyda Duw a'i symudiad eithriadol at Dduw yr amlygwyd ffydd Enoch. Dywed Gen. v. 24 iddo i rodio gyda Duw. Ystyr hyny yw ei fod yn byw yn gyson gyda Duw. Ei fywyd ffyddiog fu yn foddion ei symudiad, neu yn llythyrenol, ei gyfieithiad. Gwnaeth ei gymundeb parhaus a Dduw, ei gariad at, a'i ffydd ynddo beri i Dduw ei gymeryd ato mewn modd eithriadol, yn gyflym ac yn sydyn. Y pwynt mawr gan yr awdwr yma yw, mai ffydd oedd achos symudiad Enoch. Beth yw meddwl "fel na welai farwolaeth"? (1) I Dduw ei gymeryd yn union wedi iddo farw, fel na welai lygredigaeth fel ereill. Aeth Enoch ar unwaith trwy yr hyn yr ä dynion drwyddo yn yr adgyfodiad. I'r syniad hwn nid oes sail Feiblaidd. Ni cheir ef yn y "Targums" chwaith, y rhai a draethant ar Enoch. (2) Na welodd Enoch farwolaeth naturiol. Cymerodd Duw ef fel yr oedd. Hwn ffafria y Beibl a'r "Targums." Gan hyny ni chaed ef er chwilio am dano gan (1) ei deulu, (2) ei gyfeillion ac (3) feallai ei elynion. Nid oedd efe mwy ar y ddaear oblegid i Dduw ei gymeryd ef. Nid mai ei ffydd a'i cludodd at Dduw,

6 Eithr heb ffydd ammhosibl yw rhyngu ei fodd ef: oblegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef.
7 Trwy ffydd, Nöe, wedi ei rybuddio gan Dduw am y pethau nis gwelsid eto, gyda pharchedig ofn a ddarparodd arch i achub ei dy: trwy yr hon y condemniodd efe y

---

neu a'i cododd yn agos at Dduw a feddylir, ond mai Duw a'i cymerodd ef. Pa fodd y dygwyd tystiolaeth iddo cyn ei symud? Nid i Enoch yn bersonol y dygwyd y dystiolaeth; hyny yw, nid y meddwl yw iddo ef gael tystiolaeth ei hun. Diau fod hyny yn wir. Cafodd arwyddion amlwg yn ei gymundeb agos a Duw ei fod wrth fodd calon Duw. Yn yr hanes geir am dano yn rhodio gyda Duw cyn ei symud y ceir tystiolaeth iddo foddio Duw. Yr oedd cael rhodio gyda Duw ynddo ei hun yn dystiolaeth. Beth oedd achos yr oll? Ffydd Enoch. (3) **Ffydd yn amod hanfodol i foddio Duw** (6).—**Ac heb ffydd ammhosibl yw rhyngu ei fodd ef: oblegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw gredu ei fod ef, a'i fod yn wobrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef.**—Y mae'r ammhosibilrwydd hwn yn hollol (*absolute*) ac nid yn rhanol. Priodol iawn oedd ei ddwyn i fewn ar ol dyweyd mai ffydd Enoch ryngodd fodd Duw. Ffydd yw yr unig agwedd meddwl fedr foddio Duw. Pa mor dda bynag fydd gweithredoedd diffydd ni foddiant Dduw. "Works not rooted in faith are splendid sins." Amod cyntaf boddio Duw yw credu ei fod ac mai efe yw yr unig Dduw; a'r ail yw credu yn ei gymeriad moesol. Pob addolwr o Dduw feddylir wrth "yr hwn sydd yn dyfod at Dduw." Difudd hollol yw dyfod ato heb lanw y ddau amod uchod. Beth yw dyn well o ddyfod ato heb gredu yn ei fodolaeth a'i gymeriad? Heblaw hyny, ni all neb ddyfod ato heb ffydd. Golyga dyfod ato yma ei addoli, ac ni all neb addoli bôd heb gredu yn ei fodolaeth a'i gyfiawnder mewn gwobrwyo a chospi. Rhaid credu ei fod yn wobrwywr ffydd. Beth yw y wobr i'r chwiliwr ffyddiog ac aiddgar am dano? Adnabyddiaeth eangach o Dduw; heddwch mewnol, dadblygiad ysbrydol a'r bendithion ereill ddeilliant o gymdeithas ag ef. (4) **Ffydd yn amod ofn Duw a bod yn etifedd cyfiawnder Duw** (7).—**Trwy ffydd Noe, wedi ei rybuddio gan Dduw am bethau heb eu gweled eto, yn cael ei gymhell gan dduwiol ofn, a ddarparodd arch i achub ei dy; trwy yr hon y collfarnodd efe y byd, ac a ddaeth yn etifedd y cyfiawnder yr hwn sydd yn ol ffydd.**—Gwahaniaetha y ffydd hon oddiwrth y

byd, ac a wnaethpwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.

8 Trwy ffydd, Abraham, pan ei galwyd, a ufuddhâodd, gan fyned i'r man yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.

---

ddwy flaenorol. Nid mewn aberth, bywyd gyda Duw na symudiad eithriadol yr amlygwyd ffydd Noah; ond mewn ofn duwiol rhybudd Duw iddo. Nid yw " gan Dduw" yn y gwreiddiol, ond gan fod sicrwydd fod y geiriau yn ddealledig gosododd y cyfieithwyr hwynt i fewn. Rhybuddiwyd Noah yn hir cyn i'r diluw na'i ganlyniadau ddyfod, ac felly anweledig oedd holl gynwys y rhybudd. Yn hyn dengys yr awdwr fod yr elfen a nododd fel un o hanfodion ffydd, yng ngwaith Noah yn darparu arch. Gofala hefyd i nodi ei gymhelliad, sef duwiol ofn. Gwreiddiai ei ffydd yn ofn Duw. Profa hyn y credai fod Duw, a'i fod yn wobrwywr; hyny yw, ei fod yn fôd moesol y dylid ufuddhau iddo. Yr un yn ei natur oedd ei ofn ac ofn Crist a nodir yn Pen. v. 7. Ofn mab oedd ef, ac nid ofn cosp—ofn methu dyfod i fyny a gofynion Duw. Hwn nodweddai holl waith Noah gydag adeiladiad yr Arch. Ofnai Dduw bob dydd wrth adeiladu, ond fel mab ac nid fel gwas yr ofnai. Trwy beth y condemniodd Noah y byd? (1) Nid trwy ei ffydd fel y deil amryw, ond (2) trwy yr arch. Cynyrch ei ffydd oedd hi, a thrwyddi dangosodd i'r byd annuwiol werth ffydd yn Nuw. Gwelai y cyndiluwiad ynddi eu condemniad. Gwrthodasant gredu Duw trwy Noah, a dangosai yr arch iddynt wedi i'r diluw ddyfod beth oedd gwerth ffydd. Beth fu gwobr Noah am ei ffydd? "Daeth i fod yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd," trwy hyny. Nid yn etifedd cyfiawnhâd trwy ffydd, ond yn etifedd cyfiawnder. Beth yw y gwahaniaeth? Peth allanol yw cyfiawnhâd trwy ffydd, peth mewnol yw y cyfiawnder sydd o ffydd. Drwy ei ffydd, ei ufudd-dod i rybudd Duw a'i dduwiol ofn enillodd Noah gyfiawnder sydd yn gynyrch ffydd. Noah yw y cyntaf eilw yr Hen Destament yn gyfiawn.

III. Ffydd boreu'r cynfyd (8-22).—(1) **Ffydd yn amod ufudd-dod i alwad Duw ac ymdeithiad yn ol ewyllys Duw** (8-9).—(a) **Galwad Duw** (8).—**Trwy ffydd Abraham, pan ei galwyd, a ufuddhaodd i fyned allan i fan yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.**—Nid ffydd ddatguddir mewn ofn yw hon:

9 Trwy ffydd yr ymdeithiodd efe yn nhir yr addewid, megys mewn tir dieithr, gan drigo mewn lluestai gydag Isaac a Jacob, cyd-etifeddion o'r un addewid:

---

ond mewn ufudd-dod. Diau fod elfen o dduwiol ofn ynddi fel eiddo Noah, ond ufudd-dod oedd amlycaf. Hollol ddisail yw y syniad mai pan alwyd Abram yn Abraham feddylir yma. Gwir iddo gael ei alw yn Abraham, ystyr yr hwn yw tad llawer o genhedloedd; ond nid at y galw hwnw y cyfeiria'r adnod. Yr alwad gafodd yn Haran sydd yma. Cafodd alwad yn bur debyg yn Ur y Caldeaid, ac ufuddhaodd iddi. Eithr ni sonir am hono yn ei hanes yn Genesis. Pwynt y geiriau hyn yw nid i Abraham ufuddhau ym mhen amser ar ol ei alwad, ond iddo ufuddhau ar unwaith. Pan gafodd yr alwad, deallodd mai galwad Duw oedd hi, ac ni amheuodd ddim, ond aeth allan o'i wlad yn wirfoddol. Credodd Dduw ar ei air. Cychwynodd heb wybod i ba le yr oedd yn myned. I ba le yr oedd yn myned? I wlad Canaan. Pa fodd i gysoni na wyddai i ba le yr oedd yn myned a'r hanes yn Genesis, pen xi. 31 yn dyweyd yn bendant i Terah fyned o Ur y Caldeaid gyda'r amcan o ymdeithio i Ganaan, ac i Abraham yntau i fyned o Haran am Ganaan? Pur hawdd yw ateb hyn. (1) Ni wyddai Abraham fwy nag enw Canaan. Nid oedd hyny yn cynwys gwybod i ba le yr oedd ef yn myned. (2) Nid oedd ganddo amcan pa le yr oedd Canaan na'r pellder iddi; (3) anwybodus hollol oedd ef o natur y wlad a'i nodweddion; (4) pe gwybuasai y lle yr oedd hi, ni wyddai yn ol yr hanes yn Genesis mai hi oedd ei etifeddiaeth; (5) dengys ei alwad (Gen. xii. 1) na wyddai pa le yr oedd hi chwaith. "Dos i'r wlad a ddangoswyf i ti," medd Duw wrtho; (6) hefyd, dengys Gen. xii. 7 mai ar ol dyfod i Ganaan yr hysbysodd Duw iddo mai Canaan oedd yr etifeddiaeth neu wlad yr addewid. Er hyny, ni dderbyniodd efe hi yn etifeddiaeth lawn, oblegid trigai y Canaaneaid ynddi wedi iddo ei chyrhaedd. (b) **Ymdeithiad yn ol ewyllys Duw** (9).—**Trwy ffydd y daeth efe yn ymdeithiwr yn nhir yr addewid, megys mewn tir heb fod yn eiddo iddo, gan drigo mewn pebyll, gyd ag Isaac a Jacob, cyd-etifeddion o'r un addewid.**—Credodd yn arweiniad Duw er fod y Canaaneaid yn meddiannu y wlad, ac yn nerth ei ffydd daeth i fod yn ymdeithiwr; hyny yw, yn un digartref parhaus; yn breswyliwr mewn gwlad heb hawliau dinesydd ganddo; ai o fan i fan fel dieithr ddyn er fod Duw wedi ei rhoddi iddo. Darfu iddo sylweddoli gwirionedd addewid Duw er na feddai hawl

10 Canys disgwyl yr ydoedd am ddinas ag iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw.

---

ddynol i Ganaan. Trigodd mewn pebyll oblegid diffyg yr hawl yma. Pethau perthynol i grwydriaid yw pebyll—pethau y gellir eu symud yn hawdd, a'u gosod i lawr yn hawdd drachefn. Rhai na feddant hawl i dir a drigant mewn pebyll yn awr fel cynt. Ceir llawer ohonynt yng Nghanaan yn bresenol a gwledydd dwyreiniol ereill, ac mewn gwledydd gorllewinol hefyd. Bywyd anedwydd, ansicr ac agored i beryglon yw un o'r fath, a gwna ddynion yn wrthddrychau drwg-dybiaeth. Er holl anfanteision y bywyd hwn, bu Abraham ei fyw trwy ffydd yn arweiniad Duw. Nodir ei fod yn trigo gydag Isaac a Jacob am eu bod yn wrthddrychau yr addewid fel yntau, ond heb ei derbyn. Hefyd, hwy oedd tadau y genedl a disgynyddion uniongyrchol Abraham. Ni chawsant hwy yr addewid yn llawn, er iddynt ddyfod i fwy o feddiant o dir yn y wlad nag Abraham ei hun. Bywyd tebyg i'w fywyd ef fu yr eiddynt hwy, a chyn diwedd ei oes collodd Jacob afael hollol ar y wlad trwy symud i'r Aifft. Yr oedd Jacob tua phymtheg oed pan bu farw Abraham, ac o ganlyniad bu yn cyd-breswylio a'i dadau neu ei daid am ysbaid. (c) **Rheswm dros yr ufudd-dod a'r ymdeithiad** (10).—**Canys edrych yr oedd efe am y ddinas yr hon y mae iddi y sylfaeni, adeiladydd a gwneuthurwr yr hon yw Duw.**—Creodd ei ffydd yn Nuw ddisgwyliad aiddgar, dwys a duwiol yn Abraham, a hwnw yn rhyw ddisgwyliad annherfynol. Pe cawsai ef Ganaan, ni allasai lanw ei ddisgwyliad. Dyna effaith gwir ffydd bob amser. Ni all dim amserol a therfynol ei boddhau am ei bod yn annherfynol ynddi ei hun, ac wedi ei sylfaenu ar Dduw anfeidrol. Gan fod Abraham yn disgwyl nefoedd yn etifeddiaeth, gwrteithiodd amynedd ffyddiog i ymdeithio mewn gwlad ddieithr heb le i adeiladu ty ynddi ; bu yn foddlon ar symud o ddydd i ddydd fel y byddai yr amgylchiadau yn galw. Dyn o ddelfrydau eang oedd ef a than ddylanwad y rhai hyny bu yn foddlon i bob caledi am y gwyddai mai dyna ewyllys Duw. Gwaith dyn oedd y pebyll y trigai ynddynt, a rhai heb sylfeini; eithr un a sylfeini oedd ei ddinas ddelfrydol ef, a'r sylfeini hyny wedi eu gosod gan Dduw. Gwelir fod banod o flaen y gair " sylfeini" i ddangos eu bod yn rhai neillduol o ran eu natur, sef rhai sefydlog, cryfion a pharhaus. Adeiladydd a chynllunydd y ddinas hefyd yw Duw yn gystal a gosodydd ei sylfeini. Efe dynodd ei chynllun, ac efe a'i hadeiladodd. Felly efe

11 Trwy ffydd Sarah hithau yn ammhlantadwy, a dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd; ac wedi amser oedran, a esgorodd; oblegid ffyddlawn y barnodd hi yr hwn a addawsai.

12 Oherwydd paham hefyd y cenhedlwyd o un, a hwnw yn gystal a marw, cynifer a sêr y nef mewn lliaws, ac megys y tywod ar lan y môr, y sydd yn aneirif.

---

wnaeth yr oll a berthynai iddi, sef ei chynllunio yn ei feddwl tragywyddol, gosod ei sylfeini a'i hadeiladu. Ni allasai delfryd Abraham am ddinas fod yn uwch na hyn. Bywyd anghyson, ansefydlog, symudol a digymdeithas oedd yr eiddo ef yng Nghanaan; ond disgwyliai fywyd cyson, sefydlog, ansymudol ac o gymdeithas barhaus a Duw yn y ddinas nefol. Disgwyliai am fywyd dinas lle y bydd cymdeithas barhaus, a newid syniadau rhwng dynion, ac nid bywyd mynachaidd yr anialwch mewn pabelli. (2) **Ffydd yn amod nerth uwchlaw deddfau natur** (11-12). —**Trwy ffydd hyd yn oed Sarah ei hun a dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd pan wedi myned dros oed, yn gymaint ag iddi gyfrif yn ffyddlawn yr hwn a addawodd: oherwydd paham hefyd y cenhedlwyd o un, a hwnw yn gystal a marw, cynifer a ser y nef mewn lluaws, ac megys y tywod ar lan y mor, yn aneirif.**—Gwelir yn eglur fod ffydd yr adnodau hyn yn amod peth uwchlaw deddfau naturiol. Yr oedd Sarah ym mhell tuhwnt i oedran planta, a'i ffydd fu amod ei nerth i feichiogi ar Isaac. Ei ffydd hi sydd yn adn. 11, ac nid ffydd Abraham fel y deil rhai. Hefyd, ni awgryma y geiriau iddi fod yn anghrediniol, na chwaith mai dylanwad ffydd Abraham arni barodd iddi gredu. Nid derbyn nerth ei ffydd oddiwrth Abraham a wnaeth. Duw roddodd ffydd iddi. Bydd dylanwad mawr gan wr a gwraig ar nodweddion a theithi meddyliol y naill y llall; ond ni all y naill blanu ffydd yn y llall. Gall y gwr gryfhau ffydd y wraig a'r wraig ffydd y gwr, ond ni allant genhedlu ffydd yn eu gilydd. Plentynaidd yw dyweyd fod y geiriau "hithau hefyd" yn golygu i Sarah gredu, er mai gwraig oedd hi. Pa sail sydd i feddwl fod gallu gwraig i gredu yn llai na gallu gwr? Os dim, gallu gwraig yw y mwyaf i gredu. Y syniad yn y geiriau yw, i Sarah hithau hefyd, gredu yn ogystal ag Abraham, a thrwy hyny iddi gael nerth i ymddwyn hâd. Credodd fod Duw, yr hwn a addawsai y cawsai nerth i fod yn ddechreuad hiliogaeth fyddai luosoced a ser y nef, yn ffyddlon. Gwelir fod y C.D. wedi gadael allan "hithau hefyd" a

13 Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll, heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch, a chyfaddef mai dieithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear.

---

chyfieithu "hyd yn oed Sarah ei hun." Hyny yw, ei ffydd hi ei hunan oedd dan yr oll. Er nad oedd obaith ganddi, ar dir naturiol, i fod yn ddechreuad cenedl, credodd fod Duw yn alluog i wneyd yr hyn oedd uwchlaw natur, a'i fod yn ffyddlon i'w addewid. Eto, ei ffydd hi, yn ol adn. 12, fu yn amod "cenhedlu o un, a hwnw yn gystal a marw, gynifer a ser y nef mewn lluaws," etc. Yr oedd Abraham yn gystal a marw mewn ystyr naturiol. Nid oedd obaith iddo gynyrchu had, gan fod Sarah tuhwnt oedran ymddwyn had. Ond cafodd Sarah nerth trwy ffydd i fod yn foddion i wneyd Abraham yn wreiddyn cenedl aneirif. Rhaid pwysleisio mai ffydd Sarah ei hun feddylir, onide nid oedd gwerth moesol yn ei hanes, ac ni chyrhaeddir amcan wrth ddwyn ei ffydd i fewn. Ffigyrau yw "ser y nef a'r tywod ar lan y mor" a arferid gan yr Iuddewon i osod allan yr hyn oedd uwchlaw rhifedi. (3) **Ffydd yn amod etifeddu dinas Duw** (13-16).—(a) **Trwy synied yn iawn am y byd hwn** (13).—**Mewn ffydd y bu feirw y rhai hyn oll, heb dderbyn yr addewidion eithr wedi eu gweled a'u cyfarch o bell, a chyffesu mai dieithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear.**—Eu ffydd barodd i'r holl batriarchiaid i synied yn gywir am y byd presenol. Buont feirw ar ol oes faith o gredu, mewn ffydd. Llanwai ffydd eu heneidiau, ac amgylchai eu galluoedd hyd yn oed pan fyddent feirw. Profa hyn fod eu syniad yn gywir am y byd hwn. Pe y credasent mai yn hwn yr oedd eu hetifeddiaeth uchaf a goreu ni fuasai ganddynt ffydd wrth ymadael ag ef. Pan yn angau, credent hwy Dduw ar ei air, ei fod wedi darparu gwlad iddynt. Er nad oedd cynwys yr addewidion yn eiddo iddynt, credasant. Cawsant flas cynwys annhraethol yr addewidion mewn heddwch cydwybod a chymdeithas a Duw, a chredasant fod stor anfeidrol ar ol iddynt. Gwelent hwy trwy ffydd ym mhellder y dyfodol, a chyfarchent hwy yn galonog. Cynwysai hyn gyfaddefiad ar eu rhan mai "dieithriaid a phererinion" oeddynt ar y ddaear. Nid eu gwlad naturiol hwy oedd y ddaear, onide ni chredent fod gwlad arall yn eu haros. Hefyd, "pererinion" neu deithwyr oeddynt ar y ddaear, rhai heb gartref parhaus, neu rai ar daith trwy un wlad i wlad arall yw y meddwl. Dyma syniad iawn am y byd

14 Canys y mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau, yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad.
15 Ac yn wir, pe buasent yn meddwl am y wlad hono, o'r hon y daethant allan, hwy a allasent gael amser i ddychwelyd:

---

hwn, sef mai lle am dymhor yw ef ac nid am dragywyddoldeb. Hwn yw y syniad yn y penill :—

"Dyn dieithr ydwyf yma
Draw mae'm genedigol wlad,
Draw i'r moroedd mawr tymhestlog,
Ac o fewn i'r Ganaan rad."

(b) **Trwy synied yn iawn am danynt eu hunain** (14).—**Canys y mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau yn gwneuthur yn amlwg eu bod yn ceisio gwlad o'r eiddynt eu hunain.**—Profai cyfaddefiad gwroniaid y ffydd, mai dieithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear, fod ganddynt syniad iawn am danynt eu hunain. Teimlent rywbeth ynddynt eu hunain a alwai am wlad o natur wahanol i'r byd hwn. Parai ffydd iddynt synied eu bod yn anfarwol. Gan hyny, ceisient eu gwlad eu hunain, neu yn llythyrenol, gwlad eu tadau. Meddwl hyny yw, eu gwlad enedigol. Oddiwrth Dduw y daethant, a synient nad oedd ond gwlad o barotoad neillduol Duw yn gymwys iddynt. Gwyddent fod ynddynt rywbeth tebyg i Dduw a thynai hwnw yn ol ato. Credent y byddent yn ddinasyddion parhaus o ddinas Duw a hawl i holl freintiau y wlad, ac nid fel dieithriaid a phererinion. Dangosai y pethau hyn yn eglur eu bod yn ceisio eu gwlad eu hunain, sef gwlad yn gyfaddas i'w natur. (c) **Trwy ddelfryd ysbrydol** (15-16).—**Ac yn wir pe buasent wedi meddwl am y wlad o'r hon y daethent allan, hwy a allasent gael cyfleusdra i ddychwelyd. Eithr yn awr gwlad well y maent hwy yn ei chwenych, hyny ydyw, un nefol.**—Nid gwlad ddaearol oedd ddelfryd y dynion hyn, ond un nefol. Pe mae Ur y Caldeaid, Padan Aram, neu Mesopotamia fuasai eu delfryd o'u gwlad eu hunain, cawsent ddigon o amser i ddychwelyd cyn marw. Eithr llawer uwch oedd eu delfryd. Teimlent eu bod yn fodau ysbrydol ac nad allai ond gwlad ysbrydol fod yn gymwys iddynt. Gan hyny, ni chyfeirient eu meddyliau at y wlad y daethant allan ohoni pan gyfaddefent eu bod yn ddieithriaid a phererinion. Nid diffyg amser i

16 Eithr yn awr gwlad well y maent hwy yn ei chwenych, hyny ydyw, un nefol: o achos paham nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy: oblegid efe a barotodd ddinas iddynt.

17 Trwy ffydd yr offrymodd Abraham Isaac, pan ei profwyd: a'i uniganedig fab a offrymodd efe, yr hwn a dderbyniasai yr addewidion:

---

ddychwelyd, na methiant i ddychwelyd oblegid rhwystrau oedd y rheswm eu bod yn ddieithriaid a phererinion, ond am fod eu delfryd yn uwch na gwlad ddaearol. Noda adn. 16 wrthddrych eu delfryd, sef gwlad nefol. Gan na ddychwelasant i'w genedigol wlad cyn marw, er fod ganddynt fantais i hyny, rhaid mai am wlad nefol y chwenychent; gwlad nefol oedd yn eu bryd; hi yr ymestynent ati ac y myfyrient am dani; y ddelfryd ohoni a'u cymhellai i ddioddef a boddloni bod yn ddieithriaid a phererinion. Er na chawsant ond blaen brawf o'r addewidion, eto, cawsant ddigon i gadw eu ffydd yn fyw a nerthol. (d) **Trwy i'w syniad a'u delfryd foddio Duw.—O achos paham nid oes ar Dduw gywilydd ohonynt, i gael ei alw yn Dduw iddynt hwy: canys efe a barotodd ddinas iddynt.**—Eu syniad am y byd hwn, eu syniad am danynt eu hunain a'u delfryd ysbrydol foddiodd Dduw. Gan fod y pethau hyn berffeithied ynddynt, nid oedd cywilydd ar Dduw ohonynt. Yr oedd eu syniadau a'u delfryd yr un ag eiddo Duw ei hunan o ran eu natur. Gan hyny, nid oedd arno gywilydd o'u personau. Teimlai eu bod yn greaduriaid teilwng ohono. Awyddent am ei ddinas, am fod yn deilwng o'r ddinas a chymdeithas barhaus ag ef. Nid yn unig nid oedd arno gywilydd ohonynt, ond ymorfoleddai ynddynt. Llawenychai yn yr olwg ar eu hawyddfryd a'u delfryd. Heblaw hyny, ni chywilyddiai gael ei gyfenwi yn Dduw iddynt. Ymfalchiai i hunaniaethu ei hun a hwy. Y pethau hyn yng nghyd barodd iddo ddarparu dinas iddynt. Dyma wobr eu ffydd: dinas yn gyfaddas i'w natur uchaf; un barhaus, un anghyfnewidiol, un lawn o bob cyfoeth ysbrydol. Yma ni fyddant yn ddieithriaid a phererinion, ond dinasyddion yn meddu holl hawliau, breintiau, a bendithion tragywyddol. Ffydd felly oedd amod etifeddu dinas Duw, yr hon ffydd a gynyrchodd yn y patrieirch syniadau a delfrydau cywir. (4) **Ffydd yn amod gweithredu yn erbyn teimlad a rheswm naturiol** (17-19).—(a) **Yn erbyn teimlad naturiol** (17).—**Trwy ffydd Abraham, gan gael ei brofi, a offrymodd i fyny**

18 Wrth yr hwn y dywedasid, Yn Isaac y gelwir i ti hâd:

Isaac.—Yma cawn eithafbwynt ffydd Abraham. Dangosodd ffydd fawr wrth adael ei wlad ac ymdeithio fel pererin yng Nghanaan; ond dim cyffelyb i'r hyn a ddengys yn yr adnod hon. Eithr efelychiad o ffydd Sarah i raddau pell yw hi. Credodd Sarah yng ngallu Duw i roddi mab iddi pan oedd hi yn rhy hen i blanta, a bu Duw at ei air. Cymharol hawdd, gan hyny, oedd i Abraham gredu y codasai Duw Isaac oddiwrth y meirw ar ol ei aberthu. Ond gweithredai ei ffydd yn erbyn holl reddfau a theimladau naturiol ei enaid wrth ei aberthu. Yr oedd Isaac yn fab ei henaint; yr unig blentyn cyfreithlawn, yn fachgen anwyl a da, ac yn fab yr addewidion. Rhaid ei bod yn galed arno i feddwl ei aberthu. Prawf gwirioneddol ar ffydd yw un a yn erbyn pob teimlad naturiol dyfnaf sydd yn yr enaid. Yn ychwanegol at hyn ai yn erbyn y teimlad naturiol o gysegredigrwydd bywyd sydd yn y galon ddynol. Teimla dyn da hwn yn ddwys iawn. (b) **Yn erbyn rheswm naturiol** (17-18).—**Ie, yr hwn oedd wedi derbyn yr addewidion yn llawen oedd yn offrymu ei unig-anedig fab; sef efe wrth yr hwn y dywedwyd, yn Isaac y gelwir dy hâd di.**—Yma dangosir llwyrder ufudd-dod Abraham. Aeth yn erbyn rheswm naturiol yn gystal a theimladau naturiol dyfnaf ei galon. Gall peth fod yn erbyn teimladau heb ei fod yn erbyn rheswm naturiol, ond pan fydd yn erbyn y ddau, anhawdd rhyfeddol yw ufuddhau. Nid oedd y nesaf peth i ddim o'r addewidion wedi eu cyflawni pan ofynodd Duw i Abraham aberthu Isaac, a pheth direswm oedd aberthu yr hwn yr addawodd Duw iddo fod yn gyfrwng y cyflawniad o'r rhai oedd heb eu cyflawni. Nid oedd mab arall ganddo o Sarah, ac yr oedd ei aberthu yn gwneyd hâd ohono yn amhosibl. Eithr er yr oll yr oedd ffydd Abraham yn ddigon cryf i ufuddhau i Dduw. Derbyniodd yr addewidion gan Dduw yn llawen, ac eto credodd ddigon yn Nuw i aberthu etifedd yr addewidion. Er nad offrymodd efe Isaac, yr oedd ei ewyllysiad i'w aberthu yn berffaith pe y gwasgasai Duw am hyny. Pwysleisia adn. 18 y ffaith mai yn Isaac y cafodd Abraham yr addewid am hâd. Nid oedd Ishmael, mab Abraham o Agar i ddyfod i'r cyfrif. Dywedodd Duw wrtho yn bendant mai "yn Isaac" y cai ef hâd. Hyny yw, Isaac oedd i fod yn wreiddyn hâd Abraham. Gofala yr awdwr ddangos na allasai amheuaeth fod ym meddwl Abraham ar y mater. Onibae fod yr oll yn glir iddo mai Isaac oedd etifedd yr addewidion ni fuasai gwerth moesol yn ei ffydd. Un

19 Gan gyfrif bod Duw yn abl i'w gyfodi ef o feirw; o ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth.

---

o ymdrechion yr awdwr yn yr holl enghreifftiau hyn yw datguddio elfen foesol ffydd y gwroniaid dan sylw. (c) **Amod nerth ei ffydd** (19).—**Gan gyfrif bod Duw yn alluog i'w gyfodi i fyny, ie oddiwrth y meirw; o ba le y cafodd efe ef hefyd yn ol mewn dameg.**—Nid amod ffydd Abraham oedd ei gyfrifiad fod Duw yn abl codi Isaac o feirw, ond amod ei nerth a'i graddau uchel. Rhaid iddi fod yn ymladdfa galed rhwng ei ffydd a'i deimladau a'i reswm naturiol, ond daeth ei syniad am hollalluogrwydd Duw i nerthu ei ffydd. Gwnaeth hwn hi yn gryfach na'r oll oedd yn ei herbyn. Gwelai nad allai Duw fod yn anghyson ag ef ei hun, ac er fod y gorchymyn i aberthu Isaac yn groes i'r addewidion, gwelodd fod gallu anfeidrol yn Nuw, ac y medrai wneyd yr anghyson ymddangosiadol yn gyson sylweddol. Golyga "cyfrif" ganlyniad edrych dros yr holl ffeithiau a thynu casgliad oddiwrthynt. Dyna wnaeth Abraham, a daeth i'r casgliad y gallai Duw gyfodi Isaac hyd yn oed oddiwrth y meirw. Mwy na hyny, credai Abraham yng ngallu Duw i gyfodi pawb oddiwrth y meirw. Nid yw y MSS. goreu yn cynwys "ef" ar ol "gyfodi," felly, nid at gyfodi Isaac y cyfeirir, ond at allu Duw i gyfodi o feirw. Gorweddai ffydd Abraham ar allu creadigol anfeidrol Duw. Gan y credai y gallai gyfodi unrhyw un, credai y medrai gyfodi Isaac, ac y gwnai hyny cyn tori ei addewidion. Eto, cafodd Abraham y syniad hwn am Dduw oddiwrth enedigaeth Isaac yn ol un dosbarth o esbonwyr. Yr oedd cael Isaac pan oedd Sarah yn rhy hen i blanta yn gofyn yr un gallu ag sydd yn ofynol i gyfodi o feirw. Yr oedd hi wedi marw o ran ei gallu i blanta, ac eto rhoddodd Duw nerth trwy ffydd iddi i blanta. Dameg neu gyffelybiaeth o allu adgyfodol Duw oedd hyn. Eithr methwn a gweled mai at enedigaeth Isaac y cyfeiria "o ba le." Credwn mai at dderbyniad Isaac yn ol gan Abraham pan oedd ar fedr ei aberthu y cyfeirir. Yr oedd Abraham wedi ei roddi i farw yn ei feddwl. (1) Hwn yw y syniad naturiolaf o lawer; (2) a gramadeg o'i blaid, oblegid defnyddir y ferf "cafodd" mewn amryw fanau yn y Test. Newydd am dderbyn yn ol. Pan ai Abraham i Moriah yr oedd Isaac gystal a marw yn ei olwg, ond derbyniodd ef yn ol gan Dduw. (3) Dyma y syniad cysonaf a rhediad yr adnodau cysylltiedig. Beth yw meddwl "cyffelybiaeth" neu "ddameg"? Barna rhai mai cysgod olygir, a bod aberthiad Isaac yn

20 Trwy ffydd y bendithiodd Isaac Jacob ac Esau am bethau a fyddent.

---

gysgod o aberthiad ac adgyfodiad Crist. Eithr nid oes sail i hyn. Cam ar gwirionedd yw gorysbrydoli amgylchiadau fel yma. Yr oedd Isaac yn gysgod o Grist yn ddiau, ond nid at hyny y cyfeiria y gair hwn. Dangos wna yr awdwr fod cyffelybiaeth rhwng derbyniad Isaac yn ol gan Abraham i adgyfodiad y meirw. Eithr dull damegol neu gyffelybiaethol yw dyweyd felly. (5) **Ffydd yn amod bendithio yn ysbrydol** (20-21).—**Trwy ffydd y bendithiodd Isaac Jacob ac Esau, ie yn nghylch pethau i ddyfod. Trwy ffydd, Jacob, wrth farw, a fendithiodd bob un o feibion Joseph; ac a addolodd, a'i bwys ar ben ei ffon.**—Enwir Jacob yn gyntaf er mai efe oedd y mab ieuangaf. Efe fwriadai Duw i fod yn gyfrwng yn ei law i fendithio y byd ac nid Esau. Yn hanes y ddau frawd dangosodd Duw mai ei drefn ef oedd i fod yn ben ac nid y drefn naturiol. Yr hynaf fuasai yr etifedd yn ol y drefn naturiol. Jacob oedd i gael y bendithion olygai Duw roddi i'r teulu ac nid Esau. Bendithiodd Isaac y ddau frawd am bethau i ddyfod—pethau anweledig. Gwnaeth hyny yn ddifrifol ac mewn teimladau ysbrydol. Nid rhywbeth ffurfiol a ffrwyth arferiad oedd y fendith, ond tywalltiad allan o'i enaid mewn angerddoldeb ysbrydol. Bu hyn yn fendith ysbrydol i Jacob. Ysbryddolodd ei ffydd a chryfhaodd hi yn yr anweledig. Beth oedd y "pethau i ddyfod"? Nid pethau i ddyfod yn hanes y ddau frawd yn unig; ond pethau mawrion fyddai yn hanes y genedl ddeilliai o Jacob. Canfyddai Isaac trwy ffydd fod addewidion Duw yn llwythog o fendithion a bendithiodd eu feibion gyda golwg arnynt. Yr un modd am Jacob: "bendithiodd bob un o feibion Joseph; ac a addolodd ai bwys ar ben ei ffon." Cawn yr un ffydd yn Jacob ag yn ei daid, Abraham. Gwnaeth yr un peth a'i dad Isaac trwy fendithio meibion Joseph. Yma eto, gwelir bwriad Duw yn troi o'r neilldu drefn ddynol. Nid Joseph oedd mab hynaf Jacob, ac nid mab hynaf Joseph fendithiwyd fwyaf gan Jacob. Yn hyn dengys Duw nad oedran benderfyna gymhwysder i gario allan ei amcanion ef yn y byd. Pan feddylir, peth anheg a phlentynaidd yw fod cyfraith gwlad yn caniatau mwy o freintiau i blentyn hynaf nag i'r ieuangaf. Yn hyn dysgai Duw y byd mai cymhwysder meddyliol a moesol hawliai freintiau ac nid oedran. Beth feddylir wrth i Jacob "addoli ai bwys ar ben ei ffon"? (1) Y darlleniad Hebraeg yw, "Ac a ymgrymodd ar ben y gwely." Hawdd iawn oedd i gyfieithwyr y LXX. wneyd y camgymeriad hwn. "Mittah"

21 Trwy ffydd, Jacob, wrth farw, a fendithiodd bob un o feibion Joseph; ac a addolodd a'i bwys ar ben ei ffon.
22 Trwy ffydd, Joseph, wrth farw, a goffâodd am ymadawiad plant Israel; ac a roddodd orchymyn am ei esgyrn.

---

yw y gair Hebraeg am wely, a "Matteh" yw y gair am ffon, a thybir i'r cyfieithwyr gymeryd y gair am ffon yn lle yr un am wely oblegid eu tebygolrwydd. Cred yr esbonwyr ddaliant y syniad hwn mai "gwely" yw y darlleniad cywir ac nid "ffon." Amcan y geiriau felly yw dangos fod ffydd Jacob yn fyw a chref pan ar ei wely marw, a'i fod yn addoli Duw yno yn yr olwg ar bethau dyfodol anweledig. Daliodd y ffydd fu yn nerth iddo drwy ei fywyd yn angau. (2) Myn ereill mai ffon yw y darlleniad cywir (a) am nad oes pen i wely dwyreiniol. Dim ond darn o ryw ddefnydd esmwyth rhwng dyn a'r llawr oedd gwely yr adeg hono. Eithr rhaid cofio fod byd da ar Jacob yn yr Aifft, wrth dadleu dros y syniad hwn, a bod ei wely yn bur debyg yn well na'r cyffredin. (b) Ar ol bendithio meibion Joseph y cymerwyd Jacob yn glaf. (c) Nid oes hanes ei fod yn ei wely pan y bendithiodd hwynt; (d) peth eithriadol fyddai ymgrymu ar ben gwely. Ar y canol yr ymgryma un ar ol codi ar ei eistedd yn y gwely. (e) Ni sonir am ben gwely yn yr holl ysgrythyr. Rhaid cydnabod nerth y rhesymau hyn a'u bod yn cadarnhau y syniad mai "ffon" yw y darlleniad cywir. Amcan y geiriau o ganlyniad yw dangos i Jacob addoli Duw yn hen wr ffaeledig pan oedd raid iddo wrth ffon i gerdded. Daliodd ei ffydd ireiddied a nertholed a phan oedd yn ddyn ieuanc. Parodd iddo addoli Duw wrth fendithio meibion Joseph er llesged oedd. Ymddiddanai a Joseph wrth eu bendithio a phwysai ar ei ffon oblegid ei wendid. Tyngodd Joseph iddo y cydymffurfiai a'i gais a llanwyd yntau a theimlad addolgar mewn canlyniad i hyny, a diolchodd yn ysbrydol i Dduw. (6) **Ffydd yn amod prophwydoliaeth** (22).—**Trwy ffydd Joseph, pan yr oedd ei ddiwedd yn agos, a goffâodd am ymadawiad plant Israel; ac a roddodd orchymyn am ei esgyrn.**—Diwedd ei einioes yw meddwl "pan oedd y diwedd yn agos." Wrth "goffaodd" y golygir a brophwydodd, ac nid cofio yn syml neu sylwi ar y ffaith. Rhaid dwyn yr elfen brophwydol i fewn yma er fod yr addewid o Ganaan wedi ei rhoddi i'r tadau. Edrychai ffydd Joseph i'r dyfodol draw a gwelai ei genedl yn myned o'r Aifft am Ganaan. Credai yn addewid Duw i'w dadau a pharodd

23 Trwy ffydd, Moses, pan anwyd, a guddiwyd dri mis gan ei rieni, o achos eu bod yn ei weled yn fachgen tlws: ac nid ofnasant orchymyn y brenhin.

---

hyny iddo brophwydo. Er ar derfyn ei oes, ac angau yn syllu arno, ni lesgaodd ei ffydd. Canfyddai yng ngrym ysbrydoliaeth yr adeg pan feddiannai y genedl y wlad addawyd iddi; a rhoddodd orchymyn am ei esgyrn i'w deulu. Beth oedd hwnw? Am ddwyn ei esgyrn i Ganaan i'w claddu gyda'i dadau. Dengys hyn nodwedd dyner iawn yng nghymeriad Joseph. Carai ei genedl mor fawr, credai mor gryf yn ymwneyd Duw a hi; gwyddai y dychwelai i Ganaan, ac awyddai am i'w esgyrn gael gorweddle ym mhlith pobl yr Arglwydd. Gan hyny, rhoddodd orchymyn am ei esgyrn. Y sicrwydd am ddychweliad y genedl barodd iddo roddi y gorchymyn. Yn Joseph eto cawn gynllun Duw yn gwahaniaethu oddiwrth eiddo dynion. Priododd ef ag Aifftes, sef merch offeiriad On, ac o ganlyniad, daeth y cenhedloedd i fewn i linell addewidion Duw. Unodd ef y byd cenhedlig ac Iuddewig. Eithr ei ffydd gref yw y pwynt yma, yn prophwydo am ymadawiad y genedl yn hir cyn yr amser. Cydiodd ei ffydd yn yr anweledig.

IV. Ffydd canol dydd y cynfyd (23-31).—(1) **Ffydd yn amod canfod tlysni dwyfol, ac yn amod gweithrediad gwrol** (23).—**Trwy ffydd, Moses, pan anwyd, a guddiwyd dri mis gan ei rieni, am eu bod yn ei weled yn blentyn tlws; ac nid ofnasant orchymyn y brenhin.**—Yn y rhan nesaf, deuwn o fore ffydd y cynfyd i'w ganol dydd. Cawn oleuni ac eangder mawr yn ffydd y rhai a enwir nesaf. Yma daw agwedd neillduol arall i'r golwg ar ffydd, a phriodol oedd ei nodi ar ol crybwyll am brophwydoliaeth Joseph am ymadawiad plant Israel o'r Aifft. Diau mai hyny barodd i feddwl yr awdwr fyned at ffydd rhieni y gwr a'i harweiniodd allan. Gellir bod yn sicr y meddai rhieni Moses ffydd gref cyn y beiddient ei guddio yng ngwyneb gorchymyn y brenin. Galluogodd eu ffydd hwy i ganfod ei dlysni. Cred rhai mai Amram, tad Moses, a Cohath, ei daid, welodd y tlysni yma ynddo. Gwir y gellir cyfieithu *πατερων* yn dadau yn gystal a rhieni; ond a tri pheth yn erbyn ei gyfieithu felly yma. (1) Jocebed, mam Moses, y sonir am dani yng nghuddiad Moses. Rhaid y meddai ffydd gref cyn y gwnelsai yr hyn ddywedir am dani yn Exodus ii. 2, 3. (2) Cynreddf mam yw y gyflymaf o lawer i weled tlysni. (3) Mam anturia fwyaf dros ei phlentyn yng ngwyneb perygl. Gan hyny, ni allwn gredu nad oedd

24 Trwy ffydd, Moses, wedi myned yn fawr, a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh;

---

ffydd mam Moses, yn gystal a'i dad a'i daid, yn gweithredu yn ei guddiad. Pa dlysni welsant ynddo? Gall ἀστεῖον—tlws—olygu hardd, moesgar, talentog, dengar, daioni, arddunedd naturiol neu foesol. Ei feddwl yma yw harddwch corfforol, gyda rhyw amlygiadau neillduol o harddwch moesol a mawredd meddyliol. Dreiddgared oedd ffydd y rhieni nes y canfyddasant rywbeth neillduol ym mynegiant llygaid, sylw, ac ysgogiadau y plentyn, a chredasant fod ganddo waith i'w wneyd dros Dduw. Yn nerth eu ffydd canfyddasant rywbeth diamheuol ddwyfol yn y baban, a gwnaethant adduned i'w gysegru i Dduw. Cuddiasant ef er gorchymyn caeth y brenin Pharaoh i ladd pob mab a enid i'r Hebreaid. Ond ai nid oedd cuddio y baban yn dangos diffyg ffydd? Nac oedd; nid yw ffydd yn gwneyd i ffwrdd a gwaith dyn. Bu ei guddio yn gynorthwy i gyrhaedd eu hamcan. (2) **Ffydd yn amod gwrthod, dewis, barnu, a chanfod y diwedd** (24-26).—(a) **Ffydd yn amod gwrthod y drwg** (24).—**Trwy ffydd Moses, wedi myned yn fawr, a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh.**—Ffydd yn cuddio baban gaed yn adnod 23, ond ffydd y baban wedi myned yn ddyn geir yma. Etifeddodd Moses ffydd oddiwrth ei rieni, ac ysbrydolwyd y ffydd etifeddol hono gan eu ffydd hwy. Heblaw hyny, ysbrydolodd Ysbryd Duw hi. Daw i'r golwg yn gyntaf mewn gwrthod, a hyny ar ol iddo gyrhaedd llawn ddadblygiad gwr. Meddai farn glir yr adeg hon, ac o ganlyniad, yr oedd gwerth moesol uchel yn ei wrthodiad. Ffrwyth hir feddwl, dwys ystyriaeth foesol, barn addfed, golwg eang, a mesur helaeth o brofiad, oedd ei wrthodiad. Ond ffydd oedd y prif amod. Nid un weithred mewn amgylchiadau cynhyrfus yn ffrwyth siomiant oedd ei wrthodiad, ond canlyniad blynyddoedd o feddwl ar bethau. Gwrthododd anrhydedd uchel iawn, ac un swynol i ddyn ieuanc uchelgeisiol. Gallasai ddisgwyl esgyn i orsedd yr Aifft, gan yr edrychid arno fel mab i ferch y brenin. Dwg hyn elfen foesol gref i'w wrthodiad. Nid gwrthod peth bach a wnaeth, ond anrhydedd mwyaf yr Aifft. Eto, codwyd ef yng nghanol holl freintiau yr Aifft; cafodd addysg oreu y wlad a phob ffafrau feddai y llys. Er hyny torodd ei hun oddiwrth holl ddylanwadau yr Aifft a gwrthododd ymgyfathrachu a'i phobl uchaf. Ni cheir hanes am y gwrthodiad hwn yn Exodus, ond canfyddir ef yng ngwaith Moses yn myned

25 Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw,
na chael mwyniant pechod dros amser;
26 Gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau

---

allan at ei frodyr a lladd yr Aifftiwr. Diau y ceid yr hanes yn llawn mewn traddodiad Iuddewig. (b) **Ffydd yn dewis y da** (25).—**Gan ddewis yn hytrach gael drwg driniaeth gyda phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser.**—Yma daw elfen foesol arall i fewn i ffydd Moses. Un peth yw gwrthod drwg, peth arall yw dewis y da. Collai Moses lawer o ddaioni bydol wrth wrthod; ond derbyniai lawer o gamdriniaeth fydol wrth ddewis y da. Clorianodd oreu'r byd gyda gwaethaf crefydd, a gwelodd mai yr olaf oedd y goreu. Trôdd pobl Dduw y glorian er yr holl adfyd oedd raid iddo ddioddef gyda hwynt. Hyn ddatguddia foesoldeb uchel dewisiad Moses. Nid dewis pobl Dduw a wnaeth o dosturi dynol, teimlad cenedlaethol, uchelgais gwladgarol a chydymdeimlad brawdol, ond eu dewis am y credai mai hwy oedd pobl Dduw. Anhawdd iawn oedd gweled mai hwy oedd pobl Dduw; oblegid yr oeddynt yn anwybodus, yn isel eu moes, yn gaethion a thlawd. Er hyny, gwelodd ffydd Moses mai hwy oedd etifeddion yr addewidion. Meddai ei ffydd ryw gynreddf ysbrydol fel eiddo ei fam, pan welodd blentyn Duw ynddo ef yn faban gwan. Er cyflwr isel ei genedl, gwelodd yntau blant Duw ynddi. Gallasai gael mwyniant pechod yr Aifft dros amser yn lle camdriniaeth pobl Dduw, ond ni ddewisodd ef. Nid mwyniant pechod yn gyffredinol yw y meddwl, ond y mwyniant neillduol gawsai wrth ddewis cael ei alw yn fab merch Pharaoh, mwyniant llys brenhinol yr Aifft. Peth dros amser oedd hwnw, sef cyhyd ag y buasai ef byw. (c) **Ffydd yn amod barnu gwerth moesol** (26).—**Gan gyfrif yn fwy golud waradwydd Crist na thrysorau yr Aifft.**—Y mae barnu yn llawn cystal a chyfrif yma. *Εγησαμενος* yw y gair, a gall olygu gosod yn benaf, cyfrif y peth mwyaf, cyfrif ar ol barnu yr holl ffeithiau a'u pwyso yn bwyllog. Cyfrifodd neu barnodd Moses waradwydd Crist yn fwy golud na thrysorau yr Aifft. Wrth waradwydd Crist y golyga rhai (1) dioddefiadau o'r un natur a rhai Crist, rhai gaiff dynion da wrth ymdrechu gwneyd da. (2) Ereill a farnant mai gwaradwydd er mwyn Crist feddylir. Credai y genedl fod Crist yn dyfod, a bod yn werth dioddef er ei fwyn. (3) Syniad amryw yw mai cyfeiriad sydd yma at Grist yn eglwys yr Hen Destament. Braidd y gallwn dybio posibilrwydd gwirionedd y syniad hwn. Dangosodd yr awdwr

yr Aifft: canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gwobrwy.

27 Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aifft, heb ofni llid y

---

mai cysgodol, disylwedd a diallu oedd holl gyfundrefn yr Hen Destament, ac nid yw yn debyg y dywedai drachefn fod Crist ynddi. Gwir fod Crist yn ei eglwys ym mhob oes o'r byd, ond nid dyna wirionedd yr adnod hon. Ar Grist mewn rhyw ystyr y teflid gwaradwydd dan yr Hen Oruchwyliaeth yn yr anufudd-dod i orchymynion Duw, ond hollol annaturiol yw dwyn y fath syniad i'r frawddeg dan sylw. (4) Gwell genym gredu mai yn y cyfuniad o'r ddau syniad cyntaf y ceir y gwirionedd. Dioddefaint neu waradwydd o'r un natur ag eiddo Crist oedd un Moses ac un er ei fwyn. Prophwydodd Moses am Grist, fel un y dylasai y genedl wrandaw arno yn yr oll a ddywedai, ac, o ganlyniad, hawdd credu y cymerai at ei waith er ei fwyn, ac edrychai arno yn olud annhraethol fwy na dim allasai yr Aifft roddi iddo. (d) **Amod nerth ei ffydd foesol.—Canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gwobrwy.**—Barnai Moses fod gwaradwydd Crist yn olud, am ei fod yn foddion sancteiddiad, dadblygiad, a pherffeithiad ei natur. Yn ymyl hwn nid oedd trysorau yr Aifft yn ddim yn ei olwg. Eithr taledigaeth y gwobrwy nerthai ei ffydd. Nid dyna oedd amod ei ffydd fel egwyddor, ond efe oedd amod ei dwysder, ei graddau a'i nerth. Parai iddo edrych i'r dyfodol pell a ffurfio delfryd ysbrydol o daledigaeth y gwobrwy. Golyga *απέβλεπεν* edrych oddiwrth bob peth arall; edrych at un gwrthddrych a marw i bob gwrthddrych ond hwnw. Beth oedd y gwrthddrych yr edrychai Moses ato? (1) Cael bod yn arweinydd y genedl a'r clod ddeilliai o hyny yn ol un esboniad; (2) meddiannu gwlad Canaan yn ol un arall; (3) meddu cymeriad sanctaidd yw syniad rhai; (4) cyrhaedd nefoedd a bod gyda Christ byth. Diau mai hwn oedd o flaen meddwl yr awdwr. Gwelai Moses ei hun trwy ffydd wedi arwain y genedl i Ganaan, a chyrhaedd perffaith sancteiddrwydd yn y nef, ac yn dragywyddol ddedwydd. Nerthai hyn ei ffydd yng ngwyneb pob anhawsder. Mewn geiriau ereill, taledigaeth y gwobrwy oedd iachawdwriaeth lawn ei enaid. Ai tal yw iachawdwriaeth? Ie, cyn belled ag y mae yn ffrwyth ymdrech dyn ei hun. Heb ymdrech bersonol, nid yw iachawdwriaeth yn bosibl. Pa fodd y gellir dyweyd ei bod yn wobr os mai ffrwyth ymdrech yw hi? Am mai rhodd gras yw ei hedyn yn y galon a'r dadblygiad ohoni dan ddylanwad yr Ysbryd Glan.

brenhin: canys efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig.

Rhaid wrth waith Duw yn gystal ag ymdrech dyn j'w pherffeithio (3) **Ffydd yn amod gwroldeb moesol** (27).—**Trwy ffydd y gadawodd ef yr Aifft, heb ofni llid y brenhin: canys efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig.**—Beth bynag am yr amgylchiad y cyfeirir ato yma, gwroldeb moesol a amodid gan ffydd yw y prif bwynt. Gwnaed Moses yn gyfartal i'r amgylchiadau gan ffydd. Pa un ai at ei ymadawiad cyntaf o'r Aifft, neu yr ail y cyfeirir yn yr adnod? Wedi pwyso yr oll, credwn mai o blaid yr ail ymadawiad o'r Aifft y mae y rhesymau cryfaf, sef pan arweiniodd ef y genedl allan: oblegid (a) cyfeiriwyd at y cyntaf yng ngwaith Moses yn gwrthod cael ei alw yn fab merch Pharaoh; (b) arweinir at ei arweiniad o'r genedl allan yn adn. 25, lle y dywedir iddo ddewis yn hytrach gael drwg driniaeth gyda phobl Dduw. (c) Yr adeg y gwnaeth y dewisiad yma yn derfynol ydoedd yr amser y gwelai yn glir daledigaeth y gwobrwy; (d) dywedir i Moses ofni pan ffodd o'r Aifft wedi lladd yr Aifftiwr. Yr oedd ffoi yn profi ofn, ac ofn llid y brenin oedd hwnw. Ond yma dywedir nad ofnodd ei lid. (e) Nid yw fod y ferf "gadawodd" yn y rhif unigol yn erbyn y syniad hwn. Son am ofn Moses ei hun wna'r adnod, ac ni fuasai yn iawn dyweyd "gadawsant," am fod y genedl gydag ef. (f) Nid iawn dyweyd mai yr un amgylchiad oedd myned trwy y Mor Coch, adn. 29, a gadael yr Aifft. Yr oedd pellder gan y bobl i deithio o wlad Goshen i lan y Mor Coch. Yr adeg y gadawodd Moses Pharaoh a chychwyn y genedl y gadawodd ef yr Aifft mewn gwirionedd. (g) Yr oedd Pharaoh yn llidus am fod Moses yn dwyn y bobl allan. Dengys ei ymddygiad hyn yn eglur. Deallai dyn o allu Moses ddyfnder ei lid yn dda. (h) Dinerth yw y ddadl y byddai yr awdwr yn cymysgu pethau wrth fyned yn ol at y pasc ar ol cyfeirio at y mynediad allan. Sefydliad neillduol oedd y pasc a gwahanol i'r cychwyniad allan. Heblaw hyny, yr oedd yr holl benderfyniad i fyned o'r Aifft a'r trefniadau wedi eu gwneuthur cyn sefydlu'r pasc. Yn ei feddwl yr oedd Moses wedi myned allan. Eto, ni ellid disgwyl i'r awdwr mewn llythyr na feddyliai iddo fodoli cyhyd a'r eglwys ar y ddaear i fod yn hollol drefnus ym mhob manylion. (i) Nid oes awgrym yn hanes Moses yma am ei ymadawiad cyntaf o'r Aifft. Rhaid oedd wrth ffydd gwron o'r radd flaenaf i gychwyn o'r Aifft dan yr amgylchiadau yr aeth Moses a'r genedl allan. Daliodd

28 Trwy ffydd y gwnaeth efe y pasc, a gollyngiad y gwaed, rhag i'r hwn ydoedd yn dinystrio y rhai cyntaf-anedig gyffwrdd a hwynt.

29 Trwy ffydd yr aethant trwy y môr coch, megys ar hyd tir sych: yr hyn pan brofodd yr Aifftiaid, boddi a wnaethant.

---

ati fel un yn gweled yr anweledig o'i flaen. Paham? Am ei fod newydd weled amlygiad mor rhyfedd o'r anweledig yn y berth yn llosgi ac heb ei difa pan anfonwyd ef i'r Aifft. Amod nerth ei ffydd oedd ei fod wedi gweled Duw yn y berth a siarad ag ef. (4) **Ffydd yn amod diogelwch goruwchnaturiol** (28).—**Trwy ffydd y cadwodd efe y pasc, a thaenelliad y gwaed, fel na byddai i ddinystrydd y cyntaf-anedig gyffwrdd a hwy.**—Neu y sefydlodd, neu y mae efe wedi gwneyd y pasc. Awgryma y darlleniad olaf fod y pasc yn sefydliad parhaus ac nid peth am dro. Cedwid ef bob blwyddyn oddiar hyny. Gan hyny, yr oedd yr wyl yn fath o sacrament gan y genedl. Cyfeirio wna "taenelliad y gwaed" at daenelliad gwaed oen y pasc ar gapan y drws ac ar y ddau ystlysbost. Beth oedd amcan ei daenelliad? I gadw yr angel dinystriol rhag lladd y cyntaf-anedig. Pasiodd yr angel heibio i bob ty oedd dan arwydd y gwaed, ond lladdodd y cyntaf-anedig trwy holl wlad yr Aifft lle nad oedd arwydd y gwaed. Myned heibio, sef pasc (*passover*), gan hyny y galwyd y sefydliad. Bu diogelwch goruwchnaturiol y cyntaf-anedigion Hebreaidd drwyddo, a ffydd Moses amododd y diogelwch. Credodd y buasai sefydliad y pasc yn foddion i'w harbed ac y caent fyned allan yn ddianaf, a hyny a fu. (5) **Ffydd yn amod gwaredigaeth oruwchnaturiol** (29).—**Trwy ffydd yr aethant trwy y Mor Coch megys ar hyd tir sych: yr hyn pan geisiodd yr Aifftiaid a lyncwyd i fyny.**—Diogelwch pan ai y dinystrydd heibio oedd yn yr adnod flaenorol, ond gwaredigaeth sydd yma. Daeth Moses a'r genedl i lan y mor a gyrodd yr Aifftiaid ar eu hol; codai Piahiroth a Baalsephon ar bob tu iddynt fel nad oedd modd dianc. Dengys yr hanes mai ffydd Moses y cyfeirir ati yn benaf. Gweddi Moses barthodd y mor. Diau y credai llawer o'r genedl. Ysbrydolodd ffydd Moses lawer ohonynt drwy ei wyrthiau yn yr Aifft; ond ei ffydd ef oedd amod y waredigaeth ryfedd a chred y genedl ynddo barodd i'r bobl ei ganlyn. Cerddasant drwy y mor heb leithder. Yr oedd y ffordd syched a phe y buasent ar dir sych. Synodd yr Aifftiaid eu gweled, ac wedi petruso ychydig gwnaethant brawf ar y ffordd y cerddai yr

30 Trwy ffydd y syrthiodd caerau Jericho, wedi eu hamgylchu dros saith niwrnod.
31 Trwy ffydd ni ddifethwyd Rahab y butain gyda'r rhai ni chredent, pan dderbyniodd hi yr ysp'wyr yn heddychol.

Hebreaid drosti trwy ganol y mor. Eithr ar fyr llyncwyd hwy i fyny. Ystyr y ferf κατεπόθησαν —lyncwyd—yw cau oddiamgylch, boddi, gorchfygu neu lyncu. Cyfieithir hi yn lyncu ym mhob man arall yn y Test. Newydd. Cauodd y mor am yr Aifftiaid nes eu llyncu. (6) **Ffydd yn amod buddugoliaeth oruwchnaturiol** (30).—**Trwy ffydd y syrthiodd caerau Jericho, wedi eu hamgylchu am saith niwrnod.**—Ffydd yn gorchfygu dinas mewn modd goruwchnaturiol yw hon, ac nid un yn amod diogelwch rhag dinystr, na gwaredigaeth o berygl. Jericho oedd y ddinas gyntaf yr aeth y genedl yn ei herbyn ar ol dyfod i Ganaan. Meddai gaerau trwchus ac uchel a thra lluosog oedd ei thrigolion. Yn ei gorchfygiad datguddir y goruwchnaturiol yn amlwg iawn. Ni ellir esbonio y fuddugoliaeth ar un tir arall. Nid grym arfau enillodd y frwydr, nid chwythiad y cyrn hyrddod, nid amgylchu y ddinas chwe' niwrnod, a seithwaith y seithfed dydd, na bloeddiadau y bobl. Beth ynte? Cydymffurfiad ffyddiog y bobl ag amodau Duw. Y goruwchnaturiol barodd syrthiad y caerau ac nid gallu dynol. Prawf o ffydd y bobl oedd dal ati am "saith niwrnod." Gallasent golli eu ffydd wrth weled y caerau yn dal o ddydd i ddydd. Cama yr awdwr yma dros daith yr anialwch am ddau reswm feallai : sef diffyg amser i fanylu, a chyfiwr diffydd y bobl pan yn yr anialwch. Ni sonia hefyd am y wyrth o groesi yr Iorddonen yn droed sych am ni gredwn fod gwyrth y Mor Coch debyced iddi. (7) **Ffydd yn amod cadw bywyd am gymwynas naturiol** (31).—**Trwy ffydd ni ddifethwyd Rahab y butain gyd a'r rhai anufudd, gan ddarfod iddi dderbyn yr ysp'wyr yn heddychol.**—Yma cawn ffydd gwraig, cenedl-wraig, ac un o gymeriad gwael. Nid peth cyfyngedig i genedl, i ryw, nac i gymeriad yw ffydd fel gallu naturiol; ac ni chyfyngir hi i genedl na rhyw mewn ystyr ysbrydol. Credodd Rahab er ei chymeriad isel, yn y buddugoliaethau gafodd y genedl yn yr anialwch; y buasai yn sicr o oresgyn Canaan; fod Duw gyda'r genedl yn ei brwydrau, a'i fod wedi addaw y wlad i Israel. Gan hyny, bu yn garedig wrth yr ysb'wyr; lletyodd hwynt a dywedodd y gwir wrthynt; ni seniodd wrth bobl y ddinas am eu hymweliad tra yr oeddynt yno, nac wedi eu hymadawiad. Pan ddaeth y genedl yn erbyn Jericho ni

32 A pheth mwy a ddywedaf? canys yr amser a ballai i mi
i fynegi am Gedeon, am Barac, ac am Samson, ac am
Jepthae, am Dafydd hefyd, a Samuel, a'r prophwydi;
33 Y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a

---

ddifethwyd hi gyda'r lleill o drigolion y ddinas. Nid ffydd gadwedigol oedd hon, ond ffydd fedr natur ddynol dda ei chynyrchu. Ond tra manteisiol yw hi i'w pherchen i gael gafael mewn ffydd ysbrydol. Ufuddhaodd Rahab i'r pethau goreu oedd ynddi ac i'r ysbïwyr, tra yr anufuddhaodd holl bobl ereill Jericho.

V. Ffydd yn amod buddugoliaeth, gwaredigaeth a nerth (32-40).—(1) **Ffydd yn amod buddugoliaeth.**—(a) **Faterol** (32-33).—**A pheth mwy a ddywedaf? Canys yr amser a balla i mi os dywedaf am Gedeon, Barac, Samson, Jepthae; am Dafydd a Samuel a'r prophwydi: y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd.**—Yma enwa yr awdwr nifer mawr o wroniaid ffydd, yn farnwyr, brenhinoedd a phrophwydi. Cyn-rychiolai y tri dosbarth hyn gewri y ffydd yn Israel. Nid gofyn y cwestiwn yn nechreu adn. 32 er mwyn cael ateb wna ef, ond er mwyn cael sylw ei ddarllenwyr at y personau a enwa. Y meddwl yw, i beth yr ymhelaethaf, y mae yr enghreifftiau a ddygais ym mlaen yn ddigon, ac nid oes genyf amser at fy llaw i fanylu rhagor. Y dosbarth cyntaf a nodir yma yw barnwyr y genedl, ac ni ofala am eu rhoddi mewn trefn amseryddol. Y rhai hyn yw "Gedeon, Barac, Samson, a Jephthae." (Gwel llyfr y Barnwyr am eu hanes). Brenhinoedd yw yr ail ddosbarth, sef "Dafydd a Samuel." Y trydydd dosbarth yw y prophwydi, ond ni enwir un ohonynt. Dynion tra phwysig oedd y bobl hyn oll a gwnaethant wrhydri trwy ffydd. Feallai mai eu pwysigrwydd ym meddwl yr awdwr ei hun gyfrifa am y drefn eu ceir yma, neu ei fod yn eu rhoddi lawr fel y deuent i'w feddwl. Buddugoliaeth faterol yw y peth cyntaf a briodolir iddynt, sef "y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd." Barnwyr a brenhinoedd oedd y rhai hyn. Credasant addewidion Duw ac aethent i ryfel gan bwyso arno a chawsant fuddugoliaethau eithriadol. Ceir hanes lluaws o'u rhyfeloedd a chenhedloedd cylchynol a braidd nad ydynt yn wyrthiol. (b) **Foesol** (33).—**A wnaethant gyfiawnder.**—Llawer uwch yw y fuddugoliaeth hon na'r flaenorol. Gwnaethant gyfiawnder yng nghanol dynion drwg, ac ar waethaf pechod eu calonau eu hunain. Amcanent at wneyd cyfiawnder ym mhob amgylchiad, oblegid eu ffydd gref yn Nuw. Camp oedd hyn i

wnaethant gyfiawnder, a gawsant addewidion, a gauasant safnau llewod,

34 A ddiffoddasant angerdd y tân, a ddiangasant rhag min y cleddyf, a nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio.

---

frenhinoedd a barnwyr oblegid eu safle. Eithr cawn esiamplau nodedig o hyn yn Samuel, Dafydd a Solomon. **Ysbrydol.—A gawsant addewidion.**—Eu ffydd oedd amod eu llwyddiant ysbrydol eto. Yr oedd cael addewidion yn llwyddiant ysbrydol o angenrheidrwydd. Myn llawer mai addewidion gyda golwg ar y dyfodol oedd y rhai hyn, rhai na chyflawnwyd i'r personau y gwnaed hwynt. Ereill a ddadleuant mai addewidion gyflawnwyd, megys yr un i Josuah y darostyngid Canaan iddo; a'r un i Gedeon pan aeth i ryfel. Ond rhy gyfyng yw y ddau olygiad hyn. Cynwysai yr addewidion freintiau ysbrydol, sef iachawdwriaeth lawn. Buddugoliaeth ysbrydol gyflawn oedd elfen hanfodol yr addewidion hyn. (2) **Ffydd yn amod gwaredigaeth** (33-34). (a) **Rhag bwystfilod rheibus** (33).—**A gauasant safnau llewod.**—Gwaredigaeth Daniel yn ffau y llewod sydd yn y frawddeg hon. Er bod drwy y nos yn y ffau ni chyffyrddodd y llewod ag ef. Ni all dim esbonio hyny ond i Dduw gyfryngu a rhoddi gwaredigaeth i Daniel oherwydd ei ffydd. (b) **Rhag elfenau natur** (34).—**A ddiffoddasant angerdd tan.**—Ffydd y tri llanc ym Mabilon yw hon. Er i'r ffwrn gael ei phoethi seithwaith poethach nag arferol, diangasant rhag angerdd y tan. (c) **Rhag arfau rhyfel.—A ddiangasant rhag min y cleddyf.**—Dichon mai cyfeiriad at Dafydd yn dianc rhag Saul sydd yma. Gall fod yma gyfeiriad at waredigaeth Elias ac Eliseus rhag brenhinoedd Israel, neu at y dinystr a fwriadai Haman i'r Iuddewon yn Persia. Gan mai cyffredinol yw y gosodiad ni ellir penderfynu. (3) **Ffydd yn amod nerth** (34).—(a) **Mewn gwendid naturiol.—A wnaethpwyd yn gryfion o wendid.**—Nid gwaredigaeth rhag gwendid sydd yma, ond o wendid. Feallai mai at Samson y cyfeirir. Gwnaethpwyd ef yn nerthol ar ôl ei wanhau trwy dori ei wallt. Cafodd nerth i dynu y ty ar ben y Philistiaid; neu dichon mai adnewyddiad Hezeceiah feddylir. Y mae llawer i'w ddyweyd o blaid mai adnewyddiad ysbryd y genedl ar ol y caethiwed Babilonaidd oedd ym meddwl yr awdwr; eithr credwn fod personau neillduol ganddo mewn golwg, gan ei fod wedi enwi nifer o rai neillduol mewn cyfeiriadau ereill. (b) **Mewn rhyfeloedd dinystr-**

35 Gwragedd a dderbyniodd eu meirw trwy adgyfodiad: ac ereill a ddirdynwyd, heb dderbyn ymwared; fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.
36 Ac ereill a gawsant brofedigaeth trwy watwar a fflangellau, ïe, trwy rwymau hefyd a charchar:

---

iol.—A wnaethpwyd yn nerthol mewn rhyfel.—Gwaredwyd Dafydd ac ereill mewn rhyfeloedd pan nad oedd eu byddinoedd yn agos cyfartal o ran rhif i rai y gelynion. Gwnaeth eu ffydd hwy yn gryfion, ac enillasant y frwydr. (c) **Mewn ymlid gelynion.—A yrasant fyddinoedd o estroniaid ar ffo.**—Cymerodd hyn le lawer gwaith yn hanes y genedl. Gyrodd Gedeon, Dafydd a Samson y gelynion ar ffo, a gwnaed hyn gan y genedl yn ei rhyfeloedd yn yr anialwch. (4) **Ffydd yn amod adgyfodiad naturiol ac ysbrydol** (35).—**Gwragedd a dderbyniasent eu meirw trwy adgyfodiad ac ereill a ddirdynwyd, heb dderbyn eu hymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell**—Darfu i'r wraig weddw o Sarepta gael ei mab yn ol drwy Elias, a chafodd y Sunamees ei mab marw yn ol drwy Eliseus. Gwaredwyd y ddau hyn o feirw trwy ffydd eu mamau yn gystal a ffydd y ddau brophwyd. Nid oes modd cyfyngu ffydd yma i'r prophwydi yn unig, onide collwn bwynt yr awdwr. Eto, bu ffydd yn amod adgyfodiad gwell i rai. Dirdynwyd hwy heb dderbyn gwaredigaeth naturiol, ond cawsant waredigaeth ysbrydol drwy gael adgyfodiad ysbrydol, yr hwn ragora ar adgyfodiad y rhai a nodwyd uchod. Curwyd y bobl hyn i farwolaeth, yn ol un darlleniad, ond buont feirw mewn ffydd a gobaith am adgyfodiad gwell. (5) **Ffydd yn amod dal dioddefiadau** (36-38).—Yn yr adnodau hyn cawn nifer na chawsant waredigaeth, ond daliasant yn eu dioddefiadau heb ̧olli eu ffydd. (a) **Yn amod dal erledigaeth** (36).—**Ac ereill a gawsant brofedigaeth trwy watwar a ffiangellau, ie, trwy rwymau hefyd a charchar.** Wrth "ereill" y golygir dosbarth gwahanol i'r rhai blaenorol. Meddwl "profedigaeth" yw prawf. Fel y desgrifiir yma y profwyd y rhai dan sylw, ac nid fel y rhai uchod. Cynwysa gwatwar osod dynion dan ddioddefaint ac enllib a barai ddifyrwch chwerthingar i'r edrychwyr. Gosodid rhai o saint yr Hen Destament dan driniaeth fel hyn yng ngolwg tyrfa o bobl. Fflangellid hwy hefyd; hyny yw, curid hwy a gwialenau. Byddai yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid yn fflangellu dynion am bethau olygent yn droseddau. Cyfyngai yr Iuddewon rif y

37 Hwynt-hwy a labyddiwyd, a dorwyd a llif, a demtiwyd, a laddwyd yn feirw a'r cleddyf; a grwydrasant mewn crwyn defaid a chrwyn geifr; yn ddiddim, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr;

38 (Y rhai nid oedd y byd yn deilwng ohonynt,) yn crwydro mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau ac ogofeydd y ddaear.

---

fflangellau i ddeugain ond un ar y tro. Dibynai y rhif gan y Rhufeiniaid ar farn y barnwr. Cafodd y dynion hyn "rwymau a charchar" yn ogystal a fflangellau. Y cadwynau a'u cylyment oedd y rhwymau, a'r carchar oedd y lleoedd y cylymid hwy ynddynt. Lleoedd arswydus oedd carcharau Canaan. Torid hwy yn y graig a byddent yn llaith, oer a thywyll. Ceir rhai ohonynt yn awr yn y wlad, a gyrent aeth trwy ein hysbryd wrth edrych arnynt pan ar daith yno. (b) **Yn amod dal marwolaeth** (37).—**Hwynt-hwy a labyddiwyd, a lifiwyd yn ddarnau, a demtiwyd, a laddwyd a'r cleddyf.**—Gosodwyd llu o'r dynion goreu i farwolaeth trwy eu llabyddio, sef trwy daflu cerrig atynt. Dosbarth gwahanol yw y rhai hyn i'r rhai yn adn. 36. Dichon i rai o'r rhai hyny gael eu lladd, ond nid yr oll. Neillduola yr awdwr rai yma a laddwyd. Hefyd "temtiwyd" llawer o'r bobl hyn. Beth yw meddwl hyny? Ceisio eu tynu i wadu eu crefydd yn hytrach na marw. Gwnaed yr un peth a llawer o'r merthyron yn y wlad hon. Cynygid eu rhyddhau ond iddynt wadu eu ffydd. Credwn mai dyma yr esboniad goreu ar fod y temtio yng nghanol y creulonderau geir yma. Myn lluaws mai rhyw un osododd y gair i fewn ac nad oedd yn y gwreiddiol, tra y dywed ereill mae camsyniad wnaeth rhyw adysgrifydd trwy osod "temtiwyd" i fewn yn lle "llosgwyd," neu ryw air cyffelyb. Nid oes sail i'r tybiaethau hyn, a ffordd beryglus o esbonio yw yr egwyddor gynwysant. Lladdwyd ereill a'r cleddyf: megys Urias, a thybir i Esaiah gael ei ladd felly. (c) **Yn amod dal caledi anianyddol** (37-38).—**A grwydrasant mewn crwyn defaid, mewn crwyn geifr; yn amddifad, yn gystuddiol, yn cael eu drwg drin (o'r rhai nid oedd y byd yn deilwng), yn crwydro mewn anial-leoedd a mynyddoedd ac ogofeydd, a thyllau y ddaear.**—Y rheswm y crwydrent oedd oblegid ofn y rhai a'u herlidient. Ni allent aros yn yr un fan a gwneyd cartref. Dyma y wedd gyntaf ar eu caledi. I ddyn da, ac o feddwl galluog, cosp enbyd yw bod yn grwydryn digartref. Ni feddai y bobl hyn wisg

39 A'r rhai hyn oll, wedi cael tystiolaeth trwy ffydd, ni dderbyniasant yr addewid:

---

briodol i'w cadw rhag oerni yr hin eithafol geid weithiau yng Nghanaan. "Crwyn defaid a chrwyn geifr" oedd eu gwisg. Rhai oerion ac anesmwyth yw crwyn yn nesaf at y corph ar y goreu. Dynion tlotaf Canaan ymwisgent yn y crwyn hyn. Byddent yn "anghenog" yn fynych oblegid eu bywyd digartref. Buasent yn ffoi rhag gelynion, ac yna yn gorfod byw heb ymborth am ddyddiau yn fynych. Pan na fuasent ar ffô, ymborth gwael gawsent a dim digon o hwnw ar lawer adeg. Effaith y bywyd hwn fyddai cystuddiau aml, trwm a phoenus. Rhaid oedd i'r fath fywyd effeithio yn ddwys ar eu hiechyd. Dywed yr awdwr y "camdrinid hwy," neu eu bod yn cael eu "drwg drin" fel desgrifiad cyffredinol o'r oll yr aent trwyddo. Dywed adn. 39 nad oedd y byd yn deilwng o'r bobl hyn. Dduwioled oeddynt fel nad oedd y bobl a'u camdrinient yn deilwng o'u cymdeithas. Yr oeddynt yn rhy dda i'r byd llygredig. Dynion ffydd oeddynt, dynion a'u llygaid ar Dduw a'i bobl a'i waith. Rhoddir desgrifiad byw yma o'r lleoedd y crwydrent ynddynt, ac anhawdd i rai na welsant Ganaan i sylweddoli y desgrifiad yn llawn. Gan agosed i natur y wlad yw y desgrifiad, anhawdd cael ei well. Ceir ynddi "anial-diroedd," neu "ddiffaeth-leoedd," fel y darllena rhai, megys diffaethwch Judea a darnau ereill. Hefyd, aml yw mynyddoedd y wlad, megys Ebal a Gerizim; Tabor a Charmel, Hermon, a mynyddoedd ereill. Gan mai gwlad cerrig calch yw hi, ceir ynddi ogofeydd lawer a thyllau yn y ddaear. Crwydro fel hyn fu hanes Elias, a Dafydd ar rai adegau yn amser Saul. (7) **Yn amod tystiolaeth ddwyfol** (39).—**A'r rhai hyn oll, wedi cael dwyn tystiolaeth iddynt trwy ffydd, ni dderbyniasant yr addewid.**—Cafodd y rhai hyn oll dystiolaeth trwy eu ffydd. Pa fodd? (1) Trwy dangnefedd yn eu bywyd mewnol; (2) trwy gymeradwyaeth dynion ysbrydol; (3) trwy y buddugoliaethau a enillasant, a (4) trwy gofnodiad o'u bywyd sanctaidd yn y Beibl. Un ddwyfol oedd y dystiolaeth hon oll. Er na dderbyniasant yr "addewid" tra yn y byd ni phallodd eu ffydd; ac er cymaint gamdriniwyd arnynt, ni lesgaodd eu cred yn Nuw. Pa addewid yw hon? Yr addewid, addewid yr addewidion, sef yr un am nefoedd dragywyddol. Cawsant flaenbrawf ohoni a sicrwydd o ffyddlondeb yr addäwr. Meddianwyd bywyd tragywyddol ganddynt oll, ac yr oedd hyny yn ddechreu nefoedd iddynt; ond nid yn nefoedd lawn.

40 Gan fod Duw yn rhag-weled rhyw beth gwell am danom ni, fel na pherffeithid hwynt hebom ninnau.

---

(8) **Y rheswm na dderbyniodd y ffyddloniaid yr addewidion** (40).—**Gan fod Duw wedi darparu rhywbeth gwell am danom ni, fel pherffeithid hwy ar wahan oddiwrthym ninau.**—Dyma y rheswm na dderbyniasant yr addewid. Rhagwelai Duw ei drefniant am danom ni. Yn hwnw yr oedd rhywbeth gwell. Beth oedd y rhywbeth gwell? Bod yn feddiannol o gynwys anfeidrol yr addewid, sef y nef a'i holl fendithion. Gwell na pheth olygir? Gwell na dim feddiannodd y saint y sonir am danynt dan yr Hen Oruchwyliaeth. Amcan Duw yn hyn oedd "fel na pherffeithid hwy ar wahan oddiwrthym ni." Rhaid i ddeiliaid y cyfamod newydd fyned i'r nef cyn y perffeithir saint yr Hen Destament yn llwyr. Cymdeithas saint yr holl oesau yw amod eu perffeithiad. Rhaid cael saint pob oes a phob cenedl yng nghyd cyn y perffeithir y rhai aethant i'r nef dan yr Hen Oruchwyliaeth.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Astudier natur ffydd a'r gwahanol fathau o ffydd.
Casgler hanes a nodweddion Abel, Enoch a Noah.
Efryder yr oll am arch Noah, a'i phwysigrwydd adeg y Diluw.
Gwahaniaether rhwng ffydd Abraham, Isaac, a Jacob.
Meddylier am y fantais a'r anfantais i weithredu ffydd yn y cynfyd.
Ystyrier mawredd ffydd Sarah, a'r elfenau neillduol a'u cyfansoddent.
Crynhoer yr holl ffeithiau ddatguddiant fawredd ffydd Moses.
Chwilier i holl hanes sefydliad y Pasc cyntaf yn yr Aifft.
Dosbarther enwogion ffydd yn ol eu hynodrwydd a'u safleoedd.
Myner o hyd i holl hanes Jericho, a syrthiad ei chaerau.

III. Traethawd.

Y Tri Pherffeithiad (40).

Un o nodweddion amlycaf yr Epistol yw y lle a rydd i berffeithrwydd —τελείωσις. (1) Gall y gair olygu meddiant o bob peth a berthyn i syniad; hyny yw, fod y peth yn cyfateb i'r ddelfryd ohono. (2) Adferiad i gyflwr o berffeithrwydd a gollwyd yw ei ystyr yn fynych. (3) Cyflenwi peth a rhyw elfen neu elfenau diffygiol ynddo. (4) Llawndwf o'i gymharu a pheth heb gyrhaedd hyny. (5) Addfedrwydd llawn. (6) Peth wedi cyrhaedd ei amcan yn ei holl fanylion. (7) Cydgordiad

hollol rhwng gwahanol elfenau, neu alluoedd gwrthddrych, neu berson. (8) Posibiliaethau gwrthddrych wedi cyrhâedd eithafbwynt eu dadblygiad, neu berffeithrwydd hollol. Yn y grisiau rhwng y ddau berffeithrwydd, sef perffeithrwydd posibiliaethol a pherffeithrwydd hollol, perthynasol yw perffeithrwydd pob bod dadblygol (*relative perfection*). Y prif syniad red drwy yr Epistol hwn, pan ddefnyddir y ferf "perffeithio," yw dwyn peth i'w lawn ddadblygiad. Ceir gweled ei wahanol weddau isod.

I. Perffeithiad posibiliaethol.—Dywedir yn x. 14 fod Crist ag un offrwm wedi perffeithio yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio. Meddwl hyn yw ei fod trwy ei aberth wedi gwneyd perffeithiad yr holl gadwedigion yn bosibl. Perffeithiad mewn delfryd neu syniad yw hwn (*perfection in idea*). Sicrha berffeithiad gweithredol a hollol, ond nid oedd aberth Crist yn rhagor na'i wneyd yn bosibl. I Dduw, nid oes gwahaniaeth rhwng y posibiliaethol a'r gweithredol. Medd ef allu i ddwyn pob perffeithrwydd fodola mewn syniad i berffeithrwydd gweithrediad.

II. Perffeithiad cwrsweithredol.—Cyfyngwn hwn yn awr i ddynion. At hwn yr anoga yr awdwr yr Hebreaid i ymestyn. Y perffeithrwydd posibiliaethol yn dechreu mewn dynion ac yn dadblygu ynddynt yw hwn. Ei brif achos yw y perffeithrwydd posibiliaethol. Cawn dair gwedd arno yn yr Epistol. (1) Anogir y darllenwyr i ymdrechu ei feddu. (2) Dywedir fod Duw yn eu perffeithio trwy weithio ynddynt ym mhob peth da i wneuthur ei ewyllys ef. Rhaid cael Duw yn brif amod y cwrsweithrediad cyn y dygir ef i ben (xiii. 21). (3) Ni chyrhaeddir ei bendraw yn y byd hwn. Glanheir dynion oddiwrth bechod yma, ond ä dadblygiad galluoedd dynion ym mlaen am byth mewn arall fyd. Dyma sydd o flaen meddwl yr awdwr yn xi. 40, pan yn dyweyd na pherffeithid saint yr Hen Oruchwyliaeth heb yr Hebreaid. Bydd raid i'r holl gadwedigion ddyfod yng nghyd cyn y gall y rhai aethant i'r nefoedd ymberffeithio ar raddfa eang. Cymdeithas yw un o brif amodau dadblygiad galluoedd. Bydd yn ofynol i holl amrywiaeth meddyliau dynol a dadblygiadau a galluoedd i gydgyfarfod yn y nef i gyfansoddi gwir amod perffeithiad enaid, am fod ynddo gynifer o alluoedd a phosibiliaethau. Crist yn ei aberth yw posibilrwydd y perffeithiad cwrsweithredol o'r dechreu i'r diwedd.

III. Perffeithiad y Duw-ddyn.—Rhydd yr Epistol le mawr i hwn. Edrychir arno (1) fel peth ddygir oddiamgylch gan y Tad. Dywedir

fod yn weddus i Dduw berffeithio tywysog iachawdwriaeth dynion trwy ddioddefiadau. Y dioddefiadau oedd un amod i'r perffeithiad. Perffeithiwyd ef hefyd yn dragywyddol yn ol pen. vii. 28 fel Duw-ddyn. Erys y perffeithrwydd hwn am byth yn ei natur ddynol yn gystal a'i natur ddwyfol. Nid perffeithrwydd am dymhor felly oedd ef. Gofynai ei archoffeiriadaeth dragywyddol am berffeithrwydd tragywyddol ac anfeidrol yn ei natur. Cyrhaeddodd Crist berffeithrwydd Gwaredwr trwy y driniaeth fu arno, ac ni all byth fod yn fwy o Waredwr, ac ni fedr dim yn dragywyddol ei wneyd yn llai o Waredwr chwaith. Gan mai perffeithrwydd personol yw yr eiddo ef, ni all byth ei golli. (2) Yr oedd ef ei hun yn weithredol yn ei holl berffeithiad, onide ni fuasai gwerth moesol ynddo. Dywedir ei fod yn berffeithydd ffydd, a dangoswyd yn y nodiadau mai perffeithio ei ffydd ei hunan yw y meddwl, ac nid un sydd yn perffeithio ffydd dynion. Dysgodd ufudd-dod trwy ddioddefiadau, ac ni allasai ddysgu heb weithredu o'i wirfodd. (3) Bu gan ddynion ran fawr yn ei berffeithiad; ond heb yn wybod iddynt eu hunain. Gan mai ei ddioddefiadau oedd un o'r amodau rhaid fod dynion a rhan ynddo. (4) Dengys yr Epistol yn eglur fod ei berffeithrwydd yn cymeryd i fewn ei holl berson dwyfol-ddynol. Tyfodd fel Duw-ddyn i fod yn Waredwr cyflawn. Llanwodd ddelfryd Duw o Iachawdwr dyn.

IV. Gofyniadau.

(1) Pa gyfnodau yn hanes ffydd geir yn rhanau cyntaf y benod hon?
(2) Dangoswch gysylltiad y benod a'r benod flaenorol.
(3) Beth wna ffydd yn angenrheidiol (1) i ddeall y greadigaeth; (2) i roddi sylweddoliad yn y meddwl i bethau anweledig, ac (3) i ryngu bodd Duw?
(4) Pa fodd y gwnaeth (1) ffydd aberth Abel yn well nag un Cain; (2) symud Enoch heb brofi marwolaeth, a (3) rhoddi nerth goruwchnaturiol i Sarah?
(5) Cymharwch ffydd Abraham a ffydd Moses, a dangoswch pa un oedd y cryfaf.
(6) A oedd ffydd holl enwogion y benod hon yn un ysbrydol?
(7) Eglurwch le ffydd mewn (1) perthynas i addewidion Duw, (2) disgwyl yn amyneddgar, (3) dioddef caledi, a (4) enill buddugoliaethau.
(8) Rhoddwch nodweddion ffydd pob un o'r personau nodir yn y benod.
(9) Beth olgwch wrth berffeithrwydd?

PENOD XII.

ADRAN III. (Parhad). **PWNC: DYLEDSWYDDAU SYLFAENEDIG AR WRONIAETH FFYDDLONIAID Y DYDDIAU GYNT.**

I. Dadansoddiad.

I. **Dyledswyddau yn codi o hanes gwroniaid ffydd** (adn. 1-11).
  (1) *Y ddyledswydd nacaol* (adn. 1).
  (2) *Y ddyledswydd gadarnhaol* (adn. 1, 2).
    (*a*) *Rhedeg at Grist*
    (*b*) *Edrych ar Grist* (adn. 2).
    (*c*) *Ystyried bywyd Crist* (adn. 3).
    (*d*) *Ystyried yr amgylchiadau* (adn. 4).
    (*e*) *Cofio yr Ysgrythyrau* (adn. 5, 6).
  (3) *Cymhwysiad o'r Ysgrythyrau* (adn. 7-11).
    (*a*) *O safle rheswm* (adn. 7-8).
    (*b*) *O safle enghraifft* (adn. 9)
    (*c*) *O safle amcan Duw* (adn. 10)
    (*d*) *O safle ffrwyth disgyblaeth* (adn. 11).

II. **Dyledswyddau yn codi o natur, amcan, a ffrwyth cerydd** (adn. 12-17).
  (1) *Ymnerthiad ysbrydol* (adn. 12).
  (2) *Gwaith ysbrydol* (adn. 13).
  (3) *Heddwch a phurdeb ysbrydol* (adn. 14).
  (4) *Arolygiaeth ysbrydol* (adn. 15 17).

III. **Rhagorfraint yr Hebreaid a'r dyledswyddau ddeillient ohoni** (adn. 18-24).
  (1) *Gwedd nacaol y rhagorfraint* (adn. 18-21).
    (*a*) *Peidio teimlo yr ofnadwy* (adn. 18).

(*b*) *Peidio gweled yr ofnadwy.*
(*c*) *Peidio profi yr ofnadwy.*
(*d*) *Peidio clywed yr ofnadwy* (adn. 19, 20).
(*e*) *Prawf fod yr amgylchiadau yn ofnadwy* (adn. 20, 21).
(2) *Gwedd gadarnhaol y rhagorfraint* (adn. 22-24).
(*a*) *Rhagorfraint y lle* (adn. 22).
(*b*) *Rhagorfraint cymmi meidrol* (adn. 22, 23).
(*c*) *Rhagorfraint cymni anfeidrol.*
(1) *Y Barnwr anfeidrol* (adn. 23).
(2) *Y Cyfryngwr anfeidrol* (adn. 24).

IV. Rhybudd i wrandaw Duw a'r rhesymau am hyny (adn. 25-29).
(1) *Y rhybudd* (adn. 25).
(2) *Rhesymau dros wrandaw y rhybudd* (adn. 25-29).
(*a*) *Tynged Israel* (adn. 25)
(*b*) *Y cynyg terfynol* (adn. 26).
(*c*) *Meddiant o bethau arhosol* (adn. 27, 28).
(*d*) *Y ddyledswydd gyfyd o'r rhesymau* (adn. 28).
(*e*) *Rheswm dros anog y ddyledswydd* (adn. 29).

II. Eglurhad.

Yn y benod flaenorol cawsom restr ddihafal o wroniaid ffydd. Dygodd yr awdwr ddetholiad o'r amlycaf o gewri ffydd y dyddiau fu gerbron ei ddarllenwyr er mwyn eu hysbrydoli i godi at eu dyledswyddau moesol ac ysbrydol. Wrth ddwyn y fath nifer gerbron, cyffyrddodd a phob dosbarth o ddynion, a bron bob dosbarth o nodweddion meddyliol. Nid yn yr un pethau na than yr un amgylchiadau y datguddiasant oll eu ffydd. Hefyd, nid ydym i ddeall mai yr un oedd graddau nerth ffydd y bobl hyn oll. Penderfynid ei nerth gan nodwedd eu meddyliau i raddau pell. Beth bynag am hyny, yr oeddynt oll yn esiamplau teilwng o efelychiad yr Hebreaid yr ysgrifenai yr awdwr atynt. Cyn rhoddi enghreifftiau o ffydd deffiniodd yr awdwr hi, a dangosodd yn bendant nad ellid rhyngu bodd Duw hebddi. Hi, felly, yw yr elfen hanfodol mewn bywyd trwy yr hon y gellir gwasanaethu Duw. Ar ol ei deffinio a dangos nad ellid boddio Duw hebddi, a ym mlaen i ddangos canlyniad ei byw yn hanes cewri gwawr, bore, a chanol

1 Oblegid hyny ninau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch, gan roi heibio bob

---

dydd y gorphenol. Wedi rhoddi yr esiamplau lluosog o ffyddloniaid y gorphenol, ail gydia yr awdwr yn ei anogaeth i ddyledswyddau a gychwynodd yn pen. x. 19. Gan fod y fath amynedd a ffydd wedi eu datguddio yn y gwroniaid enwyd ganddo, anoga yr Hebreaid i ddilyn yn ol eu traed. Dyna yr unig ffordd iddynt lwyddo yn yr ystyr uchaf ac ysbrydolaf. Yn y benod dan sylw yn awr, ä yr awdwr ym mlaen i gymhell i ddyledswyddau ar sail hanes gwroniaid y ffydd.

I. Dyledswyddau yn codi o hanes gwroniaid ffydd (1-11).—(1) **Y ddyledswydd nacaol** (1).—**Gan hyny bydded i ninau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion o'n hamgylch, roddi heibio bob pwys, a'r pechod sydd mor barod i'n hamgylchu.** Galwn hon yn nacaol am mai gwneyd i ffwrdd a'r drwg a gynwysa ac nid enill daioni—rhoddi heibio ddrygioni, ac nid ychwanegu at ddaioni. Gan fod y ffyddloniaid a enwyd wedi gwneyd hyny, meddai yr awdwr, gwnawn ninau yr un peth. Edrycha ar y ffyddloniaid hyny fel "cwmwl o dystion" o'u hamgylch. Ystyr *νέφος* —cwmwl—yw torf. Cred llawer mai gyrfa neu ystaden (*stadium*) y Groegiaid a'r Rhufeiniaid oedd o flaen meddwl yr awdwr. Byddai gyrfa y ceffylau a rhedegfeydd dynion yn y canol, a'r edrychwyr ar risiau oddiamgylch iddynt fel cwmwl. Cynhelid y campau hyn yn fynych yn Rhufain a Groeg; a thyrai y bobl yno o bob cyfeiriad, ac yn eu plith byddai llu o hen gampwyr. Byddent yn aneirif bron o luosog weithiau fel y bydd gronynau gwlaw yn y cwmwl. Deuai yr Hebreaid i gyffyrddiad a'r campau hyn yn Macedonia a manau ereill yn nes atynt na Groeg a Rhufain. Rhoddai yr edrychwyr fyddai o gwmpas y gorchestwyr ysbrydiaeth iddynt i redeg drwy roddi cymeradwyaeth iddynt a beirniadaeth arnynt. Chwenychent y gymeradwyaeth ac ofnent y feirniadaeth. Gan hyny ymdrechent i redeg. Felly y dylai cwmwl tystion hen wroniaid ffydd wneyd a'r duwiolion sydd yn fyw; dylent oblegid y cwmwl hwn roddi heibio bob pwys. Cyfeiriad sydd yma at y rhedegwr yn gwneyd i ffwrdd a thewder cnawdol er mwyn ysgafnhau ei gorph i redeg. Bydd llawer o bethau o gylch y duwiol nad ydynt yn bechod, megys gofalon bydol, cyfrifoldeb amgylchiadol a phethau cyffelyb. Dylai roddi heibio y rhai hyn am eu bod yn bwysau arno ac yn ei atal rhag cyflawni ei ddyledswyddau. Hefyd dylai roddi heibio y "pechod parod i'w amgylchu." Pa bechod yw

pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni ;

2 Gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni ; yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo,

---

hwn ? (1) Pechod edmygid gan y bobl yw syniad rhai. Eithr nid oes rheswm yn sail i'r syniad. Ni siarada yr awdwr am bechod fel peth edmygid yn un man arall. Ni edmygid dim fuasai yn rhwystr i redegwyr yr yrfa, ac felly byddai y ffigwr yn ammhriodol pe pechod a edmygid olygid. (2) Pechod hawdd i'w waredu medd ereill. Credwn na all hwn fod yn gywir chwaith. Pwy elai i'r fath drafferth ag yr a yr awdwr yn y cysylltiadau hyn i anog pobl i roddi heibio beth oedd yn hawdd? Neb yn sicr. (3) Y pechod o wrthgilio oedd yn barod i'r Hebreaid. (4) Y pechod nad yw yn beryglus. (5) Y pechod a'u hamgylchynai yn dda neu yn llwyr. Nid oes sail i'r un o'r tri hyn. (6) Pechod fel pechod yw y syniad cywir, neu bechod yn ei holl weddau. Nid y meddwl yw pechod parod i amgylchu yr Hebreaid, ond y pechod sydd ym mhawb. Hwn sydd yn wreiddyn i bob pechod arall. Efe oedd achos tuedd yr Hebreaid i wrthgilio. Edrychir ar bechod fel gwisg, fel y dangoswyd mewn penod flaenorol. Rhwystrai gwisg y rhedegwr, yn enwedig os buasai yn rhy llaes neu yn rhy dyn am dano. Felly am bechod i redegwr ysbrydol : atalia ef i fyned yn ei flaen ac enill tir yn y bywyd ysbrydol. (2) **Y ddyledswydd gadarnhaol** (1-2). —(a) **Rhedeg at Grist.—A bydded i ni gydag amynedd redeg y rhedegfa a osodir o'n blaen.**—Yma deuwn at wedd gadarnhaol y ddyledswydd, sef rhedeg. Edrychir ar fywyd Cristion yma drwy y ffigwr o redegwr. Fel hwnw rhaid i'w fywyd fod yn un o yni, o ymdrech egniol, yn un ar ei oreu. Hefyd, rhaid rhedeg trwy "amynedd," neu yn well gyda dyfal barhad. Ni thalai i'r rhedegwr aros ar y ffordd i sylwi ar anghymeradwyaeth na chymeradwyaeth yr edrychwyr. Ei ddyledswydd oedd rhedeg ac yfed i fewn bob peth ddeuai iddo o'r tu allan a'u troi yn nerth i'w gorph. Felly am y Cristion mewn ystyr uwch : ni ddylai sylwi ar ddim ffafriol nac anffafriol a'i rhwystra i redeg yr yrfa. (b) **Edrych ar Grist** (2).—**Gan edrych ar Iesu awdwr a pherffeithydd ein ffydd ni, yr hwn am y llawenydd a osodwyd o'i flaen a ddioddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc Duw.**—Heblaw peidio edrych ar y dorf o edrychwyr rhaid oedd i'r rhedegwr edrych ar y nôd oedd o'i flaen.

a ddioddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainge Duw.

3 Ystyriwch am hyny yr hwn a ddioddefodd gyfryw

Edrych ar y nôd. Ystyr "edyrch"—ἀφορῶντες—yw edrych oddiwrth. Golyga dynu y llygaid oddiwrth bob peth ac edrych yn syth at Iesu. Efe yw y nôd, y cynllun cywir o fywyd, yr esiampl berffeithiaf. Defnyddir enw dynol y Gwaredwr yma, sef Iesu, am mai fel dyn y delir ef o flaen yr Hebreaid fel esiampl. Y rhedegfa yw y ffigwr o hyd. Safai un oedd wedi buddugoliaethu weithiau ar ben y rhedegfa, ac efe fyddai y nôd i edrych arno. Edrychid ar hwnw fel tywysog neu ben cadben ar y rhedegwyr ieuainc. Nid y dorf oedd nôd y rhedegwr ond hen orchfygwr mewn llawer rhedegfa. Felly am yr Iesu: gorchfygodd yn rhedegfa bywyd. Beth yw meddwl "awdwr a pherffeithydd ein ffydd ni"? (1) Awdwr y ffydd gadwedigol sydd yn y duwiol a'i pherffeithydd medd rhai. Eithr nid yw hyn yn gyson a'r ffigwr sydd yn yr adnodau. (2) Trefn y cadw a ddechreuwyd ac a berffeithiwyd gan Grist. Gelwir y drefn yn ffydd, ond ni allwn weled mai dyna olyga y geiriau yn y fan hon. Byddai y syniad hwn fel y llall yn tori ar barhad y ffigwr. (3) Nid ffydd fel athrawiaeth yw y meddwl chwaith, fel y ceisia rhai ddadleu, (4) na'r bywyd y mae ffydd yn amod ohono, ond (5) ffydd Crist ei hun. Nid yw "ein" na "ni" yn y gwreiddiol, a'r darlleniad cywir yw "pen-tywysog a pherffeithydd ffydd." Edrychid ar y rhedegwr orchfygodd bawb yn y rhedegfeydd fel pen tywysog y rhedegwyr, ac un berffeithiodd ei allu rhedegol i'r man pellaf. Felly am Grist: rhedodd yr yrfa trwy bob anhawsderau; gorchfygodd bob rhwystrau a pherffeithiodd ei ffydd hyd yr eithaf. Ni redodd neb o'r gwroniaid yn y benod flaenorol gystal ag ef; gan hyny, efe yw pen tywysog ffydd. Perffeithiodd ei ffydd yn fwy na hwy hefyd, ac felly efe yw perffeithydd ffydd. Ynddo ef yn unig y perffeithiwyd hi yw y meddwl, ac nid ei fod yn ei pherffeithio mewn ereill. Perffeithiodd hi ynddo ei hun trwy redeg yr yrfa ysbrydol. Y rhedegwr buddugoliaethus fyddai yn rhanu y gwobrau i'r enillwyr, ac oblegid hyny, myn rhai mai gwobrwywr ffydd ddylai y darlleniad fod, ac nid perffeithydd. Rhai wedi enill perffeithrwydd y rhedegfa oedd y rhai dderbynient y wobr, ond y wobr oedd coron eu perffeithrwydd. Beth yw meddwl "Yr hwn am y llawenydd a osodwyd o'i flaen"?

ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid; fel na flinoch, ac nad ymollyngoch yn eich eneidiau.

4 Ni wrthwynebasoch eto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod.

Camsyniad yw dyweyd mai meddwl y geiriau yw (1) llawenydd allasai Crist gael oddiwrth bethau yn adeg ei ymweliad a'n byd ni, (2) na'r llawenydd oedd iddo yn y nef cyn ymgnawdoli, ond (3) y llawenydd oedd yn ei aros am ddioddef y groes, etc. Ei dâl, neu ei wobr am ddioddef y groes a diystyru gwaradwydd, oedd y llawenydd gafodd ac a gaiff ar ddeheulaw Duw. Anwybyddwyd, dirmygwyd, erlidiwyd, difenwyd, gwrthwynebwyd, poenydiwyd a diystyrwyd ef yn y byd, a chroeshoeliwyd ef yn y diwedd. Aeth trwy hyn oll yn gyfnewid am y llawenydd oedd yn ei aros gyda'i Dad ar ol gorphen ei waith. Hwn yw y syniad geidw at y ffigwr. Pethau ar ol gyrfa y rhedegwr oedd y wobr a'r llawenydd gafodd Crist yn ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw. Buasai y rhedegwr yn myned trwy driniaeth arw i'w gymhwyso, ond talai y llawenydd o enill y rhedegfa yn dda am hyny. (c) **Ystyried bywyd Crist** (3).—**Canys ystyriwch yr hwn a ddioddefodd y cyfryw ddywedyd yn eu herbyn eu hunain gan bechaduriaid, fel na byddoch yn blino, gan ymollwng yn eich eneidiau.**—Deil yr adnod hon y ffigwr ym mlaen. Heblaw rhedeg at Grist, y nôd, ac edrych arno, dyledswydd yw ystyried ei fywyd. Byddai rhedegwr uchelgeisiol yn ystyried yn fyfyrgar pa fodd yr enillodd y pen-tywysog a gwobrwywr yr enillwyr; elai yn fanwl i'w hanes; arferai ei hun i fyned trwy yr un ddisgyblaeth lem a chaled; meddyliai am y caledi yr aeth drwyddo cyn buddugoliaethu a cheisiai oddef caledi ei hun er mwyn cyrhaedd yr un nôd; ymdrechai gau ei glustiau i anghymeradwyaeth ei elynion ac ymwroli yn eu gwyneb, a sugnai nerth o bob caledi. Trwy hyn ni ymollyngai yng ngwyneb dim a'i cyfarfyddai. Gwnaeth Crist hyn mewn modd anfeidrol berffaith, a buddugoliaethodd. Ystyried ei gamdriniaeth a'i fuddugoliaeth er y gamdriniaeth oedd un o ddyledswyddau mawr yr Hebreaid. Hyn a'u cadwai rhag ymollwng yn eu heneidiau. Ystyr *κάμητε*—byddwch yn blino—yw pryderu, blino, ymofidio, digaloni. Dyna oedd hanes y rhedegwr os na fuasai yn ystyried y buddugoliaethwr, edrych arno, a rhedeg ato. Y tri peth hyn a gadwent bob peth arall allan o'i feddwl. (d) **Ystyried yr amgylchiadau** (4).—**Ni**

5 A chwi a ollyngasoch dros gof y cynghor, yr hwn sydd
yn dywedyd wrthych megys wrth blant, Fy mab, na
ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan
y'th argyhoedder ganddo:
6 Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae
yn ei geryddu; ac yn fflangellu pob mab a dderbynio.

---

wrthwynebasoch eto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod.—Perygl mawr oedd i'r Hebreaid gredu fod eu dioddefiadau yn rhai eithafol, ac yn ormod iddynt i'w dal. Nid meddwl y geiriau yw nad oeddynt wedi cyrhaedd at ymladd a'u bod yn parotoi i hyny. Dangos wna yr awdwr nad yw eu dioddefiadau ond ysgeifn o'u cymharu a gwrthwynebu hyd at waed. Dirmyg, erledigaeth, temtasiwn ac ymdrech yn erbyn dynion drwg oedd cylch eu dioddefiadau cyn belled. Gan hyny, nid oedd eu hamgylchiadau hwy yn ddim at y rhai yr aeth gwroniaid y benod flaenorol a Christ trwyddynt. Dioddefasant hwy ferthyrdod trwy golli eu gwaed. Beth yw meddwl "gan ymdrech yn erbyn pechod"? Ymdrech yn erbyn pechaduriaid yn ol syniad rhai. Dywed yr awdwr wrth ei ddarllenwyr nad oedd eu dioddefiadau oddiwrth eu gelynion ddim wedi cyrhaedd pwynt merthyrod fel y rhai aethant o'u blaen. (2) Ymdrech yn erbyn pechod mewnol eu heneidiau. Annaturiol a disail hollol yw y syniad hwn. Pwy allai ddioddef hyd at waed oddiwrth ei bechod ei hun? (3) Ymdrech yn erbyn pechod personol ac allanol. I hwn nid oes sail chwaith mewn rheswm na'r frawddeg ei hun. (4) Personoliad o bechod tuallan i'r dyn sydd yma. Edrychir arno yn ymosod ar enaid y duwiol ac yntau yn ymdrechu yn ei erbyn. Nid oedd ymdrech yr Hebreaid yn ei erbyn wedi cyrhaedd hyd at waed. Ni wnai pechod yn eu gwrthwynebwyr gynyg am eu bywyd. (e) **Cofio yr Ysgrythyrau** (5-6).—**A chwi a ollyngasoch dros gof y cynghor, yr hwn sydd yn ymresymu a chwi megys a meibion, fy mab na ddiystyra gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo; canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu y mae yn geryddu, ac yn fflangellu pob mab a dderbynio.**—Rhyfedd yw gofal yr awdwr am sylfaenu ei holl ymresymiadau yn y pendraw ar yr ysgrythyr. Geilw eu sylw yma at Diar. iii. 11-12. Yn eu hamgylchiadau trafferthus anghofient gynghor y Gwr Doeth. Methent a deall mai disgyblaeth oedd yr oll yr aent drwyddo, ac ni chofient athrawiaeth y Beibl ar y mater. Adgofia yr awdwr hwy ohoni, a dengys fod y cynghor dwyfol

7 Os goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion: canys pa fab sydd, yr hwn nid yw ei dad yn ei geryddu?
8 Eithr os heb gerydd yr ydych, o'r hwn y mae pawb yn gyfranog; yna bastardiaid ydych, ac nid meibion.

---

yn ymresymu a hwynt ar y mater. Dull ymddiddanol sydd i'r cynghor yn y Diarhebion, ac nid gorchymynol. Gellid meddwl fod Duw yn darostwng ei hun i berswadio dynion i wrandaw arno. Diystyru neu edrych yn ysgafn ar gynghor Duw, yw peidio edrych arno yn ddifrifol, peidio sylwi arno, na cheisio deall ei ystyr; peidio ei barchu fel cynghor dwyfol, a'i ammharchu mewn ymddygiad. "Ymollwng" pan gerydda Duw i'w digaloni, ac ofni. Eithr ni ddylai plant Duw ymollwng pan eu ceryddir am mai eu daioni yw amcan y cerydd. Amrahosibl iddynt gyrhaedd perffeithrwydd heb gerydd. Disgyblu wna cerydd ac nid cospi. Ymddygiad annheilwng yw diystyru cerydd Duw am fod iddo amcan dwyfol. Dylai y dyn ddysgu gwers foesol oddiwrtho. Peth annheilwng hefyd yw ymollwng pan gyhuddo neu yr argyhoeddo Duw ddyn o bechod neu fai. Paham? Am mai argyhoeddiad yn ffrwyth cariad yw ef, ac nid un yn ffrwyth nwyd neu lid. Cerydda Duw bawb y mae yn ei garu yn ol adn. 6. Ni ddilynir yr Hebraeg yn llythyrenol yn yr adnodau hyn, ond cedwir at ei hystyr ynddynt. Rhoddi y synwyr sydd yn bwysig yng ngolwg yr awdwr, ac nid y llythyren. Paham y cerydda Duw bawb a gâr? Am nad yw yn bosibl eu perffeithio ond felly. Gellir cyfieithu παιδεύει yma yn "geryddu," yn, y mae yn ei ddysgu, neu y mae yn ei ddisgyblu. Nid cerydd i gospi yw ef ond i ddysgu y dyn. Am ei fod yn fab iddo y dysga Duw ef. Pob un a ail-enir i deulu Duw rhaid iddo wrth addysg bar boen iddo. Câr Duw ef mor fawr fel nad all ei adael yn anwybodus ac ammherffaith, ac o ganlyniad, tyn ef trwy gwrs o addysg a achosa boen, gofid a thrafferth. (3) **Cymhwysiad o'r Ysgrythyrau** (7-11).—(a) **O safle rheswm** (7-8).—**Er cerydd yr ydych yn dioddef; y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion; canys pa fab sydd yr hwn nid ydyw ei dad yn geryddu? Eithr os heb gerydd yr ydych, o'r hwn y gwnaed pawb yn gyfranog, yna bastardiaid ydych, ac nid meibion.**—Er addysg mewn disgyblaeth yr ydych yn dioddef, yw y meddwl. Nid cospi yw amcan Duw, ond dysgu. Prawf o safle rheswm eu bod yn feibion oedd eu dioddefaint. Ymddygiad tad at fab yw ei ddysgu

9 Heblaw hyny, ni a gawsom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'u parchasom hwy: onid mwy o lawer y byddwn ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd, a byw?

---

neu ei ddisgyblu. Dyledswydd hanfodol tad yw dysgu ei fab. Heb hyny, nid yw yn dad gwirioneddol. Amddifad yw o un o hanfodion tad cariadlawn. Edrycha ar ei fab heb ddadblygu pan y gallai ei ddadblygu trwy addysg a disgyblaeth. Golyga dysgu a disgyblu boen bob amser a llawer o drafferth, ond daioni y plentyn sydd gan y tad mewn golwg wrth roddi poen iddo. Prawf rhesymol cadarn, gan hyny, oedd dioddefiadau yr Hebreaid eu bod yn feibion. Ymddygai Duw atynt fel pob tad cyfiawn, cariadlawn a da. Dengys adn. 8 y gwirionedd yn eglurach eto o dir rheswm mewn modd negyddol. Pe buasent heb y ddisgyblaeth foesol yr aent trwyddi ni allent fod yn feibion Duw am fod pawb o'i feibion yn cyfranogi ohoni. Nid oes neb o feibion Duw yn berffaith yma, ac o ganlyniad, rhaid iddynt ddioddef pob goruchwyliaeth ofynol i'w dysgu yn foesol ac ysbrydol. "Bastardiaid," sef plant anghyfreithlawn heb hawliau yw pawb nad ant trwy y dioddefaint angenrheidiol i berffeithio enaid mewn addysg foesol. (b) **O safle enghraifft** (9).—**Heblaw hyny, ni a gawsom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'u parchasom hwy: onid mwy o lawer y byddwn ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd, a byw?**—Yma daw yr awdwr ag enghraifft agos i brofi amcan disgyblaeth Duw. Anhawdd cael cryfach rheswm dros gymhelliad yr awdwr na'r ddwy adnod hyn. Gwyddai yr Hebreaid y carai eu tadau naturiol hwynt. Ammhosibl oedd iddynt gredu fel arall. Eto, ceryddodd y rhai hyny hwynt am eu bod yn eu caru. Awyddent gymaint i'w dysgu, eu disgyblu, eu dadblygu a'u perffeithio fel nad allent lai na'u dwyn trwy gwrs o ddioddefaint wrth eu trin i'r amcan hwnw. Er hyny, parchodd eu plant hwy bron hyd at addoliad. Awgryma y ferf "parchasom" elfen addolgar yn gystal ag edmygedd a theimlad da. Bu y plant yn ddarostyngedig iddynt hyd at addoliad. Os felly, dylid bod yn ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd. Tadau y corph yn unig oedd y rhai naturiol, tadau y rhan faterol, leiaf ei gwerth a'i pharhad. Eithr Duw yw Tad yr ysbrydoedd, y rhan werthfawrocaf a thragywydol ei pharhâd. Ni ddeallai tadau naturiol holl ddeddfau corph a meddwl eu plant, ac wrth eu haddysgu ceryddent hwy heb angen yn fynych oblegid eu hanwybodaeth. Eithr nid felly am Dduw: dealla ef yr oll am ysbrydoedd ei blant ac ni thyn hwy trwy boen

10 Canys hwynt-hwy yn wir dros ychydig ddyddiau a'n ceryddent fel y gwelent hwy yn dda; eithr hwn er llesâd i ni, fel y byddem gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef.

---

diangen. Gan hyny, dylai ei blant roddi ei hunain yn hollol yn ei law mewn teimlad o ddwyfol barch ac addoliad. Yn ol diwedd yr adnod dyna'r unig ffordd i fyw. Ystyr "a byw" yw fel y byddem byw. Ni ellir byw yma nac ar ol myned oddiyma heb ymostwng i addysg a disgyblaeth Duw. Ymgalonogi yw dyledswydd pawb gant ddisgyblaeth addysgol Duw, ac nid digaloni. (c) **O safle amcan Duw** (10).—**Canys hwynthwy yn wir dros ychydig ddyddiau a'n ceryddent fel yr ymddangosai yn dda iddynt; eithr efe er llesâd i ni, fel y byddem gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef.**—Beth yw meddwl "dros ychydig ddyddiau?" (1) Ai dros amser byr? (2) neu dros dymhor bywyd y plant ar y ddaear; hyny yw, disgyblaeth ar gyfer amser ac nid tragywyddoldeb? Neu (3) dros ddyddiau mebyd? Yr olaf yw y syniad goreu a naturiolaf. Nid oes synwyr yn y syniad ddywed mai y meddwl yw mai am ychydig yr oedd cerydd y tadau yn effeithiol. Dim ond dros adeg plentyndod y ceryddai y tadau. Darfyddai eu gorchwyl addysgol pan ddelai y plant yn annibynol. Nid oedd yr oll ohonynt yn disgyblu eu plant gyda golwg ar eu cymeriad moesol chwaith na'u llesâd tragywyddol. Hefyd, nid oedd cerydd bob amser yn ffrwyth barn, gwybodaeth a phwyll. Parai eu hanwybodaeth o natur, deddfau a galluoedd eu plant iddynt gyfeiliorni yn aml. Yna ni chai y plant lesâd moesol na naturiol. Ni wyddent y ffordd i ddisgyblu mewn llawer amgylchiad, ac fel y mwyafrif o dadau byddai eu cerydd weithiau yn ffrwyth nwyd a llid. Nid felly am Dduw: "er ein lles," medd yr awdwr, y ceryddai ef. Y moesoldeb a'r ysbrydolrwydd uchaf sydd yn ei olwg wrth ddisgyblu. Gwyr am holl bosibiliaethau natur corph ac enaid, a chymhwysa ei addysg a'i ddisgyblaeth i gyfateb i'r rhai hyny. Oblegid ei wybodaeth ni wna gamsyniad mewn dim gyda'i blant. Unig amcan ei gerydd yw dadblygu a pherffeithio dynion fel y gallant fod yn gyfranogion o'i sancteiddrwydd. Amcan rhieni yw dysgu eu plant i fyw arnynt eu hunain yn y byd hwn; amcan Duw yw gwneyd dynion i fyw arnynt eu hunain byth drwy gyfranogi o'i natur ef. Bywyd Duw ynddynt, wedi eu disgyblu, a'u gwna yn dragywyddol annibynol. Ei amcan yw eu gwneyd yn bur ac nid yn fawr. Byddant yn fawr iawn pan orphena ef ei waith arnynt, ond iddynt fod yn lan, yn bur a pherffaith yw prif

11 Eto, ni welir un cerydd dros yr amser presenol yn hyfryd, eithr yn anhyfryd: ond gwedi hyny y mae yn rhoi heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi eu cynefino ag ef.

12 Oherwydd paham cyfodwch i fyny y dwylaw a laes-asant, a'r gliniau a ymollyngasant.

---

amcan Duw. (d) **O safle ffrwyth disgyblaeth** (11).—**Pob cerydd a ymddengys yn y presenol nid yn hyfryd, eithr yn flin: eto gwedi hyny y mae yn rhoddi heddychol ffrwyth iddynt hwy y rhai sydd wedi eu hymarfer ganddo, sef ffrwyth cyfiawnder.**—Rhaid i bob natur ammherffaith ac annadblygedig ddioddef poen dan ddisgyblaeth ac addysg. Gorwedda hyn yn natur pethau. Poen yw un o amodau gwir ddadblygiad dynol. Gan hyny, lle nad oes poen nid oes dadblygiad dynol. Dyna y rheswm fod pob cerydd am yr amser presenol yn anhyfryd neu yn flin. Peth ar ol y dadblygiad trwy gwrs o addysg, disgyblaeth a cherydd yw yr hyfrydwch. Y mae hyn yn wirionedd cyffredinol am ddadblygiad dynol pur a sanctaidd, pa un ai meddyliol neu foesol fydd ef. Nid yw wahaniaeth pa un ai dynion neu Dduw fyddo yn ceryddu, ni welir ef yn hyfryd pan fyddo ein natur yn myned trwy gwrs o ddadblygiad. Ar ol y dadblygiad rhydd y cerydd "heddychol ffrwyth" i'r enaid. Paham? Am fod y ceryddwr wedi cael y ceryddedig i'r fan a garai, a'r ceryddedig yn cyflawni ewyllys y ceryddwr wrth ei fodd. Mewn geiriau ereill, ffrwyth cyrhaedd dadblygiad drwy y cwrs a nodwyd yw heddwch perffaith rhwng y ceryddwr a'r sawl a geryddir. Hefyd, daw heddwch i enaid y sawl geryddir. Dim ond dadblygiad llawn a pherffaith all roddi heddwch yn yr enaid ei hun. Gellir cyfieithu *εἰρηνικόν*—"heddychol"—yn ddaioni, hapusrwydd a llwyddiant. Gall hefyd olygu yr hyn rydd heddwch neu yr hyn a'i cynyrcha. Beth yw yr "heddychol ffrwyth?" "Cyfiawnder," yn ol y C.D. Gosododd y cyfieithwyr diwygiedig "ffrwyth" o flaen "cyfiawnder," er nad yw yn y gwreiddiol. Gwell fyddai ei fod allan er hyny. Cyfiawnder yw y ffrwyth. Daw y dyn a drwy gerydd a disgyblaeth yn gyfiawn o ran ei egwyddorion. Ymarferiad trwy y cerydd ddaw a dynion i'r cyflwr yma. Ymarfer wnai y rhedegwr yn feistr. Ai a'r wobr yn gyfiawn trwy y gwrtaith, yr addysg a'r ddisgyblaeth gawsai. Felly am blant Duw—eu gwrteithiad trwy ddioddefiadau a'u gwna yn gyfiawn.

II. **Dyledswydd yn codi o natur, amcan a ffrwyth cerydd** (12-17).

13 A gwnewch lwybrau uniawn i'ch traed; fel na thröer y cloff allan o'r ffordd, ond yr iachâer efe yn hytrach.

—(1)**Ymnerthiad ysbrydol** (12).—**Oherwydd paham cyfodwch i fyny y dwylaw sydd yn llaesu, a'r gliniau parlysedig.**—Wedi desgrifio amcan, etc., cerydd, a yr awdwr ym mlaen at ddyledswyddau godant o hyny. Gan fod amcan ogoneddused i'r ddisgyblaeth ddwyfol, eu dyledswydd gyntaf hwy oedd ymnerthu yn ysbrydol, ac nid ymollwng. Dylasent godi y dwylaw llaes i fyny. Y ffigwr yw, rhedegwr wedi digaloni yn yr olwg ar galedi y rhedegfa, a'i liniau yn barlysedig oherwydd anghymeradwyaeth yr edrychwyr a chaledi y ddisgyblaeth. I redeg yr yrfa yn llwyddiannus rhaid oedd tynu y dwylaw i fyny a chau y dyrnau yn dyn; rhaid oedd sefydlu y gliniau, a galw nerth iddynt. Y dwylaw a'r gliniau oedd y prif aelodau weithredent mewn rhedegfa. Braidd y gwelwn fod ffigwr o ymgodymu yma er fod rhai yn dal hyny. Y meddwl ysbrydol yw, am i'r Hebreaid ymwroli yn eu hysbryd; am iddynt benderfynu brwydro yn erbyn pob anhawsder a dioddef pob cerydd disgyblaethol oblegid amcan a ffrwyth y ddisgyblaeth. Rhaid oedd iddynt wrth yr ymnerthiad ysbrydol hwn cyn dechreu yn iawn ar eu gwaith dros Grist. Dyna y peth cyntaf wnai y rhedegwr oedd ymsythu ac ymnerthu. (2) **Gwaith ysbrydol** (13).—**A gwnewch lwybrau uniawn i'ch traed, fel na throer y cloff allan o'r ffordd, ond yr iachâer ef yn hytrach.**—Ymbarotoad i waith oedd yn yr adnod flaenorol; anogaeth i waith sydd yn hon. Yma ä yr awdwr gam ym mhellach a ffigwr y rhedegwr. Pan yn rhedeg, pwysig iawn oedd bod y llwybr yn un gwastad a theg, yn enwedig os buasai ychydig gloffni ar y rhedegwr. Oherwydd yr orymdrech wneid yn y rhedegfeydd buasai llawer yn cloffi, a pherygl mawr i'r rhai hyny oedd llwybr garw, troellog. Nid gwneyd ol, neu lwybr uniawn a'u traed feddylir, ond gwneyd llwybr uniawn i'w traed. Hefyd, nid troi un fyddai yn gloff allan o'r ffordd a olygir, ond bwrw aelod cloff allan o'i le. Dileoli (*to dislocate or disjoint*) aelod o'r corph, sef un o'r gliniau yw y syniad. Gwneyd y llwybr yn wastad ac uniawn sicrhäai hyny. Beth yw y meddwl ysbrydol? Ymddwyn yn y fath fodd fel na fyddai gwendidau eu henaid yn dadblygu a thrwy hyny eu rhwystro yn eu bywyd crefyddol. Eu dyledswydd oedd troi o'r neilldu bob rhwystr i gynydd eu bywyd; i symud pob peth oedd ar y ffordd iddynt redeg yr yrfa grefyddol. Cloffent rhwng Iuddewiaeth a Christionogaeth, a pherygl mawr oedd

14 Dilynwch heddwch a phawb, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd:
15 Gan edrych yn ddyfal na bo neb yn pallu oddiwrth ras Duw; rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fyny, ac yn peri blinder, a thrwy hwnw llygru llawer;

---

iddynt wrth hyny golli yr oll. Trwy wneyd eu llwybrau yn uniawn y gallent iachau y gwendid oedd ynddynt, dyna derfynai eu cloffi rhwng Iuddewiaeth a Cristionogaeth. (3) **Heddwch a phurdeb ysbrydol** (14).—**Dilynwch heddwch a phawb, a'r sancteiddiad heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd.**—Gofala yr awdwr nodi dyledswydd yr Hebreaid yn eu cysylltiadau a dynion yn gystal a'u dyledswyddau personol. Nid oedd y rhedegwr i gweryla a'i gydymgeiswyr na neb arall. Dyna oedd un o reolau y rhedegfa. Hefyd nid oedd i geisio enill yn anonest. Heddwch a phurdeb felly, oedd y prif reolau yn yr ymdrechfa. Yr un modd am y Cristion: rhaid iddo ddilyn heddwch a'i gyd-Gristionogion, ac hefyd a phawb ereill hyd y mae yn bosibl. Hyny yw, dylai ymdrechu gwneyd hyny. Perygl mawr oedd i'r Hebreaid fethu yn hyn oblegid eu croes syniadau am Iuddewiaeth a Christionogaeth; ac oherwydd yr erledigaeth oeddynt yn gael yn barhaus. Peryglai hyn eu purdeb a'u gonestrwydd moesol hefyd. Gan hyny, dengys yr awdwr fod yn rhaid iddynt ddilyn sancteiddrwydd neu burdeb bywyd, oblegid mae efe oedd yr amod hanfodol i weled Duw. Nid yr Iesu yw yr Arglwydd yma, ond Duw Dad. Ni chai rhedegwr na chadwai y rheolau a nodwyd weled y barnwr; ac ni chai ond ffafr-ddynion weled wyneb brenhinoedd yn y dwyrain. Felly am ddynion crefyddol: dim ond y pur o galon gaiff weled Duw. (3) **Arolygiaeth ysbrydol** (15-17). **Gan edrych yn ddyfal rhag bod neb yn syrthio yn fyr o ras Duw; rhag bod un gwreiddyn chwerwedd gan darddu i fyny yn peri blinder i chwi, a thrwy hwnw lygru y llawer; rhag bod un putteiniwr, neu halogedig, megys Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaith fraint ei hun. Canys chwi a wyddoch ïe pan wedi hyny yr oedd efe yn dymuno etifeddu y fendith, ddarfod ei wrthod ef (canys ni chafodd le i edifeirwch) er iddo â dagrau ei dyfal geisio hi.**—Symudir yma at ddyledswydd at ereill, sef at yr eglwys. Hono yw gwyliadwriaeth gyson rhag i rai syrthio yn fyr o ras Duw. Beth yw gras Duw yma? (1) Cristionogaeth yw un syniad. Yr oedd perygl i'r Hebreaid syrthio yn ol at Iuddewiaeth, a bod tuallan i drefn gras. Braidd y gallwn ganfod unrhyw

16 Na bo un putteiniwr, neu halogedig, megys Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint.

---

reswm dros hwn. (2) Syrthio yn ol o'r fraint i weled wyneb Duw. Newydd ddyweyd y mae na ellid gweled Duw heb sancteiddrwydd, a hollol naturiol yw iddo eu rhybuddio i wylio rhag i neb syrthio yn fyr o'r hyn oedd yn ganlyniad meddu sancteiddrwydd. (3) Syrthio yn fyr o'r mudiad Cristionogol, methu cadw i fyny ag ef a syrthio tucefn iddo. Y ffigwr yw rhai yn teithio neu fe ddichon yn rhedeg. Gall fod y rhedegfa ym meddwl yr awdwr o hyd. Heb wyliadwriaeth gyson buasai y rhedegwr yn syrthio yn ol o ganlyn ei gydymgeiswyr; neu os mai teithwyr yw y ffigwr yr un yw y meddwl. (4) Syrthio yn fyr o fywyd tragywyddol. Dyma y syniad cysonaf a'r holl gysylltiadau a'r mwyaf rhesymol. Gallasai fod llawer ym mhlith yr Hebreaid wedi derbyn dylanwadau yr efengyl, ond heb gael bywyd. Dyledwsydd eu harweinwyr oedd gofalu hyd yr oedd ynddynt rhag iddynt syrthio yn fyr o gael bywyd. Eto yr oeddynt i edrych nad oedd "un gwreiddyn chwerwedd gan darddu i fyny" i beri blinder i'r eglwys. Y meddwl yw gwreiddyn yn cynyrchu ffrwyth chwerw ac nid un chwerw ynddo ei hun. Wrth hyn y golygir dyn yn byw yn barhaus mewn pechod a thrwy hyny yn ffynhonell drwg, ac yn dylanwadu ar ereill. Bydd dynion felly yn llygru llawer trwy eu hesiampl, a magant ymrysonau ac ymbleidio. Dengys yr enghraifft geir yn adn. 16, y fath un oedd ym meddwl yr awdwr. Dyn oedd Esau, oedd yn byw mewn cyflwr parhaus o bechod. Glwth (*glutton*) yw yr ystyr rydd rhai i "butteiniwr," ond ä amryw o'r esbonwyr galluocaf dros yr ystyr llythyrenol, a dadleuant fod Esau yn butteiniwr mewn gwirionedd. Tueddwn yn gryf at y syniad hwn, oblegid dyn heb lywodraeth ar ei deimladau oedd ef. Yn gystal a bod πόρνος—"putteiniwr"—yr oedd Esau yn βέβηλος—"halogedig"—un tuallan i gylch pethau sanctaidd am ei fod yn aflan yn ei fywyd moesol. Nid oedd ynddo rinwedd o un math, a dylanwadai yn ddrwg ar bawb ddelent i gyffyrddiad ag ef. Daw ei gymeriad moesol i'r golwg yn iddo am un saig o fwyd werthu ei enedigaeth-fraint. Datguddia hyn ei natur nwydwyllt, fyrbwyll, anianol. Cariai yr enedigaeth-fraint lawer o bethau gyda hi. Yr hynaf oedd yr etifedd; efe oedd archoffeiriad y teulu yr adeg hono; drwyddo ef yr oedd holl addewidion Duw yn dyfod. Ond ni roddodd Esau fynud o ystyriaeth i'r holl freintiau hyn a'r manteision ddeuent drwyddynt.

17 Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi.

18 Canys ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy

Gwyddai am yr addewidion i Abraham, ond gwell oedd ganddo foddio chwant am fynud awr er colli tragywyddoldeb o fwynhad drwy hyny. Gwrthododd y goreu pan gallasai ei gael, a methodd ei gael pan garai. Yr hwn na wna pan y gall ni cha pan y car. Hollol adnabyddus oedd hanes Esau i'r Hebreaid ac apeliai yr awdwr yn adn. 17 at hyny. Pan cyhoeddodd Isaac y fendith cyn marw aeth Esau i'w cheisio, er fod tua deugain mlynedd oddiar pan werthodd ei enedigaeth-fraint. Credai y cai y fendith er iddo werthu yr hawl iddi. Gan mai y mab hynaf oedd perchen y fendith, efe oedd perchen yr enedigaeth-fraint hefyd. Eithr gwnaeth Esau i ffwrdd a hi. Golygai y fendith rywbeth pwysig iawn yr adeg hono. Rhoddid hi ychydig cyn marw; byddai ei chyhoeddwr yn dra difrifol wrth feddwl fod hyn yn cynwys rhai o'i eiriau olaf; cynwysai y fendith ddymuniad dyfnaf ei galon am lwyddiant dyfodol ei hiliogaeth mewn ystyr dymhorol ac ysbrydol, ar ryw olwg yr oedd yn brophwydoliaeth o ddyfodol ei hiliogaeth; credid ei fod dan ysbrydoliaeth pan yn ei rhoddi, ac effeithiai hyny yn fawr ar y derbynydd. Dymunai Esau yn aiddgar am y fendith a dyfal geisiodd hi. Y rheswm na chafodd yw na chafodd le i edifeirwch. Dim lle ym mha le? (1) Ym meddwl ei dad. Yn ol y syniad hwn y meddwl yw na wnai ei dad newid ei feddwl a rhoddi y fendith iddo. (2) Ni allodd Esau edifarhau mewn gwirionedd. I ddyn o gymeriad Esau yr oedd edifeirwch pur, ysbrydol yn ammhosibl. Nid arwydd o edifeirwch oedd ei ddagrau, ond o ofid oblegid gwerthu ei enedigaeth-fraint a cholli drwy hyny yr hawl i'r fendith. Ni allodd ei edifeirwch hunanol newid dim ar bethau, felly ni chafodd le iddo. Paham na allai edifarhau? Am nad edifeirwch a ddymunai, ond y fendith. Dagrau am gael y fendith oedd yr eiddo ef, ac nid rhai edifeirwch. Dagrau am ei golled oeddynt, ac nid am ei bechod. Dyna y rheswm na chafodd le i edifeirwch. Gan hyny, methodd a newid dim ar ganlyniadau ei bechod. Ceisio y fendith sydd yn niwedd yr adnod ac nid ceisio edifeirwch.

III. **Rhagorfraint yr Hebreaid a'r dyledswyddau ddeilliant ohoni** (18 24).—(1) **Gwedd nacaol y rhagorfraint** (18-21).—(a) **Peidio teimlo yr**

sydd yn llosgi gan dân, a chwmwl, a thywyllwch, a thymestl,
19 A sain udgorn, a llef geiriau; yr hon pwy bynag a'i clywsant, a ddeisyfasant na chwanegid yr ymadrodd wrthynt:
20 (Oblegid ni allent hwy oddef yr hyn a orchymynasid;

---

ofnadwy (18).—**Canys nid ydych wedi dyfod at fynydd y gellir ei deimlo, ac a oedd yn llosgi gan dân.**—Yn yr adnodau hyn dangos rhagorfraint ei ddarllenwyr mewn gwedd nacaol a wna. Gellid teimlo mynydd Sinai adeg rhoddiad y ddeddf. Gedy y MSS. goreu y gair "mynydd" allan, ond dengys y cysylltiadau ei fod yn ddealledig. Dim ond Moses gai fyned yn agos i'r mynydd. Llosgai gan dân, ac fel y gwelir eto, ni feiddiai neb nesau ato. Braint fawr oedd peidio dyfod at fynydd fel hwn. Er ei holl ysbrydolrwydd, ofnai Moses wrth nesau ato. Meddwl y gair "teimladwy" yw peth y gellir ei deimlo, ac nid peth y chwilir am dano. (b) **Peidio gweled yr ofnadwy.—Ac at dduwch a thywyllwch.**—Peth i'w deimlo oedd y mynydd a'r tan llosgedig, ond peth i'w ganfod a'r llygaid oedd y duwch a'r tywyllwch. Ymddangosai y mynydd a'r amgylchoedd yn ddu fel nos dywell, a gwnai y mwg godai o'i losgiad y tywyllwch fel tarth neu niwl. Golygfa ofnadwy oedd hon i ddynion nad oeddynt yn gyfarwydd a'i bath, ac newydd ddyfod allan o wlad glir a digymylau fel yr Aifft. Creai yr olygfa ddychryn arswydus ynddynt. (c) **Peidio profi yr ofnadwy.—A thymestl.**—Peth i'w phrofi oedd y dymhestl. Ychwanegai yn ddirfawr at y dychryn o weled y mynydd teimladwy yn llosgi gan dan, a'r duwch a'r tywyllwch. Diau fod taranau a mellt, gwynt a gwlaw yn cyfansoddi y dymhestl. Parai iddynt grynu ac ofni, am y credent fod y diwedd wedi eu dal. (Gwel Deut. iv. 11.) Rhaid ei bod yn arswydus i Moses i esgyn i'r mynydd dan y fath amgylchiadau. Rhagorfraint oedd peidio bod yn yr amgylchiadau arswydus hyn. (d) **Peidio clywed yr ofnadwy** (19-20).—**A sain udgorn, a llais geiriau; yr hwn lais pwy bynag a glywsant a ddeisyfasant na leferid un gair yn ychwaneg wrthynt: canys ni allent hwy oddef yr hyn a orchymynasid.**—Neu "at sain udgorn," (gwel Exodus xix. 16). Ni wyr neb pa udgorn na phwy a'i seiniai. Y dyb gyffredin yw, mai angylion wnai y sain. Beth bynag yr oedd ei glywed yn ofnadwy yn y fath amgylchiadau a nodir yma. Yr oedd yn debyg i sain udgorn ond gwyddai y bobl nad dyna oedd ef. Heblaw

Ac os bwystfil a gyffyrddai a'r mynydd, efe a labyddir, neu a wenir a phicell.

21 Ac mor ofnadwy oedd y golwg, ag y dywedodd Moses, Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu.)

---

hyny, clywent "lais geiriau." Beth oedd hwn? Llais Duw yn cyhoeddi y deg gorchymyn. Yn yr amgylchiadau cynhyrfus yr oedd clywed llais geiriau yn beth dychrynedig, ac mor ofnadwy oedd fel y dymunai y bobl "na leferid un gair yn ychwaneg wrthynt." Gwnai clywed eu dyledswyddau eu dychrynu i eithafion, a thaer erfynient am beidio clywed rhagor. Golyga y gair am ddeisyfasant fwy o lawer na deisyf yn syml, sef deisyf yn angerddol am beidio ychwanegu gair ym mhellach. Parai y llais ddychryn mwy iddynt na'r holl gynhwrf yn elfenau natur. Diau fod y llais yn wahanol i ddim glywsant erioed, ac yn awgrymu presenoldeb Duw iddynt. Feallai fod pwyslais rhyfedd ar bob un o'r gorchymynion a wnai iddynt deimlo na chyflawnasant yr un ohonynt. Rhydd adn. 20 un rheswm am na allent oddef y llais. Y gorchymyn a'i gwnai yn annioddefol—"Canys ni allent oddef yr hyn a orchymynasid." Beth orchymynasid? (1) Y deg gorchymyn yw un syniad a goleddir. Eithr nid oes rhesymau digonol drosto. (2) Y gorchymyn i ladd dyn ac anifail a gyffyrddai a'r mynydd. Yr oedd clywed gorchymyn i ladd yng nghanol y fath amgylchiadau yn achosi dychryn eithafol. (3) Y cyhoeddiad o'r deg gorchymyn a'r gorchymyn i ladd y neb a gyffyrddai a'r mynydd. Profa y cysylltiadau mai hwn yw y syniad cywir. Ni allent oddef y deg gorchymyn fel y dangoswyd uchod, ac yr oedd yr un i ladd yn fwy ofnadwy ac annioddefol drachefn. Lymed oedd y gorchymyn fel na chai bwystfil gyffwrdd y mynydd heb son am ddyn. (e) **Prawf yr amgylchiadau yn ofnadwy** (20, 21).—**Os hyd yn oed bwystfil a gyffyrddai a'r mynydd, efe a labyddir; ac mor ofnadwy oedd yr ymddangosiad, fel y dywedodd Moses, yr ydwyf yn mawr ofni ac yn crynu.**—Cymer yr adnodau hyn i fewn yr holl ymddangosiad i'r gwahanol synwyrau a ddesgrifiwyd genym. Parai i Moses ofni. Paham y nodir ef? Oblegid ei ysbrydolrwydd uwchraddol, ei gymdeithas a Duw, ei ddysgeidiaeth ddofn, ei dduwioldeb dwys, ei wybodaeth uniongyrchol o'r amgylchiadau a galwad Duw arno i'r mynydd. Peth rhyfedd, gan hyny, oedd iddo ef ofni, a phrofa ei ofn fod yr olygfa yn un ryfedd ac eithriadol. Hefyd, crynai yn ddirfawr. Dengys hyn ym mhellach ofnadwyaeth yr ymddangosiad. Collai bob llywodraeth

22 Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angelion,

---

ar aelodau ei gorph dan ddylanwad ei ofn; gafaelai y cryndod ym mhob rhan o'i gyfansoddiad. Pa le y cafodd yr awdwr yr hanes hwn? Ni cheir ef yn hanes rhoddiad y ddeddf nac yn yr Ysgrythyrau yn un man. Ar hyn ceir tri syniad :—(1) Mai cyfeiriad at Deut. ix. 19 sydd yma lle y nodir ofn Moses, oblegid i'r genedl addoli y llo aur. Eithr cam fyddai cymhwyso yr amgylchiad hwnw at ofn Moses pan roddwyd y ddeddf. Ni fyddai y fath beth yn hanesyddol onest am mai nid yr un amgylchiad barodd ofn Moses yno ag a nodir yn yr adnod hon. (2) Cafodd yr awdwr y wybodaeth am ofn Moses adeg rhoddiad y ddeddf trwy ysbrydoliaeth uniongyrchol. Tynu ar ddychymyg yw y syniad hwn, a ffordd beryglus yw un fel yma i ddyfod dros anhawsder. (3) Gwyddai yr hanes trwy draddodiad Iuddewig. Hwn yw y syniad goreu. Effeithiodd yr amgylchiad mor ddwfn ar feddwl y genedl, a diau i'r traddodiad ddyfod i lawr o oes i oes ym mhlith y bobl am agwedd Moses. Hollol adnabyddus oedd y traddodiad fe ddichon yn nyddiau yr awdwr; ond collwyd ef wedi dinystr Jerusalem, neu yng nghlwrs y canrifoedd. (4) Gallasai fod mewn llyfr Iuddewig yr adeg hono ag sydd erbyn hyn wedi ei golli; ond ni ellir dibynu ar syniad felly am mai tybiaeth yw. (2) **Gwedd gadarnhaol y rhagorfraint** (22-24).—Dangosodd wedd nacaol y rhagorfraint oruchel. Yr oedd osgoi pethau mor ofnadwy yn fendith i'r Hebreaid; eithr nid oedd i'w chymharu a'r fendith a nodir yn yr adnodau hyn. (a) **Rhagorfraint y lle** (22).—**Eithr chwi o ddaethoch i fynydd Sion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol.**—Nid mynydd teimladwy yw y lle hwn, ond mynydd ysbrydol. Edrychid ar fynydd Sion fel cartrefle Duw, a Jerusalem fel ei ddinas. Ar Sion yr oedd y babell yn adeg Dafydd Frenin, a dyna'r rheswm y golygid ef y lle y preswyliai Duw. Ac er i Solomon adeiladu y Deml ar Moriah, Sion oedd y mynydd enwog. Daeth yr Hebreaid i, neu yn agos i fynydd Sion mewn ystyr ysbrydol, ond ni chai yr Israeliaid nesu at fynydd Sinai. Y meddwl yw iddynt ddyfod i'r fan y preswylia Duw yn ei ysbrydolrwydd puraf. Gwnaeth Crist y ffordd yn rhydd iddynt at Dduw. Eto, daethant i'r Jerusalem nefol, ac nid i'r un ddaearol. Syniad hapus yw fod Duw yn preswylio mewn dinas; hyny yw yng nghanol bodau rhesymol dirifedi. Ei ddinas ef yw ei eglwys ar y ddaear ac yn y nef. Yr un ar y ddaear y cyfeirir ati

23 I gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai

---

yma. Preswylia ynddi yn amlycach, mwy sylweddol ac ysbrydolach nag ar y drugareddfa yn y babell ar Sion. Hi yw y Jerusalem nefol er nad yw oll yn y nefoedd eto. Oddiyno y daeth ei bywyd, ei deddfau, ei nerth, a'i dylanwadau. At yr eglwys y daeth yr Hebreaid, neu iddi yn hytrach. (b) **Rhagorfraint cwmni meidrol** (22-23).—**Ac at luoedd aneirif o angylion, i gymanfa gyffredinol ac eglwys cyntaf-anedigion y rhai a gofrestrir yn y nefoedd.**—Ymddengys i ni fod tri dosbarth o fodau meidrol yn gwneyd i fyny y cwmni y daeth yr Hebreaid atynt, sef, (1) "Angylion." Cai yr angylion le mawr ym meddwl y genedl ac edrychid arnynt fel bodau uchelryw a galluog iawn fel y nodwyd o'r blaen. Yr oedd dyfod at y rhai hyn yn fraint oruchel. (2) Cymanfa gyffredinol ac eglwys y rhai cyntaf-anedig. Dyma yr ail ddosbarth o fodau meidrol. Wrth gymanfa gyffredinol y golygir pobl wedi eu dwyn yng nghyd o wahanol gyfeiriadau. Ni cheir y gair πανηγυρει —cymanfa gyffredinol—yn un man arall yn y Test. Newydd. Defnyddiai y Groegiaid ef am gynulliadau cenedlaethol, ac am eu campau cysegredig ar y cyntaf, ond yn ddiweddarach daethant i'w ddefnyddio am wleddoedd llawen, neu unrhyw gynulliad difyrus. Gwahaniaetha oddiwrth eglwys yn fod y gair am eglwys yn golygu cynulliad o ddynion wedi eu dewis allan o blith ereill. Yma, yr un olyga y ddau air mewn gwirionedd, sef cymanfa gyffredinol a rhai cyntaf-anedig. Pwy yw y rhai cyntaf-anedig? (1) Yr angylion. Crewyd hwy o flaen dyn. Gwir, ond nid eu geni gawsant ond eu creu. Gan hyny, nid hwy feddylir. Buasai y Beibl yn rhywle arall yn eu galw felly, pe dyna olygid yma. (2) Duwiolion yr Hen Destament. Ni all y syniad hwn fod yn gywir am yr enwir y rhai hyny yn niwedd yr adnod hon. (3) Saint fuont feirw ar ol ymddangosiad Crist, ac oeddynt yn y nefoedd adeg ysgrifeniad yr Epistol. Y mae yr un gwrthwynebiad i hwn a'r syniad diweddaf. (4) Saint yr Hen Destament a'r Newydd. (5) Y ddau ddosbarth hyn o seintiau a'r angylion. (6) Saint oeddynt ar y ddaear ar y pryd. Dyma y syniad ddeil oreu o'i gymharu a'r lleill. Ond paham y gelwir hwy yn gyntaf-anedig? Ai am eu bod yn blaenori yr Hebreaid yn y ffydd? Neu am eu bod yn alluocach? Nage ; ond am mai etifeddion Duw oeddynt oll. Y cyntaf-anedig — πρωτοτοκος —oedd yr etifedd yn Israel. Felly am y saint : y maent oll yn etifeddion, ac o ganlyniad, yn meddu hawliau cyntaf-anedigion

a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd,

---

yn ol deddf y genedl. Yr oedd yr Hebreaid cadwedig yn gyntaf-anedigion yr un gystal. Gwna y frawddeg olaf rymusu y syniad hwn. Dywedir fod enwau y cyntaf-anedigion wedi eu cofrestru yn y nefoedd. Cyfeirio wna hyny at gofrestru yn ofalus enwau y cyntaf-anedigion a dydd eu genedigaeth. Nid at gofrestriad dinasyddion y cyfeirir fel y myn llawer o esbonwyr, ond at y cyntaf-anedigion yn unig. Rhoddid pwys dirfawr ar y cyntaf-anedig gan y genedl; edrychid arno yn sanctaidd i'r Arglwydd, a chyfrifid ef felly gan Moses (Num. iii. 13, 40); efe fel yr awgrymwyd oedd a hawl i'r etifeddiaeth a'r bendithion ddisgynai oddiwrth ei gyndeidiau. (3) Ysbrydion y saint yn y nef.—**Ac at ysbrydoedd y cyfiawnion y rhai a berffeithiwyd.**—Er mwyn gosod holl gwmni meidrol yr Hebreaid gyda'u gilydd, awn heibio y frawddeg, "Ac at Dduw Barnwr pawb." Dyma yr holl gwmni meidrol yn llawn yn awr, sef yr angylion, y saint ar y ddaear, a'r saint yn y nef. Ysbrydion digorph yw y saint yn y nef, a dyna y rheswm y gelwir hwy "ysbrydion" yma. Cymerent i fewn bawb oedd wedi myned i'r nefoedd o'r cychwyn hyd adeg ysgrifeniad yr Epistol. Dywedir eu bod yn gyfiawn am y meddent gyfiawnder egwyddorol, ac am y gweithredent ef pan ar y ddaear yn gystal ag ar ol; hyny yw, llwyr sancteiddiwyd hwy. Nid y meddwl yw fod eu galluoedd wedi cwbl ddadblygu, ond eu bod yn berffaith bur yn foesol. (c) **Rhagorfraint cwmni anfeidrol** (23, 24).—**Y Barnwr anfeidrol** (23).—**Ac at Dduw Barnwr pawb.**—Dyma ragorfraint fwy eto. Daw Duw i fewn yma. Daeth yr Hebreaid i gwmni goreuon meidrol Duw yn gystal ag i le dwyfol, sef y Jerusalem nefol, fel y gwelwyd; ond nid dyna'r oll. Daethant hefyd i gwmni anfeidrol y Trindod Sanctaidd. Ni chafodd Israel nesu ato pan roddwyd y ddeddf; ond cawsant hwy oll fyned i'w ymyl mewn ystyr ysbrydol. Yn y cymeriad o Farnwr pawb y gosodir ef allan fel un y daethant ato. Beth yw y meddwl? At y Barnwr, Duw pawb, medd rhai, ac a trefn y geiriau yn y gwreiddiol dros y syniad. Eithr ni welwn beth enillai yr awdwr wrth ddyweyd "Duw pawb." Hollol wybyddus oedd hyny i'r Hebreaid. A y cysylltiadau dros y darlleniad cyffredin, sef "at Dduw Barnwr pawb." Yn yr adnodau nesaf rhybuddia yr awdwr ei ddarllenwyr i beidio gwrthod lleferydd yr hwn

24 Ac at Iesu, Cyfryngwr y testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel.

---

siaradai a hwynt o'r nef. Paham? Am fod Duw yn barnu pawb. Y farn wnai y lleferydd yn bwysig. Ond iddynt wrandaw rhydd Duw ei farn o'u plaid ac nid yn eu herbyn. Deil rhai mai ystyr y gair "barnwr" yn y fan hon yw un yn rhoddi barn o blaid. Pwy bynag ryngo fodd Duw rhydd farn yn ei ffafr. (2) **Y Cyfryngwr anfeidrol** (24). **—Ac at Iesu Cyfryngwr cyfamod newydd, ac at waed y taenelliad yr hwn sydd yn llefaru yn well na'r eiddo Abel.**—Rhoddir yr enw hanesyddol i'r Ceidwad yma er mwyn dangos ei agosrwydd. Cyfuna ef ddyndod a Duwdod yn ei berson; ynddo ef cydgyferfydd pob peth dyn a phob peth Duw. Heblaw ei fod yn ddyn, efe yw cyfryngwr y "cyfamod newydd," sef cyfamod newydd ddyfod i fod a grym sylweddol ac nid un newydd o ran natur. Cyfamod ieuanc oedd hwn, oblegid gyda marwolaeth ac esgyniad Crist y daeth ei rinwedd yn eiddo dynion. Meddai nerth newydd a hoender ieuenctyd, ac nid llesgedd a henaint fel y cyfamod cyntaf. Drwy y cyfryngwr a'r cyfamod newydd hwn gellir nesau at Dduw. Taenellwyd y cyfamod cyntaf a gwaed, ac felly y newydd. Wrth "waed y taenelliad" y golygir marwolaeth Crist. Tywalltwyd ei waed i gadarnhau y cyfamod. Rhaid cadw allan yma mai y gwaed anianyddol olygir. Byddai y fath syniad yn annaturiol ac yn faterol. Fel y sylwyd mewn man arall, nid aeth Crist a'i waed naturol a gollodd ar Galfaria i'r nef. Ei berson dwyfolddynol sydd yno yn llawn o haeddiant anfeidrol. Ei ddioddefaint iawnol yw y gwaed yma, ac fel Iesu Mab Duw y dioddefodd. Cyfeiria Iesu, Cyfryngwr y cyfamod newydd at ei berson yn benaf a'r gwaed at ei ddioddefaint dros ddynion. Sieryd y gwaed "bethau gwell na'r eiddo Abel," llythyrenol, nag Abel. Ym mha fodd? Galw am ddial wnai gwaed Abel; dadleu am drugaredd y mai gwaed Crist. Gwaeddi am gosp wnai un, erfyn am faddeuant wna y llall. Sylwer nad llefaru yn well na gwaed aberth Abel ddywedir, ond na gwaed Abel ei hun. Galwai marwolaeth Abel am ddial ar ei frawd yr hwn a'i lladdodd, ac ar bob gweithred o'r un natur ag eiddo ei frawd; geilw marwolaeth Crist am arbediad, am heddwch, am dosturi a chynorthwy i'r pechadur. Felly llefara bethau gwell ac ysbrydolach na'r eiddo Abel; sieryd yn effeithiolach a grymusach a chyda mwy o ddylanwad da.

25 Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru. Oblegid oni ddiangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear, mwy o lawer nis diangwn ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddiwrth yr hwn sydd yn llefaru o'r nef:

IV. Rhybudd i wrandaw Duw a'r rhesymau am hyny (25-29).—(1) **Y Rhybudd** (25).—**Edrychwch na wrthodwch yr hwn sydd yn llefaru.**—Pwy sydd yn llefaru? Duw ei hun ac nid gwaed Crist. Efe sydd yn llefaru pwy bynag fydd ei oruchwylwyr. Efe lefarodd drwy angylion ar Sinai, a thrwy ei Fab adeg yr ymgnawdoliad, ac yn awr yn y nef. Meddwl "edrychwch" yw gwyliwch yn ddwys, gyda gofal manwl a theimlad difrifol. Yr oedd eu cyfrifoldeb yn ofnadwy yng ngwyneb eu rhagorfreintiau, o ganlyniad, eu dyledswydd oedd peidio colli amser; peidio difateru, peidio esgeuluso dim. Pan fyddo Duw yn llefaru, dylid gofalu gwrandaw arno. Dengys ei fod ef yn llefaru bwys dirfawr. (2) **Rhesymau dros wrandaw y rhybudd** (25-29).—(a) **Tynged Israel** (25).—**Oblegid oni ddiangodd y rhai, pan wrthodasant yr hwn a'u rhybuddiodd hwynt ar y ddaear, mwy o lawer nis diangwn ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddiwrth yr hwn sydd yn rhybuddio o'r nef.**—Pwy lefarai ar y ddaear? (1) Nid Moses sydd sicr. Ni pharodd ei eiriau ef i'r ddaear ysgwyd fel y dywedir yn yr adnod nesaf. Hefyd, dengys yr hanes yn bendant mai Duw lefarodd y deg gorchymyn ar Sinai. Eithr ar y ddaear y llefarai y pryd hwnw. Dywedir yn llyfr y Salmau i'w lef beri i'r anialwch grynu, ac at yr un amgylchiad y cyfeirir yno ag yn yr adnod nesaf. Er i Dduw lefaru wrth Israel anufuddhau a wnaeth am ddeugain mlynedd; ond ni ddiangodd yr un o'r anufuddion. Syrthiodd eu cyrph oll yn yr anialwch. Nid yw "nis diangwn" yn y MSS. gwreiddiol, a mwy grymus fuasai y frawddeg hebddynt a darllen, "mwy o lawer ni." Gwna "oni ddiangodd" yn y frawddeg flaenorol gyflenwi yr ystyr yn hon. Beth wnai yr anhawsder yn fwy i'r Hebreaid ddianc? Mawredd eu manteision. Nid y ffaith fod eu rhybuddiwr hwy yn llefaru o'r nef wnai eu manteision yn fwy, ond y modd y llefarai. Bu farw Crist drostynt cyn myned i'r nef a rhoddodd hyn sail iddo i lefaru wrthynt. Duw oedd yn llefaru wrthynt, ond trwy Grist y llefarai. Cawsant hwy fanteision annhraethol fwy na'r tadau yn yr anialwch; ac o ganlyniad, ammhosibl oedd iddynt ddianc cosp fwy o ran graddau yn gyfatebol i raddau eu breintiau. Yr oedd

26 Llef yr hwn y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear: ac yn awr a addawodd, gan ddywedyd, Eto unwaith yr wyf yn cynhyrfu nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd.

---

ammhosibilrwydd natur foesol Duw ar ffordd i Israel ddianc; llawer uwch mewn graddau oedd ei ammhosibilrwydd moesol i adael i'r Hebreaid ddianc, a pheidio eu cospi. (b) **Y cynyg terfynol** (26).—**Llef yr hwn y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear; ond yn awr a addawodd, gan ddywedyd, Eto unwaith yr wyf yn cynhyrfu nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd.**—Yma daw yr awdwr at reswm pwysig iawn a sylfaena ef ar Ysgrythyr fel arfer, sef Hagai ii. 6, 7. Wedi dyweyd i lef Duw ysgwyd y ddaear adeg rhoddiad y ddeddf, dwg ym mlaen y broffwydoliaeth. Edrycha'r awdwr ar y ddaear yn ysgwyd a chrynu fel un yn ofni lleferydd Duw. Dywed yr Hebraeg o Exodus xix. 18, "A'r holl fynydd a grynodd yn ddirfawr." Eithr nid ydym i feddwl mai oblegid ofn Duw y crynodd. Ni feddai ef feddwl i ddeall lleferydd Duw nac un math o ymwybyddiaeth. Er hyny dylanwad Duw arno barodd iddo grynu. Beth yw meddwl " Eto unwaith yr wyf yn cynhyrfu, nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd ? " Ceir dau esboniad ar y geiriau. (1) Y llythyrenol. Deil hwn mai cyfeiriad sydd ynddynt at ddiwedd y byd, pan yr ysgydwir ac y cynhyrfir y ddaear a'r nef yn llythyrenol. Y rhesymau roddir drosto yw (a) mai diwedd y byd olygir yn yr ymadrodd nesaf, (b) na edrycha yr awdwr ar ddygiad i fewn y cyfamod newydd fel chwildroad tebyg i'r un ddesgrifir yma; (c) y rhydd yr esboniad hwn ystyr llawn i'r geiriau. (2) Y ffigyrol neu y cymhariaethol. Ymddengys i ni mai hwn yw yr esboniad cysonaf o lawer a'r cyd-destynau ac a rheswm. (a) Pa reswm sydd dros ddyfod a phethau gymerent le ddiwedd y byd yn rheswm am y rhybudd i'r Hebreaid ? (b) Amcan yr awdwr drwy y rhan fwyaf o'r Epistol yw dangos mai peth dros amser ydoedd Iuddewiaeth. Peth i'w hysgwyd oedd hi. (c) Dyna fydd hanes yr holl genhedloedd pan gaiff Cristion ogaeth afael ynddynt. Cynhyrfir ac ysgydwir i ffwrdd eu holl gyfundrefnau crefyddol. (d) Desgrifir amgylchiadau cymdeithasol, gwladwriaethol a chrefyddol mawrion a chynhyrfus mewn iaith fel hon yn y Beibl. (Gwel Joel ii. 10-31 ; iii. 16 ; Matth. xxiv. 29-31). (e) Cyd-wedda yr esboniad hwn a dyweyd fod sefydliad Cristionogaeth yn cynwys cynhyrfu y nef hefyd. Pwy all feddwl am y Mab yn gadael y nef i ymgnawdoli heb i gynhwrf gymeryd lle yno ? A ellid meddwl i

27 A'r eto unwaith hyny, sydd yn hysbysu symudiad y pethau a ysgydwir, megys pethau wedi eu gwneuthur, fel yr arhoso y pethau nid ysgydwir.

---

fodau meidrol y nef, a dyweyd y lleiaf, allu atal rhag cynhwrf (*excitement*) wrth weled Crist yn ymadael? Buasai osgoi cynhwrf yn amhosibl i fodau o'r fath. Anhawdd credu i'r Tad a'r Ysbryd Glan chwaith i fod yn ddideimlad pan oedd gwrthddrych eu cariad anfeidrol yn ymadael. Rhybuddia Duw trwy y prophwydi mai unwaith am byth y mae yn cynhyrfu y ddaear a'r nefoedd eto er mwyn achub. Dyma y cynyg terfynol, fel pe y dywedai. Y cynhyrfiad hwn oedd y datguddiad diweddaf a'r unig ddatguddiad achubol posibl i Dduw ei hun. Ni allai ail-adrodd hwn, na gwneyd ei ragorach. (c) **Meddiant o bethau arhosol** (27-28).—**A'r gair hwn, eto unwaith, sydd yn hysbysu symudiad y pethau a ysgydwir, megys pethau wedi eu gwneuthur, fel yr aroso y pethau nid ysgydwir. Oherwydd paham, gan ein bod yn derbyn teyrnas nas gellir ei siglo.**—Ffurfia y geiriau hyn reswm ychwanegol dros wrandaw ar rybudd adn. 25. Pethau sigledig a thros amser oedd y gyfundrefn Iuddewig. Prophwydodd dynion Duw am ei symudiad neu ei dilead. Unwaith yr ysgydwai Duw hwynt, ni fodolent mwy. Dywedai fod y pethau hyn yn cael eu hysgwyd am fod yr egwyddorion cymdeithasol, moesol ac ysbrydol a effeithiant eu llwyr ddinystr ar waith y pryd hyny. Caria y darfodedig a'r amserol egwyddorion ei ddinystr ynddo ei hun. Hanes pob peth crëedig ac a fwriadwyd dros amser yn unig yw darfod. Felly am Iuddewiaeth a phob cyfundrefn ansylweddol arall. Eithr amcan eu symudiad yw dwyn pethau arhosol. tragywyddol i fewn yn eu lle. Arhosa y pethau nad ydynt yn cael eu hysgwyd am fod egwyddorion tragywyddol ac anghyfnewidiol ynddynt. Medd Cristionogaeth egwyddorion ydynt yn hanfodol dragywyddol, egwyddorion nad ellir eu symud, eu hysgwyd na'u newid. Cyferbynu Cristionogaeth ac Iuddewiaeth wna yr awdwr yma yn ddiddadl ac nid son am ddiwedd y byd. Ysgol at y pethau digyfnewid mewn Cristionogaeth oedd Iuddewiaeth. Peth dros amser oedd hi gan hyny; peth tragywyddol yw Cristionogaeth. Geilw adn. 28 y pethau parhaus sydd ynddi yn deyrnas ddisigl. Caiff pawb gredant yng Nghrist feddiant o hon yn awr ac nid ar ol myned i'r nefoedd. Rhy ymarferol oedd yr awdwr i alw sylw ei ddarllenwyr at wobr y nef yn unig. Dengys iddynt eu bod yn derbyn y deyrnas y pryd hwnw, a hono yn un yn ei natur

28 Oherwydd paham, gan ein bod ni yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded genym ras, trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn:
29 Oblegid ein Duw ni sydd dân ysol.

---

nad allai dim mewnol nac allanol ei siglo. Medd nerth anfeidrol, a sefydlogrwydd tragywyddol fel Duw ei hun. Aeth y deyrnas Iuddewig yn ddarnau, syrthiodd ei gogoniant, collodd ei chyfundrefn grefyddol ei dylanwad a'i hurddas am na olygid hi ond dros amser. Nid felly teyrnas Crist: erys hi ym mhob cyfnewidiadau yr un. Holl oruchwyliaeth yr efengyl yw ystyr y geiriau "teyrnas nas gellir ei siglo" yma, mewn cyferbyniad i'r Hen Oruchwyliaeth amserol, wan a sigledig. (d) **Y ddyledswydd gyfyd o'r rhesymau** (28).—**Bydded genym ras, a'r hwn y gallom gynyg gwasanaeth i Dduw wrth ei fodd gyd â pharchedigaeth a braw.**—Neu bydded genym ddiolchgarwch. Dylai dynion wedi dyfod i feddiant o'r fath deyrnas feddu diolchgarwch i Dduw am dani. A dau o bethau dros mai diolchgarwch ddylai y darlleniad fod. (1) Gellid cyfieithu y gair χάρις—gras—yn ddiolchgarwch; (2) peth all dyn ei hun wneyd yw diolch, tra y rhaid iddo gael gras gan Dduw. Eithr gwell genym gadw at ystyr cyffredin y gair yma. Gall dyn wneyd llawer i gryfhau gras yn ei enaid. Yn wir dibyna dadblygiad gras arno ef ei hun i raddau pell. Mewn gwaith da yn unig y dadblyga gras. Gan hyny, priodol dyweyd "bydded genych ras." Beth yw amcan y gras hwn? Galluogi dyn i gyflawni un o'r dyledswyddau pwysicaf, sef cynyg gwasanaeth i Dduw. Nid addoli Duw yn unig a feddylir, ond cyflawni pob peth fyddo yn wasanaeth i Dduw. Cymer y gair gwasanaeth i fewn holl gylch gwaith crefyddol. Hefyd, rhaid i'r gwasanaeth hwn fynegi ei hun mewn ysbryd llawn o ras. Canlyniad hyny fydd iddo gael ei nodweddu a "pharchedigaeth a braw." Ystyr αἰδους— parchedigaeth—yw parch cysegredig neu addolgar. Dylai pob gwaith i Dduw fod yn yr ysbryd hwn. Meddwl εὐλαβείας—braw—yw ofn duwiol—ofn weddai un yn gwasanaethu yr Anfeidrol ac yn nesau ato. (e) **Rheswm dros anog y ddyledswydd** (29).—**Canys ein Duw ni sydd dan ysol.**—Cael ei gylchynu gan dan oedd Duw ar Sinai; ac os bydd raid iddo gospi y pechadur ceir gweled mai tan yw ef eto. Dyma reswm cryf dros ei wasanaethu fel y gofynwyd yn yr adnod flaenorol. Gall Duw er mai Duw cariad yw, ddifa ei elynion fel tan. Ysa bechaduriaid anedifeiriol fel y gwna tan ysu mater. Iaith ffigyrol yw hon, wedi ei hawgrymu gan y desgrifiad roddodd yr awdwr o olygfa Sinai.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Rhodder ystyriaeth i a yw saint y nef yn gweled a gwylio saint y ddaear.

Gwahaniaether rhwng Crist fel perffeithydd ffydd ei hun, a pherffeithydd ffydd ereill.

Myfyrier ar gerydd Duw fel amod hanfodol perffeithrwydd dynol.

Efryder y modd y mae Duw yn Dad ysbrydoedd ar dir natur a gras.

Ystyrier bywyd Jacob ac Esau yn eu natur, eu cymeriad a'u diwedd.

Efryder y gwahaniaeth hanfodol rhwng dyn a Duw, a Duw ac angylion.

Ceisier allan ystyron sancteiddrwydd a'i ddylanwad ar natur dyn.

Myfyrier ar ddiwedd y byd a'r achosion a'u dygant oddiamgylch.

Casgler y ffeithiau brofant fod teyrnas Crist yn ddisigl.

Myner allan wir feddwl y geiriau fod Duw yn "dan ysol."

III. Traethawd.

Tri Chyflwr Crist (2).

I. Ei gyflwr cyn y darostyngiad.—Cyflawnach yw yr Epistol hwn na'r un arall yn y Testament Newydd ar berson Crist yn ei wahanol weddau. Ceir ynddo holl hadau yr athrawiaeth am ei berson, a rhai ohonynt yn bur ddadblygedig. Tra awgrymiadol yw yr enwau roddir arno yma, megys Mab, y Mab, Mab Duw, a Chyntafanedig. Ammhosibl darllen yr Epistol heb gredu ei fod yn dragywyddol fod, yr un yn ei hanfod a sylwedd hanfod y Tad, oblegid dywedir ei fod yn wir lun ei berson, yn arddisgleirdeb ei ogoniant, yn sylfaenydd y ddaear, yn gyfrwng dadblygiad neu wneuthuriad yr oesau, ac yn etifedd pob peth. Ni ellid priodoli y pethau hyn iddo onibae ei fod yn Dduw anfeidrol. Yn ei gyflwr cynfodol gellir dyweyd fod y Mab (1) yn Fab o angenrheidrwydd natur y Tad; (2) yn ogyfuwch a'r Tad ym mhob perffeithrwydd anfeidrol, (3) yn gydweithredydd a'r Tad yn arfaethiad pob peth a gynwysai y bwriadau tragywyddol, (4) yn gyd-greawdydd ag

ef yn yr holl greadigaeth, (5) yn gyd-gynhalydd a dadblygydd ag ef yng nhwrs-weithrediad y greadigaeth. Gan fod yr ymgnawdoliad yn y bwriadau dwyfol, amlwg yw fod ewyllys y Mab i ymgnawdoli er tragywyddoldeb. Rhoddodd hyn werth mwy ar yr ymgnawdoliad. Datguddir egwyddorion y syniadau mawrion hyn oll yn yr Epistol, ac nid oes eglurach syniadau ar gynfodolaeth Crist yn y Testament Newydd.

II. Ei gyflwr yn y darostyngiad.—Yn y cyflwr hwn dysg yr Epistol i gyfnewidiad mawr gymeryd lle yn y Mab. Efe yw un o ffynonellau cyfoethocaf athrawiaeth yr ymwaghad, neu y kenosis, fel y geilw awdwyr Seisnig hi. Gwelwn ynddo fod Crist yn wir ddyn. Dengys y desgrifiad geir ohono gan yr awdwr fod holl elfenau dynoliaeth ynddo, a hyny mor sylweddol ag oedd yn bosibl. Heblaw hyny, dysg yr Epistol ei fod yn ddyn perffaith—yn berffaith o ran cyflawnder dynoliaeth anianyddol a meddyliol, a pherffaith foesol. Yr oedd yn ddyn dibechod. Meddai gorph sydd amlwg ac enaid ac ysbryd fel pob dyn arall; ond gwahaniaethai mewn bod yn ddibechod. Cynwysai ei gorph holl sylwedd hanfodol corph dynol, a llywodraethid ef gan holl ddeddfau hanfodol corph dynol. Dadblygai a threuliai ei gorph yn ol yr un deddfau a chyrph pawb ereill a meddai yr un anghenion. Eto yr oedd ei enaid a'i ysbryd o'r un sylwedd ag eiddo dynion, a llywodraethid hwy gan yr un deddfau meddyliol yn eu gweithrediad a'u dadblygiad. Dangosir hyn ym mhwyslais yr awdwr ar fod Crist wedi ei berffeithio trwy ddioddefiadau. Hefyd, dysg yr awdwr ni i'r Iesu gael holl brofiad dyn yn ei demtiad, ei ddioddefiadau a'i farwolaeth. Yn y pethau hyn datguddir dynoliaeth berffaith o ran cyflawnder. Gweithredai ei ddynoliaeth mewn cydgordiad perffaith a'i Dduwdod, a rhoddai ei Dduwdod fynegiant iddo ei hun drwy ei ddynoliaeth mewn cydgordiad perffaith a'i ddyndod, er y gweithredai tufewn i derfynau meidroldeb. Nid oes arwydd gwrthdarawiad rhwng ei Dduwdod a'i ddyndod gymaint ag unwaith yn yr holl Epistol. Buasai y fath wrthdarawiad yn dinystrio gwerth ei fywyd. Dyfyna yr awdwr y geiriau awgrymiadol "Corph a gymhwysaist i mi," sef dynoliaeth, ac yr oedd holl ddeddfau y ddynoliaeth hono yn gymwys i'w Dduwdod. Hefyd, canfyddwn wrth yr Epistol fod Crist yn meddu cymeriad dynol yn gystal a sylwedd, perffeithrwydd, a deddfau dynoliaeth. Priodolir gallu i gydymdeimlo iddo, ffydd yn Nuw, gweddio ar Dduw am achubiaeth o farwolaeth, ffyddlondeb yn Nhy Dduw, dioddef pech-

aduriaid i ddyweyd yn ei erbyn, a duwiol ofn. Rhinweddau cymeriad dynol yw y rhai hyn oll. Datguddir ynddynt fod Crist yn ei gyflwr o ddarostyngiad wedi newid yn fawr o'r hyn oedd cyn ei ddarostyngiad. Eithr nid newid o ran hanfod ei berson a wnaeth, ond newid yn ei ffurf o fodoli a'i ffurf o weithredu. Nid oes awgrym yn yr Epistol nad oedd ef yn wir Dduw trwy yr holl gyfnewidiad. Efe yr hwn oedd yn wir lun person y Tad, oedd yr hwn weddiai, erfyniai gyda llefain cryf a dagrau, berffeithiwyd trwy ddioddefiadau, roddodd ei hun trwy Ysbryd tragywyddol yn aberth i Dduw ac a eisteddodd ar ddeheulaw y Tad. Parhaodd hanfod a hunaniaeth ei berson dwyfol yr un trwy gyfnod ei ddarostyngiad er y gweithredai trwy gyfrwng meidroldeb, sef trwy ddyndod.

III. Ei gyflwr wedi'r darostyngiad.—Er mai yr un yw ef wedi'r darostyngiad yn hanfod ei berson dwyfol, y mae gwahaniaeth mawr ynddo. Duw noeth oedd ef cyn y darostyngiad heb ddyndod mewn undeb a'i berson. Duw mewn cnawd oedd ef adeg y darostyngiad, a materol oedd ei gorph. Eithr wedi'r darostyngiad ysbrydolwyd ei gorph. Yn y nef medd gorph ysbrydol ac enaid ac ysbryd meidrol mewn undeb a'i Dduwdod. Dysg yr Epistol yn amlwg mai yr un person esgynodd i ddeheulaw Duw ag oedd ar y ddaear mewn cnawd. Gwelir hyny yn eglur yn pen. xiii. 20, lle y dywedir i Dduw ei ddwyn oddiwrth y meirw, ac mewn manau ereill lle y dywedir iddo eistedd ar ddeheulaw Duw. Profa y desgrifiad o'r agosrwydd hwn i Dduw ei fod yn berffaith Dduw ei hun ar ol esgyn i'r nef. Hefyd y mae yn berffaith ddyn yno. Er fod ei gorph wedi ei ysbrydoli erys yn feidrol o angenrheidrwydd natur. Cynwysa ei ddynoliaeth holl nodweddion, deddfau a natur dyn. Ammhosibl peidio casglu hyn oddiwrth yr Epistol.

IV. Gofyniadau.

(1) Dangoswch berthynas y benod hon a'r un flaenorol ac elfenwch y tir yn fanwl.

(2) Pwy yw y cwmwl tystion, adn. 1? Beth yw y ffigwr geir yn adnodau cyntaf y benod, a pha briodoldeb sydd ynddo i ddangos y mater?

(3) Esboniwch adn. 2, a dangoswch y modd y gwasanaetha hi ac adn. 3 i amcan yr awdwr.

(4) Gwahaniaethwch rhwng cerydd a chosp, a dangoswch amcan y ddau. Beth yw y gwahaniaeth yng ngherydd tad naturiol ag eiddo Duw?

(5) Nodwch y dyledswyddau geir o adn. 12-29, ac esboniwch adn. 14-16.

(6) Enwch ragorfreintiau yr Hebreaid a'r berthynas oedd rhyngddynt a'u dyledswyddau.

(7) Eglurwch adn. 18-24, bob brawddeg yn eu perthynas a'u gilydd.

(8) A ydyw esgeuluso gwrandaw y sawl lefara o'r nef yn gwneyd cyfrifoldeb un yn fwy nag esgeuluso un lefara ar y ddaear? Profwch hyny o adn. 25.

(9) Rhoddwch y golygiadau ar adn. 26, 27.

(10) Eglurwch yn ofalus, gan ddyfynu adnodau i brofi eich golygiadau, athrawiaeth yr Epistol ar (1) sefyllfa gynhanfodol Crist; (2) ei gyflwr yn nyddiau ei gnawd, a (3) ei sefyllfa ogoneddus yn y nef.

PENOD XIII.

ADRAN III. (Parhad). PWNC: DYLEDSWYDDAU CREFYDDOL, MOESOL, AC YSBRYDOL, AC ANERCHIAD I'R HEBREAID.

I. Dadansoddiad.

I. **Dyledswydd at gyd-Gristionogion** (adn. 1-3).
  (1) *Cariad brawdol* (adn. 1).
  (2) *Caredigrwydd brawdol* (adn. 2).
  (3) *Rheswm dros garedigrwydd brawdol.*
  (4) *Cariad mewn cydymdeimlad brawdol* (adn. 3).

II. **Dyledswyddau moesol** (adn. 4-6).
  (1) *Cysylltiadau rhywogaethol* (adn. 4).
  (2) *Rheswm dros y ddyledswydd.*
  (3) *Cysylltiadau arianol* (adn. 5).
  (4) *Rheswm dros y ddyledswydd* (adn. 5, 6).

III. **Dyledswydd at arweinwyr ymadawedig** (adn. 7-8).
  (1) *Eu cofio* (adn. 7).
  (2) *Eu hystyried.*
  (3) *Eu hefelychu.*
  (4) *Rheswm dros y dyledswyddau* (adn. 8).

IV. **Dyledswydd at gau athrawiaethau** (adn. 9)
  (1) *Bod yn sefydlog.*
  (2) *Rheswm dros y ddyledswydd.*

V. **Rhesymau dros y ddyledswydd i ddwyn gwaradwydd Crist ac aberthu i Dduw** (adn. 10-15).
  (1) *Yr allor* (adn. 10).
  (2) *Yr aberth* (adn. 11-12).
  (3) *Y ddyledswydd gyntaf gyfyd o'r rhesymau* (adn. 13).
  (4) *Rheswm ychwanegol dros fyned at Grist* (adn. 14).
  (5) *Yr ail ddyledswydd gyfyd o'r rhesymau* (adn. 15).

1 Parhaed brawdgarwch.

VI. Tair dyledswydd ysbrydol a'r rhesymau drostynt (adn. 16-19).
- (1) *Gwneuthur daioni ysbrydol a chyfranu ysbrydol* (adn. 16).
- (2) *Y rheswm dros y ddyledswydd.*
- (3) *Ufudd-dod ysbrydol i arweinwyr crefyddol* (adn. 17).
- (4) *Rhesymau dros y ddyledswydd.*
  - (*a*) *Y rheswm allanol.*
  - (*b*) *Y rheswm mewnol.*
- (5) *Gweddio yn ysbrydol dros ddynion duwiol* (adn. 18, 19).
- (6) *Rheswm dros y ddyledswydd.*
  - (*a*) *Cydwybod dda.*
  - (*b*) *Ewyllys dda.*
  - (*c*) *Adferiad cynt* (adn. 19)

VII. Diweddglo (adn. 20-25).
- (1) *Dymuniad am berffeithiad yr Hebreaid* (adn. 20, 21).
- (2) *Amcan dwyfol y perffeithio* (adn. 21).
- (3) *Amod dwyfol y perffeithio.*
- (4) *Cynghor i'r Hebreaid* (adn. 22)
- (5) *Rheswm dros y cynghor.*
- (6) *Hysbysrwydd am ryddhad Timotheus* (adn. 23).
- (7) *Anerchiad cyffredinol* (adn. 24).
  - (*a*) *I'r llywodraethwyr.*
  - (*b*) *I'r saint.*
  - (*c*) *Anerchiad cymdeithion yr awdwr.*
  - (*d*) *Y fendith olaf* (adn. 25).

II. Eglurhad.

I. Dyledswydd at gyd-Gristionogion (1-3).—(1) **Cariad brawdol** (1).—**Parhaed brawdgarwch** (1).—Peth cyson yw y ddyledswydd hon i fod ac nid peth am ychydig, neu yn awr ac eilwaith. Yn ei pharhâd y mae ei gwir werth, ac yn ei pharhâd y mae y posibilrwydd i'w chyflawni yn iawn. Ammhosibl cyflawni unrhyw ddyledswydd yn iawn os na wneir hi gyda chysondeb. Meddai yr Hebreaid gyflwr meddwl priodol i'w chyflawni, ac anoga yr awdwr hwy i barhau. Golyga φιλαδελφία —brawdgarwch—ar y cyntaf gariad brodyr a chwiorydd naturiol. Dyna ei ystyr cyn i ddynion ddeall a theimlo fod y ddyledswydd i garu yn eangach na chylch y teulu. Eangodd i gynwys

2 Nac anghofiwch lettygarwch: canys wrth hyny y llettyodd rhai angelion yn ddiarwybod.

---

cylch y llwyth. Daeth felly i olygu cariad llwythol (*tribal love*). Yna ymledodd ei ystyr i gymeryd i fewn y genedl. Nid aeth syniad yr Iuddew yn eangach na hyn. Gydag ymlediad Cristionogaeth, daeth i olygu cariad at frodyr crefyddol—rhai garant Grist o bob cenedl. Deallodd dynion y dylai fod eanged a phlant Duw pa le bynag y byddent—ar y ddaear neu yn y nef. Er hyny, y brodyr o'r un genedl a'r un eglwys a'r Hebreaid yw y meddwl yma. Gwelai yr awdwr mai da oedd eu hanog i barhau yn y cariad at eu gilydd er y meddent ef. Gallasai farw heb iddynt ei arfer yn barhaus. Pwysai eu hundeb, eu llwyddiant crefyddol, a'u dadblygiad ysbrydol ar barhau i'w arfer. (2) **Caredigrwydd brawdol** (2).—**Nac anghofiwch ddangos cariad at ddieithriaid.**—Teimlad da at y brodyr a'r chwiorydd o'r un eglwys a hwy oedd cynwys y ddyledswydd flaenorol, caredigrwydd at deithwyr crefyddol yw cynwys hon. Buasai llawer o deithio yr adeg hono o un eglwys i'r llall; ciliai amryw oherwydd erledigaeth ac nid oedd ganddynt le i droi ond at eu cyd-Gristionogion; cariai rhai lythyrau dros yr apostolion pan oeddynt yn fyw, a dynion crefyddol pwysig ereill i eglwysi; teithiai rhai o wlad i wlad ar negeseuau ereill, a dyledswydd oedd ar yr Hebreaid i'w croesawu, eu porthi a'u cysuro. Un o'r dyledswyddau mwyaf oedd lletygarwch, neu garedigrwydd brawdol, yn y dwyrain yr adeg hono fel yn awr. Leied ac anamled yw cyfleusderau fel nad all un dyn deithio ym mhell heb i ereill gyflawni y ddyledswydd hon ato. (3) **Rheswm dros garedigrwydd brawdol.—Canys wrth hyn y lletyodd rhai angylion yn ddiarwybod.**—Rheswm cryf am gyflawni y ddyledswydd oedd y posibilrwydd i'r cyflawnydd gael bendith ei hun. Trwy fod yn garedig i ddieithriaid lletyodd rhai angylion. Ceir i Abraham a Lot, Gedeon, Manoah a Mair, i wneyd hyny. Ni wyddai y rhai hyn ar y dechreu mai angylion oedd yr ymwelwyr; ond buont yn garedig iddynt a derbyniasant fendith drwy hyny. Daw bendith yn wastad trwy letya dynion da. Taflant allan ryw ddylanwad fydd yn aros. Gwna dyfod i gyffyrddiad a dynion mawrion a dynion da agor maes newydd o feddwl i ni, a chodi awydd am fyw yn well. Dyddia mawredd llawer dyn o'i gyffyrddiad a dynion felly. (4) **Cariad mewn cydymdeimlad brawdol** (3).—**Cofiwch y rhai sydd mewn rhwymau, fel pe byddech yn rhwym gyd a hwynt; y rhai a ddrwg-drinir, megys**

3 Cofiwch y rhai sydd yn rhwym, fel petech yn rhwym gyda hwynt; y rhai cystuddiol, megys yn bod eich hunain hefyd yn y corph.
4 Anrhydeddus yw priodas ym mhawb, a'r gwely dihal-

---

yn bod eich hunain hefyd yn y corph.—Dyledswydd neillduol o bwysig yw hon eto. Dylai pawb crefyddol ddangos cydymdeimlad brawdol. Yr adeg hon carcherid llawer o'r Cristionogion. Haerid eu bod yn cynhyrfu y bobl, yn dysgu am dduwiau dieithr, eu bod yn anfoesol, ac yn droseddwyr cyfreithiau gwladol. Gwrthodent wadu Crist ac aent i garchar yn llawen er ei fwyn. Hawdd oedd anghofio y rhai hyn wedi iddynt fod am dymhor yn y carchar, a beth allasai fod yn chwerwach iddynt na deall fod eu brodyr crefyddol yn ddiystyr ohonynt? Cofiwch hwynt, meddai yr awdwr, fel pe byddech yn eu hochr yn y carchar yn rhwym eich hunain. Eu cofio pa fodd? Nid eu cadw yn y meddwl yn unig, ond ymweled a hwy, eu cysuro a'u diddanu, a rhoddi hanes yr achos iddynt; dwyn ymborth a dillad iddynt os buasai rhyddid i hyny, ac ymdrechu eu cael yn rhydd trwy weddio drostynt a defnyddio eu dylanwad o'u plaid. Hefyd, dengys y dylasent gofio y rhai a "ddrwg-drinid" yn gystal a rhai garcherid. Erlidid amryw o'r Cristionogion yr adeg hon, curid hwy a gwiail, fflangellid hwy a fflangellau, taflid cerrig atynt, gwawdid a dirmygid hwynt ym mhob modd. Hawliai y rhai hyn gydymdeimlad mawr, ac ni allasai yr Hebreaid eu hesgeuluso heb syrthio yn fyr o gyflawni eu dyledswydd. Dengys yr awdwr eu bod hwythau yn agored i'r un camdriniaeth am eu bod yn y corph. Nid am eu bod yn aelodau o'r eglwys yr hon yw corph Crist yw y meddwl. Yr oedd dyledswydd arnynt i gofio y rhai gamdrinid fel aelodau o'r un corph dirgeledig. Eithr nid dyna amcan y frawddeg. Nodi wna hi eu bod hwy mewn corph ac yn agored i ymosodiadau oddiwrth y gelyn.

II. Dyledswyddau moesol (4-6).—(1) **Cysylltiadau rhywogaethol** (4).—**Bydded priodas mewn anrhydedd ym mhlith pawb, a bydded y gwely yn ddihalogedig.**—Dyledswyddau crefyddol yn ystyr neillduol y gair oedd y rhai blaenorol, ond rhai moesol a chyffredinol yw y rhai geir yn yr adnodau hyn. Dylai pawb eu cyflawni, ac heb hyny ni all neb ddilyn bywyd moesol. Dichon y diystyrid priodas gan rai adeg ysgrifeniad yr Epistol. Cawn yr Iuddewon a'r Gnosticiaid yn fuan ar ol hyn yn ei diystyru. Nid yw y gair "bydded" yn y gwreiddiol er

ogedig: eithr putteinwyr a godinebwyr a farna Duw.
5 Bydded eich ymarweddiad yn ddiariangar; gan fod
yn foddlawn i'r hyn sydd genych: canys efe a ddywed-

---

y credwn ei fod yn ddealledig, ac mai gorchymyn difrifol yw y frawddeg a'i canlyna. Paham y pwysleisiai yr awdwr drymed ar briodas? Ni allwn gredu mai ei amcan yw gwasgu y dylai pawb briodi; na chwaith ei fod am ddangos fod priodas anrhydeddused bywyd a bywyd dibriodas. Un o brif bechodau yr Iuddewon oedd godineb, a geilw Crist hwy yn genhedlaeth odinebus. Gan hyny, pwysleisia yr awdwr ar fod yr undeb priodasol i gael ei gadw yn anrhydeddus yn ei holl gysylltiadau. Ni ddylid gwneyd dim i'w ammharu mewn meddwl, gair, na gweithred. Dibyna dyfodol moesau y byd ar gadw y gorchymyn hwn. Anrhydedded pawb briodas, meddai yr awdwr; hyny yw, bydded iddynt edrych arni yn beth cysegredig. Nid y meddwl yw ei bod yn yr oll ohoni yn anrhydeddus. Y mae hyny yn wir; ond pwynt yr awdwr yw cymhell yr Hebreaid i'w hanrhydeddu ym mhob gwedd arni. Yn nesaf gwahardda butteindra. "A bydded y gwely yn ddihalogedig," meddai. Rhaid cadw rhag gweithred fyddo yn dianrhydeddu priodas. Y dianrhydedd mwyaf arni yw putteindra. Bydded eich hymddygiad a'ch gweithredoedd yn lan o bob peth dyn ddianrhydedd ar briodas yw y ddyledswydd yn llawn. Pe na fuasai achos i nodi hon ym mhlith yr Hebreaid, pwysig oedd galw eu sylw ati am fod cymaint o amlwreica, godineb a chysylltiadau anghyfreithlawn ym mysg cenhedloedd cylchynol er ys oesau. Dylanwadai y rhai hyn arnynt. (2) **Rheswm dros y ddyledswydd.—Canys putteinwyr a godinebwyr a farna Duw.**—Ni wnai llyscedd gwladol sylwi ar achosion o butteindra a godineb ym mysg llawer o'r cenhedloedd amgylchent ddarllenwyr yr Epistol, am y cyflawnai eu barnwyr y pechodau hyn. Diau fod yr Iuddewon yn bur ddisylw o'r cyfryw bechod hefyd. Eithr nid felly Duw: ammhosibl iddo ef beidio cospi pob peth ddryga foesoldeb dyn a moesoldeb cymdeithas. Daw y putteiniwr, sef y dibriod a gyflawna bechod ddianrhydedda briodas dan ei farn, a'r un modd am odinebwr, am ei fod yn anffyddlon i'r cytundeb priodasol. (3) **Cysylltiadau arianol** (5).—**Byddwch rydd oddiwrth ariangarwch; gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych.**—Pechod parod i'r Iuddewon yr adeg hono fel yn awr, oedd ariangarwch. Rhaid fod amlygiadau o hyny yn eu plith cyn y gorchymynai yr awdwr iddynt i fod yn rhydd

odd, Ni'th roddaf di i fynu, ac ni'th lwyr-adawaf chwaith:

6 **Fel y gallom ddywedyd yn hyf, Yr Arglwydd sydd gymorth i mi, ac nid ofnaf beth a wnel dyn i mi.**

---

o'r pechod. Cynwysa y ddyledswydd hon ddwy ran, sef bod yn rhydd o'r teimlad a'r awydd angerddol am arian, a bod yn foddlon ar yr hyn oedd ganddynt. Ammhosibl cael yr ail elfen heb feddu y gyntaf. Rhaid bod yn rhydd o awydd ariangar cyn boddloni ar yr hyn a feddir. Golyga ariangarwch garu arian a'r holl galon, eu caru yn fwy na dim arall, ymgolli yn yr awydd am danynt. Rhaid bod yn rhydd o'r dymuniad yma, neu golli pob peth arall o wir werth moesol. Os byddir yn rhydd oddiwrtho, gellir boddloni ar yr hyn sydd genym. Dim heb hyny. (4) **Rheswm dros y ddyledswydd** (5-6).—**Canys efe ei hun a ddywedodd, Ni fethaf tuag atat mewn dim, ac ni'th adawaf mewn un modd. Fel yr ydym yn dywedyd gyda gwroldeb, Yr Arglwydd yw fy nghynorthwywr; nid ofnaf: Pa beth a wna dyn i mi?**—Gesyd yr awdwr y ddyledswydd hon eto i bwyso ar Ysgrythyr, sef ar Deut. xxxi. 6, 8, a Josuah i. 5, lle y ceir sylwedd y syniadau sydd yn y brawddegau hyn. Paham yr ä dyn i ymgolli mewn ariangarwch pan y mae Duw wedi dyweyd pethau fel hyn? Dywedodd trwy Moses na fethai tuag ato mewn dim. Os bydd dyn yn byw yn iawn, ni all Duw fethu a'i gynorthwyo. Gorfoda ei holl hanfod ef i roddi ei gynorthwy iddo ym mhob peth moesol a fydd o les i'w enaid. Heblaw hyny, ni adawa Duw ef mewn un modd. Bydd gydag ef bob amser ac ym mhob amgylchiad. Gedy dynion ni mewn amgylchiadau celyd, ond nid felly Duw. Deil ef yn nydd y frwydr. Cuddia y ddau syniad holl fywyd dyn, sef (1) cynorthwyo ym mhob dim. Dyna ystyr "Ni fethaf tuag atat mewn dim." (2) Cadw gyda ni ym mhob amgylchiad a hyny bob amser. Ni all un niwed moesol o ganlyniad, ddigwydd i'r dyn y mae yr Arglwydd yn Dduw iddo. Rheswm digonol yw hwn dros anog i beidio bod yn ariangar. Nid oes eisieu iddo bryderu gan fod Duw anfeidrol o'i blaid. Yr addewid yma alluoga ddynion Duw i ddyweyd y geiriau o Salm cxviii. 6 gyda hyfdra neu wroldeb dwyfol. Gan fod Duw wedi dyweyd y pethau uchod gallant hwythau ddyweyd, "Yr Arglwydd yw fy nghynorthwywr; nid ofnaf. Beth a wna dyn?" Gan fod Duw anfeidrol yn gynorthwywr ni raid ofni. Cyfyd yr ymwybyddiaeth fod cymorth anfeidrol wrth law blentyn Duw uwchlaw

7 **Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.**

---

pob ofn. Codi o wendid a diffyg gobaith am gynorthwy wna ofn; codi o sicrwydd am gynorthwy parod wna gwroldeb a hyfdra. Yn yr ymwybyddiaeth fod yr Anfeidrol yn gynorthwy nid ofna ei blentyn beth a wna dyn iddo. Y mae y ddau nerth mor anghyfartal, fel na threiddia cysgod ofn dyn trwy yr enaid. Beth yw nerth meidrol yn erbyn nerth anfeidrol? Dim; ni ddaw i'r cyfrif.

III. Dyledswydd at arweinwyr ymadawedig (7-8).—(1) **Eu cofio** (7).—**Cofiwch y rhai a fuasent yn eich llywodraethu, y rhai a draethasant i chwi air Duw.**—Erbyn hyn yr oedd amryw o'r apostolion wedi meirw a rhai ohonynt wedi eu merthyru, ac ereill amlwg yn yr eglwys wedi eu lladd, megys Stephan, a llawer ereill fu yn arweinwyr mewn ffydd, buchedd ac athrawiaeth wedi ymadael trwy farwolaeth naturiol. Dynion diamheuol dduwiol oedd y rhai hyn, a buont yn arweinwyr pwyllog a diogel; dilynasant fywyd sanctaidd dan anfanteision lawer ac erledigaeth boeth a chreulawn; llywodraethwyd yr eglwys Hebreaidd ganddynt mewn doethineb ac uniondeb; a thraethasant air Duw i'w canlynwyr gyda sel, cysondeb a gonestrwydd. Yr efengyl feddylir wrth "air Duw," sef hanes yr Iesu a'r iachawdwriaeth sydd ynddo. Rhai wedi meirw adeg ysgrifeniad yr Epistol feddylir wrthynt. Dyledswydd yr Hebreaid oedd cofio y rhai hyn, sef meddwl yn ddwys am danynt, a hyny yn aml. Dyna y ffordd iddynt i fod yn sefydlog eu barn, yn selog yn eu proffes, ac yn weithgar gyda'r achos. Golyga "cofio" yma lawer mwy na'r weithred feddyliol o gofio yn syml, sef cofio i weithredu yn ysbrydol fel eu harweinwyr ymadawedig. Wrth eu cofio felly, cofient air Duw a draethwyd ganddynt a deuent yn wneuthurwyr y gair. (2) **Eu hystyried.—A chan ystyried diwedd eu bywyd hwynt.**—Neu ddull diwedd eu bywyd. Golyga ystyried fwy na chofio. Wrth ystyried gelwir holl alluoedd y meddwl i un pwynt; canol-bwyntiant ar yr un peth gyda dwysder mawr. Dyma anoga yr awdwr yr Hebreaid i wneyd a diwedd dull bywyd eu harweinwyr a'u llywodraethwyr ymadawedig. Pa fodd bynag y buont feirw yr oedd dull diwedd neu derfyn eu bywyd yn un heddychol a gogoneddus. Wrth ystyried y modd yr ymadawsant cai yr Hebreaid ysbrydiaeth i 'nnu yn eu proffes. (3) **Eu hefelychu.—Efelychwch eu ffydd.**—Ceir

8 Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.

---

esgyneb ragorol yma. Dechreua yr awdwr gyda'r anogaeth i gofio neu feddwl am y blaenoriaid ymadawedig, yna canol-bwyntio y meddwl arnynt ac yn olaf eu dynwared mewn ffydd. Dyma y drefn naturiol. Rhaid cofio cyn y gellir ystyried, a rhaid cofio ac ystyried i allu efelychu yn iawn a chyda graddau helaeth o berffeithrwydd. Parodd ffydd rhai o'r blaenoriaid iddynt farw yn ddedwydd trwy ferthyrdod, ac ereill trwy erledigaethau creulawn a chaledwaith cyson. Dyledswydd yr Hebreaid oedd eu hefelychu yn eu ffydd os buasai raid marw fel hwythau. (4) **Rheswm dros y dyledswyddau** (8).—**Iesu Grist ddoe a heddyw yr un, ie, ac yn dragywydd.**—Adnod bâr lawer o ddadleu yn ei chylch yw hon; oblegid yr anhawsder deimlir i benderfynu ei chysylltiadau. Cynygir tri esboniad ar y cysylltiadau hyn. (1) A'r adnod nesaf y myn un dosbarth ei chysylltu a dadleuant mai ei dwyn i fewn wna yr awdwr yn rheswm dros i'r Hebreaid beidio cymeryd eu harwain ffwrdd gan athrawiaethau dieithr. Yr un yw Crist o hyd, meddai, a chawsoch yr athrawiaeth iawn am dano gan eich blaenoriaid ymadawedig. Gan hyny, na thwyller chwi i gredu pethau gwahanol. (2) Cysyllta ereill hi gyda'r adnod flaenorol fel hyn: Y mae y blaenoriaid wedi ymafael trwy farwolaeth, ond cymerwch gysur, y mae Iesu Grist yn aros yr un yn dragywydd. Ni edy ef chwi, ni fydd farw mwy, bydd yn ei eglwys byth. Y mae elfen o wirionedd yn y syniad hwn. (3) Cysyllta rhai esbonwyr hi a'r adnod flaenorol, fel hyn: Y mae y blaenoriaid wedi meirw yn ffyddlog a gogoneddus, ond Iesu Grist roddodd allu iddynt i farw felly; efe a'u nerthodd yn eu bywyd i fyw eu ffydd ac a'u cynhaliodd yn angau; cymerwch chwithau galon, yr un yw ef o hyd, ac y mae yn llawn mor alluog ac ewyllysgar i'ch cynorthwyo chwithau. Y mae elfen gref o wirionedd yn hwn eto. (4) Nid yw yr un o'r tri syniad uchod yn foddhaol i ni ar ei ben ei hun, ac ni welwn fod sail i'r cyntaf. Ein cred ni yw mai yn y cyfunaid o'r ddau syniad olaf y ceir yr esboniad iawn. Cysura yr awdwr yr Hebreaid trwy eu sicrhau fod Crist yn aros er fod y blaenoriaid wedi meirw a'i fod yr un mor barod i'w cynorthwyo hwythau am ei fod yr un. Yr un yw ef, meddai, ym mhob peth ag yr oedd yn adeg y blaenoriaid ymadawedig, a'r un fydd ef i dragywyddoldeb. Nid yw ddoe yn cyfeirio yma at fodolaeth Crist er tragywyddoldeb; nid oedd dim yn gofyn am i'r awdwr ddyweyd hyny. Adeg bywyd y blaenoriaid ym

9 Na'ch arweinier oddiamgylch ag athrawiaethau amryw a dieithr: canys da yw bod y galon wedi ei chryfhau a

---

adawedig yw y cyfnod y cyfeiria "ddoe" ato. Yr adeg yr ysgrifenai yr awdwr oedd "heddyw," a chymer "tragywydd" i fewn yr holl ddyfodol.

IV. Dyledswydd at gau athrawiaethau (9).—(1) **Bod yn sefydlog. —Na chluder chwi ymaith gan addysgiadau amrywiol a dieithr.**—Naturiol oedd dwyn y ddyledswydd hon i fewn ar ol sicrhau fod Crist yn aros yr un. Anghyfnewidioldeb yw un o egwyddorion hanfodol ei berson; nid oes ynddo gysgod ansefydlogrwydd o un math. Traddodwyd yr athrawiaeth am dano i'r Hebreaid gan eu blaenoriaid, o ganlyniad, eu dyledswydd oedd bod yn sefydlog a pheidio cymeryd eu cludo ymaith gan athrawiaethau gau. Sefydlogrwydd faga nerth bywyd, addfedrwydd barn, gasgla gyfoeth o wybodaeth ac a sicrhâ gadernid mewn erledigaeth, profedigaethau a themtasiynau. Ni ddywedir beth oedd yr athrawiaethau hyn ragor na'u bod (1) yn amryw. Meddwl hyny yw eu bod yn llawer ac yn gwahaniaethu yn eu natur a'u ffurfiau. Golyga ποικίλος —amryw bethau o liwiau gwahanol—pethau gwahanol yn eu ffurfiau a'u natur, a llawer neu aml o rif. (2) Yr oedd yr athrawiaethau hyn yn ddieithr hefyd. Rhai oeddynt nad oedd yr Hebreaid hyn yn gyfarwydd a hwynt. Felly nid tebyg fod y cyfeiliornadau Iuddewig yn benaf o flaen meddwl yr awdwr. Dichon mai hadau yr athrawiaethau Gnosticaidd ac Essenaidd, yr athrawiaethau am angylion; y rhai mynachaidd ddaethant i amlygrwydd cyn hir wedi hyn; athroniaeth ysbrydegedd y cyfnod; yr athrawiaeth yn erbyn priodi a'r un am fwydydd a diodydd. Croesai llawer o'r rhai hyn eu gilydd, ac felly yr oeddynt yn amryw yn eu natur yn gystal ag mewn rhif. Edrycha yr awdwr arnynt fel storom neu lifeiriant a gludant bethau ysgafn gyda hwynt. Gan hyny, rhybuddia ei ddarllenwyr i fod yn sefydlog, i ddal gafael yn ffydd eu blaenoriaid rhag cael eu cludo ymaith. (2) **Rheswm dros y ddyledswydd.—Canys da yw fod y galon wedi ei sefydlu gan ras; nid gan fwydydd, yn y rhai ni chafodd y sawl a ymarferasant ynddynt fudd.**—Dyma y rheswm rydd yr awdwr dros fod yn sefydlog. Ammhosibl i'r enaid dderbyn gras heb fod yn sefydlog. A "calon" yma fel mewn llawer o fanau ereill am holl alluoedd yr enaid. Cymer i fewn yr ewyllys, y teimlad a'r deall. Gras yn unig all gadarnhau y galluoedd hyn, a rhaid i ras eu cael yn sefydlog i'w

gras, nid a bwydydd, yn y rhai ni chafodd y sawl a rodiasant ynddynt fudd.

---

cadarnhau neu eu sefydlu. Os erys y galon gyda phethau gras dadblyga sefydlogrwydd na all dim meidrol ei symud. Una gras hi a'r Trindod anfeidrol, ac o ganlyniad, gwneir hi uwchlaw i'r meidrol allu ei hysgogi. Nid "bwydydd" wna y galon yn sefydlog ond gras. Beth olyga "bwydydd" yn yr adnod? (1) Athrawiaeth bwydydd yr Iuddewon yn ol rhai. Byddai yr athrawiaeth hon yn golygu rhai bwydydd yn lan a rhai yn aflan. Y rhai glan yn unig ganiateid i'w bwyta. Felly, meddwl yr awdwr yw nad oedd cadw at yr athrawiaeth hon i fanylder y llythyren yn sefydlogi enaid dyn. Peth naturiol yw bwydydd a phorthi y corph materol a wnant; peth moesol yw calon, a dim ond gras all ei phorthi a'i sefydlogi. (2) Athrawiaeth yr Essen iaid am fwydydd aberthol. Byddent hwy yn golygu bwyd gyflwynid yn aberth i Dduw dros bechod yn gysegredig. Ni chai teulu yr offeiriad gyfranogi ohono cyn ei gyflwyno i Dduw. Credent ei fod yn alluog i ddieuogi cydwybod, ac felly yn effeithio maddeuant. Dichon fod hadau yr athrawiaeth hon yn aflonyddu ar yr Hebreaid a bod llygaid yr awdwr arni. (3) Athrawiaeth bwydydd aberthol. Dysgai yr Iuddewon athrawiaeth am fwydydd a aberthid. Ystyrient yr anifeiliaid leddid yn ebyrth yn gysegredig ac yn meddu rhinwedd uwch na chig anifeiliaid ereill a fwyteid. Ymddengys i ni nad oedd y syniad cyntaf o'r tri hyn ym meddwl yr awdwr, ond gallasai fod yr ail yn gystal a'r trydydd. Yr oedd athrawiaeth bwydydd cysegredig a wnaent les i'r enaid yn beth cyffredin yn y Dwyrain yr adeg hono. Eithr ä yr adnod nesaf ym mhell i brofi mai y syniad olaf oedd fwyaf o flaen meddwl yr awdwr. (a) Try at yr allor a hawl i fwyta ohoni fel y gwelir; (b) cyfeirir at yr aberthau yn adn. 15 hefyd; (c) ymddengys y syniad yn fwy cyson a holl rediad yr Epistol yn gystal ag a'r cysylltiadau uniongyrchol. Ail elfen y rheswm rydd yr awdwr dros fod yn sefydlog yw na chafodd y rhai gadwent athrawiaeth bwydydd "fudd." Pa fudd? Budd moesol ac ysbrydol. Er cadw yr athrawiaeth yn fanwl nid oeddynt ddim cryfach na galluocach o ran eu bywyd crefyddol. Daioni gras oedd elfen gyntaf y rheswm; diffyg daioni bwydydd yw yr ail.

V. Rhesymau dros y ddyledswydd i ddwyn gwaradwydd Crist ac aberthu i Dduw (10-15).—Wedi dangos diffyg lles bwydydd anoga yr

10 Y mae genym ni allor, o'r hon nid oes awdurdod i'r rhai sydd yn gwasanaethu y tabernacl i fwyta.
11 Canys cyrph yr anifeiliaid hyny, y rhai y dygir eu gwaed gan yr archoffeiriad i'r cysegr dros bechod, a losgir y tu allan i'r gwersyll.

---

awdwr yr Hebreaid i fyned at yr Iesu yr aberth anfeidrol trwy yr hwn y llifa gras i'r galon ac aberthu aberth moliant i Dduw am ei ryfedd ras. (1) **Yr allor** (10).—**Y mae genym ni allor, o'r hon nid oes awdurdod i'r rhai sydd yn gwasanaethu y tabernacl i fwyta.**—Dyma y rheswm cyntaf dros y ddyledswydd i fyned at Grist i ddwyn ei waradwydd ac aberthu i Dduw. Dengys yr awdwr nad yw Cristionogaeth yn amddifad o allor. Ystyriai yr Iuddew y gyfundrefn aberthol yn un o ragorfreintiau mawrion y genedl. Nid ydym ninau yn ol o feddu y rhagorfraint o allor ac aberth, meddai yr awdwr. Bwyteid rhanau o rai o'r aberthau gan yr offeiriaid, ac nid oedd hawl i neb arall eu bwyta, a bwyteid rhanau ereill gan yr aberthwyr yn unig. Cyfeirir yma at y rhanau fwyteid gan yr offeiriaid. Byddai hawl ganddynt hwy i fwyta rhanau o ebyrth y tabernacl. Eithr nid oedd ganddynt hawl i fwyta o aberth yr allor Gristionogol. Beth yw yr allor? (1) Swper yr Arglwydd y dadleuir drosto gan nifer; eithr yn hollol ddisail. Nid oes awgrym i gadarnhau y syniad yn yr holl gysylltiadau. (2) Dyndod Crist. Nid oes rith o sail i'r syniad hwn mewn rheswm nac ysgrythyr chwaith. (3) Y groes ar yr hon y rhoddwyd ef i farwolaeth; (4) rhyw ddrychfeddwl ysbrydol oedd ym meddwl yr awdwr. Gwelai ef rywbeth yn y sylwedd ysbrydol yn cyfateb i'r allor yn y deml. (5) Crist yn ei berson dwyfol-ddynol. Efe yw yr allor, yr aberth a'r archoffeiriad yn y gyfundrefn Gristionogol. Siarad am Grist ei hun sydd yma ac nid am unrhyw ordinhâd sefydlwyd ganddo. Nid oedd gan y rhai a wasanaethent y tabernacl ar y pryd hawl i fwyta neu ymborthi ar aberth Crist. Pwy oedd y rhai hyny? (1) Nid Cristionogion ddalient at wasanaeth y tabernacl er wedi troi. Byddai y fath syniad yn gam a'r cysylltiadau ac a holl rediad ymresymiad yr awdwr. (2) Iuddewon oeddynt a lynent yn dyn wrth yr hen grefydd a'i defodau, a'r offeiriaid Iuddewig yn benaf. Nid oedd ganddynt hwy hawl yn yr allor Gristionogol am na chredent yng Nghrist, yr hwn gyfansoddai yr allor. (2) **Yr aberth** (11-12).—**Canys cyrph yr anifeiliaid hyny, y rhai y dygir eu gwaed i'r lle sanctaidd gan yr archoffeiriad fel**

12 Oherwydd paham Iesu hefyd, fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, a ddioddefodd y tu allan i'r porth.

---

offrwm dros bechod, a losgir y tu allan i'r gwersyll. Oherwydd paham Iesu hefyd, fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, a ddioddefodd y tu allan i'r porth.—Fel y dangoswyd uchod, yr un yw yr aberth a'r allor, sef person dwyfol-ddynol Crist. Rheswm ychwanegol yw y ddwy adnod yma dros y ddyledswydd i fyned ato. Nid rheswm dros nad oedd hawl gan Gristionogion a lynent wrth Iuddewiaeth yn yr allor Gristionogol yw adn. 11, ond rheswm mewn cysylltiad ag adn. 12 dros fyned at Grist, y gwir aberth. Nid oedd hawl gan yr offeiriad i gyffwrdd a chyrph yr anifeiliaid a aberthid ar Ddydd y Cymod. Elai yr archoffeiriad a'r gwaed i'r cysegr sancteiddiolaf, ac yna cymerid cyrph yr anifeiliaid i'r tu allan i'r gwersyll, yr adeg yr oeddynt yn yr anialwch, a llosgid hwy yn llwyr. Yr adeg yr ysgrifenai yr awdwr, elent a'r cyrph tuallan i byrth y ddinas i'w llosgi. Felly am y rhai lynent wrth Iuddewiaeth: nid oedd ganddynt hawl i gyfranogi o aberth Crist. Dioddefodd ef tuallan i borth Iuddewiaeth; hyny yw, tuallan i'w holl gyfundrefn. O ganlyniad ni ellid cael gafael arno ar dir Iuddewiaeth. Nid oedd gan y rhai wasanaethent ei hallor hi hawl i gyfranogi ynddo mwy nag oedd gan yr archoffeiriad hawl i fwyta o'r Aberth Iawnol ar Ddydd y Cymod. Gan hyny, rhaid myned at Grist y tuallan i'r holl gyfundrefn Iuddewig i gael gafael arno a hawl ynddo. Cysgodai llosgiad yr aberth Iuddewig tuallan i'r porth ar Ddydd y Cymod waith Crist yn aberthu ei hun tuallan i borth Jerusalem, a chysgodai ei lwyr losgiad lwyr ymaberthiad Crist. Gwel yr awdwr yn ei farwolaeth y tuallan i'r porth sylweddoliad o'r cysgod aberthol. Dengys adn. 12 y sylweddoliad o'r cysgod yn amlwg iawn. Cysyllta "Oherwydd paham" hi ag adn. 11. Er mwyn llanw y cysgod yn un peth, dioddefodd Crist y tuallan i'r porth. Dangosai hyny fod cyfatebiaeth yn y cysgod i "sylwedd mawr yr holl gysgodau." Darfu i'r Iuddewon, wrth fynu croeshoelio Crist, gynorthwyo yn anymwybodol iddynt eu hunain i gyflawni yr hyn osodai y cysgod allan. Trefniant Duw ei hun oedd y cysgod, ac i fod yn gyson a'i drefniant, rhaid oedd i'r sylwedd gyfateb iddo. Beth olyga "Fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun"? Rhaid meddwl am ystyr y cysgod i egluro y geiriau. Gwaed yr aberth ar Ddydd y Cymod sancteiddiai neu gysegrai y bobl am flwyddyn arall. Neillduid hwy drwy daenelliad y gwaed yn y cysegr sancteiddiolaf am

13 Am hyny awn ato ef o'r tu allan i'r gwersyll, gan ddwyn ei waradwydd ef.

---

flwyddyn ychwanegol, ac yna llosgid corph yr aberth y tuallan i'r porth. Yr un modd am Grist: darfu iddo yntau drwy dywalltiad o'i waed ei hun, gwaed person anfeidrol, enill sancteiddiad tragywyddol i'w bobl. Cynwysa hwn sancteiddiad llawn eu personau yn ogystal a neillduad neu gysegriad ohonynt i waith ei deyrnas. Ei waed ef ei hun effeithia y sancteiddiad hwn, ac nid gwaed anifail fel yr hwn aberthai yr archoffeiriad Iuddewig. Dengys hyn ragoriaeth anfeidrol yr aberth ynddo ei hun ar eiddo yr archoffeiriad Iuddewig. Eto yr oedd y sancteiddiad tragywyddol geid drwy ei aberth yn dangos rhagoriaeth arall ynddo. Ni allasai yr aberth Iuddewig effeithio sancteidd rwydd moesol i unrhyw fesur nac am ychydig amser, tra y dwg aberth Crist oddiamgylch sancteiddiad ysbrydol yn ei natur a thragywyddol yn ei barhad. Dangoswyd o'r blaen fod "a ddioddefodd tuallan i'r porth" yn golygu yn llythyrenol dioddef tuallan i borth Jerusalem. Safai Calfaria, lle y dioddefodd Crist, gryn dipyn tuallan i borth y ddinas fel yr oedd yr adeg hono. Ni allasai yr Iuddewon ddioddef croeshoelio tufewn i'r ddinas nac yn agos iawn i'r porth, am y tybient fod marwolaeth drwgweithredwyr yn halogi y ddinas. Ond beth yw meddwl ysbrydol y geiriau? Fod marwolaeth Crist tuallan i'r porth yn brawf nad oedd un cysylltiad rhyngddo ag Iuddewiaeth, ac nad oedd hawl gan neb i gyfranogi o'i aberth ar dir Iuddewiaeth. (3) **Y ddyledswydd gyntaf gyfyd o'r rhesymau** (13).—**Am hyny awn rhagom ato ef o'r tuallan i'r gwersyll, gan ddwyn ei waradwydd ef.**—Gan fod Crist yn allor medd ei ganlynwyr hawl ynddo. Gan ei fod yn aberth drostynt, dylent fyned ato, a chan fod yr aberth yn aberth tuallan i'r gwersyll, dyledswydd yw myned ato y tuallan i'r gwersyll. Beth olyga "gwersyll" yn y fan hon? Iuddewiaeth yn ei chyfundrefn aberthol i geisio dileu pechod. Ni thal, meddai yr awdwr, myned ato tufewn i wersyll Iuddewiaeth, am ei fod ef wedi dioddef ac wedi marw tuallan i'r cyfryw wersyll. Perygl oedd i'r Hebreaid geisio nesau ato drwy y defodau Iuddewig ac nid mewn modd ysbrydol. Rhan gyntaf y ddyledswydd, o ganlyniad, yw myned at Grist mewn ystyr ysbrydol, ac nid trwy ddefodau cnawdol. Yr ail yw "dwyn ei waradwydd ef." Gwaradwydd oedd ei ddioddefaint ar Galfaria y tuallan i'r porth, yn ol syniad yr Iuddewon. Bu farw o farwolaeth waradwyddus y Groes.

14 Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i
ddyfod yr ydym ni yn ei disgwyl.
15 Trwyddo ef gan hyny offrymwn aberth moliant yn
wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau yn
cyffesu i'w enw ef.

Erlidiodd ei genedl ei hun ef, gan ei draddodi i ddwylaw y Rhufeiniaid ; gwrthodasant ef gyda gwawd a dirmyg. Wrth ymlynu gyda chrefydd Crist tynai yr Hebreaid waradwydd eu cydgenedl arnynt. Felly dygent waradwydd Crist ei hun, sef gwaradwydd o'r un natur a'r eiddo ef. Y ddyledswydd yn llawn yw (1) myned at Grist mewn ystyr ysbrydol; (2) myned ato y tu allan i gylch Iuddewiaeth, a (3) dioddef drosto. (4) **Rheswm ychwanegol dros fyned at Grist** (14).—**Canys nid oes i ni yma ddinas barhâus, eithr y ddinas sydd i ddyfod yr ydym ni yn ymofyn am dani.**—Byrder amser yw y rheswm hwn. Rhai ar eu taith yw dynion yma. Ychydig yw eu blynyddau ar y ddaear. Geilw hyn arnynt i fyned at Grist gynted ag sydd yn bosibl. Nid dinas Jerusalem feddylir yma wrth "ddinas barhaus," ond y byd hwn. Byr yw taith dynion yn y byd hwn oblegid fod marwolaeth yn eu natur. Ond y mae rhywbeth parhaol yn natur dynion hefyd, rhywbeth nad oes diwedd iddo. Ceisia hwnw y parhaus, y sefydlog, yr anghyfnewidiol a'r tragywyddol. Dinas i ddyfod y geilw yr awdwr y peth hwnw. Y nefoedd yn ddiau oedd yn ei feddwl. Geilw rhan anfarwol dyn am ddinas yn cyfateb i'w natur. Ni wna dim ddarfydda ac a sigla y tro iddo. Teimla dyn dragywyddoldeb yn ei enaid, a geilw am ddinas dragywyddol i drigo ynddi. Yno ni adfeilia murian y ddinas ac ni dderfydd ei hadnoddau; ni ddinystrir hi trwy ymosodiadau, ac ni fydd elfenau cyfnewidiad yn ei natur. (5) **Yr ail ddyledswydd gyfyd o'r rhesymau** (15).—**Trwyddo ef gan hyny offrymwn aberth moliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth gwefusau yn cyffesu i'w enw ef.**—Symuda yr awdwr yma at ddyledswydd bwysig arall, sef yr un i foli Duw. Yr ymresymiad yw hwn :—Gan fod Crist yn allor, ac aberth, ac wedi dioddef tuallan i gylch Iuddewiaeth offrymwn aberth moliant i Dduw trwyddo ef, ac nid trwy Iuddewiaeth. Perygl mawr dynion fel yr Hebreaid, a ddysgwyd er yn blant yn y grefydd Iuddewig, oedd credu nad ellid moli Duw ond trwy ddefodau Iuddewiaeth. Gwreiddiodd arferion o feddwl, teimlo a dymuno yn ol Iuddewiaeth yn ddwfn yn eu heneidiau, ac anhawdd rhyfeddol oedd iddynt ymryddhau

16 Ond gwneuthur daioni, a chyfranu, nac anghofiwch: canys a chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.

---

oddiwrthynt. Gan hyny, amcana yr awdwr gau pob bwlch fel nad allant ar dir rheswm weled unrhyw werth mewn Iuddewiaeth byth mwy. Paham y gofyna iddynt "offrymu"? Am nad allent roddi aberth i Dduw am bechod eu hunain, nac am bechod neb arall. Eithr nid dyna'r unig reswm. Y prif reswm yw fod Crist wedi rhoddi "Un aberth mawr gwirfoddol dawelodd ddwyfol lid" i Dduw am byth. Ni bydd eisieu aberth mwy. Dangosiad o ddiolchgarwch yw offrwm ac nid aberth dros bechod. Hefyd, offrwm moliant yw yr un anogir yma, ac nid un iawnol. Beth yw y meddwl? Offrwm a wneir drwy foliant, un o natur folianus neu ddiolchgar am fod Duw wedi rhoddi ei Fab i farw a derbyn ei aberth. Paham y gofynir am ei offrymu yn barhaus? Am fod y bendithion ddaw trwy Grist yn rhai a dderbynir yn barhaus—bendithion ddeuant i ni yn gyson ydynt. Gan hyny, dylid molianu Duw nid yn unig am roddi a derbyn aberth ei Fab, ond am y bendithion hyn geir drwyddo. Cynyrch y "gwefusau" yw y moliant hwn. Gan y rhaid cael y gwefusau i ganu clod Duw a'i ganmol ar gyhoedd, edrychir ar y moliant a draethant fel eu ffrwyth. Eithr golyga y geiriau fwy na hyny o lawer, sef y dylai mawl y gwefusau drosglwyddo ar gyhoedd yr hyn sydd yn guddiedig yn y galon.

VI. Tair dyledswydd ysbrydol a'r rhesymau drostynt (16-19).—(1) **Gwneuthur daioni ysbrydol a chyfranu ysbrydol** (16).—**Ond gwneuthur daioni a chyfranu nac anghofiwch.**—Nid yw molianu Duw yn ddigon, fel pe dywedai yr awdwr, rhaid gwneyd daioni hefyd. Y perygl oedd i'r Hebreaid gredu ar ol yr anogaeth ddiweddaf, nad oedd gwaith yn ofynol. Rhag iddynt feddwl hyny anoga hwynt yma i wneyd daioni; heb nodi unrhyw ffurf neillduol arno. Cynwysa yr anogaeth gyflawni pob peth da yn eu gallu, megys meddwl yn dda am ereill, siarad a gweithredu yn dda tuag atynt. Ystyr gyffredin εὐποιΐα, yw gwneyd yn dda, neu fod yn hael i ereill. Meddai yr awdwr, "Gwnewch bob da i ereill ag a alloch ym mhob ffurf a bob amser." Wrth "gyfranu" y meddylir rhoddi elusenau i'r tlodion a'r anghenus. Bod yn barod i roddi rhan o'r hyn sydd genym i leddfu gwasgfeuon ein cyd-ddynion. Gorchymynir iddynt gadw hyn mewn cof yn wastadol. Gallent anghofio hyn, ac wrth hyny, esgeuluso un o ddyledswyddau pwysicaf

17 Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: oblegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi, megys rhai a fydd rhaid iddynt roddi cyfrif; fel y gallont wneuthur hyny yn llawen, ac nid yn drist: canys difudd i chwi yw hyny.

---

bywyd. (2) **Y rheswm dros y ddyledswydd.—Canys a chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.**—Dyma y rheswm o du Dduw dros gyflawni y ddyledswydd. Ni nodir yr un godai o'u natur hwy eu hunain. Heb gyflawni y ddyledswydd hon ni allent ymddadblygu ac ymberffeithio yn ysbrydol. Eithr y rheswm rydd yr awdwr yw mai yr ebyrth o wneyd daioni a chyfranu oedd y rhai cymeradwy gan Dduw. Cynwysir holl fywyd gweithredol Duw mewn llesoli bodau tuallan iddo ei hun. Ni all ei greaduriaid moesol ei foddio ond wrth wneyd yr un peth. (3) **Ufudd-dod ysbrydol i arweinwyr crefyddol** (17).—**Ufuddhewch i'r rhai sydd a'r llywodraeth drosoch, ac ymostyngwch iddynt.**—Cyfeiriad sydd yma at eu llywodraethwyr oeddynt yn fyw yr adeg yr ysgrifenai yr awdwr. Cyfeiriwyd o'r blaen at y rhai oedd wedi meirw, yn adn. 7. Ymddengys fod arweinwyr galluog a doeth ganddynt a dynion o ysbrydolrwydd dwfn onide ni chymhellai yr awdwr hwynt i ufuddhau ac ymddarostwng iddynt. Gan bured oedd eu cymeriad, eanged eu gwybodaeth, gywired eu barn a chrefyddoled eu hysbryd, teimlai y dylent roddi ufudd-dod diamodol iddynt, gan fod yn ddarostyngedig iddynt ym mhob peth crefyddol. (4) **Rhesymau dros y ddyledswydd.**—(a) **Y rheswm allanol.—Canys y maent hwy yn gwylied ar ran eich eneidiau, megys rhai a roddant gyfrif; fel y gallont wneuthur hyny gyda llawenydd, ac nid gyda galar.**—Bodola hwn yn y llywodraethwyr duwiol oedd ar yr Hebreaid. Anhawdd cael rheswm difrifolach nag ef dros y ddyledswydd. Ymrana i amryw elfenau. (1) Eu gwyliadwriaeth dros eneidiau yr Hebreaid. Uched a dwyfoled oedd eu hamcan fel y dylasent gael ufudd-dod. Byddent yn manwl a chyson wylio rhag iddynt fyned ar ddisberod. Yr oeddynt yn effro bob amser i'w gwaith o wylio. (2) Yr oedd eu cyfrifoldeb yn fawr, "megys rhai a roddant gyfrif." Rhoddwyd yr Hebreaid i'w gofal, a gwylient hwy fel rhai yr oedd cyfrifoldeb eu cadwedigaeth arnynt. Cyflawnent eu gwaith fel rhai a roddent gyfrif Ddydd y Farn i Dduw. Dengys hyn gydwybodolrwydd dwys y dynion hyn. (3) Dibynai yr agwedd meddwl yn yr hwn y gallai y llywodraethwyr roddi cyfrif ar

18 Gweddiwch drosom ni: canys yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda, gan ewyllysio byw yn onest ym mhob peth.

---

ufudd-dod yr Hebreaid. Os na ufuddhaent ni allent hwy "wneuthur hyny gyda llawenydd." Byddai anufudd-dod yn rhwym o esgor ar fywyd isel ac yna ni allent roddi cyfrif yn llawen, eithr yn hytrach mewn galar. Nid ydym i feddwl y galara pobl yn y farn fyddant yn siomedig oherwydd anufudd-dod ereill. Iaith ddynol, ddaearol yw hon i ddangos nad allant sugno dim llawenydd oddiwrth rai anufudd fu dan eu gofal. (b) **Y rheswm mewnol.—Canys difudd i chwi a fyddai hyny.**—Yn yr Hebreaid eu hunain y bodola hwn. Heblaw na fuasai y llywodraethwyr ar eu gwell ni chai yr Hebreaid fudd eu hunain o anufudd-dod. Rhagor na hyny, byddai yn golled iddynt. Ni all anufudd-dod, oblegid yr hyn yw yn ei natur, lai na bod yn golledus i'r anufuddhawr. Diraddia ei natur, ystyfnyga ei ewyllys a dadblyga ei anfoesoldeb. Colled ddirfawr fuasai iddynt anufuddhau a pheidio ymddarostwng i bethau rhesymol a ofynid iddynt. (5) **Gweddio yn ysbrydol dros ddynion duwiol** (18, 19).—**Gweddiwch drosom ni.**—Yr ysgrifenydd a'i gymdeithion oedd y dynion duwiol hyn. Ceisient eu goreu i lesoli yr Hebreaid, a dymunent ran yn eu gweddiau. Methwn a gweled sail i'r syniad mai yr awdwr a'r llywodraethwyr feddylir yma. Amlwg yw oddiwrth adn. 24 fod rhywrai gyda'r awdwr y gwyddai yr Hebreaid pwy oeddynt. Yr oedd y "rhai o'r Ital" yn adnabyddus iddynt. Ymddengys oddiwrth adn. 23 fod Timotheus hefyd gyda'r awdwr. Sieryd yr awdwr am dano ei hun yn y rhif lluosog hefyd mewn rhai manau, megys yn Pen. vi. 3. Feallai mai dyna wna yma. (6) **Rheswm dros y ddyledswydd.**—(a) **Cydwybod dda.— Canys yr ydym yn argyhoeddedig fod genym gydwybod dda.** — Ei gydwybodolrwydd ef a'i gymdeithion yw y rheswm dros y ddyledswydd hon. Wedi chwilio i natur eu hamcanion, a sylwi ar holl ogwydd eu meddyliau, daethant i'r casgliad fod ganddynt gydwybod dda "Cydwybod dda" yw un onest, un yn cario allan eu hargyhoeddiadau, un yn gwneyd yr hyn sydd yn unol a gwirionedd. Mewn geiriau ereill cydwybod yn cyflawni ei swydd foesol yn iawn. Nid y meddwl, felly, yw cydwybod bur, ddieuog neu berffaith o ran dadblygiad. (b) **Ewyllys dda.—Gan ewyllysio byw yn onest ym mhob**

19 Ond yr ydwyf yn helaethach yn dymuno gwneuthur
ohonoch hyn, i gael fy rhoddi i chwi drachefn yn gynt.
20 A Duw yr heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddiwrth

---

peth.—Dengys y geiriau hyn natur uchel moesoldeb yr awdwr a'i gymdeithion. Nid yn unig meddent gydwybod dda ond meddent ewyllys dda. Καλός yw y gair am "onest" yn y frawddeg hon, a'r un gair ddefnyddir am dda yn yr adnod flaenorol. Golyga yn gyntaf harddwch anianyddol, yna harddwch moesol, neu ragoriaeth foesol. Ewyllysiai y bobl hyn fod yn foesol ragorol ym mhob peth ac nid mewn rhai pethau. Nid at bawb feddylir, oblegid mai πᾶσιν—"pob peth"—yn y canolryw (*neuter gender*). Tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at gyhuddiadau yr Iuddewon geisient dynu y Cristionogion yn ol at Iuddewiaeth. Dywedent fod y rhai adawodd Iuddewiaeth wedi treisio eu cydwybodau, ac nad oeddynt felly yn gydwybodol. Ereill a gredant fod annealldwriaeth wedi bod rhwng yr awdwr a'r Hebreaid hyn, ac i'w ymddygiad unplyg eu tramgwyddo, a'i fod yn eu sicrhau yma ar ol ail feddwl ei fod wedi gwneyd yr oll yn ol cydwybod ac ewyllys dda. Gwell genym gredu mai cyfeirio wna at gynwys y llythyr hwn. Ynddo dywed rai pethau miniog a beirniada Iuddewiaeth yn drwm; ond sicrha hwynt fod yr oll yn ffrwyth cydwybodolrwydd perffaith ac ewyllys bur. (c) **Adferiad cynt** (19).—**Ac yr ydwyf o hyny yn fwy neilldnol yn cynghori ar wneuthur ohonoch hyn, fel y'm hadferer i chwi yn gynt.** Dyma reswm ychwanegol dros iddynt weddio dros yr awdwr a'i gymmi. Parodd amgylchiadau nad ellir cael o hyd iddynt i'r awdwr orfod gadael yr Hebreaid. Methwn a gweled mai afiechyd na charchar oedd yr achos. Buasai bron yn ammhosibl i ddyn o iechyd gwanaidd i ysgrifenu llythyr wedi ei feddwl allan fanyled a hwn. Tuedda adn. 23 ni i feddwl nad carchar a'i rhwystrai i fyned at yr Hebreaid, oblegid dywed fod Timotheus wedi ei ollwng yn rhydd. Wrth yr adnod gellid meddwl fod yr awdwr yn rhydd yn barod, oblegid dengys ei fwriad i ymweled a hwy gyda Timotheus. Beth bynag a rwystrai ei fynediad atynt, credai fod gan weddiau yr Hebreaid allu i'w adfer iddynt yn gynt.

VII. **Diweddglo** (20-25).—(1) **Dymuniad am berffeithiad yr Hebreaid** (20-21).—**Yn awr a Duw yr heddwch, yr hwn a ddygodd drachefn oddiwrth y meirw Fugail mawr y defaid gyda gwaed y cyfamod tragywyddol, sef ein Harglwydd Iesu, a'ch perffeithio ym mhob**

y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragywyddol,

---

peth da.—Neu, ond yn awr. Priodol yw galw Duw yn "Dduw yr heddwch" ar ol cynifer o rybuddion gyda golwg ar heddwch yr eglwys. Duw yr heddwch yw ef ynddo ei hunan. Heddwch perffaith yw ei hanes yn ei berthynas a'r personau dwyfol ereill, a'r angylion ac a'r saint sydd yn y nef. Y nodwedd hanfodol hon o heddwch oedd ynddo barodd iddo i wneyd trefn i heddychu dynion ag ef ei hun, ac a'u gilydd yn ei Fab. Eithr credwn fod pwynt arall hefyd ym meddwl yr awdwr, sef y rhoddai Duw heddwch mewnol i'r Hebreaid er cymaint y cynhwrf allanol yr oeddynt ynddo. Buasai gwneyd yr holl ddyledswyddau nodwyd ganddo yn sicrhau heddwch cydwybod a thangnefedd mewnol iddynt. I roddi yr heddwch hwn y "dygodd drachefn oddiwrth y meirw Fugail mawr y defaid." Darfu i adgyfodiad Crist drechu pob gallu croes i'r heddwch y soniwyd am dano. Edrycha yr awdwr ar yr adgyfodiad fel pinacl buddugoliaeth Crist ar allu'r fall. Yma yn unig y crybwylla yn eglur am yr adgyfodiad, a darllena rhai o'r prif awdurdodau "a ddygodd i fyny" yn lle "a ddygodd drachefn." Eithr ffafria llawer o'r prif MSS. "drachefn," a gesyd y C.D. ef i fewn fel y gwelir. Beth yw y meddwl? Nid fod Crist wedi adgyfodi fwy nag unwaith; ond iddo ddyfod drachefn i blith y byw er iddo farw. Geilw yr awdwr yr Iesu ar un o hoff enwau Crist arno ei hun yma—"bugail," ond ychwanega y gair "mawr" ato. Yr oedd bugeiliaid lawer yn yr eglwys, ond efe oedd yr unig un mawr. Nid oes eisieu ei gymharu, am mai efe yw y mwyaf oll. Braidd y mae eisieu gwasgu y syniad fod yma gyfeiriad at y LXX. o Esaiah lxiii. 11. Gwell genym gredu mai defnyddiad Crist ei hun o'r enw sydd yn cyfrif am ddefnyddiad yr awdwr ohono. Beth yw ystyr "gyda gwaed y cyfamod tragywyddol"? (1) Myn rhai mai trwy y gwaed neu ei Iawn ar Galfaria y daeth efe yn Fugail. Digon gwir yw hyny fel athrawiaeth, ond ai dyna wirionedd y frawddeg sydd gwestiwn. Ni allwn weled fod dim yn y frawddeg ei hun na'r cysylltiadau yn ffafr y syniad. (2) Ammhosibl credu chwaith mai y meddwl yw mai trwy ei waed y cadarnhaodd Crist y cyfamod tragywyddol. Cywir yw hyny fel ffaith, ond nid dyna bwnc y frawddeg. (3) Boddlonrwydd Duw yn Iawn Crist oedd yr achos iddo ei gyfodi ef o feirw. Oblegid i'r Duw anfeidrol gael boddlonrwydd llawn yn yr Iawn, cododd ei Fab oddiwrth y meirw. Yr Iawn yw gwaed y cyfamod tra-

21 A'ch perffeithio ym mhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef; gan weithio ynoch yr hyn sydd gymeradwy yn ei olwg ef, trwy Iesu Grist: i'r hwn y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

22 Ac yr ydwyf yn atolwg i chwi, frodyr, goddefwch air y cynghor: oblegid ar fyr eiriau yr ysgrifenais atoch.

---

gywyddol a'i rinwedd ef hawlia i Dduw ddwyn Crist drachefn oddiwrth y meirw. Cadarnhawyd y cyfamod yn llawn pan ddygwyd ef o'r bedd. Beth yw "perffeithio i bob peth da"? Dadblygu, dysgu a disgyblu holl alluoedd y meddwl neu yr enaid i wneyd da ym mhob cyfeiriad. Dyma ran gyntaf gweddi yr awdwr ar ran y darllenwyr. Gellir darllen "a'ch perffeithio ym mhob gwaith da," sef gwaith da moesol ac ysbrydol. (2) **Amcan dwyfol perffeithio** (21).—**I wneuthur ei ewyllys ef.**—Un gogoneddus yw yr amcan—dim llai na gwneuthur ewyllys Duw anfeidrol. Gall y meidrol drwy y perffeithrwydd ddwg Duw oddiamgylch ynddo, wneuthur ei ewyllys er ei bod yn anfeidrol. (3) **Amod dwyfol y perffeithio.—Gan weithio ynom ni yr hyn sydd gymeradwy yn ei olwg ef, trwy Iesu Grist, i'r hwn y byddo y gogoniant am byth bythoedd. Amen.**—Dyma amod dwyfol y perffeithio—Duw yn gweithio yn yr enaid trwy Iesu Grist. Dyma amod perffeithiad pob bod bywydol—gweithrediad bywyd oddifewn. Heb hyny nid yw perffeithiad yn bosibl. Gweithia Duw yn yr enaid trwy Iesu Grist. Efe enillodd haeddiant a rhinwedd anfeidrol i berffeithio enaid. O ganlyniad, drwyddo ef y dygir y perffeithiad oddiamgylch. Credwn mai i Dduw y rhoddir y gogoniant yma, ac nid i Grist. Edrychir arno fel ffynhonell wreiddiol pob peth yma gan yr awdwr, ac fel un haedda ogoniant. Gorchymynodd ei foli yn adn. 15, a naturiol yw iddo orchymyn y gogoniant iddo ar ddiwedd yr Epistol. (4) **Cynghor i'r Hebreaid** (22).—**Ond yr ydwyf yn eich cynghori chwi frodyr, cyd-ddygwch a gair y cynghor.**—Gan fod rhai pethau llym a chelyd yn yr Epistol, naturiol oedd i'r awdwr doeth i ofyn am eu cydymdeimlad neu eu hystyriaeth bwyllog a diragfarn o gynwys y Llythyr. Cynghor yw ef, meddai, a goddefwch ef. Anogaeth unplyg, ddiragfarn a llawn o'r dymuniad goreu a'r amcan puraf yw yr Epistol, fel pe y dywedai, a dylech gydymdeimlo a'r oll a ddywedir ynddo. Cynghoraf chwi, meddai, yn garedig i ddioddef y geiriau gynwysant gynghor. (5) **Rheswm dros y cynghor.—Canys ar fyr eiriau yr ysgrifenais atoch.**—Pa gysondeb sydd yn y geiriau hyn a hyd y llythyr?

23 Gwybyddwch ollwng ein brawd Timotheus yn rhydd; gyda'r hwn, os daw efe ar fyrder, yr ymwelaf a chwi.
24 Anherchwch eich holl flaenoriaid, a'r holl saint. Y mae y rhai o'r Ital yn eich annerch.

Nid llythyr byr feddylir; ond un byr o'i gymharu ag (1) eangder y maes a gymer i fewn; (2) pwysigrwydd y mater; (3) angen yr Hebreaid ar y pryd. Ni allasai yr awdwr wneyd chwareu teg yn ol ei farn a'r tri pheth hyn mewn cyn fyred llythyr er ei hyd. Buasai yn meddalhau rhai pethau pe yr ysgrifenasai yn eangach, ac yn ymhelaethu ar bethau ereill. (6) **Hysbysrwydd am ryddhad Timotheus** (23).—**Gwybyddwch ollwng ein brawd Timotheus yn rhydd; gyda'r hwn, os daw efe ar fyrder, yr ymwelaf a chwi.**—Yr un Timotheus yw hwn ag awdwr yr Epistolau ddygant ei enw, a chred yr awdwr y buasai yr Hebreaid yn falch i glywed am ei ryddhad. Ni allwn benderfynu pa ryddhad olygir. Gallasai fod (1) yn rhyddhad o ymrwymiad gweinidogaethol, (2) o garchar, (3) o flaen llys gwladol, neu (4) ei fod wedi ei anfon ar neges. Amodai penderfyniad Timotheus i ddyfod at yr Hebreaid ddyfodiad yr awdwr hefyd atynt. Ni ellir penderfynu pa un ai dyfod ar fyrder atynt hwy neu ar fyrder i'r lle yr ysgrifenai yr awdwr ynddo feddylir. Awgryma y geiriau fod rhwystr posibl iddo i ddyfod ar fyrder. Ni sonia yr awdwr am amcan ei ymweliad a hwy. Eithr gellir casglu hyny oddiwrth gynwys y llythyr. (7) **Anerchiad cyffredinol** (24).—(a) **I'r llywodraethwyr.—Anerchwch y rhai oll sydd a chanddynt lywodraeth drosoch.**—Yr arweinwyr crefyddol oedd y rhai hyn, a dymuna yr awdwr eu hanerch oll yn ddieithriad. Gesyd hwy oll ar yr un safle, a dymuna ddangos ei deimladau da yn gyntaf at swyddogion blaenaf yr Eglwys Hebreaidd hon. Awgryma hyn na chyfeiriwyd y llythyr yn uniongyrchol at yr holl eglwys, ond at adran o honi. Ond feallai mai dull neillduol yr awdwr gyfrifa am hyn. Er hyny, naturiol meddwl y rhoddai ofal y llythyr yn llaw ychydig o'r personau mwyaf cyfrifol, a'u cyfarwyddo i'w ddarllen yn yr eglwys. (b) **I'r saint.—A'r holl saint.**—Yr holl aelodau cyffredin yw y rhai hyn. Cymerant i fewn gorph mawr yr eglwys. Gelwir hwy yn ἁγίου—saint—nid am eu bod yn sanctaidd fewnol, ond am eu bod wedi eu neillduo, neu eu galw allan o blith ereill—rhai neillduedig i waith sanctaidd, ac nid rhai moesol ac ysbrydol sanctaidd. (c) **Anerchiad cymdeithion yr awdwr.—Y mae y rhai o'r Ital yn eich anerch.**—Ammhosibl penderfynu pwy

25 Gras fyddo gyda chwi oll. Amen.

---

oedd y rhai hyn. Os yn yr Ital yr oedd yr awdwr ar y pryd, gallant olygu Cristionogion Italaidd mewn rhyw eglwys sefydlwyd yn y wlad hono. Yr ystyr felly fyddai—Y mae rhai o'r Italiaid yn eich anerch. Os nad yn yr Ital yr ysgrifenai yr awdwr gall y geiriau olygu Italiaid ddigwyddent fod yn yr un lle ag ef, ac yn ddychweledigion Cristionogol. Eto gallant olygu Cristionogion o'r Ital heb eu bod yn Italiaid. Ni phenderfyna y geiriau mai Italiaid o genedl oeddynt. Yr oll ddywedir yw eu bod o'r Ital. (d) **Y fendith olaf** (25).—**Gras fyddo gyda chwi oll. Amen.**—Y fendith olaf ddymuna yr awdwr iddynt yw gras. Cysyllt-**iadau** y gair *χάρις*—gras—benderfyna ei ystyr. Gall olygu hardd, dymunol, atdyniadol pan edrychir arno fel peth allanol neu wrthddrychol. Wrth ei ystyried fel peth mewnol golyga duedd dda, ffafr, caredigrwydd, haelioni, diolchgarwch, a rhad rodd. Ei ystyr yma yw rhad rodd Duw. Yr holl fendithion rydd Duw i'w blant ar wahan i unrhyw deilyngdod ynddynt hwy eu hunain. Dymuna yr awdwr am i ffafrau rhad Duw ddisgyn ar yr Hebreaid, ac aros gyda hwy. Ni ddywedir yma pa un ai gras Duw neu Grist a ddymunir. Nodir hyn yn rhai o'r Epistolau, megys Rhufeiniaid, 2 Corinthiaid, Galatiaid, Philippiaid, 1 a 2 Thessaloniaid, a Philemon.

PWYNTIAU YMCHWILIADAETH BELLACH.

Ystyrier yr elfenau cyffredin mewn angylion a dynion.

Eler i fewn i'r gwahaniaeth rhwng cariad brawdol a charedigrwydd.

Astudier dylanwad ariangarwch ar foesoldeb yr enaid.

Myfyrier ar effaith parch i flaenoriaid meirw a byw ar ysbryd dyn.

Meddylier am yr hyn gyfansodda anghyfnewidioldeb Crist.

Efryder ar gyfrifoldeb llywodraethwyr i Dduw am bobl eu gofal.

Myner allan ddylanwad athrawiaeth ar gymeriad.

Casgler y ffeithiau ddangosant fod Crist yn Fugail mawr eneidiau.

Meddylier am y profion fod Duw yn Dduw yr heddwch.

Astudier perthynas gweithredoedd da a pherffeithiad yr enaid.

III. Traethodau.

(1) Y Tri Phechod.

Nodir tri o bechodau yn yr Epistol wahaniaethant mewn graddau.

I. Pechod anwybodol.—Hwn yw y pechod cyntaf y dywed yr awdwr y dylai archoffeiriad gydymdeimlo a'i gyflawnwyr (pen. v. 2). Gall dyn gyflawni pechod yn hollol gydwybodol heb yn wybod iddo ei hun. Rhagor na hyny, gall y dyn gredu ei fod yn cyflawni y weithred oreu er ei fod yn cyflawni y weithred waethaf. Enghraifft o hyny yw Paul cyn ei droedigaeth. Nid yn unig ni wyddai ei fod yn gwneyd drwg, ond credai ei fod yn gwneyd da. Yr oedd hyn yn ffrwyth ei addysg grefyddol fore. Dyma y pechod mwyaf esgusodol a'r isaf o ran graddau ei ddrwg. Cydnabyddai y gyfraith aberthol hyny. Bydd pawb yn euog o'r pechod hwn am nad oes neb yn ddigon treiddlym ei weledigaeth moesol i ganfod y llinell wahaniaethol rhwng drwg a da. Ni all neb weled yn eglur pa le y terfyna y da ac y cychwyna y drwg gan leied y llinell a graddoled y ffordd o'r naill i'r llall. Cynwysa y dosbarth hwn hefyd bechodau gyflawnir mewn camsyniadau.

II. Pechod ymwybodol.—Yn yr un adnod ceir hwn eto. Gelwir ef yn bechod mewn amryfusedd. Cymer i fewn bechodau yn ffrwyth anghydbwysedd tymherau, nerth blysiau a nwydau, deniadaeth temtasiwn a phrofedigaeth. Nid yr un mewn graddau yw holl bechodau y dosbarth hwn; eithr meddant un elfen gyffredin oll, sef y gwyr eu cyflawnydd mai pechodau ydynt. Yn hyn gwahaniaethant yn fawr oddiwrth y dosbarth cyntaf. Nôd amlycaf y rhai hyn yw ymwybyddiaeth, tra mai nôd amlycaf y lleill yw anymwybyddiaeth. Rhedant o ran eu graddau i fyny o'r pechod gychwyna yn ymyl llinell yr anymwybodol hyd at rai y tymherau a'r nwydau ymwybodol dwysaf. Perthyn i'r dosbarth hwn luaws mawr o ran rhif, ond nid ydynt yr uchaf yn eu drwg. Darperid aberth drostynt yn neddf Moses.

III. Pechodau gwirfoddol.—Hwn nodir yn x. 26, ac yn vi. 4-6. Yr elfen hanfodol ynddo yw bwriad i bechu. Penderfyna ei gyflawnydd ei wneyd er gwybod ei ddrwg a'i ganlyniadau; caiff bleser wrth ei gyflawni am y gwyr mai drwg ydyw. Ymhyfryda y dyn ynddo; lleinw ei ymwybyddiaeth a gafaela yn egwyddorion llywodraethol ei ewyllys, a ffurfia ei holl arferion. Nid peth achlysurol yn ei hanes

ydyw ef, ond cyflwr parhaus ei ymwybyddiaeth ac ystad barhaus ei holl alluoedd meddyliol. Peth achlysurol yw y pechod ymwybodol, a gall fod yn edifar iawn gan ei gyflawnydd o'i herwydd, peth parhaol yw yr un gwirfoddol a llawenhâ ei awdwr ar ol ei gyflawni; un anfwriadol yw yr un ymwybodol, un rhagfwriadol ac ymwybodol yw yr un gwirfoddol. Am hwn y dywed yr awdwr nad oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach. Nid yr un yw pob pechod gwirfoddol yn ei raddau. Rhed y raddfa i fyny o'r pechod ymwybodol mwyaf i'r un bwriadol erchyllaf, sef cashau daioni am mai daioni ydyw. Ni phwysleisir pechodau meddwl a gair yn gymaint yn yr Epistol. Son wna yr awdwr am weithredoedd pechadurus; ond amlwg yw y golyga ef y cyfryw weithredoedd yn ffrwyth anghrediniaeth calon ddrwg.

(2) **Tair Perthynas Pechod.**

I. Pechod a dynion.—Heblaw y tri dosbarth o bechodau, casglwn oddiwrth yr Epistol dair perthynas o'i eiddo. Amlwg y gwelir ei fod ym mhawb dynion. Nid rhywbeth perthynol i un dosbarth anffodus ydyw. Tyr allan mewn llawer o ffurfiau mewn dynion ac nid mewn un neu ychydig, a delir pawb yn gyfrifol am dano yn ol ei raddau ynddynt. Rhwystra ddynion i gyrhaedd perffeithrwydd, gwanhâ hwynt a phâr i'w gweithredoedd fod yn rhai meirw; ceidw hwynt yn gaethion; amgylcha hwynt fel gwisg, a gwasga arnynt fel baich; peth dros amser yw ei fwyniant, atalia wir ryddid dynion, ac arweinia hwynt i gyfeiliorni, a phan gyrhaedda ei eithafion o ran graddau, nid oes faddeuant am dano. Ni sonir yn yr Epistol am ei darddiad, am nad yw hyn yn dyfod tufewn i gylch ymdriniaeth yr awdwr yn uniongyrchol.

II. Pechod a Christ.—Amcan ymddangosiad Crist yn ol yr Epistol oedd dileu pechod trwy ei aberthu ei hun (ix. 26). Ymgnawdolodd er mwyn cymhwyso ei hun i aberthu ei hun dros bechodau. Dysgeidiaeth amlwg yr Epistol yw mai tynu ymaith bechod a phuro cydwybod dynion oedd prif amcan Crist yn dyfod i'r byd. Cymerodd natur dyn fel y gallai gydymdeimlo a'r rhai bechent yn anymwybodol ac ymwybodol ddifwriad. Eto, aberthodd ei hun unwaith dros bechodau dynion. Nid oes eisieu gwneyd rhagor oblegid anfeidroldeb ei berson a gwirfoddolrwydd ei aberth. Hefyd, dangosir mai ei holl waith yn y nef yw eiriol ar ran pechaduriaid. Dileu pechod gan hyny oedd amcan ei ymgnawdoliad, ei ymaberthiad anfeidrol, a'i esgyniad i'r nef i eiriol.

III. Pechod a Duw.—Hawdd canfod wrth yr Epistol mai rhywbeth yn erbyn Duw yw pechod yn y pendraw. Aberthu i Dduw y byddai yr archoffeiriaid Iuddewig dros bechod. Cymodi Duw a'r bobl oedd amcan Dydd Mawr y Cymod. Felly am Grist: offrymodd yntau ei hun unwaith am byth yn aberth difai i Dduw. Iawn i Dduw dros bechodau dynion oedd ei farwolaeth. Heblaw hyny dysg yr Epistol yn amlwg fod ei aberth yn hollol gymeradwyol gan Dduw a bod maddeu ant, trugaredd a gras i'w cael i bechaduriaid ar sail ei aberth.

(3) Arch y Cyfamod a'i Chynwys.

Yr Arch oedd dodrefnyn cysegredicaf y Babell yn yr anialwch, a'r cysegredicaf yn holl hanes crefyddol yr Iuddewon. Rhoddodd Duw gyfarwyddyd manwl i Moses am ei gwneuthuriad yn ei defnydd a'i mesurau. (Gwel Exod. xxv. 10-22.) Coffr bychan oedd hi fel y gwelir yn Exodus, a'i hamcan cyntaf oedd cadw y ddwy lech ar y rhai yr ysgrifenwyd y Deg Gorchymyn. Heblaw rhoddi gorchymyn am ei choed, ei mesurau, a bod llechau y dystiolaeth i fod ynddi, gorchymynodd Duw hefyd pa le yn y Babell i'w gosod, sef yn y cysegr sancteiddiolaf. (Gwel Exod. xxvi. 33, 34.) Gelwid hi yn "Arch y dystiolaeth," "Arch cyfamod yr Arglwydd," "Arch Duw," "Arch y Cyfamod," a "yr Arch." Hi oedd arweinydd y genedl yn yr anialwch; hyny yw, nid oedd y bobl i symud ond fel y symudid hi. Os na elid a hi o'u blaen i ryfel, colli a wnaent (Num. xiv. 44). Pan groesodd y genedl yr Iorddonen i Ganaan, yr arch yn cael ei chario gan yr offeiriaid oedd i fyned gyntaf (Josuah iii). Yn Gilgal ar wastadedd yr Iorddonen y gorphwysodd yr Arch gyntaf wedi cyrhaedd Canaan. Yr hanes cyntaf gawn am dani ar ol hyny yw yn cael ei chario gan yr offeiriaid leisiont mewn cyrn hyrddod o gwmpas dinas, Jericho. Cariwyd hi unwaith y dydd ganddynt am chwe niwrnod ac ar y seithfed aethpwyd a hi seithwaith o gwmpas y ddinas, pryd y syrthiodd y caerau (Josuah vi.). Yn nesaf, cawn Josuah yn aberthu o flaen yr Arch yn mynydd Ebal, ac yma y darllenodd ef y gyfraith i'r bobl (Josuah viii. 30-35). Gorphwysfan nesaf yr Arch oedd Bochim (Barn. ii. 1). Yna symudwyd hi i Siloh, lle y gosodwyd tabernacl i fyny (Josuah xviii. 1). Yma y bu hi hyd tua diwedd cyfnod y barnwyr. Ar ol hyn dygwyd hi gan y Philistiaid. Cafwyd hi yn ol drachefn, a bu am dymhor yn Bethshemesh ac yna yn Kiriath Jearim am ugain

inlynedd yn nhy Abinadab, a gofalid am dani gan Eleazer ei fab. Pan wnaed Dafydd yn frenin ar holl Israel, penderfynodd gael yr arch i Jerusalem i'r babell ar lechwedd Ophel. Cludodd hi gyn belled a thy Obededom, a bu yno dri mis cyn iddo ei dwyn i Jerusalem. Yna aeth a hi i Jerusalem a gosododd hi yn y babell a adeiladasai iddi. Y tro olaf y ceir cofnodiad am yr Arch mewn rhyfel yw yn 2 Sam. xi. 11, ac ni chawn son am dani ar ol i Solomon ei dwyn i'r deml a adeiladodd.

Ynddi y cedwid llechau y cyfamod neu y Deg Gorchymyn fel y sylwyd. Hefyd, ynddi yr oedd y crochan aur, yn yr hwn y cedwid omer o'r manna er coffadwriaeth am y porthi gwyrthiol fu ar y bobl yn yr anialwch (Exod. xvi. 14-36). Peth tebyg i ronynau llwydrew o ran ffurf, maint a lliw oedd y manna. Deuai bob bore a gorchymynid i bob un gasglu omer bob dydd ond y Sabbath. Rhaid oedd casglu y dwbl y Sadwrn erbyn y Sabbath. Er caleted oedd, toddai yng ngwres yr haul. Yr oedd ei flas fel mel. Gwelir yn y dyfyniad uchod mai Aaron osododd omer ohono mewn crochan, ac a osododd y crochan gerbron y dystiolaeth neu yn yr Arch.

Yn yr Arch yr oedd gwialen Aaron. Ceir hanes hon yn Num. xvii., lle y traethir ar y modd y gwnaed meibion Lefi yn offeiriaid. Gorchymynodd Duw i Moses ofyn i bob un o benaethiaid llwythau Israel i ddwyn gwialen a gosod yr oll o'r gwiail gerbron yr Arglwydd ym mhabell y dystiolaeth. Dywedodd hefyd y gwnai i wialen y sawl a ddewisai i flodeuo. Pan ddaeth Moses i'r babell dranoeth, yr oedd gwialen Aaron yr hon gynrychiolai dy Lefi, wedi blaguro, blodeuo, a dwyn almonau. Wedi i Moses ddangos y gwiail i feibion Israel, gorchymynodd Duw iddo osod gwialen Aaron gerbron y dystiolaeth, sef yn yr Arch yn bur debyg. Cynwysai yr Arch dri pheth pwysig iawn fel y gwelir, ac nid rhyfedd fod cymaint pwys yn cael ei roddi arni.

IV. Gofyniadau.

(1) Dadansoddwch y benod, ac eglurwch y dyledswyddau geir yn adn. 1-6.

(2) Beth yw dyledswydd dynion at dduwiolion fuont feirw? Esbon iwch yn ofalus adn. 8 yn ei pherthynas a'r cysylltiadau.

(3) Paham y rhybuddir i gadw rhag athrawiaethau dieithr, adn. 9?

(4) Eglurwch yn fanwl adn. 10-12, gan nodi y golygiadau geir arnynt.

(5) Pa ddyledswydd gyfyd o wirionedd adn. 10-12, yn ol yr adnodau a'u dilynant?

(6) Eglurwch gynwys amod ac amcan perffeithio, adn. 21.

(7) Paham yr anogai yr awdwr yr Hebreaid i oddef gair y cynghor, adn. 22? Pwy yw y rhai o'r Ital, adn. 25?

(8) Eglurwch y gwahaniaeth rhwng y tri phechod a nodir yn yr Epistol a dangoswch ym mha beth y maent yn debyg.

(9) Pa dair perthynas o eiddo pechod a ddatguddir yn yr Epistol? Esboniwch hwynt a dygwch adnodau i brofi eich golygiadau.

(10) Dywedwch yr oll a wyddoch am Arch y Cyfamod, a rhoddwch ddesgrifiad o'i chynwys.

from
brary
2024
ST. DEINIOLS
HAWARDEN
LIBRARY
081999